Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

LIC21-23

# Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus a ganlyn: awdurdodau lleol yng Nghymru neu Loegr; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru neu Loegr (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion); cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru neu Loegr; perchnogion academïau; timau troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu Loegr; personau sy'n gyfrifol am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr; y Byrddau Iechyd Lleol; ymddiriedolaethau'r GIG; Byrddau Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol; grwpiau comisiynu clinigol; ymddiriedolaethau sefydledig y GIG; ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.<br><br>Mae hefyd yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, awdurdodau lleol yng Nghymru, y Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG.<br><br>Mae hi'n ofynnol i Dribiwnlys Addysg Cymru roi ystyriaeth i unrhyw ddarpariaethau yn y Cod y mae'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol i gwestiwn a godir ar apêl o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf'). Mae hi'n ofynnol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir ac a ariennir gan awdurdod lleol roi ystyriaeth i'r canllawiau perthnasol yn y Cod, yn unol â threfniadau ariannu yr awdurdod lleol.<br>Disgrifiad o gynnwys y ddogfen |
| **Trosolwg** | Gwneir y Cod hwn o dan y Ddeddf, sydd, ynghyd â'r Cod hwn a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn darparu'r system statudol yng Nghymru i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Y nod yw sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael sylw yn ddi-oed, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial. |
| **Y camau y mae angen eu cymryd** | Gweler uchod |

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 062 6666

e-bost: additionallearningneedsbranch@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copiau ychwanegol**

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig

**Dogfennau cysylltiedig**

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021

© Hawlfraint y Goron 2021 IC42338 ISBN Digidol 978-1-80082-982-4

# Cynnwys


**Pennod 1: Cyflwyniad** **1**

Canllawiau yn y Cod y mae'n rhaid i bersonau perthnasol roi sylw iddynt 1
Gofynion y mae'r Cod yn eu gosod ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG 2
Dehongli termau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Cod 3
Gofynion amserlen 9
Arfer hawliau gan blant a Chyfeillion Achos a dehongli gofynion a osodir gan y Cod 12
Arfer hawliau gan gynrychiolwyr rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd a'r dehongliad o ofynion a osodir gan y Cod 13
Rhoi hysbysiadau neu gopïau o ddogfennau 16
Croesgyfeirio i rannau eraill o'r Cod 17
Trefniadau gweithredu 17
Partneriaid cyflwyno – rôl sefydliadau unigol yn y system ADY 17
Geirfa 21

**Pennod 2: Y diffiniad o ADY a DDdY** **28**

***Cyflwyniad*** 28
Y diffiniad o ADY 28
Y diffiniad o DDdY 29
Cymhwyso'r diffiniadau i blant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc 29
Cymhwyso'r diffiniadau i blant o dan oedran ysgol gorfodol 30
Canllawiau ar faterion yn ymwneud â'r diffiniad o ADY a'i gymhwysiad 31
Meysydd angen 35
DDdY 36

**Pennod 3: Egwyddorion y Cod** **38**

Rhoi'r egwyddorion ar waith 38

**Pennod 4: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc** **43**

Cyflwyniad 43
Cyfranogiad plant, eu rhieni a phobl ifanc 43
Y ddyletswydd ar waith 45
Adnabod sut yr hoffai plentyn neu berson ifanc gyfathrebu a chymryd rhan 45
Ystyriaethau ychwanegol wrth gynnwys a chefnogi rhieni plant ag ADY 49

**Pennod 5: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** **52**

Cyflwyniad 52
Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 54

Dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 56
Cyflawni'r dyletswyddau yn ymarferol 57

**Pennod 6: Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY 59**

Cyflwyniad 59
Trefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth 59
Amcanion a natur y cyngor a'r wybodaeth 60
Codi ymwybyddiaeth o drefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth 61
Hwylustod cael cyngor a gwybodaeth 62
Cynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc 63
Rôl ysgolion, sefydliadau addysg bellach a meithrinfeydd nas cynhelir yn y gwaith o hyrwyddo trefniadau gwybodaeth a chyngor awdurdodau lleol 63

**Pennod 7: Adolygu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY 65**

Cyflwyniad 65
Adolygu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY 65
Camau gweithredu i unioni diffygion 69
Cofnodi casgliadau 71

**Pennod 8: Rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (y CADY) 72**

Y ddyletswydd ar ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i ddynodi CADY 72
Rôl y CADY 73
Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau 77

**Pennod 9: Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ("SACDA”) 78**

Y ddyletswydd ar fyrddau iechyd lleol i ddynodi Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg 78
Profiad ac arbenigedd y SACDA 79
Rôl y SACDA 79

**Pennod 10: Rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar 84**

Y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddynodi swyddog arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar 84
Profiad ac arbenigedd Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar 85

**Pennod 11: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru 89**

Cyflwyniad 89
Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY 90
Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY 92
Llunio CDU 93

Cynnal CDU 94

**Pennod 12: Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru 96**

Cyflwyniad 96
Dyletswydd ysgol a gynhelir i benderfynu a oes gan ddisgybl ADY 96
Penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan blentyn ADY 98
Llunio CDU (ysgolion a gynhelir) 99
Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer plentyn ag ADY ond sydd heb CDU 100
Cynnal CDU (ysgolion a gynhelir) 102
Atgyfeirio achosion o ysgol a gynhelir at awdurdod lleol 103
Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn mewn ysgol a gynhelir ADY 105
Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY 108
Llunio CDU (Awdurdodau lleol) 109
Cynnal CDU (Awdurdodau lleol) 111
Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer plentyn gan yr awdurdod lleol 112
Cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i ysgol a gynhelir i lunio neu gynnal CDU 113
Dyletswydd ysgol a gynhelir i dderbyn plentyn os bydd awdurdod lleol wedi'i henwi at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn 116
Dyletswydd i sicrhau bod plant ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol 117

**Pennod 13: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir 118**

Cyflwyniad 118
Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY 118
Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY 120
Llunio CDU 121
Cynnal CDU 122

**Pennod 14: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal 124**

Cyflwyniad 124
Cymhwyso’r bennod hon 124
Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir mewn perthynas â phlentyn sy’n derbyn gofal 125
Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan blentyn sy’n derbyn gofal 125
Penderfyniad awdurdod lleol nad oes ADY gan blentyn sy’n derbyn gofal 128
Llunio CDU 129
Cynnal CDU 130
Pan nad yw plentyn neu berson ifanc yn blentyn sy’n derbyn gofal mwyach 132

**Pennod 15: Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir 133**

Cyflwyniad 133
Dyletswydd ysgol a gynhelir i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY 133
Penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan berson ifanc ADY 136
Llunio CDU (Ysgolion a gynhelir) 136
Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer person ifanc ag ADY ond sydd heb CDU 138
Cynnal CDU (Ysgolion a gynhelir) 140
Atgyfeirio achosion o ysgol a gynhelir at awdurdod lleol 140
Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan berson ifanc sy’n mynychu ysgol a gynhelir 143
Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc ADY 147
Llunio CDU (Awdurdodau lleol) 148
Cynnal CDU (Awdurdodau lleol) 150
Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau’r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer person ifanc gan yr awdurdod lleol 151
Cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i ysgol i lunio neu gynnal CDU 152

**Pennod 16: Dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach 156**

Cyflwyniad 156
Dyletswydd sefydliad addysg bellach i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY 156
Penderfyniad sefydliad addysg bellach nad oes gan berson ifanc ADY 159
Llunio CDU (sefydliad addysg bellach) 160
Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer myfyriwr ag ADY ond sydd heb CDU 161
Cynnal CDU (sefydliad addysg bellach) 163
Atgyfeirio achosion o sefydliad addysg bellach at awdurdod lleol 164
Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY 166
Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY 169
Llunio CDU (Awdurdodau lleol) 170
Cynnal CDU (Awdurdodau lleol) 171
Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer person ifanc gan yr awdurdod lleol 172

**Pennod 17: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach 174**

Cyflwyniad 174
Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY 175

Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc ADY 177
Penderfyniad awdurdod lleol ynghylch a oes angen CDU 178
Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer person ifanc 193
Penderfyniad awdurdod lleol nad yw'n angenrheidiol llunio a chynnal CDU ar gyfer person ifanc 195
Cynnal CDU ar gyfer y person ifanc 195

**Pennod 18: Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol 197**

Cyflwyniad 197
Plant a phobl ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir neu'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach (yn y ddau achos, yng Nghymru) 197
Plant a phobl ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol ac yn mynychu ysgolion a gynhelir, academïau neu sefydliadau addysg bellach yn Lloegr 198
Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol 199
Amgylchiadau eraill lle mae plant yn derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir 202
Plant a phobl ifanc y lluoedd arfog 203

**Pennod 19: Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw 205**

Cyflwyniad a thermau allweddol 205
Plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth 206
Plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 220

**Pennod 20: Adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol 232**

Cyflwyniad 232
Casglu tystiolaeth 232
Ystyried a defnyddio tystiolaeth 233
Pan mae'n ymddangos y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY 235
Penderfynu ar yr ADY a'r DDdY sy'n ofynnol 235
Yr ymateb graddedig ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY 236

**Pennod 21: Gwaith amlasiantaeth 238**

Cyflwyniad 238
Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol 238
Adnabod ADY mewn plant o dan oedran ysgol gorfodol - rôl cyrff iechyd a'r ddyletswydd i roi gwybod 240
DDdY gan gyrff y GIG 242

**Pennod 22: Cyfarfodydd am ADY a CDUau 247**

Cyflwyniad 247
Egwyddorion arfer dda ar gyfer cyfarfodydd 248
Lleoliad cyfarfodydd 252
Materion sy'n berthnasol i fathau penodol o gyfarfod 252
Cyfarfodydd i esbonio proses 253

Cyfarfodydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac, os oes angen, llunio CDU 253
Cyfarfodydd i adolygu a diwygio CDU 253
Cydlynu cyfarfodydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â mwy nag un cynllun 255

**Pennod 23: Llunio a chynnal CDU, a chynnwys yr CDU 256**

Cyflwyniad 256
Cynnwys y CDU 258
Rhan 1. 259
Rhan 2. 263
Rhan 3. 271
Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir 276
Lleoliadau mewn ysgolion annibynnol neu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol 278
DDdY y tu allan i Gymru a Lloegr 279
DDdY ar gyfer plentyn mewn mannau heblaw yn yr ysgol 279
Ystyriaethau eraill wrth lunio CDU 280

**Pennod 24: Llunio a chynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, a chynnwys yr CDU 281**

Cyflwyniad 281
Llunio CDU 281
Cynnwys y CDU 283

**Pennod 25: Adolygu a diwygio CDUau 285**

Cyflwyniad 285
Adolygu CDU 285
Cynnal adolygiadau 292
Casgliadau adolygiad 294

**Pennod 26: Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol a chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDUau 297**

Cyflwyniad 297
Ailystyriaeth gan yr awdurdod lleol o benderfyniad ysgol a gynhelir am ADY 297
Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o CDU ysgol a gynhelir 299
Awdurdod lleol yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach 301

**Pennod 27: Cynllunio ar gyfer proses bontio a'i chefnogi 304**

Cyflwyniad 304
Nodau cynlluniau pontio 305
Gwahanol fathau o bontio 305
Arferion da 306
Cynllunio ar gyfer pontio 307
Cefnogi'r broses bontio 309

**Pennod 28: Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU 314**

Cyflwyniad 314
Trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU 314
Canlyniadau trosglwyddo 320
Dyletswydd i sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall 321
Achosion lle nad yw’r ddyletswydd i gynnal CDU yn cael ei throsglwyddo, ond bod gan blentyn neu berson ifanc CDU blaenorol 322

**Pennod 29: Peidio â chynnal CDU 323**

Cyflwyniad 323
Pan fydd dyletswydd ysgol i gynnal CDU yn peidio 323
Pan fydd dyletswydd sefydliad addysg bellach i gynnal CDU yn peidio 324
Pan fydd dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio 325
Penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach 327
Hysbysu am benderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach 328
Pan fydd awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol i beidio â chynnal CDU 329
Penderfynu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc bellach 330
Hysbysiad o benderfyniad nad yw CDU yn angenrheidiol mwyach i berson ifanc 331
Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynlluniau er mwyn ei gwneud yn bosibl ailystyried a/neu apelio 331

**Pennod 30: Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd 333**

Cyflwyniad 333
Plant nad oes ganddynt alluedd 333
Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd 335

**Pennod 31: Cynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol 339**

Cyflwyniad 339
Asesu galluedd meddyliol person ifanc neu riant 340
Cynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc a rhieni nad oes ganddynt alluedd 340
Pwy gaiff fod yn gynrychiolydd at bwrpas y Rheoliadau Galluedd 341
Amddifadu o ryddid 342

**Pennod 32: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol 343**

Cyflwyniad 343
Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau 343
Cyfraniad cyrff iechyd at drefniadau osgoi a datrys anghytundebau 349
Dulliau eraill o herio 351
Gwasanaethau eirioli annibynnol 352

**Pennod 33: Apeliadau a cheisiadau i Dribiwnlys Addysg Cymru 357**

Cyflwyniad 357

Materion y gellir eu hapelio 357
Ceisiadau am ddatganiad ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd 359
Y penderfyniadau y gall y Tribiwnlys eu gwneud 359
Apeliadau gan blant 360
Amserlenni sy’n ymwneud â’r broses apeliadau a chydymffurfio â gorchmynion 360
Cyfnod y cais am apêl a’r datganiad achos 360
Amserlenni sy’n ymwneud â chydymffurfio â gorchymyn 361
Cyrff y GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys 361
Adolygu penderfyniadau’r Tribiwnlys ac apeliadau yn eu herbyn 362
Apeliadau i’r Uwch Dribiwnlys 362

**Atodiad A: Cynllun Datblygu Unigol (CDU): Ffurflen safonol 363**

**Atodiad B: Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal: Ffurflen safonol 371**

**Atodiad C: Y DDdY i'w sicrhau gan gorff perthnasol y GIG: Ffurflen nad yw'n orfodol 376**

# Pennod 1: Cyflwyniad

1.1. Dyroddir y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ("y Cod" neu "y Cod hwn")[1] o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf, ynghyd â'r Cod hwn a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn darparu'r system statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc. Mae'n rhoi'r lle canolog i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr yn y broses o gynllunio'r gefnogaeth sy'n ofynnol i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol a chyflawni eu potensial.

## *Canllawiau yn y Cod y mae'n rhaid i bersonau perthnasol roi sylw iddynt*

1.2. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau statudol[2] ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf (sy'n sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu ADY plant a phobl ifanc). Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau statudol am faterion eraill sy'n ymwneud ag adnabod ADY a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY, ac mae'n disgrifio'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys rhai yn y Ddeddf.

1.3. **Rhaid**[3] i'r awdurdodau cyhoeddus canlynol (y mae'r Cod yn cyfeirio atynt fel "personau perthnasol") roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf:

- awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
- perchennog Academi;
- tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
- person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth y GIG;
- Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- grŵp comisiynu clinigol;
- ymddiriedolaeth sefydledig y GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig[4].

[1] Adran 4(1) o'r Ddeddf.
[2] Adran 4(2) o'r Ddeddf.
[3] Adran 4(3) o'r Ddeddf.
[4] Gweler adran 99(1) o'r Ddeddf am ddiffiniadau sy'n ymwneud â'r cyrff hyn. Ceir diffiniadau perthnasol ychwanegol yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996. Gweler hefyd yr Eirfa yn y Cod hwn.

1.4. **Rhaid**[5] i Dribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys") roi sylw i unrhyw ddarpariaeth yn y Cod yr ymddengys iddo ei bod yn berthnasol i gwestiwn sy'n codi ar apêl o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

1.5. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir, a gyllidir gan awdurdod lleol[6], y mae'n ofynnol i ddarparwyr o'r fath, yn unol â gofynion cyllid yr awdurdod lleol, roi sylw iddynt[7].

1.6. Lluniwyd y Cod ar gyfer y rheini y mae'n ofynnol iddynt roi sylw iddo. Fodd bynnag, efallai y bydd o ddefnydd i eraill (e.e. darparwyr addysg eraill yng Nghymru, rhieni, cynghorwyr arbenigol neu eiriolwyr).

## *Gofynion y mae'r Cod yn eu gosod ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG[8]*

1.7. Mae'r Cod yn gosod gofynion[9] ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf i wneud trefniadau ar gyfer-

- darparu cyngor a gwybodaeth,
- osgoi a datrys anghytundebau; a
- darparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

1.8. Mae'r Cod yn gosod gofynion[10] ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac ar awdurdodau lleol mewn perthynas â-

- phenderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY,
- llunio, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol ("CDUau"), yn ogystal â'u ffurf a'u cynnwys, a
- pheidio â chynnal CDUau.

[5] Adran 4(10) o'r Ddeddf.
[6] Addysg feithrin a ariennir gan awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
[7] Adran 153 o Ddeddf Addysg 2002.
[8] Dim ond ar awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru y gosodir y gofynion hyn – gweler isod, lle yr eglurir bod cyfeiriadau at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn gyfeiriadau at rai yng Nghymru oni nodir yn wahanol. Gweler isod hefyd am y diffiniad o gorff y GIG. Dim ond cyrff sy'n rhan o'r GIG yng Nghymru yw'r rhain. Gweler isod hefyd am sut y dylid dehongli cyfeiriadau at ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn y gofynion hynny.
[9] Adran 4(5)(a) o'r Ddeddf.
[10] Adran 4(5)(b) o'r Ddeddf.

1.9. Mae'r Cod hefyd yn nodi'r hyn sy'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff y GIG ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau[11] i roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

## *Dehongli termau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Cod*

### Ystyr '**rhaid**', '**caiff/caniateir**' a '**dylai**' yn y Cod

1.10. Yn y Cod hwn, lle nodir gofyniad - boed yn y Ddeddf, rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf, wedi'i osod gan y Cod neu mewn deddfwriaeth arall - i berson (gan gynnwys corff) wneud rhywbeth, nodir bod yn **rhaid** i'r person wneud y peth hwnnw, a bydd troednodyn yn nodi ffynhonnell y gofyniad, er enghraifft yr adran berthnasol o'r Ddeddf.

1.11. Lle mae'r gyfraith yn gwahardd person neu gorff rhag gwneud rhywbeth, bydd y Cod yn nodi **na chaiff** person neu gorff gymryd y camau hynny, a bydd troednodyn yn esbonio ffynhonnell y gwaharddiad.

1.12. Lle rhoddir awdurdod neu ganiatâd i berson neu gorff wneud rhywbeth – er enghraifft, ar sail darpariaeth yn y Ddeddf neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf – nodir hynny drwy'r geiriad y **caiff** y person neu'r corff wneud y peth hwnnw, neu y **caniateir** iddo'i wneud, ac os oes ffynhonnell ar gyfer y pŵer penodol, bydd troednodyn yn nodi'r ffynhonnell honno.

1.13. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau statudol a dynodir y rhain yn y Cod gan y gair '**dylai**'. **Rhaid**[12] i berson perthnasol, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r person, wrth arfer swyddogaeth o dan Ran 2 o'r Ddeddf (er enghraifft gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY), ystyried yr hyn y mae'r Cod yn ei ddweud sy'n berthnasol i'r swyddogaeth. Os bydd y Cod hwn yn dweud y **dylai** person perthnasol wneud rhywbeth neu **na ddylai** wneud rhywbeth, mae'n ofynnol i'r person ystyried hyn *a'i* ddilyn oni bai ei fod yn gallu dangos bod cyfiawnhad dros beidio â'i ddilyn (ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol fyddai hyn yn aml). Bydd disgwyl i'r person perthnasol esbonio unrhyw benderfyniad i beidio â dilyn y canllawiau statudol

1.14. Nid yw'r Cod yn ceisio darparu canllawiau hollgynhwysfawr ar bob agwedd ar y system ADY. Yn benodol, bydd angen i bersonau perthnasol ystyried a chydymffurfio â'r gyfraith diogelu data a pholisïau prosesu a diogelu data eu sefydliad eu hunain wrth broses data personol a'u rhannu ag eraill.[13]

1.15. Wrth gyflawni eu swyddogaethau, bydd angen i'r personau perthnasol sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r gyfraith. Os bydd person

[11] O dan adrannau 7 ac 8 o'r Ddeddf.
[12] Adran 4(3) o'r Ddeddf.
[13] Mae gan wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau i sefydliadau ar gydymffurfio â'r gyfraith diogelu data. https://cy.ico.org.uk/

perthnasol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o’r gofynion sydd wedi’u gosod gan y Cod, y Ddeddf neu reoliadau cysylltiedig a wneir oddi tani neu o dan ddeddfwriaeth arall, gallai hynny, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, beri i'r Tribiwnlys wrthdroi penderfyniad, neu arwain at gyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru, arfer pwerau ymyrryd gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, cwyno i’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu gyflwyno cais llwyddiannus am adolygiad barnwrol. Mae Pennod 32 yn darparu mwy o wybodaeth am y materion hyn.

1.16. Gallai methu â chydymffurfio â’r canllawiau statudol yn y Cod hwn arwain at yr un canlyniad os nad yw'r personau perthnasol yn gallu cyfiawnhau peidio â dilyn y canllawiau.

**Plant a phobl ifanc**

1.17. At ddibenion y Cod a'r Ddeddf[14], diffinnir "plentyn" fel person nad yw dros oed ysgol gorfodol, a diffinnir "person ifanc" fel person sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 25 oed.

1.18. Ym Mhenodau 11 hyd 13, mae "plentyn", "plentyn mewn ysgol" a "plentyn nad yw mewn ysgol" yn cyfeirio at blant penodol (yn hytrach na phob plentyn), fel y nodir ar ddechrau'r Penodau hynny. Yn yr un modd, ym mhenodau 15 hyd 17, mae cyfeiriadau at "person ifanc mewn ysgol", "person ifanc mewn sefydliad addysg bellach" a "person ifanc" yn cyfeirio at bobl ifanc benodol (yn hytrach na phob person ifanc), fel y nodir ar ddechrau'r Penodau hynny.

**Plant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt**

1.19. At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, mae awdurdod lleol (hynny yw, un yng Nghymru) yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw'r plentyn neu'r person ifanc "yn ardal" yr awdurdod[15]. Esbonnir ystyr hyn ymhellach isod. O dan y system ADY, dim ond awdurdod lleol yng Nghymru all fod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc. Felly, os yw plentyn neu berson ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, at ddibenion y system ADY, nid oes awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc hwnnw.

1.20. Fodd bynnag, gall plant a phobl ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr fod yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir a gall pobl ifanc yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr fod wedi cofrestru'n fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach. Er mwyn i blant a phobl ifanc o'r fath gael hawliau effeithiol o dan y system ADY tra byddant yn ddisgybl neu'n fyfyriwr o'r fath, weithiau gall awdurdod lleol fod yn gyfrifol am arfer swyddogaethau penodol mewn perthynas â nhw. Mae Pennod 18 yn disgrifio'r sefyllfa ar gyfer plant mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac esbonnir y swyddogaethau hynny yn y mannau perthnasol yn y Cod.

[14] Adran 99(1) o’r Ddeddf.
[15] Adran 99(4) o’r Ddeddf.

1.21. Yn achos plentyn neu berson ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, mae cyfeiriadau yn y Cod at awdurdod lleol cyfrifol mewn perthynas ag awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol a gynhelir ar ADY[16] neu'n ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol a gynhelir[17], yn gyfeiriadau at yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i gofrestru fel disgybl.[18]

1.22. Yn achos plentyn neu berson ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, at ddibenion cyfeiriadau yn y Cod at drefniadau awdurdod lleol cyfrifol (o dan adran 9 o'r Ddeddf) ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol (hynny yw, yr un yng Nghymru)-

- sy'n cynnal yr ysgol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i gofrestru fel disgybl, neu
- y mae'r sefydliad addysg bellach, lle mae'r person ifanc wedi'i gofrestru fel myfyriwr, yn ei ardal.

1.23 Mae awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am rai plant a phobl ifanc nad ydynt yn ei ardal[19] at ddibenion ei ddyletswyddau i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol – ymdrinnir â hyn ym Mhennod 32.

**Pan fo plentyn neu berson ifanc mewn ardal awdurdod lleol**

1.24. Mae pa un a yw plentyn neu berson ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn dibynnu fel rheol ar ble mae'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio fel arfer. Mae hyn yn golygu y gall plentyn neu berson ifanc fod mewn ardal awdurdod lleol (ac felly'r mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano) pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu lleoliad addysgol mewn ardal awdurdod lleol arall neu hyd yn oed leoliad yn Lloegr. Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy'n cael ei roi mewn lleoliad mewn ardal awdurdod lleol arall, gall hyn olygu bod yr awdurdod lleol sy'n gofalu amdano yn wahanol i'r awdurdod lleol cyfrifol.

1.25. Ar gyfer achosion sydd ag elfen drawsffiniol Cymru/Lloegr, mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio'r term yn rhannol. <u>Nid</u> yw person mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru os yw'r person yn preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr oni bai:

- ei fod yn preswylio yn Lloegr o ganlyniad i leoliad o dan y Ddeddf, ac
- fel arall y byddai'r person yn preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

[16] O dan adran 26 o'r Ddeddf.
[17] O dan adran 27 o'r Ddeddf.
[18] Mae hyn yn adlewyrchu adran 87 o'r Ddeddf.
[19] P'un a ydynt mewn ardal awdurdod lleol arall neu awdurdod lleol yn Lloegr.

1.26. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, felly nid yw person mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr os yw'r person yn preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru oni bai:

- ei fod yn preswylio yng Nghymru o ganlyniad i leoliad o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, ac
- fel arall y byddai'r person yn preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.[20]

**Plant sy'n derbyn gofal**

1.27. Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am ADY a chynnal unrhyw CDUau ar gyfer pob plentyn y mae'n gofalu amdano ac sydd mewn ardal awdurdod lleol (h.y. un yng Nghymru, hyd yn oed os nad yw yn ardal yr awdurdod lleol sy'n gofalu amdano). Fodd bynnag, at ddibenion y Cod a'r Ddeddf, mae ystyr "plentyn sy'n derbyn gofal" ychydig yn wahanol i'w ystyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.28. At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol[21]-

(a) os yw yn derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (yn y bôn, mae hyn yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol a phlant sy'n cael eu lletya ganddo fel rhan o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a
(b) os nad yw'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.

1.29. Hefyd, nid yw plentyn yn derbyn gofal at ddibenion y Cod a'r Ddeddf, os nad yw'n ofynnol i gynllun addysg personol fod yn rhan o gynllun gofal a chymorth y plentyn o dan adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.[22] O dan y ddeddfwriaeth honno, nid oes angen cynllun addysg personol ar gyfer plentyn sydd:

(a) wedi'i roi i'w fabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002[23]; neu
(b) yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol am seibiannau byr[24].

1.30. At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, felly, mae ystyr arferol plentyn sy'n derbyn gofal yn fwy cul nag o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, **nid** yw person ifanc (sy'n rhywun dros oedran

---

[20] Adrannau 579(3A) a (3B) fel y'u diwygiwyd gan adran 95 o'r Ddeddf. Mae'r diffiniad hwn yn gymwys i'r Ddeddf: adran 99(6) o'r Ddeddf.
[21] Adran 15(1) o'r Ddeddf.
[22] Rheoliad 5 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[23] Ac eithrio pan fo'r plentyn (i) wedi ei remandio i lety awdurdod lleol neu, (ii) ar ôl cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd, yn preswylio mewn lleoliad cymeradwy neu leoliad arall oherwydd amod mechnïaeth mewn achos troseddol, a bod y plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yn union cyn i'r gofyniad i breswylio mewn lleoliad o'r fath gael ei osod.
[24] Gweler Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

ysgol gorfodol) sy'n derbyn gofal at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf 2014 honno yn derbyn gofal at ddibenion y Cod a'r Ddeddf.

1.31. Fodd bynnag, mewn rhai mannau yn y Cod, mae diffiniad ehangach i gyfeiriadau at blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal. Lle mae hyn yn wir, fe'i nodir yn y testun.

### Cyfeiriadau at fyfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn sefydliad addysg bellach

1.32. Nid yw cyfeiriadau at berson sy'n cofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yn cynnwys person sy'n fyfyriwr addysg uwch yn y sefydliad addysg bellach. Mae person yn fyfyriwr addysg uwch yn y sefydliad addysg bellach os yw'r person yn dilyn cwrs addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad ac nad yw hefyd yn cael addysg[25] neu hyfforddiant ganddo. Os yw person sydd wedi cofrestru fel myfyriwr yn y sefydliad addysg bellach yn cael addysg uwch ac addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliad addysg bellach, mae'r person i'w drin fel pe bai wedi cofrestru fel myfyriwr yn y sefydliad addysg bellach mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant ond nid mewn perthynas â'r addysg uwch.[26]

### Cyfeiriadau at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol

1.33. Mae cyfeiriadau at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn y Cod drwyddo draw yn gyfeiriadau at sefydliadau neu awdurdodau o'r fath yng Nghymru (ac felly nid ydynt yn cyfeirio at unrhyw rai yn Lloegr), oni nodir yn wahanol.

### Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach

1.34. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gofynion ar ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, neu ofynion sy'n cyfeirio at eu swyddogaethau, gan gynnwys, yn y ddau achos, rai yn Lloegr (p'un a'u gosodir gan y Ddeddf neu reoliadau) yn cael eu gosod ar gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, neu'n cyfeirio at swyddogaeth y corff llywodraethu hwnnw. Fodd bynnag, at ddibenion bod yn gryno, fel rheol mae'r disgrifiad yn y Cod o ofyniad o'r fath yn cyfeirio'n syml at ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, yn hytrach na chyfeirio at gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad bob tro.[27] Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol, gan mai staff sy'n gweithredu ar ran y corff llywodraethu i gyflawni swyddogaethau'r cyrff llywodraethu gan amlaf. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriadau hynny i'w dehongli fel rhai sy'n cyfeirio at y corff llywodraethu.

[25] Nid yw'r term "addysg" yn cynnwys addysg uwch: gweler yr eirfa.
[26] Adran 86 o'r Ddeddf.
[27] Dirprwyir swyddogaethau awdurdod lleol fel corff llywodraethu Uned Cyfeirio Disgyblion i Bwyllgor Rheoli'r Uned: gweler Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021.

1.35. Yn yr un modd, mae gofynion a osodir gan y Cod ar ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, a chyfeiriadau eraill ynddynt at swyddogaeth ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, yn cyfeirio at ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yn unig yn hytrach na chyfeirio at gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach. Yn unol â hynny, **rhaid**[28] dehongli darpariaethau'r Cod sy'n gosod gofynion ar ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, neu sy'n cyfeirio at swyddogaeth ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, fel gofynion a osodir ar y corff llywodraethu perthnasol, neu sy'n cyfeirio at swyddogaeth y corff llywodraethu perthnasol.

1.36. Yn yr un modd, mae canllawiau yn y Cod hwn ar gyfer ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (gan gynnwys yn y ddau achos, unrhyw un yn Lloegr) wedi’u cyfeirio at y corff llywodraethu perthnasol ac maent i'w dehongli felly.

**Cyrff iechyd a chyrff y GIG**

1.37. Yn y Cod drwyddo draw, defnyddir dau derm gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau iechyd oherwydd y dyletswyddau gwahanol sydd arnynt mewn perthynas â'r Ddeddf.

1.38. Mae'r term "corff iechyd" yn cyfeirio at y canlynol:

- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth y GIG;
- Grŵp comisiynu clinigol;
- ymddiriedolaeth sefydledig y GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig.

1.39. Mae'r term "corff y GIG" yn cyfeirio at y canlynol:

- Bwrdd Iechyd Lleol;
- ymddiriedolaeth y GIG.

**Termau eraill**

1.40. Ceir rhestr o'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Cod isod ar ôl paragraff 1.99. Mae geiriau a ddefnyddir yn y Cod yn yr unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall. Er enghraifft, mae gofyniad i hysbysu rhiant plentyn yn ofyniad i hysbysu'r holl rieni os oes gan y plentyn fwy nag un rhiant.

[28] Gan fod hyn yn rhan o'r gofynion a osodir gan y Cod.

## *Gofynion amserlen*

1.41. Mae'r Cod yn nodi gofynion amserlen amrywiol – mae'r rhain yn ofynion i gamau gael eu cymryd yn unol ag amserlen benodol, fel eu bod yn cael eu gwneud yn brydlon neu o fewn neu cyn diwedd cyfnod penodol. Mae llawer ohonynt yn ofynion a osodir gan y Cod ac mae rhai yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Fodd bynnag, mae'r gofynion amserlen yng nghyd-destun apeliadau i'r Tribiwnlys yn wahanol ac nid yw'r adran hon yn gymwys iddynt.[29] Ar gyfer gofynion a osodir gan y Cod neu ddisgrifiadau yn y Cod hwn o ofynion amserlen yn y Rheoliadau hynny, fel arfer maent yn y termau canlynol:

> ***Rhaid***[30] *i'r [corff cyfrifol] [gymryd y camau(au)] yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd [neu "o fewn"] y cyfnod [cyfnod penodol - x wythnos / x diwrnod ysgol / x diwrnod yn ystod y tymor] i [digwyddiad sbarduno ar gyfer dechrau'r amserlen]. Nid oes angen i [y corff cyfrifol] gydymffurfio â'r gofyniad i [wneud y pethau hynny] cyn diwedd y cyfnod hwnnw o [cyfnod penodol e.e. x wythnos] os nad yw'n ymarferol iddo wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.*

1.42. Ar gyfer gofynion amserlen fel hyn a osodir gan y Cod hwn neu yn Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, **ni chaiff**[31] y diwrnod y mae'r digwyddiad sbarduno yn digwydd gyfrif tuag at y cyfnod penodol. Mewn geiriau eraill, pan fo'r cyfnod penodedig yn dechrau o ddigwyddiad penodol (y digwyddiad sbarduno), nid yw diwrnod y digwyddiad hwnnw'n cyfrif ac mae'r cyfnod yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y digwyddodd y digwyddiad hwnnw (nodir y digwyddiadau sbarduno ar gyfer pob gofyniad amserlen ym mhob gofyniad). Er enghraifft, os oes rhaid i awdurdod lleol roi copi o CDU cyn diwedd 7 wythnos ar ôl cael cais i ailystyried penderfyniad ysgol ar ADY, pe bai'r awdurdod yn cael y cais hwnnw ar ddydd Llun, mae hyn yn golygu bod y cyfnod o 7 wythnos yn dechrau ar ddechrau'r diwrnod canlynol, y dydd Mawrth, ac yn dod i ben ar ddiwedd y dydd Llun sydd 7 wythnos yn ddiweddarach.

1.43. Fodd bynnag, os nad diwrnod gwaith yw diwrnod olaf cyfnod penodedig, **rhaid**[32] ymestyn y cyfnod penodedig i gynnwys y diwrnod gwaith nesaf. At y diben hwn, "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.

[29] Gweler Pennod 33 ar apeliadau a Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[30] Rhoddir ffynhonnell y gofyniad.
[31] Gofyniad a osodir gan y Cod mewn perthynas â gofynion amserlen a osodir gan y Cod. Mewn perthynas â gofynion amserlen a osodir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, effaith y Rheoliadau hynny ydyw.
[32] Gofyniad a osodir gan y Cod mewn perthynas â gofynion amserlen a osodir gan y Cod. Rheoliad 2(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 mewn perthynas â gofynion amserlen yn y Rheoliadau hynny.

1.44. Yn achos y rhan fwyaf o'r gofynion amserlen sy'n berthnasol i ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, mynegir y cyfnodau amser mewn diwrnodau ysgol yn achos ysgolion a gynhelir a diwrnodau tymor yn achos sefydliadau addysg bellach. Nodir ystyr y termau hyn yn yr eirfa. Ym mhob achos arall, mynegir y cyfnodau o amser mewn wythnosau, sy'n golygu wythnos galendr, heb gynnwys unrhyw wyliau banc neu wyliau neu gyfnodau cau eraill a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod amser, ac eithrio lle nad yw diwrnod olaf y cyfnod yn ddiwrnod gwaith (gweler y paragraff blaenorol).

1.45. Bydd y gofynion amserlen yn gymwys i ystod eang o amgylchiadau: achosion cymharol syml o anghenion lefel isel a hefyd achosion cymhleth iawn, lle y gallai fod angen mewnbwn gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Pennwyd y cyfnodau penodedig hyn gan ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau lle byddant yn berthnasol a'r pethau amrywiol y gallai fod angen iddynt ddigwydd er mwyn i'r corff cyfrifol gymryd y camau dan sylw, gan gynnwys cynnwys y plentyn, ei riant neu'r person ifanc yn y penderfyniadau. Os yw'n realistig bosibl i'r camau gael eu cymryd cyn diwedd y cyfnod penodedig, mae hyn yn ddymunol yng ngoleuni'r egwyddor o adnabod ac ymyrryd yn gynnar (gweler Pennod 3). Yn unol â hynny, mae gofynion amserlen yn cynnwys gofyniad yn y lle cyntaf bod y weithred (e.e., gwneud penderfyniad a rhoi hysbysiad ohono) yn cael ei wneud yn brydlon.

1.46. Bydd yr hyn y mae 'yn brydlon' yn ei olygu mewn unrhyw achos penodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol (yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar y plentyn, ei riant neu'r person ifanc dan sylw), yr hyn y mae angen ei wneud i gwblhau'r camau a pha mor fuan y gellir gwneud hynny'n rhesymol yng ngoleuni'r amgylchiadau unigol. Yn gyffredinol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i'r person sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad fwrw ati i gymryd y camau yn ddi-oed, er y gall fod adegau pan na ellir osgoi rhywfaint o oedi am resymau y tu hwnt i reolaeth y person hwnnw.

1.47. Mewn llawer o achosion byddai gweithredu'n brydlon yn galluogi'r camau i gael eu cymryd cyn diwedd y cyfnod penodedig. Er enghraifft, mewn rhai achosion efallai y bydd modd rhoi copi o CDU ar ddiwedd cyfarfod i drafod anghenion plentyn neu berson ifanc, pan fo'r CDU wedi ei ddatblygu a'i ysgrifennu fel rhan o'r cyfarfod hwnnw, ac nad yw'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc am ystyried y CDU drafft ymhellach (ar yr amod eu bod wedi cael gwybod bod ganddynt gyfle i wneud hynny a goblygiadau peidio â gwneud hynny). Hefyd, mewn rhai achosion, gallai'r ddyletswydd i weithredu 'yn brydlon' ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd weithredu'n llawer cynharach nag erbyn diwedd y cyfnod penodedig oherwydd yr amgylchiadau, er enghraifft pan fydd plentyn yn agosáu at ddiwedd ei addysg orfodol, neu pan fydd person ifanc yn dilyn cwrs byr.

1.48. Mae'r rhan fwyaf o'r gofynion amserlen hefyd yn darparu ar gyfer eithriad lle mae'n 'anymarferol' i'r corff cyfrifol gydymffurfio o fewn y cyfnod penodedig. Er mwyn osgoi amheuaeth, wrth lunio CDU, ni fydd yn 'anymarferol' cwblhau a rhoi copi o'r CDU o fewn y cyfnod penodedig os gellir disgrifio'r ADY a'r

DDdY mewn ffordd ystyrlon – hynny yw, DDdY a fydd o fudd o ran diwallu ADY hysbys y plentyn neu'r person ifanc. Hyd yn oed os bydd rhywfaint o dystiolaeth yn weddill sydd heb ei derbyn ac a allai roi darlun llawnach o raddau'r ADY neu'r DDdY – gan gynnwys, er enghraifft, lle y gellid bod wedi gofyn am ddiagnosis o gyflwr penodol ond ei fod heb ei dderbyn - os gellir llunio'r CDU, yna mae angen ei lunio.[33] Mewn achosion o'r fath, wrth i ragor o wybodaeth ddod i law, byddai'r corff cyfrifol yn penderfynu a yw'r dystiolaeth ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol adolygu a diwygio'r CDU (gweler Pennod 25).

1.49. Dim ond pan fo'n anymarferol cymryd y camau cyn diwedd y cyfnod penodedig oherwydd *'amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y [corff cyfrifol]*' y bydd yr eithriad yn gymwys. Darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd eithriadol yw hon, er enghraifft pan nad yw plentyn neu berson ifanc ar gael am gyfnod sylweddol oherwydd salwch, gwyliau ysgol neu wyliau sefydliad addysg bellach, ei fod allan o'r wlad neu reswm arall, sy'n ei gwneud yn anymarferol casglu'r dystiolaeth (e.e. drwy arsylwi neu asesiadau clinigol neu asesiadau eraill) yn ystod y cyfnod a fyddai'n galluogi'r corff i gydymffurfio o fewn y cyfnod amser penodedig.

1.50. Pan fo'r eithriad yn gymwys, hynny yw, pan fo'n anymarferol i'r corff gydymffurfio oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, mae'r corff yn dal i fod o dan y ddyletswydd i gwblhau'r camau gweithredu a'r ddyletswydd i wneud hynny'n brydlon. Er bod yr amgylchiadau yn golygu na all weithredu'n effeithiol am gyfnod penodol, pan na fydd yn anymarferol bellach iddo gydymffurfio oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, mae'r ddyletswydd i weithredu'n brydlon yn ei gwneud yn ofynnol iddo fwrw ymlaen â'r mater yn ddi-oed.

1.51. Os yw'n amlwg i ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol fod amgylchiadau a fydd yn atal neu'n debygol o atal camau gofynnol rhag cael eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig o amser y darperir ar ei gyfer gan ofyniad, a bod yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn penderfynu bod yr eithriad yn gymwys, **dylai** esbonio hyn yn ysgrifenedig i'r plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, rhiant y plentyn, y mae'r ddyletswydd yn ymwneud ag ef, cyn gynted â phosibl. Er enghraifft, dylai awdurdod lleol sydd o dan ddyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn ADY (o dan adran 11 o'r Ddeddf), hysbysu'r plentyn a'i riant y bydd y penderfyniad a'r gwaith o lunio unrhyw CDU (os penderfynir bod gan y plentyn ADY) yn cael eu gohirio oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth. Am ganllawiau ar achosion pan fydd personau perthnasol yn dibynnu ar yr eithriad mewn perthynas â cheisiadau o dan adran 65, a chyrff y GIG yn dibynnu arno mewn perthynas ag atgyfeiriadau o dan adran 20 o'r Ddeddf, gweler Pennod 21.

[33] I gydymffurfio â'r gofyniad o ran yr amserlen ac adrannau 12, 14 a 19 o'r Ddeddf.

## *Arfer hawliau gan blant a Chyfeillion Achos a dehongli gofynion a osodir gan y Cod*

1.52. Yn gyffredinol, mae gan blant, yn ogystal â’u rhieni, hawliau i gael dogfennau a hysbysiadau am benderfyniadau o dan y Ddeddf, i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ac ymdrechion i ddatrys anghydfod, ac i gyflwyno apêl yn eu henw eu hunain. O'r herwydd, yn y Ddeddf, y Cod a Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 drwyddynt draw, mae gofynion i:

- hysbysu plentyn am rywbeth;
- rhoi gwybod i blentyn am rywbeth;
- rhoi gwybodaeth benodol i blentyn;
- rhoi copi o CDU neu CDU diwygiedig i blentyn.

1.53. Mae dyletswyddau hefyd yn y Ddeddf ar awdurdodau lleol ac, yn achos adolygiad, ar ysgolion a gynhelir hefyd, i wneud y pethau canlynol yn dilyn cais gan blentyn:

- adolygu CDU;
- ailystyried mater;
- penderfynu a ddylid cymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU gan ysgol a gynhelir.

1.54. Hefyd, ni all awdurdod lleol wneud atgyfeiriad[34] at un o gyrff y GIG er mwyn iddo ystyried a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn, heb fod yr awdurdod lleol wedi rhoi gwybod i'r plentyn am yr atgyfeiriad arfaethedig ac wedi rhoi cyfle i'r plentyn drafod a ddylid ei wneud.

1.55. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r dyletswyddau hyn. Yn achos dyletswydd yn y Ddeddf, os yw'r ysgol neu'r awdurdod lleol o'r farn nad oes gan y plentyn alluedd, nid yw'r ddyletswydd (e.e. i roi gwybod i'r plentyn neu ailystyried mater) yn gymwys[35] ac mae'r disgrifiad yn y Cod o'r ddyletswydd i'w ddehongli yn unol â hynny. Ymdrinnir â hyn a'r eithriadau iddo ym Mhennod 30 (gweler paragraffau 30.6 hyd 30.9 yn benodol). Os oes gan y plentyn gyfaill achos, bydd yr hawliau hynny'n cael eu harfer gan y cyfaill achos[36] (gweler Pennod 30 i gael rhagor o wybodaeth am gyfeillion achos) ac mae'r disgrifiad o'r ddyletswydd yn y Cod i'w ddehongli yn unol â hynny.

1.56. Yn yr un modd, nid yw gofyniad yn y Cod sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu ysgol a gynhelir (sut bynnag y'i mynegir)-

- hysbysu plentyn o rywbeth,
- rhoi copi o CDU i blentyn, neu
- roi gwybodaeth benodol i blentyn, neu ddisgybl sy'n blentyn, wrth ei hysbysu am rywbeth neu roi copi iddo o CDU neu CDU diwygiedig,

[34] O dan adran 20 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 21.
[35] Adran 84 o'r Ddeddf.
[36] Adran 85 o'r Ddeddf.

yn gymwys os nad yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol a gynhelir neu'r awdurdod lleol (fel y bo'n berthnasol) hysbysu'r plentyn, rhoi copi o CDU (gan gynnwys un diwygiedig) iddo, neu gymryd camau eraill sy'n ymwneud ag ef wrth arfer y swyddogaeth y mae'r gofyniad yn ymwneud â hi.[37] **Rhaid**[38] dehongli'r gofynion yn y Cod fel hyn. Fodd bynnag, os oes gan y plentyn gyfaill achos, mae hawliau'r plentyn o dan y gofynion hynny i'w harfer gan y cyfaill achos ac yn unol â hynny, **rhaid**[39] i'r ysgol a gynhelir neu'r awdurdod lleol hysbysu'r cyfaill achos, neu roi'r copi o'r CDU neu wybodaeth i'r cyfaill achos a **rhaid**[40] dehongli'r gofynion fel hyn.

1.57. Er enghraifft, os bydd yn ofynnol ar ysgol a gynhelir i benderfynu a oes ADY gan blentyn sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol, bydd yr ysgol yn ddarostyngedig i ofynion a nodir ym Mhennod 12 i hysbysu'r plentyn ei bod yn penderfynu ar y mater, rhoi gwybodaeth benodol i'r plentyn gyda'r hysbysiad hwnnw a rhoi gwybodaeth benodol naill ai wrth hysbysu'r plentyn o'i phenderfyniad nad oes gan y plentyn ADY neu wrth roi copi o'r CDU y mae wedi'i lunio i'r plentyn. Os nad yw'r dyletswyddau yn y Ddeddf i hysbysu'r plentyn o benderfyniad nad oes gan y plentyn ADY neu i roi copi o'r CDU yn dilyn penderfyniad bod gan y plentyn ADY yn gymwys, nid yw'r gofynion cysylltiedig a osodir gan y Cod (i hysbysu'r plentyn neu i roi gwybodaeth i'r plentyn) yn gymwys ychwaith. Mae Pennod 30 yn ymdrin â phryd nad yw'r dyletswyddau hynny yn y Ddeddf yn gymwys.[41] Fodd bynnag, os oes gan y plentyn gyfaill achos, mae'n ofynnol i'r ysgol a gynhelir hysbysu a rhoi gwybodaeth i'r cyfaill achos yn lle hynny.

1.58. Nid oes dim o hyn yn effeithio ar ofynion i roi gwybod i riant y plentyn, i'w hysbysu neu i'w gynnwys fel arall. Nid yw ychwaith yn effeithio ar ofynion eraill ynghylch cynnwys plentyn wrth arfer swyddogaethau o dan y system ADY.

## *Arfer hawliau gan gynrychiolwyr rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd a'r dehongliad o ofynion a osodir gan y Cod*

1.59. Gall pobl ifanc a rhieni plant ddefnyddio cynrychiolydd i weithredu ar eu rhan wrth arfer hawliau o dan y Ddeddf os nad oes ganddynt alluedd ar yr adeg y mae'r hawliau i'w harfer. Esbonnir hyn ymhellach ym Mhennod 31. Mewn achosion pan nad oes gan berson ifanc neu riant plentyn alluedd ar yr adeg y mae angen cydymffurfio â gofyniad yn y Ddeddf neu pan geir arfer hawl yn y Ddeddf, mae angen ystyried Pennod 31 ochr yn ochr â'r Bennod berthnasol sy'n ymdrin â'r hawl neu'r gofyniad (gweler paragraff 31.8[42] yn benodol). Mae'r paragraffau canlynol yn ymdrin â sut y dylid dehongli

[37] Darpariaeth ddehongli sy'n rhan o'r gofynion a osodir gan y Cod yw hon.
[38] Gan fod hyn yn rhan o'r gofynion a osodir gan y Cod.
[39] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[40] Gan ei fod yn rhan o'r gofyniad a osodir gan y Cod.
[41] Gweler hefyd adran 84 o'r Ddeddf.
[42] Gweler Rhan 4 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 hefyd.

gofynion a osodir gan y Cod.

1.60. Os nad oes gan riant plentyn alluedd i wneud unrhyw un o'r canlynol (sut bynnag y'u mynegir), pan fydd angen cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y Cod, mae'r cyfeiriad perthnasol yn y gofyniad at riant y plentyn i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd rhiant-

- hysbysu rhiant plentyn (gan gynnwys rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn) am rywbeth;
- rhoi copi o CDU i riant plentyn;
- rhoi gwybodaeth benodol i riant plentyn (gan gynnwys rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth neu ddisgybl sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn blentyn) wrth hysbysu'r rhiant am rywbeth neu roi copi o CDU neu CDU diwygiedig i'r rhiant.

1.61. **Rhaid**[43] dehongli'r gofynion yn y Cod fel hyn.

1.62. Yn yr un modd, os nad oes gan berson ifanc alluedd i wneud unrhyw beth a restrir yng ngholofn chwith y tabl canlynol (sut bynnag y'u mynegir), pan fydd angen cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y Cod, mae'r gofyniad i'w ddarllen fel y nodir yn y cofnod cyfatebol yn y golofn dde:

| ***Gofyniad (sut bynnag y'i mynegir)*** | ***Dehongli'r gofyniad*** |
|---|---|
| hysbysu person ifanc, neu berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc, am rywbeth | mae'r cyfeiriad at y person ifanc neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd y person ifanc; |
| esbonio i berson ifanc (gan gynnwys un sy'n cael ei gadw'n gaeth) ganlyniadau cydsynio i benderfyniad ar ADY gael ei wneud a chanlyniadau peidio â chydsynio | mae'r cyfeiriad at y person ifanc i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd y person ifanc; |
| gofyn am gydsyniad person ifanc (gan gynnwys cydsyniad person ifanc sy'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth) i fater | mae cyfeiriad at gydsyniad y person ifanc i'w ddarllen fel cyfeiriad at gydsyniad cynrychiolydd y person ifanc; |
| rhoi copi o CDU i berson ifanc | mae'r cyfeiriad at y person ifanc i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd y person ifanc; |
| rhoi gwybodaeth benodol i berson ifanc neu i berson sy'n cael ei gadw'n gaeth neu ddisgybl sydd, yn y naill achos neu'r llall, yn berson ifanc, wrth hysbysu'r person ifanc, y person sy'n cael ei gadw'n gaeth neu'r disgybl am rywbeth | mae'r cyfeiriad at y person ifanc, y person sy'n cael ei gadw'n gaeth neu'r disgybl i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd y person ifanc. |

[43] Gan fod hyn yn rhan o'r gofynion a osodir gan y Cod.

| | |
|---|---|
| neu roi copi iddo o CDU neu CDU diwygiedig | |

1.63. Nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw gyfeiriadau eraill yn y gofynion hynny at y person ifanc. **Rhaid**[44] dehongli'r gofynion yn y Cod fel hyn.

1.64. Gellir dangos effaith hyn drwy'r enghraifft ganlynol. Gosodir gofynion amrywiol gan y Cod i wneud y canlynol:

- gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, i CDU gael ei lunio a'i gynnal.

1.65. Os nad oes gan y person ifanc alluedd, yr effaith yw bod y cyfeiriad at gydsyniad y person ifanc yn gyfeiriad at gydsyniad cynrychiolydd y person ifanc ond nid effeithir ar yr ail gyfeiriad at y person ifanc ("... y penderfyniad yw bod gan y *person ifanc* ADY ...").

1.66. Hefyd, mae'r paragraff canlynol yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Cod (gan gynnwys mewn darpariaeth sy'n ymdrin ag ystyr pryd mae'n ofynnol i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol benderfynu a oes gan berson ifanc ADY) sy'n cyfeirio at unrhyw un o'r canlynol (sut bynnag y'u mynegir)-

(a) cydsyniad person ifanc (gan gynnwys person ifanc sy'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth);
(b) person ifanc (gan gynnwys person ifanc sy'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth) sy'n cydsynio i fater;
(c) a yw person ifanc (gan gynnwys person ifanc sy'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth) yn cydsynio, ddim yn cydsynio neu'n gwrthwynebu mater;
(d) mewn unrhyw ffordd arall yn cyfeirio at gydsyniad person ifanc neu berson ifanc sy'n cydsynio (gan gynnwys pan fo'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth).

1.67. Os nad oes gan berson ifanc alluedd pan fo angen cydymffurfio â'r gofyniad mewn perthynas â'r person ifanc, mae cyfeiriad at y person ifanc sy'n ymwneud â'r cyfeiriad at gydsyniad neu ddiffyg cydsyniad (ond dim ond y cyfeiriadau hynny at y person ifanc), i'w ddarllen fel cyfeiriad at gynrychiolydd person ifanc. **Rhaid**[45] dehongli'r gofynion hynny yn y Cod fel hyn.

1.68. Gellir dangos effaith hyn drwy'r enghraifft ganlynol. Gosodir gofynion amrywiol gan y Cod i gofnodi'r canlynol:

(a) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i CDU gael ei lunio a'i gynnal, pryd a sut y rhoddwyd cydsyniad;
(b) pan fydd y person ifanc yn gwrthwynebu unrhyw un o'r materion hynny, pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc;

[44] Gan fod hyn yn rhan o'r gofynion a osodir gan y Cod.
[45] Gan fod hyn yn rhan o'r gofynion a osodir gan y Cod.

(c) os nad yw'r person ifanc wedi cydsynio i unrhyw un o'r materion hynny nac wedi gwrthwynebu, y camau a gymerwyd gan yr awdurdod i geisio cydsyniad y person ifanc ac egluro canlyniadau'r awdurdod yn penderfynu a oes gan y person ifanc ADY.

1.69. Os nad oes gan y person ifanc alluedd, mae'r cyfeiriadau yn y gofynion hyn at y "person ifanc", ac eithrio'r un olaf, i'w darllen fel "cynrychiolydd y person ifanc”.

## *Rhoi hysbysiadau neu gopïau o ddogfennau*

1.70. Yn y Cod drwyddo draw, cyfeirir at achosion pan fydd yn ofynnol i ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol (a fynegir fel '**rhaid**'):

(a) hysbysu person am rywbeth, neu
(b) rhoi dogfen i berson (gan gynnwys hysbysiad neu gopi o ddogfen).

1.71. Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at achosion pan **ddylai** ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol wneud y pethau hynny.

1.72. Ym mhob achos o'r fath, **caniateir**[46] rhoi'r hysbysiad neu'r ddogfen i'r person dan sylw—

(a) drwy ei draddodi neu ei thraddodi i’r person,
(b) drwy ei anfon neu ei hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad diweddaraf sy'n hysbys ar gyfer y person,
(c) drwy ei adael nei ei gadael yn y cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys ar gyfer y person[47], neu
(d) drwy ei anfon neu ei hanfon at y person yn electronig, ond **ni chaniateir**[48] gwneud hyn oni bai bod y person wedi nodi ei fod yn barod i dderbyn yr hysbysiad neu'r ddogfen yn electronig, a'i fod wedi darparu cyfeiriad addas i'r diben hwnnw i'r ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol.

1.73. Pan roddir hysbysiad neu ddogfen i'r person drwy ei anfon neu ei hanfon drwy'r post, ar yr amod bod y llythyr sy'n cynnwys yr hysbysiad neu'r ddogfen â chyfeiriad priodol arno, wedi'i dalu ymlaen llaw a'i bostio, caiff ei drin fel pe bai wedi'i roi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar yr adeg y byddai'r llythyr yn cyrraedd pen ei daith pe bai'r post yn rhedeg fel y dylai.[49] Pan

[46] Mae adran 88 o'r Ddeddf yn ymdrin â hysbysiadau etc. sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae rheoliad 3 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn ymdrin â'r rhai sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hynny ac mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â gofynion a chanllawiau yn y Cod. Mae rheoliad 3 hefyd yn cymhwyso hyn i hysbysiadau etc. gan Weinidogion Cymru.
[47] Gellir trin hysbysiad neu ddogfen a roddir i berson drwy ei adael neu ei gadael yn y cyfeiriad diweddaraf sy'n hysbys ar gyfer y person fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi ar yr adeg y gadawyd yr hysbysiad neu’r ddogfen yn y cyfeiriad hwnnw: adran 88(5) o'r Ddeddf a rheoliad 3 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[48] Adran 88 o'r Ddeddf, rheoliad 3 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 mewn perthynas â gofynion yn y Ddeddf a'r rheoliadau hynny.
[49] Adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978 ac adran 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

roddir hysbysiad neu ddogfen yn electronig (yn unol â'r amodau a nodir uchod), caiff ei drin fel pe bai wedi ei roi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod yr anfonwyd y cyfathrebiad electronig.[50]

1.74. Pan roddir dogfennau neu hysbysiadau o benderfyniadau i blant, eu rhieni neu bobl ifanc, dylid rhoi sylw i'r egwyddor o ddarparu gwybodaeth mewn iaith glir ac mewn fformatau a ffefrir gan ystyried unrhyw ddewisiadau neu anghenion cyfathrebu y rhai sy'n derbyn yr wybodaeth.

1.75. Mewn perthynas â phobl ifanc, nid yw’r dyletswyddau a’r gofynion yn y Ddeddf a’r Cod yn ymestyn i ddarparu hysbysiadau i rieni.

## *Croesgyfeirio i rannau eraill o’r Cod*

1.76. Yn y Cod drwyddo draw, ceir croesgyfeirio i rannau eraill o’r Cod. Unig fwriad llawer o'r rhain yw bod o gymorth i'r darllenydd drwy dynnu ei sylw at adran arall o'r Cod, sy'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol neu i dynnu sylw'r darllenydd at y ffaith bod gan derm neu gysyniad ystyr penodol. Fodd bynnag, ni ddarperir croesgyfeiriad ar gyfer pob cysylltiad rhwng gwahanol rannau o’r Cod, nac ar gyfer pob diffiniad, gan y byddai hyn yn gwneud y Cod yn anymarferol o hir. Os na roddir croesgyfeiriad, felly, ni ddylid tybio nad oes dim arall yn y Cod sy’n berthnasol i’r sefyllfa a ddisgrifir yn y testun dan sylw.

## *Trefniadau gweithredu*

1.77. Mae dull fesul cam yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r system ADY, a chaiff ei gweithredu o fis Medi 2021 (er i ddyletswyddau yn y Ddeddf i ddynodi CADY, SACDA a Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar ddod i rym ar 4 Ionawr 2021). Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system anghenion addysgol arbennig. Bydd y system honno’n dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar y trefniadau gweithredu.

## *Partneriaid cyflwyno – rôl sefydliadau unigol yn y system ADY*

1.78. Bydd cyfraniad nifer o bersonau a chyrff yn hwyluso’r gwaith o ddatblygu CDUau a chyflwyno’r DDdY er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Caiff prif rôl y personau a'r cyrff hynny o fewn y system ADY ei disgrifio isod.

[50] Adran 88 o'r Ddeddf a rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

## Llywodraeth Cymru

1.79. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am alluogi'r cyrff cyflwyno a restrir isod i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai ag ADY. Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau amrywiol mewn perthynas â darparu addysg, gan gynnwys addysg bellach, a phwerau ymyrryd mewn perthynas â materion addysg.

## Awdurdodau lleol

1.80. Mae'r Ddeddf yn gosod ystod o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag ADY, a gellir eu grwpio fel a ganlyn:

- dyletswyddau penodol - mewn perthynas â dysgwyr unigol (y rheini o fewn eu hardal fel rheol), e.e. dyletswyddau i gynnal CDUau ar gyfer rhai dysgwyr (gan gynnwys dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn dau leoliad a'r rheini sydd ag anghenion mwy cymhleth) a'r ddyletswydd i ailystyried penderfyniadau a wneir gan gyrff llywodraethu ysgolion.
- dyletswyddau cyffredinol - i gefnogi sut mae'r system ADY yn gweithio a'i heffeithiolrwydd - gan gynnwys y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor, y ddyletswydd i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn barhaus a'r dyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

1.81. Yn ogystal, mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau addysg cyffredinol - sy'n ymwneud â chynnal ysgolion a darparu addysg, gan gynnwys pwerau ymyrryd pan fydd ysgolion yn methu yn eu dyletswyddau.

1.82. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth neu ddifrifol a'r rhai nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach (gan gynnwys y rhai sy'n iau na'r oedran ysgol).

## Ysgolion a gynhelir yng Nghymru

1.83. Mae gan ysgolion a gynhelir rôl allweddol i'w chwarae o ran adnabod ADY ac o ran cyflwyno DDdY i gefnogi dysgwyr ag ADY. Maent yn gyfrifol yn uniongyrchol am adnabod a diwallu anghenion y rhan fwyaf o'u disgyblion sydd ag ADY. Yn achos plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru fodd bynnag, fel rheol dyletswydd yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn fydd adnabod ADY, llunio CDU a sicrhau'r DDdY. Yn yr achosion hynny pan fo awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer disgybl mewn ysgol a gynhelir, gan gynnwys achosion plant sy'n derbyn gofal ond heb fod yn gyfyngedig i'r achosion hynny, mae dyletswydd[51] ar yr ysgol i gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a bennir yn y CDU. Bydd perthynas dda â'r awdurdod lleol dan sylw ac asiantaethau eraill yn helpu ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau.

[51] Adran 47(4) a (5) o'r Ddeddf. Gweler Penodau 12 a 15.

## Unedau cyfeirio disgyblion

1.84. At ddibenion y system ADY, mae uned cyfeirio disgyblion yn ysgol a gynhelir[52]. Yn achos uned cyfeirio disgyblion, y pwyllgor rheoli sydd i gyflawni swyddogaethau a osodir ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir[53].

## Darparwyr addysg feithrin nas cynhelir

1.85. Mae rôl gan ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir a gyllidir gan awdurdodau lleol, o ran cefnogi awdurdodau lleol i adnabod ADY ac o ran helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

1.86. Mae Penodau 6, 10 ac 11 yn rhoi canllawiau penodol sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir a gyllidir gan awdurdodau lleol. Gall Penodau eraill fod yn berthnasol neu o ddiddordeb i ddarparwyr o'r fath hefyd, er enghraifft, Pennod 2 ar y diffiniad o ADY a DDdY.

1.87. Efallai y bydd y rhannau hyn o'r Cod yn berthnasol hefyd i ddarparwyr eraill nas cynhelir ym maes addysg a gofal plant cyn-ysgol.

## Sefydliadau addysg bellach

1.88. Mae gan sefydliadau addysg bellach rôl allweddol i'w chwarae o ran adnabod ADY ac o ran cyflwyno DDdY i gefnogi dysgwyr ag ADY. Yn gyffredinol, maent yn gyfrifol yn uniongyrchol am adnabod a diwallu anghenion y rhan fwyaf o'u myfyrwyr sydd ag ADY. Yn yr achosion hynny pan fo awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn sefydliad addysg bellach, mae dyletswydd[54] ar y sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod i sicrhau'r DDdY a bennir yn y CDU. Bydd perthynas dda â'r awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn helpu sefydliadau addysg bellach i gyflawni eu dyletswyddau.

1.89. Nid yw dyletswyddau sefydliad addysg bellach o dan y system ADY yn ymestyn i fyfyrwyr addysg uwch (gweler uchod).

## Ymarferwyr addysgu

1.90. Bydd pob ymarferwr addysgu yn addysgu ac yn cefnogi dysgwyr ag ADY. Dylai pob ymarferwr addysgu fynd ati i ddysgu yn rheolaidd am ADY drwy sesiynau proffesiynol, beth bynnag yw eu profiad blaenorol, eu cymwysterau neu eu lleoliad addysg. Mae ymarferwyr addysgu yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain; yn ogystal, dylid adnabod gofynion dysgu proffesiynol yn rhan o broses gynllunio'r lleoliad addysg a phroffiliau

[52] Gweler y diffiniad o "ysgol a gynhelir" yn adran 99(1) o'r Ddeddf a'r eirfa isod.
[53] Dirprwyir swyddogaethau awdurdod lleol o dan y Ddeddf fel corff llywodraethu uned cyfeirio disgyblion i Bwyllgor Rheoli'r uned: gweler Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021.
[54] Adran 47(4) a (5). Gweler Pennod 16.

dysgu proffesiynol ymarferwyr. Bydd ymarferwyr addysgu sydd angen gwella eu gwybodaeth neu eu sgiliau mewn perthynas â gwahanol fathau o ADY yn gallu cael gafael ar wybodaeth, arweiniad, adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol, sydd wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r consortia rhanbarthol ac ysgolion. Bydd amrywiaeth eang o gefnogaeth ar gael ar ffurf ddigidol, yn ogystal â thrwy ddigwyddiadau a rhaglenni dysgu proffesiynol.

**Cyrff y GIG**

1.91. Mae gan gyrff y GIG rôl hollbwysig o ran adnabod ADY a darparu gwybodaeth neu gymorth arall i awdurdodau lleol. At hyn, mae gan gyrff y GIG rôl uniongyrchol o ran darparu DDdY mewn achosion pan fo'r DDdY honno yn driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc. Ystyr triniaeth neu wasanaeth perthnasol yw un y byddai un o gyrff y GIG yn ei ddarparu'n arferol fel rhan o wasanaeth iechyd cynhwysfawr Cymru. Mae Pennod 21 yn ymdrin â'r materion hyn, er bod llawer o Benodau eraill yn berthnasol i gyrff y GIG hefyd.

1.92. Mae'r Cod hefyd yn nodi'r hyn sy'n ofynnol gan gyrff y GIG i gyflawni eu dyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Pobl ag Anableddau: gweler Pennod 5.

**Personau perthnasol yn Lloegr**

1.93. Mae gan Fwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, grwpiau comisiynu clinigol, ymddiriedolaethau sefydledig y GIG, awdurdodau iechyd arbennig ac awdurdodau lleol yn Lloegr, yn ogystal â chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yn Lloegr a pherchnogion academïau swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae dyletswydd arnynt i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall o gael cais[55] a rhoi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod[56] ac - yn achos grwpiau comisiynu clinigol, ymddiriedolaethau sefydledig y GIG ac awdurdodau iechyd arbennig, dyletswydd i roi gwybod i rieni ac awdurdodau lleol eu bod o'r farn bod ADY gan blentyn penodol sydd o dan oedran ysgol gorfodol neu ei bod yn debygol bod ganddo ADY[57].

1.94. Mae canllawiau i'r cyrff hyn ar arfer y swyddogaethau hyn i'w gweld ym Mhennod 21. Gweler y paragraff nesaf i gael gwybod am ddyletswyddau timau troseddau ieuenctid ardal yn Lloegr a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yn Lloegr.

[55] Adran 65 o'r Ddeddf.
[56] Adran 4 o'r Ddeddf.
[57] Adran 64 o'r Ddeddf.

### Timau troseddwyr ifanc a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol (boed yng Nghymru neu yn Lloegr)

1.95. Mae'r system ADY yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae rôl benodol i'w chwarae gan dimau troseddwyr ifanc ardal yng Nghymru neu yn Lloegr, a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr, o ran adnabod ADY a chyflwyno cefnogaeth i blant a phobl ifanc perthnasol. Eu swyddogaethau o dan y Ddeddf yw'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall o gael cais[58] a rhoi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod[59]. Hefyd, yn achos person sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol, mae'r Ddeddf yn hwyluso'r ffordd i'r person hwnnw gyfrannu at benderfyniadau ynghylch a oes gan y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY a'r gwaith o lunio unrhyw CDU[60].

1.96. Mae canllawiau sy’n arbennig o berthnasol i dimau troseddwyr ifanc a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol i'w gweld ym Mhennod 19.

### Ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

1.97. Mae llawer o blant a phobl ifanc ag ADY yn mynychu ysgolion annibynnol neu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol. Nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol roi sylw i'r Cod, ac nid yw'n gosod unrhyw ofynion arnynt. Serch hynny, gallai canllawiau a gwybodaeth yn y Cod fod o ddefnydd i ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o ran deall y system ADY a'r rhan y gallent ei chwarae er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr ag ADY.

## *Geirfa*

1.98. Mae'r rhestr isod yn rhoi ystyr geiriau ac ymadroddion, gan gynnwys byrfoddau, a ddefnyddir yn y Cod hwn. Defnyddir llawer o'r termau yn y Ddeddf ac maent yn dwyn yr un ystyr yn y Cod ag y maent yn y Ddeddf. Dylid dehongli rhannau ymadrodd neu ffurfiau gramadegol eraill, neu addasiadau o dermau a ddiffinnir yn yr eirfa yn yr un modd (er enghraifft, mae "cofrestriad deuol" i'w ddehongli yn yr un modd â "wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad" ac "addysgol" yn yr un modd ag "addysg”).

1.99. Os nad yw term neu ymadrodd yn y Cod hwn wedi'i ddiffinio yn yr eirfa ond ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf, mae'n dwyn yr un ystyr ag sydd iddo yn y Ddeddf oni bai bod bwriad i'r gwrthwyneb i’w weld. Mae Adran 99 o'r Ddeddf yn darparu diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Ddeddf (er bod y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu hailadrodd yn yr eirfa). Os

[58] Adran 65 o'r Ddeddf.
[59] Adran 4 o'r Ddeddf.
[60] Adran 40 o'r Ddeddf.

oes term neu ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf ond nas diffinnir ynddi yn cael ei ddiffinio yn Neddf Addysg 1996 (gweler adrannau 579 a 580), mae'n dwyn yr ystyr yn Neddf Addysg 1996 (er enghraifft, ystyr "oedran ysgol gorfodol", yr ymdrinnir â'r term Saesneg "*compulsory school age*" yn adran 8 o Ddeddf Addysg 1996).[61]

| |
|---|
| Mae **"addysg"** (*"education"*) yn cynnwys addysg amser llawn a rhan-amser, ond nid yw'n cynnwys addysg uwch. |
| Ystyr **"addysg uwch"** ("*higher education*") yw addysg a ddarperir drwy gwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ac ystyr "cwrs addysg uwch" yw unrhyw gwrs o'r fath. |
| Mae i **"anghenion dysgu ychwanegol"** (*"additional learning needs"*) neu **"ADY"** yr ystyr a roddir gan adran 2 o'r Ddeddf, sef:<br><br>(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.<br><br>(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—<br>(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu<br>(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.<br><br>(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.<br><br>(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.<br><br>Mae Pennod 2 yn ymdrin â'r diffiniad o ADY. |
| Mae i **"asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal"** yr ystyr a roddir i "EHC needs assessment" gan adran 36(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, sef asesiad o anghenion addysgol, gofal iechyd a gofal cymdeithasol plentyn neu berson ifanc. |
| Diffinnir **"awdurdod cartref"** (*"home authority"*) yn adran 39 o'r Ddeddf i fod â'r ystyr a roddir gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996, yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau o dan adran 39(2) o'r Ddeddf.<br><br>Mae paragraff 19.12 yn esbonio hyn ymhellach. |

[61] Adran 99(6) a (7) o'r Ddeddf.

| |
|---|
| Ystyr **"awdurdod lleol"** (_"local authority"_) yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, ac eithrio pan fo cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at awdurdod lleol yn Lloegr (i gael gwybod ystyr hynny, gweler adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996).<br>Gweler hefyd baragraff 1.33 (mae cyfeiriadau at awdurdod lleol yn cyfeirio at rai yng Nghymru yn unig oni nodir yn wahanol). |
| Mae i **"awdurdod lleol perthnasol"** (_"relevant local authority"_) yr ystyr a roddir gan reoliad 21 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, a esbonnir ym mharagraff 19.80. Dim ond yng nghyd-destun plant neu bobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 y mae'r term yn berthnasol. |
| Ystyr **"Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol"** (_"National Health Service Commissioning Board"_) yw corff a sefydlir o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006. |
| Ystyr **"Bwrdd Iechyd Lleol"** (_"Local Health Board"_) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. |
| Mae **"y Cod"** ("_the Code_") ac **"y Cod hwn"** ("_this Code_")yn cyfeirio at y Cod hwn. |
| Mae **"cofrestriad deuol"** ("_dual registered_") mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc yn golygu bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i gofrestru fel disgybl neu fel myfyriwr mewn mwy nag un ysgol neu sefydliad addysg bellach, neu mewn ysgol a sefydliad addysg bellach (lle mae o leiaf un o'r sefydliadau yn ysgol a gynhelir neu'n sefydliad addysg bellach) ar yr un pryd, a lle mae'r plentyn neu'r person ifanc i gael addysg neu hyfforddiant yn y ddau sefydliad lle mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi cofrestru fel disgybl neu fel myfyriwr[62]. |
| Ystyr **"corff GIG"** (_"NHS body"_) yw—<br>(a) Bwrdd Iechyd Lleol, neu<br>(b) ymddiriedolaeth y GIG. |
| Mae **"corff iechyd"** ("_health body_") yn golygu:<br>• Bwrdd Iechyd Lleol;<br>• ymddiriedolaeth y GIG;<br>• grŵp comisiynu clinigol;<br>• ymddiriedolaeth sefydledig y GIG;<br>• Awdurdod Iechyd Arbennig. |
| Mae i **"corff llywodraethu"** (_"governing body"_) mewn perthynas â sefydliad addysg bellach yr ystyr a roddir gan adran 90 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.<br><br>Am ystyr **"corff llywodraethu"** mewn perthynas ag ysgol a gynhelir (gan gynnwys un yn Lloegr) nad yw'n uned cyfeirio disgyblion, gweler adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 ac ar gyfer uned cyfeirio disgyblion, gweler adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 ac Atodlen 1 i'r Ddeddf honno (gan gynnwys rheoliadau a wneir o dan yr Atodlen honno). |
| Ystyr **"cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol"** ("_additional learning needs co-ordinator_") neu **"CADY"** ("ALNCo") yw person a ddynodwyd, yn unol ag adran 60 o'r Ddeddf, gan ysgol a gynhelir (ac eithrio ysgol arbennig) neu sefydliad addysg bellach i fod yn gyfrifol am gydlynu DDdY ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (fel y bo'n berthnasol) ag ADY. |

[62] Gweler adran 30(1) a (3) o'r Ddeddf.

| |
|---|
| Ystyr **"cyfaill achos"** (*"case friend"*) yw person a benodir gan y Tribiwnlys o dan adran 85 o'r Ddeddf. |
| Ystyr **"cynllun Addysg, Iechyd a Gofal"** (*"EHC plan"*) yw cynllun o fewn adran 37(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. |
| Mae i **"cynllun addysg personol"** (*"personal education plan"*) yr ystyr a roddir gan adran 15(4) o'r Ddeddf, sef y cynllun sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun gofal a chymorth a gynhelir ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal o dan adran 83(2A) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Mae i **"cynllun datblygu unigol"** (*"individual development plan"*) neu **"CDU"** (ac y cyfeirir ato weithiau fel y "cynllun") yr ystyr a roddir gan adran 10 o'r Ddeddf, sef dogfen sy'n cynnwys:<br>(a) disgrifiad o ADY person;<br>(b) disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani;<br>(c) unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf. |
| Mae i gyfeiriad at berson sy'n **"ddarostyngedig i orchymyn cadw"** ("*subject to a detention order*") (sut bynnag y'i mynegir) yr ystyr a roddir i "subject to a detention order" gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996.<br><br>Mae paragraff 19.3 yn esbonio hyn ymhellach. |
| Mae i **"darpariaeth ddysgu ychwanegol"** (*"additional learning provision"*) neu **"DDdY"** yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf, sef:<br><br>(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—<br>(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,<br>(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu<br>(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.<br><br>(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.<br><br>(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.<br><br>Mae Pennod 2 yn ymdrin â'r diffiniad o DDdY. |
| Mae i **"DDdY briodol"** ("*appropriate ALP*") ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth yr ystyr a roddir gan adran 42(9) o'r Ddeddf, sef:<br><br>(a) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun datblygu unigol,<br><br>(b) os ymddengys i'r awdurdod cartref nad yw'n ymarferol i'r DDdY a bennir yn y cynllun gael ei darparu, darpariaeth addysgol sy'n cyfateb mor agos â phosibl i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno, neu<br><br>(c) os ymddengys i'r awdurdod cartref nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun yn briodol mwyach ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n |

| |
|---|
| gaeth, darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod cartref yn ystyried ei bod yn briodol. |
| Mae i **"dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth"** *("beginning of the detention"*) yr ystyr a roddir gan adran 39 o'r Ddeddf, sef yr ystyr a roddir gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996. |
| Mae **"y Ddeddf"** ("*the Act*") yn cyfeirio at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. |
| Ystyr **"diwrnod tymor"** ("*term time day*"), mewn perthynas â sefydliad addysg bellach, yw diwrnod pan fydd disgwyl i'r sefydliad addysg bellach gyfarfod er mwyn addysgu myfyrwyr cyn belled â bod y diwrnod o fewn cyfnod pan fydd y sefydliad addysg bellach yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'i gyrsiau amser llawn. |
| Ystyr **"diwrnod ysgol"** ("*school day*"), mewn perthynas ag ysgol a gynhelir, yw unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno, ac eithrio mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, pan mae'n golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr uned yn cwrdd. |
| Ystyr **"grŵp comisiynu clinigol"** ("*clinical commissionng group*") yw corff a sefydlir o dan adran 14D o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006. |
| Mae **"hyfforddiant"** (*"training"*) yn cynnwys—<br>(a) hyfforddiant amser llawn a rhan-amser;<br>(b) hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden. |
| Mae i **"llety ieuenctid perthnasol"** (*"relevant youth accommodation"*) yr ystyr a roddir gan adran 39 o'r Ddeddf, sef yr ystyr a roddir gan adran 562(1A)(b) o Ddeddf Addysg 1996.<br><br>Mae paragraff 19.4 yn nodi'r sefydliadau sy'n llety ieuenctid perthnasol. |
| Ystyr **"perchennog"** (*"proprietor"*), mewn perthynas ag Academi neu sefydliad nad yw'n ysgol, yw'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r Academi neu'r sefydliad. |
| Ystyr **"person ifanc"** (*"young person"*) yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed.<br><br>Mewn rhai penodau, mae cyfeiriadau at berson ifanc yn cyfeirio at bobl ifanc benodol yn unig yn hytrach na phob person ifanc: gweler paragraff 1.18. |
| Mae i **"person sy'n cael ei gadw'n gaeth"** (*"detained person"*) yr ystyr a roddir gan adran 39 o'r Ddeddf, sef plentyn neu berson ifanc sydd-<br>(a) yn ddarostyngedig i orchymyn cadw, a<br>(b) sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. |
| Cyfeiria **"personau perthnasol"** ("*relevant persons*") at yr awdurdodau cyhoeddus a restrir ym mharagraff 1.3. |
| Ystyr **"plentyn"** (*"child"*) yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (o fewn yr ystyr a roddir i *"compulsory school age"* gan adran 8 o Ddeddf Addysg 1996.)<br><br>Mewn rhai penodau, mae cyfeiriadau at blentyn yn cyfeirio at blant penodol yn unig yn hytrach na phob plentyn: gweler paragraff 1.18. |
| **"plentyn sy'n derbyn gofal"** ("*looked after child*")– mae i gyfeiriad (sut bynnag y'i mynegir) at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yr ystyr a roddir gan adran 15 o'r Ddeddf, sef plentyn- |

| |
|---|
| (a) nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,<br>(b) nad yw'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth, ac<br>(c) nad yw'n perthyn i gategori o blant sy'n derbyn gofal a ragnodir mewn rheoliadau fel rhai nad ydynt i'w trin fel plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf.<br>O bryd i'w gilydd yn y Cod mae iddo ystyr ehangach a lle mae hyn yn wir, nodir hynny.<br><br>Gweler paragraffau 1.27 hyd 1.31 hefyd. |
| Mae i **"rhiant"** yr ystyr a roddir i *"parent"* yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r diffiniad hwnnw yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac unrhyw berson sydd â gofal dros y plentyn.[63] |
| Ystyr **"sefydliad addysg bellach"** ("*further education institution*") yw sefydliad sy'n dod o fewn cwmpas adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.<br><br>At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, ystyrir bod sefydliad addysg bellach:<br>(a) yng Nghymru os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;<br>(b) yn Lloegr os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.<br><br>Gweler hefyd baragraffau 1.33 (mae cyfeiriadau at sefydliadau addysg bellach yn cyfeirio at y rhai yng Nghymru yn unig oni nodir yn wahanol) ac 1.34 (dehongli'r gofynion ar sefydliadau addysg bellach). |
| Mae i **"sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol"** ("*independent special post-16 institution*") yr ystyr a roddir gan adran 56(6) o'r Ddeddf, sef sefydliad sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi'i drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nad yw'n—<br>(a) sefydliad yn y sector addysg bellach,<br>(b) ysgol annibynnol sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru (a gedwir o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002),<br>(c) sefydliad addysgol annibynnol (o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008), sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr (a gedwir o dan adran 95 o'r Ddeddf honno), neu<br>(d) Academi 16 i 19. |
| Ystyr **"sefydliad prif ffrwd yn y sector addysg bellach"** (*"mainstream institution in the further education sector"*) yw sefydliad addysg bellach nad yw wedi ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag ADY. |
| Ystyr **"seicolegydd addysg"** ("*educational psychologist*"), at ddibenion gofynion a osodir gan y Cod ar awdurdodau lleol ynghylch ceisio cyngor gan seicolegydd addysg, yw person a gyflogir yn rheolaidd gan yr awdurdod lleol fel seicolegydd |

[63] Mae Cylchlythyr Rhif 12/2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys canllawiau ar gyfer ysgolion ar ystyr "Rhieni" a "Cyfrifoldeb rhiant" at ddibenion Deddf Addysg 1996, sydd, adeg cyhoeddi'r Cod, i'w weld yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/rhieni-a-cyfrifoldeb-rhiant-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-cy.pdf.

| |
|---|
| addysg neu a gyflogir gan yr awdurdod fel seicolegydd addysg yn yr achos unigol. |
| Mae i **"swyddog adolygu annibynnol"** (*"independent reviewing officer"*) yr ystyr a roddir gan adran 15(3) o'r Ddeddf, sef y swyddog a benodir o dan adran 99 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer achos plentyn. |
| Mae **"swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar"** ("e*arly years additional learning needs lead officer*")yn golygu swyddog a ddynodir yn unol ag adran 62 o'r Ddeddf gan awdurdod lleol i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. |
| Ystyr **"swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig"** ("*designated education clinical lead officer*") neu **"SACDA"** ("*DECLO*") yw swyddog a ddynodir, yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf, gan Fwrdd Iechyd Lleol i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. |
| Ystyr **"system ADY"** ("*ALN system*") yw'r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer yn Rhan 2 o'r Ddeddf. |
| Ystyr **"tîm troseddwyr ifanc"** ("*youth offending team*") yw tîm a sefydlir o dan adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. |
| Ystyr **"Tribiwnlys"** (*"Tribunal"*) yw Tribiwnlys Addysg Cymru (gweler adran 91 o'r Ddeddf). |
| Mae i **"uned cyfeirio disgyblion"** yr ystyr a roddir i "pupil referral unit" gan adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996. |
| Ystyr **"UNCRC"** yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac ystyr **"UNCRPD"** yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Gweler paragraff 5.1 am ragor o fanylion amdanynt. |
| Ystyr **"ymddiriedolaeth GIG"** (*"NHS trust"*) yw ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlir o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. |
| Mae i **"ymddiriedolaeth sefydledig GIG"** yr ystyr a roddir i ("*NHS foundation trust*") gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006. |
| Ystyr **"ysgol a gynhelir"** (*"maintained school"*) yw—<br>(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,<br>(b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty,<br>(c) ysgol feithrin a gynhelir, neu<br>(d) uned cyfeirio disgyblion.<br><br>O ran y diffiniad o "ysgol a gynhelir", mae i ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ac ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, yr ystyr a roddir gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac mae'r diffiniad yn cynnwys ysgolion a gynhelir yn Lloegr.<br><br>Gweler hefyd baragraffau 1.33 (mae cyfeiriadau at ysgol a gynhelir yn cyfeirio at y rhai yng Nghymru yn unig oni nodir yn wahanol) ac 1.34 (dehongli gofynion ar ysgolion a gynhelir). |
| Ystyr **"ysgol brif ffrwd a gynhelir"** (*"mainstream maintained school"*) yw ysgol a gynhelir (boed yng Nghymru neu yn Lloegr)—<br>(a) nad yw'n ysgol arbennig, neu<br>(b) nad yw'n uned cyfeirio disgyblion. |

# Pennod 2: Y diffiniad o ADY a DDdY

## *Cyflwyniad*

2.1. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ystyr ADY a DDdY ac ar faterion sy'n berthnasol i adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol.

2.2. O dan y diffiniadau o ADY a DDdY, gallai unigolyn o unrhyw oedran fod ag ADY, ond gan mai diben y system ADY yw diwallu ADY plant a phobl ifanc, mae'r bennod hon yn egluro ystyr ADY a DDdY drwy gyfeirio at blant a phobl ifanc yn unig.

## *Y diffiniad o ADY*

2.3. Mae adran 2 o'r Ddeddf yn diffinio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY), fel y'i nodir yn ffigur 1.

**Ffigur 1: y diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol**

**2 Anghenion Dysgu Ychwanegol**

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn sydd o’r oedran ysgol gorfodol neu berson sy’n hŷn na’r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu

(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy’n ei atal neu’n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o’r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.

(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

## *Y diffiniad o DDdY*

2.4. Mae adran 3 o'r Ddeddf yn diffinio'r term 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' (DDdY), fel y'i nodir yn ffigur 2.

**Ffigur 2: y diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol**

**3 Darpariaeth ddysgu ychwanegol**

(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—

(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,

(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu

(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.

(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.

## *Cymhwyso'r diffiniadau i blant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc*

2.5. Er mwyn sefydlu a oes gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson ifanc ADY, **rhaid**[1] cymhwyso'r profion canlynol.

(a) A oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd?

2.6. Yn gyntaf, a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd (a allai ddeillio o gyflwr meddygol neu beidio)? Mae adran 2(2) (a nodir yn ffigur 1 uchod) yn ymdrin ag ystyr hyn i blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson ifanc.

2.7. Y cwestiynau allweddol i'w gofyn, felly, yw:

i. A yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael mwy o anhawster[2] wrth ddysgu na mwyafrif y plant neu bobl ifanc o'r un oedran?

[1] Fel y'u nodir yn y diffiniad yn adran 2(1) y Ddeddf.
[2] Mae adran 2 (2) (a) yn defnyddio'r term "anhawster *sylweddol* fwy i ddysgu", ond bydd y cwestiwn a yw anhawster i ddysgu yn *sylweddol* fwy yn dibynnu ar gymhwyso'r ail brawf (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am DDdY) felly nid oes angen ystyried y pwynt hwn ar hyn o bryd. Gweler isod i gael gwybod mwy am hyn.

ii. A oes gan y plentyn neu’r person ifanc anabledd (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010[3]) sy’n atal neu’n llesteirio'r plentyn neu’r person ifanc rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o’r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir[4] neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach[5]?

2.8. Os mai 'oes/ydy' yw'r ateb i'r naill gwestiwn neu'r llall (neu'r ddau), mae angen bwrw ymlaen gyda'r ail brawf. Os mai 'nac oes/nac ydy' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn, nid oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

(b) A yw'r anhawster dysgu neu anabledd yn galw am DDdY?

2.9. Yr ail brawf yw a yw anhawster dysgu neu anabledd y plentyn neu'r person ifanc yn galw am DDdY. Mae adran 3(1) (a nodir yn ffigur 2 uchod) yn ymdrin ag ystyr DDdY ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson ifanc.

2.10. Gall DDdY fod ar sawl ffurf; gallai gynnwys unrhyw gymorth o fewn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd neu'r tu allan iddi, sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn a gynigir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran. Gellir cyflwyno DDdY hefyd mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach mewn rhai amgylchiadau a/neu gan weithwyr proffesiynol allanol.

2.11. Os oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY, mae gan y plentyn neu'r person ifanc ADY at ddibenion y Ddeddf.

## *Cymhwyso'r diffiniadau i blant o dan oedran ysgol gorfodol*

2.12. Mae cymhwyso'r profion ychydig yn wahanol ar gyfer sefydlu a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY.

**(a) A oes gan y plentyn anhawster dysgu neu anabledd?**

2.13. Y prawf cyntaf o hyd yw a oes gan y plentyn anhawster dysgu neu anabledd, ond mae ystyr hynny ychydig yn wahanol. Mae'n golygu a yw'r plentyn, pan fydd o oedran ysgol gorfodol, neu p'un a fyddai pe na châi DDdY, yn debygol o fod ag:[6]

---

[3] Darperir ar gyfer ystyr 'anabledd' at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn adran 6(1), (5) a (6) o'r Ddeddf honno, ac Atodlen 1 iddi, ynghyd â rheoliadau a wnaed o dan Atodlen 1 a chanllawiau Gweinidog y Goron ar faterion i'w hystyried wrth benderfynu a oes gan berson anabledd.
[4] Ysgolion a gynhelir (sy'n cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) nad ydynt yn ysgol arbennig neu'n uned cyfeirio disgyblion yw'r rhain: adran 99(1) o’r Ddeddf.
[5] Ystyr sefydliad addysg bellach prif ffrwd yw sefydliad yn y sector addysg bellach nad yw wedi’i drefnu’n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag ADY: adran 99(1) o’r Ddeddf.
[6] Gweler adran 2(3) o'r Ddeddf sydd wedi'i nodi yn ffigur 1 uchod.

i. anhawster sylweddol fwy[7] i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
ii. anabledd (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) sy’n atal neu’n llesteirio'r plentyn rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o’r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir.

**(b) A yw'r anhawster dysgu neu’r anabledd yn galw am DDdY?**

2.14. Mae'r ail brawf hefyd yr un fath ag ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc, sef p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am DDdY. Fodd bynnag, yn achos plant o dan dair oed, mae DDdY yn golygu darpariaeth addysgol *o unrhyw fath*[8]. I'r rheini sy'n dair oed a throsodd, mae i DDdY yr un ystyr ag ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc (fel y'i nodir uchod). Mae'r diffiniad o DDdY ar gyfer plant o dan dair oed ychydig yn wahanol i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r plant hyn o oedran lle mae addysg a gynhelir ar gael fel mater o drefn.

2.15. Gall DDdY ar gyfer y rhai sydd o dan dair oed fod ar sawl ffurf; er enghraifft, gwaith grŵp neu gymorth unigol - lle mae'n ddarpariaeth addysgol o unrhyw fath. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, darpariaeth addysgol yn Dechrau'n Deg neu gymorth iechyd, corfforol, cyfathrebu neu synhwyraidd arbenigol. Gall hyn ddigwydd o fewn lleoliad addysg neu yn rhywle arall.

## *Canllawiau ar faterion yn ymwneud â'r diffiniad o ADY a'i gymhwysiad*

2.16. Mae gweddill y bennod hon yn rhoi canllawiau pellach ar yr agweddau canlynol ar y diffiniadau neu faterion sy'n ymwneud ag ADY:
(a) Anhawster i ddysgu;
(b) Anhawster sylweddol fwy i ddysgu;
(c) Anabledd;
(d) Iaith (neu ffurf ar iaith);
(e) Cyflyrau meddygol;
(f) Meysydd angen;
(g) DDdY.

### Anhawster i ddysgu

2.17. Mae llawer o blant a phobl ifanc yn debygol ar ryw adeg o brofi problemau tymor byr gyda'u dysgu, er enghraifft oherwydd cyfnod o absenoldeb o leoliad addysg a achosir gan salwch dros dro, neu oherwydd eu bod wedi dioddef profedigaeth neu ryw drawma arall. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen i ysgolion a sefydliadau AB gymryd camau i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddal i fyny a/neu i atal y broblem rhag gwaethygu. Ni fyddai'r sefyllfaoedd hyn fel arfer yn cyfateb i ADY ynddynt

[7] Gweler isod i gael gwybod mwy am hyn.
[8] Gweler adran 3(2) o'r Ddeddf sydd wedi'i nodi yn ffigur 2 uchod.

eu hunain, ond mae'n bosibl mewn rhai achosion y gallai digwyddiadau o'r fath arwain at anhawster i ddysgu sy'n galw am DDdY (e.e. pan fydd salwch dros dro yn cael effaith niweidiol barhaol).

2.18. Nid yw plant a phobl ifanc a ystyrir yn 'fwy abl a thalentog' yn cael *anhawster i ddysgu* ar sail eu gallu neu eu talent uwch. Efallai y bydd y plant a'r bobl ifanc hyn angen mwy o gyfleoedd a her er mwyn cyrraedd eu llawn botensial, ond dylid darparu hyn fel rhan o addysgu gwahaniaethol.

**Anhawster sylweddol fwy i ddysgu**

2.19. Mae un agwedd ar y diffiniad o ADY yn cynnwys bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael (neu yn achos plentyn o dan oedran ysgol gorfodol, yn debygol o gael pan fydd o oedran ysgol gorfodol[9]) "anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran" (adran 2(2)(a) a (3) o'r Ddeddf, a nodir yn ffigur 1 uchod). Os yw plentyn neu berson ifanc yn cael (neu'n debygol o gael) mwy o anhawster wrth ddysgu na mwyafrif y lleill o'r un oedran, mae p'un a yw (neu'n debygol o fod) yn anhawster *sylweddol* fwy wrth ddysgu o gymharu â'r rhai eraill yn dibynnu ar raddau'r ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant y bydd yr anhawster yn gofyn amdani (neu'n debygol o alw amdani). Os yw'r anhawster yn gofyn am (neu os yw'r anhawster tebygol yn gofyn am) ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach (er enghraifft, mesurau fel darpariaeth dal i fyny neu strategaethau addysgu gwahaniaethol yn fwy cyffredinol), ni fyddai'n cyfrif fel anhawster sylweddol fwy i ddysgu. Ond os yw'r ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant y mae'r anhawster yn gofyn amdano (neu y mae'r anhawster tebygol yn gofyn amdano) yn DDdY, mae'n (neu bydd yn) anhawster sylweddol fwy i ddysgu.

2.20. Yn unol â hynny, wrth gymhwyso'r prawf cyntaf (a ddisgrifir uchod) ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson ifanc, nid oes angen ystyried a yw anhawster wrth ddysgu yn sylweddol bryd hynny, oherwydd os ydyw, bydd yr ail brawf (p'un a yw'n galw am DDdY) yn cael ei fodloni.

2.21. Ar gyfer plentyn o dan oedran ysgol gorfodol, fel rhan o'r prawf cyntaf, mae angen ystyried a yw anhawster dysgu y mae'r plentyn yn debygol o'i gael pan fydd o oedran ysgol gorfodol yn anhawster sylweddol fwy i ddysgu na mwyafrif ei gyfoedion o'r oedran hwnnw (h.y. oedran ysgol gorfodol). Mae pa un a yw'n anhawster sylweddol fwy i ddysgu yn dibynnu o hyd ar a fyddai'r anhawster dysgu yn galw am DDdY pan fydd y plentyn o oedran ysgol gorfodol (h.y. darpariaeth sy'n fwy neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir).

2.22. Mewn rhai achosion, bydd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf ei bod yn debygol bod anhawster dysgu yn ddigon sylweddol i alw am DDdY, ac os felly bydd y ddyletswydd i benderfynu a oes gan yr unigolyn ADY yn berthnasol. Mewn achosion eraill, efallai mai dim ond pan fydd anhawster wrth ddysgu wedi

[9] At y dibenion hyn, cymerir yn ganiataol na wneir unrhyw DDdY yn y cyfamser.

parhau am gyfnod hwy, er gwaethaf yr ymyriadau arferol, y bydd hi'n ymddangos y gallai'r anhawster fod yn ddigon sylweddol i alw am DDdY ac felly mae'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan yr unigolyn ADY yn berthnasol.

2.23. Mae’n bwysig nodi y gall plentyn neu berson ifanc fod yn hyfedr iawn mewn un rhan o'i addysg ond ei fod yn cael 'anhawster sylweddol fwy i ddysgu’ na mwyafrif y lleill o'r un oedran oherwydd anawsterau mewn rhannau eraill o'u haddysg.

2.24. Wrth ystyried a yw person yn cael mwy o anhawster *i ddysgu* na mwyafrif y rhai eraill sydd o'r un oedran, mae'n bwysig nodi hefyd mai mater o ennill gwybodaeth neu sgiliau yw dysgu, y gellir gwneud hynny mewn llawer o wahanol ffyrdd, ac y gall y broses amrywio yn ôl oedran y dysgwr. Er enghraifft, mae plant bach yn dysgu drwy chwarae a phrofiad, yn hytrach na thrwy ddulliau mwy ffurfiol sy'n fwy cyffredin i blant hŷn, fel cyfarwyddyd neu astudio.

**Anabledd**

2.25. Ni fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anabledd (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ADY. Dim ond pan fydd anabledd y plentyn neu'r person ifanc yn ei atal neu ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysgol neu hyfforddi o'r math a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau AB prif ffrwd, ac mae hyn yn galw am DDdY, y bydd ganddo ADY[10] (oni bai bod ganddo ADY oherwydd bod ganddo *anhawster dysgu* sy'n galw am DDdY).

2.26. I gyfrif fel ADY, nid oes angen i anabledd effeithio ar fynediad at gyfleusterau addysgol neu hyfforddi ym mhob maes dysgu ond gallai fod, er enghraifft, yn nam corfforol nad yw ond yn effeithio ar fynediad at gyfleusterau addysg gorfforol ac yn galw am DDdY mewn perthynas ag addysg gorfforol yn unig. Efallai fod plentyn neu berson ifanc hyd yn oed yn perfformio'n dda ar draws pob maes o'r cwricwlwm ond bod ganddo ADY serch hynny oherwydd bod ganddo anabledd sy'n ei atal neu ei rwystro rhag gwneud defnydd llawn o gyfleusterau addysg neu hyfforddiant oni bai y gwneir DDdY ar ei gyfer.

2.27. Mae rhai ffurfiau ar anabledd lle mae natur yr anabledd yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan y dysgwr ADY. Er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cofrestr o'r rheini o fewn eu hardal sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw, neu sydd â chyfuniad o'r ddau, i'r graddau y mae'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau pob dydd[11]. Mae plant neu bobl ifanc ar y gofrestr hon yn fwy tebygol o fod ag ADY yn rhinwedd y ffaith bod y nam yn

[10] Adran 2(1) a 2(2)(b) o'r Ddeddf. Yn achos plentyn o dan oedran ysgol gorfodol, bydd gan y plentyn ADY dim ond os yw'r plentyn, pan fydd o oedran ysgol gorfodol, (neu os byddai’r plentyn pe na fyddai DDdY) yn debygol o fod ag anabledd a fyddai'n atal neu'n rhwystro'r plentyn rhag defnyddio cyfleusterau addysgol neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran (h.y. oedran ysgol) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir ac mae hyn yn galw am DDdY yn awr: adran 2(1) i (3) o'r Ddeddf.
[11] Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

debygol o'u hatal neu eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol neu hyfforddi ac mae'n debygol o alw am DDdY. Ym mhob achos, cymhwyso'r profion a nodir ym mharagraffau 2.5 i 2.15 a fydd yn pennu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY (yn hytrach nag, er enghraifft, a yw ar y gofrestr ai peidio).

**Iaith (neu ffurf ar iaith)**

2.28. Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd - a bod ganddo ADY[12].

2.29. Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar y rheini y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt er mwyn cyflawni eu potensial, ond nid yw hynny'n golygu bod ganddynt ADY. Wedi dweud hynny, pan fydd Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol i blentyn neu berson ifanc, a bod ei gynnydd yn araf (er gwaethaf addysgu gwahaniaethol i'w helpu), dylid ystyried a oes problem ehangach.

2.30. Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth geisio adnabod a oes gan y rheini nad yw Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt ADY. Mae angen ystyried pob agwedd ar ddysg a datblygiad plentyn neu berson ifanc wrth asesu a yw ei anhawster yn deillio o'r ffaith bod Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddo, neu a yw'n deillio o ADY. Dylai'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol edrych yn ofalus ar bob agwedd ar berfformiad plentyn neu berson ifanc ar draws y cwricwlwm er mwyn sefydlu a yw unrhyw anawsterau sydd ganddo yn deillio o gyfyngiadau yn ei allu yn yr iaith a ddefnyddir, neu a yw'n deillio o ADY.

**Cyflyrau meddygol**

2.31. Mewn rhai achosion, gall cyflyrau meddygol gael effaith sylweddol ar brofiadau plentyn neu berson ifanc ac ar y ffordd y mae'n gweithredu yn yr ysgol neu addysg bellach, fel eu bod yn arwain at anhawster dysgu neu anabledd o fewn ystyr y term hwnnw (a nodir yn Ffigur 1 uchod). Gallai'r effaith fod yn uniongyrchol, hynny yw ar ei allu gwybyddol neu gorfforol, ei ymddygiad neu ei gyflwr emosiynol. Gallai'r effaith fod yn anuniongyrchol ar yr un pryd, neu'n anuniongyrchol yn unig, er enghraifft drwy amharu ar ei allu i fanteisio ar addysg yn sgil effeithiau triniaeth neu'r effeithiau seicolegol y gall salwch neu anabledd difrifol neu gronig eu cael ar blentyn neu berson ifanc a'i deulu.

2.32. Fodd bynnag, ni fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd â chyflwr meddygol ADY. Fel yn achos dysgwyr eraill, y cwestiwn bob amser yw p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY. Bydd yna achosion lle nad oes gan blentyn neu berson ifanc â chyflwr meddygol anhawster dysgu neu anabledd, neu os oes

[12] Adran 2(4) o'r Ddeddf, a nodir uchod yn ffigur 1.

ganddo, nid yw'r anhawster dysgu neu anabledd yn galw am DDdY. Yn yr achosion hyn, dylid diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc drwy ddulliau eraill.

2.33. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Gefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn mynd i'r afael â'r trefniadau i'w gwneud gan ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr o dan 18 oed sydd ag anghenion gofal iechyd yn cynnwys rhai sy'n deillio o gyflwr meddygol.

## *Meysydd angen*

2.34. Ceir ystod eang o anableddau neu anawsterau dysgu ond gellir eu dosbarthu'n fras i'r pedwar maes canlynol:
(a) Cyfathrebu a rhyngweithio;
(b) Gwybyddiaeth a dysgu;
(c) Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol;
(d) Synhwyraidd a/neu gorfforol.

### Cyfathrebu a rhyngweithio

2.35. Gall rhai plant a phobl ifanc brofi anhawster mewn un agwedd, rhai agweddau neu bob agwedd ar leferydd, iaith a chyfathrebu. Gall y maes angen hwn gynnwys plant a phobl ifanc sydd ag oediad, namau neu anhwylderau lleferydd ac iaith, anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia a dyspracsia, nam ar y clyw a'r rheini sy'n dangos nodweddion o fewn y sbectrwm awtistig; gall hefyd gwmpasu rhai plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys. Bydd ystod yr angen yn cynnwys y rhai y mae anawsterau iaith a chyfathrebu yn deillio o nam synhwyraidd neu gorfforol parhaol.

### Gwybyddiaeth a dysgu

2.36. Gall rhai plant a phobl ifanc sy’n dangos nodweddion o anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys, neu anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia a dyspracsia fod angen rhaglenni penodol i gynorthwyo eu cynnydd mewn gwybyddiaeth a dysgu. Efallai y bydd gan rai o’r plant a’r bobl ifanc hyn anawsterau synhwyraidd, corfforol ac ymddygiadol sy’n gysylltiedig.

### Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol

2.37. Bydd rhai plant a phobl ifanc yn dangos nodweddion anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Efallai y byddant wedi mynd i'w cragen neu ymbellhau; gallant fod yn aflonyddgar ac yn annifyr, yn orfywiog neu gael trafferth canolbwyntio; efallai na fydd eu sgiliau cymdeithasol wedi datblygu'n llawn; neu efallai y byddant yn ymddwyn yn heriol.

### Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol

2.38. Mae'r maes angen hwn yn cynnwys yr ystod eang o anawsterau synhwyraidd, amlsynhwyraidd a chorfforol. Mae'r ystod synhwyraidd yn ymestyn o fyddardod neu nam ar y golwg dwys a pharhaol drwodd i lefelau llai o golled, a all fod yn rhai dros dro yn unig. Gall namau corfforol ddeillio o achosion corfforol, niwrolegol neu fetabolig sy'n gofyn am fynediad priodol at gyfleusterau ac offer addysgol yn unig; gall eraill arwain at anghenion dysgu a chymdeithasol mwy cymhleth; bydd gan rai plant a phobl ifanc anawsterau aml-synhwyraidd, rhai ohonynt ag anawsterau corfforol cysylltiedig.

## *DDdY*

2.39. Mae Penodau 11 i 17 yn amlinellu'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i lunio CDU; mae Pennod 20 yn ymdrin ag adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy’n ofynnol; mae Pennod 23 yn ymdrin â llunio CDUau a’r hyn y dylent ei gynnwys, gan gynnwys dyletswyddau ynghylch a ddylid cyflwyno'r DDdY drwy'r Gymraeg, a phryd y dylai cyrff y GIG ei chyflwyno (mae rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau cyrff iechyd ym Mhennod 21); ac mae Pennod 24 yn delio â chynnwys CDU plant sy’n derbyn gofal.

2.40. Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, a bod rhaid paratoi CDU, mae angen adnabod y DDdY y mae'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw amdani, ei disgrifio yn y CDU a'i sicrhau gan y corff sy'n cynnal y CDU (ac eithrio os mai cyfrifoldeb un o gyrff y GIG yw ei sicrhau). Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i ddarpariaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y mae ADY y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdano. Gallai’r corff sy'n gyfrifol am lunio a chynnal y CDU ystyried y defnydd effeithiol o adnoddau wrth benderfynu rhwng gwahanol opsiynau'r DDdY neu wahanol ffyrdd o'i chyflawni, lle byddai pob un o'r opsiynau neu'r dulliau gweithredu hynny yn diwallu ADY y person ac yn gydnaws ag unrhyw gyfyngiadau eraill o dan y Ddeddf sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau.

2.41. Wrth benderfynu pa DDdY y mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdani, **dylid** ystyried arddull dysgu'r plentyn neu'r person ifanc, sut mae ei ADY yn effeithio arno, ac a yw unrhyw DDdY flaenorol neu gyfredol yn effeithio'n gadarnhaol neu wedi effeithio'n gadarnhaol ar ei gynnydd.

2.42. Yn achos plant bach, dylai eu dysgu greu'r cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r byd drwy chwarae arbrofol a phrofiadau. Efallai y bydd angen DDdY ar ffurf chwarae arbrofol ar blant ag ADY, neu DDdY arall i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd/gweithgareddau chwarae priodol.

2.43. Mewn llawer o achosion, dylai'r lleoliad addysg allu darparu neu drefnu'r ADY angenrheidiol. Pan fydd hyn yn digwydd, efallai na fydd angen cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill na'r awdurdod lleol yn y broses o

baratoi'r CDU, ei weithredu o ddydd i ddydd, na'i adolygu, er y gallai eu cyngor fod o fudd wrth lunio'r CDU.

2.44. Mewn achosion eraill, i raddau gwahanol, gallai fod angen cymorth asiantaethau gwahanol, gan gynnwys er mwyn cyflwyno DDdY. Yn achos y rheini ag anghenion mwy cymhleth, wrth ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc, gallai fod angen mewnbwn a chymorth asiantaethau gwahanol ar y cyd er mwyn creu pecyn DDdY cynhwysfawr.

# Pennod 3: Egwyddorion y Cod

3.1. Mae'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt yn ymwneud â chreu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau.

3.2. Yr egwyddorion sy'n sail i'r system ADY yw:

(a) **Gweithredu ar sail hawliau** lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle mae'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig.
(b) **Adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar** lle mae anghenion yn cael eu hadnabod a darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl a phryd bynnag y bo modd lle mae ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu.
(c) **Cydweithredu ac integreiddio** lle mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod cefnogaeth gydgysylltiedig briodol yn cael ei rhoi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a deilliannau cadarnhaol.
(d) **Addysg gynhwysol** lle caiff y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ifanc ag ADY eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd a lle y defnyddir dull lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.
(e) **System ddwyieithog** lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser.

## *Rhoi'r egwyddorion ar waith*

### Gweithredu ar sail hawliau

<u>Hawliau Plant, Pobl Ifanc a Phobl Anabl</u>

3.3. Fel sy'n ofynnol gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'r Cod wedi'i ddatblygu gan Weinidogion Cymru gan roi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol. Yn ogystal, ystyriwyd gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wrth ddatblygu'r Cod.

3.4. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i blant, eu rhieni a phobl ifanc allu herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig drwy apelio i'r Tribiwnlys. Efallai y byddant am wneud hyn os ydynt yn anghytuno â phenderfyniadau sydd wedi'u gwneud. Mae penderfyniadau'r Tribiwnlys, sy'n annibynnol, yn rhwymo awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Mae darpariaeth hefyd o fewn y system ADY i ganiatáu i hawliau apelio a

hawliau eraill gael eu harfer pan nad oes gan y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc alluedd i arfer ei hawliau. Gwneir hyn trwy i'r Tribiwnlys benodi cyfaill achos ar gyfer plentyn, a thrwy gynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc a rhieni plant nad oes ganddynt alluedd (gweler Pennod 30 ar gyfeillion achos a Phennod 31 ar gynrychiolwyr i gael rhagor o fanylion).

Cyfranogi

3.5. Mae egwyddor cyfranogiad plant, eu rhieni a phobl ifanc n ganolog i'r egwyddor o weithredu ar sail hawliau ac i'r Ddeddf - gwrando arnynt ac ystyried eu safbwyntiau mewn ffordd ystyrlon. Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a gallai yn y pen draw helpu i sicrhau gwell deilliannau iddynt. Mae'r manteision hynny'n cynnwys:

- rhoi gwell dealltwriaeth i ymarferwyr sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY o'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys pwy ydyw a beth sy'n bwysig iddo;
- disgwyliadau uwch oddi wrth blant a phobl ifanc ar sail dealltwriaeth o gryfderau a photensial y plentyn neu'r person ifanc;
- datblygu dysgu sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn ar sail nodi targedau sy'n adeiladu ar gryfderau plant a phobl ifanc ag ADY;
- cynllunio a chyflwyno DDdY mewn dull mwy effeithiol sy'n helpu plant a phobl ifanc i weithio tuag at ddeilliannau cadarnhaol ar sail eu huchelgais a'u dyheadau;
- grymuso plant a phobl ifanc drwy ddathlu eu galluoedd a'r hyn y maent yn ei gyflawni, a chanolbwyntio ar y posibiliadau yn hytrach na'r problemau y maent yn eu hwynebu.

3.6. Er mwyn gwireddu manteision cyfranogi, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar berson sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc i roi sylw i:

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc,
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth o dan sylw;
- pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol i'r plentyn ac i riant y plentyn neu i'r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

3.7. Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu ethos ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi'r lle canolog i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wrth wneud penderfyniadau. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddyletswydd hon ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym Mhennod 4.

Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth

3.8. Mae'r drydedd agwedd ar y ddyletswydd uchod yn ymwneud â phwysigrwydd sicrhau bod y plant, y rhieni a'r bobl ifanc yn cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol i'w galluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau.

3.9. Cefnogir hyn gan ddyletswyddau[1] ychwanegol ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY ac ar awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i wneud y trefniadau'n hysbys. Mae'r trefniadau hyn yn rhan bwysig o sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan lawn ac effeithiol yn y broses. Mae Pennod 6 yn trafod y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a chyngor yn fanwl.

3.10. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau[2] i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol hefyd. Mae hyn er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n ystyried neu'n bwriadu gwneud, neu yn gwneud apêl i'r Tribiwnlys neu sy'n cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau o'r fath (mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau o'r fath[3]). Mae Pennod 32 yn rhoi rhagor o wybodaeth am osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol.

Ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl

3.11. Atgyfnerthir y dull seiliedig ar hawliau ymhellach gan y dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wrth wneud cynlluniau cyffredinol ar gyfer arfer swyddogaethau (gweler Pennod 5 am ragor o fanylion am y dyletswyddau hyn).

### Adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar

3.12. Mae adnabod ADY yn gynnar a rhoi ymyriadau ar waith yn amserol yn ganolog i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael y cyfle i lwyddo ac yn cael addysg sy'n diwallu eu hanghenion.

3.13. Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw adnabod anghenion yn brydlon a rhoi'r ddarpariaeth briodol ar waith cyn gynted â phosibl ar gyfer plentyn neu berson ifanc ag ADY. Po gynharaf y gweithredir, y mwyaf effeithiol fydd y camau a gymerir. Hefyd, trwy adnabod ADY yn gynnar a rhoi'r ymyriadau priodol ar waith, gellir atal yr angen am ymyriadau mwy costus a llai effeithiol maes o law. Disgwylir i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig i blant a phobl ifanc ag ADY, gan

[1] Adran 9 o'r Ddeddf.
[2] Adran 69 o'r Ddeddf.
[3] Adran 68 o'r Ddeddf.

ddefnyddio ystod eang o strategaethau sy'n caniatáu ar gyfer symud ar hyd continwwm o gymorth i adlewyrchu anghenion a'r cynnydd a wneir.

3.14. Ceir rhagor o wybodaeth am adnabod ADY a DDdY ym Mhennod 20, a gwybodaeth am adolygu a diwygio CDUau ym Mhennod 25. Mae rhagor o wybodaeth am ddehongli amserlenni ym Mhennod 1. Caiff y canllawiau a'r gofynion ar y materion hyn, yn arbennig, eu llywio gan yr egwyddor o adnabod ac ymyrryd yn gynnar.

**Cydweithredu ac integreiddio**

3.15. Datblygwyd y Ddeddf a'r Cod ar sail yr egwyddor datblygu cynaliadwy a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, feddwl yn fwy hirdymor, cydweithio'n well â phobl, â chymunedau ac â'i gilydd, ceisio osgoi problemau, a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

3.16. Mae disgwyl i unigolion a sefydliadau sydd â dyletswyddau o dan y Ddeddf, ac eraill sy'n helpu i ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY, gydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc. Nod y canllawiau yn y Cod yw helpu awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ac asiantaethau eraill i hwyluso trefniadau cydweithredu effeithiol rhwng gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu arferion a dulliau gweithio sy'n cwmpasu nifer o asiantaethau ac sy'n:

- gwella systemau cyfathrebu rhwng y teulu, yr ysgol a gweithwyr proffesiynol;
- symleiddio gwasanaethau i osgoi dyblygu gwaith;
- nodi'n glir pa asiantaeth a fydd yn gyfrifol am gyflwyno ac ariannu pob elfen o'r ddarpariaeth;
- annog creadigrwydd a hyblygrwydd;
- ystyried arferion da;
- canolbwyntio ar atebion mewn ffordd holistaidd;
- defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol;
- sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â'r holl wasanaethau perthnasol.

3.17. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar y dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill ym Mhennod 21.

**Addysg gynhwysol**

3.18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod addysg gynhwysol[4], lle mae pob disgybl yn manteisio ar gyfleoedd cyffredin mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w

[4] Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dogfen ganllaw (gweler y ddolen) i roi cyngor ac arweiniad ar gynhwysiant addysgol - https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf.

hanghenion, ac sy'n sicrhau eu bod yn perthyn yn llawn i gymuned yr ysgol, o fudd i bawb.

3.19. Mae'r system ADY yn dibynnu ar wybodaeth a phrofiad staff addysgu i nodi ffyrdd o ddarparu cyfleoedd priodol i bob plentyn a pherson ifanc allu manteisio ar y cwricwlwm. Dylai diwallu anghenion dysgwyr ag ADY fod yn rhan o ymdrech yr ysgol neu'r sefydliad cyfan i wella'r ysgol neu'r sefydliad. Mae gwybodaeth staff am sgiliau a galluoedd pob plentyn a pherson ifanc yn allweddol i hyn. Ni ellir gwahaniaethu, felly, rhwng gwella prosesau addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a gwella prosesau addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ysgol gyfan neu'r sefydliad addysg bellach cyfan.

**System ddwyieithog**

3.20. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen darparu DDdY yn Gymraeg er mwyn iddi fod yn effeithiol, neu mor effeithiol â phosibl. Ceir dyletswyddau amrywiol yn y Ddeddf ar y lefel unigol a'r lefel gynllunio, â'r nod o sicrhau bod DDdY yn cael ei darparu yn Gymraeg lle bynnag y bo modd.

3.21. Ar y lefel unigol, mae awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG yn ddarostyngedig i ddyletswyddau i ystyried a ddylid darparu DDdY i'r plentyn neu'r person ifanc yn Gymraeg, ac i nodi hynny yn y CDU pan fyddant yn penderfynu y dylid ei darparu yn Gymraeg. Pan fydd hyn yn digwydd, mae dyletswyddau i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei darparu yn Gymraeg. Ymdrinnir â'r dyletswyddau[5] hyn ym Mhenodau 11 hyd 17, 19, 21, 23 a 24.

3.22. Ar y lefel gynllunio, mae ystyried pa mor ddigonol yw'r trefniadau ar gyfer darparu DDdY yn Gymraeg yn rhan o ddyletswydd awdurdod lleol i adolygu'r DDdY yn barhaus.[6] Hefyd, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu adolygiadau o ddigonolrwydd DDdY yn Gymraeg bob pum mlynedd a chyhoeddi adroddiadau yn dilyn yr adolygiadau hyn. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer[7] i newid dyletswyddau yn y Ddeddf i sicrhau bod DDdY yn cael ei darparu yn Gymraeg, o fod yn ddyletswyddau i gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny, i fod yn ddyletswyddau absoliwt (hynny yw, i sicrhau'r DDdY yn Gymraeg).

3.23. Ar wahân i gydymffurfio â dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf ynghylch darparu DDdY yn Gymraeg, bydd angen i bersonau perthnasol hefyd gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau perthnasol yn ymwneud â'r Gymraeg wrth arfer swyddogaethau o dan y system ADY.[8]

---

[5] Gweler adrannau 12, 14, 19, 20, 21, 40 a 42 o'r Ddeddf.
[6] O dan adran 63. Gweler Pennod 7.
[7] Adran 90 o'r Ddeddf.
[8] Er enghraifft, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Safonau'r Gymraeg a hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig. Er enghraifft, gweler Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg i awdurdodau lleol ar gyfer y safonau unigol sy'n gymwys i bob awdurdod lleol, e.e. mewn perthynas â gohebiaeth a chyfarfodydd.

# Pennod 4: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc

## *Cyflwyniad*

4.1. Mae'r bennod hon yn egluro'r ddyletswydd[1] ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc.

4.2. Mae'r ddyletswydd yn rhoi effaith i hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). Mae Pennod 5 yn rhoi canllawiau ar y dyletswyddau[2] sydd ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gynllunio sut y maent yn arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys y swyddogaethau a nodir yn y bennod hon.

4.3. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar sut i gynnwys a chefnogi plant unigol, eu rhieni a phobl ifanc (yn cynnwys canllawiau ynghylch pobl ifanc yn cydsynio i benderfyniadau am ADY ac i CDUau). Fodd bynnag, **dylai** awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ystyried o bryd i'w gilydd a yw unrhyw drefniadau sydd ganddynt (megis polisïau ar faterion penodol) yn addas ar gyfer annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y system ADY mewn ffordd ystyrlon. Gallai'r camau y gallent eu cymryd o ganlyniad i ystyriaeth o'r fath gynnwys:

- mesurau i annog a phobl ifanc i godi pryderon gydag unrhyw aelod staff;
- mewn unrhyw bolisïau perthnasol ynglŷn â chodi pryderon neu wneud cwynion, darparu ar gyfer cynnwys unigolyn sy'n gyfrifol am faterion ADY o fewn y sefydliad (er enghraifft, y CADY, Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar neu'r SACDA) pan fydd y gŵyn neu'r pryder yn dod gan blentyn, ei riant neu berson ifanc ag ADY neu'n ymwneud fel arall â materion ADY.

## *Cyfranogiad plant, eu rhieni a phobl ifanc*

4.4. **Rhaid**[3] i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc unigol roi sylw i'r canlynol:

(a) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc,

[1] O dan adran 6 o'r Ddeddf.
[2] Adrannau 7 a 8 o'r Ddeddf.
[3] Adran 6 o'r Ddeddf.

(b) pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth o dan sylw,
(c) pwysigrwydd sicrhau bod yr wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r plentyn ac i riant y plentyn neu i'r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

4.5. Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu ethos ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi lle canolog i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wrth wneud penderfyniadau. Mae adnoddau o bob math ar gael ar-lein i helpu ymarferwyr i ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[4].

4.6. Trwy gefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon, gellir eu helpu i:

- deimlo'n hyderus bod pobl yn gwrando ar eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau ac yn eu gwerthfawrogi, hyd yn oed os yw'n anodd iddynt eu mynegi;
- bod yn ymwybodol o'u hawliau, a'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt; a
- datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb am eu dysgu a rheolaeth drosto.

4.7. O ganlyniad i hyn, mae anghenion plentyn neu berson ifanc yn fwy tebygol o gael eu hadnabod yn gywir a'r ddarpariaeth y penderfynir arni i'w diwallu yn fwy tebygol o fod yn effeithiol. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at well canlyniadau i'r plentyn neu'r person ifanc.

4.8. Mae'r ddyletswydd yn gymwys ni waeth beth yw galluedd y plentyn neu'r person ifanc dan sylw. Hyd yn oed os na fydd gan blentyn y galluedd i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i arfer ei hawliau o dan y Ddeddf, er enghraifft, mae ei gyfraniad i'r broses yn bwysig er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu hadnabod yn gywir a bod y ddarpariaeth iawn yn cael ei sefydlu, sy'n effeithiol i ddiwallu ei anghenion. (Ceir gwybodaeth am blant nad oes ganddynt alluedd ym Mhennod 30 ac am rieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd ym Mhennod 31.)

---

[4] Adeg llunio'r Cod, mae'r rhain yn cynnwys: Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/ymarfer-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion-mewn-addysg-canllaw-ar-gyfer-blynyddoedd-cynnar-ysgolion-a-cholegau-yng-nghymru.pdf;
Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion: offeryn hunanasesu a chamau arferol ar gyfer cynnydd, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/datblygu-fel-sefydliad-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion.pdf;
Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/pecyn-cymorth-adolygiadau-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion.pdf.

## *Y ddyletswydd ar waith*

4.9. Er mwyn bodloni'r ddyletswydd, **dylai** awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am ADY plentyn neu berson ifanc, DDdY neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â CDU (gan gynnwys a oes angen un):

(a) ofyn i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc sut y mae am gymryd rhan yn y penderfyniadau cyn i'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud;
(b) darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc mewn ffordd sy'n galluogi'r plentyn hwnnw, ei riant neu'r person ifanc i'w deall;
(c) annog y plentyn, ei riant neu'r person ifanc i gymryd rhan lawn yn y broses;
(d) defnyddio barn y plentyn, ei riant neu'r person ifanc i lywio'r penderfyniadau;
(e) sicrhau bod y plentyn, ei riant neu'r person ifanc yn gallu cael gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY[5].

4.10. Bydd pryd a sut y gwneir hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau penodol. **Dylai** ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol wneud y pethau hyn yn gynnar yn y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r fath a pharhau i'w gwneud yn ystod y broses honno fel bo angen er mwyn galluogi'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc i gymryd rhan lawn yn y broses.

4.11. Er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau **dylai'r** holl gyrff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ystyried sut y byddai plentyn neu berson ifanc yn hoffi cyfathrebu a chymryd rhan, y dulliau addas o ymgysylltu ar eu cyfer a sut i'w cefnogi i gymryd rhan.

4.12. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ystyried y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc[6] sy'n rhoi canllaw ar gyfer gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt.

## *Adnabod sut yr hoffai plentyn neu berson ifanc gyfathrebu a chymryd rhan*

4.13. Y man cychwyn ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc yw deall sut mae'r plentyn neu'r person ifanc am gyfathrebu ei safbwyntiau a deall unrhyw gymorth y gallai fod ei angen er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc allu gwneud hynny. Yn ogystal, mae'n hollbwysig deall sut mae'r plentyn neu'r person ifanc am gymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys iaith cyfathrebu, y dull cyfathrebu ac ymgysylltu ac, yn achos person ifanc, p'un a yw am gynnwys eraill yn y broses gyfathrebu a sut.

[5] Mae rhagor o arweiniad ar gyngor a gwybodaeth ar gael ym Mhennod 6.
[6] https://llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc

4.14. Mae'n bwysig deall gofynion a dewisiadau cyfathrebu'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn ei gwneud yn haws iddo fod yn bresennol a chymryd rhan mewn cyfarfodydd a gynhelir fel rhan o'r broses benderfynu[7]. Mewn achosion lle nad yw'n briodol iddo fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r fath, mae'n angenrheidiol deall ei ofynion a'i ddewisiadau cyfathrebu er mwyn canfod ei farn mewn ffyrdd eraill.

4.15. Gweler Pennod 23 am wybodaeth am gofnodi dewisiadau cyfathrebu mewn CDU (lle mae angen un).

**Darparu gwybodaeth a chefnogaeth**

4.16. Mae awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yn ddarostyngedig i ddyletswyddau[8] yn y Ddeddf a gofynion yn y Cod, o ran darparu gwybodaeth am y system ADY. Gweler Pennod 6 i gael canllawiau am y dyletswyddau hyn. Gall y cyrff hyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i esbonio'r system ADY wrth gyflawni eu dyletswydd[9] i gynnwys a chefnogi plant unigol, eu rhieni a phobl ifanc.

4.17. **Dylai** awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ddefnyddio'r wybodaeth am ofynion a dewisiadau cyfathrebu i sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i gefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â nhw a mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Yn ogystal, **dylai** awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ddefnyddio'r wybodaeth honno i osgoi gwneud trefniadau amhriodol.

4.18. Yn yr un modd, wrth roi gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc a thrafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn hwyluso ei gyfranogiad, **dylai'r** ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gyfathrebu gan ddefnyddio gofynion a dewisiadau cyfathrebu'r plentyn neu'r person ifanc ac mewn ffordd y gall y plentyn neu'r person ifanc ei deall.

4.19. Pan fydd ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, mae gofynion arno i wneud amrywiol bethau[10]. Mae'r rhain yn cynnwys hysbysu'r plentyn a'i riant ei fod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY ac ystyried a ddylai gynnig cyfarfod i'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc i drafod y broses. **Dylai'r** ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol esbonio'r broses i'r plentyn a'i riant[11] neu'r person ifanc ar y dechrau a gall cyfarfod fod yn ffordd ddefnyddiol o wneud hynny mewn sawl achos[12]. Gallai'r cydlynydd dynodedig[13] wneud hyn.

[7] Ceir rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd am ADY a CDUau ym Mhennod 22.
[8] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[9] O dan adran 6 o'r Ddeddf.
[10] Mae'r rhain yn ofynion a orfodir gan y Cod ym Mhenodau 11 – 17 ac 19.
[11] Gweler isod am ystyriaethau pellach wrth gynnwys a chefnogi rhieni plant.
[12] Mae canllawiau pellach ar gyfarfodydd ym Mhennod 22.
[13] Gweler y gofynion ym Mhenodau 11 – 17 ac 19.

## Pa ddull ymgysylltu sy'n addas?

4.20. **Dylai** ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol geisio cytuno gyda'r plentyn a'i riant neu gyda'r person ifanc ynghylch y ffordd orau o gynnwys y plentyn neu'r person ifanc.

4.21. Gall rhai plant a phobl ifanc ag ADY ddioddef gorbryder yn wyneb sefyllfaoedd newydd neu anghyfarwydd, neu gallant deimlo bod y sefyllfa yn ormod iddynt neu'n eu gwneud yn anghyfforddus. Efallai y byddant wedyn yn ei chael yn anodd cymryd rhan lawn neu fynegi eu barn, yn enwedig mewn cyfarfodydd gyda nifer fawr o oedolion. O dan yr amgylchiadau hyn **dylid** ystyried beth y gellid ei wneud i gynorthwyo plentyn neu berson ifanc unigol i gymryd rhan.

4.22. Er enghraifft, **dylai** ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ystyried a yw'n briodol i blentyn neu berson ifanc unigol fynd i gyfarfod arfaethedig ac, os nad yw, sut y gellir cynnwys y person yn y broses mewn ffordd arall a chynrychioli ei safbwyntiau yn y cyfarfod. Er enghraifft, os nad yw plentyn neu berson ifanc am fynd i gyfarfod, neu os nad yw'n briodol iddo fynd i'r cyfarfod cyfan, **dylid** ystyried rhoi cyfle i'r person fynd i ran o gyfarfod, neu gwrdd ag un neu fwy o'r rheini a fydd yn mynd i'r cyfarfod ymlaen llaw. Mae canllawiau pellach ym Mhennod 22 ar fesurau a allai hwyluso cyfranogiad plentyn neu berson ifanc mewn cyfarfod.

4.23. Os na fyddai'n briodol i blentyn neu berson ifanc fod yn bresennol pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud, **rhaid**[14] ystyried ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau pan gaiff y penderfyniad ei wneud ac felly mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu canfod ymlaen llaw. Cyn gwneud y penderfyniad, **dylai** person priodol esbonio'r broses i'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth, a holi ei farn. Os caiff CDU ei lunio neu ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, **dylid** cofnodi ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau yn yr adran berthnasol o'r CDU, yn dibynnu ar y mater y mae'r safbwyntiau'n ymwneud ag ef (gweler Penodau 23 a 24).

## Paratoi plentyn a'i riant neu berson ifanc ar gyfer cyfarfod

4.24. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i gyfarfod, neu ran o gyfarfod, i wneud penderfyniadau am ADY y person neu benderfyniadau'n gysylltiedig â CDU (gweler Pennod 22 am ragor o wybodaeth am gyfarfodydd), **dylai'r** ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad am ADY, neu am baratoi neu adolygu neu ailystyried y CDU, weithio gyda'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc i'w helpu i baratoi ar gyfer y cyfarfod.

4.25. **Dylai'r** gwaith paratoi gynnwys trafod unrhyw drefniadau a gaiff eu sefydlu i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn y cyfarfod. Gallai hyn gynnwys

[14] Adran 6 o'r Ddeddf.

darparu cyfieithydd ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, darparu dogfennau mewn fformat priodol, er enghraifft, print mawr neu Braille, a sicrhau y bydd unrhyw gyfarpar arbenigol sydd ei angen ar y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ar gael ar y diwrnod. Gallai'r gwaith paratoi hefyd gynnwys ymweliad â'r ystafell gyfarfod a thrafod pwy fydd yn dod, lle y byddant yn eistedd, a beth yw eu rôl.

**Cydsyniad pobl ifanc**

4.26. Mae gan bobl ifanc yr hawl i beidio â chydsynio i benderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes ganddynt ADY neu ynghylch llunio neu gynnal CDU neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, ynghylch ei gadw. Os nad yw person ifanc yn cydsynio i benderfyniad ar ADY, neu i CDU gael ei lunio, ei gynnal neu (yn achos person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc) ei gadw, nid yw'r dyletswyddau i benderfynu ar ADY, llunio a chynnal neu gadw'r CDU yn gymwys (gweler Penodau 15 i 17 a 19 am yr union fanylion). Mae'r Cod yn cynnwys gofynion amrywiol i geisio cydsyniad pobl ifanc, i esbonio canlyniadau cydsynio neu beidio â chydsynio ac i gofnodi materion sy'n ymwneud â chydsyniad (gweler Penodau 15 i 17 a 19). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, mewn achosion lle nad yw person ifanc yn rhoi ei gydsyniad i benderfyniad ar ADY neu CDU, nid yw hyn yn golygu na ddylai ei ADY, lle y bo'n bosibl, gael eu diwallu gan ysgol a gynhelir lle gallai fod wedi ei gofrestru fel disgybl, neu sefydliad addysg bellach lle gallai fod wedi ymrestru fel myfyriwr. Gweler Pennod 15 am wybodaeth am y dyletswyddau ar ysgolion ac awdurdod lleol mewn perthynas â phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion a gynhelir, a Phennod 16 am y dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdod lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach.

4.27. Mae'r ddyletswydd a nodir uchod ynghylch cynnwys a chefnogi pobl ifanc yn berthnasol pan fo ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf mewn perthynas â pherson ifanc, gan gynnwys ceisio cael ei gydsyniad i wneud penderfyniadau neu mewn perthynas â CDU. **Dylid** rhoi cymorth priodol i'r person ifanc, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am gydsyniad. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n esbonio ei hawliau, canlyniadau cael CDU neu beidio â chael un, y camau sy'n debygol o fod yn rhan o wneud penderfyniadau, llunio CDU neu gynnal un a sut y cânt eu cyflawni. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, esboniad o'r gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol a allai fod yn rhan o wneud y penderfyniad ADY neu lunio neu gynnal CDU, sut y byddent yn cael eu cynnwys a phwy fyddai'n gweld y CDU. Mae'n bwysig rhoi cyfle i bobl ifanc drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ac egluro unrhyw beth y gallent fod yn ansicr yn ei gylch.

4.28. Mae modd dadwneud penderfyniad i atal cydsyniad; mae gan y person ifanc hawl i newid ei feddwl ar unrhyw adeg. **Dylai** ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol sicrhau bod pobl ifanc sy'n atal cydsyniad i benderfyniad am ADY neu CDU yn ymwybodol y gallant

newid eu meddwl yn y dyfodol. Pan fo person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu sydd wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yn atal cydsyniad, **dylai'r** ysgol neu'r sefydliad addysg bellach godi'r mater gyda'r person ifanc ar adegau priodol i (er enghraifft wrth adolygu cynnydd y person ifanc) i roi cyfle i'r person ifanc ailedrych ar ei benderfyniad.

4.29. Mae'r canllawiau uchod yr un mor berthnasol i achos plentyn â CDU a fydd, ar ôl gorffen addysg orfodol, yn dod yn berson ifanc. Gall ffocws y wybodaeth a'r cymorth a ddarperir i berson o'r fath fod ychydig yn wahanol o gymharu â pherson ifanc nad yw wedi cael CDU o'r blaen, gan y bydd gan y person sydd â'r CDU brofiad o'r system ADY a'i phrosesau, o leiaf fel plentyn. Mae'n bwysig bod y plentyn yn cael ei gefnogi i ddeall yr hawliau o dan y system ADY y bydd yn eu cael fel person ifanc ac unrhyw newidiadau eraill yn y ffordd y caiff ei gefnogi a all ddigwydd pan fydd yn dod yn berson ifanc.

4.30. Pan fydd plentyn sydd â CDU yn nesáu at ddiwedd addysg orfodol, **dylai** ysgol a gynhelir neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer y plentyn esbonio i'r plentyn beth allai ddigwydd i'w CDU pan ddaw'r plentyn yn berson ifanc. Mae hyn yn cynnwys pwy fydd yn ei gynnal (mewn achosion lle gallai'r CDU drosglwyddo, e.e. o ysgol i sefydliad addysg bellach lle mae'r plentyn yn disgwyl ymrestru) ac esbonio hawliau pobl ifanc i gydsynio neu wrthwynebu penderfyniadau ADY a CDUau. **Dylai'r** ysgol a gynhelir neu'r awdurdod lleol geisio barn y plentyn ar gydsynio i'r CDU barhau i gael ei gynnal unwaith y daw'r plentyn yn berson ifanc (sef pan na fydd y plentyn o oedran ysgol gorfodol mwyach). Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hyn yn ystod adolygiad ym mlwyddyn 11 a gallai fod yn rhan o gynlluniau pontio (gweler Pennod 25 ar adolygiadau o CDU a Phennod 27 ar bontio; gall hyd yn oed fod yn briodol dechrau trafod y materion hyn yn gynharach mewn rhai achosion). Os yw'r plentyn yn dymuno cydsynio i'r CDU gael ei gynnal, **dylid** rhoi cyfle priodol i'r plentyn gadarnhau'r penderfyniad hwnnw ar ôl i'r plentyn ddod yn berson ifanc. Os yw'r plentyn yn gwrthwynebu neu os nad yw'n rhoi cydsyniad, yna bydd angen i'r ysgol a gynhelir neu'r awdurdod lleol wirio'r mater ymhellach pan ddaw'r plentyn yn berson ifanc. Os nad oes gan berson ifanc alluedd, gall cynrychiolydd y person gydsynio ac arfer hawliau eraill ar ran y person ifanc: gweler Pennod 1 a Phennod 31 am ragor o wybodaeth.

## *Ystyriaethau ychwanegol wrth gynnwys a chefnogi rhieni plant ag ADY*

4.31. Mae'r ddyletswydd ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i gynnwys a chefnogi plant a phobl ifanc hefyd yn gymwys yn yr un ffordd i gynnwys a chefnogi rhieni plant[15].

[15] Adran 6 o'r Ddeddf, a ddisgrifir uchod. Rhoddir canllawiau ar rieni nad oes ganddynt alluedd ym Mhennod 31.

4.32. Mae gan rieni wybodaeth allweddol a rôl hollbwysig yn natblygiad ac addysg eu plentyn. Mae ganddynt wybodaeth unigryw am eu plentyn a fydd yn cyfrannu at y farn gyffredinol am anghenion y plentyn a'r ffordd orau o'i gefnogi. Mae gwahanol ffyrdd i rieni gefnogi dysg y plentyn. Mae gan rieni hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am addysg eu plentyn, a gall agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys rhieni gyfrannu at well proses benderfynu a gwell canlyniadau i'r plentyn.

4.33. Mae gan rieni rôl hanfodol o ran helpu eu plentyn i gyflawni ei botensial. Mae'r plentyn yn llawer mwy tebygol o gyflawni ei ddeilliannau a'i botensial pan fydd rhieni yn ymddiddori ac os bydd ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau yn cael eu hystyried. Mae angen rhoi cymorth a chyngor i rieni hefyd, felly, ynghylch sut y gallant gefnogi eu plentyn i gyflawni ei botensial.

4.34. Gall y cyfnod cyn gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY fod yn gyfnod pryderus i'r rhieni a'r teulu, a gall penderfyniadau eraill ynghylch ADY plentyn achosi pryder hefyd. Mae'n bwysig bod y rheini sy'n arfer y swyddogaethau yn sylweddoli hyn.

4.35. Pan fydd gan ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY neu i lunio, adolygu neu ailystyried CDU, **dylent** gefnogi rhieni i ddeall y broses a'r penderfyniadau a wneir yn y ffyrdd canlynol:

(a) drwy esbonio o'r dechrau'n deg, mewn ffordd y gall rhieni unigol ei deall, y penderfyniad y mae'r corff yn ei wneud, y broses o'i wneud a sut y gall y rhiant gyfrannu at y broses honno;
(b) mewn cyfarfodydd i benderfynu ynghylch yr ADY a llunio unrhyw CDU, neu mewn cyfarfodydd adolygu neu ailystyried, drwy esbonio'r hyn sy'n cael ei gynnig (er enghraifft, yr ADY, y DDdY arfaethedig, y deilliannau i'w plentyn anelu atynt, pwrpas yr ymyriadau) mewn ffordd y gall rhieni unigol ei deall[16].

4.36. Ceir gofynion penodol[17] hefyd i roi hysbysiad neu wybodaeth i rieni ar adegau penodol neu i drafod materion penodol gyda rhieni. Ymdrinnir â'r rhain yn y penodau perthnasol sy'n ymdrin â'r penderfyniad neu'r broses dan sylw.

4.37. Efallai y bydd angen rhagor o gefnogaeth ar rai rhieni na dim ond eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chyngor; er enghraifft, efallai nad oes ganddynt y cyfleusterau i gael gafael ar yr wybodaeth neu fod anawsterau ganddynt o ran dealltwriaeth.

4.38. Felly, **dylai** cyrff y mae'n ofynnol iddynt hysbysu rhieni neu roi gwybod iddynt am rywbeth, wneud hynny mewn fformat sy'n hygyrch iddynt ac mewn modd sy'n briodol iddynt.

---

[16] Mae rhagor o ganllawiau ar gyfarfodydd am ADY a CDUau ar gael ym Mhennod 22.
[17] Darperir ar gyfer rhai ohonynt gan y Ddeddf, eraill mewn rheoliadau ac mae rhai yn ofynion a orfodir gan y Cod (gweler Pennod 1 sy'n ymdrin â sut i ddehongli'r rhain).

4.39. Bydd angen gwahanol lefelau o gefnogaeth ar wahanol rieni. Mae angen iddynt deimlo'n ffyddiog y bydd rhywun yn gwrando arnynt a bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. **Dylai** awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach ddarparu cymorth i rieni i'w galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn cyfarfodydd.

4.40. Efallai y bydd angen cefnogaeth ar rai rhieni i weld eu plant fel partneriaid yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â'u haddysg. Gallent fod yn pryderu, er enghraifft, nad yw eu plentyn mewn sefyllfa i ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Gallai rhoi cefnogaeth ac anogaeth i rieni mewn sefyllfa felly helpu i oresgyn yr anawsterau a sicrhau bod eu plentyn yn cael cymryd rhan yn llawn. **Rhaid**[18] i'r person sy'n arfer y swyddogaeth roi sylw i farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'r rhiant, gan gynnwys pan fo eu barn yn wahanol.

4.41. Efallai y bydd angen cymorth ar rieni i werthfawrogi y gall eu plentyn, dros amser, ddechrau ffurfio ei farn ei hun am ei addysg, ei gefnogaeth a sut y mae'n dymuno cymryd rhan mewn penderfyniadau am ei ADY. Gall y farn hon fod yn wahanol i farn ei rieni. Gyda chefnogaeth, gall rhieni ddod i ddeall bod hwn yn gam pwysig ar daith eu plentyn i fwy o annibyniaeth ac y bydd yn ei helpu i gymryd rheolaeth dros ei ddysgu.

[18] Adran 6 o'r Ddeddf.

# Pennod 5: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

## *Cyflwyniad*

5.1. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn1 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[2]. Mae'n nodi'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r dyletswyddau hynny ac yn rhoi arweiniad pellach amdanynt.

5.2. Rhoddir effaith i egwyddorion y Confensiynau yn y Ddeddf a'r Cod, ac felly wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, ac wrth gydymffurfio â'r Ddeddf, mae awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn debygol o roi effaith i'r hawliau perthnasol o dan y Confensiynau.

5.3. Er enghraifft, mae erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn darparu:

1. Y bydd Partïon Gwladwriaethau yn sicrhau bod gan y plentyn sy'n gallu ffurfio ei safbwyntiau ei hun am fater yr hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio arno, gan sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn cario'r pwysau dyledus yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.
2. I'r diben hwn, bod y plentyn yn cael cyfle yn benodol i roi ei safbwynt mewn unrhyw achos barnwrol a gweinyddol sy'n effeithio ar y plentyn, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy'n gyson â rheolau gweithdrefnol cyfraith y wlad.

5.4. Mae hyn yn cael effaith yn y Ddeddf drwy (ymhlith pethau eraill):

- y ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc (gweler Pennod 4);
- dyletswyddau ynglŷn â darparu gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc (yn ogystal ag eraill) am ADY a'r system ADY (gweler Pennod 6), er mwyn hwyluso eu cyfranogiad;
- hawliau plant a phobl ifanc i wneud apêl i'r Tribiwnlys (gweler Pennod 33) gan gynnwys, yn achos plentyn heb alluedd, drwy gyfaill achos (Pennod 30).

[1] Cafodd y Confensiwn hwn ei fabwysiadu a'i agor i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i dderbyn gan benderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989.
[2] Mabwysiadwyd y Confensiwn hwn a'r protocol dewisol ar 13 Rhagfyr 2006 drwy benderfyniad A/RES/61/106 y Cynulliad Cyffredinol ac fe'i hagorwyd i'w lofnodi ar 30 Mawrth 2007.

5.5. Gyda golwg ar wreiddio'r hawliau o dan y confensiynau hynny ymhellach, mae dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc neu blentyn neu berson ifanc anabl. **Rhaid**[3] iddynt roi sylw dyledus i:

(a) Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas â swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc, a
(b) Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i brotocol dewisol, mewn perthynas â swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc anabl.

5.6. Nid yw'r dyletswyddau hyn i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[4] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff y GIG roi ystyriaeth benodol i'r Confensiynau bob tro y caiff swyddogaeth o dan y Ddeddf ei harfer. Yn hytrach, **rhaid**[5] i awdurdodau lleol a chyrff y GIG roi sylw dyledus i'r Confensiynau wrth gynllunio'n gyffredinol ar gyfer arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. Nid yw hyn yn gymwys oni fydd y swyddogaethau, pan gânt eu harfer, yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc (ar gyfer dyletswydd y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn) neu blentyn neu berson ifanc anabl (ar gyfer dyletswydd y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl). Byddai'r ddyletswydd hon yn berthnasol i weithgareddau fel:

- cynllunio'n gyffredinol i gyflwyno DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn ardal yr awdurdod neu'r corff (yn hytrach nag mewn perthynas ag unigolyn penodol);
- sefydlu systemau lle bydd dyletswyddau o dan y Ddeddf sy'n ddyledus i blant a phobl ifanc yn cael eu cyflawni, er enghraifft, systemau ar gyfer cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc er mwyn galluogi awdurdod neu gorff i gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 6 o'r Ddeddf;
- paratoi, monitro, gwerthuso neu ddiwygio trefniadau o fewn yr awdurdod neu'r corff ar gyfer arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

5.7. Mae rhoi 'sylw dyledus' i'r Confensiynau yn golygu ystyried yr hawliau ynddynt ac yna ystyried hawliau perthnasol wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa gamau i'w cymryd wrth gynllunio'n gyffredinol ar gyfer arfer swyddogaethau. Os nad yw hawl yn berthnasol i benderfyniad mewn cyd-destun penodol, nid oes angen ei hystyried ymhellach. Pan fo hawl yn berthnasol i benderfyniad o'r fath, **rhaid**[6] rhoi sylw dyledus iddi cyn ac adeg gwneud y penderfyniad. Mae hyn yn golygu bod angen i'r person neu'r grŵp

[3] Adrannau 7 a 8 o'r Ddeddf.
[4] Adrannau 7(3) a 8(3) o'r Ddeddf.
[5] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.

o bobl, wrth wneud y penderfyniad ar ran yr awdurdod lleol neu gorff y GIG, ystyried sylwedd yr hawliau perthnasol yng nghyd-destun cynllunio'r hyn sydd angen ei wneud i arfer y swyddogaeth penodol dan sylw, gan roi'r pwys priodol i'r hawliau yn yr holl amgylchiadau a'u cydbwyso yn erbyn unrhyw ffactorau gwrthbwysol perthnasol eraill. Nid oes unrhyw ofyniad i gyflawni canlyniad penodol (er, wrth reswm, mae'n rhaid i'r awdurdod neu'r corff gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y system ADY). Fodd bynnag, drwy roi sylw dyledus yn y ffordd hon, mae'r hawliau o dan y Confensiynau yn debygol o gael eu hymgorffori ymhellach o fewn y gwaith o gyflenwi gwasanaethau ADY yr awdurdod lleol neu gorff y GIG.

5.8. O ganlyniad i roi sylw dyledus i'r hawliau yn y Confensiynau yn y modd hwn, gallai awdurdod lleol neu gorff y GIG ddod i'r casgliad nad oes dim mwy i'w wneud heblaw cydymffurfio â gofynion penodol y Ddeddf neu'r Cod (a allai fod yn fanwl iawn). Mewn rhai achosion, gallai awdurdod neu gorff benderfynu cymryd camau pellach neu wneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd benodol, gyda'r bwriad o roi gwell effaith i hawliau o dan un o'r Confensiynau neu'r ddau ohonynt.

5.9. **Dylai'r** awdurdod lleol neu gorff y GIG gadw cofnod i ddangos sut mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd berthnasol.

## *Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

5.10. Yr hawliau yn y Confensiwn y mae'n **rhaid**[7] rhoi sylw dyledus iddynt yw'r rhai a nodir am y tro yn Rhan 1 o'r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl ifanc (Cymru) 2011, sydd i'w gweld yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/schedule.

5.11. Bydd perthnasedd yr hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dibynnu ar yr union gyd-destun. Yn gyffredinol, dyma'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i awdurdod lleol neu gorff y GIG:[8]

- Erthygl 2 - Peidio â gwahaniaethu;
- Erthygl 3 - Buddiannau gorau'r plentyn;
- Erthygl 5 - Cyfarwyddyd rhieni a'r ffaith bod gallu plentyn yn datblygu;
- Erthygl 6 – Goroesi a datblygu

---

[7] Adran 7(1) a (2) o'r Ddeddf. Mae'r hawliau a nodir yn yr Atodlen i'r Mesur yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad a nodir am y tro yn Rhan 3 o'r Atodlen honno (sydd i'w gweld yn y ddolen uchod hefyd). Ar adeg llunio'r Cod, mae dau ddatganiad wedi'u nodi yn rhan 3. Maent yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn dehongli (a) bod y Confensiwn ond yn gymwys yn dilyn genedigaeth fyw a (b) bod cyfeiriadau at "rieni" at y rhai sy'n cael eu trin fel rhieni o dan gyfraith genedlaethol.
[8] Mae'r disgrifiadau a roddir yma o'r erthyglau yn grynodeb byr iawn a fwriedir i gyfeirio at y maes cyffredinol a gwmpesir gan yr erthyglau; Mae'r erthyglau eu hunain yn llawer llawnach ac yn cwmpasu mwy o fanylion a allai fod yn berthnasol nag a nodir yn y disgrifiad.

- Erthygl 12 – Parchu safbwyntiau'r plentyn;
- Erthygl 13 – Rhyddid mynegiant;
- Erthygl 16 – Hawl i breifatrwydd
- Erthygl 18 – Cyfrifoldeb rhieni
- Erthygl 23 – Plant anabl;
- Erthygl 24 – Iechyd;
- Erthygl 25 – Adolygu triniaeth mewn gofal;
- Erthygl 28 – Addysg;
- Erthygl 29 – Nodau addysg;
- Erthygl 30 – Hawliau lleiafrifoedd a iaith gyntaf
- Erthygl 31 – Hamdden, chwarae a diwylliant.

5.12. At ddibenion rhoi sylw i'r Confensiwn, mae cyfeiriadau ynddo at blentyn yn gyfeiriadau at berson sydd o dan 18 oed. Efallai y bydd llawer o'r egwyddorion, o fewn y cyd-destun, yn berthnasol i bobl ifanc hefyd.

5.13. Mae'r Comisiynydd Plant wedi datblygu'r pum egwyddor ganlynol ar sail hawliau'r Confensiwn. Wrth roi sylw i'r Confensiwn, efallai y bydd ystyried yr egwyddorion hyn yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol a chyrff y GIG:

- **gwreiddio hawliau plant -** rhoi'r lle canolog i hawliau plant wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaeth;

- **cydraddoldeb a dim camwahaniaethu -** sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu gystal â phosibl;

- **grymuso plant a phobl ifanc -** gwella sgiliau plant fel unigolion er mwyn cynyddu eu gallu i fanteisio ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u dal i gyfrif;

- **cyfranogiad -** gwrando ar blant a phobl ifanc, a rhoi ystyriaeth lawn i'w safbwyntiau;

- **atebolrwydd** - dylai awdurdodau lleol a chyrff y GIG fod yn atebol i blant a phobl ifanc am y penderfyniadau a'r camau y maent yn eu cymryd sy'n effeithio ar eu bywydau.

5.14. Adlewyrchir yr egwyddorion hyn yn y system ADY ac maent yn gorgyffwrdd ag egwyddorion y Cod. Gallai canllawiau'r Comisiynydd Plant ar yr egwyddorion hyn fod o ddefnydd i awdurdodau lleol a chyrff y GIG hefyd: *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru,* a *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru*.[9]

[9] Dyma ganllaw gan y Comisiynydd Plant ar y pwnc sydd ar gael adeg llunio'r Cod hwn. Gallai gael ei ddisodli maes o law. Bryd hynny mae ar gael yn: https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-

## *Dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau*

5.15. Gellir gweld y Confensiwn (gan gynnwys ei brotocol dewisol) ar-lein yn: https://www.un.org/disabilities/documents/convention/convoptprot-e.pdf.

5.16. Bydd perthnasedd yr hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn dibynnu ar yr union gyd-destun. Yn gyffredinol, dyma'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i awdurdod lleol neu gorff y GIG:[10]

- Erthygl 5 – Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu;
- Erthygl 7 – Plant ag anableddau;
- Erthygl 8 – Codi ymwybyddiaeth;
- Erthygl 9 – Hygyrchedd;
- Erthygl 12 – Cydnabyddiaeth gyfartal gerbron y gyfraith;
- Erthygl 13 – Mynediad i gyfiawnder;
- Erthygl 17 – Diogelu uniondeb yr unigolyn;
- Erthygl 19 – Byw'n annibynnol a chynhwysiant yn y gymuned;
- Erthygl 20 – Symudedd personol;
- Erthygl 21 – Rhyddid mynegiant a barn, a mynediad i wybodaeth;
- Erthygl 23 – Parch tuag at y cartref a'r teulu;
- Erthygl 24 – Addysg;
- Erthygl 25 – Iechyd;
- Erthygl 26 – Sefydlu ac adsefydlu;
- Erthygl 30 – Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, hamdden a chwaraeon.

5.17. Mae ystyr yr hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, y mae'n **rhaid**[11] i awdurdod lleol a chorff y GIG roi sylw dyledus iddynt, yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad a wneir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig wrth ei gadarnhau (oni chafodd ei dynnu'n ôl wedyn).[12] Mae un o neilltuadau'r Deyrnas Unedig a'i ddatganiad yn uniongyrchol berthnasol i faterion addysg. Yn unol â hynny, **rhaid**[13] i awdurdod lleol a chorff y GIG, wrth ystyried erthygl 24 (ar addysg) i gyflawni'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag

---

hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/ a https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/dull-gweithredu-seiliedig-ar-hawliau-plant-i-addysg-yng-nghymru/.

[10] Mae'r disgrifiadau a roddir yma o'r erthyglau yn grynodeb byr iawn a fwriedir i gyfeirio at y maes cyffredinol a gwmpesir gan yr erthyglau; mae'r erthyglau eu hunain yn llawer llawnach ac yn cwmpasu mwy o fanylion a allai fod yn berthnasol nag a nodir yn y disgrifiad.

[11] Adran 8 o'r Ddeddf.

[12] Adran 8(2) o'r Ddeddf. Gellir dod o hyd i neilltuadau a datganiadau'r Deyrnas Unedig yn: https://treaties.un.org/Pages/ViewDetails.aspx?src=TREATY&mtdsg_no=IV-15&chapter=4&clang=_en#EndDec.

[13] Adran 8(1) a (2) o'r Ddeddf.

Anableddau, wneud hynny gan gadw'r neilltuad a'r datganiad mewn cof.  Y neilltuad a'r datganiad (a nodir yma er hwylustod) yw:

*Reservations:*

Education – Convention Article 24 Clause 2 (a) and 2 (b)

The United Kingdom reserves the right for disabled children to be educated outside their local community where more appropriate education provision is available elsewhere. Nevertheless, parents of disabled children have the same opportunity as other parents to state a preference for the school at which they wish their child to be educated.

*Declaration:*

"Education – Convention Article 24 Clause 2 (a) and (b)
The United Kingdom Government is committed to continuing to develop an inclusive system where parents of disabled children have increasing access to mainstream schools and staff, which have the capacity to meet the needs of disabled children.

The General Education System in the United Kingdom includes mainstream, and special schools, which the UK Government understands is allowed under the Convention."

5.18. Wrth gyflawni'r ddyletswydd, efallai y bydd y Model Cymdeithasol o Anabledd[14] o ddefnydd i awdurdodau lleol a chyrff y GIG.  Mae'r model hwn yn seiliedig ar y gred mai cymdeithas sy'n creu anabledd yn hytrach na'r namau corfforol neu feddyliol sydd gan unigolion, drwy ei hagweddau a'i rhwystrau ffisegol.  Mae'r Model Cymdeithasol yn ddull cadarnhaol o ymwneud ag anabledd, sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar y rhwystrau rhag  cydraddoldeb.

## *Cyflawni'r dyletswyddau yn ymarferol*

5.19. Fel y disgrifiwyd uchod, mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiynau yn golygu ystyried yr hawliau perthnasol wrth wneud penderfyniadau yn ystod y broses o gynllunio'n gyffredinol ar gyfer arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf.  Mater i'r awdurdod lleol neu gorff y GIG yw penderfynu sut i arfer ei swyddogaethau a bydd hyn yn dibynnu ar y cyd-destun.

[14] Adeg llunio'r Cod, mae rhagor o wybodaeth am y Model Cymdeithasol o Anabledd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/socialmodel/?lang=en.

5.20. Ymhlith y camau gweithredu posibl y gallai ei ystyried yn ddefnyddiol eu cymryd mae:

- camau i sicrhau bod arweinwyr a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY yn ymwybodol o hawliau perthnasol plant a phobl ifanc o dan y Confensiynau a'r system ADY, gan gynnwys plant a phobl ifanc ag anableddau, er enghraifft drwy hyfforddiant staff;
- darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ag ADY ymgysylltu â pholisïau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY a dylanwadu arnynt. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i blant a phobl ifanc ag ADY weithio gyda'i gilydd i ddatblygu syniadau a phrofi cynigion. Trwy gynnwys plant a phobl ifanc gellir helpu i ymwreiddio'r hawliau yn well wrth ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rhai ag ADY, er enghraifft, drwy roi cyfle iddynt egluro'r ffordd orau o geisio eu barn mewn prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn eu cylch;
- cynnal asesiadau effaith perthnasol, a all fod yn ffordd ddefnyddiol o:

    i. asesu effaith debygol cynigion ar gyfer polisïau, gwasanaethau ac adnoddau ADY, neu newidiadau i bolisïau, gwasanaethau neu adnoddau presennol;
    ii. adolygu effaith polisïau, gwasanaethau neu adnoddau ADY sydd eisoes yn bodoli;
    iii. cofnodi'r asesiadau hynny;
    iv. nodi cryfderau a gwendidau'r cynigion neu'r trefniadau presennol, a all wedyn lywio'r camau i'w cymryd, os oes angen, i wneud gwelliannau a sicrhau bod polisïau, gwasanaethau neu adnoddau ADY mor effeithiol â phosibl;
    v. cofnodi sut y cydymffurfiwyd â'r dyletswyddau i roi sylw dyledus i'r Confensiynau;

- adolygu gwasanaethau ac adnoddau ADY er mwyn adnabod unrhyw rwystrau o ran gallu plentyn neu berson ifanc i gael gafael ar y gwasanaethau hyn, a chymryd camau a fyddai'n cael gwared ar effaith y rhwystrau hynny neu'n ei lleihau.

# Pennod 6: Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY

## _Cyflwyniad_

6.1. **Rhaid**[1] i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY i bobl. Wrth wneud hynny, **rhaid**[2] iddynt roi sylw i'r egwyddor o ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor mewn ffordd ddiduedd.

6.2. **Rhaid**[3] i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'r rhestr o bersonau a chyrff a nodir ym mharagraff 6.15 am drefniadau o'r fath.

6.3. Os hysbysir ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach am y trefniadau hyn, **rhaid**[4] i'r ysgol ysgolion neu sefydliad gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau yn hysbys i'w disgyblion, eu rhieni a'u cyfeillion achos (mewn ysgol) neu ei fyfyrwyr (mewn sefydliad addysg bellach).

6.4. **Rhaid**[5] i'r cyngor a'r wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i blant, eu rhieni a phobl ifanc fod yn rhad ac am ddim.

## _Trefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth_

6.5. Gall awdurdod lleol ddewis darparu cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY ei hun. Fel arall, gallai'r awdurdod lleol weithio gyda darparwyr gwasanaethau allanol, gan gynnwys y trydydd sector, i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY. Sut bynnag y bydd awdurdodau lleol yn penderfynu darparu'r wybodaeth a'r cyngor, wrth wneud eu trefniadau, **rhaid**[6] iddynt roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid darparu'r wybodaeth a'r cyngor am ADY a'r system ADY mewn ffordd ddiduedd.

6.6. Mae'n bwysig eu cyflwyno mewn ffordd ddiduedd gan mai pwrpas eu darparu yw ei gwneud yn haws i blant, eu rhieni a phobl ifanc ddeall y system ADY ac arfer eu hawliau oddi tani, gan gynnwys herio penderfyniadau'r awdurdod lleol ymhlith eraill.

6.7. Er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY i blant, eu rhieni a phobl ifanc, efallai y bydd awdurdod lleol yn dymuno ystyried sefydlu cyfeiriadur, a fyddai'n rhoi mewn un lle yr wybodaeth am y gwahanol help a chymorth sydd ar gael yn yr ardal. Gallai'r cyfeiriadur gynnwys manylion:

---

[1] Adran 9(1) o'r Ddeddf.
[2] Adran 9(2) o'r Ddeddf.
[3] Adran 9(3) o'r Ddeddf.
[4] Adran 9(4) a (5) o'r Ddeddf.
[5] Adran 49 o'r Ddeddf.
[6] Adran 9(2) o'r Ddeddf.

- trefniadau gwybodaeth a chyngor;
- trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau;
- gwasanaethau eirioli annibynnol a sut i gael gafael arnynt.

6.8. Mae llawer o ffyrdd y gall awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor am eu gwasanaethau ADY, gan gynnwys taflenni, posteri, gwefannau, canolfannau cyswllt wyneb yn wyneb, a llinellau cymorth ffôn.

6.9. **Dylai'r** wybodaeth a chyngor gael cyhoeddusrwydd da gan yr awdurdod lleol, bod yn hawdd cael gafael arnynt, a chael eu diweddaru'n rheolaidd. Gweler yr adran isod am ragor o ganllawiau ar sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar gyngor a gwybodaeth.

**Gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan ddarparwr allanol**

6.10. Pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY drwy gontractio darparwr gwasanaeth allanol i ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn, **dylai**:

- fod yn dryloyw ynghylch pwy sy'n darparu'r gwasanaethau ar ei ran – **dylid** gwneud hyn yn glir ar wefan yr awdurdod lleol ac yn ystod trafodaethau gyda dysgwyr (a'u teuluoedd lle bo'n briodol) am eu ADY,
- pennu a monitro safon gyffredinol y gwasanaeth, a
- sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth.

## *Amcanion a natur y cyngor a'r wybodaeth*

6.11. **Rhaid**[7] i'r wybodaeth a'r cyngor a fydd ar gael o dan drefniadau awdurdod lleol fod yn glir, yn gywir ac yn ffeithiol. **Dylai** fod yn hygyrch ac yn hawdd ei ganfod a defnyddio iaith y gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ei deall yn hawdd.

6.12. **Dylai'r** wybodaeth a'r cyngor a fydd ar gael o dan y trefniadau hyn ymwneud ag ADY a'r system ADY â'r nod o helpu plant, eu rhieni a phobl ifanc i ddeall y materion canlynol:

(a) beth yw ADY;
(b) eu hawliau o dan y system ADY;
(c) dyletswyddau ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol;
(d) y gwahanol asiantaethau dan sylw a'u rolau
(e) rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol a sut gellir cysylltu â'r unigolyn hwn;
(f) amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau penodol ac ymgymryd â chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â CDUau neu ADY;
(g) lle y gallant ddod o hyd i gymorth ychwanegol os oes angen;

[7] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(h) y gwahanol weithdrefnau cwyno;
(i) gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer gwybodaeth a chyngor, osgoi a datrys anghytundebau, ac eiriolaeth annibynnol;
(j) yr opsiynau sydd ar gael iddynt os bydd unrhyw bryderon ganddynt;
(k) sut i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach (gan gynnwys gwrthod penderfynu ar fater pan fo modd apelio yn erbyn y gwrthodiad hwnnw), ac yn achos penderfyniadau gan ysgol a gynhelir, neu CDUau a gynhelir gan ysgol a gynhelir, sut i wneud cais i awdurdod lleol ailystyried y mater.

6.13. **Ni ddylai'r** cyngor a ddarperir ymwneud â pha mor briodol yw unrhyw benderfyniad ynghylch ADY neu unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Mae Pennod 32 yn ymdrin â dyletswyddau awdurdodau lleol i ddarparu trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfod a gwasanaeth eirioli annibynnol, a'r hyn y mae'r rhain yn ei gwmpasu.

6.14. Wrth wneud trefniadau ar gyfer gwybodaeth a chyngor, ynghylch ADY a'r system ADY, **dylai** awdurdodau lleol, fel y maent yn ystyried sy'n briodol, wneud darpariaeth ar gyfer cyfeirio plant, eu rhieni a phobl ifanc at ffynonellau eraill perthnasol o wybodaeth, cyngor a chymorth a allai fod ar gael yn lleol neu'n genedlaethol e.e. sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymorth lleol neu grwpiau anabledd, cynghorwyr gyrfaoedd ac ati.

## *Codi ymwybyddiaeth o drefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth*

6.15. **Rhaid**[8] i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i wneud ei drefniadau ar gyfer cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY yn hysbys i:

(a) plant a phobl ifanc o fewn ei ardal,
(b) rhieni plant o fewn ei ardal,
(c) cyfeillion achos plant o fewn ei ardal,
(d) plant sy'n derbyn gofal ganddo sydd y tu allan i'w ardal,
(e) ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach o fewn ei ardal, ac
(f) unrhyw bobl eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol rhoi gwybod iddynt.

6.16. Ymhlith personau eraill y gallai awdurdod lleol ystyried ei bod yn briodol rhoi gwybod iddynt am y trefniadau mae:

- darparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir o fewn ei ardal;
- swyddogion adolygu annibynnol o fewn yr awdurdod lleol;
- ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir sydd y tu allan i'w ardal (yn cynnwys rhai a allai fod

[8] Adran 9(3) o'r Ddeddf.

yn Lloegr), ond y mae plant neu bobl ifanc o fewn ei ardal yn eu defnyddio neu y maent yn debygol o'u defnyddio.

6.17. **Dylai** awdurdodau lleol ystyried y dulliau mwyaf priodol ar gyfer rhoi gwybod i'r personau a restrir uchod am eu trefniadau.

6.18. Gallai awdurdodau lleol ystyried rhannu gwybodaeth am eu trefniadau drwy gylchlythyrau neu fwletinau rheolaidd (gan gynnwys y rheini a gyhoeddir neu a ddosberthir gan, er enghraifft, leoliadau addysg, consortia addysg rhanbarthol, grwpiau trydydd sector neu grwpiau cymunedol) a thrwy bortholion, platfformau electronig neu wefannau a rennir.

6.19. Er mwyn rhoi gwybod am eu trefniadau i blant, eu rhieni a'u cyfeillion achos ac i bobl ifanc, **dylai** awdurdodau lleol ystyried trefnu i wybodaeth ysgrifenedig, fel taflenni a phosteri, gael ei harddangos mewn ardaloedd lle mae dysgwyr a'u teuluoedd yn debygol o'u gweld. Gallai hyn gynnwys ardaloedd cymunedol mewn meithrinfeydd nas cynhelir, ysgolion a gynhelir ac ysgolion eraill, sefydliadau addysg bellach ac mewn lleoliadau iechyd, er enghraifft meddygfeydd teulu. **Dylai** awdurdodau lleol ystyried dosbarthu taflenni i gyrff a phersonau sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY a'u teuluoedd. Byddai'r rhain yn cynnwys ysgolion, sefydliadau addysg bellach, ymwelwyr iechyd, darparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir, meddygfeydd teulu, ac eraill y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol.

6.20. I sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY yn electronig, **dylai** awdurdod lleol gyhoeddi tudalen wybodaeth benodol ar ei wefan. Mae angen i gyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY fod yn hawdd i ddysgwyr, eu teuluoedd ac eraill ddod o hyd iddynt.

## *Hwylustod cael cyngor a gwybodaeth*

6.21. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf i wneud trefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY a chymryd camau rhesymol i wneud pobl yn ymwybodol o'r trefniadau hynny, **dylai** awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor y dylai'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir fod yn hawdd cael gafael arnynt.

6.22. Er enghraifft, **dylai** awdurdodau lleol:

- ddefnyddio Cymraeg a Saesneg clir ac osgoi defnyddio jargon diangen, a
- chreu fersiynau eraill (er enghraifft, hawdd ei ddeall, Braille neu ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg) ar gyfer y rheini sydd eu hangen.

6.23. **Dylai** awdurdodau lleol roi cyngor a gwybodaeth mewn gwahanol fformatau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb a allai fod â diddordeb ynddynt. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, llunio taflenni neu bosteri sy'n targedu'r

gwahanol gynulleidfaoedd a datblygu apiau sy'n targedu plant hŷn a phobl ifanc.

6.24. Efallai na fydd gan rai plant y galluedd i wneud cais am gyngor a gwybodaeth neu i'w deall (am eu bod yn rhy ifanc, er enghraifft), er y caiff eu rhieni neu eu cyfeillion achos gael gafael ar yr wybodaeth a'r cyngor (gweler Pennod 30 i gael manylion rôl cyfeillion achos). Efallai y bydd plant eraill am gael gafael ar wybodaeth a chyngor yn annibynnol ar eu rhieni. **Dylai** awdurdodau lleol, felly, sicrhau bod y trefniadau yn darparu ar gyfer gwybodaeth a chyngor mewn fformatau sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn benodol, a **rhaid**[9] iddynt gymryd camau rhesymol i roi gwybod am y trefniadau hynny i blant yn eu hardal yn ogystal â rhoi gwybod i'w rhieni.

## *Cynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc*

6.25. **Dylai** awdurdodau lleol gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc (er enghraifft drwy grwpiau ffocws neu weithdai cyfranogi) yn y gwaith o gynllunio neu gomisiynu trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY. **Dylai** awdurdodau lleol adolygu effeithiolrwydd eu trefniadau drwy geisio adborth rheolaidd gan ddefnyddwyr, a **dylid** ystyried yr adborth hwn gyda golwg ar wella'r gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar y cyngor a'r wybodaeth a bod y trefniadau yn diwallu'r anghenion lleol. Er enghraifft, os bydd awdurdodau lleol yn gwneud eu trefniadau eu hunain i ddarparu cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY ac yn penderfynu datblygu cyfeiriadur (gweler paragraff 6.7), efallai y byddant am gynnwys dysgwyr a'u teuluoedd yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r cyfeiriadur. Os yw awdurdod lleol yn contractio darparwr allanol i ddarparu cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY, **dylai** ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr hwnnw brofi ei ddeunyddiau mewn ffordd debyg gyda dysgwyr a'u teuluoedd.

## *Rôl ysgolion, sefydliadau addysg bellach a meithrinfeydd nas cynhelir yn y gwaith o hyrwyddo trefniadau gwybodaeth a chyngor awdurdodau lleol*

6.26. Os bydd awdurdod lleol yn rhoi gwybod i ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach beth yw ei drefniadau, **rhaid**[10] i'r ysgol honno neu'r sefydliad addysg bellach gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'w disgyblion a'u rhieni ac i gyfeillion achos ei disgyblion (yn achos ysgolion) beth yw ei drefniadau, ac i'w fyfyrwyr (yn achos sefydliadau addysg bellach).

6.27. Pan fo awdurdod lleol yn hysbysu darparwyr addysg feithrin nas cynhelir sy'n cael cyllid awdurdod lleol o'i drefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY (gweler Pennod 10 am fanylion rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar),

[9] Adran 9(3) o'r Ddeddf.
[10] Adrannau 9(4) a (5) o'r Ddeddf.

**dylai'r** darparwyr hynny hefyd gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau yn wybyddus i rieni plant sy'n mynychu eu lleoliad.

6.28. Gallai hyn olygu, er enghraifft:

- rhoi dolenni i drefniadau'r awdurdod lleol ar wefan y feithrinfa nas cynhelir, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach;
- arddangos posteri neu osod taflenni mewn ardaloedd amlwg lle mae dysgwyr a'u teuluoedd yn debygol o'u gweld.

6.29. Mae'r Cod hefyd yn gosod gofynion penodol ar ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i roi gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY mewn amgylchiadau penodol, megis pan fydd ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn penderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY neu pan fydd yn paratoi neu ddiwygio CDU (gweler Pennod 1 am wybodaeth am roi hysbysiad neu gopïau o ddogfennau). Gallai awdurdod lleol gydymffurfio â gofyniad o'r fath, ar yr amod bod hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau penodol, drwy ddarparu taflen yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad y tudalennau perthnasol ar wefan yr awdurdod lleol, a thynnu sylw at sut i gael rhagor o wybodaeth a chyngor.

# Pennod 7: Adolygu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY

## *Cyflwyniad*

7.1. **Rhaid**[1] i awdurdod lleol adolygu'n rheolaidd y trefniadau a wneir gan yr awdurdod, a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir o fewn ei ardal, ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

7.2. Fel rhan o'i waith adolygu, mae'n **rhaid**[2] i awdurdod lleol ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn ddigonol i ddiwallu ADY y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt. **Rhaid**[3] iddo roi sylw i'r DDdY a all gael ei threfnu'n rhesymol gan eraill (er enghraifft sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG).

7.3. Wrth arfer ei swyddogaethau yn y cyswllt hwn, mae'n **rhaid**[4] i'r awdurdod lleol ystyried digonolrwydd y DDdY a gyflwynir drwy'r Gymraeg. **Rhaid**[5] ystyried maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael hefyd. Mae hyn yn cynnwys ystyried y gweithlu cyfrwng Cymraeg.

7.4. Os bydd awdurdod lleol o'r farn bod y trefniadau'n annigonol, **rhaid**[6] iddo gymryd pob cam rhesymol i gywiro hyn. Wrth arfer y swyddogaethau hyn, **rhaid**[7] i'r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â'r bobl hynny ac ar yr adegau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

7.5. Mae'r ddyletswydd yn golygu bod yr awdurdod lleol yn ystyried, ar lefel strategol, y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer DDdY a threfniadau eraill i gefnogi'r broses o nodi anghenion a darpariaeth i'w diwallu, ar gyfer plant a phobl ifanc yn ardal yr awdurdod. Mae angen ystyried pa ddarpariaeth sydd ar gael i ddiwallu anghenion; a yw'r ddarpariaeth honno'n ddigonol ac os nad yw'n ddigonol mewn unrhyw ffordd, ystyried beth i'w wneud i unioni'r mater; ac ymgynghori fel y gwêl yr awdurdod yn briodol yn ystod y broses honno. Nid oes unrhyw sbardun penodol i'r dyletswyddau fod yn gymwys; yn hytrach maent yn gymwys o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

## *Adolygu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY*

7.6. Y trefniadau i'w hadolygu yw'r DDdY sydd ar gael yn ardal yr awdurdod lleol a threfniadau eraill sy'n cefnogi'r broses o adnabod ADY a'r DDdY sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

[1] Adran 63(1) o'r Ddeddf.
[2] Adran 63(2) o'r Ddeddf.
[3] Adran 63(2) o'r Ddeddf.
[4] Adran 63(3)(a) o'r Ddeddf.
[5] Adran 63(3)(b) o'r Ddeddf.
[6] Adran 63(4) o'r Ddeddf.
[7] Adran 63(5) o'r Ddeddf.

7.7. Ni fwriedir i'r adolygiad fod yn ddull o fesur na monitro effeithiolrwydd DDdY a ddarperir i blant a phobl ifanc unigol ag ADY; byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad CDU pob dysgwr (gweler Pennod 25 o'r Cod) a chan Gydlynwyr ADY wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran monitro pa mor effeithiol yw'r DDdY ar gyfer dysgwyr yn eu lleoliad (gweler Pennod 8 o'r Cod). Yn hytrach, diben adolygiad yr awdurdod lleol o DDdY yw ei alluogi i asesu p'un a yw'r DDdY gyffredinol sydd ar gael o fewn ei ardal a'r trefniadau cysylltiedig yn ddigonol i ddiwallu anghenion cyffredinol ei boblogaeth o ddysgwyr sydd ag ADY.

7.8. Mae parhau i adolygu DDdY a threfniadau eraill yn rheolaidd yn rhan allweddol o'r gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol yn lleol. Bydd yn galluogi awdurdodau lleol i asesu anghenion cyfredol a rhai tebygol y dyfodol a sicrhau bod digon o ddarpariaeth a gwasanaethau ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny.

7.9. **Dylai'r** adolygiad ategu proses yr awdurdod lleol o wneud penderfyniadau strategol ynglŷn ag a oes gan yr awdurdod y mathau cywir o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion ei blant a phobl ifanc sydd ag ADY nawr ac yn y dyfodol, a oes ganddo'r lefel gywir o ddarpariaeth ac a yw'r ddarpariaeth o'r ansawdd cywir. Dylai'r adolygiad hefyd bennu'r camau y dylid eu cymryd i unioni unrhyw ddiffygion.

7.10. **Dylai'r** awdurdod lleol sefydlu i ba raddau y mae'r canlynol ar gael mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal, gan roi ystyriaeth i'r egwyddorion sydd i'w datblygu gan ymgynghori ag ysgolion y mae'n eu cynnal, sefydliadau addysg bellach yn ei ardal a phersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol (gweler paragraffau 12.44 a 15.45):

(a) addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc unigol;
(b) ymyriadau a chymorth wedi'i dargedu i blant a phobl ifanc ag ADY;
(c) systemau effeithiol i fonitro cynnydd a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc ag ADY ac i'w cynnwys ym mywyd pob dydd yr ysgol;
(d) trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr mewn achosion lle mae'n briodol gwneud hynny;
(e) trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddiwyd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY, a sgiliau ac arbenigedd staff;
(f) trefniadau ar gyfer cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni ar bob cam.

7.11. Gallai adolygu DDdY a threfniadau eraill ddarparu gwybodaeth i awdurdod lleol, er enghraifft, am y defnydd o wasanaeth arbenigol penodol o fewn yr ardal a llwyddiant y trefniadau presennol, gan roi cyfle i'r awdurdod ystyried a oes dull mwy effeithlon ar gael o ddiwallu'r anghenion hynny yn y dyfodol.

7.12. **Dylid** adolygu DDdY a threfniadau eraill mewn ffordd a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i asesu'r angen tebygol yn y dyfodol, cynllunio ar gyfer y gofynion o ran darpariaeth yn y dyfodol, ystyried cynlluniau comisiynu ymlaen llaw a rhoi cyfle i ysgolion fynegi barn ar sut i gynllunio'r ddarpariaeth.

7.13. Wrth adolygu'r DDdY sydd ar gael yn ei ardal a threfniadau eraill ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, **rhaid**[8] i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r personau y mae'n eu hystyried yn briodol, ac ar adegau y mae'n eu hystyried yn briodol. Ymhlith personau y gallai'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw mae:

- Plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Awdurdodau lleol eraill yn ei ranbarth
- Ysgolion a gynhelir
- Sefydliadau addysg bellach
- Cydlynwyr ADY
- Ysgolion annibynnol
- Sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
- Darparwyr addysg feithrin nas cynhelir
- Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol
- Seicolegwyr addysg
- Gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan yr awdurdod lleol (gan gynnwys athrawon cymwysedig digsgyblion byddar neu ddisgyblion â nam ar eu golwg neu namau amlsynnwyr)
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Gwasanaethau datrys anghytundeb ac anghydfod
- Timau troseddau ieuenctid
- Cyrff y GIG
- Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig
- Consortia addysg rhanbarthol
- Sefydliadau'r trydydd sector
- Undebau a chyrff proffesiynol

7.14. Gall cyfranogiad yr unigolion hyn helpu'r awdurdod lleol i sefydlu darlun clir o gapasiti ac effeithiolrwydd y DDdY bresennol. Efallai y byddant hefyd yn gallu cynnig barn ar anghenion a phatrymau angen sy'n dod i'r amlwg; pa mor addas yw'r sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael yn y gweithlu; a chyfrannu at benderfyniadau ynghylch digonolrwydd trefniadau ac ynghylch y camau rhesymol y mae awdurdodau lleol yn eu cymryd i unioni unrhyw ddiffygion. Er enghraifft, mae'r consortia addysg rhanbarthol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill a restrir ym mharagraff 7.13, yn cyflawni swyddogaeth allweddol wrth goladu tystiolaeth sy'n ymwneud â maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael ac a yw trefniadau lleol yn ddigonol.

7.15. Nid yw'r ddyletswydd adolygu yn cael ei sbarduno gan unrhyw ddigwyddiad penodol. Mae'n codi o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen. Gallai awdurdodau lleol amseru adolygiadau, lle bo'n bosibl, i gysylltu'n briodol â chyflawni dyletswyddau strategol ehangach, gan gynnwys:

[8] Adran 63(5) o'r Ddeddf.

- y rhai sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg[9], sy'n nodi cynigion a thargedau ar gyfer gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal a safonau'r addysg honno a safonau addysgu'r Gymraeg yn eu hardal;
- asesiadau o anghenion gofal a chymorth gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol[10];
- gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus[11] i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mewn ardal. Mae aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol;
- dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod digon o ysgolion ar gyfer darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gael ar gyfer eu hardal[12].

7.16. **Dylai'r** awdurdod lleol adolygu data a thystiolaeth ar ba mor effeithiol yw'r ddarpariaeth bresennol o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc a gwella'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni.

7.17. Wrth adolygu pa mor ddigonol yw eu trefniadau (gan gynnwys a ydynt yn effeithiol), gallai awdurdodau lleol ystyried:

- canfyddiadau a deilliannau unrhyw achosion yr apeliwyd i'r Tribiwnlys yn eu cylch yn ddiweddar, ac unrhyw anghytundebau am DDdY yr ymdriniwyd â nhw ar lefel leol;
- nifer y dysgwyr ag ADY o fewn ardal yr awdurdod lleol sydd ar fin pontio o leoliad cyn-ysgol i'r ysgol, o'r ysgol i addysg bellach, ac o un lleoliad addysg feithrin/ysgol/sefydliad addysg bellach/ardal awdurdod lleol i un arall;
- lleoliadau mewn sefydliadau addysg y tu allan i'r ardal ar gyfer y rheini sydd ag anghenion llai cyffredin neu lefel uchel;
- deilliannau perthnasol asesiadau datblygiad ymwelwyr iechyd a gwybodaeth berthnasol o Raglen Plant Iach Cymru;
- data perthnasol am blant a phobl ifanc anabl o fewn eu hardal o'r gofrestr pobl anabl, y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei chadw[13];
- gwybodaeth berthnasol o'r asesiad o anghenion gofal a chymorth a gynhelir gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[14];
- canfyddiadau adroddiadau arolygu ac adolygiadau thematig perthnasol Estyn;
- gwybodaeth berthnasol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol;

---

[9] Rhan 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
[10] Adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gweler hefyd Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol).
[11] O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
[12] Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996.
[13] Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol).
[14] Adran 14 o'r Ddeddf honno.

- unrhyw rwystrau sydd wedi'u hadnabod sy'n atal plant a phobl ifanc rhag gallu manteisio ar wasanaethau ADY;
- gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol ynglŷn â'r DDdY a ddarperir i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar eu cyfer ac sy'n cael eu haddysgu gartref, mewn ysgol annibynnol neu mewn lleoliad heblaw am ysgol;
- gwybodaeth berthnasol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol am blant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn llety ieuenctid perthnasol neu mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gweler Pennod 19);
- anghenion penodol unrhyw gymunedau Lluoedd Arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog sydd ag ADY (gweler Pennod 18 o’r Cod i gael rhagor o ganllawiau ar blant a phobl ifanc o’r fath).

7.18. Gall ystyried data a gwybodaeth o'r fath, ac ymgynghori â phersonau y mae'n eu hystyried yn briodol, helpu'r awdurdod lleol i nodi:

- ystod a lefel y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac unrhyw fylchau neu ormodedd yn y ddarpariaeth sydd ar gael;
- ystod a lefel y ddarpariaeth sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc;
- ystod a lefel y ddarpariaeth sy'n ofynnol er mwyn atal anghenion rhag ymddangos neu waethygu;
- ystod a lefel y ddarpariaeth Gymraeg sydd ei hangen.

## *Camau gweithredu i unioni diffygion*

7.19. Os bydd awdurdod lleol yn ystyried nad yw'r trefniadau ar gyfer dysgwyr ag ADY (gan gynnwys y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael drwy'r Gymraeg) yn ddigonol, **rhaid**[15] iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater.

7.20. Er enghraifft, efallai y bydd awdurdod lleol yn gweld bod nifer uwch o ddysgwyr sydd â math penodol o ADY yn agosáu at oedran ysgol gorfodol. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn y gallai fod angen darpariaeth benodol ar y dysgwyr hyn pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, a bod nifer yr arbenigwyr sydd ar gael i ddarparu'r ddarpariaeth honno yn annigonol i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn, **rhaid**[16] iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni hyn.

7.21. Wrth ystyried sut i gywiro diffygion yn eu trefniadau ar gyfer dysgwyr ag ADY, **dylai** awdurdodau lleol ystyried a ellid mynd i'r afael â'r diffyg drwy ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, sefydliadau addysg bellach, cyrff y GIG neu asiantaethau eraill yn rhanbarthol.  Er enghraifft, efallai y gellid diwallu anghenion dysgwyr ag ADY o fewn ardal un awdurdod lleol drwy ddarparu gwasanaeth a fyddai'n diwallu

[15] Adran 63(4) o’r Ddeddf.
[16] Adran 63(4) o’r Ddeddf.

anghenion dysgwyr ag ADY o fewn ardaloedd dau neu fwy o awdurdodau lleol. Yn yr un modd, gallai'r trydydd sector a darparwyr eraill helpu i ddiwallu angen drwy'r gwasanaethau a ddarparant. Efallai y gellid darparu gwasanaethau ar y cyd ag awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.

7.22. Yn unol ag egwyddor cydweithredu (gweler Pennod 3 y Cod), **dylai** awdurdodau lleol fynd ati'n rhagweithiol i adnabod cyfleoedd i rannu adnoddau ag awdurdodau lleol eraill. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol o ran ateb y galw am ddarpariaeth Gymraeg, a sicrhau digonolrwydd y gweithlu arbenigol.

7.23. Wrth fynd i'r afael â diffygion o ran y DDdY sydd ar gael mewn ysgolion a threfniadau ADY eraill mewn ysgolion, **dylai**'r awdurdod lleol ystyried pa gamau i'w cymryd i unioni'r diffygion hynny, gan roi sylw i'r egwyddorion y cyfeirir atynt mharagraffau 5.10, 12.44 a 15.45.

7.24. **Dylai** awdurdodau lleol ystyried ar lefel strategol a yw newidiadau i drefniadau ariannu ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY yn briodol yn sgil eu hadolygiad a chan ystyried yr egwyddorion y cyfeiriwyd atynt uchod.

7.25. Gallai penderfyniadau strategol a wneir yn sgil adolygu DDdY gynnwys:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY a'u teuluoedd yn cymryd mwy o ran mewn cynlluniau a phenderfyniadau strategol, yn unol â dyletswyddau o dan adran 6 o'r Ddeddf[17];
- cefnogi clystyrau o ysgolion a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir i wella hyfforddiant a datblygiad, a darparu cymorth gan gymheiriaid;
- gwella mynediad at gyngor a chymorth arbenigol – er enghraifft, cyngor seicoleg addysgol, therapïau, cymorth synhwyraidd, cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth, neu i'r rheini ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, ac anghenion iechyd meddwl;
- sicrhau darpariaeth briodol drwy'r Gymraeg;
- datblygu darpariaeth ag adnoddau arbennig mewn nifer o ysgolion;
- creu cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd er mwyn hybu'r arfer o rannu arbenigedd a dulliau gweithredu;
- gwella arferion cydweithio rhwng darparwyr gofal plant ac addysg feithrin ac asiantaethau neu wasanaethau eraill sy'n gweithio'n agos gyda phlant sydd o dan oedran ysgol gorfodol a heb fod yn mynychu ysgol a gynhelir (e.e. cyrff ac ymarferwyr iechyd gan gynnwys ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg; Dechrau'n deg; Teuluoedd yn gyntaf; gwasanaethau cymdeithasol; Cydlynwyr ADY ysgol; a sefydliadau perthnasol yn y trydydd sector);
- meithrin gallu pob ysgol brif ffrwd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth ehangach o anghenion;
- datblygu'r gallu i gynnig pecynnau cymorth addysg, iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gallu addysgu mwy o blant yn lleol yn hytrach nag mewn lleoliadau y tu allan i'w hardal.

[17] Mae Pennod 4 yn ymdrin â dyletswyddau adran 6.

7.26. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw adolygu'r trefniadau yn rheolaidd, ond yn aml bydd camau i fynd i'r afael â materion sydd wedi'u hadnabod yn fwy effeithiol o'u cymryd ar y cyd ag eraill. **Dylai** awdurdodau lleol ystyried gweithio gydag eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc (e.e. awdurdodau lleol eraill, cyrff iechyd, sefydliadau addysg bellach, darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a'r trydydd sector) i ddatblygu trefniadau rhanbarthol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Gallai'r trefniadau rhanbarthol ymwneud ag unrhyw un neu bob un o'r gweithgareddau strategol uchod neu rai eraill.[18]

## *Cofnodi casgliadau*

7.27. **Dylai** awdurdod lleol gofnodi unrhyw gasgliadau y mae'n eu cyrraedd o ran digonolrwydd y trefniadau ar gyfer diwallu ADY plant a phobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt ac unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd i unioni unrhyw ddiffyg a nodwyd. **Dylai** hyn gynnwys enghreifftiau lle nad yw'r galw am ddarpariaeth yn cael ei fodloni, neu lle mae perygl o hynny, yn ogystal â lle y ceir gormod o ryw adnodd penodol.

7.28. **Dylai** awdurdod lleol hefyd gyhoeddi ar ei wefan grynodeb o'i gasgliadau o ran digonolrwydd y trefniadau ac unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd i unioni unrhyw ddiffygion.

7.29. Gallai crynodeb cyhoeddedig hefyd gynnwys:
- y dystiolaeth sydd wedi cael ei hystyried;
- y personau a'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw.

[18] Dylid rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wrth sefydlu unrhyw drefniadau rhanbarthol.

# Pennod 8: Rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (y CADY)

## *Y ddyletswydd ar ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i ddynodi CADY*

8.1. **Rhaid**[1] i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir[2] a sefydliad addysg bellach yng Nghymru ddynodi person, neu fwy nag un person a fydd yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Gelwir y person hwnnw (neu'r personau hynny) yn Gydlynydd ADY[3] neu CADY.

8.2. Gall fod yn briodol weithiau i rai lleoliadau addysg rannu CADY. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft: mewn amgylchiadau lle mae meithrinfa a gynhelir ynghlwm wrth ysgol; lle mae nifer o leoliadau bach mewn ardal leol; neu pan fo ffederasiwn o ysgolion o dan gyfrifoldeb un corff llywodraethu. Nid oes disgwyl i leoliadau mawr, fel sefydliadau addysg bellach, rannu CADY. Os oes trefniant rhannu ar waith, **dylai'r** corff (neu'r cyrff) llywodraethu perthnasol sicrhau, wrth gyflawni ei ddyletswydd i benodi CADY, fod y corff llywodraethu yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod hwn. **Dylai** corff llywodraethu sicrhau y bydd y CADY yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn ffordd sy'n addas i strwythur ac anghenion y lleoliad addysg a'i ddysgwyr.

8.3. O dan eu dyletswydd i ddynodi rhywun i fod yn CADY, **dylai** ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach ystyried set sgiliau a phrofiad yr unigolyn i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a ragnodir yn y gyfraith. **Dylai** fod gan pob CADY gymwysterau at lefel uchel (yn ogystal â'r cymhwyster a'r profiad y rhagnodir yn y gyfraith eu bod yn hanfodol – gweler "Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau" ym mharagraffau 8.22-8.23) a **dylai** fod ganddynt arbenigedd mewn ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ac mewn ymdrin ag amrywiaeth eang o ADY. **Dylai** CADYau fynd ati i ddilyn hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gallant ddewis arbenigo mewn mathau penodol o ADY a rhannu'r arbenigedd hwn y tu allan i'w lleoliad addysg penodol (gweler y manylion am gymwysterau CADY ym mharagraff 8.22).

8.4. Nid yw'r ffaith y dynodir CADY yn dileu cyfrifoldebau'r gweithlu ehangach; mae pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu hadnabod a'u diwallu.

8.5. Mae'n hanfodol bod gan y CADY amser ac adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo y tu allan i'r ystafell ddosbarth. **Dylai** pennaeth y lleoliad addysg sicrhau bod y CADY yn

[1] Adran 60(2) o'r Ddeddf.
[2] Ystyr hyn yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion – gweler adran 60(1) o'r Ddeddf.
[3] Adran 60(3) o'r Ddeddf.

cael cefnogaeth yn hyn o beth. Drwy neilltuo amser clir a digonol, bydd modd sicrhau bod y CADY yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Wrth bennu digon o amser, **dylid** ystyried y nifer ar y gofrestr yn y lleoliad addysg sydd ag ADY a difrifoldeb yr ADY sydd gan y garfan honno o ddysgwyr.

8.6. Os yw rôl unigolyn fel CADY yn cael ei chyfuno â chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, mae'n bwysig sicrhau bod y cyfrifoldebau eraill hynny yn gydnaws â'r dyletswyddau y disgwylir i'r unigolyn eu cyflawni fel CADY ac na fyddant yn amharu ar ei allu i ymgymryd â rôl y CADY.

## *Rôl y CADY*

8.7. Er bod pob athro ac aelod o'r staff addysgu yn addysgu plant a phobl ifanc ag ADY, y CADY yw'r unigolyn sy'n mynd ati ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu. Mae ei rôl yn un strategol o fewn y lleoliad addysg a **dylai**, felly, naill ai fod yn aelod o'r uwch dîm arwain **neu** fod â llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arwain[4]. Bydd hyn o gymorth i'r lleoliad addysg wrth gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o ran adnabod a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY.

8.8. Er mwyn cefnogi'r CADY, **dylai'r** uwch dîm arwain gynghori, cefnogi a herio systemau a phrosesau'r lleoliad addysg i adnabod a diwallu anghenion dysgwyr. Gall yr awdurdod lleol gefnogi rôl y CADY, gan gynnwys darparu arweiniad pan fo hynny'n briodol.

8.9. Bydd angen i'r CADY gyfrannu at y gwaith o gydlynu adnoddau ADY mewn ffordd strategol, er enghraifft trefnu a chefnogi staff a gweithio gydag aelodau o'r uwch dîm arwain i gynllunio a phenderfynu ar yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi staff yn y lleoliad. **Dylai** CADYau gymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau yn ymwneud â chyllidebau ac adnoddau i helpu i gynllunio darpariaeth briodol.

8.10. Ni ddisgwylir i'r CADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gefnogi dysgwyr unigol ag ADY. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am wneud hynny, ond mae staff cymorth dysgu yn gallu helpu'r CADY i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefnogi a bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.

### Dyletswyddau CADYau

8.11. Yn ogystal â'i gyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu CDU ar gyfer myfyrwyr neu ddisgyblion ag ADY, mae'r CADY yn gyfrifol am sicrhau bod tasgau a nodir dan y pennawd hwn yn y bennod yn cael eu cyflawni. Gall CADY ddewis

[4] Yr uwch dîm arwain yw'r pennaeth a'r uwch reolwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros bob agwedd ar arwain a rheoli'r ysgol. Efallai y bydd rhai lleoliadau addysg yn defnyddio terminoleg wahanol i gyfeirio at yr uwch dîm arwain.

ymgymryd â'r tasgau hyn ei hun neu drefnu i dasgau gael eu cyflawni gan eraill[5].

8.12. Ni fydd gofyn i'r CADY ddatblygu pob CDU – ond bydd ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod CDU gan bob dysgwr sydd ag ADY yn y lleoliad addysg. **Rhaid**[6] i CADYau adnabod ADY disgybl neu fyfyriwr a chydlynu'r broses o greu DDdY sy'n diwallu'r anghenion hynny.

8.13. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, **dylai** CADYau sicrhau, pryd bynnag y bydd gan eu lleoliad ddyletswydd i benderfynu a oes gan ddisgybl neu fyfyriwr ADY, fod rhywun wedi'i ddynodi i gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwn ac, os bydd angen CDU yn sgil hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio (gweler Penodau 11-17 ar y ddyletswydd i ddynodi cydlynwyr).

8.14. **Rhaid**[7] i CADYau sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi DDdY disgybl neu fyfyriwr yn ôl y gofyn. Bydd angen cymorth asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol ar rai dysgwyr ag ADY. Bydd y CADY yn gyfrifol am gydweithio â'r gwasanaethau arbenigol hyn a phan gytunir i ddarparu gwasanaethau o'r fath, am ofalu y cânt eu sicrhau. Darperir rhagor o wybodaeth am gynnwys gwasanaethau eraill yn y gwaith o adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol ym Mhennod 20.

8.15. **Rhaid**[8] i CADYau gadw cofnodion o benderfyniadau ynghylch ADY ac CDUau. Er enghraifft, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach gofnodi'r dyddiad pan gaiff ei ddwyn i'w sylw, neu pan fydd yn ymddangos iddynt fel arall, y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY. Byddai disgwyl i CADY sicrhau y cedwir cofnod o'r penderfyniad hwn.

8.16. **Rhaid**[9] i CADYau hyrwyddo'r arfer o gynnwys disgybl neu fyfyriwr yng nghymuned yr ysgol/sefydliad addysg bellach a sicrhau bod cwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol honno neu'r sefydliad addysg bellach hwnnw ar gael iddo. Wrth wneud hyn (yn yr un modd ag wrth arfer ei holl swyddogaethau), **rhaid**[10] i'r CADY roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc.

8.17. **Rhaid**[11] i CADYau fonitro effeithiolrwydd unrhyw DDdY. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd y CADY am wneud defnydd effeithiol o'r systemau gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan y lleoliad addysg i fonitro effaith ymyriadau ac asesu cynnydd o'i gymharu â deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer pob dysgwr ag ADY. Os nad yw cynnydd y dysgwr yn bodloni'r disgwyliadau, **dylai'r** CADY a'r staff adolygu'r ymyriadau, a'u haddasu yn ôl

[5] Rheoliadau 29 a 30 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[6] Rheoliadau 29(a) a 30(a) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[7] Rheoliadau 29(b) a 30(b) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[8] Rheoliadau 29(c) a 30(c) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[9] Rheoliadau 29(d) a 30(d) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[10] Adran 6 o'r Ddeddf.
[11] Rheoliadau 29(e) a 29(e) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

yr angen. Mae rhagor o wybodaeth am fonitro effaith ar gael ym Mhennod 25.

8.18. **Rhaid**[12] i CADYau roi gwybod i athrawon yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach am ddulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol i ddisgyblion neu fyfyrwyr unigol ag ADY.

8.19. **Rhaid**[13] i CADYau oruchwylio a threfnu ar gyfer hyfforddiant gweithwyr cymorth dysgu sy'n gweithio gyda disgyblion neu fyfyrwyr ag ADY. Gall gweithwyr cymorth dysgu fod yn adnodd pwysig i'r CADY pan fydd yn mynd ati i gydlynu darpariaeth cymorth ledled y lleoliad addysg. Gall gweithwyr cymorth dysgu ddarparu sgiliau arbenigol i gefnogi dysgwyr ag ADY, a byddant yn cynnig cymorth ymarferol a gweinyddol i'r CADY. Mae'n bosibl na fydd yn briodol defnyddio gweithwyr cymorth dysgu ym mhob achos, fodd bynnag. Un yn unig ydynt o blith nifer o adnoddau a ddylai fod ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY.

8.20. **Rhaid**[14] i CADYau gyfrannu at hyfforddiant mewn swydd i athrawon yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach i helpu'r CADY i gyflawni'r tasgau a nodir ym mharagraffau 8.11 hyd 8.17. Bydd y CADY yn chwarae rôl bwysig wrth roi cyngor ar y cymorth ehangach sy'n cael ei ddarparu yn y lleoliad addysg ac wrth gyfrannu at y cymorth hwn, ac ym maes dysgu proffesiynol ar gyfer aelodau staff eraill. Felly, mae'n hollbwysig ei fod yn gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau, cymorth a thystiolaeth o arferion gorau ym maes ADY.

### Cyfrifoldebau eraill y CADY

8.21. Yn ogystal â'r tasgau gorfodol, **dylai** cyfrifoldebau allweddol y CADY gynnwys:

- pan fo gofynion penodol[15] yn pennu bod yn rhaid i ysgolion neu sefydliadau addysg bellach ddarparu dogfennau, hysbysiadau neu wybodaeth i blentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc[16], **dylai'r** CADY oruchwylio'r ddarpariaeth honno;
- goruchwylio'r gwaith o weithredu trefniadau ADY y lleoliad addysg o ddydd i ddydd;
- goruchwylio'r DDdY ledled y lleoliad addysg ar gyfer diwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi mewn CDUau. **Dylai'r** CADY sicrhau bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r DDdY ar gyfer dysgwyr yn ei leoliad a, lle bo hynny'n briodol, arwain y broses adolygu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i ddiwallu'r anghenion a nodwyd;

[12] Rheoliadau 29(f) a 30(f) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[13] Rheoliadau 29(g) a 30(g) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[14] Rheoliadau 29(h) a 30(h) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[15] Pa un gânt eu gorfodi gan y Ddeddf, rheoliadau o dan y Ddeddf, neu'r Cod.
[16] Byddai hyn yn cynnwys cynrychiolydd i berson ifanc neu riant plentyn, neu gyfaill achos— gweler Pennod 1 am fanylion ynghylch arfer hawliau gan blant a chyfeillion achos, a chan gynrychiolwyr i rieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd.

- sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n briodol (yn unol â Phennod 25 o'r Cod hwn);
- cefnogi dysgwyr â CDU wrth iddynt bontio o un lleoliad addysg i un arall neu i fyd oedolion, astudiaethau pellach neu fyd gwaith (gweler Pennod 27);
- goruchwylio'r broses o drosglwyddo gwybodaeth am ADY a DDdY y dysgwr yn briodol o un lleoliad addysg i'r llall;
- cysylltu â swyddogion arholiadau ac athrawon arbenigol wrth geisio addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau;
- cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno gweithdrefnau a systemau ADY priodol yn y lleoliad addysg, gan gynnwys cynllunio ariannol strategol, defnyddio adnoddau yn effeithiol, a chasglu a dadansoddi data, â'r nod o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY;
- datblygu i fod yn ffynhonnell arbenigedd ym maes ADY drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol;
- bod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r cymorth diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ADY;
- gwella ei ddysgu proffesiynol ei hun drwy gadw mewn cysylltiad â'r rhwydwaith lleol o CADYau (**dylai** awdurdodau lleol ystyried sefydlu a hwyluso'r rhwydweithiau hyn) a, lle bo hynny'n briodol, drwy gadw mewn cysylltiad ag ysgolion arbennig i ddatblygu a rhannu profiad ac arferion gorau;
- sicrhau bod y cofnod o'i rôl a'i ddysgu proffesiynol sy'n rhan o'i fanylion cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn gofnod diweddar mewn perthynas ag ADY;
- darparu cefnogaeth broffesiynol ar gyfer pob aelod o staff fel bod modd adnabod achosion yn gynnar ac asesu a chynllunio ar gyfer dysgwyr ag ADY. Gall hyn gynnwys cefnogi staff i olrhain disgyblion ar lefel ysgol/sefydliad addysg bellach cyfan a'u helpu i reoli'r gwaith o osod targedau;
- sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdod lleol i osgoi a datrys anghytundebau yn cael eu defnyddio'n llawn fel sy'n briodol;
- gweithredu fel yr unigolyn cyswllt allweddol ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant a chymorth yr awdurdod lleol perthnasol, asiantaethau allanol, sefydliadau annibynnol/gwirfoddol, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, seicolegwyr addysg ac ati;
- trafod ag arbenigwyr gyrfaoedd i sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael cyngor priodol ar yrfaoedd;
- gweithio mewn ffordd strategol gyda'r uwch dîm arwain a llywodraethwyr i sicrhau bod y lleoliad addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf, y Cod hwn a Deddf Cydraddoldeb 2010.

## *Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau*

8.22. **Rhaid**[17] i'r CADY mewn ysgol (ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 8.23) fod yn athro neu athrawes ysgol[18]. Yn yr un modd, bydd **rhaid**[19] i CADY sy'n gweithio mewn sefydliad addysg bellach fod yn athro neu athrawes addysg bellach[20].

8.23. Gall ysgol a gynhelir ddynodi unigolion yn CADY heb iddynt fod yn athrawon ysgol, ond dim ond os oeddynt yn gweithredu fel cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (cydlynwyr AAA) yn yr ysgol honno yn union cyn 4 Ionawr 2021[21].

[17] Rheoliad 27(a) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[18] Ystyr "athro neu athrawes ysgol" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn y categori athro neu athrawes ysgol fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ac nid yw'n cynnwys rhywun a gofrestrwyd ar sail dros dro o dan adran 9(5) o'r Ddeddf honno – gweler rheoliad 26 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[19] Rheoliad 28 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[20] Ystyr "athro neu athrawes addysg bellach" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn y categori athro neu athrawes addysg bellach fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 ac nid yw'n cynnwys rhywun a gofrestrwyd ar sail dros dro o dan adran 9(5) o'r Ddeddf honno – gweler rheoliad 26 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[21] Rheoliad 27(b) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

# Pennod 9: Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ("SACDA")

## *Y ddyletswydd ar fyrddau iechyd lleol i ddynodi Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg*

9.1. **Rhaid**[1] i bob Bwrdd Iechyd Lleol ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Gelwir y person hwnnw yn "swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg" (a dalfyrrir yn y Cod i "SACDA").

9.2. **Rhaid**[2] i'r SACDA fod un ai'n ymarferwr meddygol cofrestredig neu'n nyrs gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall.

9.3. **Rhaid**[3] i'r Bwrdd Iechyd Lleol, wrth ddynodi swyddog yn SACDA, ystyried bod gan y swyddog gymwysterau a phrofiad addas ym maes darparu gofal iechyd i blant a phobl ifanc ag ADY.

9.4. Mae swyddogaethau'r bwrdd iechyd lleol y mae'r SACDA yn gyfrifol am eu cydlynu yn cynnwys:

(a) atgyfeiriadau[4] i'r Bwrdd Iechyd Lleol i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc;
(b) sicrhau'r DDdY (hynny yw, y driniaeth neu'r gwasanaeth perthnasol) a ddisgrifir mewn CDU fel darpariaeth sydd i'w sicrhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys cymryd camau rhesymol i sicrhau ei darpariaeth yn Gymraeg lle bo angen);
(c) cymryd rhan mewn adolygiadau o CDUau[5] lle mae triniaeth neu wasanaeth perthnasol yn cael ei nodi fel DDdY i'w sicrhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol;
(d) ceisiadau[6] gan awdurdodau lleol i'r Bwrdd Iechyd Lleol am wybodaeth neu gymorth arall, y mae ei angen ar y cyntaf er mwyn arfer ei swyddogaethau ADY;
(e) hysbysu[7] rhieni ac awdurdodau lleol am farn y Bwrdd Iechyd Lleol ei bod yn debygol fod gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY;
(f) rhoi[8] tystiolaeth i'r Tribiwnlys mewn apêl mewn perthynas â materion ADY;

[1] Adran 61 o'r Ddeddf.
[2] Adran 61(2) o'r Ddeddf.
[3] Adran 61(3) o'r Ddeddf.
[4] O dan adran 20 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 21.
[5] O dan adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 25.
[6] O dan adran 65 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 21.
[7] O dan adran 64 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 21.
[8] Gall y Tribiwnlys wneud hyn yn ofynnol: gweler adran 76 o'r Ddeddf a Phennod 33 ar apeliadau.

(g) ymdrin ag argymhellion[9] a wneir i'r Bwrdd Iechyd Lleol gan y Tribiwnlys ynghylch arfer swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

## *Profiad ac arbenigedd y SACDA*

9.5. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y swyddog y mae'n ei ddynodi yn SACDA:

(a) wedi cael profiad o arweinyddiaeth ar lefel uwch yn y gwasanaeth iechyd;
(b) yn gallu darparu cyfeiriad strategol cyffredinol â'r nod o sicrhau bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau sy'n ymwneud ag ADY;
(c) yn gallu adnabod a datrys problemau a gwrthdaro cyn gynted â phosibl;
(d) yn gallu cyfeirio materion i Fwrdd Gweithredol y Bwrdd Iechyd Lleol, fel y bo'n briodol;
(e) wedi cael profiad ar lefel uwch o agwedd ar ofal iechyd sy'n berthnasol i ADY, er enghraifft mewn maes fel Meddygaeth (gofal sylfaenol neu eilaidd), Nyrsio, Bydwreigiaeth, Gwaith Proffesiynol Perthynol i Iechyd, neu fel ymarferwr Iechyd Cyhoeddus.

9.6. Bydd sgiliau datrys problemau, negodi a chyfathrebu cryf yn hanfodol i'r SACDA wrth ganfod a gweithredu dulliau gwaith arloesol a chydweithredol ar draws asiantaethau a gwasanaethau o fewn y bwrdd iechyd.

9.7. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ei gwneud yn ofynnol i'r SACDA fod yn atebol i Gyfarwyddwr Gweithredol o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol a **dylai** ddarparu llwybr clir i'r SACDA gyfeirio materion i fyny at Fwrdd Gweithredol y Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd y SACDA yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol, ond nid oes angen iddo fod yn gyfrifol am eu cyflawni. Caiff swyddogion eraill gyflawni'r swyddogaethau hynny o ddydd i ddydd, a gallai hyn fod yn arbennig o briodol ar gyfer materion gweinyddol neu weithredol; neu lle mae angen gwybodaeth dechnegol benodol i'r pwnc, neu os yw gweithiwr iechyd proffesiynol eisoes yn ymwneud â gofal y plentyn neu'r person ifanc. Er enghraifft, ni fydd disgwyl i'r SACDA ddod i bob cyfarfod CDU, ond dylai fod yn gyfrifol am sefydlu a chynnal strwythurau a systemau effeithlon o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol i alluogi'r gweithiwr iechyd proffesiynol priodol i fynd i gyfarfodydd CDU pan fo modd. Os nad yw hyn yn bosibl, **dylai'r** strwythurau a'r systemau a sefydlir gan y SACDA sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn darparu eu cyngor a'u tystiolaeth yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod (gweler Pennod 22 am ragor o wybodaeth am gyfarfodydd ynghylch ADY a CDUau).

## *Rôl y SACDA*

9.8. Mae rôl SACDA yn rôl strategol a **dylai** Bwrdd Iechyd Lleol gynnwys y cyfrifoldebau canlynol o fewn y rôl:

[9] Adran 76 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 33 ar apeliadau.

(a) cydweithio ag eraill;
(b) codi ymwybyddiaeth o'r system ADY ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol;
(c) rheoli systemau effeithlon a chyson o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol i'w alluogi i arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf;
(d) rheoli rhan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn cwynion, anghydfodau ac apeliadau i'r Tribiwnlys sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf;
(e) mesur cydymffurfiaeth a sicrhau ansawdd gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

9.9. Mae canllawiau ar y cyfrifoldebau hyn i'w gweld isod.

**a) Cydweithio ag eraill**

9.10. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithredu ag eraill (megis Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar a CADYau yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau), er mwyn hyrwyddo gwaith amlasiantaeth effeithiol rhwng y gwasanaeth iechyd (gofal sylfaenol ac eilaidd), iechyd y cyhoedd, awdurdodau lleol (adrannau addysg a gofal cymdeithasol), gwasanaethau eirioli, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a'r trydydd sector.

9.11. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn gweithio gyda gwasanaethau plant ac oedolion i sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn pontio'n llwyddiannus o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

9.12. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn cydweithio â SACDAau eraill ledled Cymru â'r nod o:

(a) rannu arfer gorau;
(b) sefydlu llwybrau gofal clir a chyson ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY;
(c) lleihau anghydraddoldeb rhwng ardaloedd byrddau iechyd, yn enwedig ar gyfer unigolion sy'n symud ardaloedd neu sydd wedi'u lleoli y tu allan i'w hardal.

**b) Codi ymwybyddiaeth o'r system ADY**

9.13. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn gweithredu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ADY ar lefel weithredol ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol, yn ogystal ag ymwybyddiaeth, yn ehangach, o'r dyletswyddau sy'n berthnasol i ymarferwyr mewn perthynas ag ADY, yn benodol;

(a) y ddyletswydd[10] i roi gwybod i rieni ac i awdurdod lleol, os ydynt yn llunio barn bod gan blentyn o dan oedran addysg orfodol ADY, neu fod ganddo ADY yn ôl pob tebyg;

[10] O dan adran 64 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 21.

(b) y ddyletswydd[11] i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc pan ofynnir iddo wneud hynny gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach.

**c) Rheoli systemau effeithlon a chyson mewn perthynas ag ADY**

9.14. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn sefydlu (pan fo angen) ac yn rheoli systemau effeithlon a chyson sy'n galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i atgyfeirio plant o dan oedran ysgol gorfodol at awdurdod lleol mewn ffordd briodol, ac i gyfrannu at y gwaith o lunio ac adolygu CDUau a sicrhau DDdY drwy:

(a) gynnal asesiadau priodol, amserol;
(b) gwneud argymhellion ar ymyriadau effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth;
(c) darparu triniaethau neu wasanaethau a nodir mewn CDU fel DDdY i'w sicrhau gan y Bwrdd Iechyd;
(d) monitro canlyniadau triniaethau neu wasanaethau o'r fath;
(e) sicrhau ansawdd cyngor er mwyn lleihau'r amrywiaeth o ran arferion a hyrwyddo disgwyliadau realistig.

9.15. **Dylai** hyn gynnwys:

(a) ystyried y ffordd orau i weithwyr iechyd proffesiynol fynd ati i gyfrannu at lunio ac adolygu CDUau (pan geir cais am gyfraniad, cymorth a chyngor gweithwyr iechyd proffesiynol);
(b) gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol a chynnwys yr holl weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol (gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd, arbenigwyr sefydlu ac adsefydlu, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, CAMHS, gwasanaethau pediatreg cymunedol, gwasanaethau anabledd dysgu, gwasanaethau niwroddatblygiadol, a thimau gofal sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a'r gwasanaeth nyrsio plant cymunedol) i sicrhau bod y DDdY sydd i'w sicrhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol ac sydd wedi'i nodi mewn CDU, yn gyfannol ac yn ddarbodus;
(c) ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli ymatebion y Bwrdd Iechyd Lleol i geisiadau am wybodaeth neu gymorth arall gan awdurdodau lleol[12], er enghraifft, drwy sicrhau bod system briodol ar waith i reoli atgyfeiriadau er mwyn cydlynu a rheoli achosion a sicrhau bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau yn hyn o beth;
(d) mewn perthynas â'r atgyfeiriadau at y Bwrdd Iechyd Lleol i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc (ac, yn ôl yr angen, gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach):

i. sicrhau y caiff atgyfeiriadau o'r fath eu hystyried yn briodol ac yn gyson ac yr ymatebir iddynt o fewn yr amserlenni perthnasol, gan

[11] O dan adran 20 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 21.
[12] O dan adran 65 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 21.

gynnwys, pan fo'n briodol, trwy i'r SACDA ystyried yr atgyfeiriadau ei hun;

ii. sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaethau perthnasol a ddisgrifir mewn CDU yn realistig, yn benodol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau;

iii. sicrhau bod dyletswydd y Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau'r DDdY (hynny yw, y driniaeth neu'r gwasanaeth perthnasol) yn cael ei gyflawni, gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, cymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r DDdY yn y Gymraeg.

9.16. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn ymwybodol o ddyletswyddau'r Bwrdd i roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Pobl ag Anableddau, wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf, a'i fod yn gweithredu, fel y bo'n briodol, gyda'r bwriad o sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn (gweler Pennod 5 am ragor o wybodaeth am hyn).

### d) Rheoli cwynion, anghydfodau ac apeliadau i'r Tribiwnlys

9.17. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn goruchwylio unrhyw gŵyn neu anghydfod sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan y Ddeddf. Gallai hyn gynnwys cymryd camau uniongyrchol i ddatrys y gŵyn neu'r anghydfod, neu sicrhau bod system gadarn yn ei lle i dynnu partïon ynghyd er mwyn ceisio datrys y sefyllfa yn gynnar.

9.18. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA:

(a) yn hyrwyddo'r defnydd o system gwynion y GIG ("Gweithio i Wella") mewn perthynas ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan y Ddeddf, a
(b) yn ceisio sicrhau bod "Gweithio i Wella" yn cael ei hyrwyddo ar adegau priodol, megis cyfarfod adolygu CDU lle y trafodir y ddarpariaeth iechyd.

9.19. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau mai'r SACDA yw'r pwynt cyswllt cyntaf pan fydd awdurdod lleol yn credu y byddai o fudd i un o gyrff y GIG gymryd rhan mewn trefniadau osgoi a datrys anghytundeb.[13]

9.20. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ddisgwyl i'r SACDA gydgysylltu cyfraniad y Bwrdd Iechyd Lleol mewn apeliadau i'r Tribiwnlys; gan gynnwys sicrhau ei fod yn darparu tystiolaeth fel sy'n ofynnol a goruchwylio ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd Lleol yn gyffredinol mewn apeliadau.

9.21. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ddisgwyl i'r SACDA fod yn gyfrifol am arwain ystyriaeth y Bwrdd Iechyd Lleol o argymhellion a wnaed iddo gan y Tribiwnlys, penderfynu a ddylid gweithredu a phenderfynu pa gamau i'w cymryd mewn ymateb i argymhellion o'r fath, a chyflwyno adroddiad yn ôl i'r Tribiwnlys.

[13] Dyma'r trefniadau o dan adran 68 o'r Ddeddf.

### e) Mesur cydymffurfiaeth a sicrhau ansawdd gweithgareddau Byrddau Iechyd Lleol

9.22. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ddisgwyl i'r SACDA oruchwylio'r gwaith o ddatblygu prosesau i gasglu a dadansoddi data cadarn i fesur ei gydymffurfiaeth â dyletswyddau o dan y Ddeddf, mesur effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau ansawdd ei weithgareddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Gallai monitro'r canlynol fod yn sail i fesurau llwyddiant:

(a) adborth gan blant, pobl ifanc a rhieni;
(b) deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc;
(c) yr amser y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei gymryd (gan gynnwys achosion pan na fodlonir yr amserlen ofynnol neu pan elwir eithriadau i rym) i ymateb i
  i. ceisiadau gan awdurdodau lleol am wybodaeth a chymorth arall;
  ii. atgyfeiriadau i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc;
(d) nifer y cwynion, anghydfodau ac apeliadau Tribiwnlys sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd o dan y Ddeddf, faint o amser y mae'n ei gymryd i'w datrys a sut y cânt eu datrys.

9.23. **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol hefyd ddisgwyl i'r SACDA nodi'r themâu sy'n codi o anghydfodau a cheisio mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth eu gwraidd.

# Pennod 10: Rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar

## *Y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddynodi swyddog arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar*

10.1. **Rhaid**[1] i bob awdurdod lleol ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Gelwir y swyddog dynodedig yn 'Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar'.

10.2. Yn y bennod hon, cyfeirir at blant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir fel "carfan y Swyddog Arweiniol ADY", ac mae cyfeiriadau at garfan Swyddog Arweiniol ADY awdurdod lleol yn gyfeiriadau at blant yng ngharfan y Swyddog Arweiniol ADY y mae gan yr awdurdod lleol swyddogaethau mewn perthynas â nhw o dan y system ADY. Mae hyn yn cwmpasu plant yng ngharfan y Swyddog Arweiniol ADY sydd:

- yn ardal yr awdurdod lleol (pa un a ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod ai peidio);
- yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac yn ardal awdurdod lleol arall.

10.3. Mae swyddogaethau'r awdurdod lleol y mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am eu cydlynu, i'r graddau y maent yn ymwneud â swyddogaethau'r Swyddog Arweiniol ADY, yn cynnwys:

- penderfynu a oes gan blant ADY[2], llunio a chynnal CDU[3] (gan gynnwys sicrhau'r DDdY a bennir yn y CDU), a darparu gwybodaeth am CDUau[4] (gweler Pennod 11);
- adolygu a diwygio CDUau[5] (gweler Pennod 25);
- adolygu trefniadau DDdY[6] (gweler Pennod 7);
- gwneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth a chymryd camau rhesymol i hysbysu rhieni a chyfeillion achos plant o fewn ei ardal[7] (ymhlith eraill) am y trefniadau (gweler Pennod 6);
- gwneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a hyrwyddo'r defnydd ohonynt[8] (gweler Pennod 32)
- gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol (gweler Pennod 32)[9].

---

[1] Adran 62(1) o'r Ddeddf.
[2] Adrannau 13(1) ac 18(1) o'r Ddeddf.
[3] Adran 14 ac 19 o'r Ddeddf.
[4] Adran 22 o'r Ddeddf.
[5] Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf.
[6] Adran 63 o'r Ddeddf.
[7] Adran 9 o'r Ddeddf.
[8] Adran 68 o'r Ddeddf.
[9] Adran 69 o'r Ddeddf.

## _Profiad ac arbenigedd Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar_

10.4. **Dylai** Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar fod â phrofiad ac arbenigedd yn y canlynol:

(a) gweithio'n agos gyda phlant sydd ag ADY ac sydd o dan oedran ysgol gorfodol a'u teuluoedd,
(b) delio â darparu gwasanaethau er mwyn diwallu ADY y plant hyn, ar draws amrywiol leoliadau, ac
(c) addysg feithrin neu ddatblygiad plant.

10.5. Dim ond pan fo'n credu y bydd yn gallu cyflawni disgwyliadau'r rôl fel y'u nodir yn y bennod hon y **dylai**'r awdurdod lleol ddynodi swyddog i fod yn Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar. I grynhoi, **dylai** Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar:

(a) allu darparu cyfeiriad strategol cyffredinol â'r nod o sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â charfan ei Swyddog Arweiniol ADY; a
(b) gallu gweithredu fel ffynhonnell arbenigedd ynghylch ADY a'r system ADY ar gyfer darparwyr gofal plant ar gyfer carfan ei Swyddog Arweiniol ADY ac addysg feithrin nas cynhelir ar gyfer carfan ei Swyddog Arweiniol ADY a'u sefydliadau ambarél.

### Rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar

10.6. Mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn rôl strategol a **dylai** fod dwy agwedd ar y rôl: rôl sy'n wynebu tuag i mewn a thuag allan. Diben y rôl sy'n wynebu tuag i mewn yw bod yn gyfrifol am drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY. Er mwyn cefnogi’r gwaith o arfer y swyddogaethau hynny'n effeithiol, mae'r rôl sy'n wynebu tuag allan yn ymwneud â datblygu a chynnal perthynas effeithiol ag eraill sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod lleol.

Rôl sy'n wynebu tuag i mewn

10.7. **Dylai** Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar fod â chyfrifoldeb cyffredinol o fewn yr awdurdod lleol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i alluogi'r awdurdod lleol i gyflawni'n briodol ei swyddogaethau o dan y Ddeddf (gweler paragraff 10.3 am yr ystod o swyddogaethau) mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY.

10.8. **Dylai** hyn gynnwys sefydlu a chynnal strwythurau, systemau neu drefniadau eraill effeithlon o fewn yr awdurdod lleol i:
(a) sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ymdrin yn brydlon ag atgyfeiriadau plant yng ngharfan y Swyddog Arweiniol ADY a allai fod ag ADY;

(b) galluogi'r awdurdod lleol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar ymyriadau effeithiol;
(c) sicrhau bod y bobl gywir yn cael eu cynnwys wrth lunio, cynnal a chadw ac adolygu CDUau;
(d) sicrhau'r DDdY a bennir mewn CDUau;
(e) sicrhau bod cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY yn cael eu darparu a'u hyrwyddo i rieni, cyfeillion achos ac eraill fel y bo'n briodol (gweler Pennod 6 am ddyletswyddau cyngor a gwybodaeth awdurdodau lleol);
(f) sicrhau bod trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau yn briodol ar gyfer carfan ei Swyddog Arweiniol ADY a hyrwyddo'r trefniadau hynny (gweler Pennod 32);
(g) sicrhau bod trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn cwmpasu carfan ei Swyddog Arweiniol ADY yn briodol (gweler Pennod 32).

10.9. Nid oes gofyniad personol ar Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i gyflawni swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â phlant unigol (er enghraifft, lunio'r CDU ar gyfer pob plentyn yng ngharfan y Swyddog Arweiniol ADY). Er y gall Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar wneud hynny ei hun neu oruchwylio eraill yn gwneud hynny, gall swyddogion eraill gyflawni'r swyddogaethau hynny o ddydd i ddydd.

10.10. Ymhlith y gweithgareddau eraill y **dylai** awdurdod lleol ddisgwyl i'w Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar ymwneud â nhw mae'r canlynol:

- cynllunio strategol ar gyfer unrhyw adnoddau, cyllidebau a chyllid sydd gan yr awdurdod ar gyfer carfan y Swyddog Arweiniol ADY a'u dyrannu;
- ymwneud yn uniongyrchol â datblygiad unrhyw bolisïau gan yr awdurdod lleol sy'n gysylltiedig ag ADY ac a fyddai'n effeithio ar garfan y Swyddog Arweiniol ADY;
- hyfforddiant, yn ôl y gofyn, o fewn yr awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag ADY.

10.11. **Dylai** Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar fod yn gyfrifol am gynnal eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain ym maes ADY er mwyn parhau i fod yn ffynhonnell wybodaeth awdurdodol ac arbenigol.

Rôl sy'n wynebu tuag allan

10.12. Mae gan Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar rôl ganolog i'w chwarae o ran hwyluso'r broses o adnabod anghenion yn gynnar. Drwy godi ymwybyddiaeth o ADY, y system ADY a sut mae'n berthnasol i garfan y Swyddog Arweiniol ADY, a chydweithio ag eraill sy'n gweithio gyda'r garfan hon, mae plant ag ADY yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio at yr awdurdod lleol yn gynharach. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth gywir yn fwy tebygol o gael ei nodi'n gynharach a gall hyn atal anghenion rhag dwysáu. Gall gwaith codi ymwybyddiaeth hefyd hwyluso ymyriadau i atal ADY rhag datblygu

mewn achosion pan fo gan y plentyn anghenion datblygiadol nad ydynt yn cyfateb i ADY, ond a allai wneud hynny os nad eir i'r afael â nhw'n gynnar.

10.13. Mae’n bwysig datblygu perthynas dda ag ysgolion a gynhelir, er mwyn cynorthwyo i -

- sicrhau bod y DDdY a gaiff plentyn cyn dechrau'r ysgol yn briodol;
- hwyluso proses drosglwyddo lwyddiannus i addysg a gynhelir;
- nodi achosion pan ddylid enwi ysgol at ddibenion derbyn.

10.14. Felly, **dylai** awdurdod lleol ddisgwyl i'w Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar feithrin perthynas waith gydweithredol gydag eraill sy'n gweithio gyda'i garfan Swyddog Arweiniol ADY, a chodi ymwybyddiaeth o ADY, y system ADY a sut mae'n berthnasol i'r garfan hon.

*a) Meithrin perthynas waith gydweithredol*

10.15. **Dylai** Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar feithrin perthynas waith gydweithredol â’r canlynol:

(a) y rheiny sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod, gan gynnwys fel sy'n briodol, ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir, darparwyr gofal plant, sefydliadau ambarél perthnasol ac unrhyw asiantaethau neu wasanaethau eraill sy'n gweithio'n agos gyda phlant o'r fath a'u teuluoedd (er enghraifft, cyrff iechyd ac ymarferwyr gan gynnwys ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, a Swyddogion Dysgu Clinigol Addysg Dynodedig; Dechrau'n Deg; Teuluoedd yn Gyntaf; gwasanaethau cymdeithasol; sefydliadau perthnasol yn y trydydd sector; a gweithwyr proffesiynol arbenigol perthnasol);

(b) Chydlynwyr ADY ysgolion a gynhelir a staff perthnasol mewn ysgolion arbennig y gallai plant yng ngharfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod fynd ymlaen i'w mynychu.

10.16. **Dylid** disgwyl i Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar hyrwyddo cydweithrediad rhwng y personau hyn a'r awdurdod lleol, gan gynnwys i gefnogi plant i drosglwyddo’n llwyddiannus rhwng lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir neu ofal plant a’r ysgol.

10.17. **Dylai** swyddog arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar sicrhau bod systemau neu drefniadau eraill yn eu lle i gefnogi darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a gofal plant ac eraill sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod (gan gynnwys, er enghraifft, y rhai a restrir ym mharagraff 10.15) i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am ADY. Gall hyn eu helpu i adnabod ac atgyfeirio achosion o ADY posibl i'r awdurdod lleol yn gynnar, â'r bwriad o roi ymyriad cynnar priodol ar waith yn brydlon, a chefnogi plant ag ADY sy'n mynychu eu lleoliadau. **Dylai** cyfrifoldebau gynnwys gwneud trefniadau i ddarparu canllawiau i ddarparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir ar ddiwallu anghenion plant sy'n mynychu eu lleoliadau – mae hyn yn cynnwys y rhai ag ADY (er enghraifft, mewn perthynas â helpu i gyflwyno'r DDdY a nodir yn CDU plentyn) ac oedi mewn datblygiad.

10.18. **Dylai** Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar sefydlu pwynt cyswllt yn yr awdurdod lleol ar gyfer unrhyw ymholiadau am ADY neu'r system ADY yn ymwneud â charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod ac atgyfeiriadau i awdurdod lleol o blith y plant yn y garfan. Gallai'r pwynt cyswllt fod yn Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar neu swyddog arall yn yr awdurdod lleol.

10.19. **Dylai** Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar godi ymwybyddiaeth o rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i'r rhai sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod (megis y rhai a restrir ym mharagraff 10.15).

*b) Codi ymwybyddiaeth o ADY a'r system ADY*

10.20. **Dylai** Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar wneud trefniadau â'r nod o godi ymwybyddiaeth o ADY a'r system ADY ymhlith y rhai sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod lleol (gan gynnwys y rhai a restrir ym mharagraff 8.15). **Dylai'r** trefniadau gynnwys y canlynol:

(a) sicrhau bod gwybodaeth am ADY a'r system ADY ar gael ac yn cael ei lledaenu i'r rheiny sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod mewn ystod o leoliadau;
(b) codi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ar gyrff iechyd i hysbysu'r awdurdod lleol pan fo'n ffurfio'r farn bod ADY gan blentyn, neu yn debygol o fod gan blentyn yng ngharfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod[10] (gweler Pennod 21);
(c) codi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ar ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir sy'n derbyn cyllid gan yr awdurdod lleol i roi sylw i ganllawiau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cod hwn[11];
(d) lle mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn ystyried ei bod yn briodol, hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod (er enghraifft y rhai a restrir ym mharagraff 10.15) ar ADY, y system ADY, sut mae'n berthnasol i blant o'r fath a diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill a sefydliadau trydydd sector perthnasol pan fo'n briodol i gael mewnbwn arbenigol i'r hyfforddiant hwnnw.

10.21. **Dylai** awdurdod lleol, felly, ddisgwyl i'w Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar fod yn ffynhonnell cyngor ac arbenigedd ar ADY a'r system ADY o ran ei gymhwyso i garfan y Swyddog Arweiniol ADY.

---

[10] Adran 64(4) o'r Ddeddf.
[11] Adran 153(2) o Ddeddf Addysg 2002. Gweler hefyd Bennod 1.

# Pennod 11: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru

## *Cyflwyniad*

11.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, llunio a chynnal CDU, a sicrhau'r DDdY a ddisgrifir mewn CDU, ar gyfer plentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir. Nid yw'n ymdrin â'r sefyllfa os yw'r plentyn yn derbyn gofal (mae Pennod 14 yn ymdrin â dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal).

11.2 Yn unol â hynny, ac eithrio i'r graddau y mae bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos, mae cyfeiriadau yn y bennod hon at blentyn yn gyfeiriadau at blentyn sydd -

(a) dan oedran ysgol gorfodol,
(b) heb gofrestru fel disgybl mewn ysgol a gynhelir, ac
(c) ddim yn derbyn gofal.

11.3 Os yw plentyn yn cael addysg feithrin a gyllidir gan awdurdod lleol mewn darparwr nas cynhelir, **dylai'r** darparwr helpu'r awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau ADY mewn perthynas â'r plentyn hwnnw os yw'n cael cais i wneud hynny, gan gynnwys mewn achosion pan fo plentyn yn cael addysg feithrin gan ddarparwyr a gynhelir a darparwyr nas cynhelir.

11.4 Mae'r bennod hon yn cyfeirio at wahanol ddyletswyddau i hysbysu neu roi gwybod i riant plentyn am rywbeth neu i roi copi o ddogfen i'r rhiant. Pan fo cyfeiriad at ddyletswydd o'r fath (p'un a yw'n cael ei gosod gan y Ddeddf neu'n un o ofynion y Cod), mae'n cynnwys dyletswydd i hysbysu neu roi gwybod am yr un materion, neu roi copi o'r ddogfen, i unrhyw gyfaill achos i'r plentyn dan sylw. Mae hyn yn golygu bod yn **rhaid**[1] i'r awdurdod lleol hefyd hysbysu neu roi gwybod am yr un materion, neu roi copi o'r ddogfen, i'r cyfaill achos yn yr un amgylchiadau, ac mae unrhyw ofynion neu ganllawiau ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â'r ddyletswydd i hysbysu neu roi gwybod i'r rhiant neu roi copi o ddogfen i'r rhiant, yn gymwys yn yr un modd i'r gofyniad i hysbysu, rhoi gwybod neu roi copi i'r cyfaill achos.[2]

[1] Adran 84 mewn perthynas â dyletswyddau yn y Ddeddf ac mewn perthynas â gofynion a osodir gan y Cod, mae hyn yn rhan o'r gofyniad y darperir ar ei gyfer yn y paragraff hwn.
[2] Yn achos dyletswyddau yn y Ddeddf, mae'r dyletswyddau hynny'n gymwys o dan amgylchiadau ehangach na'r rhai yr ymdrinnir â hwy yn y bennod hon, gan gynnwys mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol. Mae'r dyletswyddau hynny yn cynnwys hysbysu, rhoi gwybod a rhoi copi i'r plentyn dan sylw a nodir hyn mewn cyfeiriadau eraill yn y Cod at y dyletswyddau hynny. Fodd bynnag, mae paragraff 1.55 yn gymwys i'r dehongliad o'r cyfeiriadau hynny. Gan na fyddai gan

## _Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY_

11.5 Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol, neu pan ddaw i'r amlwg iddo mewn ffordd arall, y gallai fod gan blentyn y mae'n gyfrifol amdano ADY, **rhaid**[3] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY oni bai bod un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y plentyn;
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.[4]

11.6 Gall y posibilrwydd fod gan blentyn ADY gael ei "ddwyn i sylw" awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Efallai y bydd un o amrywiaeth eang o wahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn atgyfeirio'r plentyn i ddechrau. Er enghraifft, gallai darparwr gofal plant neu addysg feithrin nas cynhelir roi gwybod i'r awdurdod lleol ei fod yn amau bod gan blentyn ADY. Neu, gallai corff iechyd fod wedi dod i'r farn bod gan y plentyn ADY, neu y gallai fod ganddo ADY, a thynnu sylw'r awdurdod lleol at y peth gan gydymffurfio â'i ddyletswydd yn adran 64 o'r Ddeddf (gweler Pennod 21). Efallai y bydd rhieni'r plentyn hefyd yn mynegi pryderon. Gallai'r pryderon hyn gael eu codi drwy sefydliad addysg nas cynhelir (os yw'r plentyn yn mynychu un) neu'n uniongyrchol gyda'r awdurdod lleol. Mae'r hyn y mae rhieni y sylwi arno ynghylch eu plentyn yn aml yn hanfodol er mwyn adnabod anghenion yn gynnar. **Dylai** awdurdodau lleol a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir fod yn agored i sgyrsiau sy'n mynegi'r pryderon hyn a dylent fod yn barod i ymateb ac ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir.

11.7 Nid oes ots sut y mae'r posibilrwydd y gallai fod gan blentyn ADY wedi cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu sut y mae wedi dod i'r amlwg iddo fel arall; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys (yn amodol ar yr eithriadau a nodir uchod). Gallai ddigwydd, er enghraifft, wrth gyflawni swyddogaethau eraill yr awdurdod lleol, er enghraifft ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 a chanllawiau ar geisio adnabod a allai fod gan blentyn ADY ym Mhennod 20.)

11.8 Os yw'n yn ofynnol ar awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY, **rhaid** iddo[5]:

---

unrhyw blentyn o dan oedran ysgol gorfodol y galluedd i ddeall y materion hyn, yn y bennod hon mae'r Cod yn cyfeirio'n syml at hysbysu, rhoi gwybod neu roi copi i'r rhiant ac nid i'r plentyn hefyd.

[3] Adran 13(1) a (2) o'r Ddeddf.

[4] Gweler paragraff 11.14.

[5] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(a) dynodi swyddog (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy’n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Gellid dynodi'r cydlynydd ADY i wneud hyn, ond nid oes rhaid;
(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n dod i’r amlwg fel arall y gall fod gan blentyn ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu pam mae wedi dod i’r amlwg fel arall iddo y gall fod gan blentyn ADY;
(d) hysbysu rhiant y plentyn ei fod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, i drafod y broses (gweler Pennod 22 i gael rhagor o fanylion am gyfarfodydd).

11.9 **Rhaid**[6] i'r hysbysiad i riant y plentyn y cyfeirir ato ym mharagraff 11.8 (d) roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau’r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a’r system ADY[7].

11.10 Hefyd, **dylai’r** hysbysiad nodi’r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad a nodir isod o ran yr amserlen).

11.11 Wrth benderfynu a oes gan y plentyn ADY, **rhaid**[8] i’r awdurdod lleol ystyried a ddylai ofyn am gyngor gan seicolegydd addysgol.[9] **Rhaid**[10] i’r awdurdod geisio cyngor o’r fath os yw o'r farn bod ceisio’r cyngor yn angenrheidiol i bennu-

(a) graddau neu natur yr ADY y gallai fod gan y plentyn, neu
(b) y DDdY y mae ADY y plentyn yn galw amdani.

11.12 **Rhaid**[11] i’r cyngor a geisir ymwneud â-

(a) nodweddion addysgol neu seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys anghenion tebygol y plentyn yn y dyfodol),
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn, a
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y plentyn yng ngoleuni'r nodweddion hynny, p'un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau eraill o ddarpariaeth ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno'r ddarpariaeth honno.

[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[7] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[8] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[9] Rhaid i seicolegwyr addysg fod wedi’u cofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal.
[10] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[11] Gofyniad a osodir gan y Cod.

11.13 **Dylid** hefyd ystyried a yw'r plentyn eisoes yn cael unrhyw gymorth gan asiantaethau eraill neu sefydliadau trydydd sector neu'n ymwneud â hwy, a **dylai'r** awdurdod lleol eu cynnwys, fel y bo'n briodol, yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY a llunio unrhyw CDU.

11.14 Fel y disgrifir ym Mhennod 4, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a'u rhieni mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi lle canolog i'r plentyn yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda rhiant y plentyn ac, os yw'n briodol, gyda'r plentyn, i drafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. (Mae canllawiau ar y cyfarfodydd hyn wedi'u darparu ym Mhennod 22).

11.15 Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn ADY ond ei fod wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw (gweler yr eithriad ym mharagraff 11.5(b)), **dylai** hysbysu'r rhiant am hyn; a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY (gan gynnwys hawliau apelio) os nad yw wedi gwneud hynny o'r blaen neu'n ddiweddar.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY*

11.16 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn ADY, **rhaid**[12] iddo hysbysu'r rhiant am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

11.17 **Rhaid**[13] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn bendant cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos ar ôl iddo gael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu ddod i'r amlwg iddo mewn ffordd arall, y gallai fod gan y plentyn ADY. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[14].

11.18 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[15] i'r hysbysiad i'r rhiant gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;

[12] Adran 13(3) o'r Ddeddf.
[13] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[14] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[15] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[16];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[17] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[18];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[19]

11.19 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd unrhyw gamau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yng ngoleuni ei ystyriaeth i sicrhau bod anghenion y plentyn (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu.

11.20 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i riant y plentyn drafod y mater ymhellach.

## *Llunio CDU*

11.21 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, **rhaid**[20] iddo lunio CDU ar ei gyfer. (Gweler Pennod 2 am wybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 am wybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 am wybodaeth am lunio CDU a'i gynnwys.) Fodd bynnag, os yw'r plentyn i fod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, mewn rhai achosion **gallai'r**[21] awdurdod lleol yn hytrach gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn (gweler paragraffau 12.85 – 12.99 i gael gwybodaeth am awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol a gynhelir yn y modd hwn).

11.22 Cyn cwblhau'r gwaith o lunio CDU, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r rhiant roi ei sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys diweddaru'r CDU drafft o bosibl, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

11.23 Ar ôl ei lunio, **rhaid**[22] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i riant y plentyn .

11.24 **Rhaid**[23] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ar ADY, llunio'r cynllun a rhoi'r copi ohono yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos ar ôl i'r ffaith y gallai fod gan y plentyn ADY gael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu ar ôl i hynny ddod i'r amlwg iddo fel arall. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y pethau hynny cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[24].

---

[16] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[17] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[18] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[19] Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.
[20] Adran 14(1) a (2) o'r Ddeddf.
[21] Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.
[22] Adran 22(1) o'r Ddeddf.
[23] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[24] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.

11.25 Wrth roi copi o'r cynllun, **rhaid**[25] i'r awdurdod lleol hefyd roi i riant y plentyn:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[26];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[27] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[28];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[29]

## *Cynnal CDU*

11.26 Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer y plentyn, **rhaid**[30] iddo gynnal y CDU hwnnw. Fodd bynnag, os yw'r plentyn i'w gofrestru mewn ysgol a gynhelir (dyna fyddai'r achos os yw lle wedi'i dderbyn ar gyfer y plentyn i ddechrau yn yr ysgol), mewn rhai amgylchiadau **gallai'r**[31] awdurdod lleol yn hytrach gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU (gweler paragraffau 12.85 – 12.99).

11.27 Canlyniad ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal y CDU yw y bydd angen i'r awdurdod lleol gadw copi o'r CDU (yn unol â chyfraith diogelu data) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

11.28 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[32] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (hy lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw DDdY sy'n driniaeth berthnasol neu'n wasanaeth perthnasol a nodir gan un o gyrff y GIG. Mewn achos o'r fath, mae'n **rhaid**[33] i gorff y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[34] i'r awdurdod lleol (neu gorff y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei darparu yn Gymraeg.

11.29 Mae dyletswyddau ar awdurdod lleol i adolygu CDU y mae'n ei gynnal[35] (gweler Pennod 25).

[25] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[26] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[27] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[28] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[29] Mae Pennod 33 yn trafod hawliau apelio.
[30] Adran 14 o'r Ddeddf.
[31] Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.
[32] Adran 14(10) o'r Ddeddf.
[33] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[34] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[35] Adran 23 o'r Ddeddf.

11.30 **Ni chaiff**[36] yr awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn na'i rieni am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau ar gyfer y plentyn o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

11.31 Os yw'r plentyn yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yn ddiweddarach, **caiff**[37] yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU. Fodd bynnag, **ni chaiff**[38] awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol i gynnal CDU pan fo:

(a) yn cynnwys darpariaeth arall y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei sicrhau (hy lle mewn ysgol neu sefydliad neu fwyd a llety penodol),
(b) y disgybl wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, neu
(c) y plentyn wedi dod yn un sy'n derbyn gofal.

11.32 Gweler Pennod 12 i gael rhagor o wybodaeth am awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol a gynhelir ynghylch CDU.

11.33 Gall dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU beidio mewn amgylchiadau penodol. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 29. Gall hefyd drosglwyddo i gorff arall, er enghraifft, lle mae'r awdurdod lleol wedi cyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU, fel y soniwyd uchod. Mae gwybodaeth am ffyrdd eraill o drosglwyddo CDU ym Mhennod 28.

[36] Adran 49 o'r Ddeddf.
[37] Adran 14(4) o'r Ddeddf.
[38] Adrannau 14(9), 30(7) a 35(10) o'r Ddeddf.

# Pennod 12: Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru

## *Cyflwyniad*

12.1 Mae'r Bennod hon yn ymdrin â'r dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, llunio a chynnal CDU, a sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys mewn CDU, ar gyfer plentyn sydd wedi'i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir. Nid yw'n ymdrin â'r sefyllfa os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (mae Pennod 14 yn ymdrin â'r sefyllfa hon), oni bai bod y plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Nid yw ychwaith yn ymdrin â'r sefyllfa ar gyfer plentyn sy'n destun gorchymyn cadw neu sy'n dod yn destun gorchymyn cadw (mae Pennod 19 yn ymdrin â hyn).

12.2 Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at blentyn mewn ysgol (sut bynnag y'u mynegir) yn cyfeirio at blentyn sydd wedi'i gofrestru fel disgybl mewn ysgol a gynhelir ond nid ydynt yn cynnwys-

(a) plentyn sy'n derbyn gofal oni bai bod y plentyn hwnnw mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr;
(b) plentyn sydd yn destun, neu sy'n dod yn destun, gorchymyn cadw.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i benderfynu a oes gan ddisgybl ADY*

12.3 Os caiff y posibilrwydd bod gan ddisgybl yn yr ysgol ADY ei ddwyn i sylw ysgol a gynhelir, neu os bydd hyn yn ymddangos iddo fel arall, **rhaid**[1] i'r ysgol benderfynu a oes gan y disgybl ADY, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y plentyn;
(b) mae'r ysgol wedi penderfynu eisoes ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) mae'r plentyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac mae awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn[2]. Yn yr achos hwn, **rhaid**[3] i'r ysgol atgyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol cyfrifol, (gweler paragraffau 12.36 – 12.46 ar atgyfeirio achosion i'r awdurdod lleol);

[1] Adran 11 o'r Ddeddf.
[2] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o fanylion am gofrestriad deuol a phlant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.
[3] Adran 30(2) o'r Ddeddf.

(d) mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn (ni fyddai hyn ond yn berthnasol os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr[4]).

12.4 Gall y plentyn ei hun, rhiant neu aelod arall o'r teulu, neu gorff allanol neu weithiwr proffesiynol, fel yr awdurdod lleol, ddwyn i sylw ysgol a gynhelir y ffaith y gallai fod gan blentyn ADY. Nid yw o bwys sut y cafodd y posibilrwydd y gallai fod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r ysgol neu sut y gwnaeth hynny ddod i'r amlwg iddi fel arall; os yw'r ysgol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys (yn amodol ar yr eithriadau a restrir uchod). (Rhoddir canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 ac ar geisio adnabod a allai fod gan blentyn ADY ym Mhennod 20.)

12.5 Os yw'n ofynnol i ysgol a gynhelir benderfynu a oes gan ddisgybl yn yr ysgol ADY, **rhaid** iddi[5]:

(a) dynodi person (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Gellid dynodi'r cydlynydd ADY i wneud hyn, ond nid oes rhaid;
(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n ymddangos fel arall y gall fod gan blentyn ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r ysgol neu pam mae'n ymddangos fel arall iddi y gall fod gan blentyn ADY;
(d) hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn ei bod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, i drafod y broses (gweler Pennod 22 i gael rhagor o fanylion am gyfarfodydd).

12.6 **Rhaid**[6] i'r hysbysiad i'r plentyn a rhiant y plentyn y cyfeirir ato ym mharagraff 12.5(d) roi:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[7].

12.7 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofynion o ran yr amserlen a nodir isod).

12.8 **Dylid** hefyd ystyried p'un a yw'r plentyn eisoes yn cael unrhyw gymorth gan asiantaethau eraill neu sefydliadau trydydd sector neu a oes ganddo unrhyw

[4] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o fanylion am sefyllfa lle bydd plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr.
[5] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[7] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

gyswllt â nhw a **dylai'r** awdurdod lleol eu cynnwys, fel y bo'n briodol, yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac wrth lunio unrhyw CDU.

12.9 Fel y disgrifir ym Mhennod 4, ceir dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a'u rhieni mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi'r lle canolog i'r plentyn yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. I gyflawni'r ddyletswydd hon, **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel rheol, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn er mwyn trafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn a, phan fo angen, llunio CDU ar ei gyfer. (Rhoddir canllawiau ar y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22).

12.10 Os bydd y ffaith y gallai fod gan blentyn ADY yn cael ei dwyn i sylw ysgol a gynhelir ond ei bod wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw (gweler yr eithriad ym mharagraff 12.3(b)), **dylai** hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn o hyn a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY (gan gynnwys yr hawl i apelio) os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

## *Penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan blentyn ADY*

12.11 Os bydd yr ysgol a gynhelir yn penderfynu nad oes gan y disgybl ADY, **rhaid**[8] iddi hysbysu'r plentyn a'i riant am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

12.12 **Rhaid**[9] i'r ysgol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod ysgol ar ôl i'r ffaith y gallai fod gan y plentyn ADY gael ei ddwyn i sylw'r ysgol, neu ar ôl i hynny ddod i'r amlwg iddi fel arall. Nid oes angen i'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod ysgol os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.[10]

12.13 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[11] i'r hysbysiad a roddir i'r plentyn a rhiant y plentyn gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[12];

[8] Adran 11(4) o'r Ddeddf.
[9] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[10] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[11] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[12] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[13] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[14];
(d) gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y mater[15] a manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol cyfrifol.

12.14 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd yng ngoleuni ei hystyriaeth i sicrhau bod anghenion y plentyn (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

12.15 Gall fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r plentyn a'i riant drafod y mater ymhellach.

## *Llunio CDU (ysgolion a gynhelir)*

12.16 Os bydd ysgol a gynhelir yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, **rhaid**[16] iddi lunio CDU ar gyfer y plentyn oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) mae'r ysgol o'r farn bod gan y plentyn ADY ac –
  i. y gallai'r ADY alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau,
  ii. na all bennu graddau neu natur yr ADY yn ddigonol, neu
  iii. na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar ei gyfer,

ac mae'r ysgol yn atgyfeirio achos y plentyn at yr awdurdod lleol cyfrifol i benderfynu arno (gweler paragraffau 12.36 – 12.46 i gael rhagor o fanylion ynghylch atgyfeiriadau);
(b) mae'r plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac mae'r ysgol yn gwneud cais[17] i'r awdurdod lleol hwnnw sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn;
(c) mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn.

12.17. Yn dilyn cais gan ysgol bod awdurdod lleol yn Lloegr yn sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer plentyn, os bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr yn hysbysu'r ysgol nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn, **rhaid**[18] i'r ysgol lunio CDU ar gyfer y plentyn.

12.18. Gweler Pennod 2 am wybodaeth am ystyr ADY a DDdY, pennod 20 ar adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 mewn perthynas â llunio CDU a'r hyn y dylid ei gynnwys ynddo.

---

[13] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[14] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[15] Dyma'r hawl o dan adran 26 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 26.
[16] Adran 12(1) a (2) o'r Ddeddf.
[17] O dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.
[18] Adran 12(5) o'r Ddeddf.

12.19. Cyn cwblhau'r CDU, **dylai'r** ysgol roi cyfle i'r plentyn a rhiant y plentyn roi sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** ysgol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, er enghraifft diweddaru'r CDU drafft neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

12.20. Ar ôl ei lunio, **rhaid**[19] i'r ysgol roi copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant.

12.21. **Rhaid**[20] i'r ysgol benderfynu ynghylch ADY, llunio'r CDU a rhoi copi ohono yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod ysgol ar ôl cael gwybod am y posibilrwydd fod gan blentyn ADY neu pan fo'n dod i'r amlwg fel arall iddi y gall fod gan blentyn ADY.

12.22. Nid oes angen i'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y pethau hynny cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 35 diwrnod ysgol os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth[21].

12.23. Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[22] i'r ysgol hefyd roi i'r plentyn a rhiant y plentyn:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[23];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[24] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[25];
(d) gwybodaeth am yr hawliau i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y cynllun a chymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal[26], a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol;
(e) ond os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yn hytrach na'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (d), gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol ailystyried y CDU[27] a manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer plentyn ag ADY ond sydd heb CDU*

12.24. Os oes gan blentyn mewn ysgol ADY ond nad oes CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, **rhaid**[28] i'r ysgol a gynhelir, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY y mae

[19] Adran 22(1) o'r Ddeddf.
[20] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[21] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[22] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[23] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[24] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[25] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[26] Dyma'r hawliau o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf yn y drefn honno. Gweler Pennod 26.
[27] O dan adrannau 27 ac 87 o'r Ddeddf.
[28] Adran 47(1) a (2) o'r Ddeddf.

ADY y plentyn yn galw amdani yn cael ei gweithredu.

12.25. Efallai na fydd gan y plentyn CDU oherwydd -

(a) bod yr ysgol wrthi'n llunio CDU ar gyfer y plentyn,
(b) bod yr ysgol wedi atgyfeirio'i achos at awdurdod lleol a bod yr awdurdod wrthi'n llunio CDU,
(c) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu'n llunio cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn (yn dilyn cais gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol), neu
(d) bod gan y plentyn gynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

12.26. Bydd angen i'r ysgol benderfynu beth sydd angen iddi ei wneud i gyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer pob plentyn sydd ag ADY ond nad oes ganddo CDU yng ngoleuni'r amgylchiadau penodol.

12.27. Os bydd gan y plentyn gynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr, bydd y cynllun yn amlinellu ei anghenion, ar sail asesiadau, ac yn nodi'r union ddarpariaeth addysgol arbennig i'w diwallu. O dan yr amgylchiadau hyn, **dylai'r** ysgol gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol hwnnw i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodir yn y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

12.28. Mewn achosion lle eir ati i benderfynu a oes gan y plentyn ADY neu pan fo CDU wrthi'n cael ei lunio (neu, mewn perthynas â phlentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, os yw asesiad Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei ystyried neu ei gynnal neu gynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei lunio), dylid bod wedi cynnal asesiad cychwynnol o anghenion y plentyn. Dylai fod gan yr ysgol wybodaeth gan y plentyn neu ei rieni ac efallai y bydd wedi cael cyngor gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol, er enghraifft seicolegydd addysg (boed yn benodol mewn perthynas â'r plentyn, neu'n fwy cyffredinol am anghenion ymddangosiadol y disgybl), a byddai ganddi safbwyntiau staff addysgu yn yr ysgol ar y plentyn, ynghyd â thystiolaeth ganddynt. Gallai'r dystiolaeth honno gynnwys sut mae'r plentyn wedi ymateb i ymyriadau penodol (gan gynnwys addysgu gwahaniaethol) yn y gorffennol. Mewn rhai achosion, efallai fod ganddo gynllun a gynhelid yn ddiweddar, er enghraifft, os yw'r plentyn wedi symud o Loegr i Gymru a bod yr awdurdod lleol yn Lloegr wedi cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

12.29. Ar sail yr ystod hon o wybodaeth a chyngor, dylai'r ysgol fod â dealltwriaeth eang o'r math o ADY sydd gan y plentyn a **dylai**:

(a) gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r holl staff sy'n ymwneud ag addysgu neu gefnogi'r plentyn am yr anghenion hynny;
(b) cynnwys y CADY wrth gynghori staff addysgu ar y dulliau addysgu priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r plentyn er mwyn diwallu'r anghenion ymddangosiadol ac ynglŷn â lle i gael rhagor o wybodaeth a chyngor os oes angen;

(c) gwneud unrhyw addasiadau priodol i amgylchedd yr ysgol er mwyn ei gwneud yn haws i'r plentyn gael ei addysg;
(d) darparu cymorth ychwanegol neu wahanol priodol ar gyfer y plentyn o'r adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr allanol;
(e) monitro effaith y cymorth a ddarperir ar gyfer y plentyn a'i addasu os daw i'r amlwg y byddai hyn yn briodol.

12.30. Caiff y DDdY y mae anghenion y plentyn yn galw amdani ei hadnabod yn ystod y broses o lunio CDU. Efallai y caiff y DDdY, neu fathau arbennig o'r ddarpariaeth, eu hadnabod yn gynnar yn y broses a pheth amser cyn y bydd y CDU wedi'i gwblhau. Lle bo hynny'n wir, **dylai’r** ysgol, os yw'n rhesymol gwneud hynny, ddechrau sicrhau unrhyw DDdY sydd wedi'i nodi cyn gynted â phosibl, wrth gwblhau'r gwaith o lunio'r CDU. Os yw'n rhesymol iddi ddarparu'r DDdY ei hun, **dylai** wneud hynny; ac os yw'n rhesymol iddi drefnu i rywun arall ddarparu unrhyw elfen o'r DDdY gan, **dylai** wneud hynny hefyd.

## *Cynnal CDU (ysgolion a gynhelir)*

12.31. Os bydd ysgol a gynhelir wedi llunio CDU ar gyfer plentyn ynddi, **rhaid**[29] iddi gynnal y CDU hwnnw. Mae Pennod 29 yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo dyletswydd i gynnal CDU yn dod i ben ac mae Pennod 28 yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo dyletswydd i gynnal CDU yn trosglwyddo i gorff arall (boed yn awdurdod lleol, yn ysgol a gynhelir neu'n sefydliad addysg bellach).

12.32. Canlyniad y ffaith ei bod yn ofynnol i'r ysgol gynnal y CDU yw y bydd angen iddi gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sydd ar ysgol sy'n cynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

12.33. Os yw ysgol yn cynnal cynllun, **rhaid**[30] iddi sicrhau'r DDdY a ddisgrifir ynddo, ac eithrio unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan un o gyrff y GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[31] i gorff perthnasol y GIG sicrhau'r ddarpariaeth. Os yw'r CDU yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[32] i'r ysgol (neu un o gyrff y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

12.34. Mae dyletswyddau[33] ar ysgol i adolygu CDU y mae'n ei gynnal (gweler Pennod 25).

[29] Adran 12(1) a (2) o'r Ddeddf.
[30] Adran 12(7)(a) o’r Ddeddf.
[31] Adrannau 20(5) a (21)(5) o'r Ddeddf.
[32] Adrannau 12(7)(b), 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[33] Adran 23 o'r Ddeddf.

12.35. **Ni chaiff**[34] yr ysgol godi tâl ar y plentyn na'i riant am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU (ond nid yw'r gwaharddiad hwn yn gymwys mewn perthynas â rhiant nad yw'n unigolyn), nac am unrhyw beth arall y mae'n ei sicrhau ar gyfer y plentyn o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## *Atgyfeirio achosion o ysgol a gynhelir at awdurdod lleol*

12.36. Mae dau achos lle mae'n ofynnol i ysgol a gynhelir atgyfeirio achos plentyn at awdurdod lleol yn hytrach na phenderfynu drosti'i hun a oes gan y plentyn ADY: cofrestriad deuol; ac os yw'r plentyn yn derbyn gofal. Esbonnir y ddyletswydd i wneud hynny ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ym Mhennod 14 a'r ddyletswydd ar gyfer plentyn â chofrestriad deuol yn y paragraff nesaf.

12.37. **Rhaid**[35] i ysgol a gynhelir atgyfeirio achos plentyn yn yr ysgol at yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (os oes un) –

(a) pan gaiff ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n dod i'r amlwg iddi fel arall y gallai fod gan y plentyn ADY,
(b) pan nad oes gan y plentyn CDU, ac
(c) pan fydd y disgybl wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

12.38. Fel arall, gall ysgol a gynhelir gyfeirio achos plentyn at awdurdod lleol ar sail benodol sy'n ymwneud â natur ADY ymddangosiadol y plentyn (gweler y paragraffau canlynol).

12.39. Pan fo ysgol wedi penderfynu bod gan blentyn yn yr ysgol ADY, yn hytrach na llunio'r CDU **caiff**[36] gyfeirio achos y plentyn at yr awdurdod lleol cyfrifol (os oes un).[37] Ond **ni chaiff**[38] yr ysgol wneud hyn oni bai ei bod o'r farn bod gan y plentyn ADY:

(a) a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau,
(b) na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu
(c) na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer.

12.40. **Dylai'r** ysgol fod yn ymwybodol o'r angen i wneud unrhyw atgyfeiriad o'r fath mor gynnar â phosibl er mwyn lleihau'r oedi cyn llunio'r CDU. Felly, pan fydd yr ysgol yn dod yn ymwybodol bod sail ar gyfer atgyfeirio at yr awdurdod lleol, **dylai** weithredu'n brydlon i ystyried a ddylai atgyfeirio achos y plentyn ac i wneud unrhyw atgyfeiriad. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r ysgol allu gwneud yr atgyfeiriad o fewn 20 diwrnod ysgol (os nad yn gynt) i'r dyddiad y

[34] Adran 49 o'r Ddeddf.
[35] Adran 30(1) a (2) o'r Ddeddf.
[36] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.
[37] Dim ond os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol y gellir gwneud hyn. Os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, **caiff** yr ysgol ofyn i'r awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal: adran 12(2)(c) o'r Ddeddf.
[38] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.

caiff y ffaith fod gan y plentyn ADY ei dwyn i'w sylw, neu ei bod yn dod i'r amlwg iddi fel arall.

12.41. Yn achlysurol, efallai mai dim ond yn nes ymlaen yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac o lunio CDU y daw'r sail dros atgyfeirio'r achos i'r amlwg. Er enghraifft, efallai mai dim ond pan fydd cyngor penodol yn dod i law gan wasanaeth arbenigol y bydd yr ysgol yn sylweddoli bod natur ADY y plentyn yn fwy sylweddol nag yr oedd wedi'i feddwl, neu fod angen DDdY ar y plentyn na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau. Os bydd y sail dros atgyfeirio achos yn dod i'r amlwg lawer yn ddiweddarach yn y broses, **caiff**[39] yr ysgol gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol o hyd, ond os bydd yn gwneud hynny, **dylai'r** ysgol weithredu'n brydlon er mwyn lleihau'r oedi cyn sefydlu CDU.

12.42. Wrth atgyfeirio achos at awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol roi gwybod i'r plentyn a rhiant y plentyn ei bod yn gwneud hynny.

12.43. Gallai amgylchiadau'r ysgol (h.y. ei lleoliad, ei maint, ei chyllideb, ei phrofiad ac ati) effeithio ar farn yr ysgol ynghylch a fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r DDdY. Er enghraifft, gallai unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol effeithio ar y farn honno:

(a) mae gan y plentyn gyflwr llai cyffredin neu gyflwr prin sy'n galw am arbenigedd na all yr ysgol ei ddarparu;
(b) er mwyn diwallu anghenion y plentyn, mae ar yr ysgol angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drefnu'n rhesymol gan yr ysgol;
(c) mae ar y plentyn angen cyfarpar y gellir ei ddefnyddio gan un disgybl yn unig neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol;
(d) mae ar y plentyn angen cymorth dyddiol dwys iawn na ellir yn rhesymol ei gyllido neu ei sicrhau o gyllideb yr ysgol.

12.44. **Dylai** awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad ag ysgolion a gynhelir ganddynt ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu tyb nhw, sefydlu a chyhoeddi cyfres o egwyddorion i'w dilyn wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r DDdY sydd ei hangen ar ddisgybl neu a ddylai'r awdurdod wneud hynny. **Dylai'r** egwyddorion ymwneud â:

(a) graddau a hyd cyfnod y cyngor gan arbenigwyr allanol y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei sicrhau;
(b) y cyfarpar y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu;
(c) dwyster a hyd cyfnod y cymorth a graddfa ymgysylltiad y staff mewnol (gan gynnwys y CADY) yn yr ysgol y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu.

[39] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.

12.45. Pan fo achos yn cael ei atgyfeirio at awdurdod lleol un ai am fod gan y plentyn gofrestriad deuol neu am un o'r rhesymau sy'n ymwneud â'r ADY ymddangosiadol, mae dyletswydd yr awdurdod lleol i[40] benderfynu (yr ymdrinnir ag ef isod) yn debygol o fod yn gymwys.

12.46. Os bydd ysgol a gynhelir yn atgyfeirio achos plentyn yn yr ysgol at yr awdurdod lleol, **dylai** ystyried pa wybodaeth i'w rhoi i'r awdurdod lleol sy'n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch a oes gan y disgybl ADY ai peidio. Diben trosglwyddo'r wybodaeth hon yw sicrhau bod gan yr awdurdod lleol yr holl wybodaeth berthnasol ar gyfer arfer ei ddyletswyddau (o ran penderfynu ar ADY a llunio unrhyw CDU) a'i fod yn cael yr wybodaeth honno'n brydlon er mwyn iddo allu gwneud penderfyniad yn ddi-oed, a fydd yn ei dro yn hwyluso ymyriad cynnar. Pan fo gan yr ysgol wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol ddarparu'r wybodaeth honno i'r awdurdod lleol yn brydlon, cyn belled â bod gwneud hynny yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Wrth gwrs, bydd angen i'r ffordd y bydd yr ysgol yn trosglwyddo'r wybodaeth honno gydymffurfio â chyfraith diogelu data. Bydd yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol er mwyn arfer ei swyddogaethau yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond gallai gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd eisoes i ddiwallu anghenion y plentyn, er enghraifft unrhyw adnoddau neu drefniadau arbennig a sefydlwyd. Byddai hefyd yn debygol o gynnwys unrhyw adroddiadau sy'n bodoli neu gyngor ysgrifenedig a gafwyd gan asiantaethau allanol. Os na fydd ysgol yn trosglwyddo gwybodaeth sydd ei hangen ar awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau, gallai'r awdurdod lleol wneud cais am yr wybodaeth o dan adran 65 o'r Ddeddf (gweler Pennod 21).

## _Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn mewn ysgol a gynhelir ADY_

12.47. Os caiff y ffaith y gallai fod ADY gan blentyn, sydd mewn ysgol ac y mae'n gyfrifol amdano, ei dwyn i sylw awdurdod lleol neu ei bod yn dod i'r amlwg iddo mewn ffordd arall, **rhaid**[41] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

(a) mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y plentyn;
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) mae'r awdurdod lleol yn fodlon bod yr ysgol yn penderfynu ynghylch a oes gan y plentyn ADY ai peidio (o dan adran 11 o'r Ddeddf – gweler uchod).

[40] Adrannau 12(2)(a), 13 a 30(2) o'r Ddeddf.
[41] Adran 13 o'r Ddeddf.

12.48. At hynny, os bydd plentyn neu riant y plentyn yn gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn ailystyried penderfyniad a wnaed gan ysgol a gynhelir ynghylch a oes gan y plentyn ADY (neu os yw wedi gwrthod gwneud penderfyniad ynghylch y mater hwnnw) **rhaid**[42] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio. Dylai'r paragraffau a ganlyn, i'r graddau eu bod yn berthnasol i ailystyried penderfyniadau, gael eu darllen ar y cyd ag adrannau o Bennod 26 sy'n ymdrin â'r ddyletswydd i ailystyried penderfyniadau ysgolion. Mae'r bennod honno'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y ddyletswydd honno, gan gynnwys eithriadau iddi. Mae'r cyfeiriadau isod yn y bennod hon at awdurdod lleol yn ailystyried[43] penderfyniad ysgol ar ADY (sut bynnag y'u mynegwyd) yn cynnwys awdurdod lleol yn ailystyried pan fo'r ysgol wedi gwrthod gwneud penderfyniad ar ADY o dan adran 11.

12.49. Fel yn achos dyletswydd ysgol i benderfynu, nid yw'n gwneud gwahaniaeth sut mae'r posibilrwydd bod gan y plentyn ADY yn cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu sut y mae'n dod i'r amlwg iddo fel arall y gallai fod gan y plentyn ADY; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna, yn amodol ar yr eithriadau, bydd y ddyletswydd i benderfynu yn gymwys. Fel rheol, bydd yn dod i'w sylw pan fydd ysgol yn atgyfeirio achos y plentyn.

12.50. Ar adegau eraill, efallai y bydd y plentyn, rhiant neu aelod arall o'r teulu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod, neu bydd corff allanol neu weithiwr proffesiynol yn atgyfeirio'r achos. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried mai'r ysgol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu, yn y lle cyntaf o leiaf (efallai am ei bod yn amlwg ei bod yn annhebygol y bydd angen CDU a gynhelir gan awdurdod lleol ar gyfer unrhyw ADY a allai fod gan y plentyn) ac yn dod â'r mater i sylw'r ysgol. Wrth wneud hyn, bydd yn ysgogi'r ddyletswydd sydd gan yr ysgol i benderfynu ac, os bydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod yr ysgol yn penderfynu ar y mater, ni fydd dyletswydd yr awdurdod yn berthnasol (gweler yr eithriad ym mharagraff 12.47(c)).

12.51. Gallai'r posibilrwydd bod gan blentyn ADY ddod i'r amlwg fel arall i awdurdod lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau eraill, er enghraifft ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Unwaith eto, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried atgyfeirio'r mater at yr ysgol berthnasol yn y lle cyntaf. (Rhoddir canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 a chanllawiau ar geisio adnabod a allai fod gan blentyn ADY ym Mhennod 20.)

12.52. Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn mewn ysgol ADY, **rhaid** iddo[44]:

[42] Adran 26 o'r Ddeddf. Yn achos plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, at y dibenion hyn mae'r awdurdod lleol (h.y. yr un yng Nghymru) sy'n cynnal yr ysgol yn gyfrifol am y person ifanc: adran 87 o'r Ddeddf.

[43] O dan adran 26 o'r Ddeddf.

[44] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(a) dynodi swyddog (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud y penderfyniad hwnnw ac, os oes angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) pan fo'r awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, cofnodi'r dyddiad y cafodd yr awdurdod lleol y cais i ailystyried;
(c) mewn achosion eraill cofnodi-
   i. y dyddiad pan gaiff ei dynnu i'w sylw neu pan fo'n ymddangos fel arall y gall fod gan blentyn ADY, a
   ii. chrynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r ysgol neu pam ei fod yn ymddangos fel arall iddi y gall fod gan blentyn ADY;
(d) hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn ei bod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, i drafod y broses (gweler Pennod 22 i gael rhagor o fanylion ynghylch cyfarfodydd).

12.53. **Rhaid**[45] i'r hysbysiad i'r plentyn a rhiant y plentyn y cyfeirir ato ym mharagraff 12.52(d) roi:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch ADY a'r system ADY[46].

12.54. **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad o ran yr amserlen berthnasol a nodir isod).

12.55. Wrth benderfynu a oes gan blentyn ADY, **rhaid**[47] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid ceisio cyngor gan seicolegydd addysgol. **Rhaid**[48] i'r awdurdod geisio cyngor o'r fath pan fo'n credu bod y cyngor yn angenrheidiol i bennu-

(a) graddau neu natur yr ADY a all fod gan y plentyn, neu
(b) y DDdY y mae ADY y plentyn yn galw amdani.

12.56. **Rhaid**[49] i'r cyngor a geisir ymwneud â-

(a) nodweddion addysgol, seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys anghenion tebygol y plentyn yn y dyfodol);
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn, ac
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y plentyn yng ngoleuni'r nodweddion hynny yn ei achos, p'un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau

[45] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[46] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[47] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[48] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[49] Gofyniad a osodir gan y Cod.

eraill o ddarpariaeth, ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno'r ddarpariaeth honno.

12.57. **Dylid** hefyd ystyried p’un a yw’r plentyn eisoes yn cael unrhyw gyswllt neu gymorth gan asiantaethau eraill neu sefydliadau trydydd sector; a **dylai’r** awdurdod lleol eu cynnwys, fel y bo’n briodol, yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY a llunio unrhyw CDU.

12.58. Fel y disgrifir ym Mhennod 4, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a’u rhieni mewn penderfyniadau sy’n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi’r lle canolog i’r plentyn yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. I gyflawni’r ddyletswydd hon, **dylai’r** cydlynydd dynodedig drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel rheol, gyda’r plentyn a rhiant y plentyn er mwyn trafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn a, lle bo angen, llunio CDU ar ei gyfer. Rhoddir canllawiau ar y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22.

12.59. Pan fo awdurdod lleol yn dibynnu ar yr eithriad ym mharagraff 12.47(b) (mae eisoes wedi penderfynu ar y mater ac mae wedi ei fodloni nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy’n effeithio’n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw). **Dylai** hysbysu’r plentyn a’i riant o hyn a **dylai** ddarparu gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a’r system ADY (gan gynnwys hawliau i apelio) os nad yw wedi gwneud hynny o’r blaen neu heb wneud hynny yn ddiweddar.[50]

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY*

12.60. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn (sydd mewn ysgol) ADY, **rhaid**[51] iddo hysbysu'r plentyn a'i riant am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

12.61. **Rhaid**[52] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler isod):

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12 o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 12.39), i’r adeg pan ddaw’r cais atgyfeirio i law’r awdurdod lleol;
(b) yn achos ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, i’r adeg pan ddaw’r cais i ailystyried i law’r awdurdod lleol;
(c) ym mhob achos arall, i’r adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y plentyn ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fydd hynny'n dod i’r amlwg

[50] Gweler Pennod 26 i gael canllawiau tebyg ar gyfer y sefyllfa pan fo’r awdurdod lleol yn dibynnu ar eithriad tebyg ar gyfer ailystyried penderfyniad.
[51] Adran 13(3) o’r Ddeddf.
[52] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.

iddo fel arall.

12.62. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod perthnasol hwnnw os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[53].

12.63. Y cyfnod perthnasol at y dibenion hyn yw:

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

12.64. Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[54] i'r hysbysiad a roddir i'r plentyn a rhiant y plentyn gynnwys:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[55];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[56] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[57];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[58]

12.65. **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion y disgybl (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

12.66. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r plentyn a'i riant drafod ymhellach.

## *Llunio CDU (Awdurdodau lleol)*

12.67. Os yw awdurdod lleol wedi penderfynu bod ADY gan blentyn mewn ysgol ac y mae'n gyfrifol amdano, **rhaid**[59] iddo naill ai llunio CDU neu gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU. Os yw'r awdurdod lleol yn llunio CDU, **rhaid**[60] iddo naill ai ei gynnal neu, os yw'r awdurdod yn ystyried bod hynny'n briodol, cyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal. (Gweler Pennod 2 am wybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 am wybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 am wybodaeth am lunio CDU ac am yr hyn y dylid ei gynnwys ynddo.)

[53] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[54] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[55] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[56] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[57] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[58] O dan adran 70. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.
[59] Adran 14(1) a (2) o'r Ddeddf.
[60] Adran 14(2) o'r Ddeddf.

12.68. Gweler paragraffau 12.85 – 12.99 i gael gwybod rhagor am bŵer awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd i ysgol.

12.69. Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Yn yr achos hwn, byddai penderfyniad yr awdurdod lleol bod gan y plentyn ADY wedi'i wneud fel ailystyriaeth o benderfyniad yr ysgol ar ADY. Pan fo'r awdurdod lleol (yr un yng Nghymru) wedi gwneud penderfyniad o'r fath, **rhaid**[61] iddo naill ai-

(a) cyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn, neu
(b) llunio CDU ar gyfer y plentyn a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal.

Ond nid oes rhaid i'r awdurdod lleol wneud hyn os yw wedi gofyn i'r un yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu os yw'r awdurdod yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn.[62]

12.70. Os yw awdurdod lleol yn Lloegr, yn dilyn cais gan awdurdod lleol i sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer plentyn, yn hysbysu'r awdurdod lleol nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn, **rhaid**[63] i'r awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol mewn un o'r ddwy ffordd a grybwyllir yn y paragraff blaenorol (ar ôl llunio CDU yn gyntaf mewn perthynas â'r ail ffordd).

12.71. Cyn cwblhau'r gwaith o lunio'r CDU, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r plentyn a rhiant y plentyn roi sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys o bosibl diweddaru'r CDU drafft, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

12.72. Ar ôl ei lunio, **rhaid**[64] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant.

12.73. **Rhaid**[65] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ar ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi o'r cynllun yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler isod):

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12 o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 12.39), i'r adeg pan ddaw'r cais atgyfeirio i law'r awdurdod lleol;
(b) yn achos ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, i'r adeg pan ddaw'r cais i ailystyried i law'r awdurdod lleol;

[61] Adran 14(2) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan adran 87(3)(c).
[62] Adran 87(3)(d) o'r Ddeddf.
[63] Adran 87(3)(e) o'r Ddeddf.
[64] Adran 22 o'r Ddeddf.
[65] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.

(c) ym mhob achos arall, i'r adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y plentyn ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu ei bod yn dod i'r amlwg iddo fel arall.

12.74. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono cyn diwedd y cyfnod perthnasol hwnnw os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[66].

12.75. Y cyfnod perthnasol at y dibenion hyn yw:

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

12.76. Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[67] i'r awdurdod lleol hefyd roi i'r plentyn a rhiant y plentyn:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[68];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[69] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[70];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[71]

## *Cynnal CDU (Awdurdodau lleol)*

12.77. Pan fo awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer plentyn mewn ysgol, **rhaid**[72] iddo naill ai gynnal y CDU hwnnw neu gyfarwyddo'r ysgol i gynnal yr CDU. Gweler paragraffau 12.85 - 12.99 am ragor o wybodaeth am bŵer awdurdod lleol i gyfarwyddo ysgol a pharagraffau 12.69 - 12.70 ar gyfer pan fo'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

12.78. Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn mewn ysgol, canlyniad hyn yw y bydd angen iddo gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

[66] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[67] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[68] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[69] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[70] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[71] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn trafod apeliadau.
[72] Adran 14(1) a (2) o'r Ddeddf.

12.79. Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[73] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth perthnasol a nodir gan un o gyrff y GIG. Yn yr achos hwn, **rhaid**[74] i gorff perthnasol y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[75] i'r awdurdod lleol (neu un o gyrff y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei ddarparu yn Gymraeg.

12.80. Mae dyletswyddau ar awdurdod lleol i adolygu CDU y mae'n ei gynnal[76] (gweler Pennod 25).

12.81. **Ni chaiff**[77] yr awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn na'r rhiant am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y mae'n ei sicrhau o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

12.82. Efallai y bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio mewn amgylchiadau penodol. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 29. Gall hefyd drosglwyddo i gorff arall, er enghraifft, pan fo'r awdurdod lleol wedi cyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU. Mae gwybodaeth am ffyrdd eraill o drosglwyddo CDU ym Mhennod 28.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer plentyn gan yr awdurdod lleol*

12.83. Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn mewn ysgol, **rhaid**[78] i'r ysgol gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a bennir yn y cynllun. **Dylai** hyn gynnwys y canlynol pan fo hynny'n berthnasol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

(a) helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY drwy gyflwyno'r DDdY y mae'n rhesymol i'r ysgol ei chyflwyno;
(b) sicrhau hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i staff fel bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau i gyflwyno'r DDdY y mae'r ysgol i'w chyflwyno;
(c) helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod DDdY yn cael ei darparu yn Gymraeg, os yw'r CDU yn nodi y dylid ei darparu yn Gymraeg;
(d) hwyluso'r defnydd o gyfarpar priodol a nodwyd yn CDU y plentyn;
(e) cynnwys rhiant plentyn yn y broses o gyflwyno DDdY;

---

[73] Adran 14(10)(a) a (b) o'r Ddeddf.
[74] Adrannau 20(5) a (21)(5) o'r Ddeddf.
[75] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[76] Adran 23 o'r Ddeddf.
[77] Adran 49 o'r Ddeddf. At y dibenion hyn, nid yw "rhiant" yn cynnwys rhiant nad yw'n unigolyn.
[78] Adran 47(4) a (5) o'r Ddeddf.

(f) sicrhau bod pawb sy'n addysgu'r plentyn yn ymwybodol o ADY y plentyn a'r DDdY i'w darparu;
(g) hwyluso'r gwaith o ddarparu'r DDdY sydd i'w darparu gan eraill;
(h) gwneud trefniadau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol a chorff perthnasol y GIG am y camau ymarferol sydd i'w cymryd i gyflwyno'r DDdY a nodwyd yn y CDU.

12.84. Hefyd, yn fwy cyffredinol, **dylai** ysgol a gynhelir gymryd camau rhesymol i helpu awdurdod lleol i arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan y system ADY mewn perthynas â phlant mewn ysgol.[79] Er enghraifft, mewn cysylltiad â phlentyn yn yr ysgol sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol-

(a) monitro effeithiolrwydd DDdY a wnaed i blentyn a chefnogi'r plentyn i wneud cynnydd a chyflawni'r deilliannau a nodwyd yn ei CDU;
(b) cyfrannu at y gwaith o adolygu'r CDU a chynllunio prosesau trosglwyddo i unrhyw sefydliadau eraill ac i fywyd fel oedolyn.
(c) integreiddio cyngor allanol a chymorth arbenigol ar gyfer y plentyn i'w rhaglenni addysgu a dysgu mewn ffordd nad yw'n amharu.

## *Cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i ysgol a gynhelir i lunio neu gynnal CDU*

12.85. O dan yr amgylchiadau canlynol, gall awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol a gynhelir ynghylch CDU:

(a) pan fydd yr awdurdod lleol wedi penderfynu bod ADY gan blentyn yn yr ysgol, neu blentyn sydd i fod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, **caiff**[80] gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn os yw o'r farn bod hynny'n briodol;
(b) pan fydd awdurdod wedi penderfynu bod ADY gan blentyn yn yr ysgol, neu blentyn sydd i fod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a'i fod wedi llunio CDU ar gyfer y plentyn **caiff**[81] gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU os yw o'r farn bod hynny'n briodol;
(c) pan fydd gan yr awdurdod lleol CDU diwygiedig i blentyn yn yr ysgol ar ôl ei ailystyried (gweler Pennod 26) neu ar ôl cael gorchymyn gan y Tribiwnlys i'w ddiwygio, **caiff**[82] yr awdurdod gyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal;
(d) pan fydd yr awdurdod lleol eisoes yn cynnal CDU ar gyfer plentyn yn yr ysgol, **caiff**[83] gyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal.

---

[79] Os nad yw awdurdod lleol yn cael yr wybodaeth neu'r cymorth sydd ei angen arno gan yr ysgol i arfer ei swyddogaethau, gall wneud cais ffurfiol amdano, ac os felly rhaid i'r ysgol gydymffurfio â'r cais yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig: gweler Pennod 21.
[80] Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.
[81] Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.
[82] Adran 27(6)(a) o'r Ddeddf.
[83] Adran 14(4) o'r Ddeddf.

O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo'r ysgol, **rhaid**[84] iddo gynnal y CDU ei hun.

12.86. Os yw'r ysgol yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol arall, cyn y gall gyfarwyddo'r ysgol, **rhaid**[85] i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol ynghylch ei gynnig i gyfarwyddo'r ysgol.

12.87. **Ni ddylai** awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol lunio CDU oni bai ei fod yn ystyried:

(a) bod gan y plentyn ADY sy'n galw am DDdY y byddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau,
(b) y gallai'r ysgol benderfynu'n ddigonol ar raddau a natur yr ADY; ac
(c) y gallai'r ysgol benderfynu'n ddigonol ar y DDdY.

12.88. Ond **ni chaiff**[86] yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol mewn unrhyw ffordd os yw'r canlynol yn wir-

(a) mae'r disgybl wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad
(b) mae hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol bennu lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall, neu fwyd a llety yn y CDU (pan na ellir diwallu anghenion rhesymol y disgybl am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol yn sicrhau y naill neu'r llall neu'r ddau ohonynt ar gyfer y plentyn).

12.89. Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. **Rhaid**[87] i'r awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol a gynhelir yn un o'r ffyrdd a nodir ym mharagraff 12.85(a) i (c). Yr eithriadau i hyn yw os bydd yr awdurdod lleol, ar ôl penderfynu bod gan y plentyn ADY, wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol yn Lloegr i sicrhau asesiad o anghenion cynllun Addysg, Iechyd a Gofal neu os yw'r awdurdod hwnnw yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn.

12.90. Pan fydd awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol i gynnal CDU y mae'r awdurdod wedi'i lunio, **rhaid**[88] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn a'r ysgol. **Dylai** roi'r copi i'r ysgol ar yr un pryd ag y mae'n cyfarwyddo'r ysgol. Pan fydd awdurdod lleol eisoes yn cynnal CDU ac yn cyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal yn ei le, **rhaid**[89] i'r awdurdod lleol anfon copi o'r CDU i'r ysgol, oni bai bod gan yr ysgol gopi ohono eisoes. **Dylai** hyn gael ei wneud ar yr un pryd ag y bydd yn cyfarwyddo'r ysgol. **Rhaid**[90] i'r ysgol roi gwybod i'r plentyn a'i riant ei bod wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y CDU.

[84] Adran 14(2) ac adran 27(6) o'r Ddeddf.
[85] Adran 38 o'r Ddeddf.
[86] Adrannau 30(7) a (14)(9) o'r Ddeddf.
[87] Adrannau 14(2), 27(6) ac 87 o'r Ddeddf.
[88] Adran 22(1) o'r Ddeddf a rheoliad 15 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[89] Rheoliad 15 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[90] Adran 22(2) o'r Ddeddf.

12.91. Wrth gyfarwyddo ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer plentyn, **rhaid**[91] i'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol a gynhelir o'r dyddiad y digwyddodd y digwyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 12.95(a), (b) neu (c) (fel sy'n berthnasol yn yr achos dan sylw). Y rheswm am hyn yw bod yr ysgol wedyn yn gwybod erbyn pa ddyddiad y mae'n ofynnol iddi roi copi o'r CDU.

12.92. Pan fydd awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol a gynhelir i lunio a chynnal CDU ar gyfer plentyn yn yr ysgol neu sy'n mynd i fod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, **dylai'r** awdurdod lleol wneud hynny'n brydlon ac yn ddigon cynnar o fewn y cyfnod y byddai wedi bod yn ofynnol iddo fel arall lunio a rhoi copi o'r CDU (gweler paragraff 12.73). Mae hyn er mwyn i'r ysgol gael digon o amser i lunio'r CDU.

12.93. **Ni ddylai** awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol lunio a chynnal CDU os na fyddai'n rhesymol i'r ysgol lunio a rhoi copi ohono i'r plentyn a rhiant y plentyn cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler paragraffau 12.73 ac 12.95). Mewn achos felly, **dylai'r** awdurdod lleol lunio'r cynllun ei hun (gan ymgynghori â'r ysgol i'r graddau sy'n bosibl ac yn briodol), a **chaiff**[92] roi cyfarwyddyd iddi wedyn i gynnal y CDU os yw'r plentyn eisoes yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

12.94. Pan fydd ysgol a gynhelir yn cael ei chyfarwyddo gan awdurdod lleol i lunio a chynnal, neu i gynnal CDU ar gyfer plentyn yn yr ysgol (neu ar gyfer plentyn sydd i ddod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol), **rhaid**[93] i'r ysgol wneud hynny. Yr unig eithriad i hyn yw os bydd awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn (na fyddai ond yn digwydd pe byddai’r plentyn yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw yn Lloegr). Mae’r canlynol yn berthnasol i lunio CDU: Pennod 2 ar ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 ar adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen; Pennod 23 mewn perthynas â llunio CDUau a’r hyn y dylid ei gynnwys ynddynt; a pharagraff 12.19. Mae paragraffau 12.31 hyd 12.35 yn ymdrin ag ysgol a gynhelir sy’n cynnal CDU (gan gynnwys pan na luniwyd y CDU gan yr ysgol).

12.95. Pan fydd yn ofynnol i ysgol a gynhelir lunio a chynnal CDU ar gyfer plentyn yn yr ysgol yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol[94], **rhaid**[95] i’r ysgol lunio’r CDU a rhoi copi ohono i'r plentyn a rhiant y plentyn yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler isod):

(a) os atgyfeirir achos o dan adran 12 o’r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 12.39), i’r adeg y daw’r cais atgyfeirio i law’r awdurdod lleol;
(b) yn achos ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, i’r adeg y daw’r cais i ailystyried i law’r awdurdod lleol;

[91] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[92] Adran 14(4) o’r Ddeddf.
[93] Adran 12(3) o’r Ddeddf.
[94] O dan adran 14(2)(b)(ii) o’r Ddeddf.
[95] Gofyniad (yn ddarostyngedig i’r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.

(c) ym mhob achos arall, i'r adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y plentyn ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol neu fod hynny'n dod i'r amlwg iddo fel arall.

12.96. Y cyfnod perthnasol at y dibenion hyn yw:

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

12.97. Dyma'r un cyfnodau a fyddai wedi eu rhoi i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU, pe bai wedi ei lunio ei hun yn lle rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol wneud hynny.

12.98. Nid oes angen i'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad i lunio a rhoi copi o'r CDU cyn diwedd y cyfnod perthnasol hwnnw os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth[96].

12.99. Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[97] i'r ysgol hefyd roi i'r plentyn a rhiant y plentyn:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[98];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[99] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[100];
(d) gwybodaeth am yr hawliau i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y CDU a chymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal[101], a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol;
(e) ond os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yn hytrach na'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (d), gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol i ailystyried y CDU[102] a manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i dderbyn plentyn os bydd awdurdod lleol wedi'i henwi at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn*

12.100. **Caiff**[103] awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir mewn CDU y mae'n ei lunio neu ei gynnal ar gyfer plentyn at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol honno (am ragor o wybodaeth am hyn, gweler Pennod 23).

[96] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[97] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[98] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[99] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[100] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[101] Dyma'r hawliau o dan adrannau 27 a 28 y Ddeddf yn y drefn honno. Gweler Pennod 26.
[102] O dan adrannau 27 ac 87 o'r Ddeddf.
[103] Adran 48 o'r Ddeddf.

Os caiff ysgol a gynhelir ei henwi at y dibenion hyn, **rhaid**[104] iddi dderbyn y plentyn, beth bynnag yw ei dyletswydd o ran y cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau babanod. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw bŵer i wahardd disgybl o ysgol[105].

## *Dyletswydd i sicrhau bod plant ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol*

12.101. **Rhaid**[106] i bawb sy'n ymwneud â chreu DDdY ar gyfer plentyn ag ADY sy’n cael ei addysgu mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ochr yn ochr â phlant nad oes ganddynt ADY.  Dim ond i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'r canlynol y mae hyn yn berthnasol-

(a) bod y plentyn yn derbyn y DDdY y mae ei ADY yn galw amdani,
(b) darparu addysg effeithlon ar gyfer y plant y caiff y plentyn ei addysgu gyda nhw, ac
(c) defnyddio adnoddau’n effeithlon.

[104] Adran 48(2) a (5) o'r Ddeddf.
[105] Adran 48(6) o’r Ddeddf.
[106] Adran 52 o'r Ddeddf.

# Pennod 13: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir

## *Cyflwyniad*

13.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, llunio a chynnal CDU, a sicrhau bod y DDdY yn cael ei chynnwys mewn CDU, ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir. Byddai hynny'n cynnwys plant, er enghraifft, sy'n mynychu ysgolion annibynnol, ysgolion a gynhelir yn Lloegr neu'n derbyn addysg yn y cartref. Mae canllawiau penodol ym Mhennod 18 ar bob un o'r sefyllfaoedd hynny ac eraill sy'n ymwneud â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, a dylid darllen y bennod hon ar y cyd â darpariaethau perthnasol y Bennod honno. Nid yw'r bennod hon yn ymdrin â'r sefyllfa os yw'r plentyn yn derbyn gofal (gweler Pennod 14), ac nid yw ychwaith yn ymdrin â'r sefyllfa os yw'r plentyn yn destun gorchymyn cadw (gweler Pennod 19).

13.2 Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau yn y bennod hon at blentyn neu at blentyn nad yw mewn ysgol a gynhelir, ac eithrio i'r graddau y dangosir bwriad i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriadau at blentyn o oedran ysgol gorfodol-

(a) nad yw wedi'i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir,
(b) nad yw'n derbyn gofal, ac
(c) nad yw'n ddarostyngedig i orchymyn cadw.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY*

13.3 Os dygir i sylw awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn y mae'n gyfrifol amdano ADY, neu os daw hynny i'r amlwg iddo mewn ffordd arall, **rhaid**[1] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio, ac eithrio mewn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn;
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

13.4 Gall y posibilrwydd fod gan blentyn ADY gael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Gall plentyn, rhiant y plentyn neu aelod arall o'r teulu gysylltu â'r awdurdod lleol yn uniongyrchol. Fel arall, gallai atgyfeiriad gael

[1] Adran 13(1) a (2) o'r Ddeddf.

ei wneud gan gorff allanol neu weithiwr proffesiynol neu gan wasanaethau eraill yr awdurdod lleol, megis y gwasanaethau cymdeithasol. Nid oes ots sut y mae'r posibilrwydd y gallai fod gan blentyn ADY yn dod i sylw'r awdurdod lleol neu sut y mae hyn yn dod i'r amlwg fel arall; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys (yn amodol ar yr eithriadau uchod). (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY wedi'i nodi ym Mhennod 2 ac ar adnabod a allai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY ym Mhennod 20.)

13.5 Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn nad yw mewn ysgol a gynhelir ADY, **rhaid**[2] iddo:

(a) dynodi swyddog (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n ymddangos fel arall y gall fod gan y plentyn ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu pam mae'n ymddangos fel arall iddo y gall fod gan y plentyn ADY;
(d) hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn ei fod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd).

13.6 **Rhaid**[3] i'r hysbysiad a roddir i'r plentyn ac i riant y plentyn ac y cyfeirir ato ym mharagraff 13.5(d) roi:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[4].

13.7 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad o ran yr amserlen a nodir isod).

13.8 Wrth benderfynu a oes gan y plentyn ADY, **rhaid**[5] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylai ofyn am gyngor gan seicolegydd addysg. **Rhaid**[6] i'r awdurdod geisio cyngor o'r fath os yw'n credu bod y cyngor yn angenrheidiol i bennu-

(a) graddau neu natur yr ADY a allai fod gan y plentyn, neu
(b) y DDdY y mae ADY y plentyn yn galw amdani.

13.9 **Rhaid**[7] i'r cyngor a geisir ymwneud â-

[2] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[3] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[4] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[5] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[7] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(a) nodweddion addysgol neu seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys anghenion tebygol y plentyn yn y dyfodol),
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn, ac
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y plentyn yng ngoleuni'r nodweddion hynny, p'un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau eraill o ddarpariaeth ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno'r ddarpariaeth honno.

13.10 Dylid hefyd ystyried a yw'r plentyn eisoes yn ymwneud â sefydliadau trydydd sector neu asiantaethau eraill neu a yw'n cael cymorth gan sefydliadau trydydd sector neu asiantaethau eraill, a dylai'r awdurdod lleol eu cynnwys, fel y bo'n briodol, yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY a llunio unrhyw CDU.

13.11 Fel y'i disgrifir ym Mhennod 4, ceir dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a'u rhieni mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, un o amcanion sylfaenol y system ADY yw rhoi'r lle canolog i'r plentyn yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY. I gyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd dynodedig drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn er mwyn trafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn ac, os oes angen, er mwyn llunio CDU ar ei gyfer. (Ceir canllawiau ar y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22.)

13.12 Os dygir sylw awdurdod lleol at y ffaith y gall fod gan y plentyn ADY, ond bod yr awdurdod wedi gwneud penderfyniad ar y mater o'r blaen a'i fod yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw (gweler yr eithriad ym mharagraff 13.3(b)), **dylai** roi gwybod am hyn i'r plentyn ac i riant y plentyn a **dylai** ddarparu gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY (gan gynnwys hawliau i apelio) os nad yw wedi gwneud hynny o'r blaen neu'n ddiweddar.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY*

13.13 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn ADY, **rhaid**[8] iddo hysbysu'r plentyn a'i riant am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

13.14 **Rhaid**[9] i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad, a rhoi'r hysbysiad yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos ar ôl i'r posibilrwydd fod

[8] Adran 13(3) o'r Ddeddf.
[9] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.

gan blentyn ADY gael ei ddwyn i'w sylw neu iddi ddod i'r amlwg fel arall iddo y gall fod gan y plentyn ADY. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[10].

13.15 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[11] i'r hysbysiad i'r plentyn ac i riant y plentyn roi:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[12];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[13] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[14];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[15]

13.16 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd unrhyw gamau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yng ngoleuni ei ystyriaeth i sicrhau bod anghenion y plentyn (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu.

13.17 Gall fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r plentyn a'i riant ddod i gyfarfod i drafod y mater ymhellach.

## *Llunio CDU*

13.18 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, **rhaid**[16] iddo lunio CDU ar ei gyfer. Fodd bynnag, os yw'r plentyn i fod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, mewn rhai achosion **caiff**[17] yr awdurdod lleol yn hytrach gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn (gweler paragraffau 12.85 – 12.99 i gael gwybodaeth am awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol a gynhelir yn y modd hwn).

13.19 Gweler Pennod 2 i gael gwybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 i gael gwybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 i gael gwybodaeth am lunio CDU ac am ei gynnwys.

13.20 Cyn i'r CDU gael ei gwblhau, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r plentyn a'i riant roi eu sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw

[10] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[11] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[12] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[13] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[14] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[15] O dan adran 70. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.
[16] Adran 14(1) - (2) o'r Ddeddf.
[17] Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.

bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys diweddaru'r CDU drafft o bosibl, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

13.21 Ar ôl ei lunio, **rhaid**[18] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant.

13.22 **Rhaid**[19] i'r awdurdod lleol benderfynu ynghylch ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono'n brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos ar ôl i'r posibilrwydd fod gan blentyn ADY gael ei ddwyn i'w sylw neu iddi ddod i'r amlwg fel arall iddo y gall fod gan blentyn ADY.

13.23 Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[20].

13.24 Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[21] i'r awdurdod lleol hefyd roi'r canlynol i'r plentyn ac i riant y plentyn:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[22];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[23] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[24]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[25]

## *Cynnal CDU*

13.25 Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer y plentyn nad yw mewn ysgol a gynhelir, **rhaid**[26] iddo gynnal y CDU hwnnw. Fodd bynnag, os yw'r plentyn i'w gofrestru mewn ysgol a gynhelir, mewn rhai achosion **caiff**[27] yr awdurdod lleol yn hytrach gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU (gweler paragraffau 12.85 – 12.99).

13.26 Canlyniad y rheidrwydd ar yr awdurdod lleol i gynnal y CDU yw y bydd angen iddo gadw copi o'r CDU (yn unol â chyfraith diogelu data) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sydd ynghlwm wrth i awdurdod lleol gynnal CDU. Cyfeirir at y dyletswyddau hyn yn y paragraffau a ganlyn.

[18] Adran 22 o'r Ddeddf.
[19] Gofyniad (yn ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[20] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[21] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[22] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[23] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[24] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[25] O dan adran 70. Mae Pennod 33 yn ymdrin â hawliau i apelio.
[26] Adrannau 14(1) - (2) o'r Ddeddf.
[27] Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.

13.27 Os yw awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[28] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol neu sefydliad penodol neu fwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth a nodir gan un o gyrff y GIG. Yn yr achos hwn, **rhaid**[29] i gorff perthnasol y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[30] i'r awdurdod lleol (neu gorff y GIG pan fo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei ddarparu yn Gymraeg.

13.28 Mae awdurdod lleol hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau[31] i adolygu CDU (gweler Pennod 25).

13.29 **Ni chaiff**[32] awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn na'r rhiant am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y mae'n ei sicrhau o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

13.30 Os yw'r plentyn yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, **caiff**[33] yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU. Fodd bynnag, **ni chaiff**[34] awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol i gynnal CDU os yw'n cynnwys darpariaeth arall y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei sicrhau (h.y. lle mewn ysgol neu sefydliad penodol neu fwyd a llety), neu os yw'r person yn blentyn sy'n derbyn gofal ganddo neu wedi'i gofrestru mewn dau le (gweler Pennod 12 i gael rhagor o wybodaeth am awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol a gynhelir).

13.31 Gall dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU beidio mewn rhai amgylchiadau, ac ymdrinnir â'r rhain ym Mhennod 29. Gall hefyd gael ei throsglwyddo i gorff arall, er enghraifft, pan fo'r awdurdod lleol wedi cyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU, fel a grybwyllir uchod. Ceir gwybodaeth am ffyrdd eraill o drosglwyddo CDUau ym Mhennod 28.

---

[28] Adran 14(10) o'r Ddeddf.
[29] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[30] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[31] Adran 23 o'r Ddeddf.
[32] Adran 49 o'r Ddeddf. At y dibenion hyn, nid yw "rhiant" yn cynnwys rhiant nad yw'n unigolyn.
[33] Adran 14(4) o'r Ddeddf.
[34] Adrannau 14(9) a (30)(7) o'r Ddeddf.

# Pennod 14: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal

## *Cyflwyniad*

14.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys mewn CDU, ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r bennod hon yn ymdrin hefyd â'r dyletswyddau sydd ar ysgolion a gynhelir mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY.

14.2 O dan y system ADY, mae'r dyletswyddau i adnabod ADY a llunio a chynnal CDU mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal wedi eu gosod ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn, yn hytrach na'r hyn sy'n wir am blant eraill, sef yr ysgol a gynhelir y mae'r plant yn ei mynychu a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt. Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod yr awdurdod sy'n gyfrifol am gynllunio ar gyfer anghenion y plentyn, yn cynnwys ei anghenion addysgol, yn gyfrifol hefyd am gynllunio ar gyfer a diwallu ei ADY. Mae hyn yn caniatáu dull mwy cyfannol o ddiwallu anghenion addysgol ac anghenion eraill plant ag ADY.

## *Cymhwyso'r bennod hon*

14.3 Mae'r dyletswyddau a'r darpariaethau yn y bennod hon yn gymwys yn achos plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol a, lle nodir hynny, plant neu bobl ifanc sydd newydd orffen derbyn gofal. Mae paragraffau 1.27 – 1.28 o Bennod 1 (Cyflwyniad) yn esbonio pryd y mae plentyn yn derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf a'r Cod hwn ac mae cyfeiriadau yn y Cod hwn at blentyn sy'n derbyn gofal i'w dehongli yn unol â hynny, ac eithrio i'r graddau y nodir bwriad i'r gwrthwyneb.

14.4 Fel y nodir ym mharagraff 14.2, mae dyletswyddau i benderfynu a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal ADY a llunio a chynnal CDU ar gyfer plentyn o'r fath yn cael eu gosod ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn. Mae hyn yn wir pa lefel bynnag o anghenion sydd gan y plentyn ac mae'n wahanol i'r sefyllfa ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal.

14.5 Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n wahanol os nad yw'r plentyn sy'n derbyn gofal yn ardal awdurdod lleol (er enghraifft, os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr yn dilyn lleoliad hirdymor yno). Caiff y gwahaniaethau hynny sylw yn y bennod hon. Ar gyfer sefyllfa plentyn sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond sy'n mynychu ysgol a gynhelir (hynny yw, un yng Nghymru), trowch at Bennod 12.

## *Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal*

14.6 Er nad oes dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir i benderfynu ar ADY a llunio a chynnal CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (ac eithrio'r rheini sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr), mae dyletswyddau eraill ar ysgolion a gynhelir mewn perthynas â phlant ag ADY yr un mor berthnasol i bobl plentyn sy'n derbyn gofal sydd ag ADY. Yn benodol, **rhaid**[1] i ysgolion a gynhelir wneud pob un o'r canlynol:

(a) cymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol sicrhau'r DDdY a nodir mewn CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol;

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r DDdY y mae ADY plentyn sy'n derbyn gofal yn galw amdani, lle nad oes gan y plentyn hwnnw CDU (er enghraifft, am ei fod yn cael ei lunio) a'i fod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol;

(c) derbyn plentyn sy'n derbyn gofal i'r ysgol lle enwir yr ysgol yn CDU y plentyn at y diben o sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol;

(d) os yw'r ysgol yn un brif ffrwd, sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal sy'n ddisgybl cofrestredig yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ynghyd â phlant nad oes ganddynt ADY (yn achos y ddyletswydd hon, nid yw ar y corff llywodraethwyr yn uniongyrchol, ond ar y rhai sydd ynghlwm wrth wneud DDdY ar gyfer y plentyn).

14.7 Caiff y dyletswyddau hyn, yn cynnwys y cyfyngiadau arnynt, eu hegluro'n fanylach ym Mhennod 12. Mae canllawiau statudol yn y penodau hynny sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hyn yn gymwys yn yr un modd i sefyllfaoedd lle maent yn cael eu harfer mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal.

14.8 Mae dyletswydd hefyd ar ysgolion a gynhelir sy'n ymwneud yn benodol â phlant sy'n derbyn gofal sy'n ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol. Os dygir i sylw ysgol a gynhelir y gallai fod gan ddisgybl cofrestredig sy'n blentyn sy'n derbyn gofal ADY neu os daw hyn yn amlwg iddi mewn ffordd arall, **rhaid**[2] i'r ysgol gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan blentyn sy'n derbyn gofal*

14.9 Os dygir i sylw awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn y mae'n gofalu amdano ADY neu os daw'n amlwg iddo mewn ffordd arall, **rhaid**[3] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

[1] Adrannau 47(4) a (5), 47(1) a (2), 48 a 52 o'r Ddeddf yn y drefn honno.
[2] Adran 17 o'r Ddeddf.
[3] Adran 18 o'r Ddeddf.

(a) mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y plentyn;
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) mae'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

14.10 Nid yw o bwys sut y dygir i sylw awdurdod lleol neu sut y daw i'r amlwg iddo fel arall y gallai fod gan blentyn y mae'n gofalu amdano ADY; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna, yn amodol ar yr eithriadau a restrir uchod, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys.

14.11 Un ffordd debygol y gallai'r mater ddod i sylw'r awdurdod lleol yw drwy atgyfeiriad gan ysgol a gynhelir (gweler paragraff 14.8). Mae dyletswydd debyg hefyd ar awdurdod lleol sy'n gyfrifol am blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol arall os dygir i sylw awdurdod lleol sy'n gyfrifol am blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol arall, neu os yw'n dod i'r amlwg iddo mewn ffordd arall, y gallai fod gan y plentyn ADY, **rhaid**[4] i'r awdurdod lleol cyfrifol atgyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

14.12 Fel arall, efallai y bydd rhywun fel y plentyn neu aelod o'r teulu yn codi pryderon y gallai fod gan y plentyn ADY yn uniongyrchol, neu efallai y bydd atgyfeiriad gan gorff neu weithiwr proffesiynol arall. Efallai y bydd y posibilrwydd bod gan blentyn ADY yn dod i'r amlwg fel arall i awdurdod lleol wrth i'r awdurdod hwnnw arfer ei swyddogaethau eraill, er enghraifft ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

14.13 Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal ganddo ADY, **rhaid**[5] iddo:

(a) dynodi swyddog (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sydd eu hangen i wneud y penderfyniad hwn ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad pan ddygir i'w sylw neu pan ddaw i'r amlwg fel arall y gall fod gan y plentyn ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu pam mae'n ymddangos fel arall iddo y gall fod gan y plentyn ADY;
(d) hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn a swyddog adolygu annibynnol y plentyn ei fod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn a rhiant y plentyn i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd).

[4] Adran 17 o'r Ddeddf.
[5] Gofyniad a osodir gan y Cod.

14.14 **Rhaid**[6] i’r hysbysiad i’r plentyn a rhiant y plentyn y cyfeirir ato ym mharagraff 14.13(d) roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i gael gafael ar drefniadau’r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a’r system ADY.[7]

14.15 **Dylai’r** hysbysiad i’r plentyn, i riant y plentyn ac i’r swyddog adolygu annibynnol hefyd roi syniad o amserlen debygol y broses (gan ystyried y gofyniad o ran yr amserlen a nodir isod).

14.16 Wrth benderfynu a oes gan blentyn sy’n derbyn gofal ADY, **rhaid**[8] i’r awdurdod lleol ystyried a ddylai ofyn am gyngor gan seicolegydd addysg. **Rhaid**[9] i’r awdurdod geisio cyngor o’r fath os yw’n credu bod angen y cyngor i benderfynu-
(a) graddau neu natur yr ADY a allai fod gan y plentyn, neu
(b) y DDdY y mae ADY y plentyn yn galw amdani.

14.17 **Rhaid**[10] i’r cyngor a geisir ymwneud â:

(a) nodweddion addysgol, seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy’n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys anghenion tebygol y plentyn yn y dyfodol),
(b) sut y gallai’r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn; ac
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y plentyn yng ngoleuni’r nodweddion hynny, p’un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau eraill o ddarpariaeth ac unrhyw faterion sy’n effeithio ar gyflwyno’r ddarpariaeth honno.

14.18 **Dylid** rhoi ystyriaeth hefyd i ba un a yw’r plentyn mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu a yw’n derbyn cymorth gan asiantaethau eraill neu sefydliadau’r trydydd sector; a **dylai’r** awdurdod lleol eu cynnwys fel y bo’n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y disgybl ADY ac wrth lunio unrhyw CDU.

14.19 Fel y disgrifir ym Mhennod 4, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a’u rhieni mewn penderfyniadau sy’n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, un o amcanion sylfaenol y system ADY yw rhoi’r lle canolog i’r plentyn yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY. I gyflawni’r ddyletswydd hon a’r amcan hwn, **dylai’r** cydgysylltydd dynodedig drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo’n briodol, gyda’r plentyn, rhieni’r plentyn a swyddog adolygu annibynnol y plentyn, i drafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn ac, os oes angen, i

[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[7] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[8] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[9] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[10] Gofyniad a osodir gan y Cod.

lunio CDU ar ei gyfer. (Rhoddir canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22.)

14.20 Os dygir i sylw awdurdod lleol y gall fod gan blentyn ADY, ond bod yr awdurdod wedi gwneud penderfyniad ar y mater o'r blaen a'i fod yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw (gweler yr eithriad ym mharagraff 14.9(b); **dylai** roi gwybod am hyn i'r plentyn, rhiant y plentyn a swyddog adolygu annibynnol y plentyn a **dylai** ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r plentyn a'i riant am ADY a'r system ADY (yn cynnwys yr hawliau i apelio) os nad yw wedi gwneud hynny o'r blaen neu'n ddiweddar.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes ADY gan blentyn sy'n derbyn gofal*

14.21 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn sy'n derbyn gofal ADY **rhaid**[11] iddo hysbysu'r plentyn, ei riant a swyddog adolygu annibynnol y plentyn am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

14.22 **Rhaid**[12] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos ar ôl dwyn i sylw'r awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn ADY, neu ar ôl i hynny ddod i'r amlwg iddo fel arall. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[13]

14.23 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[14] i'r hysbysiad i'r plentyn, rhiant y plentyn a swyddog adolygu annibynnol y plentyn roi:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY;[15]
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[16] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[17]
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[18]

---

[11] Adran 18(3) o'r Ddeddf.
[12] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[13] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[14] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[15] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[16] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[17] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[18] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae modd apelio'r penderfyniad yn y Tribiwnlys – gweler Pennod 33.

14.24 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr ysgol a gynhelir (os yw'r plentyn yn mynychu un) neu'r awdurdod lleol yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion addysgol y plentyn sy'n derbyn gofal (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

14.25 Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r plentyn, ei riant a'r swyddog adolygu annibynnol drafod y mater ymhellach.

## *Llunio CDU*

14.26 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, **rhaid**[19] iddo lunio CDU ar gyfer y plentyn, ar yr amod bod y plentyn yn ardal yr awdurdod lleol. Fel y nodir ar ddechrau'r bennod hon, mae'r dyletswyddau mewn perthynas â llunio a chynnal CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (ar yr amod eu bod yn ardal awdurdod lleol sydd yng Nghymru) yn disgyn ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn ym mhob achos, pa lefel bynnag o anghenion sydd gan y plentyn. Ni all yr awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol wneud y pethau hyn.

14.27 Gweler Pennod 2 i gael gwybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 i gael gwybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen; Pennod 23 mewn perthynas â llunio a chynnwys CDUau; Pennod 24 mewn perthynas â chynnwys DCU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

14.28 Cyn i'r CDU gael ei gwblhau, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r plentyn, rhiant y plentyn a'r swyddog adolygu annibynnol, a phan fo'r plentyn yn mynychu ysgol (yn cynnwys ysgol yn Lloegr), yr ysgol dan sylw, roi sylwadau ar ddrafft ohono a **dylai** eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys diweddaru'r CDU drafft o bosibl, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

14.29 Ar ôl ei lunio, **rhaid**[20] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn, ei riant a swyddog adolygu annibynnol y plentyn.

14.30 **Rhaid**[21] i'r awdurdod lleol benderfynu ynghylch ADY, llunio'r CDU a rhoi copi ohono'n brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos ar ôl i'r posibilrwydd fod gan blentyn ADY gael ei ddwyn i'w sylw neu ar ôl iddi ddod i'r amlwg fel arall iddo y gall fod gan y plentyn ADY. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y pethau hynny cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[22]

---

[19] Adran 19 o'r Ddeddf.
[20] Adran 22 o'r Ddeddf.
[21] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[22] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.

14.31 Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[23] i'r awdurdod lleol roi i'r plentyn, i riant y plentyn ac i swyddog adolygu annibynnol y plentyn:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY;[24]
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[25] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[26]
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[27]

## _Cynnal CDU_

14.32 Os yw awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, **rhaid**[28] iddo gynnal y CDU hwnnw, ar yr amod bod y plentyn mewn ardal awdurdod lleol. Golyga hyn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ac nid dim ond yr un sy'n gofalu am y plentyn. Fodd bynnag, os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, ni fyddai'n rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn gynnal y CDU neu barhau i wneud hynny.

14.33 **Rhaid**[29] i awdurdod lleol hefyd gynnal (neu barhau i gynnal) CDU ar gyfer plentyn-

(a) os yw'r plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a
(b) os oedd CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn yn union cyn i'r plentyn ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal.

Gweler Pennod 28 am ragor o wybodaeth am drosglwyddo dyletswydd i gynnal CDU yn y sefyllfa hon a sefyllfaoedd eraill. Mae Pennod 29 yn trafod dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU yn dod i ben.

14.34 Pan fo awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano, bydd angen iddo gadw copi o'r CDU, neu'r cynllun addysg personol y mae'r CDU yn rhan ohono (gan gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth wneud hynny); a chydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

14.35 **Rhaid**[30] i'r awdurdod lleol ymgorffori CDU y plentyn sy'n derbyn gofal yng nghynllun addysg personol y plentyn. Mae'r cynllun addysg personol yn

[23] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[24] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[25] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[26] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[27] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[28] Adran 19(2) a 31(4)(b) o'r Ddeddf.
[29] Adran 35(9) a (10) o'r Ddeddf. Yna caiff ei gynnal o dan adran 19 o'r Ddeddf.
[30] Adran 83(2C) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

ffurfio rhan o'r cynllun gofal a chymorth cyffredinol sy'n cael ei lunio a'i gynnal yn unol ag adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.[31] Mae Rhan 6 o'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trafod llunio, cynnal ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; a dylai gael ei darllen ar y cyd â'r bennod hon.

14.36 Mae'r gofyniad i gynnwys CDU mewn cynllun addysg personol yn galluogi DDdY y plentyn sy'n cael gofal a'r ddarpariaeth addysgol ehangach a wneir ar ei gyfer i ategu ei gilydd. Hefyd, gan ei fod yn rhan o gynllun gofal a chymorth y plentyn sy'n nodi materion eraill, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag iechyd, datblygiad emosiynol ac ymddygiadol, hunaniaeth a pherthnasoedd teuluol a chymdeithasol; mae'n hwyluso dull cyfannol nid yn unig o gynllunio darpariaeth addysgol ar gyfer y plentyn sy'n derbyn gofal, ond hefyd ar gyfer cynllunio gofal y plentyn yn ei gyfanrwydd.

14.37 Pan fydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ganddo, **rhaid**[32] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall a ddisgrifir ynddi (h.y. lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall neu fwyd a llety, y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei sicrhau er mwyn diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY). Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan un o gyrff y GIG. Yn yr achos hwn, mae'n **rhaid**[33] i gorff y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[34] i'r awdurdod lleol (neu gorff perthnasol y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei ddarparu yn Gymraeg.

14.38 Mae gan awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano ddyletswyddau[35] hefyd i adolygu'r CDU (gweler Pennod 25 am fwy o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch cynnal yr adolygiad ar yr un pryd â'r adolygiad o achos y plentyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

14.39 **Ni chaiff**[36] awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn na'r rhiant am unrhyw DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y mae'n ei sicrhau o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

---

[31] Y cynllun gofal a chymorth yw'r cynllun trosfwaol ar gyfer rhoi gofal a chymorth i'r plentyn sy'n derbyn gofal yn y dyfodol. Rhaid iddo gynnwys cofnod o wahanol faterion fel sy'n ofynnol o dan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, yn cynnwys, yn y rhan fwyaf o achosion, cynllun addysg personol.
[32] Adran 19(7)(a) a (b) o'r Ddeddf.
[33] Adrannau 20(5) a (21)(5) o'r Ddeddf.
[34] Adrannau 19(7)(c), 20(5)(c) a 21(5)(c) o'r Ddeddf.
[35] Adran 24 o'r Ddeddf.
[36] Adran 49 o'r Ddeddf.

## *Pan nad yw plentyn neu berson ifanc yn blentyn sy'n derbyn gofal mwyach*

14.40 Pan fydd person â CDU yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (am ba reswm bynnag), gall yr awdurdod lleol barhau i fod yn gyfrifol am gynnal y CDU, neu gall y cyfrifoldeb hwnnw gael ei drosglwyddo i awdurdod lleol arall, neu gall y ddyletswydd ddod i ben yn gyfan gwbl. Trafodir y materion hyn ym Mhenodau 28 a 29. Mae'r paragraffau canlynol yn ymdrin â materion gweinyddol sy'n ymwneud â'r CDU lle mae'n parhau i gael ei gynnal neu'n debygol o barhau i gael ei gynnal.

14.41 Yn y sefyllfa hon, mae'r gofyniad i ymgorffori'r CDU yn y cynllun addysg personol yn dod i ben, hyd yn oed os yw'r person yn parhau i dderbyn gofal at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

14.42 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu lle mae awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal CDU, bydd y CDU ar y ffurflen safonol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, yn hytrach na'r ffurflen safonol yn Atodiad A (ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal a phobl ifanc) a bydd yn cael ei ymgorffori yng nghynllun addysg personol y plentyn. Wrth baratoi ar gyfer pan na fydd y plentyn yn derbyn gofal, **dylai'r** awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU roi gwybodaeth y CDU mewn dogfen ar wahân, gan ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad A. Gan fod y ffurflen safonol hon yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ar ben yr wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, gellir defnyddio'r wybodaeth a geir mewn rhannau eraill o gynllun addysg personol y plentyn i lenwi'r adrannau ychwanegol hynny, lle bo'n briodol. Ni fyddai hyn, ynddo'i hun, yn gyfystyr â diwygio'r CDU, gan na ddylai'r wybodaeth newid. Yn ystod yr adolygiad cyntaf ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc beidio â derbyn gofal, **rhaid**[37] i'r corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU (boed yr awdurdod lleol a oedd yn gofalu am y plentyn neu gorff arall), roi copi o'r CDU (sydd ar y ffurflen safonol yn Atodiad A) i'r plentyn neu'r person ifanc ac yn achos plentyn, ei riant oni bai bod gan y bobl hynny gopi eisoes. Gwneir hyn fel bod ganddynt gopi o'r CDU sy'n cael ei adolygu.

[37] Gofyniad a osodir gan y Cod.

# Pennod 15: Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir

## *Cyflwyniad*

15.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, llunio a chynnal CDU, a sicrhau DDdY ar gyfer person ifanc sydd wedi'i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir. Nid yw'n ymdrin â sefyllfa pan fo person ifanc yn ddarostyngedig neu'n dod yn ddarostyngedig i orchymyn cadw (mae Pennod 19 yn ymdrin â hyn).

15.2 Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau yn y bennod hon at berson ifanc mewn ysgol (sut bynnag y'u mynegir) yn cyfeirio at berson ifanc sydd wedi'i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ond nid ydynt yn cynnwys person ifanc sy'n destun gorchymyn cadw neu'n dod yn destun gorchymyn cadw.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY*

15.3 Os caiff y posibilrwydd bod ADY gan berson ifanc yn yr ysgol ei ddwyn i sylw ysgol a gynhelir, neu os bydd hyn yn dod i'r amlwg iddi fel arall, **rhaid**[1] i'r ysgol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

(a) mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc;
(b) mae'r ysgol wedi penderfynu eisoes ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud;
(d) mae'r person ifanc wedi'i gofrestru'n ddeuol ac mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y person ifanc[2] (gweler paragraff 15.38 am ddyletswydd yr ysgol yn yr achos hwn);
(e) mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc (dim ond os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr y byddai hyn yn berthnasol[3]).

15.4 Gall y person ifanc ei hun neu rywun arall ddwyn i sylw ysgol a gynhelir y gallai fod gan berson ifanc ADY. Nid yw o bwys sut y cafodd y posibilrwydd

[1] Adran 11 o'r Ddeddf.
[2] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o fanylion am blant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.
[3] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o fanylion am sefyllfa pan fydd plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr.

y gallai fod gan berson ifanc ADY ei ddwyn i sylw'r ysgol neu sut y gwnaeth hynny ymddangos iddi fel arall; os yw'r ysgol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys (yn amodol ar yr eithriadau a restrir uchod). (Rhoddir canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2; ac mae gwybodaeth am adnabod pryd y gall fod gan berson ifanc ADY ym Mhennod 20.)

15.5 Pan fo'n ofynnol i ysgol a gynhelir benderfynu a oes gan berson ifanc yn yr ysgol ADY, mae **rhaid**[4] iddi:

(a) dynodi person (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Gallai'r cydlynydd ADY gael ei ddynodi i wneud hyn, ond does dim rhaid;
(b) cofnodi'r dyddiad pan fydd yr achos yn dod i'w sylw, neu pan ddaw i'r amlwg iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam mae'n ymddangos i'r ysgol fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY;
(d) rhoi gwybod i'r person ifanc ei fod wedi ei ddwyn i'w sylw neu'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r person ifanc i drafod y broses;
(f) egluro i'r person ifanc ganlyniadau cydsynio a pheidio â chydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud;
(g) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os penderfynir bod gan y person ifanc ADY, i CDU gael ei lunio a'i gynnal.

15.6 At ddibenion y gofyniad uchod, mae'n ofynnol i'r ysgol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY pan na fo'n hysbys a yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ai peidio. Os, ar ôl ceisio cydsyniad y person ifanc, nad yw'r person ifanc yn cydsynio (a gweler y gofyniad isod ynghylch cofnodi hyn), yna bydd y gofyniad ar yr ysgol i wneud y pethau a restrir uchod yn peidio â bod yn gymwys bryd hynny. **Rhaid**[5] i'r ysgol geisio cydsyniad y person ifanc yn brydlon.

15.7 **Rhaid**[6] i'r hysbysiad i'r person ifanc (y cyfeirir ato ym mharagraff 15.5(d)) hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[7].

[4] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[5] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[7] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

15.8 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried yr gofynion yr amserlen a nodir isod).

15.9 **Rhaid**[8] i'r ysgol gofnodi:

(a) pan fo'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i CDU gael ei lunio a'i gynnal, pryd a sut y rhoddwyd cydsyniad;
(b) pan fo'r person ifanc yn gwrthwynebu unrhyw un o'r materion hynny, pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc;
(c) pan na fo'r person ifanc wedi gwrthwynebu na chydsynio i unrhyw un neu ragor o'r materion hynny, y camau a gymerwyd gan yr ysgol i geisio cydsyniad y person ifanc ac i egluro beth fyddai'r canlyniadau pe byddai'r ysgol yn penderfynu bod gan y person ifanc ADY.

15.10 **Dylai** ysgolion fod â gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a allai gynnwys bod y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau a yw'n cydsynio ai peidio (mae rhagor o wybodaeth ynghylch cael cydsyniad person ifanc ar gael ym mharagraff 4.26).

15.11 **Dylid** rhoi ystyriaeth i ba un a yw'r person ifanc eisoes mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu sefydliadau trydydd sector ac a yw'n derbyn cymorth ganddynt; a **dylai'r** ysgol gynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac wrth lunio CDU.

15.12 Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4, ceir dyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt o bosibl, ac yn y broses o lunio cynlluniau datblygu unigol. Yn ogystal, un o amcanion sylfaenol y system ADY yw sicrhau bod y person ifanc yn ganolog i'r broses sy'n adnabod ei ADY ac yn pennu ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd dynodedig drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r person ifanc, i drafod a phenderfynu ar anghenion y person ifanc ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. (Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22).

15.13 Os bydd y ffaith y gallai fod gan berson ifanc mewn ysgol a gynhelir ADY yn cael ei dwyn i sylw ysgol a gynhelir ond ei bod wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw (gweler yr eithriad ym mharagraff 15.3(b)), **dylai** roi gwybod am hyn i'r person ifanc a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY (gan gynnwys yr hawl i apelio) os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

[8] Gofyniad a osodir gan y Cod.

## *Penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan berson ifanc ADY*

15.14 Os bydd yr ysgol a gynhelir yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY, **rhaid**[9] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

15.15 Mae **rhaid**[10] i'r ysgol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod ysgol i'r dyddiad y mae'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud. Nid oes angen i'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 35 diwrnod ysgol os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth[11].

15.16 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[12] i'r hysbysiad a roddir i'r person ifanc gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY.[13]
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[14] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[15]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y mater[16] a'r manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol cyfrifol.

15.17 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd yng ngoleuni ei hystyriaeth i sicrhau bod anghenion y person ifanc (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

15.18 Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc drafod ymhellach.

## *Llunio CDU (Ysgolion a gynhelir)*

15.19 Os bydd yr ysgol a gynhelir yn penderfynu bod gan y person ifanc ADY, **rhaid**[17] iddi lunio CDU ar gyfer y person ifanc hwnnw oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ganlyn yn berthnasol:

(a) mae'r ysgol o'r farn bod gan y person ifanc ADY;
   i. a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau,

[9] Adran 11(4) o'r Ddeddf.
[10] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[11] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[12] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[13] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[14] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[15] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[16] O dan adran 26 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 26.
[17] Adran 12(1) a (2) o'r Ddeddf.

ii. na all benderfynu'n ddigonol ar eu graddau neu eu natur, neu
iii. na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer,

ac mae'r ysgol yn atgyfeirio achos y person ifanc i'r awdurdod lleol cyfrifol i benderfynu yn ei gylch (gweler paragraff 15.38 – 15.47 i gael rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau);

(b) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i CDU gael ei lunio a'i gynnal (gweler paragraff 4.26 i gael gwybodaeth am gydsyniad pobl ifanc);

(c) mae'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac mae'r ysgol yn gofyn[18] i'r awdurdod lleol hwnnw sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc;

(d) mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.

15.20 Os bydd yr ysgol yn gofyn i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer person ifanc, a'i bod yn cael ei hysbysu gan yr awdurdod lleol yn Lloegr nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc, **rhaid**[19] i'r ysgol lunio CDU oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r CDU gael ei lunio.

15.21 Gweler Pennod 2 am wybodaeth am ystyr ADY a DDdY, Pennod 20 ar adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd yn ofynnol; a Phennod 23 mewn perthynas â llunio CDU a'i gynnwys.

15.22 Cyn cwblhau'r CDU, **dylai'r** ysgol roi cyfle i'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** ysgol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, er enghraifft diweddaru'r CDU neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

15.23 Ar ôl ei lunio, **rhaid**[20] i'r ysgol roi copi o'r CDU i'r person ifanc.

15.24 **Rhaid**[21] i'r ysgol wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r CDU a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod ysgol o'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud. Nid yw'n ofynnol i'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y pethau hynny cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 35 diwrnod ysgol os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth[22].

15.25 Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[23] i'r ysgol hefyd roi i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;

[18] O dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.
[19] Adran 12(5) o'r Ddeddf.
[20] Adran 22(1) o'r Ddeddf.
[21] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[22] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[23] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[24];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[25] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[26]; a
(d) gwybodaeth am yr hawliau i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y CDU a chymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal[27], a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol;
(e) ond os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yn hytrach na'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (d), gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol i ailystyried y CDU[28] a manylion cyswllt yr awdurdod lleol hwnnw.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer person ifanc ag ADY ond sydd heb CDU*

15.26 Os oes gan berson ifanc mewn ysgol ADY ond nad oes CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, **rhaid**[29] i'r ysgol a gynhelir, wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY y mae ADY y disgybl yn galw amdani yn cael ei gweithredu.

15.27 Efallai nad oes gan y person ifanc CDU oherwydd-

(a) bod yr ysgol wrthi'n llunio CDU ar gyfer y person ifanc;
(b) bod yr ysgol wedi atgyfeirio'i achos at awdurdod lleol a bod yr awdurdod wrthi'n llunio CDU;
(c) nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad am ADY gael ei wneud nac yn cydsynio i gynllun gael ei lunio neu ei gynnal;
(d) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu'n llunio cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc (yn dilyn cais gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol); neu
(e) fod gan y person ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

15.28 Bydd angen i'r ysgol benderfynu beth sydd angen iddi ei wneud i gyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer pob person ifanc sydd ag ADY ond nad oes ganddo CDU yng ngoleuni'r amgylchiadau penodol.

15.29 Os bydd gan y person ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr, bydd y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn amlinellu ei anghenion, ar sail asesiadau, ac yn nodi'r union ddarpariaeth addysgol arbennig i'w diwallu. Mewn amgylchiadau felly, **dylai'r** ysgol gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol hwnnw i sicrhau'r ddarpariaeth

[24] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[25] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[26] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[27] O dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf yn y drefn honno. Gweler Pennod 26.
[28] O dan adrannau 27 a 87 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 26.
[29] Adran 47(1) a (2) o'r Ddeddf.

addysgol arbennig a nodwyd yn y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

15.30 Mewn achosion lle yr eir ati i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY neu i lunio CDU (neu, mewn perthynas â pherson ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, os yw asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei ystyried neu ei gynnal neu gynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei lunio), dylid bod wedi cynnal asesiad cychwynnol o anghenion y person ifanc. Dylai fod gan yr ysgol wybodaeth gan y person ifanc, cyngor, o bosibl, gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol, er enghraifft seicolegydd addysg (boed yn benodol mewn perthynas â'r person ifanc, neu'n fwy cyffredinol am anghenion ymddangosiadol y person ifanc), a byddai ganddi safbwyntiau staff addysgu a staff cymorth yn yr ysgol mewn perthynas â'r person ifanc, ynghyd â thystiolaeth ganddynt. Gallai'r dystiolaeth honno gynnwys sut mae'r person ifanc wedi ymateb i ymyriadau penodol (gan gynnwys addysgu gwahaniaethol) yn y gorffennol. Mewn rhai achosion, gallai'r person ifanc rannu cynllun hyd yn oed, sydd â gwybodaeth berthnasol, er enghraifft cynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhelid yn ddiweddar os yw newydd symud o Loegr i Gymru.

15.31 Ar sail yr ystod hon o wybodaeth a chyngor, gan gynnwys yr hyn a ddysgir gan y person ifanc ei hun, dylai'r ysgol fod â dealltwriaeth eang o'r math o ADY sydd gan y person ifanc. Yng ngoleuni'r ddealltwriaeth honno, **dylai'r** ysgol:

(a) gwneud trefniadau i roi gwybod am yr anghenion hynny i'r holl staff sy'n ymwneud ag addysgu neu gefnogi'r person ifanc;
(b) cynnwys y CADY wrth gynghori staff addysgu ar y dulliau addysgu priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r person ifanc er mwyn diwallu'r anghenion ac wrth eu cynghori ynghylch lle i gael mwy o wybodaeth a chyngor os oes gofyn;
(c) gwneud unrhyw addasiadau priodol i amgylchedd yr ysgol er mwyn ei gwneud yn haws i'r person ifanc gael ei addysg;
(d) darparu cymorth ychwanegol neu wahanol priodol ar gyfer y person ifanc o'r adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr allanol;
(e) monitro effaith y cymorth a ddarperir ar gyfer y person ifanc a'i addasu os daw i'r amlwg y byddai hyn yn briodol.

15.32 Caiff y DDdY y mae'r anghenion yn galw amdani ei hadnabod yn ystod y broses o lunio CDU. Efallai y caiff y DDdY, neu fathau arbennig o'r ddarpariaeth, eu hadnabod yn gynnar yn y broses a pheth amser cyn y bydd y CDU wedi'i gwblhau. Pan fo hynny'n digwydd, **dylai'r** ysgol, os yw'n rhesymol gwneud hynny, ddechrau sicrhau unrhyw DDdY sydd wedi'i nodi cyn gynted â phosibl, wrth gwblhau'r gwaith o lunio'r CDU. Os yw'n rhesymol iddi ddarparu'r DDdY ei hun, **dylai** wneud hynny; ac os yw'n rhesymol iddi drefnu'r ddarpariaeth o unrhyw elfen o'r DDdY gan rywun arall, **dylai** wneud hynny hefyd.

## *Cynnal CDU (Ysgolion a gynhelir)*

15.33 Os yw ysgol a gynhelir wedi llunio CDU ar gyfer person ifanc, **rhaid**[30] iddi gynnal y CDU hwnnw. Fodd bynnag, cyn i'r ysgol ddechrau ei gynnal, os na fydd y person ifanc yn cydsynio i'r CDU gael ei gynnal neu'n rhoi'r gorau i gydsynio i'r CDU gael ei gynnal, ni fyddai dyletswydd yr ysgol i'w gynnal yn berthnasol. Mae Pennod 29 yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo dyletswydd i gynnal CDU yn dod i ben ac mae Pennod 28 yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo dyletswydd i gynnal CDU yn trosglwyddo i gorff arall (boed yn awdurdod lleol, yn ysgol a gynhelir neu'n sefydliad addysg bellach).

15.34 Canlyniad y ffaith ei bod yn ofynnol i'r ysgol gynnal y CDU yw y bydd angen iddi gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sydd ar ysgol sy'n cynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

15.35 Os yw ysgol yn cynnal cynllun, **rhaid**[31] iddi sicrhau'r DDdY a ddisgrifir ynddo, ac eithrio unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan un o gyrff y GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[32] i gorff y GIG sicrhau'r ddarpariaeth. Os yw'r CDU yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[33] i'r ysgol (neu gorff y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

15.36 Mae dyletswyddau[34] ar ysgol hefyd i adolygu CDU y mae'n ei gynnal (gweler Pennod 25).

15.37 **Ni chaiff**[35] awdurdod lleol godi tâl ar y person ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y mae'n ei sicrhau ar gyfer y person ifanc o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## *Atgyfeirio achosion o ysgol a gynhelir at awdurdod lleol*

15.38 Mae un achos lle mae'n ofynnol i ysgol a gynhelir gyfeirio achos person ifanc i awdurdod lleol yn hytrach na phenderfynu drosti ei hun a oes gan y person ifanc ADY, sef pan fo'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad. **Rhaid**[36] i ysgol a gynhelir atgyfeirio achos person ifanc yn yr ysgol at yr awdurdod lleol cyfrifol (os oes un)-

(a) os dygir i'w sylw neu os daw i'r amlwg iddi fel arall y gallai fod ADY gan y person ifanc,

[30] Adran 12(1) a (2) o'r Ddeddf.
[31] Adran 12(7)(a) o'r Ddeddf.
[32] Adrannau 20(5) a (21)(5) o'r Ddeddf.
[33] Adrannau 12(7), 20(5)(c) a 21(5)(a) o'r Ddeddf.
[34] Adran 23 o'r Ddeddf.
[35] Adran 49 o'r Ddeddf.
[36] Adrannau 30(1) a 2) o'r Ddeddf.

(b) os nad oes gan y person ifanc CDU, ac
(c) os yw'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad. ("cofrestriad deuol").

15.39 Fel arall, gall ysgol a gynhelir gyfeirio achos person ifanc i awdurdod lleol ar sail benodol sy'n ymwneud â natur ADY ymddangosiadol person ifanc (gweler y paragraffau canlynol).

15.40 Pan fydd ysgol a gynhelir wedi penderfynu bod gan berson ifanc yn yr ysgol ADY, yn hytrach na llunio'r CDU, **caiff**[37] atgyfeirio achos y person ifanc at yr awdurdod lleol cyfrifol (os oes un).[38] Ond **ni chaiff**[39] yr ysgol wneud hyn oni bai ei bod o'r farn bod gan y person ifanc ADY:

(a) a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau
(b) na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu
(c) na all benderfynu'n ddigonol ar y DDdY ar eu cyfer.

15.41 **Dylai'r** ysgol fod yn ymwybodol o'r angen i wneud unrhyw atgyfeiriad o'r fath mor gynnar â phosibl er mwyn lleihau'r oedi cyn llunio'r CDU. Felly, pan fydd yr ysgol yn dod yn ymwybodol bod sail ar gyfer cyfeirio at yr awdurdod lleol, **dylai** weithredu'n ddiymdroi i ystyried a ddylai atgyfeirio achos y person ifanc ac wrth wneud unrhyw atgyfeiriad. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai allu gwneud yr atgyfeiriad o fewn 20 diwrnod ysgol (os nad yn gynharach) i'r dyddiad y mae'n cael cydsyniad y person ifanc i wneud y penderfyniad.

15.42 Yn achlysurol, efallai mai dim ond yn nes ymlaen yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac o lunio CDU y daw'r sail dros atgyfeirio'r achos i'r amlwg. Er enghraifft, efallai mai dim ond pan fydd cyngor penodol yn dod i law gan wasanaeth arbenigol y bydd yr ysgol yn sylweddoli bod natur ADY y person ifanc yn fwy sylweddol nag yr oedd wedi'i feddwl, neu fod angen DDdY ar y person ifanc na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad ei sicrhau. Os bydd y sail dros atgyfeirio achos yn dod i'r amlwg lawer yn ddiweddarach yn y broses, **caiff**[40] yr ysgol atgyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol o hyd, ond os bydd yn gwneud hynny, **dylai'r** ysgol weithredu'n brydlon er mwyn lleihau'r oedi cyn sefydlu CDU.

15.43 Wrth wneud atgyfeiriad i awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol roi gwybod i'r person ifanc ei bod yn gwneud hynny.

15.44 Gallai amgylchiadau'r ysgol (h.y. ei lleoliad, ei maint, ei chyllideb, ei phrofiad ac ati) effeithio ar farn yr ysgol ynghylch a fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r DDdY. Er enghraifft, gallai unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol effeithio ar y farn honno:

---

[37] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.
[38] Dim ond os yw'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol y gellir gwneud hyn. Os yw'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, caiff yr ysgol ofyn i'r awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal: adran 12(2)(c) o'r Ddeddf.
[39] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.
[40] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.

(a) mae gan y person ifanc gyflwr llai cyffredin neu gyflwr prin sy'n galw am arbenigedd na all yr ysgol ei ddarparu;
(b) er mwyn diwallu anghenion y person ifanc, mae'r ysgol angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drefnu'n rhesymol gan yr ysgol;
(c) mae'r person ifanc angen cyfarpar na ellir ei ddefnyddio ond gan un disgybl neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol;
(d) mae'r person ifanc angen cymorth dyddiol dwys iawn na ellir yn rhesymol ei gyllido neu ei sicrhau o gyllideb yr ysgol.

15.45 **Dylai** awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad ag ysgolion a gynhelir ganddynt, sefydliadau addysg bellach yn eu hardal ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol, sefydlu a chyhoeddi cyfres o egwyddorion i'w dilyn wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r DDdY sydd ei hangen ar ddisgybl neu a ddylai'r awdurdod wneud hynny. **Dylai'r** egwyddorion ymwneud â:

(a) graddau a hyd cyfnod y cyngor gan arbenigwyr allanol y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei sicrhau;
(b) cyfarpar y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu;
(c) dwyster a hyd cyfnod y cymorth a graddfa ymgysylltiad y staff (gan gynnwys y CADY) yn yr ysgol y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu.

15.46 Os atgyfeirir achos at awdurdod lleol (un ai am fod gan y person ifanc gofrestriad deuol neu am un o'r rhesymau sy'n ymwneud â'r ADY ymddangosiadol), mae dyletswydd yr awdurdod lleol i benderfynu[41] (yr ymdrinnir â hi isod) yn debygol o fod yn gymwys.

15.47 Os bydd ysgol a gynhelir yn atgyfeirio achos person ifanc yn yr ysgol at yr awdurdod lleol, **dylai** ystyried pa wybodaeth i'w rhoi i'r awdurdod lleol sy'n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch a oes gan y person ifanc ADY ai peidio. Diben trosglwyddo'r wybodaeth hon yw sicrhau bod gan yr awdurdod lleol yr holl wybodaeth sy'n berthnasol ar gyfer arfer ei swyddogaethau (penderfynu ar ADY a llunio unrhyw DDdY) a'i fod yn cael yr wybodaeth honno'n brydlon fel y gall wneud penderfyniad cyflym, sydd yn ei dro yn hwyluso ymyriad cynnar. Pan fo gan yr ysgol wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol ddarparu'r wybodaeth honno i'r awdurdod lleol, cyhyd â bod gwneud hynny'n cyd-fynd â'r gyfraith diogelu data ac, wrth gwrs, bydd angen i'r ysgol gydymffurfio â'r gyfraith diogelu data o ran y ffordd y mae'n trosglwyddo'r wybodaeth honno. Bydd yr wybodaeth y mae'r awdurdod lleol ei hangen i arfer ei swyddogaethau yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond gallai gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd eisoes i ddiwallu anghenion y person ifanc, er enghraifft unrhyw adnoddau neu drefniadau arbennig a

[41] Adrannau 12(2)(a), 13 a 30(2) o'r Ddeddf.

sefydlwyd. Byddai hefyd yn debygol o gynnwys unrhyw adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig a ddaeth i law gan asiantaethau allanol yn ogystal â ph'un a yw person ifanc wedi cydsynio i benderfyniad gael ei wneud. Os na fydd ysgol yn trosglwyddo gwybodaeth sydd ei hangen ar awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau, gallai'r awdurdod lleol wneud cais o dan adran 65 o'r Ddeddf am yr wybodaeth (gweler Pennod 21).

## _Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan berson ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir_

15.48 Os dygir i sylw awdurdod lleol y gallai fod ADY gan berson ifanc mewn ysgol y mae'n gyfrifol amdano, neu os daw hynny i'r amlwg iddo fel arall, **rhaid**[42] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

(a) mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc (er na ddylai hyn fod yn wir os yw'r ysgol wedi atgyfeirio ei achos);
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad;
(c) mae'r awdurdod lleol yn fodlon bod yr ysgol yn penderfynu a oes gan y person ifanc ADY ai peidio;
(d) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

15.49 At hynny, os bydd person ifanc yn gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y person ifanc ailystyried penderfyniad a wnaed gan ysgol a gynhelir ynghylch a oes gan y person ifanc ADY (neu os yw wedi gwrthod gwneud penderfyniad ynghylch y mater hwnnw) **rhaid**[43] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ai peidio. Dylai'r paragraffau a ganlyn, i'r graddau y maent yn berthnasol i benderfyniadau sy'n cael eu hailystyried, gael eu darllen ar y cyd â'r adrannau o Bennod 26 sy'n ymdrin â'r ddyletswydd i ailystyried penderfyniadau ysgolion, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y ddyletswydd honno, gan gynnwys eithriadau iddi. Mae'r cyfeiriadau isod yn y bennod hon at awdurdod lleol yn ailystyried[44] penderfyniad ysgol ynghylch ADY (sut bynnag y'u mynegir) yn cynnwys awdurdod lleol yn ailystyried pan fo'r ysgol wedi gwrthod gwneud penderfyniad ar ADY o dan adran 11.

15.50 Fel yn achos dyletswydd ysgol i benderfynu, nid yw'n gwneud gwahaniaeth sut mae'r posibilrwydd bod gan y person ifanc mewn ysgol ADY yn cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu sut y mae'n dod i'r amlwg iddo fel arall y

[42] Adran 13 o'r Ddeddf.
[43] Adran 26 o'r Ddeddf. Yn achos person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, at y dibenion hyn yr awdurdod lleol (h.y. yr un yng Nghymru) sy'n cynnal yr ysgol yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am y person ifanc: adran 87 o'r Ddeddf.
[44] O dan adran 26 o'r Ddeddf.

gallai fod gan y person ifanc ADY. Os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna, yn ddarostyngedig i'r eithriadau, bydd y ddyletswydd i benderfynu yn gymwys. Fel rheol, bydd yn dod i'w sylw pan fydd ysgol wedi atgyfeirio achos y person ifanc.

15.51 Ar adegau eraill, efallai y bydd y person ifanc, neu riant neu aelod arall o'r teulu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod, neu fe allai corff allanol neu weithiwr proffesiynol atgyfeirio'r achos. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried mai'r ysgol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu, yn y lle cyntaf o leiaf (efallai am ei bod yn amlwg ei bod yn annhebygol bod angen CDU a gynhelir gan awdurdod lleol ar gyfer unrhyw ADY a allai fod gan y person ifanc) ac yn dod â'r mater i sylw'r ysgol. Wrth wneud hyn, bydd yn ysgogi'r ddyletswydd sydd gan yr ysgol i benderfynu ac, os bydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod yr ysgol yn penderfynu ar y mater, ni fydd dyletswydd yr awdurdod yn gymwys (gweler yr eithriad ym mharagraff 15.48(c)).

15.52 Efallai y bydd y posibilrwydd bod gan berson ifanc mewn ysgol a gynhelir ADY yn ymddangos fel arall i awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau eraill, er enghraifft ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Unwaith eto, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried atgyfeirio'r mater at yr ysgol berthnasol yn y lle cyntaf. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 ac ar adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol ym Mhennod 20.)

15.53 Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan berson ifanc mewn ysgol ADY[45], **rhaid**[46] i'r awdurdod lleol hysbysu'r person ifanc ei fod yn penderfynu a oes gan y person ifanc ADY a chymryd y camau a nodir ym mharagraff 15.58. **Rhaid**[47] i'r awdurdod lleol hefyd ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol â'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 i gael rhagor o fanylion ynghylch cyfarfodydd).

15.54 Pan fyddai'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan berson ifanc mewn ysgol ADY, pe byddai'r person ifanc yn cydsynio i wneud y penderfyniad, **rhaid**[48] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon (nid yw hyn yn gymwys i benderfyniadau sy'n cael eu hailystyried):

(a) rhoi gwybod i'r person ifanc-
   i. o'r atgyfeiriad o dan adran 12 (gweler paragraff 15.40) neu adran 30 (cofrestriad deuol, gweler paragraff 15.38) o'r Ddeddf, neu
   ii. os na chafwyd atgyfeiriad o'r fath, ei fod wedi'i ddwyn i'w sylw neu wedi dod i'r amlwg iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY;
(b) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd);

[45] Er mwyn i hyn fod yn wir, rhaid i'r person ifanc fod wedi cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu ei fod yn gais i ailystyried.
[46] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[47] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[48] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(c) Egluro i'r person ganlyniadau cydsynio a pheidio â chydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud;
(d) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i benderfyniad gael ei wneud ac, os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, i CDU gael ei lunio a'i gynnal;
(e) cymryd y camau y cyfeirir atynt ym mharagraff 15.58.

15.55 **Rhaid**[49] hysbysiad i'r person ifanc o dan baragraff 15.53 neu 15.54(a) roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch ADY a'r system ADY[50]

15.56 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad cymwys o ran yr amserlen a nodir isod.)

15.57 Pan fo'r awdurdod lleol yn ceisio cydsyniad y person ifanc, **rhaid**[51] iddo gofnodi:

(a) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud, neu bod CDU yn cael ei lunio a'i gynnal, pryd a sut y rhoddwyd caniatâd;
(b) pan fydd y person ifanc yn gwrthwynebu unrhyw un o'r materion hynny, pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc;
(c) os nad yw'r person ifanc wedi cydsynio nac wedi gwrthwynebu'r materion hynny, y camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i geisio caniatâd y person ifanc ac egluro canlyniadau'r awdurdod lleol yn penderfynu a oes gan y person ifanc ADY.

15.58 Ym mhob achos, **rhaid**[52] i'r awdurdod lleol:

(a) dynodi swyddog (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) yn achos atgyfeiriad gan yr ysgol o dan adran 12 neu, o dan adran 30 o'r Ddeddf, cofnodi'r dyddiad y cafodd yr atgyfeiriad;
(c) pan fo'r awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, cofnodi'r dyddiad y cafodd yr awdurdod lleol y cais i ailystyried;
(d) mewn achosion eraill, cofnodi-
    i. y dyddiad pan fo'n dod i'w sylw, neu pan fo'n dod i'r amlwg iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY, a
    ii. crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam ei bod yn ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY.

[49] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[50] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[51] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[52] Gofyniad a osodir gan y Cod.

15.59 Wrth benderfynu a oes gan berson ifanc mewn ysgol ADY, mae'n **rhaid**[53] i awdurdod lleol ystyried a ddylid gofyn am gyngor gan seicolegydd addysg. **Rhaid**[54] i'r awdurdod lleol geisio cyngor os yw'n credu bod y cyngor yn angenrheidiol i bennu-

(a) graddau neu natur yr ADY a allai fod gan y person ifanc, neu
(b) yr DDdY y mae ADY y person yn galw amdani.

15.60 **Rhaid**[55] i'r cyngor a geisir ymwneud ag-

(a) nodweddion addysgol neu seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y person ifanc (gan gynnwys anghenion tebygol y person ifanc yn y dyfodol),
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol neu anghenion o ran hyfforddiant y person ifanc, ac
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y person ifanc yng ngoleuni'r nodweddion hynny, p'un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau eraill o ddarpariaeth ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno'r ddarpariaeth honno.

15.61 **Dylid** rhoi ystyriaeth hefyd i ba un a yw'r person ifanc mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu sefydliadau trydydd sector ac a yw'n derbyn cymorth ganddynt, a chynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac wrth lunio CDU.

15.62 Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4, ceir dyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod ganddynt, ac yn y broses o lunio cynlluniau datblygu unigol. Yn ogystal, un o amcanion sylfaenol y system ADY yw sicrhau bod y person ifanc yn ganolog i'r broses sy'n adnabod ei anghenion dysgu ychwanegol ac yn pennu ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r person ifanc, i drafod a phenderfynu ar anghenion y person ifanc ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22.

15.63 Os bydd awdurdod lleol yn dibynnu ar yr eithriad ym mharagraff 15.48(b) (mae wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw), **dylai** roi gwybod am hyn i'r person ifanc a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY (yn cynnwys yr hawl i apelio) os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.[56]

[53] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[54] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[55] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[56] Gweler Pennod 26 i gael canllawiau tebyg ar gyfer y sefyllfa pan fo'r awdurdod lleol yn dibynnu ar eithriad tebyg ar gyfer penderfyniad ailystyried.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc ADY*

15.64 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y person ifanc (sydd mewn ysgol) ADY, **rhaid**[57] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

15.65 **Rhaid**[58] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler isod) o:

(a) yn achos atgyfeiriad gan ysgol a gynhelir o dan adran 12 o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 15.40), yr adeg pan fydd yr atgyfeiriad yn dod i law'r awdurdod lleol;
(b) yn achos awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, yr adeg pan ddaw'r cais i ailystyried i law'r awdurdod lleol;
(c) ym mhob achos arall, pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

15.66 Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod perthnasol hwnnw os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[59].

15.67 Y cyfnod perthnasol at y dibenion hyn yw:

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

15.68 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[60] i'r hysbysiad a roddir i'r person ifanc roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[61];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[62] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[63];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[64]

---

57 Adran 13(3) o'r Ddeddf.
58 Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
59 Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
60 Gofyniad a osodir gan y Cod.
61 O dan adran 9 o'r Ddeddf.
62 O dan adran 68 o'r Ddeddf.
63 O dan adran 69 o'r Ddeddf.
64 O dan adran 70. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.

15.69 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr ysgol a/neu'r awdurdod lleol yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion y person ifanc (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

15.70 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i'r person ifanc drafod ymhellach.

## *Llunio CDU (Awdurdodau lleol)*

15.71 Os yw awdurdod lleol wedi penderfynu bod ADY gan berson ifanc mewn ysgol y mae'n gyfrifol amdano, **rhaid**[65] iddo naill ai lunio CDU neu roi cyfarwyddyd i'r ysgol i lunio a chynnal CDU. Os yw'r awdurdod lleol yn llunio CDU, **rhaid**[66] iddo wedyn naill ai ei gynnal neu, os yw'r awdurdod yn ystyried bod hynny'n briodol, roi cyfarwyddyd i'r ysgol i'w gynnal. Yr eithriad i hyn oll yw os nad yw'r person ifanc yn cydsynio, neu'n peidio â chydsynio mwyach, i'r CDU gael ei lunio neu ei gynnal.[67] (Gweler Pennod 2 am wybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 am wybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 am wybodaeth am lunio CDU a'i gynnwys.)

15.72 Gweler paragraffau 15.89 - 15.103 i gael gwybod rhagor am bŵer awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd i ysgol.

15.73 Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Yn yr achos hwn, byddai'r awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan y person ifanc ADY fel ailystyriaeth o benderfyniad yr ysgol ar ADY. **Rhaid**[68] i'r awdurdod lleol yng Nghymru (yr un sy'n cynnal yr ysgol) naill ai-

(a) rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc, neu
(b) llunio CDU ar gyfer y person ifanc a rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol i'w gynnal.

Ond nid oes rhaid i'r awdurdod lleol wneud hyn os yw wedi gofyn i'r un yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu fod yr awdurdod yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.[69]

15.74 Yn dilyn cais gan awdurdod lleol bod awdurdod lleol yn Lloegr yn sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer person ifanc, os bydd yr awdurdod lleol yn Lloegr yn hysbysu'r awdurdod lleol nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc, **rhaid**[70]

[65] Adran 14(1) a (2) o'r Ddeddf.
[66] Adran 14(1) a (2) o'r Ddeddf.
[67] Adran 14(3) o'r Ddeddf.
[68] Adran 14(2) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan adran 87(3)(c).
[69] Adran 87(3)(d) o'r Ddeddf.
[70] Adran 87(3)(e) o'r Ddeddf.

i'r awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r ysgol mewn un o'r ddwy ffordd a grybwyllir yn y paragraff blaenorol (ar ôl llunio CDU yn gyntaf mewn perthynas â'r ail ffordd).

15.75 Cyn cwblhau'r CDU, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn ôl yn briodol, gan gynnwys o bosibl ddiweddaru'r drafft o'r CDU, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

15.76 Ar ôl llunio'r CDU, **rhaid**[71] i'r awdurdod lleol roi copi ohono i'r person ifanc.

15.77 **Rhaid**[72] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ar ADY, llunio'r CDU a rhoi copi o'r cynllun yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler isod) i'r canlynol:

(a) yn achos atgyfeiriad o dan adran 12 o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 15.40), yr adeg pan ddaw'r cais atgyfeirio i law'r awdurdod lleol;
(b) yn achos awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, yr adeg pan ddaw'r cais i ailystyried i law'r awdurdod lleol;
(c) fel arall, yr adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes gan y person ifanc ADY.

15.78 Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad, llunio CDU a rhoi copi ohono cyn diwedd y cyfnod perthnasol hwnnw os nad yw'n ymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[73].

15.79 Y cyfnod perthnasol at y dibenion hyn yw:

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

15.80 Wrth roi'r copi o'r CDU, mae'n **rhaid**[74] i'r awdurdod lleol roi'r canlynol i'r person ifanc hefyd:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[75].

[71] Adran 22 o'r Ddeddf.
[72] Gofyniad (yn ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[73] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[74] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[75] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[76] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[77];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[78]

## *Cynnal CDU (Awdurdodau lleol)*

15.81 Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer person ifanc mewn ysgol, **rhaid**[79] iddo gynnal y CDU oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

(a) mae'n rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol gynnal y CDU;
(b) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r CDU gael ei gynnal.

**Rhaid**[80] iddo gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU os yw'r person ifanc yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Gweler paragraffau 15.89 - 15.103 i gael gwybod rhagor am bŵer awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd i ysgol.

15.82 Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc mewn ysgol, canlyniad hyn yw y bydd angen iddo gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

15.83 Os yw awdurdod lleol yn cynnal CDU, mae'n **rhaid**[81] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (hy lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall neu ddarpariaeth bwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY) a ddisgrifir yn y cynllun. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth a nodir gan un o gyrff y GIG. Yn yr achos hwn, **rhaid**[82] i gorff y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[83] i'r awdurdod lleol (neu gorff y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei ddarparu yn Gymraeg.

15.84 Mae dyletswyddau ar awdurdod lleol i adolygu CDU y mae'n ei gynnal hefyd (gweler Pennod 25).[84]

15.85 **Ni chaiff**[85] awdurdod lleol godi tâl ar y person ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y mae'n ei sicrhau o dan Ran 2 o'r

[76] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[77] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[78] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[79] Adran 14(1) i (4) o'r Ddeddf.
[80] Adran 87(3)(c) o'r Ddeddf.
[81] Adran 14(10)(a) a (b) o'r Ddeddf.
[82] Adrannau 20(5) a (21)(5) o'r Ddeddf.
[83] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[84] Adran 23 o'r Ddeddf.
[85] Adran 49 o'r Ddeddf.

Ddeddf.

15.86 Efallai y bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio mewn amgylchiadau penodol. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 29. Gall hefyd drosglwyddo i gorff arall, er enghraifft, lle mae'r awdurdod lleol wedi cyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU. Mae gwybodaeth am ffyrdd eraill o drosglwyddo CDU ym Mhennod 28.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer person ifanc gan yr awdurdod lleol*

15.87 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc mewn ysgol, **rhaid**[86] i'r ysgol gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a bennwyd yn y cynllun. **Dylai** hyn gynnwys y canlynol pan fo'n berthnasol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

(a) helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY drwy gyflwyno'r DDdY y mae'n rhesymol i'r ysgol ei chyflwyno;
(b) hyfforddi a datblygu staff fel bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau i ddarparu'r DDdY y mae'r ysgol i'w darparu;
(c) helpu'r awdurdod lleol i sicrhau y darperir DDdY yn Gymraeg, os yw'r CDU yn nodi y dylid ei darparu yn Gymraeg;
(d) hwyluso'r defnydd o gyfarpar priodol a nodwyd yn CDU y person ifanc;
(e) sicrhau bod pawb sy'n addysgu'r person ifanc yn ymwybodol o ADY y person ifanc a'r DDdY sydd i'w chyflwyno;
(f) hwyluso'r gwaith o ddarparu'r DDdY sydd i'w darparu gan eraill;
(g) gwneud trefniadau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y ysgol a'r awdurdod lleol a'r corff GIG am y camau ymarferol i'w cymryd i gyflwyno'r DDdY a nodwyd yn y CDU.

15.88 Hefyd, yn fwy cyffredinol, **dylai** ysgol a gynhelir gymryd camau rhesymol i helpu awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau o dan y system ADY mewn perthynas â phobl ifanc yn yr ysgol.[87] Er enghraifft, mewn perthynas â pherson ifanc yn yr ysgol a chanddo ADY a gynhelir gan awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol:

(a) monitro effeithiolrwydd DDdY a wnaed ar gyfer person ifanc a chefnogi'r person ifanc i wneud cynnydd a chyflawni'r deilliannau a nodwyd yn ei CDU; a
(c) chyfrannu at y gwaith o adolygu'r CDU a chynllunio prosesau pontio i unrhyw sefydliadau eraill ac i fywyd fel oedolyn;

---

[86] Adran 47(4) a (5) o'r Ddeddf.
[87] Gall awdurdod lleol, os nad yw'n cael yr wybodaeth neu'r help sydd eu hangen arno gan yr ysgol i arfer ei swyddogaethau, wneud cais ffurfiol amdanynt, ac os felly rhaid i'r ysgol gydymffurfio â'r cais yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig: gweler Pennod 21.

(d) integreiddio cyngor allanol a chymorth arbenigol ar gyfer y person ifanc i'w rhaglenni addysgu a dysgu mewn ffordd nad yw'n amharu.

## *Cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i ysgol i lunio neu gynnal CDU*

15.89 O dan yr amgylchiadau canlynol, gall awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol a gynhelir ynghylch CDU:

(a) pan fydd yr awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan berson ifanc yn yr ysgol neu berson ifanc sydd i fod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol ADY, **gall**[88] gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc os yw o'r farn bod hynny'n briodol;
(b) pan fydd yr awdurdod wedi penderfynu bod gan berson ifanc yn yr ysgol neu berson ifanc sydd i fod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol ADY a'i fod wedi llunio CDU ar gyfer y person ifanc, **gall**[89] gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU os yw o'r farn bod hynny'n briodol;
(c) pan fydd yr awdurdod lleol wedi llunio CDU diwygiedig i berson ifanc yn yr ysgol ar ôl ei ailystyried (gweler Pennod 26) neu wedi cael gorchymyn gan y Tribiwnlys i'w ddiwygio, **gall**[90] yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal;
(d) pan fydd yr awdurdod lleol eisoes yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc yn yr ysgol, **gall**[91] gyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal.

O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo'r ysgol, **rhaid**[92] iddo gynnal y CDU ei hun.

15.90 Cyn y gall awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol arall, **rhaid**[93] i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol ynghylch ei gynnig i gyfarwyddo'r ysgol.

15.91 **Ni ddylai** awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol lunio CDU oni bai ei fod yn ystyried-

(a) bod gan y person ifanc ADY sy'n galw am DDdY y byddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau,
(b) y gallai'r ysgol benderfynu'n ddigonol ar raddau a natur yr ADY, ac
(c) y gallai'r ysgol benderfynu'n ddigonol ar y DDdY.

15.92 Ond **ni chaiff**[94] yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol mewn unrhyw ffordd os-

(a) yw'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, neu

88 Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.
89 Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.
90 Adran 27(6)(a) o'r Ddeddf.
91 Adran 14(4) o'r Ddeddf.
92 Adrannau 14(2), (4) a 27(6) o'r Ddeddf.
93 Adran 38 o'r Ddeddf.
94 Adrannau 30(7) a 14(9) o'r Ddeddf.

(b) yw hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol bennu lleoliad mewn ysgol benodol neu sefydliad arall penodol neu fwyd a llety yn y DCU (lle na ellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol yn sicrhau un o'r ddau beth hyn neu'r ddau ohonynt ar gyfer y person ifanc).

15.93 Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, ac os felly, **rhaid**[95] i'r awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol yn un o'r ffyrdd a nodir ym mharagraff 15.89(a) i (c). Yr eithriadau i hyn yw os yw'r awdurdod lleol, ar ôl penderfynu bod gan y person ifanc ADY, wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol yn Lloegr i sicrhau asesiad o ran anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu os yw'r awdurdod hwnnw yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.

15.94 Pan fydd awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd i ysgol i gynnal CDU y mae'r awdurdod wedi'i lunio, **rhaid**[96] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r person ifanc ac i'r ysgol. **Dylai** roi copi o'r CDU i'r ysgol ar yr un pryd ag y bydd yn cyfarwyddo'r ysgol. Pan fydd awdurdod lleol eisoes yn cynnal CDU ac yn cyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal yn ei le, **rhaid**[97] i'r awdurdod lleol anfon copi o'r CDU i'r ysgol oni bai bod gan yr ysgol gopi ohono eisoes. **Dylai** hyn gael ei wneud ar yr un pryd ag y bydd yn cyfarwyddo'r ysgol. **Rhaid**[98] i'r ysgol roi gwybod i'r person ifanc ei bod wedi dod yn gyfrifol am gynnal y CDU.

15.95 **Rhaid**[99] i'r awdurdod lleol, wrth roi cyfarwyddyd i ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer person ifanc, roi gwybod i'r ysgol ar ba ddyddiad y digwyddodd yr hyn y cyfeirir ato ym mharagraff 15.99(a), (b) neu (c) (pa un bynnag sy'n berthnasol). Y rheswm am hyn yw bod yr ysgol wedyn yn gwybod erbyn pa ddyddiad y mae'n ofynnol iddi roi copi o'r CDU.

15.96 Pan fydd awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol i lunio a chynnal CDU ar gyfer person ifanc yn yr ysgol, neu sydd i'w gofrestru'n ddisgybl yn yr ysgol, **dylai'r** awdurdod lleol wneud hynny'n brydlon ac yn ddigon cynnar o fewn y cyfnod y byddai wedi bod yn ofynnol iddo fel arall lunio a rhoi copi o'r CDU (gweler paragraff 15.77). Mae hyn er mwyn i'r ysgol gael digon o amser i lunio'r CDU.

15.97 **Ni ddylai** awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol lunio a chynnal CDU os na fydd yn rhesymol i'r ysgol lunio a rhoi copi ohono i'r person ifanc cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler paragraffau 15.77 a 15.99). Mewn achos felly, **dylai'r** awdurdod lleol lunio'r cynllun ei hun (gan ymgynghori â'r ysgol i'r graddau sy'n bosibl ac yn briodol), a **chaiff**[100] roi cyfarwyddyd iddi wedyn i gynnal y cynllun os yw'r person ifanc eisoes yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

[95] Adrannau 14(2), 27(6) ac 87 o'r Ddeddf.
[96] Adran 22(1) o'r Ddeddf a rheoliad 15 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[97] Rheoliad 15 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[98] Adran 22(2) o'r Ddeddf.
[99] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[100] Adran 14(4) o'r Ddeddf.

15.98 Pan fo ysgol a gynhelir yn cael ei chyfarwyddo gan awdurdod lleol i lunio a chynnal, neu i gynnal CDU ar gyfer person ifanc yn yr ysgol (neu ar gyfer person ifanc sydd i'w gofrestru yn ddisgybl yn yr ysgol), **rhaid**[101] i'r ysgol wneud hynny. Yr eithriadau i hyn yw pan na fo'r person ifanc yn cydsynio (neu nad yw'n cydsynio mwyach) iddo gael ei lunio neu ei gynnal neu pan fo awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc (a fyddai ond yn digwydd pe byddai'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr). Mae'r canlynol yn berthnasol i lunio CDU: Pennod 2 ar ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 ar adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen; Pennod 23 mewn perthynas â llunio CDU a'i gynnwys; a pharagraff 15.22. Mae paragraffau 15.33 i 15.37 yn ymdrin ag ysgol a gynhelir sy'n cynnal CDU (gan gynnwys pan na fo'r ysgol wedi llunio'r CDU).

15.99 Pan fo'n ofynnol i ysgol a gynhelir lunio a chynnal CDU ar gyfer person ifanc yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol,[102] **rhaid**[103] i'r ysgol lunio a rhoi copi o'r CDU i'r person ifanc yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler isod) o:

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12 o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 15.40), yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio;
(b) yn achos ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais i ailystyried;
(c) fel arall, pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes gan y person ifanc ADY.

15.100 Y cyfnod perthnasol at y dibenion hyn yw:

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

15.101 Dyma'r un cyfnodau a fyddai wedi eu rhoi i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU, pe bai wedi ei lunio ei hun yn lle rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol wneud hynny.

15.102 Nid oes angen i'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad i lunio a rhoi copi o'r CDU cyn diwedd y cyfnod perthnasol os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth[104].

15.103 Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[105] i'r ysgol hefyd roi i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;

[101] Adran 12(3) o'r Ddeddf.
[102] O dan adaran 14(2)(b)(ii) o'r Ddeddf.
[103] Rheoliad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[104] Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[105] Gofyniad a osodir gan y Cod.

(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[106];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[107] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[108];
(d) gwybodaeth am yr hawliau i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y CDU a chymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal[109], a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol,
(e) ond os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yn hytrach na'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (d), gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol i ailystyried CDU[110] a manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw.

[106] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[107] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[108] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[109] O dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf yn y drefn honno. Gweler Pennod 26.
[110] O dan adrannau 27 a 87 o'r Ddeddf.

# Pennod 16: Dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach

## *Cyflwyniad*

16.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau DDdY ar gyfer person ifanc sydd wedi'i gofrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach. Nid yw'n ymdrin â'r sefyllfa ar gyfer person ifanc sy'n destun neu a ddaw yn destun gorchymyn cadw (mae Pennod 19 yn ymdrin â hyn).

16.2 Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau yn y bennod hon at berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach (sut bynnag y'u mynegir), yn cyfeirio at berson ifanc sydd wedi'i gofrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, ond nid ydynt yn cynnwys person ifanc sy'n destun neu a ddaw'n destun gorchymyn cadw.

16.3 Fel yr eglurir ym Mhennod 1, nid yw cyfeiriadau at berson a gofrestrir yn fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yn cynnwys person i'r graddau y mae'r person yn dilyn cwrs addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad addysg bellach.

## *Dyletswydd sefydliad addysg bellach i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY*

16.4. Os caiff y posibilrwydd bod ADY gan berson ifanc yn y sefydliad addysg bellach ei ddwyn i sylw sefydliad addysg bellach, neu os bydd hyn yn dod i'r amlwg iddo fel arall, **rhaid**[1] i'r sefydliad addysg bellach benderfynu a oes gan y person ifanc ADY, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau a ganlyn yn gymwys:

(a) mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc;
(b) mae'r sefydliad addysg bellach eisoes wedi penderfynu ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud;
(d) mae'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad ac mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y person ifanc[2] (gweler paragraff 16.40 ar gyfer dyletswydd y sefydliad addysg bellach yn yr achos hwn);

[1] Adran 11(2) a (3) o'r Ddeddf.
[2] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o fanylion ynghylch plant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.

(e) mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc. (Dim ond os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr y byddai hyn yn berthnasol[3].)

16.5. Gall y person ifanc ei hun neu rywun arall ddwyn i sylw'r sefydliad addysg bellach y posibilrwydd bod gan berson ifanc ADY. Nid oes gwahaniaeth sut y cafodd y posibilrwydd y gallai fod gan berson ifanc ADY ei ddwyn i sylw'r sefydliad addysg bellach na sut y gwnaeth hynny ddod i'r amlwg iddo fel arall; os yw'r sefydliad addysg bellach yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys (yn ddarostyngedig i'r eithriadau a restrir uchod). (Nodir canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 a chanllawiau ar geisio adnabod a allai fod gan berson ifanc ADY ym Mhennod 20.)

16.6. Pan fo'n ofynnol i sefydliad addysg bellach benderfynu a oes gan berson ifanc ADY, **rhaid**[4] iddo:

(a) dynodi person (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Gellid dynodi'r cydlynydd ADY, ond nid oes rhaid;
(b) cofnodi'r dyddiad pan fydd yr achos yn dod i'w sylw, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam ei bod yn ymddangos fel arall i'r sefydliad addysg bellach y gallai fod gan y person ifanc ADY;
(d) rhoi gwybod i'r person ifanc ei fod wedi ei ddwyn i'w sylw neu'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 i gael rhagor o fanylion ynghylch cyfarfodydd);
(f) egluro i'r person ifanc ganlyniadau cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud a chanlyniadau peidio â chydsynio;
(g) ceisio cydsyniad y person ifanc i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os penderfynir bod gan y person ifanc ADY, ei gydsyniad i lunio a chynnal CDU.

16.7. At ddibenion y gofyniad uchod, mae'n ofynnol i sefydliad addysg bellach benderfynu a oes gan berson ifanc ADY pan na fo'n hysbys a yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ai peidio. Os nad yw'r person ifanc yn cydsynio, ar ôl ceisio cydsyniad y person ifanc, (a gweler y gofyniad isod ynghylch cofnodi hyn), yna bydd y gofyniad ar y sefydliad addysg bellach i wneud y pethau a restrir uchod yn peidio â bod yn gymwys bryd hynny. **Rhaid**[5] i'r sefydliad addysg bellach geisio cydsyniad y person ifanc yn brydlon.

[3] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o fanylion ynghylch sefyllfa pan fydd plentyn mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr.
[4] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[5] Gofyniad a osodir gan y Cod.

16.8. **Rhaid**[6] i'r hysbysiad i'r person ifanc (y cyfeirir ato ym mharagraff 16.6(d)) hefyd roi:

(a) manylion cyswllt y sefydliad addysg bellach;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[7].

16.9. **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o'r amserlenni tebygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad o ran yr amserlen gymwys a nodir isod).

16.10. **Rhaid**[8] i'r sefydliad addysg bellach gofnodi:
(a) pan fo'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i lunio a chynnal CDU, pryd a sut y rhoddwyd cydsyniad;
(b) pan fo'r person ifanc yn gwrthwynebu unrhyw un o'r materion hynny, pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc;
(c) os nad yw'r person ifanc wedi cydsynio nac wedi gwrthwynebu unrhyw un neu ragor o'r materion hynny, y camau a gymerwyd gan y sefydliad addysg bellach i geisio cydsyniad y person ifanc ac egluro'r canlyniadau pe byddai'r sefydliad addysg bellach yn penderfynu bod gan y person ifanc ADY neu'n penderfynu nad oes ganddo ADY.

16.11. **Dylai** sefydliadau addysg bellach fod â gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a allai gynnwys y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau a yw'n cydsynio ai peidio (mae rhagor o wybodaeth ynghylch gofyn am gydsyniad person ifanc ar gael ym Mhennod 4).

16.12. **Dylid** ystyried a yw'r person ifanc eisoes yn ymgysylltu ag asiantaethau eraill neu sefydliadau'r trydydd sector neu'n cael cymorth ganddynt; a **dylai'r** sefydliad addysg bellach eu cynnwys fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac wrth lunio unrhyw CDU.

16.13. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt, ac yn y broses o lunio CDU. Hefyd, un o amcanion sylfaenol y system ADY yw sicrhau bod y person ifanc yn ganolog i'r broses sy'n adnabod ei ADY a phennu ei DDdY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd dynodedig drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r person ifanc i drafod a phenderfynu ar anghenion y person ifanc ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. (Rhoddir canllawiau ar y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22.)

16.14. Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw'r sefydliad addysg bellach y gallai fod ADY gan berson ifanc yn y sefydliad hwnnw ond fod y sefydliad addysg bellach wedi

[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[7] Dyma'r trefniadau y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf. At ddibenion darpariaethau'r Cod hwn ar drefniadau i roi gwybodaeth a chyngor o dan adran 9, os yw'r myfyriwr mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol y mae'r sefydliad addysg bellach yn ei ardal.
[8] Gofyniad a osodir gan y Cod.

penderfynu ar y mater eisoes, a'i fod yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw (gweler yr eithriad ym mharagraff 16.4(b)), **dylai** hysbysu'r person ifanc am hyn a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY (gan gynnwys yr hawliau i apelio) os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

## *Penderfyniad sefydliad addysg bellach nad oes gan berson ifanc ADY*

16.15. Os bydd y sefydliad addysg bellach yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY, **rhaid**[9] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

16.16. Mae'n **rhaid**[10] i'r sefydliad addysg bellach wneud y penderfyniad a chyflwyno'r hysbysiad yn brydlon, gan wneud hynny cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod amser tymor i gael cydsyniad y person ifanc i'r penderfyniad gael ei wneud.

16.17. Nid oes angen i'r sefydliad addysg bellach gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn y cyfnod o 35 diwrnod amser tymor os nad yw'n ymarferol i'r sefydliad addysg bellach wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[11].

16.18. Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[12] i'r hysbysiad a roddir i'r person ifanc gynnwys:

(a) manylion cyswllt y sefydliad addysg bellach;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[13];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[14] a'i wasanaethau eirioli annibynnol [15];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[16]

16.19. **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd y sefydliad addysg bellach yn eu cymryd yng ngoleuni ei ystyriaeth i sicrhau bod anghenion y person ifanc (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

[9] Adran 11(4) o'r Ddeddf.
[10] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[11] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o wybodaeth am sut y mae amserlenni yn y Cod i'w dehongli.
[12] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[13] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[14] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[15] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[16] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.

16.20. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc drafod ymhellach.

## *Llunio CDU (sefydliad addysg bellach)*

16.21. Os bydd y sefydliad addysg bellach yn penderfynu bod gan y person ifanc ADY, **rhaid**[17] iddo lunio CDU ar gyfer y person ifanc oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau a ganlyn yn berthnasol:

(a) mae'r sefydliad addysg bellach o'r farn bod gan y person ifanc ADY-
   i. a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol iddo ei sicrhau,
   ii. na all benderfynu'n ddigonol ar ei raddau neu ei natur, neu
   iii. na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar ei gyfer;

   ac mae'r sefydliad addysg bellach yn atgyfeirio achos y person ifanc at yr awdurdod lleol cyfrifol i benderfynu arno (gweler paragraffau 16.40 – 16.48 i gael rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau);

(b) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i CDU gael ei lunio neu ei gynnal (gweler paragraff 4.26 i gael gwybodaeth am gydsyniad pobl ifanc);

(c) mae’r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr a bod y sefydliad addysg bellach yn gofyn[18] i'r awdurdod lleol hwnnw sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc;

(d) mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.

16.22. Yn dilyn cais gan sefydliad addysg bellach i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer person ifanc, os bydd y sefydliad addysg bellach yn cael ei hysbysu gan yr awdurdod lleol yn Lloegr nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc, **rhaid**[19] i'r sefydliad addysg bellach lunio CDU oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

16.23. Gweler Pennod 2 i gael gwybodaeth am ystyr ADY a DDdY, Pennod 20 am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 mewn perthynas â llunio CDU a’r hyn y dylid ei gynnwys ynddo.

16.24. Cyn cwblhau'r CDU, **dylai'r** sefydliad addysg bellach roi cyfle i'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** sefydliad addysg bellach ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, er enghraifft diweddaru'r CDU drafft neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

16.25. Ar ôl ei lunio, **rhaid**[20] i'r sefydliad addysg bellach roi copi o'r CDU i'r person ifanc.

[17] Adran 12(1) a (2) o'r Ddeddf.
[18] O dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.
[19] Adran 12(5) o’r Ddeddf.
[20] Adran 22(1) o’r Ddeddf.

16.26. **Rhaid**[21] i'r sefydliad addysg bellach wneud y penderfyniad ynghylch ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod amser tymor i'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud. Nid oes angen i'r sefydliad addysg bellach gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y pethau hynny cyn diwedd y cyfnod o 35 diwrnod amser tymor os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[22].

16.27. Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[23] i'r sefydliad addysg bellach hefyd roi i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt y sefydliad addysg bellach;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[24];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[25] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[26];
(d) gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros gynnal y CDU[27], a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol, ond nid yw'r manylion hyn i'w rhoi os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr;
(e) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[28]

## *Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer myfyriwr ag ADY ond sydd heb CDU*

16.28. Os oes gan berson ifanc mewn ysgol ADY ond nad oes CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, **rhaid**[29] i'r sefydliad addysg bellach, wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r sefydliad addysg bellach, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY y mae ADY y disgybl yn galw amdani yn cael ei gweithredu.

16.29. Efallai nad oes gan y person ifanc CDU oherwydd:

(a) bod y sefydliad addysg bellach wrthi'n llunio CDU ar gyfer y person ifanc,
(b) bod y sefydliad addysg bellach wedi atgyfeirio'i achos at awdurdod lleol a bod yr awdurdod wrthi'n llunio CDU,
(c) nad yw'r person ifanc yn cydsynio i benderfyniad am ADY gael ei wneud nac yn cydsynio i CDU gael ei lunio neu ei gynnal,

[21] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[22] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o wybodaeth am sut mae amserlenni yn y Cod i'w dehongli.
[23] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[24] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[25] O dan adran 68.
[26] O dan adran 69.
[27] O dan adran 28 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 26.
[28] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn trafod apeliadau.
[29] Adran 47(1) a (2) o'r Ddeddf.

(d) bod awdurdod lleol yn Lloegr wrthi'n cynnal asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu'n llunio cynllun Addysg, Iechyd a Gofal, neu
(e) bod gan y person ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

16.30. Bydd angen i'r sefydliad addysg bellach benderfynu beth sydd angen iddo ei wneud i gyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer pob person ifanc sydd ag ADY ond nad oes ganddo CDU yng ngoleuni'r amgylchiadau penodol.

16.31. Os bydd gan y person ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr, bydd y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn amlinellu ei anghenion, ar sail asesiadau, ac yn pennu'r ddarpariaeth addysgol arbennig i'w diwallu. O dan yr amgylchiadau hyn, **dylai'r** sefydliad addysg bellach, pam fo'n briodol, gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol hwnnw i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig a bennir yn y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

16.32. Mewn achosion pan fo'r broses o benderfynu a oes gan y person ADY ar y gweill, neu pan fo CDU wrthi'n cael ei lunio (neu, mewn perthynas â pherson ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, os yw asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei ystyried neu ei gynnal neu gynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei lunio), dylid bod wedi cynnal asesiad cychwynnol o anghenion y person ifanc. Byddai gan y sefydliad addysg bellach wybodaeth gan y person ifanc, o bosibl gyngor gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol, er enghraifft seicolegydd addysg (boed yn benodol mewn perthynas â'r person ifanc neu'n fwy cyffredinol am anghenion ymddangosiadol y person ifanc), a byddai ganddo safbwyntiau staff addysgu a staff cymorth yn y sefydliad addysg bellach am y person ifanc, ynghyd â thystiolaeth ganddynt. Gallai'r dystiolaeth honno gynnwys sut mae'r person ifanc wedi ymateb i ymyriadau penodol (gan gynnwys addysgu gwahaniaethol) yn y gorffennol. Mewn rhai achosion, gallai'r person ifanc hyd yn oed rannu cynllun sydd â gwybodaeth berthnasol, er enghraifft cynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhaliwyd yn ddiweddar os yw newydd symud o Loegr i Gymru.

16.33. O'r amrywiaeth hon o wybodaeth a chyngor, gan gynnwys yr hyn a geir gan y person ifanc ei hun, dylai'r sefydliad addysg bellach fod â dealltwriaeth eang o'r math o ADY sydd ganddo. Yng ngoleuni'r ddealltwriaeth honno, **dylai'r** sefydliad addysg bellach:

(a) gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r holl staff sy'n ymwneud ag addysgu neu gefnogi'r person ifanc am yr anghenion hynny;
(b) cynnwys y cydlynydd ADY wrth gynghori staff addysgu ar y dulliau addysgu priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r person ifanc er mwyn diwallu'r anghenion ymddangosiadol a chyngor ynghylch lle i gael mwy o wybodaeth a chyngor os oes angen;
(c) gwneud addasiadau priodol i amgylchedd y sefydliad addysg bellach er mwyn ei gwneud yn haws i'r person ifanc gael ei addysg;

(d) darparu cymorth ychwanegol neu gymorth gwahanol priodol ar gyfer y person ifanc o'r adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr allanol;
(e) monitro effaith y cymorth a ddarperir ar gyfer y person ifanc a'i addasu os daw i'r amlwg y byddai hyn yn briodol.

16.34. Caiff y DDdY y mae'r anghenion yn galw amdani ei hadnabod yn ystod y broses o lunio CDU. Efallai y caiff y DDdY, neu fathau arbennig o ddarpariaeth, eu hadnabod yn gynharach yn y broses a pheth amser cyn y bydd y CDU wedi'i gwblhau. Pan fo hynny'n wir, **dylai** sefydliad addysg bellach, os yw'n rhesymol gwneud hynny, ddechrau sicrhau unrhyw DDdY sydd wedi'i nodi cyn gynted â phosibl, wrth gwblhau'r gwaith o lunio'r CDU. Os yw'n rhesymol iddo ddarparu'r DDdY ei hun, **dylai** wneud hynny; ac os yw'n rhesymol iddo drefnu'r ddarpariaeth o unrhyw elfen o'r DDdY gan rywun arall, **dylai** wneud hynny hefyd.

## *Cynnal CDU (sefydliad addysg bellach)*

16.35. Pan fo sefydliad addysg bellach wedi llunio CDU ar gyfer person ifanc, **rhaid**[30] iddo gynnal y CDU hwnnw. Fodd bynnag, cyn i'r sefydliad addysg bellach ddechrau ei gynnal, os na fydd y person ifanc yn cydsynio i'r CDU gael ei gynnal neu'n rhoi'r gorau i gydsynio i'r CDU gael ei gynnal, ni fyddai dyletswydd y sefydliad addysg bellach i'w gynnal yn berthnasol. Mae Pennod 29 yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo dyletswydd i gynnal CDU yn dod i ben ac mae Pennod 28 yn ymdrin â'r amgylchiadau pan fo dyletswydd i gynnal CDU yn cael ei throsglwyddo.[31]

16.36. Canlyniad y ffaith ei bod yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU yw y bydd angen iddo gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â'r gyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sydd ar sefydliad addysg bellach sy'n cynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

16.37. Os yw sefydliad addysg bellach yn cynnal CDU, **rhaid**[32] iddo sicrhau'r DDdY a ddisgrifir ynddo, ac eithrio unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan u o gyrff y GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[33] i gorff perthnasol y GIG sicrhau'r DDdY honno. Os yw'r CDU yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[34] i'r sefydliad addysg bellach (neu gorff perthnasol y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

---

[30] Adran 12(1) a (2) o'r Ddeddf.
[31] Er yn achos person ifanc mewn sefydliad addysg bellach, dim ond pe bai'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un sefydliad y byddai'r cyfrifoldeb amdano yn trosglwyddo i un arall.
[32] Adran 12(7)(a) o'r Ddeddf.
[33] Adrannau 20(5) a (21)(5) o'r Ddeddf.
[34] Adrannau 12(7)(b), 20(5)(c) a 21(5)(a) o'r Ddeddf.

16.38. Mae dyletswyddau[35] ar sefydliad addysg bellach i adolygu CDU y mae'n ei gynnal (gweler Pennod 25).

16.39. **Ni chaiff**[36] sefydliad addysg bellach godi tâl ar berson ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau ar gyfer y person o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## *Atgyfeirio achosion o sefydliad addysg bellach at awdurdod lleol*

16.40. Mae un achos lle mae'n ofynnol i sefydliad addysg bellach atgyfeirio achos person ifanc at awdurdod lleol yn hytrach na phenderfynu drosto'i hun a oes gan y person ifanc ADY, sef pan fo'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad. **Rhaid**[37] i sefydliad addysg bellach atgyfeirio achos person ifanc yn y sefydliad addysg bellach i'r awdurdod lleol cyfrifol (os oes un)-

(a) pan gaiff ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n dod i'r amlwg iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY,
(b) pan nad oes gan y person ifanc CDU, ac
(c) pan fo'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

16.41. Fel arall, gall sefydliad addysg bellach atgyfeirio achos person ifanc at awdurdod lleol ar sail benodol sy'n ymwneud â natur ADY ymddangosiadol person ifanc (gweler y paragraffau a ganlyn).

16.42. Pan fydd sefydliad addysg bellach wedi penderfynu bod gan berson ifanc ADY, yn hytrach na llunio'r CDU, **caiff**[38] atgyfeirio achos y person ifanc at yr awdurdod lleol cyfrifol (os oes un).[39] Ond **ni chaiff**[40] y sefydliad addysg bellach wneud hyn oni bai ei fod o'r farn bod gan y person ifanc ADY:

(a) a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach ei sicrhau,
(b) na all bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu
(c) na all benderfynu'n ddigonol ar DDdY ar eu cyfer.

16.43. **Dylai'r** sefydliad addysg bellach fod yn ymwybodol o'r angen i wneud unrhyw atgyfeiriad o'r fath mor gynnar â phosibl er mwyn lleihau'r oedi cyn llunio'r CDU. Felly, pan fydd y sefydliad addysg bellach yn dod yn ymwybodol bod sail ar gyfer atgyfeirio at yr awdurdod lleol, **dylai** weithredu'n brydlon i ystyried a ddylai atgyfeirio achos y person ifanc ac i wneud unrhyw atgyfeiriad. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r sefydliad addysg bellach allu gwneud yr atgyfeiriad o fewn 20 diwrnod amser tymor (os nad yn gynharach)

[35] Adran 23 o'r Ddeddf.
[36] Adran 49 o'r Ddeddf.
[37] Adran 30(1) - (2) o'r Ddeddf.
[38] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.
[39] Dim ond os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol y gellir gwneud hyn. Os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, caiff y sefydliad addysg bellach ofyn i'r awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal: adran 12(2)(c) o'r Ddeddf.
[40] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.

i'r dyddiad y mae'n cael cydsyniad y person ifanc i'r penderfyniad gael ei wneud.

16.44. Yn achlysurol, efallai mai dim ond yn nes ymlaen yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac o lunio CDU y daw'r sail dros atgyfeirio'r achos i'r amlwg. Er enghraifft, efallai mai dim ond pan fydd cyngor penodol yn dod i law gan wasanaeth arbenigol y bydd y sefydliad addysg bellach yn sylweddoli bod natur ADY y person ifanc yn fwy sylweddol nag yr oedd wedi'i feddwl, neu fod angen DDdY ar y person ifanc na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad ei sicrhau. Os bydd y sail dros atgyfeirio achos yn dod i'r amlwg lawer yn ddiweddarach yn y broses, **caiff**[41] y sefydliad addysg bellach atgyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol o hyd, ond os bydd yn gwneud hynny, **dylai'r** sefydliad addysg bellach weithredu'n brydlon er mwyn lleihau'r oedi cyn sefydlu CDU.

16.45. Wrth wneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol, **dylai'r** sefydliad addysg bellach hysbysu'r person ifanc ei fod yn gwneud hynny.

16.46. Gallai amgylchiadau'r sefydliad addysg bellach (h.y. ei leoliad, ei faint, ei gyllideb, ei brofiad ac ati) effeithio ar safbwynt y sefydliad addysg bellach o ran a fyddai'n rhesymol iddo sicrhau'r DDdY. Er enghraifft, gallai unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ganlyn effeithio ar y farn honno:

(a) mae gan y person ifanc gyflwr llai cyffredin neu gyflwr prin sy'n galw am arbenigedd na all y sefydliad addysg bellach ei ddarparu;
(b) er mwyn diwallu anghenion y person ifanc, mae ar y sefydliad addysg bellach angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drefnu'n rhesymol gan y sefydliad addysg bellach;
(c) mae ar y person ifanc angen cyfarpar na ellir ei ddefnyddio ond gan un myfyriwr neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol y sefydliad addysg bellach;
(d) Mae ar y person ifanc angen cymorth dyddiol dwys iawn na ellir yn rhesymol ei gyllido na'i sicrhau o gyllideb y sefydliad addysg bellach.

16.47. Pan fo achos yn cael ei atgyfeirio at awdurdod lleol (un ai am fod y person ifanc wedi'u gofrestru mewn mwy nag un lleoliad neu am un o'r rhesymau sy'n ymwneud â'r ADY ymddangosiadol), mae dyletswydd yr awdurdod lleol i benderfynu[42] (yr ymdrinnir â hi isod) yn debygol o fod yn gymwys.

16.48. Os bydd sefydliad addysg bellach yn atgyfeirio achos person ifanc yn y sefydliad addysg bellach i'r awdurdod lleol, **dylai** ystyried pa wybodaeth i'w rhoi i'r awdurdod lleol sy'n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch a oes gan y person ifanc ADY ai peidio. Diben trosglwyddo'r wybodaeth hon yw sicrhau bod gan yr awdurdod lleol yr holl wybodaeth berthnasol i arfer ei swyddogaethau (penderfynu ar ADY a llunio unrhyw

[41] Adran 12(1) a (2)(a) o'r Ddeddf.
[42] Adrannau 12(2)(a), 13 a 30(2) o'r Ddeddf.

CDU) a’i fod yn cael yr wybodaeth honno yn brydlon er mwyn iddo allu gwneud penderfyniad yn ddi-oed, a fydd yn ei dro yn hwyluso ymyriad cynnar. Pan fo gan y sefydliad addysg bellach wybodaeth sy’n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol, **dylai’r** sefydliad addysg bellach ddarparu’r wybodaeth honno i’r awdurdod lleol yn brydlon, cyn belled â bod gwneud hynny yn cyd-fynd â’r gyfraith diogelu data. Wrth gwrs, bydd angen i’r sefydliad addysg bellach gydymffurfio â’r gyfraith diogelu data o ran y ffordd y bydd yn trosglwyddo’r wybodaeth honno. Bydd yr wybodaeth y bydd ar yr awdurdod lleol ei hangen i arfer ei swyddogaethau yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond gallai gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd eisoes i ddiwallu anghenion y person ifanc, er enghraifft unrhyw adnoddau neu drefniadau arbennig a sefydlwyd. Byddai hefyd yn debygol o gynnwys unrhyw adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig a ddaeth i law gan asiantaethau allanol yn ogystal â ph'un a yw person ifanc wedi cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad. Os na fydd sefydliad addysg bellach yn trosglwyddo gwybodaeth y mae ei hangen ar awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau, gallai’r awdurdod lleol wneud cais am yr wybodaeth o dan adran 65 o’r Ddeddf (gweler Pennod 21).

## _Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY_

16.49. Pan wneir atgyfeiriad gan sefydliad addysg bellach at yr awdurdod lleol cyfrifol mewn perthynas â pherson ifanc yn y sefydliad addysg bellach, **rhaid**[43] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

(a) mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc (er na ddylai hyn fod yn wir oherwydd y dylai'r sefydliad addysg bellach wybod am unrhyw CDU ac ni chaiff wneud atgyfeiriad o'r fath os oes CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc);
(b) mae’r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o’r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy’n effeithio’n sylweddol ar y penderfyniad;
(c) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

16.50. Os yw awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY, nid oes dyletswydd arno i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY yn absenoldeb atgyfeiriad gan y sefydliad addysg bellach. Yr unig eithriad i hyn yw os yw'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad a bod y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY yn dod i sylw'r awdurdod lleol mewn rhyw ffordd arall (ar wahân i atgyfeiriad gan y sefydliad addysg bellach neu sefydliad arall a fynychir gan y person ifanc). Os felly, **rhaid**[44] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y

[43] Adran 13(1) a (2) o'r Ddeddf.
[44] Adran 13(1) a (2) o'r Ddeddf.

person ifanc ADY ai peidio oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir yn y paragraff blaenorol yn gymwys.

16.51. Pan fo'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY[45], **rhaid**[46] i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r person ifanc ei fod yn penderfynu a oes gan y person ifanc ADY a chymryd y camau y cyfeirir atynt ym mharagraff 16.56. **Rhaid**[47] i'r awdurdod lleol hefyd ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol â'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 i gael rhagor o fanylion ynghylch cyfarfodydd).

16.52. Pan fyddai'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY, pe byddai'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud,[48] byddai **rhaid**[49] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon:

(a) hysbysu'r person ifanc-
  i. o'r atgyfeiriad o dan adran 12 (gweler paragraff 16.42) neu adran 30 (gweler paragraff 16.40) o'r Ddeddf, neu
  ii. os na chafwyd atgyfeiriad, ei fod wedi'i ddwyn i'w sylw neu wedi dod i'r amlwg iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY;
(b) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 i gael rhagor o fanylion ynghylch cyfarfodydd);
(c) egluro i'r person ifanc beth yw canlyniadau cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud a chanlyniadau peidio â gwneud hynny;
(d) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os penderfynir bod gan y person ifanc ADY, ei gydsyniad i lunio a chynnal CDU;
(e) cymryd y camau y cyfeirir atynt ym mharagraff 16.56.

16.53. **Rhaid**[50] i'r hysbysiad i'r person ifanc o dan baragraff 16.51 neu baragraff 16.52(a) roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY neu'r system ADY[51].

16.54. **Dylai'r** hysbysiad hefyd ddangos yr amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad perthnasol o ran yr amserlen isod).

[45] Er mwyn i hyn fod yn wir, rhaid i'r person ifanc fod wedi cydsynio eisoes i'r penderfyniad gael ei wneud.
[46] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[47] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[48] Mae'r sefyllfa hon yn debygol o fod yn gymharol brin.
[49] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[50] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[51] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

16.55. Pan fo'r awdurdod lleol yn ceisio cydsyniad y person ifanc, **rhaid**[52] iddo gofnodi:
(a) pryd a sut y rhoddwyd cydsyniad, pan fo'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i CDU gael ei lunio neu ei gynnal;
(b) pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc, pan fo'r person ifanc yn gwrthwynebu unrhyw un o'r materion hynny;
(c) pan na fo'r person ifanc wedi cydsynio nac wedi gwrthwynebu'r materion hynny, y camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i geisio cydsyniad y person ifanc ac i egluro beth fyddai'r canlyniadau pe byddai'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc ADY neu'n penderfynu nad oes ganddo ADY.

16.56. Ym mhob achos, **rhaid**[53] i'r awdurdod lleol:

(a) dynodi person (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd yr atgyfeiriad gan y sefydliad addysg bellach o dan adran 12 neu adran 30 o'r Ddeddf;
(c) mewn achosion eraill, cofnodi-
   i. y dyddiad pan fo'r achos yn cael ei ddwyn i'w sylw, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY, a
   ii. crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu am ba reswm y mae'n ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY.

16.57. Wrth benderfynu a oes gan y person ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY, **rhaid**[54] i awdurdod lleol ystyried a ddylid gofyn am gyngor gan seicolegydd addysg. **Rhaid**[55] i'r awdurdod lleol geisio cyngor os yw'n credu bod y cyngor yn angenrheidiol i bennu-

(a) graddau neu natur yr ADY a allai fod gan y person ifanc, neu
(b) y DDdY y mae ADY y person ifanc yn galw amdani.

16.58. **Rhaid**[56] i'r cyngor a geisir ymwneud â-

(a) nodweddion addysgol, seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol neu anghenion o ran hyfforddiant y person ifanc (gan gynnwys anghenion tebygol y person ifanc yn y dyfodol),
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y person ifanc, ac
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y person ifanc yng ngoleuni'r nodweddion hynny, p'un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau eraill o

[52] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[53] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[54] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[55] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[56] Gofyniad a osodir gan y Cod.

ddarpariaeth ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno'r ddarpariaeth honno.

16.59. **Dylid** rhoi ystyriaeth hefyd i p'un a yw'r person ifanc eisoes mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu sefydliadau'r trydydd sector ac a yw'n derbyn cymorth ganddynt, a chynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac wrth lunio CDU.

16.60. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw ADY sydd ganddynt o bosibl, ac yn y broses o lunio CDU. Yn ogystal, mae sicrhau bod y person ifanc yn ganolog i'r broses sy'n adnabod ei anghenion dysgu ychwanegol ac yn pennu ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd dynodedig drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r person ifanc i drafod a phenderfynu ar anghenion y person ifanc ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. (Rhoddir canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22).

16.61. Os bydd awdurdod lleol yn dibynnu ar yr eithriad ym mharagraff 16.49(b) (mae wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw), **dylai** roi gwybod am hyn i'r person ifanc a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY (yn cynnwys yr hawliau i apelio) os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY*

16.62. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes ADY gan y person ifanc (sydd mewn sefydliad addysg bellach), **rhaid**[57] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

16.63. **Rhaid**[58] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos:

(a) os atgyfeirir achos gan sefydliad addysg bellach o dan adran 12 o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 16.42), i'r adeg pan fydd y cais atgyfeirio yn dod i law'r awdurdod lleol;
(b) yn achos person ifanc sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, i'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

[57] Adran 13(3) o'r Ddeddf.
[58] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.

16.64. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[59].

16.65. Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[60] i'r hysbysiad a roddir i'r person ifanc gynnwys:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[61];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[62] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[63];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[64]

16.66. **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd unrhyw gamau y bydd y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion eraill y person ifanc (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu.

16.67. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc drafod ymhellach.

## *Llunio CDU (Awdurdodau lleol)*

16.68. Os yw awdurdod lleol wedi penderfynu bod ADY gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach y mae'n gyfrifol amdano, **rhaid**[65] iddo lunio CDU ar gyfer y person ifanc oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i CDU gael ei lunio neu ei gynnal. (Gweler Pennod 2 i gael gwybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 i gael gwybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 i gael gwybodaeth am lunio CDU a'r hyn y dylid ei gynnwys ynddo.)

16.69. Cyn cwblhau'r CDU, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys diweddaru'r CDU drafft o bosibl, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

16.70. Ar ôl ei lunio, **rhaid**[66] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r person ifanc.

[59] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o wybodaeth am sut mae amserlenni yn y Cod i'w dehongli.
[60] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[61] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[62] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[63] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[64] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.
[65] Adran 14(1) a (3) o'r Ddeddf.
[66] Adran 22 o'r Ddeddf.

16.71. **Rhaid**[67] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ar ADY, llunio'r CDU a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos:

(a) os atgyfeirir achos gan sefydliad addysg bellach o dan adran 12 o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 16.42 ), i'r adeg pan fydd yr atgyfeiriad yn dod i law'r awdurdod lleol;
(b) yn achos person ifanc sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, i'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

16.72. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad, llunio CDU a rhoi copi ohono cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[68].

16.73. Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[69] i'r awdurdod lleol hefyd roi i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[70]. ;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[71] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[72];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[73]

## *Cynnal CDU (Awdurdodau lleol)*

16.74. Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach, **rhaid**[74] iddo gynnal y CDU oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i gynnal y CDU.

16.75. Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach, canlyniad hyn yw y bydd angen iddo gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â'r gyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

16.76. Os yw awdurdod lleol yn cynnal CDU, mae'n **rhaid**[75] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall neu ddarpariaeth bwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y

[67] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[68] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o wybodaeth am sut mae amserlenni yn y Cod i'w dehongli.
[69] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[70] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[71] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[72] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[73] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn trafod apeliadau.
[74] Adran 14(2) a (3) o'r Ddeddf.
[75] Adran 14(10)(a) a (b) o'r Ddeddf.

person ifanc am DDdY) a ddisgrifir yn y cynllun. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodir gan un o gyrff y GIG. Yn yr achos hwn, **rhaid**[76] i gorff y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[77] i'r awdurdod lleol (neu gorff perthnasol y GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei ddarparu yn Gymraeg.

16.77. Mae dyletswyddau[78] ar awdurdod lleol i adolygu CDU y mae'n ei gynnal (gweler Pennod 25).

16.78. **Ni chaiff**[79] yr awdurdod lleol godi tâl ar berson ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau ar gyfer y person o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

16.79. Gallai dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU beidio mewn amgylchiadau penodol. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 29. Gall hefyd drosglwyddo i gorff arall, er enghraifft, **caiff**[80] yr awdurdod lleol ofyn i'r sefydliad addysg bellach ddod yn gyfrifol am gynnal y CDU. Mae gwybodaeth am drosglwyddo CDUau ym Mhennod 28.

## *Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer person ifanc gan yr awdurdod lleol*

16.80. Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach, **rhaid**[81] i'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a bennir yn y cynllun. **Dylai** hyn gynnwys y canlynol pan fo'n berthnasol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

(a) helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY drwy gyflwyno'r DDdY y mae'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach ei chyflwyno;
(b) hyfforddi a datblygu staff fel bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sy'n ofynnol i ddarparu'r DDdY y mae'r sefydliad addysg bellach i'w darparu;
(c) helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod unrhyw DDdY yn cael ei darparu yn Gymraeg, os yw'r CDU yn nodi y dylid ei darparu yn Gymraeg;
(d) hwyluso'r defnydd o gyfarpar priodol a nodwyd yn CDU y person ifanc;
(e) sicrhau bod pawb sy'n addysgu'r person ifanc yn ymwybodol o ADY y person ifanc a'r DDdY sydd i'w darparu;
(f) hwyluso'r gwaith o ddarparu'r DDdY sydd i'w darparu gan eraill;

[76] Adrannau 20(5) a (21)(5) o'r Ddeddf.
[77] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[78] Adran 23 o'r Ddeddf.
[79] Adran 49 o'r Ddeddf.
[80] Adran 36 o'r Ddeddf.
[81] Adran 47(4) a (5) o'r Ddeddf.

(g) gwneud trefniadau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y sefydliad addysg bellach a'r awdurdod lleol a chorff y GIG, am y camau ymarferol sydd i'w cymryd i gyflwyno'r DDdY a nodwyd yn y CDU.

16.81. Hefyd, yn fwy cyffredinol, **dylai** sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau o dan y system ADY mewn perthynas â phobl ifanc yn y sefydliad addysg bellach.[82] Er enghraifft, mewn cysylltiad â pherson ifanc yn y sefydliad addysg bellach sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol:

(a) monitro effeithiolrwydd DDdY a wnaed ar gyfer y person ifanc a helpu'r person ifanc i wneud cynnydd a chyflawni'r deilliannau a nodwyd yn ei CDU;
(b) cyfrannu at y gwaith o adolygu'r CDU a chynllunio prosesau trosglwyddo i unrhyw sefydliadau eraill ac i fywyd fel oedolyn;
(c) cynnwys cyngor allanol a chymorth arbenigol ar gyfer y person ifanc yn ei raglenni addysgu a dysgu, a hynny mewn ffordd nad yw'n amharu arno.

[82] Os nad yw awdurdod lleol yn cael gwybodaeth neu gymorth sydd ei angen arno i arfer ei swyddogaethau, caiff wneud cais ffurfiol am hynny, ac os felly rhaid i'r sefydliad addysg bellach gydymffurfio â'r cais yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig: gweler Pennod 21.

# Pennod 17: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach

## *Cyflwyniad*

17.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau DDdY ar gyfer person ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach. Nid yw'n ymdrin yn gyffredinol â'r sefyllfa ar gyfer person ifanc sy'n destun gorchymyn cadw neu sy'n dod yn destun gorchymyn cadw (mae Pennod 19 yn ymdrin â hyn).

17.2 Yn unol â hynny, mae cyfeiriadau at berson ifanc yn y bennod hon, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bod bwriad i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriadau at berson ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi cofrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, ond nid ydynt yn cynnwys person ifanc sy'n destun gorchymyn cadw neu sy'n dod yn destun gorchymyn cadw.

17.3 Fodd bynnag, fel yr esbonnir ym Mhennod 19, mae'r angen am CDU ar gyfer person a gedwir yn gaeth sy'n berson ifanc yn gallu dibynnu ar y tebygolrwydd y bydd gan y person anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan gaiff ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth. At ddibenion awdurdod cartref sy'n ystyried a yw hynny'n wir, mae paragraffau 17.64 hyd 17.78 yn berthnasol.

17.4 Hefyd, yn achos person ifanc sy'n destun gorchymyn cadw ac sy'n cael ei gadw'n gaeth yn yr ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel yr esbonnir ym Mhennod 19, mae paragraffau 19.71 hyd 19.75 yn berthnasol i unrhyw benderfyniad ynghylch a oes angen CDU ar gyfer y person ifanc hwnnw.

17.5 Mae paragraffau 19.71 hyd 19.75 hefyd yn berthnasol i-

(a) adolygiadau o CDU person ifanc a'r cwestiwn ynghylch pryd y mae'n rhaid i awdurdod lleol barhau i gynnal CDU neu a yw'n gallu peidio â gwneud hynny (gweler paragraff 17.27), a

(b) adolygiadau gan awdurdod lleol o CDU plentyn pan fo'r plentyn yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol (gweler paragraff 17.28 – 17.29), a gallent hefyd fod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd tebyg eraill (gweler paragraff 17.30).

## *Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY*

17.6 Os caiff y ffaith y gallai fod ADY gan berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ei dwyn i sylw awdurdod lleol, neu os yw hynny'n dod i'r amlwg iddo fel arall, **rhaid**[1] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

(a) mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc;
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad;
(c) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

17.7 Gall y posibilrwydd fod gan berson ifanc ADY gael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Gallai'r person ifanc ei hun neu rywun arall gysylltu â'r awdurdod lleol yn uniongyrchol. Nid oes ots sut y daw'r posibilrwydd i sylw'r awdurdod lleol y gallai fod gan berson ifanc ADY neu sut y mae'n dod i'r amlwg iddo fel arall mai dyma'r achos; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys (yn amodol ar yr eithriadau uchod). (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 ac ar adnabod a allai fod gan berson ifanc ADY ym Mhennod 20).

17.8 Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ADY, **rhaid**[2] iddo:

(a) dynodi person ("y cydlynydd dynodedig") i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau gofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff ei ddwyn i'w sylw, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan y person ifanc ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam mae'n ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY;
(d) rhoi gwybod i'r person ifanc ei fod wedi ei ddwyn i'w sylw neu'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(e) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd);
(f) esbonio i'r person ifanc ganlyniadau cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud a chanlyniadau peidio â chydsynio;
(g) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, i'r CDU gael ei lunio a'i gynnal.

[1] Adran 13(1) a 13(2) o'r Ddeddf.
[2] Gofyniad a osodir gan y Cod.

17.9 At ddibenion y gofyniad uchod, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan berson ifanc ADY pan nad yw'n hysbys a yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud. Os yw wedi ceisio cydsyniad y person ifanc, ac nad yw'r person ifanc yn cydsynio (a gweler y gofyniad isod ynghylch cofnodi hyn), bydd y gofyniad ar yr awdurdod lleol i wneud y pethau a restrir uchod yn peidio â bod yn gymwys bryd hynny. **Rhaid**[3] i'r awdurdod lleol ofyn am gydsyniad y person ifanc yn brydlon.

17.10 **Rhaid**[4] i'r hysbysiad i'r person ifanc (y cyfeirir ato ym mharagraff 17.8(d)) hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY.[5]

17.11 Hefyd, **dylai'r** hysbysiad nodi'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad o ran yr amserlen a nodir isod).

17.12 **Rhaid**[6] i'r awdurdod lleol gofnodi:

(a) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i CDU gael ei lunio a'i gynnal, pryd a sut y rhoddwyd cydsyniad;
(b) pan fydd y person ifanc yn gwrthwynebu unrhyw un o'r materion hynny, pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc;
(c) os nad yw'r person ifanc wedi cydsynio i unrhyw un o'r materion hynny nac wedi eu gwrthwynebu, y camau a gymerwyd gan yr awdurdod i geisio cydsyniad y person ifanc ac i egluro'r canlyniadau wrth i awdurdod benderfynu a oes gan y person ifanc ADY.

17.13 **Dylai** awdurdodau lleol fod â gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a allai gynnwys bod y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau a yw'n cydsynio ai peidio (ceir rhagor o wybodaeth am y gofyniad i gael cydsyniad person ifanc ym mharagraff 4.26).

17.14 **Dylid** ystyried a yw'r person ifanc eisoes yn ymwneud ag asiantaethau eraill neu sefydliadau'r trydydd sector neu'n derbyn cymorth ganddynt, a'u cynnwys fel sy'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol ac a oes angen i'r awdurdod lleol lunio CDU, ac os felly, yn y broses o'i lunio.

17.15 Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4, ceir dyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw ADY sydd ganddynt o bosibl, ac yn y broses o lunio CDU. Yn ogystal, mae sicrhau bod y person

[3] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[4] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[5] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[6] Gofyniad a osodir gan y Cod.

ifanc yn ganolog i'r broses sy'n adnabod ei anghenion dysgu ychwanegol ac yn pennu ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, fel arfer **dylai'r** cydlynydd dynodedig drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd â'r person ifanc i drafod a phenderfynu ar anghenion y person ifanc, a oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU, ac os felly, llunio'r CDU. Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22.

17.16 Os yw'n cael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol y gallai fod gan y person ifanc ADY ond bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater eisoes a'i fod yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw (gweler yr eithriad ym mharagraff 17.6(b)), **dylai** hysbysu'r person ifanc am hyn a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY (yn cynnwys hawliau apelio) os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc ADY*

17.17 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY, **rhaid**[7] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

17.18 Mae'n **rhaid**[8] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a chyflwyno'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn 12 wythnos i gael cydsyniad y person ifanc i wneud y penderfyniad. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[9]

17.19 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[10] i'r hysbysiad a roddir i'r person ifanc gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[11];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau,[12] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[13]

[7] Adran 13(3) o'r Ddeddf.
[8] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[9] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[10] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[11] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[12] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[13] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[14]

17.20 Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc drafod hyn ymhellach.

## *Penderfyniad awdurdod lleol ynghylch a oes angen CDU*

17.21 Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod gan berson ifanc ADY, **rhaid**[15] iddo lunio a chynnal CDU ar gyfer y person hwnnw-

(a) os yw'n penderfynu yn unol â rheoliadau (gweler isod) bod angen iddo lunio a chynnal CDU i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant, ac
(b) os yw'r person ifanc yn cydsynio i gynllun gael ei lunio a'i gynnal. Fel arfer, byddai cydsyniad wedi'i roi i hyn ar yr un pryd ag y byddai'r person ifanc wedi cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY.

17.22 Bydd yr angen i'r awdurdod lleol lunio CDU ar gyfer person ifanc yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Nid yw'r ffaith bod gan y person ifanc ADY yn golygu y dylai'r person ifanc fod ag CDU wedi'i lunio gan yr awdurdod lleol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y person ifanc yn gallu cael lle mewn sefydliad addysg bellach, er enghraifft, a byddai'n fwy priodol i'r sefydliad addysg bellach lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc.

17.23 Mewn achosion lle mae'r person ifanc eisoes wedi ymgymryd â dwy flynedd neu fwy o addysg bellach neu hyfforddiant, efallai na fydd gan y person ifanc anghenion rhesymol i gael rhagor o addysg neu hyfforddiant. Nid oes hawl i addysg neu hyfforddiant parhaus rhwng yr adeg pan fydd person ifanc yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol hyd at 25 oed, ac nid oes ganddo hawl i gael y ddarpariaeth o'i ddewis (ond mae'n **rhaid**[16] ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc). Bwriad sylfaenol y system ADY yw sicrhau bod gan bob person ifanc ag ADY gyfle cyfartal i gael gafael ar addysg neu hyfforddiant o'i gymharu â phobl ifanc nad oes ganddynt ADY.

17.24 Er mwyn gwireddu eu potensial, mae'n bosibl y bydd angen DDdY ar bobl ifanc ag ADY er mwyn gallu manteisio ar addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran, neu mae'n bosibl y bydd angen addysg neu hyfforddiant arnynt a gynllunnir yn benodol ar gyfer pobl ag ADY. Yn y ddau achos, mae disgwyl y bydd sefydliadau addysg bellach prif ffrwd, ac mewn rhai achosion, ysgolion a gynhelir, fel arfer yn gallu diwallu anghenion addysg neu hyfforddiant y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY.

---

[14] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae modd apelio ynghylch y penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.
[15] Adran 14(1) i (3) o'r Ddeddf.
[16] Adran 6 o'r Ddeddf.

17.25 Fodd bynnag, yn achlysurol, efallai na fydd darpariaeth ar gael mewn sefydliadau addysg bellach nac ysgolion a gynhelir i ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant (gan gynnwys ei anghenion rhesymol am DDdY i ymgymryd â'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw) neu efallai na fydd person ifanc yn gallu cael gafael ar y ddarpariaeth sydd ar gael ac a allai fod yn addas i ddiwallu ei anghenion fel arall. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd angen i awdurdod lleol, drwy gynnal CDU, sicrhau lle mewn sefydliad penodol ar gyfer y person ifanc neu'r ddarpariaeth bwyd a llety fel y gellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc.

17.26 Mae'r rheoliadau, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a oes angen CDU ar gyfer person ifanc yn unol â hwy, yn darparu'r broses ar gyfer canfod rhaglen astudio addas ar gyfer y person ifanc. Os oes modd ymgymryd â'r rhaglen mewn sefydliad addysg bellach neu ysgol a gynhelir (gan gynnwys unrhyw un yn Lloegr), maent yn nodi pryd y mae angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc hwnnw. Pan fo angen, neu pan fo'n debygol y bydd angen darpariaeth yn rhywle arall, mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant penodol a phryd y mae angen CDU i'w sicrhau.

17.27 Mae'r broses hon, y darperir ar ei chyfer gan y rheoliadau, hefyd yn gymwys i'r cwestiwn a oes angen i awdurdod lleol barhau i gynnal CDU ar gyfer person ifanc[17] er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant neu a gaiff yr awdurdod lleol beidio â'i gynnal (gweler Pennod 29 am ragor o wybodaeth am beidio â chynnal CDU). Mae'r paragraffau isod yn ymdrin â'r cwestiwn hwn hefyd. Byddai'r cwestiwn hwn yn codi os yw person ifanc â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol newydd orffen addysg orfodol neu gwrs addysg bellach neu hyfforddiant, neu'n ymgymryd ag addysg bellach neu hyfforddiant mewn lleoliad arbenigol yn unol â'i CDU.

17.28 Er mai dim ond mewn perthynas â phobl ifanc y mae'r broses y darperir ar ei chyfer gan y rheoliadau yn gymwys, mae hefyd yn berthnasol i adolygiad o CDU gan awdurdod lleol ar gyfer plentyn yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol. Yn rhan o'r adolygiad hwnnw, dylai'r awdurdod lleol fod yn ystyried beth fydd yn digwydd pan fydd y plentyn yn gorffen addysg orfodol a'r hyn y gallai fod angen iddo ei sicrhau i'r plentyn ar ôl y pwynt hwnnw i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY. Os nad yw'r person ifanc (fel y bydd erbyn hynny) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi cofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach ar ôl peidio â bod o oedran ysgol gorfodol, bydd y rheoliadau ynghylch angenrheidrwydd y CDU yn berthnasol i'r adolygiad nesaf o'r CDU.

17.29 Felly, pryd bynnag y bo modd, mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn mynd drwy'r broses y darperir ar ei chyfer yn y rheoliadau yn ystod yr adolygiad ym

[17] Pan nad yw'r person ifanc wedi'i gofrestru fel disgybl mewn ysgol a gynhelir nac wedi cofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach.

mlwyddyn olaf addysg orfodol plentyn. Mae'n bwysig hefyd ei fod yn gwneud hynny'n ddigon cynnar yn y flwyddyn honno fel y gellir darparu, pan fo angen, ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ofynnol (sy'n adlewyrchu beth fydd hawliau'r plentyn pan fydd yn dod yn berson ifanc) yn y CDU a'i threfnu ymlaen llaw, gan osgoi unrhyw fwlch diangen yn ei addysg. Felly **dylai** awdurdodau lleol, wrth adolygu CDU ar gyfer plentyn yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol, roi sylw i ofynion y rheoliadau sy'n ymdrin â phenderfyniadau angenrheidiol ar gyfer pobl ifanc (a ddisgrifir isod[18]) a'r canllawiau arnynt isod.

17.30 Gallai'r broses y darperir ar ei chyfer yn y rheoliadau, a'r canllawiau isod arni, fod yr un mor berthnasol mewn sefyllfaoedd eraill, er enghraifft mewn adolygiad ar gyfer person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arbennig a gynhelir ac mae'n debygol mai hwn fydd yr adolygiad terfynol o'r CDU cyn i'r person ifanc beidio â bod yn ddisgybl cofrestredig.

17.31 Mae'r broses, y darperir ar ei chyfer gan y rheoliadau, o benderfynu a yw CDU yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant (p'un ai'r cwestiwn yw a oes angen llunio CDU neu a ddylid parhau i gynnal CDU) yn golygu mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- beth yw'r deilliannau y mae'r person ifanc yn dymuno'u gweld;
- pa ddarpariaeth ("rhaglen astudio") a allai fod ar gael a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni'r deilliannau dymunol hynny;
- a yw'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal neu barhau i gynnal CDU ar gyfer y person ifanc.

### Deilliannau dymunol y person ifanc

17.32 **Rhaid**[19] i'r awdurdod lleol nodi'n gyntaf a oes gan y person ifanc ddeilliannau dymunol a beth ydynt.

17.33 At y dibenion hyn, deilliant yw un sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer byd gwaith, symud ymlaen i addysg arall, gan gynnwys addysg uwch, neu gyfleoedd hyfforddi neu ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol neu sgiliau neu rinweddau defnyddiol eraill ar gyfer bywyd fel oedolyn.[20] Mae deilliannau'n ymwneud â galluogi'r person ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, gan gynnwys datblygu sgiliau byw'n annibynnol, cyfranogiad cymunedol, paratoi ar gyfer byd gwaith, neu symud ymlaen i gyfleoedd addysg (gan gynnwys addysg uwch) neu hyfforddiant eraill. Hefyd, mae'n bosibl y bydd ganddynt ffocws ehangach, er enghraifft cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol a chadernid a sefydlogrwydd emosiynol. Mae deilliannau dymunol posibl yn

[18] Mae'r gofynion yn rheoliadau 6 i 9 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 1 iddynt.
[19] Rheoliad 7(2) o'r Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[20] Rheoliad 6(1) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

cynnwys cwblhau cymhwyster galwedigaethol penodol neu ddatblygu sgiliau penodol ar gyfer byw'n annibynnol.

17.34 Wrth nodi deilliannau dymunol, mae'n hollbwysig ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddo[21] a'r hyn y mae eisiau ei gyflawni. Os yw'r person wedi bod â CDU o'r blaen, gallai hyn lywio'r mater hefyd. Hefyd, gall cyngor gan seicolegydd addysg neu weithwyr proffesiynol eraill fod yn ddefnyddiol i lywio'r mater hwn. At hynny, gallai cyngor gan gynghorwyr gyrfaoedd fod o gymorth. Os yw'r person ifanc eisoes yn dilyn rhaglen astudio a bod ganddo CDU, efallai mai'r cyfan fydd angen ei wneud yw cadarnhau â'r person ifanc mai ei ddeilliannau dymunol yw'r rhai a nodwyd o'r blaen gan yr awdurdod lleol.

**Nodi rhaglen astudio addas bosibl**

17.35 Ar ôl nodi deilliannau dymunol person ifanc, y cam nesaf yw nodi rhaglenni astudio addas posibl. Mae rhaglen astudio yn[22] un neu fwy o gyrsiau addysg bellach neu hyfforddiant, p'un a yw'n arwain at gymhwyster ai peidio. Yn achos mwy nag un cwrs, nid oes ots a yw'r cyrsiau'n cael eu dilyn ar yr un pryd ynteu'n olynol (ond os ydynt yn olynol rhaid iddynt fod yn rhan o raglen astudio gyffredinol). Er enghraifft, gallai rhaglen astudio olygu bod person ifanc yn astudio tuag at un neu fwy o gymwysterau, gallai fod yn gwrs a ddarperir gan sefydliad addysg bellach sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr ag ADY neu gallai fod yn gwrs mewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y person ifanc unigol, efallai i alluogi'r person ifanc i fanteisio ar gyrsiau prif ffrwd sy'n arwain at gymwysterau neu i alluogi'r person ifanc i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol yn unig.

17.36 **Rhaid**[23] i'r awdurdod lleol ystyried pa raglenni astudio a allai fod ar gael a fyddai'n addas ar gyfer galluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol.

17.37 Os yw'r person ifanc eisoes yn ymgymryd â rhaglen astudio, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried rhaglenni astudio eraill, cyhyd â'i fod yn fodlon bod y rhaglen astudio y mae'r person ifanc yn ymgymryd â hi yn parhau i fod yn addas i'w alluogi i gyflawni'r deilliannau dymunol.[24]

17.38 Fel arall, **rhaid**[25] i'r awdurdod lleol ystyried rhaglenni astudio mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach yn gyntaf (gallai hyn gynnwys ysgolion o'r fath a sefydliadau addysg bellach yn Lloegr). Yn amlach na pheidio, bydd y lleoliadau hynny'n gallu darparu rhaglen astudio

[21] **Rhaid** i'r awdurdod lleol wneud hyn: gweler adran 6 o'r Ddeddf a Phennod 4.
[22] Rheoliad 6(1) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[23] Rheoliad 7(2) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Gweler yr eithriad i hyn isod.
[24] Rheoliad 7(5) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[25] Rheoliad 7(3) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

addas ar gyfer person ifanc ag ADY a byddai anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY yn cael eu diwallu wrth ymgymryd â'r rhaglen.

17.39 Mewn rhai achosion, gallai fod yn syml nodi rhaglen astudio addas. Er enghraifft, gallai'r person ifanc nodi rhaglenni mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (er enghraifft, Safon Uwch neu raglen sy'n arwain at gymhwyster galwedigaethol) y mae'n dymuno eu dilyn a gwneud cais i'r sefydliad hwnnw am le. Os caiff y person ifanc ei dderbyn, yna gall yr awdurdod lleol fynd ymlaen i'r cwestiwn a oes angen iddo lunio CDU ar gyfer y person ifanc (gweler isod).

17.40 Mewn achosion eraill, efallai na fydd yn glir a allai deilliannau dymunol y person ifanc gael eu cyflawni gan ysgol prif ffrwd a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (gan gynnwys unrhyw un yn Lloegr). Efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol drafod gyda'r sefydliad addysg bellach lleol, er enghraifft, a allai'r person ifanc ymgymryd â rhaglen astudio yno a pha DDdY y gallai fod ei hangen i alluogi'r person i fanteisio ar unrhyw raglen astudio. Dylid cynnwys sefydliadau addysg bellach yn gynnar yn y broses o gynllunio ar gyfer pontio, a gallai cyfarfod â'r person ifanc fod yn rhan o hyn. Fodd bynnag, efallai na fydd angen i'r person ifanc ymweld â'r sefydliad addysg bellach bob amser er mwyn i'r sefydliad hwnnw benderfynu a yw'n gallu diwallu anghenion y person ifanc. Os oes gan berson ifanc anghenion sylweddol gymhleth a chyfannol, gallai'r sefydliad addysg bellach benderfynu, yn seiliedig ar ddisgrifiad manwl o anghenion yr unigolyn, a yw'n amlwg na allai ddarparu'r ddarpariaeth angenrheidiol.

17.41 Gallai fod angen i'r awdurdod lleol ystyried pa mor addas yw'r rhaglenni astudio posibl sydd ar gael, yn lleol ac ymhellach i ffwrdd. Ar ôl ystyried rhaglenni astudio mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach yn gyntaf, **caiff**[26] yr awdurdod lleol fynd ymlaen i ystyried a allai rhaglen astudio addas fod ar gael mewn ysgolion arbennig a gynhelir, neu mewn Academi.

17.42 Wrth ystyried a yw unrhyw raglen astudio bosibl yn addas, bydd angen i'r awdurdod lleol ddeall sut y disgwylir iddi alluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol a hefyd a oes unrhyw raglen bosibl yn addas ar gyfer y person ifanc. Bydd safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc yn hollbwysig.[27] Byddai hyn yn cynnwys sicrhau cydsyniad y person ifanc ar gyfer lleoliad arfaethedig neu ar gyfer unrhyw awdurdodiadau sydd eu hangen o bosibl. Bydd angen ystyried a yw unrhyw leoliad preswyl posibl yn cydymffurfio â safonau rheoleiddio ar gyfer sefydliadau preswyl.

17.43 Mewn llawer o achosion, bydd yr awdurdod lleol, neu hyd yn oed y person ifanc, yn nodi rhaglen astudio addas mewn ysgol a gynhelir, Academi neu sefydliad addysg bellach (boed yng Nghymru neu yn Lloegr) a chan ddarparu DDdY, bydd modd diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am

[26] Rheoliad 7 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[27] Gweler y ddyletswydd yn adran 6 o'r Ddeddf ynghylch cynnwys pobl ifanc.

DDdY i ymgymryd â'r rhaglen astudio honno. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai y byddai'n ymddangos yn debygol na ellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY i ymgymryd â rhaglen astudio addas oni bai bod yr awdurdod yn sicrhau'r canlynol ar gyfer y person ifanc-

(a) lle mewn sefydliad heblaw ysgol a gynhelir yng Nghymru neu Loegr, sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr neu Academi, neu
(b) darpariaeth bwyd a llety.

17.44 Os felly (a *dim ond* os felly), **caiff**[28] yr awdurdod lleol ystyried rhaglenni astudio mewn sefydliadau eraill (yng ngweddill y Bennod hon, defnyddir "sefydliad arbenigol" i gyfeirio at y sefydliadau eraill hyn). Gallai'r sefydliadau eraill hyn fod yn ysgol annibynnol yng Nghymru, yn ysgol arbennig nas cynhelir yn Lloegr, yn sefydliad addysgol annibynnol yn Lloegr, yn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol neu hyd yn oed mewn rhai achosion, yn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr sydd wedi'i drefnu i wneud y DDdY y byddai ei hangen ar y person ifanc.

17.45 Er mwyn ystyried rhaglenni astudio mewn sefydliadau arbenigol, nid oes rhaid iddi fod yn glir na ellir diwallu anghenion y person ifanc am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol yn sicrhau lle mewn sefydliad arbenigol neu ddarpariaeth bwyd a llety, ond mae'n rhaid i hynny fod yn *debygol*. Mewn geiriau eraill, mae angen rhywfaint o amheuaeth a ellid diwallu anghenion rhesymol y person am DDdY, er enghraifft, yn y sefydliad addysg bellach lleol. Os felly, gall yr awdurdod lleol ystyried a chymharu rhaglenni astudio mewn sefydliadau arbenigol er mwyn canfod beth fyddai'n diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY. Wrth wneud hynny, dylai gadw mewn cof y cyfyngiadau arno wrth sicrhau lleoliad mewn sefydliad arbenigol (trafodir y rhain ym Mhennod 23).

17.46 Lle byddai'n well gan berson ifanc gael lleoliad mewn sefydliad arbenigol (gan gynnwys un prif ffrwd), ond y gellir diwallu ei anghenion rhesymol am DDdY i wneud rhaglen astudio addas mewn ysgol a gynhelir, Academi neu sefydliad addysg bellach (gan gynnwys unrhyw un o'r rhain yn Lloegr), nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried rhaglen astudio yn rhywle arall. Nid yw'n ofynnol ychwaith i'r awdurdod lleol lunio CDU sy'n sicrhau lle yn y sefydliad a ffefrir gan y person ifanc.[29] Fodd bynnag, mewn sefyllfa o'r fath, **dylai'r** awdurdod lleol egluro wrth y person ifanc sut y gellid diwallu ei anghenion heb sicrhau lle iddo yn y sefydliad a ffefrir gan y person ifanc. Yn yr un modd, os yw'r person ifanc yn mynychu sefydliad arbenigol ac yn talu am hynny ei hun ond nad oes angen lleoliad yn y sefydliad hwnnw i ddiwallu ei anghenion rhesymol am DDdY, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc hwnnw, na sicrhau'r lleoliad.

17.47 Ymdrinnir ymhellach isod ag ystyried rhaglenni astudio mewn sefydliad arbenigol, ar ôl yr adran ynghylch pryd y mae angen CDU pan fo'r person

[28] Rheoliad 7(3)(b) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[29] Rheoliadau 7 a 9 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

ifanc i fynychu ysgol a gynhelir, Academi neu sefydliad addysg bellach (p'un a yw'r ysgol yng Nghymru neu yn Lloegr). Mae'r holl ganllawiau uchod ynghylch nodi a yw rhaglen astudio bosibl yn addas ar gyfer person ifanc hefyd yn berthnasol wrth nodi a yw rhaglen astudio bosibl mewn sefydliad arbenigol yn addas ar gyfer person ifanc.

17.48 Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol ystyried rhaglenni astudio posibl, nac yn wir nodi deilliannau dymunol person ifanc, os yw'n fodlon na fyddai gwneud hynny'n effeithio ar ei benderfyniad ynghylch a oes angen iddo lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.[30] Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, os yw'n amlwg nad yw'r person ifanc yn dymuno ymgymryd ag unrhyw addysg neu hyfforddiant neu os yw'n amlwg nad oes angen CDU ar gyfer y person ifanc.

**Penderfynu a oes angen CDU: rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir, Academïau a sefydliadau addysg bellach (gan gynnwys rhai yn Lloegr)**

17.49 Mae'r paragraffau canlynol yn ymdrin â phenderfynu pryd y mae angen CDU os yw'r person ifanc-

(a) yn mynd i fod yn ddisgybl cofrestredig neu ymgofrestru'n fyfyriwr mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (yn y naill achos neu'r llall, un yng Nghymru) i ymgymryd â rhaglen astudio i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc, neu
(b) eisoes, neu'n mynd i fod, yn ddisgybl cofrestredig neu gofrestru'n fyfyriwr mewn ysgol a gynhelir yn Lloegr, Academi neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr i ymgymryd â, neu i barhau i ymgymryd â, rhaglen astudio i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc.

17.50 Mewn achosion pan fyddai'n ofynnol[31] i awdurdod lleol ddisgrifio darpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall neu fwyd a llety) mewn unrhyw CDU, mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU, neu barhau i gynnal CDU, ar gyfer y person ifanc.[32] Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, os oes angen darpariaeth bwyd a llety ar y person ifanc er mwyn gallu dilyn rhaglen astudio mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach. Gweler Pennod 23 am ragor o wybodaeth ynghylch pryd y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ddisgrifio darpariaeth arall mewn CDU.

17.51 Os oes gan berson ifanc CDU eisoes a'i fod i gofrestru fel disgybl mewn ysgol a gynhelir (hynny yw, un yng Nghymru) neu gofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach (unwaith eto, un yng Nghymru), mae'n angenrheidiol i awdurdod lleol barhau i gynnal y CDU.[33] Gallai hyn fod yn

[30] Rheoliad 7(6) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[31] O dan adran 14(6) o'r Ddeddf.
[32] Rheoliad 8(1) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[33] Rheoliad 8(2) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

wir, er enghraifft, pe bai person ifanc â CDU wedi mynychu ysgol a gynhelir yn Lloegr neu ysgol annibynnol ar gyfer ei addysg orfodol a'i fod yn mynd i fynychu ysgol a gynhelir (yng Nghymru) ar gyfer addysg ôl-16. Mae angen parhau i gynnal y CDU yn yr achosion hyn (gan gynnwys achosion pan fyddai'n fwy priodol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ei gynnal) fel bod parhad, yn hytrach na'i bod yn ofynnol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach newydd benderfynu ar ADY a llunio CDU ar ôl i'r person ifanc gofrestru. Os yw'n fwy priodol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU, ar ôl i'r person ifanc gofrestru, **caiff**[34] yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal neu ofyn i'r sefydliad addysg bellach wneud hynny.

17.52 Mewn achosion eraill[35], os yw'r person ifanc i gofrestru fel disgybl mewn ysgol a gynhelir neu gofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach (hynny yw, yn y naill achos neu'r llall, un yng Nghymru), **rhaid**[36] i'r awdurdod lleol ystyried a yw'n rhesymol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sicrhau'r DDdY. **Rhaid**[37] i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ynghylch hyn.

17.53 Mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc os yw'r awdurdod lleol, ar ôl ymgynghori â'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, o'r farn nad yw'n rhesymol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sicrhau'r DDdY sydd ei hangen ar y person ifanc i allu ymgymryd â'r rhaglen astudio.[38]

17.54 Os yw'r awdurdod lleol o'r farn ei bod yn rhesymol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sicrhau'r DDdY, nid yw'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU.[39] Byddai'r ysgol a gynhelir neu'r sefydliad addysg bellach yn debygol o fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY a llunio a chynnal CDU ar ôl i'r person ifanc ddod yn ddisgybl cofrestredig neu gofrestru fel myfyriwr (mae Penodau 15 ac 16 yn ymdrin â'r dyletswyddau hyn).

17.55 Yn olaf, os yw'r person ifanc yn, neu'n mynd i fod yn, ddisgybl cofrestredig neu gofrestru fel myfyriwr mewn ysgol a gynhelir yn Lloegr, Academi neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr ac nad oes angen llunio neu barhau i gynnal CDU ar y sail a nodir ym mharagraff 17.50, **rhaid**[40] i'r awdurdod lleol ystyried a fyddai'r ysgol, perchennog yr Academi neu'r sefydliad addysg bellach yn sicrhau'r DDdY sydd ei hangen ar y person ifanc i allu ymgymryd â'r rhaglen astudio. **Rhaid**[41] i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol, y

[34] Adrannau 14(4) a 36 o'r Ddeddf yn y drefn honno. Gweler Penodau 15 a 28 am ragor o wybodaeth am gyfarwyddydau a cheisiadau o'r fath.
[35] Mewn geiriau eraill, os nad yw'n angenrheidiol llunio neu barhau i gynnal CDU yn y naill sefyllfa neu'r llall a ddisgrifir uchod.
[36] Rheoliad 8(3)(a) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[37] Rheoliad 8(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[38] Rheoliad 8(5)(a) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[39] Rheoliad 8(6) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[40] Rheoliad 8(3)(b) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[41] Rheoliad 8(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

perchennog neu'r sefydliad addysg bellach ynglŷn â hyn.  Byddai hyn yn berthnasol, er enghraifft, mewn sefyllfa pe bai plentyn sy'n byw yng Nghymru yn mynychu ysgol a gynhelir neu Academi yn Lloegr, ac ar ôl dod yn berson ifanc, yn aros yn yr ysgol honno i astudio yn y chweched dosbarth.

17.56 Mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU, neu barhau i gynnal CDU, ar gyfer y person ifanc os nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon, ar ôl ymgynghori â'r ysgol a gynhelir, perchennog yr Academi neu'r sefydliad addysg bellach, y byddai'r ysgol, y perchennog neu'r sefydliad addysg bellach yn sicrhau'r DDdY sydd ei hangen i'r person ifanc allu ymgymryd â'r rhaglen astudio.[42]

17.57 O dan y Ddeddf Plant a Theuluoedd[43], mae'n ofynnol i ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn Lloegr, perchenogion Academïau (nad ydynt yn ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yn Lloegr ymdrechu o'u gorau i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion addysgol arbennig eu disgyblion neu fyfyrwyr yn cael ei darparu. Mewn rhai achosion, gall y ddarpariaeth addysgol arbennig y byddai'r sefydliad yn ei darparu gwmpasu'r holl DDdY sydd ei hangen ar y person ifanc i allu ymgymryd â'r rhaglen astudio.  Os yw'r awdurdod lleol yn fodlon y bydd y DDdY sydd ei hangen ar y person ifanc yn cael ei darparu ar ei gyfer yn y sefydliad, nid oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc.[44]

## Achosion eraill

17.58 Fel yr esboniwyd uchod, dim ond os yw'n ymddangos yn debygol na ellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol yn sicrhau lle mewn sefydliad arbenigol neu ddarpariaeth bwyd a llety y caiff awdurdod lleol ystyried rhaglen astudio mewn sefydliad arbenigol.  Mae Pennod 23 yn rhoi rhagor o wybodaeth gyffredinol am y dyletswyddau i ddisgrifio mewn CDU, a sicrhau, lle mewn sefydliad penodol neu ddarpariaeth bwyd a llety, gan gynnwys y cyfyngiadau ar wneud hynny.

17.59 Pan fydd awdurdod lleol yn ystyried a yw rhaglen astudio mewn sefydliad arbenigol yn addas ar gyfer person ifanc, neu'n parhau'n addas (os yw'r person ifanc eisoes yn ymgymryd â hi), **rhaid**[45] iddo ystyried a oes gobaith realistig y byddai'r person ifanc yn cyflawni ei ddeilliannau dymunol drwy ymgymryd â'r rhaglen astudio, neu barhau i ymgymryd â hi (yn yr achos olaf hwn, parhau â hi ag unrhyw addasiadau arfaethedig iddi).  Gallai addasiadau o'r fath gynnwys, er enghraifft, newid yn lefel y rhaglen astudio sydd ei hangen ar y person ifanc oherwydd iddi ddod i'r amlwg, ar ôl dechrau'r rhaglen astudio, nad yw'r person ifanc mor alluog, neu'n fwy galluog, ar y

[42] Rheoliad 8(5)(b) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[43] Adran 66 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.
[44] Rheoliad 8(6) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[45] Rheoliad 7(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021.

lefel honno nag a ragwelwyd gyntaf yn ystod asesiad y sefydliad o'i anghenion.

17.60 Wrth ystyried a oes posibilrwydd realistig y bydd y person ifanc yn cyflawni ei ddeilliannau dymunol, **rhaid**[46] i'r awdurdod lleol ystyried y ffactorau canlynol:

(a) gallu'r person ifanc i ymgymryd â'r rhaglen astudio;
(b) addasrwydd y rhaglen astudio i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc;
(c) unrhyw ffactorau eraill y mae'r awdurdod lleol yn ystyried yn rhesymol eu bod yn berthnasol.

17.61 Wrth ystyried y ffactorau hynny, **rhaid**[47] i'r awdurdod lleol ystyried gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r ffactorau hynny, gan gynnwys unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y canlynol:

(a) y rhai sy'n ymwneud â darparu addysg neu hyfforddiant i'r person ifanc, neu'r rhai sydd wedi gwneud hynny'n ddiweddar;
(b) gweithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol, gan gynnwys unrhyw rai sy'n ymwneud â'r person ifanc;
(c) perchennog y sefydliad addysgol lle y gellid ymgymryd â rhaglen astudio arfaethedig;
(d) personau sy'n darparu cyngor gyrfaoedd, neu sy'n cael eu cyflogi gan gyrff sy'n darparu cyngor gyrfaoedd[48].

17.62 Nid yw hyn yn atal yr awdurdod lleol rhag ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Bydd safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc yn berthnasol ac yn bwysig iawn hefyd.[49]

17.63 Os yw person ifanc eisoes yn ymgymryd â rhaglen astudio, gall y person ifanc ddisgwyl cael cyfle teg i gwblhau'r cwrs. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd ar gyfraddau gwahanol ac nid yw cynnydd araf ar ddechrau rhaglen, yn enwedig os yw'r dysgwr yn addasu i leoliad newydd, staff addysgu newydd neu ffordd newydd o ddysgu, o reidrwydd yn golygu nad oes gan y dysgwr obaith realistig o gyflawni ei ddeilliannau dymunol erbyn diwedd y rhaglen. Ar y llaw arall, ar adegau prin, gallai ddod yn amlwg yn ystod rhaglen nad oes gobaith realistig mwyach y bydd y person ifanc yn gallu cyflawni ei ddeilliannau dymunol. Felly, os yw person ifanc eisoes yn

[46] Rheoliad 7(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddynt.
[47] Rheoliad 7(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddynt.
[48] Pan fo hyn yn unol â threfniadau a wneir neu gyfarwyddydau a roddir o dan adran 10 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973, er nad yw hynny'n golygu na fyddai cyngor gyrfaoedd arall yn berthnasol, o bosibl.
[49] Gweler y ddyletswydd yn adran 6 o'r Ddeddf.

ymgymryd â rhaglen astudio, **ni chaiff**[50] yr awdurdod lleol ddod i'r casgliad nad oes gobaith realistig mwyach y byddai parhau i ymgymryd â'r rhaglen astudio, fel y bwriadwyd o'r cychwyn cyntaf, yn galluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol oni bai ei fod wedi ystyried y ffactorau canlynol:

(a) bod pobl ifanc yn gwneud cynnydd ar wahanol gyfraddau ac efallai na fydd cynnydd person ifanc tuag at gyflawni'r deilliannau dymunol yn amlwg tan yn ddiweddarach yn y rhaglen astudio;
(b) disgwyliad y person ifanc o gael y cyfle i gwblhau'r rhaglen astudio fel y bwriadwyd ar y dechrau;
(c) a effeithiwyd ar allu'r person ifanc i ddysgu gan newid sylweddol yn amgylchiadau personol neu anghenion y person ifanc.

17.64 Dim ond pan fo gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, ac anghenion rhesymol am y DDdY yn y CDU, y gall fod yn angenrheidiol sicrhau lleoliad arbenigol drwy CDU. Mae hynny'n dibynnu ar fanylion y rhaglen astudio arfaethedig, neu raglen sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys gydag unrhyw addasiadau arfaethedig iddi. Mae'r paragraffau canlynol yn ymdrin â'r sefyllfaoedd pan fo gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.

17.65 Y man cychwyn yw bod gan berson ifanc hawl i hyd at ddwy flynedd o addysg bellach neu hyfforddiant. Y tu hwnt i hynny, gall awdurdod lleol benderfynu bod gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant mewn amgylchiadau penodol.

17.66 Yn benodol, mae gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant os nad yw hyd y rhaglen astudio addas y cynigir bod y person ifanc yn ymgymryd â hi, neu'n parhau i ymgymryd â hi, ynghyd ag unrhyw addysg bellach neu hyfforddiant arall a gyflawnir gan y person ifanc, yn fwy na dwy flynedd.[51] Os yw deilliant dymunol y person ifanc yn eithaf cyffredinol (er enghraifft, caffael sgiliau byw'n annibynnol) ni fyddai cyfnod rhesymol o amser ar gyfer rhaglen astudio fel arfer yn fwy na dwy flynedd academaidd a disgwylir i raglenni astudio pwrpasol gael eu cynllunio i'w cyflwyno dros y cyfnod hwn fel rheol.

17.67 At y dibenion hyn, mae hyd y rhaglen astudio yn mynd o'r diwrnod y mae'r person ifanc yn ei dechrau neu y disgwylir iddo ei dechrau ac yn gorffen y diwrnod y disgwylir i'r person ifanc ei chwblhau. Os yw hyd y rhaglen, neu ran ohoni, yn parhau o leiaf 38 wythnos mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn, dylid trin ei hyd, neu'r rhan honno ohoni, fel blwyddyn. Mae hyn er mwyn ystyried gwyliau yn ystod blwyddyn.[52]

[50] Rheoliad 7(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddynt.
[51] Rheoliad 9(1) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[52] Rheoliad 6(2) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

17.68 At ddibenion cyfrifo hyd unrhyw addysg bellach neu hyfforddiant blaenorol, ystyrir ei fod wedi dechrau ar ddechrau'r mis y dechreuodd y person ifanc yr addysg neu hyfforddiant ac wedi gorffen ar ddiwedd y mis i'r person ifanc gwblhau'r addysg neu hyfforddiant neu beidio â'i gael fel arall neu (pan fo'r person yn dal i ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant) y mae disgwyl iddo ei gwblhau neu roi'r gorau i'w gael fel arall. Yn yr un modd, os bydd hyd yr addysg bellach neu'r hyfforddiant blaenorol neu ran ohono, yn parhau o leiaf 38 wythnos mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn, mae ei hyd, neu'r rhan honno ohono, i'w drin fel blwyddyn.[53]

17.69 Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y bydd gan berson ifanc anghenion rhesymol i ymgymryd ag addysg bellach neu hyfforddiant am fwy na dwy flynedd. O dan y rheoliadau, **caiff**[54] awdurdod lleol benderfynu bod gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant dan y pedair set o amgylchiadau canlynol, ar yr amod ei fod wedi ystyried y ffactorau sy'n berthnasol i'r amgylchiadau penodol (nodir y rhain isod). Er y rhoddir enghreifftiau yng nghyd-destun rhai o'r ffactorau a nodir isod, mae'r enghreifftiau hyn yn gyffredinol iawn a bwriedir iddynt ddangos y math o sefyllfaoedd lle mae'r ffactorau'n debygol o fod yn berthnasol. Yn y pen draw, mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau yng ngoleuni'r holl amgylchiadau (a allai fod yn fwy cymhleth na'r enghreifftiau a roddir) ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

(1) Bwriedir i'r rhaglen astudio addas arfaethedig barhau am fwy na 2 flynedd ar y dechrau

17.70 O dan yr amgylchiadau hyn[55], bwriedir i'r rhaglen astudio addas y cynigir i'r person ifanc ymgymryd â hi (gan gynnwys os yw'n rhaglen astudio sy'n ychwanegol at addysg bellach neu hyfforddiant blaenorol) barhau dros gyfnod o fwy na 2 flynedd ar y dechrau.

17.71 At ddibenion penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant mewn perthynas â rhaglen astudio o'r fath, **rhaid**[56] i'r awdurdod lleol ystyried y ffactorau canlynol, pan fo'n berthnasol:

(a) pan fo'r rhaglen wedi'i chynllunio i ganiatáu i'r person ifanc allu dilyn cwrs addysg bellach neu hyfforddiant sy'n cael ei ddilyn gan bobl ifanc nad oes ganddynt ADY—

i. hyd arferol y cwrs i bobl ifanc nad oes ganddynt ADY, a
ii. a oes angen amser ychwanegol ar y person ifanc o'i gymharu â'r rhan fwyaf o bobl ifanc eraill nad oes ganddynt ADY, i gwblhau'r cwrs;

[53] Rheoliad 6(3) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[54] Rheoliad 9(2) a (3) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[55] Nodir ym mharagraff 3 o Atodlen 1 i Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[56] Rheoliad 9 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddynt.

(b) pan fo'r rhaglen astudio wedi'i chynllunio'n arbennig i ddarparu DDdY ar gyfer y person ifanc, a oes unrhyw resymau eithriadol yn ymwneud â gallu'r person ifanc i ddysgu fel na ellir cyflawni deilliannau dymunol y person yn realistig o fewn y cyfnod o 2 flynedd.

<u>(2) Estyniad arfaethedig i raglen astudio addas y mae'r person ifanc yn ymgymryd â hi</u>

17.72 O dan yr amgylchiadau hyn[57], nid yw'r person ifanc wedi gallu cwblhau rhaglen astudio addas (gan gynnwys lle'r oedd y rhaglen yn ychwanegol at addysg bellach neu hyfforddiant a wnaed gan y person ifanc yn flaenorol) o fewn cyfnod y rhaglen fel y'i bwriadwyd ar y dechrau, a chynigir ymestyn y rhaglen i alluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol ar ddechrau'r rhaglen ("deilliannau gwreiddiol") neu rai sy'n sylweddol debyg i'r deilliannau gwreiddiol ("deilliannau wedi'u haddasu").

17.73 At ddibenion penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol o dan yr amgylchiadau hyn, **<u>rhaid</u>**[58] i'r awdurdod lleol ystyried y ffactorau canlynol, pan fo'n berthnasol:

(a) a yw'r amgylchiadau sy'n arwain at yr estyniad arfaethedig yn anochel, er enghraifft, pan nad yw person ifanc wedi gallu cwblhau'r rhaglen astudio y cytunwyd arni oherwydd absenoldeb o ganlyniad i salwch annisgwyl, sydd yn y pen draw wedi effeithio ar ei allu i ddysgu. Ar y llaw arall, ni cheir ystyried materion fel methiant i gyflawni trefniadau pontio effeithiol yn anochel;

(b) a oes angen yr estyniad arfaethedig i alluogi'r person ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio a chyflawni'r deilliannau gwreiddiol neu'r rhai wedi'u haddasu, er enghraifft, yn achos salwch annisgwyl, ni fyddai'r amser sy'n weddill ar y rhaglen astudio yn ddigon i'r person ifanc gwblhau'r agweddau ar y rhaglen astudio sy'n weddill ac felly gyflawni'r deilliannau dymunol;

(c) a yw'r estyniad arfaethedig at ddiben y dylid bod wedi mynd i'r afael ag ef yn ystod cyfnod gwreiddiol y rhaglen astudio a phan fo hynny'n wir, y rhesymau pam na wnaed hynny;

(d) a yw'r estyniad arfaethedig yn gymesur â'r deilliannau gwreiddiol sydd heb eu cyflawni eto neu'r deilliannau wedi'u haddasu ac a oes angen estyniad o hyd arall o dan yr amgylchiadau;

(e) pan fo'r rhaglen astudio wedi'i hymestyn o'r blaen—

  i. a yw'r estyniad arfaethedig yn deillio o'r un ffeithiau â'r un blaenorol, a

  ii. a oes rhesymau eithriadol pam na lwyddodd y person ifanc i gyflawni'r deilliannau yn ystod yr estyniad blaenorol.

[57] Nodir ym mharagraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[58] Rheoliad 9 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddynt.

(3) Rhaglen astudio ychwanegol

17.74 O dan yr amgylchiadau hyn[59], mae'r rhaglen astudio addas y cynigir bod y person ifanc yn ymgymryd â hi yn ychwanegol at addysg bellach neu hyfforddiant y mae'r person ifanc eisoes wedi ymgymryd ag ef.

17.75 At ddibenion penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant mewn perthynas â rhaglen astudio ychwanegol, **rhaid**[60] i'r awdurdod lleol ystyried y ffactorau canlynol, pan fo'n berthnasol:

(a) nid yw'r person ifanc yn gallu elwa mewn ffordd ystyrlon ar yr addysg bellach neu'r hyfforddiant blaenorol oherwydd—

i. bod yr addysg bellach neu'r hyfforddiant blaenorol yn disgyn mor bell o dan y safon ddisgwyliedig fel na ellir dweud yn rhesymol bod y darparwr wedi darparu'r addysg neu'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc,

ii. newid sylweddol yn amgylchiadau personol neu anghenion y person ifanc. Er enghraifft, mae person ifanc wedi datblygu ADY yn ddiweddar (yn dilyn damwain o bosibl) neu mae ei ADY wedi gwaethygu ac o ganlyniad nid yw'n gallu defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn yr addysg neu'r hyfforddiant blaenorol, neu mae angen rhaglen astudio arno i ddysgu sgiliau yng ngoleuni ei ADY newydd, neu

iii. unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill;

(b) pan wnaeth y person ifanc ymgymryd â'r addysg bellach neu'r hyfforddiant blaenorol mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach, ni ellid bod wedi darparu elfen hanfodol a sylweddol o'r addysg bellach neu'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni deilliannau dymunol y person ifanc fel rhan o'r addysg bellach neu'r hyfforddiant blaenorol hwnnw;

(c) os oedd hyd yr addysg neu'r hyfforddiant blaenorol yn llai na 2 flynedd, cyfanswm hyd yr addysg neu'r hyfforddiant blaenorol hwnnw a'r rhaglen astudio arfaethedig ac a yw'r graddau y mae'r cyfanswm hwnnw'n fwy na dwy flynedd yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau. Er enghraifft, gallai sefyllfa godi pan oedd person ifanc wedi dechrau cwrs addysg neu hyfforddiant mewn sefydliad addysg bellach ond bod y person ifanc wedi rhoi'r gorau yn gynnar oherwydd na allai'r sefydliad addysg bellach, neu na alllai mwyach, ddiwallu anghenion y person ifanc yn ddigonol. Felly, efallai y bydd angen lleoliad arbenigol ar y person ifanc i ddiwallu ei anghenion ac o ystyried amgylchiadau'r addysg neu'r hyfforddiant blaenorol, gall rhaglen astudio sy'n parhau 2 flynedd fod yn rhesymol;

(d) a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill i awgrymu nad yw'r person ifanc wedi cael mynediad effeithiol i addysg bellach neu hyfforddiant.

[59] Nodir ym mharagraff 5 o Atodlen 1 i Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[60] Rheoliad 9 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a pharagraff 5 o Atodlen 1 iddynt.

17.76 Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu bod gan berson ifanc anghenion rhesymol am raglen astudio ychwanegol addas, gall y rhaglen astudio honno wedyn barhau am hyd at ddwy flynedd. Os cynigir bod y rhaglen astudio yn parhau'n hirach na hyn, bydd set amgylchiadau (1) uchod yn gymwys hefyd a bydd angen i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol iddi barhau mwy na dwy flynedd.

(4) Amgylchiadau eithriadol eraill

17.77 Yr amgylchiadau[61] hyn yw bod y sefyllfa'n debyg iawn i un neu fwy o'r amgylchiadau a nodir yn yr is-benawdau blaenorol.

17.78 Os felly, at ddibenion penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant mewn perthynas â'r rhaglen astudio addas arfaethedig, **rhaid**[62] i'r awdurdod lleol ystyried y ffactorau, pan fo'n berthnasol, sy'n gysylltiedig â'r amgylchiadau blaenorol y mae'r sefyllfa'n debyg iawn iddynt. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, yn achos person ifanc sydd eisoes yn dilyn rhaglen astudio mewn sefydliad arbenigol drwy ddulliau eraill (efallai drwy gynllun Addysg, Iechyd a Gofal os oedd gynt mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond bod awdurdod lleol yng Nghymru newydd ddod yn gyfrifol amdano), y bwriadwyd iddi barhau am fwy na 2 flynedd, a bod ei ADY wedi dod i sylw awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdano hanner ffordd drwy ei astudiaethau.

**Cynllun angenrheidiol yn achos lleoliad arbenigol**

17.79 Os oes gan y person ifanc, neu os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc, anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant[63], mae'n angenrheidiol[64] i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc, neu barhau i'w gynnal, pe bai neu os yw'r awdurdod lleol, wrth lunio neu gynnal CDU, o dan y ddyletswydd[65] i bennu lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall yn y CDU. Pan fo'r awdurdod lleol yn ystyried rhaglen astudio bosibl mewn sefydliad arbenigol, ar yr amod bod gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, neu fod yr awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, mae'n debygol y bydd angen CDU. Mae'n bosibl mai dim ond os bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau'r lleoliad arbenigol y gellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY i wneud rhaglen astudio addas. Neu efallai y gallai anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY gael eu diwallu wedi'r cyfan gan ysgol a gynhelir, Academi neu

[61] Nodir ym mharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[62] Rheoliad 9 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddynt.
[63] Yn achos penderfyniad gan awdurdod lleol bod gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, pan fo'r person ifanc wedyn yn ymgymryd â rhaglen astudio addas yn unol â'r penderfyniad hwnnw a CDU, mae'r person ifanc yn parhau i fod ag anghenion rhesymol am yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw: Rheoliad 9 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[64] Rheoliad 9(5) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[65] Yn adran 14(6) o'r Ddeddf.

sefydliad addysg bellach (gan gynnwys unrhyw un yn Lloegr) ac os yw'r person ifanc i fynychu sefydliad o'r fath, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal neu barhau i gynnal CDU (mae paragraffau 17.49 – 17.57 yn ymdrin â hyn).

17.80 Mewn rhai achosion, os oes gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, neu os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion o'r fath, gallai awdurdod lleol nodi mwy nag un rhaglen astudio addas arfaethedig. Yn yr achos hwn, wrth ddewis rhyngddynt, gall yr awdurdod lleol ystyried a yw'r dewisiadau amgen yn gydnaws â'r angen i osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

17.81 Os nad oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant neu os nad yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan y person ifanc anghenion o'r fath, nid yw'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal, neu barhau i gynnal, CDU ar gyfer y person ifanc.[66]

## *Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer person ifanc*

17.82 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod angen iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant, mae'n **rhaid**[67] iddo lunio CDU ar gyfer y person hwnnw oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r cynllun gael ei lunio.

17.83 Wrth lunio'r CDU, **rhaid**[68] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid ceisio cyngor gan seicolegydd addysg. **Rhaid**[69] i'r awdurdod lleol ofyn am gyngor o'r fath os yw o'r farn bod y cyngor yn angenrheidiol i bennu-

(a) graddau neu natur yr ADY a all fod gan y person ifanc, neu
(b) y DDdY y mae ADY y person ifanc yn galw amdani.

17.84 **Rhaid**[70] i'r cyngor a geisir ymwneud ag:

(a) nodweddion addysgol neu seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol neu hyfforddiant y person ifanc (gan gynnwys anghenion tebygol y person ifanc yn y dyfodol),
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol neu hyfforddiant y person ifanc, ac
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y person ifanc yng ngoleuni'r nodweddion hynny, p'un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau eraill o

[66] Rheoliad 9(6) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[67] Adran 14(1) i (3) o'r Ddeddf.
[68] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[69] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[70] Gofyniad a osodir gan y Cod.

ddarpariaeth, ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno'r ddarpariaeth honno.

17.85 Efallai y bydd angen cyngor o'r fath hefyd i lywio'r materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried yn rhan o'i benderfyniad ynghylch a oes angen CDU i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant. Gallai fod yn ddefnyddiol hyd yn oed mewn achosion lle mae'r awdurdod lleol yn dod i'r casgliad nad yw'n angenrheidiol iddo lunio a chynnal CDU.

17.86 Cyn cwblhau'r CDU, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft o'r CDU, a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys diweddaru'r CDU drafft o bosibl, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

17.87 Ar ôl ei lunio, **rhaid**[71] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r person ifanc.

17.88 Mae'n **rhaid**[72] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ynghylch a yw CDU yn angenrheidiol, llunio'r CDU a rhoi copi ohono'n brydlon ac yn sicr o fewn 12 wythnos i gael cydsyniad y person ifanc i wneud y penderfyniad ynghylch a oes gan y person ADY.

17.89 Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y pethau hynny o fewn y cyfnod o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[73]

17.90 Wrth roi copi o'r CDU, **rhaid**[74] i'r awdurdod lleol hefyd roi i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[75];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[76] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[77]
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[78]

[71] Adran 22 o'r Ddeddf.
[72] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[73] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[74] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[75] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[76] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[77] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[78] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad yw'n angenrheidiol llunio a chynnal CDU ar gyfer person ifanc*

17.91 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu nad yw'n angenrheidiol iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg a hyfforddiant, **rhaid**[79] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.

17.92 **Rhaid**[80] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a chyflwyno'r hysbysiad yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos i gael cydsyniad y person ifanc i wneud y penderfyniad ynghylch a oes gan y person ifanc ADY ai peidio.

17.93 Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[81]

17.94 Wrth roi'r hysbysiad, **rhaid**[82] i'r awdurdod lleol hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[83];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau,[84] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[85]
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[86]

17.95 Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc drafod hyn ymhellach. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio'r person ifanc at ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill ynglŷn â chyrsiau addysg neu gyngor gyrfaoedd.

## *Cynnal CDU ar gyfer y person ifanc*

17.96 Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer person ifanc, **rhaid**[87] iddo gynnal y CDU hwnnw oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r CDU gael ei gynnal.

[79] Rheoliad 10 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[80] Rheoliad 10 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[81] Rheoliad 10 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[82] Rheoliad 10 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[83] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[84] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[85] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[86] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[87] Adran 14(1) i (3) o'r Ddeddf.

17.97 Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc, canlyniad hyn yw y bydd angen iddo gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynnal CDU, y cyfeirir atynt yn y paragraffau nesaf.

17.98 Os yw awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[88] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall neu ddarpariaeth bwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY) a ddisgrifir yn y cynllun. Nid yw hyn yn gymwys i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth perthnasol a nodir gan un o gyrff y GIG. Yn yr achos hwn, **rhaid**[89] i gorff perthnasol y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn pennu y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[90] i'r awdurdod lleol (neu gorff y GIG pan fo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei darparu yn Gymraeg.

17.99 Mae dyletswyddau[91] ar awdurdod lleol i adolygu CDU y mae'n ei gynnal hefyd (gweler Pennod 25).

17.100 **Ni chaiff**[92] yr awdurdod lleol godi tâl ar y person ifanc am unrhyw DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth y mae'n ei sicrhau ar gyfer y person ifanc o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

17.101 Gallai dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU beidio mewn amgylchiadau penodol. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 29. Gall hefyd drosglwyddo i gorff arall. Rhoddir gwybodaeth am drosglwyddo CDU ym Mhennod 28.

[88] Adran 14(10)(a) a (b) o'r Ddeddf.
[89] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[90] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[91] Adran 23 o'r Ddeddf.
[92] Adran 49(1) o'r Ddeddf.

# Pennod 18: Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol

## *Cyflwyniad*

18.1. Mae'r bennod hon yn trafod plant a phobl ifanc sydd mewn amgylchiadau penodol.

18.2. Dyma'r grwpiau hyn:

(a) plant a phobl ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir neu'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach[1];
(b) plant a phobl ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol ac sy'n mynychu ysgolion a gynhelir, academïau neu sefydliadau addysg bellach yn Lloegr;
(c) plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (gan gynnwys mewn Uned Cyfeirio Disgyblion) gan awdurdod lleol;
(d) plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol oherwydd anghenion gofal iechyd;
(e) amgylchiadau eraill lle mae plant yn derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru (mae hyn yn cynnwys plant a addysgir yn y cartref a'r rhai sy'n mynychu ysgolion annibynnol);
(f) plant gweithwyr o'r lluoedd arfog.

## *Plant a phobl ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir neu'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach (yn y ddau achos, yng Nghymru)*

18.3. Os yw plentyn neu berson ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu'n berson ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, mae gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ddyletswyddau i benderfynu a oes gan y plentyn/person ifanc ADY a llunio a chynnal CDU ar ei gyfer. Disgrifir y dyletswyddau hyn, a'r eithriadau iddynt, ym Mhenodau 12, 15 ac 16.

18.4. Gan nad yw awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc o'r fath, nid yw dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi cofrestru fel disgyblion mewn ysgol a gynhelir neu wedi ymrestru fel myfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach (fel y'u disgrifir ym Mhenodau 12, 15 ac 16) yn berthnasol mewn cysylltiad â disgyblion a myfyrwyr o'r fath. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau'n ymwneud ag ailystyriaethau gan awdurdodau lleol a ddisgrifir ym Mhenodau 26 a 12 a 15 yn berthnasol gydag addasiadau mewn achosion lle mae disgybl sy'n

[1] Fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, mae cyfeiriadau yn y Cod hwn at ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol yn gyfeiriadau at ysgolion a gynhelir yng Nghymru, sefydliadau addysg bellach yng Nghymru neu awdurdodau lleol yng Nghymru oni nodir yn wahanol.

mynychu ysgol a gynhelir yn dod o dan ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Y prif addasiad yw taw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol sy'n gyfrifol am ailystyried y penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio, a hefyd am ailystyried CDU. Disgrifir hyn, ac addasiadau pellach, yn y Penodau hynny.

18.5. Mae dyletswyddau awdurdod lleol mewn perthynas â gwneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol, fel y nodir ym Mhennod 32, yn cynnwys gwneud trefniadau o'r fath ar gyfer plant neu bobl ifanc yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr sydd wedi cofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yn ei ardal neu wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yn ei ardal[2].

## *Plant a phobl ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol ac yn mynychu ysgolion a gynhelir, academïau neu sefydliadau addysg bellach yn Lloegr*

18.6. Os yw plentyn neu berson ifanc mewn ardal awdurdod lleol ond yn mynychu ysgol a gynhelir, academi neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr, mae gan yr awdurdod lleol[3] ddyletswyddau i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac i lunio a chynnal CDU ar ei gyfer. Disgrifir y dyletswyddau hyn a'r eithriadau iddynt ym Mhenodau 11, 13, 14 a 17. Yn achos person ifanc sydd ag ADY, mae ei hawl i gael CDU yn dibynnu ar benderfyniad yr awdurdod lleol ynglŷn â'r rheidrwydd iddo gynnal CDU i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc i gael addysg neu hyfforddiant (gweler Pennod 17).[4]

18.7. Os bydd plentyn neu berson ifanc sydd â CDU yn mynychu sefydliad o'r fath yn Lloegr, **rhaid**[5] i'r awdurdod lleol sicrhau'r DDdY a nodir yn y CDU. I wneud hynny, **dylai'r** awdurdod lleol weithio gyda'r ysgol honno neu'r sefydliad addysg bellach hwnnw i sicrhau bod y DDdY a ddisgrifir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei chyflwyno. **Caiff**[6] yr awdurdod lleol ofyn am wybodaeth neu gymorth arall sydd ei angen arno i arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr, neu gan berchennog academi. **Rhaid**[7] i'r corff llywodraethu neu'r perchennog gydymffurfio â'r cais hwnnw oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud hynny'n anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau (gweler Pennod 21 am ragor o wybodaeth am hyn).

[2] Adran 87(4) o'r Ddeddf.
[3] Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn sydd â'r dyletswyddau hyn (gweler Pennod 14).
[4] Adrannau 14(1)(c) a 31(6)(b) o'r Ddeddf a Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[5] Adrannau 14(10) a 19(7) o'r Ddeddf, oni bai ei bod yn DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG.
[6] Adran 65 o'r Ddeddf.
[7] Adran 65 o'r Ddeddf.

18.8. Mae ysgol neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr yn debygol hefyd o fod â dyletswydd i'r plentyn neu'r person ifanc o dan system Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd Lloegr[8].

## *Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol*

18.9. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau mewn perthynas â darparu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol. Mae dyletswydd[9] arnynt i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas i blant o oedran ysgol gorfodol na fyddent efallai, am ba reswm bynnag, yn derbyn addysg addas fel arall. Mae ganddynt bŵer[10] i wneud yr un peth ar gyfer pobl ifanc hefyd. Gall y plentyn neu'r person ifanc fod yn sâl neu wedi'i anafu neu wedi cael ei wahardd. Gall y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD), ysgolion mewn ysbytai, sefydliadau addysg bellach, ac addysg unigol gartref (mae hyn yn wahanol i addysg ddewisol yn y cartref).

18.10. Mae Uned Cyfeirio Disgyblion o fewn y diffiniad o ysgol a gynhelir at ddibenion y system ADY.[11] Mae ei bwyllgor rheoli yn gyfrifol[12] am y swyddogaethau a osodir ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, o dan y system ADY (gan gynnwys y rhai a ddisgrifir ym Mhennod 12). Felly, os daw i sylw pwyllgor rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion, neu os yw'n ymddangos fel arall iddo, y gallai disgybl (ac eithrio plentyn sy'n derbyn gofal) fod ag ADY, **rhaid**[13] i bwyllgor rheoli'r Uned benderfynu a oes gan y disgybl ADY, oni bai bod eithriad yn berthnasol. Trafodir y ddyletswydd hon, yr eithriadau a'r dyletswyddau cysylltiedig (gan gynnwys y ddyletswydd i lunio CDU) ym Mhennod 12.

18.11. Os yw plentyn neu berson ifanc (nad yw mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach) yn cael ei addysgu drwy ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac nad yw hynny mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, ac os dygir i sylw'r awdurdod lleol cyfrifol, neu os yw'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, neu yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, os dygir i sylw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn neu os yw'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y plentyn ADY, **rhaid**[14] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, oni bai bod eithriad yn gymwys. Trafodir y ddyletswydd hon, yr eithriadau a'r dyletswyddau cysylltiedig (gan gynnwys y ddyletswydd i lunio CDU) ym Mhenodau 13, 14 a 17.

---

[8] O dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Er enghraifft, y ddyletswydd yn adran 66 i wneud eu gorau glas i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig sydd ei hangen ar anghenion addysgol arbennig disgybl neu fyfyriwr yn cael ei gwneud.
[9] Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996.
[10] Adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996.
[11] Gweler y diffiniad o "ysgol a gynhelir" yn adran 99(1) o'r Ddeddf a'r eirfa ym Mhennod 1.
[12] Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddirprwyo eu swyddogaethau fel corff llywodraethu'r Uned Cyfeirio Disgyblion i bwyllgor rheoli'r Uned honno.
[13] Adran 11 o'r Ddeddf.
[14] Adran 13 o'r Ddeddf ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, adran 18 o'r Ddeddf.

18.12. Os oes gan blentyn neu berson ifanc CDU eisoes cyn i addysg heblaw yn yr ysgol gael ei threfnu, ac os yw'n cael ei gynnal gan ysgol, bydd dyletswydd yr ysgol i gynnal y CDU yn peidio os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig[15]. Os yw hyn yn wir, mae'r awdurdod lleol cyfrifol yn debygol o fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, ac os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, mae'r dyletswyddau i lunio a chynnal[16] CDU yn debygol o fod yn gymwys (gweler Penodau 13, 14 a 17). Dylai'r awdurdod lleol allu gwneud y pethau hyn yn weddol gyflym gan ystyried y CDU blaenorol (gweler paragraffau 28.35 – 28.36). Fodd bynnag, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ar unwaith, yna bydd pwyllgor rheoli'r Uned yn dod yn gyfrifol am gynnal y CDU (gweler Pennod 28[17] am ragor o fanylion am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal CDU).

18.13. Os trefnwyd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gall plentyn neu berson ifanc barhau i fod wedi'i gofrestru'n ddisgybl yn yr ysgol wreiddiol (a oedd yn cynnal y CDU). Fodd bynnag, os yw'r disgybl yn cael ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad (er enghraifft, trwy ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn Uned Cyfeirio Disgyblion a bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r ysgol i ddarparu addysg i'r disgybl), yr awdurdod lleol fydd yn dod yn gyfrifol am gynnal y CDU (gweler Pennod 28[18]). Fel arall, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol wreiddiol wrth dderbyn addysg heblaw yn yr ysgol ac eithrio fel disgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach (er enghraifft, os yw'r disgybl yn derbyn hyfforddiant unigol gartref neu yn yr ysbyty oherwydd salwch tra ei fod dal yn ddisgybl), gall fod yn fwy priodol i'r awdurdod lleol cyfrifol gymryd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU. Yn yr amgylchiadau hyn, **dylai'r** ysgol ofyn iddo wneud hynny[19]. (Gweler Pennod 26 i gael rhagor o wybodaeth am awdurdodau lleol yn cymryd y cyfrifoldeb am CDU.)

18.14. Os oes gan y plentyn neu'r person ifanc eisoes CDU a gynhelir gan awdurdod lleol pan fydd y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei threfnu, **rhaid**[20] i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y CDU (oni bai a hyd nes bod unrhyw un o'r amgylchiadau'n codi a fyddai'n golygu bod y ddyletswydd i'w gynnal yn peidio - gweler Pennod 29). Yn aml, byddai'n briodol i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid.

18.15. Dim ond os yw'n fodlon y byddai'n amhriodol i'r DDdY gael ei gwneud mewn ysgol y **caiff**[21] awdurdod lleol drefnu i'r DDdY a ddisgrifir mewn CDU y

[15] Adran 31(1)(a) o'r Ddeddf.
[16] Yn achos person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig nac yn fyfyriwr sydd wedi ymrestru, y ddyletswydd gyntaf yw penderfynu a oes angen llunio a chynnal CDU – gweler Pennod 17.
[17] Ac adran 35(1) a (3) o'r Ddeddf.
[18] Ac adran 30(3) - (7) o'r Ddeddf.
[19] O dan adran 28 o'r Ddeddf.
[20] Adran 14(2)(a), neu yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, adran 19(2), o'r Ddeddf.
[21] Adran 53 o'r Ddeddf.

mae’n ei gynnal ar gyfer plentyn, neu unrhyw ran o’r DDdY honno, gael ei gwneud mewn man ac eithrio mewn ysgol. Mae hyn yr un mor berthnasol o ran plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, ond pan nad yw'r addysg honno'n cael ei darparu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, mae'n bosibl y bydd yr amgylchiadau sy'n arwain at yr angen am addysg heblaw yn yr ysgol hefyd yn golygu na fyddai'n briodol i DDdY y plentyn gael ei chyflwyno mewn ysgol.

18.16. Yn achos plentyn sy’n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ond nid mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, efallai y bydd yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy’n rhan o’r broses CDU yn ehangach ac, mewn rhai achosion, yn wahanol i’r gweithwyr proffesiynol hynny sy’n rhan o’r broses pan fo plentyn yn mynd i ysgol.

**Plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol oherwydd anghenion gofal iechyd**

18.17. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd*[22], yn mynd i'r afael â'r trefniadau i'w gwneud gan ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr o dan 18 oed sydd ag anghenion gofal iechyd.

18.18. Mae'r dyletswyddau o dan y Ddeddf yr un mor berthnasol i blentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys os oes rhywbeth yn amharu ar ei addysg, er enghraifft, am iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty am gyfnod hir. Mae hyn yn cynnwys cael ei dderbyn i'r ysbyty yn orfodol o dan Ran 2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983[23]. Fodd bynnag, gallai'r amgylchiadau ei gwneud yn briodol neu'n angenrheidiol i awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach arfer eu swyddogaethau mewn ffordd benodol, er enghraifft:

(a) os caiff plentyn neu berson ifanc sydd â CDU ei dderbyn i'r ysbyty am gyfnod hir o amser, gallai fod yn briodol neu hyd yn oed yn angenrheidiol adolygu'r CDU (Gweler Pennod 25 ar adolygiadau);
(b) os yw ysgol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd angen derbyn addysg heblaw yn yr ysgol am fwy na chyfnod byr iawn, fel yr esboniwyd uchod, gall fod yn briodol i'r awdurdod lleol gymryd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun (gweler Pennod 26 ar awdurdodau lleol yn cymryd y cyfrifoldeb am CDU).
(c) os yw plentyn neu berson ifanc ag anghenion gofal iechyd yn dychwelyd i addysg brif ffrwd yn dilyn cyfnod hir yn yr ysbyty, gallai fod yn briodol i awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU gyfarwyddo'r ysgol a gynhelir lle y mae'r person yn ddisgybl cofrestredig i gynnal y cynllun a/neu i'r cynllun gael ei adolygu oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid (gweler

[22] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cefnogi-dysgwyr-ag-anghenion-gofal-iechyd.pdf.
[23] Ar gyfer cadw mewn ysbyty o dan ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (h.y. yn ystod achos troseddol neu o dan ddedfryd) gweler Pennod 19.

Penodau 12 a 15 ar gyfarwyddo ysgol a gynhelir a Phennod 25 ar adolygiadau).

## *Amgylchiadau eraill lle mae plant yn derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir*

18.19. O dan amgylchiadau eraill lle mae plentyn yn derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn, neu os yw'r plentyn yn derbyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn, sydd â dyletswyddau i benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac i lunio a chynnal CDU.[24] (Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol os yw'r plentyn yn destun gorchymyn cadw – gweler Pennod 19.)

18.20. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a'r rheini sy'n mynychu ysgol annibynnol er nad ydynt wedi'u lleoli yno gan yr awdurdod lleol (ar gyfer plant sy'n cael eu lleoli gan awdurdod lleol mewn ysgol annibynnol, gweler Pennod 13).

### Plant sy'n derbyn addysg yn y cartref

18.21. Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos fel arall i awdurdod lleol y gallai plentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n derbyn addysg yn y cartref (ac eithrio plentyn sy'n derbyn gofal[25]), fod ag ADY, **rhaid**[26] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio ac, os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo llunio a chynnal CDU a sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y cynllun hwnnw (gweler Pennod 13 am ragor o fanylion am y dyletswyddau hyn a'r eithriadau iddynt).

18.22. Mae gan riant ddyletswydd i beri i'w blentyn dderbyn addysg lawn amser effeithlon sy'n addas i'w oedran, ei allu a'i ddawn ac i dderbyn unrhyw DDdY a allai fod gan y plentyn naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.[27]

18.23. **Dylai** awdurdod lleol sy'n llunio neu'n adolygu CDU ar gyfer plentyn a addysgir yn y cartref, weithio gyda'r plentyn a rhiant y plentyn i nodi'r DDdY briodol ac yna ei sicrhau. Mae hyn yn cynnwys nodi'r math o DDdY y mae anghenion y plentyn yn galw amdani ac a fydd y rhiant yn gallu ei chyflwyno (naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefnu i rywun arall ei chyflwyno). Yn dilyn hynny, os yw'r rhiant am ei chyflwyno fel rhan o addysg y plentyn yn y cartref, er mwyn sicrhau'r DDdY a nodir yn y CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol fodloni ei hun ei bod yn cael ei chyflwyno. Pan nad yw'r rhieni'n gallu

[24] Adrannau 13, 14, 18 a 19 o'r Ddeddf.
[25] Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal (ar yr amod nad yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr), mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn i benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio ac mae hefyd yn debygol o fod â dyletswyddau i lunio a chynnal CDU a sicrhau'r DDdY a ddisgrifir ynddo: adrannau 18 a 19 o'r Ddeddf (gweler Pennod 14 am ragor o fanylion).
[26] Adrannau 13 a 14 o'r Ddeddf.
[27] Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.

darparu'r holl DDdY y mae anghenion y plentyn yn galw amdani, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried sut y gellir sicrhau'r DDdY. Gall fod ffyrdd amrywiol o wneud hyn. Er enghraifft, mewn rhai achosion, gellid gwneud hynny drwy ddarpariaeth ychwanegol a drefnir gan yr awdurdod lleol i ategu'r addysg a ddarperir gan y rhiant yn y cartref, neu gallai olygu darparu hyfforddiant i helpu'r rhiant i ddarparu'r DDdY angenrheidiol yn y cartref. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau addysg er mwyn sicrhau addysg i'r plentyn mewn ysgol benodol.

### Plant sy'n mynychu ysgol annibynnol

18.24. Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos fel arall i awdurdod lleol y gallai plentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n mynychu ysgol annibynnol (ac eithrio plentyn sy'n derbyn gofal)[28], fod ag ADY, **rhaid**[29] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio ac, os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo llunio a chynnal CDU a sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y cynllun hwnnw (gweler Pennod 13 am ragor o fanylion am y dyletswyddau hyn a'r eithriadau iddynt).

18.25. Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol benderfynu a oes gan blentyn sy'n mynychu'r ysgol ADY, na chynnal CDU ar gyfer disgyblion ag ADY, ac nid ydynt ychwaith yn destun dyletswyddau eraill o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, maent yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau ar gyfer ysgolion annibynnol, sy'n cynnwys safonau ynghylch ansawdd addysg a darparu gwybodaeth gan yr ysgol annibynnol.[30] **Dylai** awdurdod lleol sy'n penderfynu a oes gan blentyn sy'n mynychu ysgol annibynnol ADY neu sy'n llunio neu'n adolygu CDU ar gyfer plentyn o'r fath, weithio gyda'r ysgol annibynnol i adnabod unrhyw ADY a nodi DDdY. Wrth gynnal CDU ar gyfer plentyn o'r fath, er mwyn sicrhau'r DDdY a bennir ynddo, **dylai'r** awdurdod weithio gyda'r ysgol i'w fodloni ei hun ei fod yn cael ei gyflwyno.

## _Plant a phobl ifanc y lluoedd arfog_

18.26. Mae'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn darparu un ffocws y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â rhiant sy'n aelod o'r lluoedd arfog ("plant a phobl ifanc y lluoedd"). Mae'r Gwasanaeth Cynghori Addysg Plant (CEAS) yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth ac yn darparu cyngor, cymorth ac arweiniad ynghylch llesiant addysgol y plant a phobl ifanc sy'n perthyn i deuluoedd ym mhob un o'r tair o'r lluoedd a sifiliaid cymwys y weinyddiaeth Amddiffyn sydd wedi'u lleoli dramor. Mae Ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu addysg

[28] Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r dyletswyddau hyn ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn: adrannau 18 a 19 o'r Ddeddf (gweler Pennod 14 am ragor o fanylion).
[29] Adrannau 13 a 14 o'r Ddeddf.
[30] Darperir ar ei gyfer yn Rhan 10 o Ddeddf Addysg 2002 a Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

brif ffrwd ar gyfer plant a phobl ifanc y lluoedd mewn rhai lleoliadau tramor. Gan fod yr adnoddau sydd ar gael dramor yn wahanol i'r rhai yn y DU, mae gwasanaethau'r Weinyddiaeth yn cwblhau Asesiad o Gynaliadwyedd Dramor ar gyfer holl blant a phobl ifanc y lluoedd arfog sydd ag anghenion cymhleth cyn cytuno ar leoliad tramor.

18.27. Gall plant a phobl ifanc y lluoedd wynebu anawsterau sy'n unigryw i natur cyflogaeth eu rhieni. Efallai y bydd yr anghenion hyn yn codi o ganlyniad i:

(a) symud oherwydd gwasanaeth – efallai y bydd aelodau o'r lluoedd arfog yn adleoli'n amlach na gweddill y boblogaeth ac, weithiau, ar fyr rybudd. Bydd angen i drosglwyddiadau o'r fath gael eu rheoli'n dda er mwyn osgoi oedi wrth adnabod a diwallu ADY plant a phobl ifanc y lluoedd arfog;
(b) gall plentyn neu berson ifanc brofi gorbryder, gostyngiadau mewn perfformiad addysgol a/neu anawsterau emosiynol wrth i'w rhieni sy'n gwasanaethu gael eu lleoli mewn arenâu ymgyrchol, a gallai hynny gyfrannu at ADY neu eu gwaethygu. Gall plant a phobl ifanc wynebu trafferthion tebyg hefyd os bydd eu brodyr neu eu chwiorydd yn cael eu hanfon i sefyllfaoedd ymgyrchol.

18.28. **Dylai** awdurdodau lleol ystyried anghenion penodol unrhyw gymunedau lluoedd arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc y lluoedd arfog sydd ag ADY (gweler Pennod 5 am ragor o gyfarwyddyd ar adolygu DDdY yn rheolaidd).

18.29. Wrth benderfynu ar ADY[31] neu wrth lunio neu adolygu CDU[32] ar gyfer plant a phobl ifanc y lluoedd, **rhaid**[33] i ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol-

(a) ystyried unrhyw faterion perthnasol sy'n codi o natur gwasanaeth eu rhieni (e.e. effeithiau symudiadau oherwydd y gwasanaeth);
(b) ystyried gofyn am gyngor gan y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant; a
(c) defnyddio'r holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc – gan gynnwys unrhyw gynlluniau addysgol blaenorol neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud ag anghenion y plentyn neu'r person ifanc, megis cynllun EHC (mewn perthynas â Lloegr), datganiad (mewn perthynas â Gogledd Iwerddon), Cynllun Cymorth Cydlynus (mewn perthynas â'r Alban) ac Asesiad o Angen Plant y Lluoedd a gwblhawyd gan Ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn.

[31] O dan adran 11 (ysgol neu sefydliad addysg bellach) neu adrannau 13, 18 neu 40 (awdurdod lleol) o'r Ddeddf.
[32] O dan adran 12 (ysgol neu sefydliad addysg bellach) neu adrannau 14, 19 neu 40 (awdurdod lleol) o'r Ddeddf (llunio CDU) neu o dan adrannau 23 neu 24 o'r Ddeddf (adolygu CDU).
[33] Gofyniad a osodir gan y Cod.

# Pennod 19: Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw

## *Cyflwyniad a thermau allweddol*

19.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r sefyllfa ar gyfer plant a phobl ifanc sydd:

(a) yn ddarostyngedig gorchymyn cadw ac yn cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. Defnyddir y term "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" yn y Cod a'r Ddeddf i ddisgrifio plant a phobl ifanc yn y sefyllfa hon[1].
(b) yn ddarostyngedig i orchymyn cadw ac yn cael ei gadw mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983") yn ystod achos troseddol neu i'w ddedfrydu.

19.2 Mae'r bennod hon yn ymdrin â hawliau plant a phobl ifanc yn y ddwy sefyllfa hyn i gael penderfyniad ar ADY, eu hawl i gael DDdY ac i apelio, ac yn esbonio beth sy'n digwydd i CDU tra'u bod yn cael eu cadw'n gaeth. Mae'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal yn union cyn cael eu cadw'n gaeth.

19.3 Mae person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw os caiff ei remandio neu ei ddedfrydu gan y llysoedd i gael ei gadw'n gaeth neu ei alw'n ôl i'w gadw'n gaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol[2].

19.4 Mae llety ieuenctid perthnasol yn cyfeirio at sefydliad troseddwyr ifanc (ar yr amod nad yw'r sefydliad, na'r rhan y mae'r person yn cael ei gadw ynddi, yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cadw personau 18 oed a throsodd), canolfan hyfforddi ddiogel, cartref diogel i blant neu goleg diogel.

19.5 Ar gyfer y sefyllfa gyntaf (plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr) – gweler paragraffau 19.8 hyd 19.73. Yn gryno, mae'r dyletswyddau ar ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol o dan y Ddeddf (er enghraifft i gynnal CDU) yn peidio â bod yn gymwys tra bo'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth[3]. Yn hytrach, mae awdurdod cartref y person sy'n cael ei gadw'n gaeth (gweler paragraff 19.12), os yw yng Nghymru, yn ddarostyngedig i ddyletswyddau i benderfynu ar ADY a chadw CDU[4].

19.6 Ar gyfer yr ail sefyllfa (plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth yn yr ysbyty o dan Ddeddf 1983 yn ystod achosion troseddol neu ar gyfer dedfryd) - gweler paragraffau 19.74 ymlaen. Yn gryno, bydd dyletswyddau awdurdod

[1] Adran 39(1) o'r Ddeddf.
[2] Mae adran 39(1) o'r Ddeddf yn diffinio "gorchymyn cadw" drwy gyfeirio at adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.
[3] Adran 44(1) a (2) o'r Ddeddf.
[4] Adrannau 40 i 42 o'r Ddeddf.

lleol o dan y Ddeddf yn gymwys yn y sefyllfa hon (er enghraifft, i benderfynu ar ADY ac i lunio a chynnal CDU), ond gydag ambell addasiad. Nid yw dyletswyddau ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach o dan y Ddeddf yn gymwys yn y sefyllfa hon[5].

19.7 Nid yw'r bennod hon yn gymwys i blant neu bobl ifanc sydd-

- yn cael eu remandio ar fechnïaeth neu'n bwrw dedfryd yn y gymuned – mae ganddynt yr un hawliau o dan y system ADY ag unrhyw blentyn neu berson ifanc arall nad yw'n cael ei gadw'n gaeth;
- ar remánd neu'n bwrw eu dedfryd mewn sefydliad troseddwyr ifanc a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer personau dros 18 oed neu mewn carchar. Yn yr achosion hyn, nid yw hawliau i benderfyniadau am ADY, CDUau a materion cysylltiedig yn gymwys tra bo'r person yn cael ei gadw mewn sefydliad o'r fath;[6]
- yn cael eu derbyn yn orfodol i ysbyty o dan ddarpariaethau sifil Deddf 1983 - mae ganddynt yr un hawliau o dan y system ADY ag unrhyw blentyn neu berson ifanc arall nad yw'n cael ei gadw'n gaeth.

## *Plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth*

19.8 P'un a oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth CDU cyn iddo gael ei gadw'n gaeth ai peidio, **rhaid**[7] i awdurdod cartref y person hybu cyflawni potensial dysgu person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn ystod y cyfnod y caiff ei gadw ac ar ôl ei ryddhau.

19.9 Ar ôl cael ei gadw'n gaeth, bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael asesiad pan fydd ei anghenion am addysg neu hyfforddiant yn cael eu cofnodi a'u datblygu'n gynllun addysg i gefnogi ei anghenion drwy gydol y cyfnod cadw.

19.10 Caiff y cynlluniau hyn eu llywio ymhellach drwy gyfarfodydd cynllunio dedfrydau, sy'n defnyddio dull amlasiantaethol ac sy'n cynnwys y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant y plentyn os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, a phartneriaid eraill fel y tîm troseddwyr ifanc, cynrychiolydd addysgol yr awdurdod lleol a gwasanaethau priodol eraill fel Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Dyletswydd awdurdod cartref i benderfynu a oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY

19.11 Os caiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu os yw'n ymddangos iddo fel arall y gall fod ADY gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ac y mae'r awdurdod

[5] Adran 44(3) a (4) o'r Ddeddf.
[6] Adran 44 o'r Ddeddf ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.
[7] Adran 562B o Ddeddf Addysg 1996. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu Ddeddf Plant 1989; yn yr achosion hynny mae gan yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc ddyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant neu les y person, gan gynnwys hybu cyflawniad addysgol.

hwnnw'n gweithredu fel yr 'awdurdod cartref' ar ei gyfer, ac nad oes CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer (gweler isod i weld pryd mae CDU yn cael ei gadw), **rhaid**[8] i'r awdurdod-

(a) penderfynu a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ai peidio, ac

(b) os yw'n penderfynu bod gan y person ADY, rhaid iddo benderfynu, yn unol â rheoliadau, a fydd yn angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer y person hwnnw ar ôl iddo gael ei ryddhau i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.

19.12 Yr awdurdod cartref ar gyfer plentyn neu berson ifanc yw:[9]

(a) os oedd y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn gofal yn union cyn cael ei gadw'n gaeth, neu ar unrhyw adeg ers hynny, yr awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc, neu sydd wedi bod yn gofalu am y plentyn neu'r person ifanc yn fwyaf diweddar. At y dibenion hyn, defnyddir diffiniad ehangach o dderbyn gofal na'r un arferol ar gyfer y system ADY. Mae person yn derbyn gofal os yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu gan awdurdod lleol yn Lloegr at ddibenion Deddf Plant 1989.

(b) fel arall, yr awdurdod lleol (boed yng Nghymru neu yn Lloegr) y mae'r person yn preswylio fel arfer yn ei ardal.

19.13 Ond dim ond os yw awdurdod cartref person sy'n cael ei gadw'n gaeth yng Nghymru y mae'r awdurdod cartref yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a ddisgrifir yn y bennod hon sy'n ymwneud â phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth. Os yw'r awdurdod cartref yng Nghymru, mae ganddo'r dyletswyddau hynny hyd yn oed os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael ei gadw yn Lloegr.

19.14 Gellid dwyn i sylw awdurdod cartref y gallai fod ADY gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gan y person â gofal am y llety ieuenctid perthnasol, Tîm Troseddwyr Ifanc neu ysgol neu sefydliad addysg bellach a fynychwyd gan blentyn neu berson ifanc cyn iddo gael ei gadw'n gaeth, neu o ganlyniad i asesiadau a gynhaliwyd tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth. Nid oes ots sut y daw'r posibilrwydd y gallai fod ADY gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth i sylw'r awdurdod lleol neu sut y mae'n ymddangos iddo fel arall mai dyma'r achos; os yw'r awdurdod yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 ac ar adnabod pryd y gallai fod gan berson ADY ym Mhennod 20.)

[8] Adran 40(2) o'r Ddeddf.
[9] Adran 39(1) o'r Ddeddf sy'n cymhwyso'r diffiniad yn adran 562J o Ddeddf Addysg 1996, yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau o dan adran 39(2), nad oes yr un ohonynt, adeg cyhoeddi'r Cod.

19.15 Nid yw'n ofynnol i awdurdod cartref wneud y penderfyniad hwn:[10]

- os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i gynllun gael ei lunio (gweler Pennod 4 am ragor o fanylion am gydsyniad person ifanc); neu
- os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu yn flaenorol a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ai peidio a'i fod yn fodlon nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw neu benderfyniad blaenorol na fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ar ôl iddo gael ei ryddhau. O dan yr amgylchiadau hyn, **dylai'r** awdurdod lleol hysbysu'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth am hyn, ac yn achos person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn, ei riant, a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY (gan gynnwys hawliau apelio) os nad yw wedi gwneud hynny o'r blaen neu os nad yw wedi gwneud hynny'n ddiweddar.

19.16 Os yw'n ofynnol i awdurdod cartref benderfynu a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ai peidio, **rhaid**[11] iddo:

(a) dynodi swyddog (y 'cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw, unrhyw benderfyniad ynghylch a oes angen CDU ac, os oes angen CDU, bod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod ADY gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ei ddwyn i'w sylw neu sut yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY.

19.17 Os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, **rhaid**[12] i'r awdurdod cartref hefyd:
(a) hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn ei fod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY;
(b) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn a'i riant i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd).

19.18 At ddibenion y gofyniad ym mharagraff 19.16, os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn berson ifanc, mae'n ofynnol i'r awdurdod cartref benderfynu a oes gan y person ifanc ADY pan nad yw'n hysbys a yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ai peidio. Os yw wedi ceisio cydsyniad y person ifanc ac nad yw'r person ifanc yn cydsynio, bydd y gofyniad ar yr awdurdod i wneud y pethau a restrir uchod yn peidio â bod yn gymwys bryd hynny.

---

[10] Adran 41 o'r Ddeddf.
[11] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[12] Gofyniad a osodir gan y Cod.

19.19 Os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn berson ifanc, **rhaid**[13] i'r awdurdod cartref hefyd wneud y canlynol yn brydlon:

(a) rhoi gwybod i'r person ifanc ei fod wedi ei ddwyn i'w sylw neu wedi ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(b) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd);
(c) esbonio i'r person ifanc ganlyniadau cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud, a chanlyniadau peidio â chydsynio;
(d) gofyn i'r person ifanc gydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os bydd angen CDU, i CDU gael ei lunio.

19.20 Os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn berson ifanc, **rhaid**[14] i'r awdurdod cartref gofnodi:
(a) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i CDU gael ei lunio, pryd a sut y rhoddwyd cydsyniad;
(b) pan fydd y person ifanc yn gwrthwynebu'r naill neu'r llall o'r materion hynny, pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc;
(c) os nad yw'r person ifanc wedi cydsynio i'r naill neu'r llall o'r materion hynny nac wedi eu gwrthwynebu, y camau a gymerwyd gan yr awdurdod i geisio cydsyniad y person ifanc ac i egluro canlyniadau'r awdurdod yn penderfynu a oes gan y person ifanc ADY.

19.21 **Dylai** fod gan awdurdodau cartref weithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a gallai'r rhain gynnwys cael y person ifanc i lofnodi i gadarnhau a yw'n cydsynio ai peidio.

19.22 **Rhaid**[15] i'r hysbysiad i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac, os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, ei riant (y cyfeirir ato ym mharagraffau 19.17 a 19.19 ) hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod cartref;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[16].

19.23 Hefyd, **dylai'r** hysbysiad nodi'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan ystyried y gofyniad perthnasol o ran yr amserlen a nodir isod).

19.24 Os yw'n ofynnol i awdurdod cartref wneud y penderfyniad, cyn gwneud hynny, **rhaid**[17] iddo wahodd y person â chyfrifoldeb dros y llety ieuenctid perthnasol i gymryd rhan yn y penderfyniad ac, os bydd angen, i helpu i lunio CDU. Efallai y bydd y person hwnnw'n gallu darparu gwybodaeth a chyngor

[13] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[14] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[15] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[16] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[17] Adran 40(3) o'r Ddeddf.

sy'n berthnasol i'r penderfyniad ac unrhyw CDU (gan gynnwys gwybodaeth gan ddarparwr addysg y sefydliad).

19.25 Wrth benderfynu a oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ai peidio, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol, er enghraifft, gan dimau troseddwyr ifanc, ynghyd ag ysgolion a sefydliadau addysg bellach yr oedd y person yn arfer eu mynychu. Gall gofalwyr, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, gweithwyr ieuenctid, seicolegwyr addysg, staff eraill sy'n gweithio yn yr uned lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw neu unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol eraill gynorthwyo gydag adnabod ADY hefyd. **Caiff**[18] yr awdurdod cartref ofyn am wybodaeth neu help arall gan bobl berthnasol, gan gynnwys y person â chyfrifoldeb dros lety ieuenctid perthnasol, y gall fod ei angen arno i wneud ei benderfyniad (mae Pennod 21 yn ymdrin â cheisiadau gan awdurdodau lleol am wybodaeth neu help arall a'r dyletswyddau cyfatebol ar bobl berthnasol).

19.26 Fel y disgrifir ym Mhennod 4, ceir dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod gan blentyn neu berson ifanc a llunio CDUau. Yn ogystal, un o amcanion sylfaenol y system ADY yw rhoi lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses o adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd dynodedig fel arfer drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc, i drafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. (Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 22).

### Penderfyniad awdurdod cartref bod gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY – penderfynu a fydd CDU yn angenrheidiol

19.27 Os bydd awdurdod cartref yn penderfynu bod ADY gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth, **rhaid**[19] iddo benderfynu yn unol â'r rheoliadau a fydd yn angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer y person ar ôl iddo gael ei ryddhau, i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant. I benderfynu hyn, bydd angen i'r awdurdod ystyried yr amgylchiadau tebygol pan fydd y person yn cael ei ryddhau. Mae'r rheoliadau'n darparu ei bod yn angenrheidiol llunio CDU ac eithrio[20]:

(a) os yw'n debygol y bydd y person wedi troi'n 25 oed cyn iddo gael ei ryddhau, neu
(b) yn achos person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, ei bod hi'n annhebygol y bydd gan y person anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan fydd yn cael ei ryddhau.

[18] Adran 65 o'r Ddeddf.
[19] Adran 40(2)(b) o'r Ddeddf.
[20] Rheoliad 18 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

19.28 I ganfod a yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn debygol o fod wedi troi'n 25 oed cyn ei ryddhau, bydd angen i'r awdurdod cartref ystyried amgylchiadau'r cyfnod cadw megis hyd unrhyw ddedfryd a'i gymhwystra i gael ei ryddhau'n gynharach. Yn achos plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth, bydd angen CDU bron bob amser oherwydd ei bod yn annhebygol iawn, yng ngoleuni hyd y dedfrydau o garchar i blant, y byddai'r person yn cael ei gadw y tu hwnt i'w ben-blwydd yn 25 oed.

19.29 Yn achos person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, gan dybio ei bod yn debygol y bydd yn cael ei ryddhau cyn ei ben-blwydd yn 25 oed, bydd angen i'r awdurdod cartref ystyried a yw'r person *yn debygol o fod ag* anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan fydd yn cael ei ryddhau. At y dibenion hyn, mae'r rheoliadau'n darparu bod *gan* berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant ym mhob un o'r amgylchiadau canlynol-[21]

(a) mae'r person ifanc wedi'i gofrestru fel disgybl neu wedi cofrestru fel myfyriwr mewn ysgol a gynhelir, Academi neu sefydliad addysg bellach (p'un a yw'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr);
(b) mae gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant o dan y rheoliad[22] sy'n ymdrin â hyn mewn perthynas â pherson ifanc na fydd yn cofrestru fel disgybl neu fel myfyriwr yn un o'r sefydliadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a);
(c) os yw awdurdod lleol wedi penderfynu[23] bod gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant o dan y rheoliad sy'n ymdrin â hyn mewn perthynas â pherson ifanc na fydd yn cofrestru fel disgybl neu fel myfyriwr yn un o'r sefydliadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a).

19.30 Gweler Pennod 17 i gael rhagor o wybodaeth am y rheoliadau y cyfeirir atynt yn yr amgylchiadau yn is-baragraffau (b) ac (c).

19.31 Y cwestiwn yw a yw'n debygol y *bydd* un o'r amgylchiadau hynny'n gymwys pan gaiff y person ifanc ei ryddhau, yn hytrach nag a yw un o'r amgylchiadau hynny'n berthnasol ar hyn o bryd. Felly, er mwyn penderfynu a yw CDU yn angenrheidiol, mae angen i'r awdurdod lleol ystyried y sefyllfa debygol ar ôl rhyddhau'r person ifanc, er enghraifft, a yw'r person ifanc yn debygol o gofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach bryd hynny. Bydd safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc o ran yr hyn y mae'n dymuno'i wneud pan gaiff ei ryddhau yn hanfodol i'r mater. A yw'r person ifanc yn dymuno mynd ar drywydd addysg neu hyfforddiant pan gaiff ei ryddhau ac os felly, pa fath o addysg neu hyfforddiant? Os yw'r person ifanc eisoes yn ddisgybl cofrestredig neu wedi cofrestru fel myfyriwr, a yw'n debygol o ddychwelyd i'r astudiaethau hynny? Nid oes angen nodi unrhyw raglen astudio benodol y gallai'r person ifanc ymgymryd â hi na'r sefydliad y gallai'r person ifanc ei fynychu. Yn hytrach, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried y

[21] Rheoliad 18(3) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[22] Yn benodol, rheoliad 9(1) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[23] Yn benodol, rheoliad 9(2) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

tebygolrwydd y bydd y person ifanc yn mynychu sefydliad sy'n cael ei grybwyll yn is-baragraff (a) neu y bydd ag anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant fel y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (b) neu (c), gan ystyried yr holl wybodaeth berthnasol hysbys. Nid oes angen canfod yn union beth fydd yn digwydd pan gaiff ei ryddhau. Yn hytrach, bydd angen ystyried beth allai ddigwydd a dim ond pan fo'n *annhebygol* y byddai gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant nad oes angen CDU.

**Penderfyniad awdurdod cartref nad oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY neu nad yw'n angenrheidiol llunio CDU**

19.32 Os bydd yr awdurdod cartref yn penderfynu nad oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY, neu na fydd yn angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ar ôl iddo gael ei ryddhau, **rhaid**[24] iddo roi gwybod i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhieni'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth os yw'n blentyn, a'r person â chyfrifoldeb dros y llety ieuenctid perthnasol am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.

19.33 **Rhaid**[25] i'r awdurdod cartref wneud y penderfyniad dan sylw a rhoi'r hysbysiad yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos-

(a) yn achos plentyn, i'r adeg pan gaiff ei dwyn i sylw'r awdurdod cartref fod gan y plentyn ADY, neu i'r adeg pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;

(b) yn achos person ifanc, i'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes gan y person ADY.

19.34 Nid oes angen i'r awdurdod cartref gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[26]

19.35 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad, **rhaid**[27] i'r hysbysiad i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac, os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, ei riant, gynnwys y canlynol hefyd:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod cartref;

(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[28];

---

[24] Adran 40(4) o'r Ddeddf.

[25] Gofyniad a osodir gan y Cod mewn perthynas â phenderfyniad nad oes gan y person ifanc ADY a rheoliad 18(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 mewn perthynas â phenderfyniad nad yw CDU yn angenrheidiol.

[26] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.

[27] Gofyniad a osodir gan y Cod mewn perthynas â phenderfyniad nad oes gan y person ifanc ADY a rheoliad 18(6) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 mewn perthynas â phenderfyniad nad oes angen CDU.

[28] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

(c) manylion trefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[29] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[30];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[31]

19.36 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yng ngoleuni ei ystyriaeth i sicrhau bod anghenion y person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael eu diwallu.

19.37 Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, ac os mai plentyn ydyw, ei riant, drafod y mater ymhellach.

### Dyletswydd awdurdod cartref i lunio CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth

19.38 Os bydd awdurdod cartref yng Nghymru yn penderfynu bod ADY gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ac y bydd angen cynnal CDU ar ei gyfer ar ôl iddo gael ei ryddhau, **rhaid**[32] iddo lunio CDU ar gyfer y person hwnnw (ac eithrio yn achos person ifanc os nad yw'n cydsynio i'r cynllun gael ei lunio).

19.39 Gweler Pennod 2 i gael gwybodaeth am ystyr ADY a DDdY, Pennod 20 am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 mewn perthynas â llunio CDUau a'u cynnwys.

19.40 Mae Pennod 23 yn ymdrin â'r gofyniad ar awdurdod lleol i ddisgrifio darpariaeth arall (yn benodol, lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall) mewn CDU os na ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol yn sicrhau'r ddarpariaeth arall honno hefyd. Yn achos llunio CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth, mae gofyniad ychydig yn wahanol oherwydd y sefyllfa. **Rhaid**[33] i'r awdurdod cartref ddisgrifio darpariaeth arall o'r fath yn y CDU os na fydd yn bosibl diwallu anghenion rhesymol y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ar gyfer DDdY pan gaiff y person ei ryddhau oni bai bod yr awdurdod cartref yn sicrhau'r ddarpariaeth arall hefyd. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ar ddisgrifio lleoliadau mewn CDUau[34] (gweler Pennod 23) ac mae'r canllawiau yn y bennod honno ar ddisgrifio darpariaeth arall mewn CDU yn berthnasol i'r cwestiwn a oes rhaid disgrifio darpariaeth arall mewn CDU sy'n cael ei lunio ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth.

19.41 Mae Pennod 23 hefyd yn esbonio'r ddyletswydd ar awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach, wrth lunio CDU, i benderfynu a ddylid darparu DDdY yn Gymraeg ac os yw'n penderfynu y dylid darparu math penodol o DDdY yn Gymraeg, i nodi hyn yn y CDU. **Rhaid**[35] i awdurdod cartref sy'n

[29] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[30] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[31] O dan adran 72 o'r Ddeddf. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.
[32] Adrannau 40(5) a 41 o'r Ddeddf.
[33] Adran 40(7) o'r Ddeddf.
[34] Adran 40(9) o'r Ddeddf.
[35] Adran 40(6) o'r Ddeddf.

paratoi CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth hefyd benderfynu ar y mater hwn ac os yw'n penderfynu y dylid darparu math penodol o DDdY yn Gymraeg, nodi hyn yn y CDU.

19.42 Bydd angen i'r awdurdod ystyried ei swyddogaethau perthnasol eraill hefyd mewn perthynas â llunio a chynnal CDUau, megis y ddyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir ac enwi ysgol a gynhelir at ddiben sicrhau y caiff plentyn ei dderbyn iddi. Trafodir y materion hyn ym Mhennod 23. Byddai angen i'r awdurdod cartref ystyried a ddylai arfer y swyddogaethau hyn, pan fo'n berthnasol, yng ngoleuni'r holl amgylchiadau, a allai gynnwys pryd y mae'r person yn debygol o gael ei ryddhau.

19.43 **Caiff**[36] yr awdurdod cartref, wrth lunio'r CDU, wneud atgyfeiriad at un o gyrff y GIG er mwyn iddo ystyried a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y person sy'n cael ei gadw'n gaeth (ymdrinnir â'r atgyfeiriadau hyn yn fanylach ym Mhennod 21). Fodd bynnag, nid yw cyrff y GIG yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i sicrhau triniaeth neu wasanaeth perthnasol i berson sy'n cael ei gadw'n gaeth yn ystod y cyfnod cadw.[37] **Dylai** unrhyw atgyfeiriad at un o gyrff y GIG ymwneud ag a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau. Yn unol â hynny, **dylai** unrhyw atgyfeiriad at Fwrdd Iechyd Lleol fod at yr un a fyddai'n gyfrifol am y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ar ôl iddo gael ei ryddhau (mae Pennod 21 yn trafod pryd mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am berson). Gallai atgyfeiriad o'r fath fod o gymorth os yw'r cyfnod cadw yn debygol o ddod i ben cyn bo hir gan y byddai unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth perthnasol wedyn yn cael ei nodi yn y CDU ar gyfer yr adeg pan gaiff y person ei ryddhau. Fodd bynnag, os nad yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn debygol o gael ei ryddhau am beth amser, mae atgyfeiriad yn llai tebygol o fod o gymorth, yn enwedig os oes ansicrwydd ynghylch beth fydd sefyllfa'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth adeg ei ryddhau (er enghraifft, ble y gallai fod yn byw neu beth allai ei anghenion fod bryd hynny). Yn yr achosion hynny, os yw'n ofynnol cynnal y CDU adeg rhyddhau'r person (gweler isod), gellid ystyried atgyfeiriad at un o gyrff y GIG bryd hynny.

19.44 Os yw'r awdurdod cartref yn gwneud atgyfeiriad[38] at un o gyrff y GIG a bod corff y GIG yn ymateb drwy hysbysu'r awdurdod cartref ei fod wedi nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth ddiwallu ADY y person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, **rhaid**[39] i'r awdurdod cartref, wrth lunio'r CDU, ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan gorff perthnasol y GIG ydyw. Os yw corff y GIG hefyd yn hysbysu'r awdurdod cartref y dylid darparu triniaeth neu wasanaeth perthnasol i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn Gymraeg, **rhaid**[40] i'r

[36] Adran 20 o'r Ddeddf.
[37] Adran 44 o'r Ddeddf.
[38] O dan adran 20 o'r Ddeddf.
[39] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[40] Gofyniad a osodir gan y Cod.

awdurdod cartref bennu yn y CDU y mae'n ei lunio y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn Gymraeg.

19.45 Cyn cwblhau'r CDU, **dylai'r** awdurdod cartref roi cyfle i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, a rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth os yw'n blentyn, wneud sylwadau ar ddrafft o'r CDU a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod cartref ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, gan gynnwys o bosibl ddiweddaru'r CDU drafft, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

19.46 Ar ôl ei baratoi, **rhaid**[41] i'r awdurdod cartref roi copi o'r CDU i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'r person â chyfrifoldeb dros y llety ieuenctid perthnasol.

19.47 **Rhaid**[42] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r CDU a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos-

(a) yn achos plentyn, i'r adeg pan gaiff ei dwyn i sylw'r awdurdod cartref y gallai fod gan y plentyn ADY, neu i'r adeg pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
(b) yn achos person ifanc, i'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes gan y person ADY.

19.48 Nid oes angen i'r awdurdod cartref gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad, llunio'r CDU a rhoi copi ohono cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol i'r awdurdod cartref wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.[43]

19.49 Wrth roi copi o'r CDU i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac, os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, i'w riant, **rhaid**[44] i'r awdurdod cartref hefyd roi-

(a) manylion cyswllt yr awdurdod cartref;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[45];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[46] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[47];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[48]

[41] Adran 40(5) o'r Ddeddf.
[42] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[43] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[44] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[45] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[46] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[47] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[48] O dan adran 72 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.

**Cynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth a rhieni plant sy'n cael eu cadw'n gaeth, nad oes ganddynt alluedd meddyliol**

19.50 Mae cynrychiolwyr ar gael i bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth ac nad oes ganddynt alluedd meddyliol, ac i rieni plant sy'n cael eu cadw'n gaeth nad oes ganddynt alluedd (gweler Pennod 31 am ganllawiau ychwanegol ar gynrychiolwyr)).[49]

**Dyletswydd awdurdod cartref i gadw CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth a threfnu DDdY briodol**

19.51 Os oedd gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth CDU a oedd yn cael ei gynnal ar ei gyfer yn union cyn dechrau ei gyfnod yn gaeth, neu os yw awdurdod cartref wedi llunio CDU yn ystod ei gyfnod yn gaeth[50], **rhaid**[51] i'r awdurdod cartref, os yw yng Nghymru, gadw'r CDU tra bod y person yn cael ei gadw'n gaeth. Mae hyn yn golygu cadw copi o'r CDU. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r awdurdod gydymffurfio â chyfraith diogelu data.

19.52 Os oedd y CDU yn cael ei gynnal gan ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol arall cyn i'r person gael ei gadw'n gaeth, dim ond pan fydd hyn yn cael ei ddwyn i'w sylw y bydd dyletswydd yr awdurdod cartref i gadw'r CDU yn gymwys[52]. Os yw'n ymwybodol o'r amgylchiadau sy'n arwain at ddyletswydd yr awdurdod cartref i gadw'r CDU, **rhaid**[53] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol arall roi copi o'r CDU i'r awdurdod cartref oni bai bod gan yr awdurdod cartref gopi ohono eisoes.

19.53 **Rhaid**[54] i'r awdurdod cartref roi gwybod i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, a rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth os yw'n blentyn, ei fod yn cadw'r CDU tra bod y person yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol. **Rhaid**[55] i'r awdurdod roi copi o'r CDU i'r person â chyfrifoldeb dros y llety ieuenctid perthnasol.

19.54 Os yw'r awdurdod cartref yn cadw CDU, **rhaid**[56] iddo drefnu i "DDdY briodol" gael ei darparu i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth.

19.55 "DDdY briodol" [57] yw-

- y DDdY a bennir yn y CDU,

[49] Rhan 4 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[50] O dan adran 40 o'r Ddeddf.
[51] Adran 42(1) i (3) o'r Ddeddf.
[52] Adran 42(5) o'r Ddeddf.
[53] Rheoliad 15 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[54] Adran 42(6) o'r Ddeddf.
[55] Adran 42(7) o'r Ddeddf.
[56] Adran 42(8) o'r Ddeddf.
[57] Adran 42(9) o'r Ddeddf.

- os yw'n ymddangos i'r awdurdod cartref nad yw'n ymarferol i'r DDdY a bennir yn y CDU gael ei darparu, darpariaeth addysgol sy'n cyfateb mor agor â phosibl i'r DDdY honno, neu
- os yw'n ymddangos i'r awdurdod cartref nad yw'r DDdY a nodir yn y CDU yn briodol i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth mwyach, y DDdY a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod cartref.

19.56 Mae'r DDdY a bennir yn y CDU yn cynnwys unrhyw DDdY y nodir ei bod i'w sicrhau gan un o gyff y GIG. Nid yw dyletswyddau cyrff y GIG i sicrhau DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth perthnasol i blentyn neu berson ifanc ac i'w sicrhau yn Gymraeg yn gymwys tra bo'r plentyn neu'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.[58]

19.57 Os yw'r CDU yn nodi y dylai'r DDdY gael ei darparu yn Gymraeg, **rhaid**[59] i'r awdurdod cartref gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY briodol yn cael ei darparu yn Gymraeg.

19.58 Efallai na fydd hi'n ymarferol bob amser i awdurdod cartref sicrhau'r DDdY y mae anghenion person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn galw amdani, neu efallai na fydd y DDdY yn y CDU yn briodol mwyach. Dyma pam mai'r ddyletswydd yw trefnu DDdY briodol yn hytrach na sicrhau DDdY. Os nad yw'r DDdY a amlinellir yn y CDU ar gael yn y llety ieuenctid perthnasol ar hyn o bryd, nid yw hynny'n golygu na fyddai'n ymarferol ei darparu o reidrwydd.

19.59 O dan amgylchiadau o'r fath, **dylai'r** awdurdod cartref weithio gyda'r person â chyfrifoldeb dros y llety ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg i nodi a ellid darparu'r DDdY ac, os na fyddai'n ymarferol gwneud hynny, y ddarpariaeth sy'n cyfateb mor agos â phosibl i'r DDdY a amlinellir yn y CDU. **Dylai'r** awdurdod cartref geisio gwneud hyn cyn gynted ag y daw'n ymwybodol bod y person yn dechrau ar gyfnod o gael ei gadw'n gaeth a bod ganddo CDU, neu wrth iddo lunio CDU ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, gan ddefnyddio gweithdrefnau cynllunio presennol y llety ieuenctid a'r tîm troseddwyr ifanc pan fo hynny'n bosibl. Mae gan dimau troseddwyr ifanc ddyletswyddau[60] i roi gwybod i awdurdodau lleol am blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol, yn cael ei drosglwyddo i lety ieuenctid perthnasol neu ei ryddhau o lety ieuenctid perthnasol. At ddibenion arfer ei ddyletswyddau ADY, **caiff**[61] awdurdod cartref ofyn i'r person sy'n gyfrifol am y llety ieuenctid perthnasol neu'r tîm troseddwyr ifanc (neu bersonau perthnasol eraill) ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall. Mae Pennod 21 yn ymdrin â cheisiadau o'r fath.

19.60 Nid yw adolygiadau mewn perthynas â CDUau a gedwir ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn ofynnol o dan y Ddeddf. Felly, efallai y daw amser pan na fydd yr ADY a'r DDdY a amlinellir ynddynt yn briodol mwyach. Os yw'n ymddangos i'r awdurdod cartref nad yw'r DDdY a nodir yn y CDU yn

[58] Adran 44 o'r Ddeddf.
[59] Adran 42(8)(b) o'r Ddeddf.
[60] O dan adran 39A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.
[61] Adran 65 o'r Ddeddf.

briodol mwyach, er enghraifft, os yw anghenion y person sy'n cael ei gadw'n gaeth wedi newid ers i'r CDU gael ei lunio neu ers i'r person gael ei gadw'n gaeth, **rhaid**[62] i'r awdurdod cartref drefnu DDdY a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod cartref. **Dylai** weithio gyda'r person sy'n gyfrifol am y llety ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg i ganfod a yw'r DDdY yn parhau i fod yn briodol ac os nad ydyw, i benderfynu beth y byddai'r DDdY briodol yn ei gynnwys.

19.61 **Dylai** awdurdod cartref weithio'n agos gyda'r person â chyfrifoldeb dros y llety ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg i drefnu DDdY briodol ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth. **Dylai'r** awdurdod cartref geisio gwneud hyn cyn gynted ag y daw'n ymwybodol bod y person yn dechrau ar gyfnod o gael ei gadw'n gaeth a bod ganddo CDU, neu wrth iddo lunio CDU ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, gan ddefnyddio gweithdrefnau cynllunio presennol y llety ieuenctid perthnasol a'r tîm troseddwyr ifanc pan fo hynny'n bosibl. Mae gan dimau troseddwyr ifanc ddyletswyddau[63] i roi gwybod i awdurdodau lleol am blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol, yn cael ei drosglwyddo i lety ieuenctid perthnasol neu ei ryddhau o lety ieuenctid perthnasol.

19.62 Mae dedfrydau o garchar ar gyfer plant a phobl ifanc yn rhai byr yn aml. Felly, mae hi'n bwysig i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym fel arfer er mwyn gallu rhoi'r DDdY briodol ar waith yn ddi-oed ac fel bod unrhyw CDU sy'n cael ei lunio ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn barod i gael ei gynnal pan fydd y person yn cael ei ryddhau.

### Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan fydd yn cael ei ryddhau

19.63 Adeg rhyddhau person a oedd yn cael ei gadw'n gaeth ac yr oedd CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer, os yw awdurdod lleol yn gyfrifol am y person, **rhaid**[64] iddo gynnal y CDU oni bai:-

(a) bod y person yn blentyn a fydd, ar ôl cael ei ryddhau, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall, ac os felly, **rhaid**[65] i'r awdurdod lleol arall hwnnw gynnal y CDU;
(b) bod y person yn berson ifanc ac nad yw'n cydsynio i'r CDU gael ei gynnal.

19.64 Mae Penodau 12 hyd 17 yn ymdrin â'r hyn y mae'n ei olygu i awdurdod lleol gynnal CDU o dan yr amgylchiadau a gwmpesir gan bob pennod.

---

[62] Adran 42(8) a (9) o'r Ddeddf.
[63] O dan adran 39A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.
[64] Adrannau 43(1) a (2) a 14(2) a (3) o'r Ddeddf. Dylai ddod yn ymwybodol bod y person wedi cael ei ryddhau yn fuan ar ôl i hynny ddigwydd (os nad yw eisoes yn ymwybodol) drwy hysbysiad gan y tîm troseddwyr ifanc fel sy'n ofynnol gan adran 39A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.
[65] Adran 43(3) a (4) o'r Ddeddf.

19.65 Pan fo awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person a oedd yn cael ei gadw'n gaeth ac sydd wedi cael ei ryddhau, **rhaid**[66] i'r awdurdod adolygu'r CDU. **Rhaid**[67] i'r awdurdod gwblhau'r adolygiad hwnnw (gan gynnwys, fel sy'n berthnasol, rhoi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad o gasgliad arall yr adolygiad – gweler Pennod 25) yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos i'r dyddiad y caiff y person ei ryddhau. Nid oes angen i'r awdurdod gydymffurfio â'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 7 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[68]

19.66 Os yw awdurdod lleol yn ymwybodol y bydd yn rhaid iddo gynnal CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac sydd i'w ryddhau cyn bo hir, **caiff** gymryd camau tuag at yr adolygiad hwnnw cyn i'r person gael ei ryddhau, ond dim ond camau paratoadol a dim ond os yw hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau. **Rhaid**[69] i'r awdurdod aros tan ar ôl i'r person gael ei ryddhau cyn ystyried y dystiolaeth er mwyn penderfynu beth i'w wneud yng ngoleuni'r adolygiad. Diben hyn yw caniatáu ar gyfer ystyried yr union amgylchiadau ar ôl i'r person gael ei ryddhau a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person a ryddhawyd ac os mai plentyn ydyw, ei riant, yng ngoleuni'r amgylchiadau hynny. Mae hyn yn golygu bod angen i'r cyfarfod y dylid ei gynnal fel rhan o'r adolygiad ddigwydd ar ôl i'r person gael ei ryddhau, er nad yw hyn yn atal cyfarfodydd neu drafodaethau eraill rhag cael eu cynnal cyn ei ryddhau. (Gweler Pennod 25 i gael rhagor o gwybodaeth am adolygiadau o CDUau.)

19.67 Mewn achosion pan fydd y plentyn neu'r person ifanc a ryddhawyd yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, gallai'r awdurdod lleol ystyried y byddai'n fwy priodol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai fod yn fwy priodol i'r sefydliad hwnnw adolygu'r CDU hefyd. Gallai hyn fod yn wir, er enghraifft, pan baratowyd y CDU yn ddiweddar gan yr awdurdod ac mai anghenion lefel isel sydd gan y person a ryddhawyd, neu pan oedd y sefydliad yn cynnal y CDU o'r blaen a bod y person wedi cael ei gadw'n gaeth am gyfnod byr iawn. Os trosglwyddir y cyfrifoldeb am gynnal y CDU i ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach[70] heb i'r awdurdod lleol ei adolygu ar ôl rhyddhau'r person, **rhaid**[71] i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach adolygu'r CDU a chwblhau'r adolygiad yn brydlon (gan gynnwys, fel y bo'n berthnasol, rhoi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad o gasgliad arall yr adolygiad – gweler Pennod 25) ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod ysgol (yn achos ysgol) neu 35 diwrnod yn ystod y tymor (yn achos sefydliad addysg bellach) ar ôl

[66] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[67] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[68] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[69] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[70] Byddai hyn yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 14(4) o'r Ddeddf yn achos ysgol neu ar ôl i sefydliad addysg bellach gytuno i gais yr awdurdod o dan adran 36(2) o'r Ddeddf bod y sefydliad addysg bellach yn dod yn gyfrifol am y CDU. Hefyd, ni ellir trosglwyddo oni bai bod y person a ryddhawyd yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol neu'n berson ifanc sydd wedi cofrestru fel myfyriwr yn y sefydliad addysg bellach. Gweler Penodau 12 a 15 (am gyfarwyddydau i ysgol) a Phennod 28 yn achos sefydliad addysg bellach.
[71] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.

rhyddhau'r plentyn neu'r person ifanc. Nid oes angen i'r ysgol neu sefydliad addysg bellach gydymffurfio â'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod o 35 diwrnod os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[72]

19.68 Wrth ystyried a ddylid cyfarwyddo ysgol i gynnal y CDU neu ofyn i sefydliad addysg bellach ddod yn gyfrifol amdano, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol a ddarparwyd gan y sefydliad lle'r oedd y person yn cael ei gadw'n gaeth, y darparwr addysg a'r tîm troseddwyr ifanc ac, os nad yw wedi adolygu'r CDU ers i'r person gael ei ryddhau, a fyddai digon o amser i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gwblhau adolygiad o fewn y cyfnod o 35 diwrnod. Os yw'n annhebygol y byddai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn gallu cwblhau adolygiad o fewn y cyfnod hwnnw, **ni ddylai'r** awdurdod lleol drosglwyddo'r CDU tan ar ôl iddo ei adolygu.

19.69 Yn rhan o'r adolygiad hwnnw, **dylai** awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach sy'n cynnal adolygiad ar ôl i berson gael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol a ddarperir gan y sefydliad lle y bu'n cael ei gadw'n gaeth, y darparwr addysg a'r tîm troseddwyr ifanc.

19.70 Yn dilyn yr adolygiad, mae'r weithred o roi hysbysiad nad yw'r CDU i gael ei ddiwygio neu gopi o'r cynllun diwygiedig yn sbarduno dechrau'r cyfnod adolygu nesaf (mae Pennod 25 yn ymdrin â'r ddyletswydd i adolygu CDU cyn diwedd cyfnod adolygu).

## *Plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983*

19.71 Mae Rhan 2 o Ddeddf 1983 yn sôn am dderbyniad gorfodol sifil i'r ysbyty[73]. Mae'r Ddeddf yr un mor gymwys i'r rhai sy'n cael eu derbyn yn orfodol i'r ysbyty o dan Ran 2 o Ddeddf 1983 ag ydyw i blant a phobl ifanc eraill: ni wneir unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer yr amgylchiadau hyn. Mae Penodau 12 – 17 yn berthnasol i achosion o'r fath, gan ddibynnu a yw'r dysgwr yn blentyn neu'n berson ifanc, yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, yn blentyn sy'n derbyn gofal, yn fyfyriwr sydd wedi cofrestru mewn sefydliad addysg bellach, neu ddim yn ddisgybl na'n fyfyriwr o'r fath.

19.72 Mae Rhan 3 o Ddeddf 1983 yn sôn am dderbyniad gorfodol i'r ysbyty yn ystod achos troseddol neu o dan ddedfryd. Yn yr achosion hyn, byddai'r person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw. Mae gweddill y bennod hon yn sôn am y dyletswyddau sy'n ddyledus i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 ac mae cyfeiriadau at berson sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty (sut bynnag y'i mynegir) yn

[72] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[73] Yn achos y derbyniadau hyn i'r ysbyty, nid yw'r claf yn destun gorchymyn cadw fel y'i diffinnir at ddibenion y Ddeddf.

cyfeirio at berson sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983.

19.73 Gall person gael ei gadw'n gaeth mewn man diogel yn y cyfnod rhwng gwneud gorchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 a phan fydd y person yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty. Mae cyfeiriadau yn y bennod hon at sefyllfa person cyn iddo gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty yn cyfeirio at ei sefyllfa yn union cyn dechrau cael ei gadw'n gaeth, ac eithrio eu bod yn cyfeirio at ei sefyllfa yn union cyn cael ei gadw'n gaeth mewn man diogel os yw'r person yn cael ei gadw mewn man diogel o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 yn union cyn iddo gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty.[74] Mewn geiriau eraill, at ddiben cyfeiriadau at sefyllfa plentyn neu berson ifanc cyn iddo gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, rhaid anwybyddu unrhyw gyfnod iddo gael ei gadw'n gaeth mewn man diogel.

19.74 Cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, efallai:

(a) na fydd gan blentyn neu berson ifanc CDU o gwbl. Gallai hyn fod, er enghraifft, os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i nodi fel bod ag ADY neu os oedd yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety heblaw llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
(b) bod gan y plentyn neu'r person ifanc CDU sy'n cael ei gadw. Ni fyddai hyn ond yn berthnasol os oedd y plentyn neu'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth;
(c) bod gan y plentyn neu'r person ifanc CDU sy'n cael ei gynnal. Byddai hyn yn wir pe na bai'r person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw, er enghraifft, os oedd y person yn ddisgybl mewn ysgol, a bod yr ysgol yn cynnal CDU.

19.75 Mae'r sefyllfa'n amrywio yn dibynnu a oedd CDU yn cael ei gynnal neu ei gadw cyn i'r person gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty. Yn gryno, mae gan yr awdurdod lleol perthnasol, os yw yng Nghymru, yr un swyddogaethau o dan y Ddeddf a rheoliadau mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, gydag ambell addasiad, ag sydd gan awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano. Disgrifir y dyletswyddau hyn yng ngweddill y bennod hon.

## Dyletswydd awdurdod lleol perthnasol i benderfynu a oes ADY gan blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty

19.76 Os nad oedd CDU yn cael ei gynnal na'i gadw ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn union cyn iddo gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty a'i fod yn cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc (os oes un), neu'n ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, **rhaid**[75] i'r awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Fodd bynnag, yn achos person ifanc,

[74] Rheoliad 20 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[75] Adran 13 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

dim ond o 1 Medi 2022 (gan gynnwys y dyddiad hwnnw) y mae hyn yn gymwys. Hynny yw, os caiff ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol perthnasol (os oes un) ar gyfer y person ifanc neu os yw'n ymddangos iddo fel arall, ar y dyddiad hwnnw neu o hynny ymlaen, bod gan y person ifanc ADY ac nad oedd CDU yn cael ei gynnal na'i gadw ar gyfer y person ifanc cyn iddo gael ei gadw yn yr ysbyty (pryd bynnag yr oedd hynny).

19.77 Yr awdurdod lleol perthnasol ar gyfer plentyn neu berson ifanc yw'r un y darperir ar ei gyfer yn y tabl canlynol:[76]

| Sefyllfa plentyn neu berson ifanc | Awdurdod lleol perthnasol |
|---|---|
| (a) roedd y plentyn neu'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty | Awdurdod cartref y plentyn neu'r person ifanc[77]<br>Ond, os yw'r awdurdod cartref yn awdurdod lleol yn Lloegr, nid oes unrhyw awdurdod lleol perthnasol. |
| (b) nid yw'r plentyn neu'r person ifanc yn nisgrifiad (a) y Tabl hwn a'i fod yn derbyn gofal yn union cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty neu ei fod wedi derbyn gofal ar unrhyw adeg ers hynny.<br><br>At y dibenion hyn mae plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal os yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu gan awdurdod lleol yn Lloegr at ddibenion Deddf Plant 1989. | Yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc, neu a fu'n gwneud hynny'n fwyaf diweddar.<br><br>Ond os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr, nid oes awdurdod lleol perthnasol. |
| (c) pob achos arall | Yr awdurdod lleol y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio fel arfer yn ei ardal.<br><br>Wrth benderfynu ar hyn, rhaid diystyru unrhyw gyfnod y mae'r person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.<br><br>Ond, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, nid oes awdurdod lleol perthnasol. |

[76] Rheoliad 21 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[77] At ddibenion y diffiniad o "awdurdod cartref" o dan yr amgylchiadau hyn, mae cadw person yn gaeth mewn ysbyty yn cael ei drin fel parhau i'w gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol.

19.78 Gall y posibilrwydd y gall y plentyn neu'r person ifanc fod ag ADY gael ei "ddwyn i sylw" awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Nid oes ots sut y mae'r posibilrwydd y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY yn dod i'w sylw neu sut y mae'n ymddangos iddo fel arall mai dyma'r achos; os yw'r awdurdod lleol perthnasol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ym Mhennod 2 ac ar adnabod pryd y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY ym Mhennod 20.)

19.79 Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol perthnasol wneud y penderfyniad hwn- [78]

- yn achos person ifanc, os nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud, neu
- os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a'i fod yn fodlon nad yw ei anghenion wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad. O dan yr amgylchiadau hyn, **dylai'r** awdurdod lleol hysbysu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth am hyn, ac os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, ei riant, a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY (gan gynnwys hawliau i apelio) os nad yw wedi gwneud hynny o'r blaen neu'n ddiweddar.

19.80 Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes ADY gan blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, **rhaid**[79] iddo:

(a) dynodi swyddog ('y cydlynydd dynodedig') i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw, unrhyw benderfyniad ynghylch a oes angen CDU ar gyfer person ifanc ac, os oes angen CDU, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam mae'n ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

19.81 Yn achos plentyn, **rhaid**[80] i'r awdurdod lleol perthnasol hefyd:
(a) hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn ei fod yn penderfynu a oes gan y plentyn ADY;
(b) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn a rhiant y plentyn i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd).

[78] Adran 13 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[79] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[80] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).

19.82 At ddibenion y gofyniad ym mharagraff 19.80, yn achos person ifanc, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY os nad yw'n hysbys a yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ai peidio. Os yw wedi ceisio cydsyniad y person ifanc ac nad yw'r person ifanc yn cydsynio, bydd y gofyniad ar yr awdurdod i wneud y pethau a restrir uchod yn peidio â bod yn gymwys bryd hynny.

19.83 Yn achos person ifanc, **rhaid**[81] i'r awdurdod lleol perthnasol wneud y canlynol yn brydlon hefyd:

(a) rhoi gwybod i'r person ifanc ei fod wedi ei ddwyn i'w sylw neu'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(b) ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol gyda'r person ifanc i drafod y broses (gweler Pennod 22 am ragor o fanylion am gyfarfodydd);
(c) esbonio i'r person ifanc ganlyniadau cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud a chanlyniadau peidio â chydsynio;
(d) gofyn i'r person ifanc gydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os bydd angen CDU, i CDU gael ei lunio a'i gynnal.

19.84 **Rhaid**[82] i'r awdurdod lleol perthnasol gofnodi:
(a) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i CDU gael ei lunio a'i gynnal, pryd a sut y rhoddwyd cydsyniad;
(b) pan fydd y person ifanc yn gwrthwynebu unrhyw un o'r materion hynny, pryd a sut y gwrthwynebodd y person ifanc;
(c) os nad yw'r person ifanc wedi cydsynio i unrhyw un o'r materion hynny nac wedi eu gwrthwynebu, y camau a gymerwyd gan yr awdurdod i geisio cydsyniad y person ifanc ac egluro canlyniadau'r awdurdod yn penderfynu a oes gan y person ifanc ADY.

19.85 **Rhaid**[83] i'r hysbysiad i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, (boed o dan baragraff 19.81 neu 19.83) hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[84].

19.86 **Dylai'r** hysbysiad roi syniad o'r amserlenni tebygol ar gyfer y broses.

19.87 Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty ADY, **dylai** wahodd

[81] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[82] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[83] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[84] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

cydgysylltydd gofal[85] y plentyn neu'r person ifanc a rheolwr yr ysbyty i gymryd rhan yn y penderfyniad, ac, os oes angen, yn y gwaith o lunio'r CDU. Efallai y bydd yn gallu darparu gwybodaeth a chyngor sy'n berthnasol i'r penderfyniad ac unrhyw CDU (gan gynnwys gwybodaeth gan ddarparwr addysg y sefydliad).

**Penderfyniad awdurdod lleol perthnasol nad oes ADY gan blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty**

19.88 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu nad oes ADY gan blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, **rhaid**[86] iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

19.89 **Rhaid**[87] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol o 12 wythnos:

(a) yn achos plentyn, i'r adeg pan gaiff ei dwyn i sylw'r awdurdod fod gan y plentyn ADY, neu i'r adeg pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;

(b) yn achos person ifanc, i'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes gan y person ADY.

19.90 Nid oes angen i'r awdurdod lleol perthnasol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[88]

19.91 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad, **rhaid**[89] i'r hysbysiad i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac, os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, ei riant, gynnwys y canlynol hefyd:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol;

(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY90;

(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[91] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[92];

[85] O dan adran 14 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, mae dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl i benodi unigolyn yn gydgysylltydd gofal ar gyfer claf perthnasol.
[86] Adran 13 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[87] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[88] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[89] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[90] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[91] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[92] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[93]

**Penderfyniad awdurdod lleol bod ADY gan blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty**

19.92 Os yw awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu bod ADY gan blentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, **rhaid**[94] iddo baratoi CDU ar gyfer y plentyn.

19.93 Pan fo awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu bod ADY gan berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, os yw'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu wedi cofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, **rhaid**[95] iddo baratoi CDU ar gyfer y person ifanc.

19.94 Yn achos unrhyw berson ifanc arall sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, os yw'r awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu bod gan y person ifanc ADY, mae'n **rhaid**[96] iddo benderfynu yn unol â rheoliadau[97] a yw'n angenrheidiol iddo lunio a chynnal CDU er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant. Mae paragraffau 17.6 hyd 17.16 yn ymdrin â'r penderfyniadau hyn ac mae'r paragraffau hynny yr un mor berthnasol pan fo'r person ifanc yn cael ei gadw yn yr ysbyty. Wrth ystyried a yw CDU yn angenrheidiol, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys y ffaith fod y person yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty ac am faint mae hynny'n debygol o barhau. Oherwydd yr amgylchiadau hynny, efallai na fydd yn bosibl nodi rhaglen astudio addas sydd ar gael i alluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol, a gallai hyn olygu bod yr awdurdod lleol yn penderfynu nad yw CDU yn angenrheidiol ar gyfer y person ifanc ar yr adeg benodol honno. Nid yw hyn yn golygu na fydd angen CDU yn y dyfodol, pan fydd amgylchiadau'r person ifanc wedi newid. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod CDU yn angenrheidiol, **rhaid**[98] iddo lunio CDU ar gyfer y person hwnnw oni bai nad yw'r person yn cydsynio i'r cynllun gael ei lunio.

19.95 Os yw'r awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu nad yw'n angenrheidiol llunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc, **rhaid**[99] iddo roi gwybod i'r person ifanc yn syth am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

19.96 **Rhaid**[100] i'r awdurdod lleol perthnasol wneud y penderfyniad hwnnw a chyflwyno'r hysbysiad yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12

[93] O dan adran 70 o'r Ddeddf (yn gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[94] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[95] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[96] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[97] Y rheoliadau hynny yw rheoliadau 6 i 10 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 1 iddynt.
[98] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[99] Rheoliadau 10 a 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 2 iddynt.
[100] Rheoliadau 10 a 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 2 iddynt.

wythnos i gael cydsyniad y person ifanc i wneud y penderfyniad ynghylch a oes gan y person ifanc ADY ai peidio. Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn y cyfnod hwnnw o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol iddo wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[101]

19.97 Wrth roi'r hysbysiad, **rhaid**[102] i'r awdurdod lleol perthnasol hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY103;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[104] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[105];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[106]

**Dyletswydd awdurdod lleol perthnasol i lunio CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty**

19.98 Os bydd awdurdod lleol perthnasol wedi penderfynu bod ADY gan blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, ac os bydd wedi penderfynu, yn achos person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi'i gofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, bod angen llunio CDU, **rhaid**[107] iddo lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Ond nid oes rhaid i'r awdurdod lleol wneud hynny os yw'r person yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r CDU gael ei lunio neu ei gynnal.[108]

19.99 Gweler Pennod 2 am wybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 am wybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phennod 23 am wybodaeth am lunio CDU a'r hyn y mae'n ei gynnwys.

19.100 Cyn i'r awdurdod lleol perthnasol gwblhau'r gwaith o lunio'r CDU, **dylai** roi cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant roi sylwadau ar gopi drafft ohono a **dylai** eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, a gallai hyn gynnwys diweddaru'r CDU drafft, neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

[101] Rheoliadau 10 a 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 2 iddynt. Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[102] Rheoliad 10 a 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 2 iddynt.
[103] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[104] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[105] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[106] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[107] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[108] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

19.101 Ar ôl ei lunio, **rhaid**[109] i'r awdurdod lleol perthnasol roi copi o'r CDU i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant.

19.102 **Rhaid**[110] i'r awdurdod lleol perthnasol wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r CDU a rhoi copi ohono yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos:

(a) yn achos plentyn, i'r adeg pan gaiff ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol perthnasol y gallai fod gan y plentyn ADY, neu i'r adeg pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
(b) yn achos person ifanc, i'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes gan y person ADY.

19.103 Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad, llunio'r CDU a rhoi copi ohono cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os nad yw'n ymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.[111]

19.104 Wrth roi copi o'r CDU i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, **rhaid**[112] i'r awdurdod lleol perthnasol hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY113;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[114] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[115]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynglŷn ag elfennau penodol o'r CDU.[116]

### Cynnal CDU (awdurdodau lleol perthnasol) ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty

19.105 Os yw awdurdod lleol perthnasol wedi llunio CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, **rhaid**[117] iddo gynnal y CDU tra bod y person yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty.

19.106 Os oedd gan blentyn neu berson ifanc CDU a oedd yn cael ei gynnal gan ysgol neu sefydliad addysg bellach cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty,

---

[109] Adran 22(1) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[110] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[111] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[112] Gofyniad a osodir gan y Cod (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[113] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[114] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[115] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[116] O dan adran 70 o'r Ddeddf (sy'n gymwys yn rhinwedd Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021). Mae Pennod 33 yn trafod apeliadau.
[117] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

nid oes gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach unrhyw ddyletswydd i'w gynnal tra bod y person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw[118]. Yn hytrach, **rhaid**[119] i'r awdurdod lleol perthnasol gynnal y CDU tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty. **Rhaid**[120] i'r awdurdod lleol perthnasol hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac yn achos plentyn, y rhiant, ei fod wedi dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun.

19.107 Os oedd gan blentyn neu berson ifanc CDU a gynhelid gan awdurdod lleol cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, **rhaid**[121] i'r awdurdod lleol perthnasol gynnal y CDU tra bo'r person yn cael ei gadw yn yr ysbyty. Os yw'r awdurdod lleol perthnasol yn wahanol i'r awdurdod lleol a oedd yn cynnal y cynllun cyn hynny, **rhaid**[122] i'r awdurdod lleol perthnasol roi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc ac yn achos plentyn, y rhiant, ei fod wedi dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun.

19.108 Os oedd plentyn neu berson ifanc sydd â CDU wedi cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, nid yw dyletswydd yr awdurdod cartref i gadw'r CDU yn gymwys tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty. Yn hytrach, **rhaid**[123] i'r awdurdod cartref (fel yr awdurdod lleol perthnasol) gynnal y CDU tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty. Yn yr achos hwn, **rhaid**[124] i'r awdurdod hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, y rhiant, ei fod wedi dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun. **Rhaid**[125] i'r awdurdod hefyd adolygu'r cynllun a chwblhau'r adolygiad (gan gynnwys, fel y bo'n berthnasol, rhoi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad o gasgliad arall yr adolygiad – gweler Pennod 25) yn brydlon ac yn sicr o fewn y cyfnod o 7 wythnos i'r adeg y caiff y plentyn neu'r person ifanc ei gadw'n gaeth mewn ysbyty. Nid oes angen i'r awdurdod gwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod o 7 wythnos os nad yw'n ymarferol iddo wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[126] Mae'r weithred o roi'r copi o CDU diwygiedig neu hysbysiad na fydd yn cael ei ddiwygio yn sbarduno dechrau'r cyfnod adolygu nesaf.

19.109 Ond nid oes rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol gynnal y cynllun yn unrhyw un o'r achosion hyn os yw ar gyfer person ifanc nad yw'n cydsynio i'r cynllun gael ei gynnal.[127]

---

[118] Adran 44 o'r Ddeddf.
[119] Rheoliad 22 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[120] Adran 22(2) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[121] Rheoliad 22 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[122] Adran 22(2) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[123] Rheoliad 22 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[124] Rheoliad 22 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[125] Rheoliad 22 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[126] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.
[127] Adran 14 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

19.110 Pan fo CDU yn cael ei gynnal neu ei gadw gan gorff heblaw'r awdurdod lleol perthnasol cyn i'r person gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, **rhaid**[128] i'r corff a oedd yn cadw neu'n cynnal y CDU roi copi ohono i'r awdurdod lleol perthnasol os yw'n ymwybodol o'r amgylchiadau sy'n arwain at drosglwyddo cyfrifoldeb i'r awdurdod lleol perthnasol. Dim ond pan ddaw i sylw'r awdurdod lleol perthnasol fod y CDU yn cael ei gynnal neu ei gadw y mae dyletswydd yr awdurdod lleol perthnasol i'w gynnal yn gymwys.[129]

19.111 Os yw awdurdod lleol perthnasol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, canlyniad hyn yw y bydd angen iddo gadw copi o'r CDU (gan gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth wneud hynny) a chydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynnal CDU, y cyfeirir atynt yn paragraffau nesaf.

19.112 Os bydd awdurdod lleol perthnasol yn cynnal CDU, **rhaid**[130] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall neu ddarpariaeth bwyd a llety) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn gymwys i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth a nodir gan un o gyrff y GIG. Yn yr achos hwn, **rhaid**[131] i gorff perthnasol y GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[132] i'r awdurdod lleol perthnasol (neu gorff y GIG pan fo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei darparu yn Gymraeg.

19.113 **Rhaid**[133] i awdurdod lleol perthnasol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty adolygu'r CDU yn unol â'r dyletswyddau ar adolygiadau o CDUau (a amlinellir ym Mhennod 25). Os oedd y CDU yn cael ei gynnal cyn i'r person gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, nid yw'r cyfnod adolygu yn cael ei newid gan y cyfnod hwnnw o gadw'r person yn gaeth (er bod adolygiad cynnar yn debygol o fod yn briodol neu'n angenrheidiol o ystyried y newid mewn amgylchiadau). Os oedd yn cael ei gadw cyn y cyfnod hwnnw o gadw person yn gaeth, gweler y gofyniad uchod i'w adolygu. Yn achos person ifanc, **dylai** adolygiad ystyried, yng ngoleuni'r holl amgylchiadau (gan gynnwys y ffaith fod y person wedi cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty), a yw'n angenrheidiol parhau i gynnal y CDU i ddiwallu holl anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant (gweler Pennod 17). Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad yw'n angenrheidiol cynnal y CDU, caiff roi'r gorau i'w gynnal. Mae Pennod 29 yn ymdrin â hyn ac amgylchiadau eraill lle mae dyletswydd i gynnal CDU yn peidio.

---

128 Rheoliad 15 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
129 Rheoliad 22 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
130 Adran 14(10)(a) – (b) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
131 Rheoliad 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
132 Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf fel y'u cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
133 Adran 23 o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

19.114 **Dylai'r** awdurdod lleol perthnasol gynnwys y gweithwyr proffesiynol sy'n darparu'r gwasanaethau gofal iechyd i'r plentyn neu'r person ifanc ac ystyried gwahodd cydgysylltydd gofal y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan mewn unrhyw adolygiad.

19.115 **Ni chaiff**[134] yr awdurdod lleol perthnasol godi tâl ar y plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, y rhiant am unrhyw DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth y mae'n ei sicrhau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

### Dyletswydd awdurdod lleol pan fydd plentyn neu berson ifanc yn gadael ysbyty ar ôl cael ei gadw'n gaeth

19.116 Os yw'r plentyn neu'r person ifanc (y mae CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer) yn cael ei ryddhau yn ôl i'r gymuned ar ôl cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ar ddyddiad ei ryddhau, **rhaid**[135] i'r awdurdod lleol hwnnw gynnal y CDU. Ond os yw'r person yn blentyn sydd, ar ôl cael ei ryddhau, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, **rhaid**[136] i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn gynnal y CDU.

19.117 Mae penodau 12 hyd 17 yn ymdrin â'r hyn y mae'n ei olygu i awdurdod lleol gynnal CDU o dan yr amgylchiadau sy'n cael eu trafod ym mhob pennod.

19.118 Os yw'r plentyn neu'r person ifanc sydd â CDU yn symud o gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty i gael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr, **rhaid**[137] i awdurdod cartref y person gadw'r CDU ac mae'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau sy'n deillio o gadw CDU (gweler uchod).

---

[134] Adran 49(1) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[135] Rheoliad 24 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[136] Adran 35(9) a (10) o'r Ddeddf.
[137] Adran 42 o'r Ddeddf a Rheoliad 25 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

# Pennod 20: Adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol

## *Cyflwyniad*

20.1. Bydd y dyletswyddau i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY yn berthnasol pan dynnir sylw ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol at y ffaith y gallai fod gan y person ADY, neu pan ddaw i sylw'r sefydliadau hyn mewn ffordd arall (mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ym Mhenodau 11-17 ac 19). Mae'r bennod hon yn darparu canllawiau ar pryd y mae'n ymddangos *y gallai fod gan* blentyn neu berson ifanc ADY, penderfynu a oes *gan* blentyn neu berson ifanc ADY (gan gynnwys pa fo wedi cael ei ddwyn i sylw'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol y gall fod gan y plentyn ADY), a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol.

## *Casglu tystiolaeth*

20.2. Mae angen tystiolaeth i adnabod a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY o bosibl ac i wneud y penderfyniad dilynol ynghylch a oes gan yr unigolyn ADY. Gallai'r dystiolaeth hon ddod gan staff mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach neu leoliad addysg arall neu wasanaethau eraill sydd wedi bod yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc. Gallai hefyd ddod gan y plentyn, ei rieni neu'r person ifanc ei hun.

20.3. Os oes gan y plentyn neu'r person ifanc anabledd wedi'i adnabod at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd y dystiolaeth a gesglir yn ymwneud â ph'un a yw'r anabledd hwnnw yn atal neu'n rhwystro'r plentyn neu'r person ifanc rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu mewn sefydliadau addysg bellach prif ffrwd yng Nghymru neu (i'r rhai o dan oedran ysgol gorfodol) lleoedd yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin. Mae'r dystiolaeth hon yn debygol o gael ei darparu ar ffurf cyngor gan wasanaethau arbenigol.

20.4. Yn achos y plant a'r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt anabledd wedi'i adnabod, yn y lle cyntaf, bydd modd casglu gwybodaeth am feysydd lle nad ydynt yn datblygu'n foddhaol trwy arsylwi ac asesu eu cynnydd. Gellir defnyddio nifer o wahanol ffynonellau tystiolaeth i fesur cynnydd plant a phobl ifanc (o ran cyrhaeddiad a meysydd eraill, er enghraifft lle mae angen i ddysgwr ddatblygu ymddygiadau cymdeithasol neu emosiynol ehangach). Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- adnoddau a fframweithiau sgrinio neu asesu safonedig;
- data arsylwi;
- ansawdd eu gwaith;
- rhestrau gwirio datblygiad;

- holiaduron graddfa;
- asesu drwy ymyriad;
- asesiadau asiantaethau eraill, e.e. cyrff iechyd;
- holiaduron a phrofion safonedig ym maes ymddygiad, a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol;
- mathau eraill o asesu personol, yn enwedig pan fo namau ar y synhwyrau yn golygu bod adnoddau a fframweithiau sgrinio ac asesu safonedig yn amhriodol.

20.5. Er enghraifft, bydd rhai plant sydd o dan oedran ysgol gorfodol yn cael addysg wedi'i seilio ar y cyfnod sylfaen y tu allan i leoliad ysgol a gynhelir. Gellir helpu i adnabod ADY trwy olrhain cynnydd plant o'r fath gan ddefnyddio proffil asesu priodol. Yn achos plant eraill o dan oedran ysgol gorfodol, mae'n bosibl y daw gwybodaeth gan ymwelwyr iechyd, neu sgrinio'r blynyddoedd cynnar, neu o ganlyniad i ymwneud y plentyn â darpariaeth Dechrau'n Deg.

20.6. Yn yr un modd, bydd ysgolion yn asesu cynnydd yn rheolaidd ac yn rhoi adroddiad i rieni ar sgiliau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys, ymhlith dulliau eraill, drwy brofion darllen a rhifedd cenedlaethol a thrwy ddefnyddio proffil asesu priodol.

20.7. Bydd sefydliadau addysg bellach hefyd yn defnyddio data monitro rheolaidd i olrhain cynnydd dysgwyr. **Dylai** pob ymgeisydd a myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach gael cyfle wrth ymgeisio, wrth gofrestru ac yn ystod y cwrs, i godi unrhyw bryderon ynghylch eu hanghenion dysgu.

20.8. Ar sail y dystiolaeth, gan gynnwys y data a gesglir, dylai fod yn bosibl adnabod dysgwyr sy'n gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl. Gellir disgrifio hyn fel cynnydd:

- sydd yn sylweddol arafach na chynnydd eu cyfoedion sy'n dechrau o'r un llinell sylfaen,
- nad yw'n cyfateb i nac yn rhagori ar gyfradd cynnydd flaenorol y plentyn neu'r person ifanc, neu,
- nad yw'n cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion, neu sy'n gwneud y bwlch yn fwy, er gwaethaf cymorth penodol i gau'r bwlch (e.e. addysgu gwahaniaethol).

## *Ystyried a defnyddio tystiolaeth*

20.9. Nid yw cynnydd araf a chyrhaeddiad isel yn golygu o reidrwydd fod gan blentyn neu berson ifanc ADY ac ni fyddai'n arwain yn awtomatig at benderfyniad bod gan y dysgwr ADY. Yn yr un modd, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod cyrhaeddiad sy'n arferol ar oedran penodol yn golygu nad oes ADY.

20.10. Mae'n anochel y bydd plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd ar gyfraddau gwahanol felly nid yw'r ffaith bod plentyn neu berson ifanc fel pe bai'n tangyflawni o gymharu ag eraill o'r un oedran, ar ei ben ei hun, yn brawf o ADY. Wrth ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gallai ddod i'r amlwg bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cynnydd da ar ôl dechrau ar linell sylfaen isel. Yn wir, bydd dysgwyr bob amser sydd ar lefelau cyrhaeddiad a gallu is, a fydd yn datblygu ar gyfradd arafach ond cyson. Bydd angen cymorth arnynt i fanteisio ar gwricwlwm gwahaniaethol er mwyn datblygu'n briodol, ond efallai na fydd y cymorth hwnnw yn gyfystyr â DDdY o reidrwydd.

20.11. Bydd angen i'r rheini sy'n ystyried y dystiolaeth ystyried a yw'r dystiolaeth yn cyfeirio at anghenion gwaelodol eraill ac nid ADY, ac os felly, a oes ffyrdd eraill o gefnogi anghenion y plentyn neu'r person ifanc a gwasanaethau eraill y mae angen iddynt fod yn rhan o fywyd y plentyn neu'r person ifanc, megis seicolegydd addysg, gwasanaethau lles addysgol, gwasanaethau cymdeithasol neu gyrff iechyd.

20.12. Yn benodol, gall llawer o ffactorau gyfrannu at berfformiad academaidd gwael neu gynnydd annigonol. Gall cofnodion presenoldeb gwael gyfrannu, diffyg cyfleoedd dysgu digonol, hanes o symud yn aml, newidiadau yn y staff addysgu neu'r amgylchedd dysgu neu heriau cymdeithasol a theuluol ehangach. Er y gallai'r ffactorau hyn fod yn bresennol os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac y gallent hyd yn oed gyfrannu at ADY, nid ydynt o anghenraid yn golygu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

20.13. Er mwyn canfod beth sy'n achosi'r perfformiad academaidd gwael neu gynnydd annigonol, gallai fod yn werth ystyried a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ymddwyn yn wahanol neu'n arddangos gallu dysgu gwahanol mewn gwahanol leoliadau ac amgylcheddau. Os yw plentyn neu berson ifanc eisoes yn hysbys i asiantaeth arall, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol, gallai fod yn ddefnyddiol gweithio'n agos gyda nhw. Drwy ymchwilio i weld a oes unrhyw wahaniaeth amlwg yn y dystiolaeth a ddarperir gan wahanol unigolion/asiantaethau a gwahanol leoliadau'r plentyn neu'r person ifanc, bydd modd dod i ddealltwriaeth well o'i anghenion. Os oes gwahaniaeth amlwg, efallai bod angen ymgynghori â gweithwyr proffesiynol sydd â'r arbenigedd perthnasol er mwyn ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc mewn modd cyfannol.

20.14. Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd camau ychwanegol neu wahanol er mwyn i'r dysgwr allu dysgu mewn ffordd fwy effeithiol. Yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol, yn aml, fyddai targedu’r meysydd penodol hynny sy’n wan gan y dysgwr. Disgwylir i bob lleoliad addysg gyflwyno addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol eraill, â'r nod o sicrhau gwell cynnydd, lle bo'n briodol, i bob dysgwr. Yn wir, bydd angen dull gwahaniaethol ar y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc mewn rhyw agwedd ar eu haddysg ar ryw adeg. Mae hon yn elfen sylfaenol – ond arferol – o addysgu o ansawdd.

20.15. Nid yw addysgu gwahaniaethol o'r fath, ynddo'i hun, yn gyfystyr â DDdY ac nid yw'r ffaith bod angen dull gwahaniaethol ar blentyn neu berson ifanc yn golygu bod ganddo ADY. Mae DDdY yn golygu hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgol ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol.

## *Pan mae'n ymddangos y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY*

20.16. Os bydd cynnydd yn parhau i fod yn llai na'r disgwyl ac os nad yw dulliau addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau safonol wedi'u targedu yn llwyddo i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion, byddai hyn fel arfer yn dangos i'r ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol y gallai fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Fel arall, gallai fod yn amlwg o'r cychwyn cyntaf fod maint y pryder neu natur yr anabledd a adnabyddwyd ymlaen llaw yn golygu ei bod yn eglur na fydd yr addysgu gwahaniaethol neu'r ymyriadau safonol wedi'u targedu yn ddigonol.

20.17. Yn yr amgylchiadau hyn, **dylai** staff addysgu mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach gynnwys Cydlynydd ADY yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach (os nad yw eisoes yn ymwneud â'r mater). **Dylai** fod prosesau clir mewn ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i staff dynnu sylw at bryderon a cheisio rhagor o gyngor a chymorth. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai fod angen ceisio cyngor allanol hefyd.

## *Penderfynu ar yr ADY a'r DDdY sy'n ofynnol*

20.18. Cyn gynted ag y bydd yn ymddangos i ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol y gall fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu ei fod yn cael ei ddwyn i'w sylw y gallai hyn fod yn wir, mae'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY yn gymwys (hynny yw, a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY). Bydd hyn yn cynnwys pennu graddau neu natur unrhyw ADY, a'r DDdY y mae'n galw amdani.

20.19. Mae angen i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw dystiolaeth a gasglwyd eisoes cyn iddi ymddangos y gallai fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, ond gallai fod angen casglu rhagor o dystiolaeth, cyngor neu gyfraniad gan sefydliadau neu weithwyr proffesiynol eraill yn ystod y broses benderfynu yn ôl yr angen. Bydd y dystiolaeth neu'r cyfraniad ychwanegol sy'n briodol yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol. Mater i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n penderfynu ar ADY neu sy'n pennu DDdY yw penderfynu pa gyfraniad i ofyn amdano yn unol â'r amgylchiadau unigol.

20.20. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n ofynnol ar y sawl sy'n arfer swyddogaeth i ystyried ceisio cyngor penodol neu i gynnwys person penodol yn y penderfyniad. Er enghraifft, ceir gofynion ar awdurdodau lleol i ystyried ceisio cyngor gan Seicolegydd Addysg, ac i geisio'r cyngor hwnnw pan fydd o'r farn bod hynny'n angenrheidiol, wrth benderfynu a oes gan blentyn neu beron ifanc ADY (gweler Penodau 11 hyd 16). Nid yw'r ffaith fod gofynion yn bodoli mewn rhai achosion yn golygu na fyddai cyngor gan Seicolegydd Addysg yn berthnasol mewn achosion eraill, er enghraifft pan fo ysgol yn penderfynu a oes gan ddisgybl ADY neu pan fo awdurdod lleol yn adolygu CDU. Nid yw'r ffaith fod y gofynion hynny'n bodoli yn golygu chwaith na fyddai cyngor gan arbenigwyr eraill (e.e. gweithwyr cymdeithasol, athrawon cymwysedig disgyblion byddar, neu athrawon cymwysedig disgyblion â nam ar eu golwg) neu gyfraniad pobl eraill mewn penderfyniadau yn angenrheidiol yn yr achosion hynny; bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

20.21. Yn ogystal â hyn, mewn rhai achosion, gallai fod angen cyngor meddygol gan gorff iechyd am effaith anabledd neu gyflwr meddygol er mwyn helpu i adnabod union natur yr anhawster dysgu neu'r anabledd (neu a oes anhawster neu anabledd o gwbl) a pha ddarpariaeth y mae galw amdani, a allai fod yn DDdY (ceir canllawiau manwl am rôl a dyletswyddau cyrff iechyd ym Mhennod 21).

20.22. Fel y disgrifir ym Mhennod 4, ceir dyletswydd gyffredinol sy'n ymwneud â chynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod gan y plentyn neu berson ifanc, ac yn y broses o lunio CDUau. At hynny, un o amcanion sylfaenol y system ADY yw rhoi lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses o adnabod ADY a phenderfynu ar ei DDdY (gweler yr egwyddorion ym Mhennod 3). Mae canllawiau ar gwrdd â phlant, eu rhieni a phobl ifanc i drafod penderfyniadau ynghylch ADY a CDUau i'w gweld ym Mhennod 22.

## *Yr ymateb graddedig ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY*

20.23. **Dylai** ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau. Mae hyn yn golygu y **dylai'r** DDdY sy'n cael ei gwneud fod ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Yn benodol **dylai** ysgolion a sefydliadau addysg bellach wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael iddynt cyn galw, lle bo angen, ar arbenigwr i gynorthwyo gyda'r anawsterau y gall plentyn neu berson ifanc fod yn eu hwynebu.

20.24. Mewn llawer o achosion, bydd y DDdY a sefydlir i ddechrau yn golygu bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu'n llawn neu eu datrys. Dim ond ar gyfer y plant neu'r bobl ifanc hynny y mae eu cynnydd yn parhau i achosi pryder y bydd angen DDdY gynyddol neu wahanol yn ôl pob

tebyg. Mae'n bosibl y bydd modd lleihau DDdY yn raddol yn hytrach na'i chynyddu ar gyfer rhai plant neu bobl ifanc os yw'r ymyriadau yn llwyddiant.

# Pennod 21: Gwaith amlasiantaeth

## *Cyflwyniad*

21.1. Un o egwyddorion allweddol y system ADY yw'r angen am gydweithredu rhwng pawb sy'n ymwneud ag adnabod anghenion ac â chynllunio a darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY. Yn hyn o beth, yn ogystal â'r prif ddyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu, mae swyddogaethau hefyd gan bersonau perthnasol (gweler y diffiniad o 'personau perthnasol' ym mharagraff 21.5). Bwriedir i'r swyddogaethau sydd gan bersonau perthnasol gefnogi awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu wrth iddynt arfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad ag ADY. Mae'r bennod hon yn egluro'r swyddogaethau sydd gan bersonau perthnasol, ac yn rhoi arweiniad yn eu cylch. (Gweler Pennod 3 i gael gwybod rhagor am egwyddorion cyffredinol y Cod, a Phenodau 11 hyd 17 i gael gwybod rhagor am y prif ddyletswyddau.)

21.2. Mae paragraffau 21.5 – 21.13 yn delio â'r ddyletswydd sydd ar bersonau perthnasol i gydymffurfio â chais am wybodaeth neu gymorth arall. Maent yn berthnasol i bob person perthnasol.

21.3. Mae paragraffau 21.14 - 21.20 yn delio â'r dyletswyddau sydd ar gyrff iechyd[1] sy'n ymwneud ag adnabod plant o dan oedran ysgol gorfodol a allai fod ag ADY.

21.4. Mae paragraffau 21.21 - 21.39 yn berthnasol i gyrff y GIG ac yn delio ag achosion a atgyfeirir atynt i ganfod a oes DDdY y gallant ei chynnig.

## *Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol*

21.5. **Caiff**[2] awdurdod lleol wneud cais am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol, y mae ei angen er mwyn arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Personau perthnasol yw[3]:

- awdurdod lleol;
- awdurdod lleol yn Lloegr;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
- perchennog Academi;

[1] Gweler Pennod 1 am y cyrff a gwmpesir gan y term hwn (sy'n cynnwys rhai cyrff yn Lloegr) at ddibenion y Cod a'r rhai a gwmpesir gan "gorff y GIG" (dim ond Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yw'r olaf).
[2] Adran 65 o'r Ddeddf.
[3] Cyfeirir at y cyrff hyn fel "personau perthnasol" drwy'r Cod a rhaid i bob un ohonynt roi sylw i ganllawiau perthnasol yn y Cod wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf: gweler paragraff 1.3.

- tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
- person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG;
- Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- grŵp comisiynu clinigol;
- Ymddiriedolaeth sefydledig y GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig.

21.6. **Rhaid**[4] i berson perthnasol gydymffurfio â chais o'r fath oni bai ei fod yn ystyried y byddai hynny'n anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu y byddai'n cael effaith andwyol mewn ffordd arall ar arfer ei swyddogaethau.

21.7. Os bydd person perthnasol yn penderfynu peidio â chydymffurfio â'r cais gan yr awdurdod lleol, **rhaid**[5] i'r person roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r awdurdod.

21.8. Dim ond pan fydd *awdurdod lleol* yn gwneud cais am wybodaeth neu gymorth arall y bydd y ddyletswydd hon i ymateb yn berthnasol. Serch hynny, gall ysgolion a sefydliadau addysg bellach ddal i wneud ceisiadau am wybodaeth neu gymorth arall i bersonau perthnasol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o ran ADY. Os bydd y person perthnasol yn ymateb, efallai y gellir delio'n gynt â'r mater, heb orfod cynnwys awdurdod lleol.

21.9. Os bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach yn llunio neu'n cynnal CDU, ond nad yw'n gallu cael y cymorth neu'r wybodaeth sydd ei hangen oddi wrth berson perthnasol, **dylai** godi'r mater gyda'r awdurdod lleol cyfrifol. Efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros lunio[6] neu gynnal[7] y CDU, ac yna wneud cais ei hun i'r person perthnasol am yr wybodaeth neu'r cymorth arall.

21.10. Efallai y bydd cais awdurdod lleol am wybodaeth neu am fath arall o gymorth gan bersonau perthnasol yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol, neu efallai y bydd yn cyfeirio at fater mwy cyffredinol i gefnogi'r awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau.

21.11. Os mai arfer swyddogaeth sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol yw diben cais yr awdurdod lleol, ac os yw'r person perthnasol o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r cais, **rhaid**[8] i'r person perthnasol gydymffurfio'n brydlon, ac yn sicr o fewn chwe wythnos i gael y cais. Nid

[4] Adran 65(2) o'r Ddeddf.
[5] Adran 65(3) o'r Ddeddf.
[6] Os nad yw'r ysgol neu'r sefydliad AB yn gallu pennu graddau neu natur yr ADY yn ddigonol, neu os nad yw'n gallu pennu'r DDdY yn ddigonol, gall atgyfeirio achos y plentyn neu'r person ifanc at yr awdurdod lleol er mwyn iddo benderfynu ar ADY a llunio CDU: adran 12(2) o'r Ddeddf.
[7] Byddai angen i'r ysgol neu'r sefydliad AB ofyn i'r awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb o dan adran 28 o'r Ddeddf.
[8] Rheoliad 31 o Reoliadau Anghenon Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

oes angen i'r person perthnasol gydymffurfio â'r cais o fewn y cyfnod chwe wythnos hwnnw os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.[9] Os yw'r person perthnasol yn gwybod na fydd yn gallu ymateb cyn diwedd y cyfnod hwnnw o chwe wythnos, **dylai** roi gwybod i'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl am hyn ac am y rhesymau dros hynny, a nodi pryd y mae'n disgwyl gallu ymateb.

21.12. Os nad yw cais yr awdurdod lleol am wybodaeth neu gymorth arall yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol, **rhaid**[10] i'r person perthnasol sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio wneud hynny yn brydlon. Gallai cais o'r fath, er enghraifft, ymwneud ag adolygiad awdurdod lleol o'r trefniadau Gallai cais o'r fath, er enghraifft, ymwneud ag adolygiad awdurdod lleol o'r trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY[11] neu sefydlu mecanwaith ar gyfer cyfathrebu effeithiol sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf yn gyffredinol.

21.13. Wrth wneud cais am wybodaeth neu gymorth arall, **dylai** awdurdod lleol roi gwybod i'r person perthnasol ei fod yn gais o dan adran 65 o'r Ddeddf ac, oni bai ei bod yn amlwg, dylid nodi p'un a yw'r cais yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol ai peidio. **Dylai'r** awdurdod lleol hefyd roi gwybod i'r person perthnasol am y gofyniad i ymateb yn brydlon ac, os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol, erbyn diwedd y cyfnod chwe wythnos oni bai bod yr eithriad yn berthnasol. **Caiff** yr awdurdod lleol hefyd roi gwybod i'r person perthnasol am unrhyw amser cynharach pan fyddai'n fuddiol i'r awdurdod lleol gael yr ymateb, a **chaiff** dynnu sylw'r person perthnasol at y Cod. Byddai hyn yn rhybuddio'r person perthnasol am ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, ac yn rhoi rhagor o wybodaeth iddo ynghylch natur y cais er mwyn gallu ymateb yn briodol, er enghraifft drwy ymateb yn llawer cynharach na'r terfyn amser o chwe wythnos os yw'r cais yn un brys. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig wrth wneud cais am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol nad ydynt yn cael fawr ddim ceisiadau o dan y system ADY o bosibl. Er enghraifft, wrth lunio neu adolygu CDU, efallai y bydd awdurdod lleol yn gwneud cais am wybodaeth gan berson perthnasol y tu allan i Gymru, er enghraifft, cais am wybodaeth am blentyn neu berson ifanc i dîm troseddwyr ifanc yn Lloegr.

## *Adnabod ADY mewn plant o dan oedran ysgol gorfodol - rôl cyrff iechyd a'r ddyletswydd i roi gwybod*

21.14. Gall cyrff iechyd helpu i adnabod yn gynnar y plant bach hynny a allai fod ag ADY, drwy gyfrwng gwasanaethau o bob math. Yn aml, mae gweithwyr iechyd proffesiynol, fel pediatregwyr ac ymwelwyr iechyd, yn dod i gysylltiad â'r plentyn cyn gweithwyr addysg proffesiynol. Felly, yn aml, maent mewn sefyllfa i adnabod ADY posibl cyn unrhyw un arall. Mae asesiadau iechyd

[9] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[10] Rheoliad 31 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[11] Adran 63 o'r Ddeddf.

safonol, megis y prawf sgrinio clyw, a ddefnyddir i wirio clyw pob baban newydd-anedig, yn ei gwneud yn bosibl adnabod amrywiaeth o anawsterau meddygol a chorfforol yn gynnar iawn.

21.15. Os bydd corff iechyd, wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano, yn dod i'r casgliad bod gan y plentyn ADY, neu fod ganddo ADY yn fwy na thebyg, **rhaid**[12] iddo roi gwybod i riant y plentyn am ei farn ac am ei ddyletswydd (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf) i dynnu sylw awdurdod lleol at hyn. **Rhaid**[13] iddo roi cyfle i'r rhiant drafod y mater gydag un o'i swyddogion.

21.16. Ar ôl cael y drafodaeth honno, os yw'r corff iechyd yn parhau i fod o'r farn bod gan y plentyn ADY, neu fod ganddo ADY yn fwy na thebyg a'i fod yn fodlon y byddai dwyn hyn i sylw'r awdurdod lleol er lles pennaf y plentyn, **rhaid**[14] iddo wneud hynny. At y dibenion hyn, yr awdurdod lleol y mae hi'n ofynnol i'r corff iechyd ddwyn y mater i'w sylw yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn[15] neu, os yw'r plentyn yn derbyn gofal,[16] yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

21.17. Y corff iechyd sydd i benderfynu ai dod â'r mater i sylw'r awdurdod lleol yw'r peth gorau ar gyfer y plentyn ai peidio. Ymhlith y ffactorau perthnasol, gellid ystyried:

- a fydd rhoi gwybod i'r awdurdod lleol yn helpu'r awdurdod i gynllunio ar gyfer darpariaeth y bydd ei hangen ar y plentyn pan fydd yn mynychu lleoliad blynyddoedd cynnar neu ysgol gynradd;
- a allai rhoi gwybod i'r awdurdod lleol ei alluogi i sefydlu DDdY cyn i'r plentyn gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol - gallai'r ymyriad cynnar hwn leihau effaith ADY ar y plentyn neu osgoi gwaethygu effaith ADY ar y plentyn;
- a fydd yr awdurdod lleol o bosibl yn gallu cefnogi'r rhieni i gefnogi eu plentyn mewn ffyrdd eraill. Gallai cymorth o'r fath fod yn emosiynol neu helpu i sefydlu ymddiriedaeth a pherthynas gadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a'r rhieni.

21.18. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, dwyn y mater i sylw'r awdurdod lleol fyddai'r peth gorau ar gyfer y plentyn yn ôl pob tebyg, ond gallai fod rhesymau eraill sy'n drech na hyn mewn rhai achosion, neu mae'n bosibl nad dyna fyddai'r peth gorau ar yr adeg honno. Y drafodaeth gyda'r rhieni yw'r cyfle i archwilio a oes unrhyw ystyriaethau gwrthbwysol, yn ogystal â chanfod barn y rhieni.

---

[12] Adran 64 o'r Ddeddf.
[13] Adran 64(4) o'r Ddeddf.
[14] Adran 64(4) o'r Ddeddf.
[15] Dyma'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (h.y. yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn ei ardal) (adran 99(4) o'r Ddeddf). Gweler Pennod 1 am ragor o wybodaeth am ystyr hyn.
[16] Gweler Pennod 1 am ystyr plentyn sy'n derbyn gofal.

21.19. Os bydd y corff iechyd o'r farn bod corff gwirfoddol penodol yn debygol o allu rhoi cyngor neu gymorth arall i'r rhieni mewn perthynas ag unrhyw ADY a allai fod gan y plentyn, **rhaid**[17] iddo roi gwybod i'r rhieni.

21.20. Pan fydd awdurdod iechyd yn hysbysu awdurdod lleol o'i farn bod gan blentyn ADY, neu fod ganddo ADY yn fwy na thebyg, mae'n debygol y bydd yr awdurdod lleol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio (gweler Pennod 11).

## _DDdY gan gyrff y GIG_

21.21. Bydd angen cymorth cyrff y GIG er mwyn diwallu anghenion rhai plant a phobl ifanc. Gall cyrff y GIG helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn pob math o ffyrdd. Er enghraifft, gallant:

- ddarparu cyngor ar y DDdY i'w chyflwyno;
- darparu cyngor er mwyn helpu i adnabod anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc yn fwy effeithiol ac amserol;
- darparu cyngor i staff ar addasu amgylchedd addysg y plentyn neu'r person ifanc;
- darparu hyfforddiant i staff mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol penodol plentyn neu berson ifanc;
- cefnogi'r gwaith o fonitro cynnydd y plentyn a darparu adroddiadau yn ôl y gofyn.

21.22. Caiff awdurdod lleol geisio mewnbwn o'r math hwn gan un o gyrff y GIG drwy wneud cais am wybodaeth neu gymorth arall (gweler paragraffau 21.5 hyd 21.13).

21.23. Yn ogystal, o dan y system ADY, mae gan gyrff y GIG rôl i'w chwarae wrth gyflwyno DDdY, os yw'r ddarpariaeth yn rhywbeth y byddent yn ei chyflwyno'n arferol fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru (gweler Pennod 23 i gael gwybod rhagor am DDdY a'r canlyniadau a fwriedir).

21.24. **Caiff**[18] awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach atgyfeirio mater at un o gyrff y GIG, gan ofyn iddo a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc (ond gweler y manylion isod ynghylch y rhai a gaiff wneud atgyfeiriad a'r hyn y mae'n rhaid ei wneud yn gyntaf). Gallai wneud hyn pan fyddai'n ystyried y gallai un o gyrff y GIG fod mewn sefyllfa i gyflwyno DDdY i ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc. Ystyr triniaeth neu wasanaeth perthnasol yw triniaeth neu wasanaeth y byddai un o gyrff y GIG yn ei ddarparu'n arferol fel rhan o wasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru.[19]

[17] Adran 64(5) o'r Ddeddf.
[18] Adran 20(1) o'r Ddeddf.
[19] Adran 20(6) o'r Ddeddf.

21.25. Wrth atgyfeirio mater at Fwrdd Iechyd Lleol **dylid** atgyfeirio'r achos at y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am y rhai sydd fel arfer yn preswylio yn yr ardal y'i sefydlwyd ar ei chyfer.[20] Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn nad yw'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, **dylai** godi'r mater ar y cyfle cynharaf bosibl gyda'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach a atgyfeiriodd yr achos er mwyn i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach, os nad yw'n gyfrifol, allu gwneud atgyfeiriad at y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc.

**Pwy all atgyfeirio achos at gyrff y GIG?**

| Mae'r achos yn ymwneud â | Y corff sy'n gallu atgyfeirio[21] |
|---|---|
| Plentyn | Awdurdod lleol |
| Person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir | Awdurdod lleol |
| Person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir (e.e. sy'n cael ei addysgu mewn sefydliad addysg bellach neu leoliad arbenigol) | Y corff sy'n llunio neu'n cynnal CDU y person ifanc, sef naill ai awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach |

21.26. **Ni chaiff**[22] awdurdod lleol na sefydliad addysg bellach atgyfeirio achos at unrhyw un o gyrff y GIG oni bai:

- ei fod wedi rhoi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, ei fod yn bwriadu atgyfeirio'r achos,
- ei fod wedi rhoi cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, drafod p'un a ddylid atgyfeirio'r achos, ac
- ei fod yn fodlon mai atgyfeirio'r achos sy'n sicrhau budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

21.27. Wrth atgyfeirio mater i un o gyrff y GIG, **dylai** awdurdod lleol roi gwybod i'r corff hwnnw bod yr achos yn cael ei atgyfeirio o dan adran 20 o'r Ddeddf.

21.28. Pan atgyfeirir mater, **rhaid**[23] i gorff y GIG ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod yn fuddiol o ran mynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc – h.y. fel y cyfeirir atynt uchod, a oes triniaeth neu wasanaeth y byddai'n ei ddarparu fel arfer (i'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw) yn rhan o'r gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru.

21.29. Os bydd corff y GIG yn nodi triniaeth neu wasanaeth o'r fath, **rhaid**[24] iddo-

[20] Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009.
[21] Adran 20(2) o'r Ddeddf.
[22] Adran 20(3) o'r Ddeddf.
[23] Adran 20(4) o'r Ddeddf.
[24] Adran 20(5) o'r Ddeddf.

- sicrhau'r driniaeth neu'r gwasanaeth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc
- penderfynu a ddylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg, a
- chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy'r Gymraeg, os yw'n penderfynu y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg.

21.30. **Rhaid**[25] iddo hefyd-

- roi gwybod i'r sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol a atgyfeiriodd yr achos am y driniaeth neu'r gwasanaeth,
- os nad atgyfeiriwyd yr achos gan gorff sy'n cynnal y CDU, rhoi gwybod i'r corff sy'n cynnal y CDU am y driniaeth neu'r gwasanaeth, ac
- os yw corff y GIG o'r farn y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth drwy'r Gymraeg, rhoi gwybod i'r rheini a restrwyd uchod (yn y ddau bwynt bwled blaenorol) y dylid ei ddarparu drwy'r Gymraeg.

21.31. Ar ôl i achos gael ei atgyfeirio, os na fydd corff y GIG yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd er mwyn mynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc, **rhaid**[26] iddo:

- roi gwybod am hynny i'r corff a aygyfeiriodd yr achos
- os nad atgyfeiriwyd yr achos gan gorff sy'n cynnal CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, rhoi gwybod am hynny i'r corff sy'n cynnal y cynllun.

21.32. **Rhaid**[27] i gorff y GIG gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi gwybod am ganlyniad ei ystyriaeth (a ddisgrifir ym mharagraffau 21.30 - 21.31) yn brydlon, ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o chwe wythnos ar ôl i'r atgyfeiriad ddod i law.  Nid oes angen i gorff y GIG gydymffurfio â'r ddyletswydd i hysbysu ynghylch canlyniad ei ystyriaeth cyn diwedd y cyfnod chwe wythnos os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[28].

21.33. Os bydd corff y GIG yn gwybod na fydd yn gallu ymateb erbyn diwedd y chwe wythnos, **dylai** corff y GIG roi gwybod am hynny i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach a wnaeth yr atgyfeiriad ar y cyfle cyntaf, rhoi gwybod am y rhesymau dros yr oedi a nodi pryd y mae'n disgwyl gallu ymateb.

21.34. Os nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol ac os bydd corff y GIG yn hysbysu'r corff sy'n cynnal y CDU yn ei gylch, **rhaid**[29] i'r corff sy'n cynnal y cynllun wedyn ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi

[25] Adran 21(1) o'r Ddeddf.
[26] Adran 21(2) o'r Ddeddf.
[27] Rheoliad 11 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[28] Gweler Pennod 1 i gael gwybod rhagor am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[29] Adran 21(3) o'r Ddeddf.

mai DDdY i'w sicrhau gan gorff y GIG ydyw. Os bydd corff y GIG o'r farn y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth drwy'r Gymraeg ac os bydd wedi hysbysu'r corff sy'n cynnal y CDU o hynny, **rhaid**[30] i'r corff sy'n cynnal y cynllun nodi yn y CDU mai DDdY i'w chyflwyno drwy'r Gymraeg yw'r driniaeth neu'r gwasanaeth. Mae rhagor o wybodaeth am CDUau a'u cynnwys wedi'i nodi ym Mhennod 23.

21.35. I ategu'r broses hon, **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU anfon templed at gorff y GIG y gall corff y GIG ei lenwi i ddisgrifio'r DDdY sydd wedi'i nodi ganddo. Ar ôl ei lenwi, **dylai** corff y GIG anfon y templed yn ôl at y corff sy'n cynnal y CDU i sicrhau bod y disgrifiad yn y CDU yn gywir. Darperir templed yn Atodiad C.

21.36. Fel y nodir uchod, **rhaid**[31] i gorff y GIG sicrhau'r DDdY ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc sy'n driniaeth neu'n wasanaeth a nodwyd ganddo. **Ni cheir**[32] tynnu'r disgrifiad o'r DDdY hon o'r CDU na'i ddiwygio ac eithrio ar ôl adolygu'r CDU[33] ac os bydd corff y GIG yn cytuno neu'n gwneud cais am hynny. **Caiff**[34] corff y GIG wneud cais am adolygiad ar unrhyw adeg ac, os gwnaiff hynny, **rhaid**[35] i'r corff sy'n cynnal y CDU ei adolygu. Os bydd corff y GIG, yn ei adolygiad, yn gofyn i'r corff sy'n cynnal CDU ddileu neu newid y disgrifiad o'r DDdY y mae'n rhaid i gorff y GIG eu sicrhau; **rhaid**[36] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU gydymffurfio â'r cais. I gael rhagor o wybodaeth am adolygu CDUau gweler Pennod 25.

21.37. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn peidio â bod yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Iechyd Lleol a nodwyd mewn CDU fel y corff sy'n gyfrifol am sicrhau DDdY (er enghraifft, ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc symud allan o ardal y Bwrdd Iechyd Lleol), **caiff**[37] y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw ofyn i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU ei adolygu; a gofyn am gael gwared ar y disgrifiad o'r DDdY a bennwyd fel darpariaeth iddo ef ei sicrhau wrth gynnal yr adolygiad. Byddai angen i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud hyn er mwyn cael ei ryddhau o'i ddyletswydd i sicrhau'r DDdY honno. Yna **rhaid**[38] i'r ysgol, yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach adolygu'r CDU a newid neu gael gwared ar y disgrifiad o'r DDdY, fel na phennir mwyach mai'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw sydd i'w darparu. **Caiff**[39] yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, fel y bo'n berthnasol, atgyfeirio'r achos at y Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi dod yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc.

[30] Adran 21(4) o'r Ddeddf.
[31] Adran 20(5) o'r Ddeddf.
[32] Adran 21(6) o'r Ddeddf.
[33] O dan adran 23 neu 24 o'r Ddeddf.
[34] Adrannau 23(7) a 24(6) o'r Ddeddf.
[35] Adrannau 23(7) a 24(6) o'r Ddeddf.
[36] Adran 21(7) o'r Ddeddf.
[37] Adrannau 23(7), 24(6) a 21(6) o'r Ddeddf.
[38] Adrannau 23(7), 24(6) a 21(7) o'r Ddeddf. Gweler hefyd Pennod 25 am adolygu CDUau
[39] Adran 20 o'r Ddeddf (yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir uchod).

21.38. **Rhaid**[40] i bawb sy'n ymwneud â sicrhau DDdY ar gyfer plentyn ag ADY sy'n cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ochr yn ochr â phlant nad oes ganddynt ADY. Dim ond i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'r canlynol y mae hyn yn gymwys:

- bod y plentyn yn derbyn DDdY sydd ei hangen oherwydd ei ADY,
- bod addysg effeithlon yn cael ei darparu i'r plant y bydd ef neu hi yn cael ei (h)addysgu gyda nhw, a
- bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon.

21.39. Os bydd y Tribiwnlys yn gorchymyn diwygio CDU mewn perthynas â DDdY y nodwyd ei bod yn DDdY y mae'n rhaid i un o gyrff y GIG ei sicrhau, nid yw'n ofynnol i gorff y GIG sicrhau'r DDdY ddiwygiedig oni bai ei fod yn cytuno i wneud hynny[41]. **Dylai'r** corff sy'n cynnal y CDU weithio gyda chorff y GIG o dan amgylchiadau o'r fath i weld pa gytundeb y gellir ei gyrraedd.

[40] Adran 52 o'r Ddeddf.
[41] Adran 21(9) o'r Ddeddf.

# Pennod 22: Cyfarfodydd am ADY a CDUau

## *Cyflwyniad*

22.1. Mae’r bennod hon yn nodi canllawiau ac egwyddorion arfer dda ar gyfer cyfarfodydd am ADY a CDU. Mae'n ymdrin â rôl cyfarfodydd yn y system ADY, egwyddorion arfer dda, paratoi ar eu cyfer a'r hyn y dylid ei drafod mewn mathau penodol o gyfarfod.

22.2. Fel a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau yn eu cylch, gan gynnwys p'un a oes ganddynt ADY a llunio neu adolygu CDU. (Dylid darllen y bennod hon ar y cyd â Phennod 4; a phan fo cyfarfodydd yn ymwneud ag adolygu CDU, ar y cyd â Phennod 25.)

22.3. Mae cyfarfodydd yn chwarae rhan allweddol o ran helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn ganolog i'r broses sy'n adnabod ei ADY ac yn penderfynu ar ei DDdY. Gallant roi cyfle effeithiol i blant, pobl ifanc a rhieni ofyn cwestiynau wrth iddynt godi, cynnig barn ac ymateb i faterion a godir. Gallant hefyd fod yn ffordd o gynorthwyo plant, eu rhieni a phobl ifanc i ddeall y prosesau a'r materion dan sylw. Mae ganddynt y fantais o roi cyfle i weithwyr proffesiynol bennu a yw plentyn, rhiant neu berson ifanc wedi deall rhywbeth a cheisio egluro pwyntiau lle mae'n ymddangos nad ydynt wedi deall rhywbeth.

22.4. Er bod cyfarfodydd i drafod addysg ac anghenion plentyn neu berson ifanc wedi cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn draddodiadol, mae datblygiadau technolegol yn rhoi mwy o gyfle i gynnal cyfarfodydd rhithwir, yn llwyr neu’n rhannol, gan gysylltu pobl sy’n bell oddi wrth ei gilydd. Bydd angen ystyried yr holl amgylchiadau wrth benderfynu a yw hi’n briodol cynnal cyfarfod yn y modd hwn, gan gynnwys, yn hollbwysig, a yw’r dechnoleg briodol ar gael yn ddigon rhwydd i’r plentyn, ei riant neu’r person ifanc, ac a fyddai’n gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfod rhithwir. Mae’n debygol mai cyfarfodydd lle y mae pawb yn yr un ystafell fydd fwyaf effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd rhwystrau rhag cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb mewn rhai achosion ac fe allai fod yn briodol ei gynnal yn rhithiol, yn llwyr neu’n rhannol. Er enghraifft, gallai ganiatáu i weithiwr proffesiynol gymryd rhan yn y drafodaeth, er na all fod yn bresennol yn lleoliad y cyfarfod.

22.5. Mae'r canllawiau yn y bennod hon yn cymryd y bydd y plentyn yn bresennol yn y cyfarfod. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn briodol ym mhob achos, er enghraifft, mae plentyn ifanc iawn yn annhebygol o fod yn bresennol a bydd rhai plant yn bresennol am ran o'r cyfarfod yn unig, o bosibl.

## *Egwyddorion arfer dda ar gyfer cyfarfodydd*

22.6. **Dylai** ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n cynnal cyfarfod gyda phlentyn, ei riant neu berson ifanc:

(a) gynnal y cyfarfod(ydd) gan dilyn dulliau ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion; a
(b) chasglu a chyflwyno gwybodaeth mewn dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (lle bo'n berthnasol).

22.7. Mae ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi'r lle canolog i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wrth wneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau canllaw ar ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac maent ar gael ar lein.[1]

22.8. Gan mai'r egwyddor allweddol ar gyfer cyfarfodydd yw defnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, bydd y gwaith o baratoi ar gyfer unrhyw gyfarfod, ei fformat a sut mae'n cael ei gynnal, a nifer y cyfarfodydd a gynhelir yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos. Bydd angen i unrhyw bolisïau neu brosesau sydd gan ysgolion, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol ym maes cyfarfodydd fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu dull sy'n briodol yn amgylchiadau unigol unrhyw achos.

22.9. Er mwyn gweithredu ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, **dylai** cyfarfodydd gynnwys y plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn briodol nac yn bosibl.

22.10. Gall cyfarfodydd fod yn frawychus i blant, eu rhieni a phobl ifanc, yn enwedig os oes nifer fawr o weithwyr proffesiynol yn bresennol. **Dylai**'r ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n trefnu cyfarfod ystyried a oes unrhyw fesurau y gallai eu rhoi ar waith a fyddai'n gwneud rhagor i hwyluso cyfranogiad y plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, ei riant yn y cyfarfod ei hun, neu yn y broses ehangach o wneud penderfyniadau. Wrth wneud hyn, **dylai** ystyried barn y plentyn, ei riant neu'r person ifanc ac unrhyw ddewisiadau a fynegwyd ganddynt yn flaenorol. Gallai mesurau o'r fath gynnwys y canlynol:

(a) cyfarfod neu gyfarfodydd ar wahân gyda phlentyn, ei riant neu berson ifanc a dim ond un neu ddau o weithwyr proffesiynol. Gallai hwn fod yn gyfarfod gyda'r plentyn, ei riant neu berson ifanc i fynnu eu barn cyn cyfarfod mwy gyda'r holl weithwyr proffesiynol angenrheidiol. Gellid cael cyfarfod ar wahân wedyn i gael adborth y plentyn, ei riant

[1] Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/ymarfer-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion-mewn-addysg-canllaw-ar-gyfer-blynyddoedd-cynnar-ysgolion-a-cholegau-yng-nghymru.pdf
Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/pecyn-cymorth-adolygiadau-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion.pdf.

neu'r person ifanc ar y safbwyntiau y daethpwyd iddynt yn y cyfarfod mwy. Gallai hefyd fod yn briodol i'r sawl sy'n trefnu cyfarfod gyda nifer fawr o weithwyr proffesiynol ofyn i rai ohonynt adael yn ystod y cyfarfod pe byddai hynny'n galluogi'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc i fynegi ei farn yn well.

(b) plentyn neu berson ifanc yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod yn unig;
(c) cynllunio trefn yr ystafell i weddu i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc;
(d) cynnal y cyfarfod mewn ystafell y mae'r plentyn, ei riant neu berson ifanc yn gyfarwydd â hi neu'n gyfforddus ynddi;
(e) cael aelod o staff addysgu yn bresennol y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ymddiried ynddo neu'n cyfathrebu'n dda gydag ef i helpu i egluro materion a barnu a yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi deall beth sy'n digwydd. Trwy gynnwys rhywun y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei adnabod yn dda, gellir ennyn mwy o hyder ymhlith y plentyn, ei riant neu'r person ifanc;
(f) paratoi plentyn, ei riant neu berson ifanc ar gyfer y cyfarfod drwy egluro beth fydd yn digwydd, faint o bobl fydd yno, pwy fydd yn eistedd ble, y cwestiynau sy'n debygol o gael eu gofyn iddynt a'r materion sy'n debygol o gael eu trafod;
(g) galluogi'r plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan yn rhithiol, ar yr amod y gall gymryd rhan yn effeithiol (gweler paragraff 2.4).

22.11. Os mai diben y cyfarfod yw i ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY neu i lunio CDU, **dylai'r** cydgysylltydd dynodedig (gweler Penodau 11 hyd 17 a 19) fod yn gyfrifol am drefnu'r cyfarfod a **dylai** arwain y cyfarfod. Yn yr un modd, wrth adolygu CDU**,** y sawl sy'n gyfrifol am gynnal yr adolygiad **ddylai** fod yn gyfrifol am drefnu'r cyfarfod a'i arwain. Yn achos cyfarfodydd eraill, gellir eu trefnu a'u rhedeg mewn ffyrdd eraill, ar yr amod bob amser bod y dull yn briodol i amgylchiadau'r plentyn penodol a'i riant neu'r person ifanc. Er enghraifft, gallai ysgol neu sefydliad addysg bellach benderfynu y dylai'r Cydlynydd ADY drefnu ac arwain pob cyfarfod i gael cydsyniad gan berson ifanc i benderfyniad ar ADY, ond, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r Cydlynydd ADY gynnwys athro sy'n adnabod y person ifanc yn well er mwyn arwain y broses o gyfathrebu â'r person ifanc yn y cyfarfod hwnnw.

22.12. **Dylai'r** ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gymryd yr amser i egluro i'r plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, i'w riant, y rhesymeg y tu ôl i unrhyw benderfyniad a wneir. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle bu gwahaniaeth barn.

### Paratoi ar gyfer cyfarfodydd

22.13. Ar yr amod y paratowyd yn briodol ar eu cyfer, cyfarfodydd, fel arfer, fydd y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau am ADY. Mae'n hollbwysig paratoi ar gyfer cyfarfodydd.

22.14. **Dylai** ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ystyried a oes angen iddynt ofyn am dystiolaeth neu gyngor cyn y cyfarfod ac ystyried pwy arall ddylai fod yn bresennol. Bydd angen tystiolaeth a chyngor bron ym mhob achos ar gyfer cyfarfodydd i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â materion ADY. **Rhaid**[2] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n trefnu'r cyfarfod roi sylw hefyd i farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant wrth ystyried fformat y cyfarfod a phwy ddylai fod yn bresennol.

22.15. Cyn belled ag y bo modd, dylai'r person yn yr ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefnu cyfarfod fod yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag anghenion ehangach y plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn ei helpu i ystyried pa dystiolaeth ychwanegol i'w cheisio ar gyfer y cyfarfod ac, yn y pen draw, roi dealltwriaeth fwy cyflawn a chynhwysfawr o'r plentyn neu'r person ifanc a'i anghenion. I'r perwyl hwn, efallai y bydd yn briodol i'r person dan sylw fynychu unrhyw gyfarfodydd eraill am y plentyn neu'r person ifanc y mae'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn ymwybodol ohonynt, megis cyfarfodydd diogelu. Lle nad yw'n bosibl i'r person fynychu cyfarfodydd eraill sy'n gysylltiedig ag anghenion ehangach plentyn neu berson ifanc, **dylai** ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, lle y bo modd, geisio canfod canlyniad unrhyw benderfyniadau mewn cyfarfodydd o'r fath neu gael unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n deillio ohonynt.

22.16. Ar gyfer penderfyniadau ynghylch a oes gan unigolyn ADY neu ynghylch cynnwys CDU, gallai fod yn ddefnyddiol defnyddio'r penawdau canlynol o ran ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i strwythuro'r dull o gasglu a chyflwyno gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys y rhai sy'n cyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig cyn cyfarfod:

(a) Beth rydych chi'n ei hoffi, yn ei edmygu neu'n ei werthfawrogi fwyaf am y dysgwr?
(b) Beth sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf? *(os yw'n briodol)*
(c) Yn eich barn chi, ac o'ch safbwynt chi, beth yw dyheadau'r dysgwr ar gyfer y dyfodol?
(d) Yn eich barn chi, beth sydd bwysicaf ym mywyd y dysgwr ar hyn o bryd?
(e) Yn eich barn chi, beth sy'n bwysig i'r dysgwr i'w helpu i ddatblygu a gwneud cynnydd?
(f) Beth mae angen i bobl eraill ei wybod neu ei wneud er mwyn helpu'r dysgwr?
(g) Beth sy'n gweithio'n dda o'ch safbwynt chi ar hyn o bryd?
(h) Beth sydd ddim yn gweithio cystal o'ch safbwynt chi ar hyn o bryd?
(i) Oes gennych chi gwestiynau yr hoffech eu gofyn?

22.17. Fel a nodwyd trwy gydol y Cod, mae gan lawer o asiantaethau, gweithwyr proffesiynol ac unigolion rôl i'w chwarae o ran adnabod ADY a DDdY ac adolygu CDU. **Dylai** asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill gael eu

[2] Adran 6 o'r Ddeddf.

gwahodd i gyfarfodydd neu i roi mewnbwn mewn ffordd arall os yw eu cyfraniad yn debygol o fod yn berthnasol i wneud penderfyniad neu i'r gwaith o lunio neu adolygu CDU. Mae'r dull o wneud hyn yn debygol o ddibynnu ar yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau. **Dylid** anfon gwahoddiadau o'r fath cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi digon o rybudd i alluogi pobl i fod yn bresennol neu roi amser digonol i ddarparu cyngor ysgrifenedig cyn y cyfarfod fel y gall pob parti ei ystyried yn briodol. Pan gânt eu gwahodd i roi mewnbwn, **dylai** asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gael gwybod beth yw fformat arfaethedig y cyfarfod, neu beth yw'r fformat gofynnol ar gyfer cyfraniadau ysgrifenedig.

22.18. Yn achos rhai plant neu bobl ifanc, efallai na fydd angen gwahodd asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill i gyfarfodydd ac felly gallai cyfarfodydd fod yn fach iawn. Er enghraifft, os nad yw anghenion y plentyn yn ddifrifol nac yn gymhleth, efallai mai dim ond y plentyn, ei riant a'r cydlynydd dynodedig fydd yno. Gallai cyfarfod ar gyfer person ifanc gynnwys dim ond y person ifanc, y cydlynydd dynodedig ac, o bosibl, unigolyn arall y mae'r person ifanc wedi gofyn amdano.

22.19. Mewn achosion eraill, efallai y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn gofyn am gyngor neu wybodaeth allanol a gallant wahodd gweithwyr proffesiynol eraill i ddod i'r cyfarfod neu i roi mewnbwn. Os bydd awdurdod lleol, at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, yn gwneud cais am wybodaeth neu gymorth gan berson perthnasol, **rhaid**[3] i'r person perthnasol gydymffurfio â'r cais hwnnw oni bai ei fod yn ystyried y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu y byddai'n effeithio'n andwyol ar ei allu i arfer ei swyddogaethau - gweler Pennod 21 i gael gwybod rhagor.

22.20. Mae'n ddymunol cael gweithwyr proffesiynol ag arbenigedd perthnasol mewn cyfarfodydd yn gyffredinol fel y gallant gyfrannu'n llawn at y drafodaeth ac ymateb i faterion a godir. **Dylai** personau perthnasol ystyried hyn wrth ymateb i gais i fod yn bresennol mewn cyfarfod. Fodd bynnag, efallai na fydd pob gweithiwr proffesiynol yn gallu bod yn bresennol ym mhob cyfarfod neu na fyddant yn gallu bod yn bresennol yn bersonol ym mhob cyfarfod (e.e. efallai y gallant fod yn bresennol, ond dim ond yn rhithiol ar rai adegau); **dylai**'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol egluro hyn i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc. Felly, gallai fod o gymorth pe bai ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol, wrth wahodd gweithwyr proffesiynol, yn nodi'r flaenoriaeth a roddir i'w presenoldeb. Bydd cyswllt dros gyfnod ac ymhell cyn y cyfarfod, yn helpu gweithwyr proffesiynol i benderfynu a yw'n briodol eu bod yn dod, a bydd hefyd yn rhoi digon o rybudd iddynt. Pan na fydd pobl berthnasol yn mynd i fod yn bresennol **dylent** ddarparu'n ysgrifenedig, yn ddigon pell cyn y cyfarfod, unrhyw gyngor a thystiolaeth sy'n ofynnol i hysbysu'r cyfarfod fel y gall pob parti ei ystyried yn briodol ymlaen llaw.

[3] Adran 65(2) o'r Ddeddf.

22.21. Os yw asiantaethau neu weithwyr proffesiynol wedi darparu cyngor/adroddiadau cyn y cyfarfod, **dylid** eu rhannu gyda'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant mewn da bryd hefyd iddynt allu eu hystyried a'u galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn trafodaethau a phenderfyniadau.

22.22. **Dylai**'r ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol wahodd ac annog y plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, ei riant i roi adborth, rhannu barn a chodi unrhyw bryderon cyn cyfarfod; a **dylent** gynnig cyfleoedd i drafod a sicrhau eu bod yn deall yr holl wybodaeth a chyngor a gasglwyd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, unrhyw gyngor/adroddiadau gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill; yr adroddiad ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc ac unrhyw bryderon, adborth neu farn y mae'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc wedi'u codi'n flaenorol.

22.23. Bydd yn rhaid i'r corff sy'n trefnu'r cyfarfod gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau[4] perthnasol o ran y Gymraeg.

## *Lleoliad cyfarfodydd*

22.24. Gan amlaf, unrhyw ysgol, sefydliad addysg bellach neu leoliad blynyddoedd cynnar y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu yw'r lleoliad mwyaf addas i gael cyfarfod. Weithiau, bydd yn angenrheidiol neu'n fwy priodol i gyfarfod ddigwydd mewn lleoliad arall, megis canolfan blant, ysbyty neu swyddfeydd yr awdurdod lleol. Gallai hefyd fod yn angenrheidiol neu’n briodol ar rai adegau i gyfarfod gael ei gynnal yn rhithiol; naill ai yn llwyr (hy bydd pawb yn cymryd rhan yn rhithiol), neu yn rhannol (e.e. mae’n bosibl mai dim ond yn rhithiol y bydd rhai pobl yn gallu cymryd rhan am wahanol resymau; neu efallai y bydd y plentyn neu’r person ifanc yn dymuno cymryd rhan yn rhithiol).

## *Materion sy'n berthnasol i fathau penodol o gyfarfod*

22.25. Mae gwahanol fathau o gyfarfodydd y gellid eu cynnal. Ceir cyfarwyddyd mewn rhannau eraill o'r Cod y dylid cynnal cyfarfodydd fel rhan o'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau, er enghraifft, ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY neu fel rhan o lunio neu adolygu CDU. Gellir cynnal cyfarfodydd at ddibenion eraill hefyd, er enghraifft egluro'r broses o wneud penderfyniadau i blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc neu geisio cydsyniad person ifanc i benderfyniad ar ADY neu gynnal CDU. Ym mhob achos, mae'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn y bennod hon yn berthnasol. Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys canllawiau sy'n benodol ar gyfer mathau penodol o gyfarfod.

[4] O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Safonau'r Gymraeg a hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig. Er enghraifft, gweler Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg i awdurdodau lleol ar gyfer y safonau unigol sy'n gymwys i bob awdurdod lleol, e.e. mewn perthynas â gohebiaeth a chyfarfodydd.

## *Cyfarfodydd i esbonio proses*

22.26. Mae darpariaethau eraill y Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol i drafod y broses. Gallai cyfarfod o'r fath fod ar y cyd â'r hysbysiad ffurfiol bod penderfyniad yn cael ei wneud. Gallai cyfarfod ei gwneud yn haws i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc ddeall y broses, ac felly gyfranogi ynddi. Gall hefyd fod yn gyfle i ofyn i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei rieni am ei ddewisiadau o ran cymryd rhan yn y broses a nodi unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arno i gymryd rhan.

22.27. Yn achos person ifanc, mae hefyd angen cael ei gydsyniad i wneud y penderfyniad (os nad yw wedi'i gael eisoes) ynghylch a oes ganddo ADY neu i CDU gael ei lunio neu ei gynnal (gweler cydsyniad pobl ifanc ym Mhennod 4 i gael rhagor o fanylion). Ceir gofynion hefyd i egluro i'r person ifanc ganlyniadau cydsynio, a pheidio â chydsynio, i wneud penderfyniad am ADY. Gellid cynnal cyfarfod i fynd i'r afael â'r ddau fater hyn. Fodd bynnag, os nad yw person ifanc yn cydsynio i benderfyniad gael ei wneud ynghylch a oes ganddo ADY neu i lunio neu gynnal CDU, os na fydd cyfarfod eisoes wedi'i gynnal **dylid** cynnal cyfarfod i esbonio i'r person ifanc beth yw canlyniadau peidio â chydsynio a rhoi rhagor o gyfleoedd i gydsynio.

22.28. Os yw ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn cyflawni swyddogaeth arall, fel adolygu CDU, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol iddo gynnal cyfarfod i esbonio'r broses.

## *Cyfarfodydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac, os oes angen, llunio CDU*

22.29. Yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd, **dylai**'r cydlynydd dynodedig (neu berson arall sy'n arwain y cyfarfod) ystyried cynnig cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, drafod y wybodaeth a'r cyngor a gasglwyd.

22.30. Pan benderfynir yn y cyfarfod fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd yn ddefnyddiol mynd ymlaen i baratoi'r CDU yn y cyfarfod hwnnw. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r rheini sy'n dod i'r cyfarfod roi eu barn ar gynnwys y CDU heb oedi diangen. Gweler Pennod 20 am ragor o fanylion ar adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phenodau 23 a 24 ar lunio CDU ac ar yr hyn y dylid ei gynnwys ynddo.

## *Cyfarfodydd i adolygu a diwygio CDU*

22.31. Pan gynhelir cyfarfod i adolygu CDU, **dylai'r** ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr adolygiad, cyn y

cyfarfod, geisio mewnbwn gan yr holl asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol hynny y gallai fod angen eu cyfraniad, yn ei farn ef, er mwyn cynnal adolygiad effeithiol. Byddai hyn yn cynnwys y rhai sydd eisoes yn ymwneud â darparu'r DDdY a ddisgrifir yn y CDU. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, dim ond os yw eu cyfraniad yn debygol o fod barhau i fod yn ddefnyddiol wrth adnabod neu gyflwyno DDdY y plentyn neu'r person ifanc yn y dyfodol y mae angen ceisio eu mewnbwn, neu i lywio cynnwys y CDU mewn unrhyw ffordd arall. Mae'n bosibl, felly, na fydd cyfarfodydd yn cynnwys pawb a oedd yn rhan o'r gwaith o lunio'r CDU gwreiddiol bob amser.

22.32. **Dylai'r** ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr adolygiad ddarparu adroddiad i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc, mewn da bryd iddo allu ei ystyried a'i alluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn trafodaethau yn y cyfarfod. Pan fo cyngor/adroddiadau wedi'u darparu gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol cyn cyfarfod adolygu, **dylai'r** rhain gael eu rhannu gyda'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant i'w hystyried.

22.33. Wrth ofyn am fewnbwn gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol, **dylai'r** ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU nodi, i'r rhai y ceisir mewnbwn ganddynt, y bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar bontio a/neu baratoi i fod yn oedolyn lle bo hynny'n wir (gweler Pennod 27). Os bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gamau fel gadael yr ysgol neu baratoi'r plentyn ar gyfer byd oedolion, gellid cynnwys gweithwyr proffesiynol gwahanol hefyd, e.e. arbenigwyr gyrfaoedd.

22.34. Bydd cyfarfod adolygu yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cyfrannu at yr adolygiad ystyried a yw'r DDdY a gyflwynwyd wedi arwain at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y CDU. Mae hwn yn wahaniaeth allweddol rhwng cyfarfodydd adolygu a chyfarfodydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac os felly, i lunio'r CDU (lle nad oes unrhyw CDU diweddar i'w ystyried gan amlaf).

22.35. Fel arfer, ni fyddai angen ailadrodd nac ailystyried gwybodaeth gefndir neu dystiolaeth oni bai bod newid wedi digwydd sy'n effeithio ar y materion dan sylw.

22.36. Mae Pennod 25 yn nodi'r materion i'w hystyried mewn adolygiad. **Dylai** ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ddefnyddio cyfarfodydd adolygu i gasglu a dadansoddi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg ac sy'n effeithio ar y materion hynny. Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r dystiolaeth honno, **dylent** ystyried a ddylid diwygio'r CDU, ac os felly, sut.

22.37. Yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd, **dylai'r** person sy'n arwain y cyfarfod gynnig cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant drafod yr wybodaeth a'r cyngor a gasglwyd.

22.38. Er mwyn helpu i werthuso ac asesu effeithiolrwydd DDdY y plentyn neu'r person ifanc, mae’n ddefnyddiol monitro'r effaith. Gall targedau tymor byr interim helpu i ddangos a yw'r DDdY yn cyfrannu'n effeithiol at fodloni'r canlyniadau neu os nad oes angen DDdY benodol bellach a/neu nad yw'n cael yr effaith a ddymunir.

## *Cydlynu cyfarfodydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â mwy nag un cynllun*

22.39. **Caiff**[5] ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol lunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd ag y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall ar gyfer y person dan sylw. **Caiff**[6] yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gynnwys y ddogfen arall yn y CDU neu fel arall. Mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei wneud mewn perthynas â phob mater (megis amserlenni y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw).

22.40. Pan fo modd gwneud hynny a bod yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n llunio, yn adolygu neu'n diwygio'r CDU yn ymwybodol o'r ddogfen arall, **dylai** ystyried a yw'n briodol cydlynu'r ddau fater yn y modd hwn.

22.41. Yn gyffredinol, er mwyn bod yn fwy effeithlon ac effeithiol, **dylai** ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol geisio cydlynu, lle bo'n ymarferol, gydag unrhyw brosesau cynllunio neu adolygu perthnasol eraill sydd i'w cynnal mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc. Gallai hyn olygu cael un cyfarfod lle trafodir ADY y plentyn neu'r person ifanc ar yr un pryd ag unrhyw anghenion neu ofynion eraill. Bydd hyn yn hwyluso gwaith cynllunio integredig ac atebion cyfannol yn well. Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, yn achos cynlluniau gofal a chymorth a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid oes angen i'r cyrff sy'n gyfrifol am gynnal y gwahanol gynlluniau fod yr un fath.

22.42. Gall dull cydgysylltiedig sicrhau nad yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gorfod mynd i gyfres o gyfarfodydd tebyg a lleihau'r angen i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ailadrodd yr un wybodaeth i wahanol bobl. Gallai hefyd helpu gweithwyr proffesiynol drwy leihau nifer y cyfarfodydd y maent yn gorfod mynd iddynt.

22.43. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y bydd angen adolygu'r cynlluniau ar wahân i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc orau neu i fodloni gofynion cyfreithiol. Mae Pennod 25 yn ymdrin ymhellach â chydgysylltu adolygiadau o CDU â materion eraill, gan gynnwys mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.

[5] Adran 25 o'r Ddeddf.
[6] Adran 25 o'r Ddeddf.

# Pennod 23: Llunio a chynnal CDU, a chynnwys yr CDU

## *Cyflwyniad*

23.1 Dylid defnyddio’r bennod hon wrth lunio neu gynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer plentyn neu berson ifanc ag ADY. Mae mân wahaniaethau yn y CDU ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, felly cyfeiriwch hefyd at bennod 24 wrth lunio neu gynnal CDU ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal. Yn ogystal, dylid darllen cyfeiriadau yn y bennod hon at y ffurflen safonol yn Atodiad A fel cyfeiriadau at y ffurflen safonol yn Atodiad B wrth lunio neu gynnal CDU ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal.[1]

23.2 Mae’r bennod hon wedi’i rhannu’n ddwy ran. Mae Rhan A yn darparu gwybodaeth, canllawiau a gofynion mewn perthynas â llunio a chynnal CDU. Mae Rhan B (o baragraff 23.97 ymlaen) yn rhoi rhagor o fanylion am faterion penodol sy’n ymwneud â llunio a chynnal CDU, yn benodol y ddyletswydd i ffafrio ysgolion prif ffrwd a gynhelir, lleoliadau mewn ysgolion annibynnol, sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a lleoliadau ac ystyriaethau eraill.

23.3 Yn y bennod hon drwyddi draw, mae rhywfaint o amrywiad yn yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio camau amrywiol mewn perthynas â’r CDU (er enghraifft, weithiau defnyddir “cynnal y CDU” ac mewn mannau eraill gellir defnyddio “adolygu’r CDU”). Mae’r amrywiadau hyn yn tueddu i ddilyn iaith y Ddeddf. Fodd bynnag, yn absenoldeb iaith benodol yn y Ddeddf, defnyddiwyd y termau "llunio" a "cynnal" yn gyffredinol. Defnyddir y termau hyn fel rhai hollgynhwysol i gwmpasu unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â’r CDU a allai fod yn berthnasol yn y cyd-destun, gan gynnwys llunio, diwygio, adolygu a chynnal.

# <u>Rhan A</u>

23.4 Dogfen yw CDU[2] sy’n cynnwys disgrifiad o ADY plentyn neu berson ifanc a’r DDdY y mae anhawster dysgu neu anabledd y plentyn neu’r person ifanc yn galw amdani (gweler Pennod 2 am wybodaeth am y diffiniad o ADY a DDdY; a Phennod 20 am wybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen), ac unrhyw beth arall sy’n ofynnol neu’n cael ei awdurdodi gan neu o dan Ran 2 o’r Ddeddf. Mae’n "gynllun" oherwydd mae’n cynllunio’r camau gweithredu y mae’n rhaid eu cymryd, sef y DDdY y mae’n rhaid ei sicrhau ar gyfer y plentyn neu’r berson ifanc. Yn ogystal, mae’n gofnod y gellir ei ddefnyddio i fonitro ac adolygu cynnydd plentyn neu berson ifanc. Dylai’r rhai sy’n gyfrifol am gynnal CDU fod yn ymwybodol nad oes unrhyw werth i CDU oni bai ei fod yn arwain at ddarpariaeth lwyddiannus sy’n diwallu anghenion y plentyn neu’r person ifanc.

[1] Fodd bynnag, gweler paragraff 24.4 o Bennod 24 wrth ddefnyddio Pennod 23 i lenwi’r ffurflen safonol yn Atodiad B ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal.
[2] Mae adran 10 o’r Ddeddf yn cynnwys y diffiniad o CDU.

23.5 Mae'n bwysig bod pob CDU yn cynnwys elfennau allweddol penodol ac yn cadw at yr un strwythur. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch cyffredinol o ran sut mae dysgwyr yn cael eu trin, a bydd yn sylfaen i gydlyniant y system ADY yn ei chyfanrwydd, ynghyd â sicrhau bod CDU yn gludadwy. Am y rhesymau hynny, **rhaid**[3] i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad A wrth lunio neu gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc nad yw'n derbyn gofal. Mae'r Bennod yn rhoi arweiniad ac yn nodi gofynion o ran sut y dylid llenwi'r ffurflen safonol. **Caiff** y corff sy'n llunio neu'n cynnal CDU gynnwys rhagor o wybodaeth fel atodiadau, pe bai'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at y CDU yn gyfeiriadau at y ffurflen safonol yn Atodiad A.

23.6 Er bod yn rhaid i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad A wrth lunio neu gynnal CDU, mae'r ffurflen yn caniatáu hyblygrwydd o ran hyd ac arddull. Er enghraifft, mae CDU plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion llai difrifol neu gymhleth yn debygol o fod yn symlach (ac felly'n cynnwys llai o wybodaeth) na CDU plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth, neu anghenion llai cyffredin. Mae plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion difrifol neu gymhleth neu anghenion llai cyffredin yn debygol o fod angen mewnbwn a chyngor arbenigol, ac mae ei CDU yn debygol o gynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth eang o asiantaethau a nodi amrywiaeth lawer ehangach o ymyriadau.

23.7 Yn yr un modd, ar yr amod nad yw penawdau a strwythur sylfaenol y ffurflen safonol yn cael eu newid (byddai newid o'r fath yn torri'r gofyniad ym mharagraff 23.5), **caiff** edrychiad y ffurflen safonol ei addasu yn ôl dewisiadau lleol (er enghraifft, drwy gynnwys logo'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach) neu ddewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc (drwy ddefnyddio ffont mwy o faint neu wahanol, defnyddio delweddau yn ogystal â thestun, osgoi defnyddio lliwiau penodol ac ati). Gellir addasu sut y cyflwynir y wybodaeth a roddir yn yr adrannau a'r is-adrannau hynny hefyd (er enghraifft, wrth ddatblygu proffil ar gyfer adran 1C – gweler paragraffau 23.22 hyd 23.26).

23.8 Serch hynny, **dylai'r** wybodaeth a gynhwysir yn y CDU:

(a) cael ei chreu drwy gynnwys, pan fo'n briodol, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cydweithio i adnabod ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny;
(b) cael ei chreu drwy gydweithredu â'r plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, ei riant;
(c) cael ei datblygu ar sail hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n adlewyrchu anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
(d) cael ei hysgrifennu mewn arddull sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cynllun y plentyn neu'r person ifanc ydyw, a'i fod yn llawer mwy na rhan o broses weinyddol yn unig. Dylai'r arddull, a'r iaith os yn bosibl, adlewyrchu

[3] Gofyniad a osodir gan y Cod.

oedran y plentyn neu'r person ifanc, gan wahaniaethu'n glir rhwng yr hyn y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i ddweud a'r hyn a ddywedwyd gan eraill;

(e) cael ei hysgrifennu mewn iaith glir (boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg neu'r ddwy), gan osgoi defnyddio jargon ac egluro perthnasedd unrhyw derminoleg dechnegol y mae angen ei chynnwys, â'r nod y bydd pawb sy'n debygol o ddarllen y CDU yn gallu ei ddeall, gan gynnwys y plentyn neu'r person ifanc, pryd bynnag y bo modd;

(f) cael ei chadw dan ystyriaeth er mwyn penderfynu a ddylid cynnal adolygiad yn gynharach na'r disgwyl (gweler Pennod 25 ar adolygiadau).

23.9 Pan fo'n briodol, **caiff**[4] CDU gael ei lunio, ei adolygu neu ei ddiwygio ar yr un pryd ag yr eir ati i lunio, adolygu neu ddiwygio dogfen neu gynllun arall sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc. **Caniateir**[5] cynnwys y CDU o fewn dogfennau neu gynlluniau eraill ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc a gellir cynnwys dogfennau neu gynlluniau eraill ynddo. (Gweler Pennod 25 am ragor o wybodaeth am adolygu neu ddiwygio CDU ynghyd â dogfen neu gynllun arall; a Phennod 22 am gyfarfodydd am ADY a CDUau sy'n cynnwys gwybodaeth am gydgysylltu cyfarfodydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â mwy nag un cynllun.)

23.10 Ar ôl llunio CDU yn y lle cyntaf, **ni chaiff**[6] ysgol, sefydliad addysg bellach nac awdurdod lleol ddiwygio'r CDU oni bai ei fod wedi cynnal adolygiad (gweler Pennod 25 am wybodaeth am adolygiadau). Yr eithriad i hyn yw diwygiadau i adran 1A, nad ydynt yn gyfystyr â diwygiad (gweler paragraffau 23.16 hyd 23.20).

23.11 Pan fo'n bosibl, **dylai** awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach sydd wedi llunio neu ddiwygio CDU sicrhau bod y CDU ar gael mewn fersiynau amgen (er enghraifft, Braille neu mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg) ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, ei riant, os oes ar y person hwnnw angen fersiwn amgen o'r fath.

## *Cynnwys y CDU*

23.12 Mae'r paragraffau yn yr adran hon yn dilyn trefn adrannau ac is-adrannau'r ffurflen safonol yn Atodiad A (o baragraff 23.15 hyd 23.96). Mae'r paragraffau'n manylu sut y dylid llenwi pob adran gyfatebol o'r ffurflen safonol, gan gynnwys canllawiau a gofynion penodol. **Rhaid**[7] i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n llunio neu'n diwygio CDU lenwi pob adran o'r ffurflen safonol, oni bai nad yw'r adran honno'n berthnasol i'r plentyn neu'r person ifanc o dan sylw, ac os felly dylid ei marcio felly. Er enghraifft, gellid nodi "ddim yn berthnasol" ar adran 2D

[4] Adran 25 o'r Ddeddf.
[5] Adran 25 o'r Ddeddf.
[6] Adran 23 o'r Ddeddf.
[7] Gofyniad a osodir gan y Cod.

mewn achosion lle nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael lle mewn ysgol a enwir neu sefydliad arall a enwir, neu lle na ddarperir bwyd a llety.

23.13 Mae'r paragraffau isod yn nodi'r elfennau hynny o'r CDU y gellir apelio yn eu cylch i'r Tribiwnlys. Mae elfennau cyfatebol y ffurflen safonol yn Atodiad A wedi'u nodi â phrint coch, trwm, ac wedi'u tanlinellu. Wrth ddefnyddio'r ffurflen safonol, caniateir newid y drefn hon, ond dylid marcio'r adrannau hyn mewn rhyw fodd i ddangos yn glir i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc yr adrannau y mae ganddynt hawl i apelio yn eu cylch. Mae'r elfennau perthnasol wedi'u rhestru isod ac wedi'u nodi yn y Bennod hon drwyddi draw.

23.14 Yr elfennau yw:

(a) 2A
(b) 2B.2
(c) 2B.3
(d) 2B.5
(e) 2B.6
(f) 2C.2
(g) 2C.3
(h) 2C.5
(i) 2C.6
(j) 2D

## *Rhan 1.*

23.15 **Dylid** cadw'r manylion yn adrannau 1A yn gyfredol. Gellir gwneud newidiadau i'r adran hon heb gynnal adolygiad ac nid oes angen rhoi copi arall o'r CDU llawn i'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc ar ôl gwneud y newidiadau (ond gellir darparu copi o'r wybodaeth sydd wedi'i diweddaru, fel y bo'n briodol).

### Adran 1A: Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol am y plentyn neu'r person ifanc a manylion cyswllt

23.16 Diben cynnwys gwybodaeth fywgraffyddol yw sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyson ar gael i'r holl asiantaethau sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Fodd bynnag, dim ond gwybodaeth y maent yn credu sy'n angenrheidiol i gyflawni'r diben hwn y **dylai** ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ei chynnwys. Mewn llawer o achosion, er enghraifft, ni fydd rhaid cynnwys cyfeiriad cartref a manylion cyswllt y rhieni bob tro, oherwydd mae'n debyg y bydd y manylion hyn gan y corff perthnasol yn barod a gellir gadael y rhannau hyn o'r CDU yn wag. Bydd angen i bersonau perthnasol ystyried a chydymffurfio â'r gyfraith diogelu

data a pholisïau prosesu a diogelu data eu sefydliad eu hunain wrth broses data personol, a'u rhannu ag eraill.[8]

23.17 Mae adran 1A y CDU yn cynnwys yr is-adrannau canlynol:

1A.1) Enw llawn.
1A.2) Enw a ffefrir.
1A.3) Dyddiad geni.
1A.4) Rhywedd a rhagenwau a ffefrir. Dyma'r rhywedd y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn uniaethu ag ef a'r rhagenwau y mae'n well ganddo eu defnyddio (er enghraifft, ef/ei, hi/ei, nhw/eu).
1A.5) Lleoliad(au) addysgol presennol. Mae hyn er mwyn cofnodi enw unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall (ynghyd â'r cyfeiriad neu unrhyw fanylion eraill sydd eu hangen i'w adnabod) a fynychir gan y plentyn neu'r person ifanc ar hyn o bryd. Os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu lleoliad addysgol ar hyn o bryd, **dylid** nodi bod yr is-adran hon yn "amherthnasol"; neu, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn derbyn addysg yn y cartref, **dylid** nodi "derbyn addysg yn y cartref".
1A.6) Cyfeiriad cartref a rhif ffôn. Cyfeiriad a rhif ffôn y plentyn neu'r person ifanc.
1A.7) Enwau'r rhieni. Ar gyfer plentyn, dylid nodi enw(au) rhiant yma. Ar gyfer person ifanc, dim ond os yw'r person ifanc yn cydsynio i'r corff sy'n cynnal y CDU rannu gwybodaeth am y CDU a'r ADY ag ef y dylid nodi manylion rhiant yn y fan hon ac yn 1A.8 ac 1A.9. Os yw'n cydsynio, dylid nodi yn 1A.10 yr wybodaeth y mae'r person ifanc yn fodlon ei rhannu â'i rieni.
1A.8) Cyfeiriad e-bost (dim ond os yw'r plentyn/rhiant/person ifanc yn fodlon derbyn hysbysiadau a dogfennau'n electronig). Os felly, dylid nodi yn 1A.8 y cyfeiriad e-bost y mae'r plentyn/rhiant/person ifanc wedi'i ddarparu at y diben hwn.
1A.9) Rhif(au) ffôn y rhieni (os yw'n wahanol), a dim ond os yw rhiant(rhieni) yn cydsynio i'w manylion gael eu cynnwys). Dylid rhoi'r manylion hyn os ydynt yn wahanol i rai'r plentyn. Os yw'r CDU ar gyfer person ifanc, gweler y nodiadau ar is-adran 1A.7.
1A.10) Gofynion a dewisiadau cyfathrebu. Rhai'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc yw'r rhain.

23.18 **Dylid** cynnwys y canlynol, lle bo'n berthnasol, yn Adran 1A.10:

- iaith ar gyfer cyfathrebu - gan gynnwys, er enghraifft, y Gymraeg ac iaith arwyddion Prydain. Os nad yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, **dylid** ystyried a oes angen cyfieithydd ar y pryd arno er mwyn cymryd rhan ym mhroses y CDU.

[8] Mae gan wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau i sefydliadau ar gydymffurfio â'r gyfraith diogelu data. https://cy.ico.org.uk

- dull cyfathrebu - **dylid** ystyried a oes angen i gyfathrebu fod ar lafar, yn ysgrifenedig, drwy arwyddion, yn weledol a/neu'n electronig, ynghyd ag unrhyw ofynion penodol megis cymhorthion gweledol, maint ffont neu Braille ac a oes angen unrhyw offer arbenigol megis offer TG arbenigol. Mae'n bosibl y bydd angen dulliau cyfathrebu mwy anffurfiol ar rai plant neu bobl ifanc er mwyn eu helpu i gymryd rhan. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio chwarae neu gelf.
- dull ymgysylltu - gan gynnwys, er enghraifft, a fyddai'r plentyn neu'r person ifanc yn dymuno cwrdd yn unigol, mewn grwpiau bach a/neu gyda grwpiau amlasiantaeth mawr. **Dylid** hefyd ystyried gofynion ymarferol megis amser a lleoliad unrhyw gyfarfodydd, unrhyw ofynion mynediad megis mynediad hawdd, dolen sain a/neu fath penodol o olau.

1A.11) Ar gyfer person ifanc, manylion ei gydsyniad i CDU gael ei lunio/ei gynnal

23.19 Os yw'r CDU ar gyfer person ifanc, dylid nodi yn adran 1A.11 fanylion ei gydsyniad i CDU gael ei lunio neu ei gynnal (gan gynnwys pryd y rhoddodd y cydsyniad).

1A.12) Materion galluedd

23.20 Mae adran 1A.12 yn cwmpasu'r canlynol, pan fo'n berthnasol:

- galluedd y plentyn (y mae'r CDU yn cael ei lunio ar ei gyfer) i ddeall yr wybodaeth neu'r dogfennau y mae'n rhaid eu rhoi iddo a'r hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau sydd ganddo o dan y Ddeddf; a manylion unrhyw gyfaill achos a benodwyd ar gyfer y plentyn;
- unrhyw ddiffyg galluedd sydd gan rieni'r plentyn;
- unrhyw ddiffyg galluedd sydd gan y person ifanc y mae'r CDU yn cael ei lunio ar ei gyfer.

**Adran 1B: Cyfrifoldeb am y CDU**

23.21 Mae adran 1B o'r CDU yn cynnwys yr is-adrannau canlynol:

1B.1) Y sefydliad sy'n gyfrifol am gynnal y CDU. Dylid cofnodi'r corff sy'n cynnal y CDU, boed yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol. **Dylai'r** adran hon gynnwys manylion cyswllt y corff hwnnw.

1B.2) Y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r CDU. Dyma'r dyddiad y mae'r 'cyfnod adolygu' yn dod i ben. Gweler Pennod 25 am ragor o wybodaeth ynghylch adolygiadau.

1B.3) Y dyddiad adolygu arfaethedig. Dyma'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiad nesaf o'r CDU, er na fydd yr adolygiad nesaf o reidrwydd yn dechrau bryd hynny. Gweler Pennod 25 am ragor o wybodaeth ynghylch adolygiadau.

## Adran 1C: Proffil (Amdanaf i)

23.22 Prif nod yr adran hon o'r CDU yw rhoi crynodeb o'r plentyn neu'r person ifanc. Nid oes un ffordd gywir o ddatblygu a chyflwyno proffil, ond byddai'n fuddiol pe bai'r arddull a'r iaith yn adlewyrchu unigoliaeth y plentyn neu'r person ifanc. Fodd bynnag, er mwyn i broffil weithredu'n effeithiol, mae'n bwysig bod popeth sydd wedi'i gynnwys ynddo yn canolbwyntio ar y pethau cadarnhaol, ac yn gwneud hynny mewn modd clir, cryno a chywir.

23.23 Dylai'r proffil roi gwybodaeth allweddol, fel disgrifio cymeriad y plentyn neu'r person ifanc, ei alluoedd a'i ddoniau, beth sy'n bwysig iddo a'r ffordd orau o'i gefnogi. Gallai hyn gynnwys: ei hoff bethau a'i gas bethau; manylion am chwarae, iechyd, annibyniaeth, cyfathrebu; y bobl y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn eu hystyried yn bwysig iddo (teulu, ffrindiau neu staff cymorth personol, er enghraifft, gofalwr neu gynorthwyydd personol); dyheadau, er enghraifft, ar gyfer ei addysg a gyrfa, byw'n annibynnol a chyfranogiad cymunedol.

23.24 Gallai fod yn ddefnyddiol trefnu'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu o dan benawdau, er enghraifft:

- Beth sy'n bwysig i'r dysgwr;
- Beth sy'n bwysig ar gyfer y dysgwr;
- Beth sy'n gweithio ac angen ei ddatblygu;
- Beth nad yw'n gweithio ac y mae angen ei newid.

23.25 Dylai'r proffil, fel y CDU yn ei gyfanrwydd[9], gael ei ddatblygu a'i adolygu drwy gynnwys y plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd weithredol er mwyn sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed; nid yn unig wrth lunio'r CDU, ond hefyd gan y rhai a fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'i addysg a'i gymorth. Gallai rhieni plant o oedran ysgol gorfodol helpu i ddatblygu'r proffiliau, ac mae'n debygol mai rhieni plant iau fydd yn darparu'r rhan fwyaf o wybodaeth am ddiddordebau ac anghenion cymorth y plentyn. Gallai rhieni hefyd fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu proffil person ifanc, ar yr amod bod y person ifanc yn cydsynio i'w riant gymryd rhan.

23.26 Dylai safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc mewn perthynas â'i ADY, DDdY ac addysg a hyfforddiant gael eu trafod a'u cofnodi hefyd. Fodd bynnag, **dylai'r** corff sy'n llunio'r CDU gofnodi safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc ar wahân i rai ei rieni ac eraill sy'n gweithio'n agos ag ef, fel gofalwr neu gynorthwyydd personol. **Dylai'r** CDU nodi hynny'n glir pan fo'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei ddyfynnu'n uniongyrchol, naill ai o rywbeth y mae wedi'i ddweud neu ei ysgrifennu.

[9] Gweler adran 6 o'r Ddeddf.

## *Rhan 2.*

### Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc (Mae modd apelio i'r Tribiwnlys ynghylch yr adran hon.)

23.27 **Dylai'r** disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc fod mor glir a chynhwysfawr â phosibl a chynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am effaith yr angen ar ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc. Os oes diagnosis perthnasol wedi'i wneud, **dylid** ei gynnwys yn rhan o'r disgrifiad. Er mai'r diffiniad o ADY yw bod yr anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am DDdY, yr angen sydd wedi'i adnabod, h.y. yr anhawster dysgu neu'r anabledd, y dylid ei nodi yn yr adran hon, gan fod y DDdY yn cael ei disgrifio yn yr adran nesaf. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am ddrafftio'r CDU sicrhau nad ydynt yn camgymryd y disgrifiad o ADY am y DDdY sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'n bosibl y bydd y disgrifiad o ADY yn datblygu wrth wneud atgyfeiriadau a derbyn cyngor/asesiadau.

23.28 Gallai'r adran hon gynnwys y rhesymau dros benderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, a **dylid** cynnwys y rhain os oes rhesymau penodol dros benderfyniad na fyddai'n amlwg o bosibl i rywun sy'n ystyried yr achos yn y dyfodol, neu os oedd anghytuno ynghylch yr ADY. Efallai fod y gweithwyr proffesiynol wedi anghytuno neu fod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wedi anghytuno â'r gweithwyr proffesiynol, neu efallai fod gwahaniaeth barn rhwng rhywrai eraill. Gellir egluro sut y cafodd safbwyntiau gwahanol eu hystyried cyn gwneud penderfyniad penodol.

### Adran 2B: Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y plentyn neu'r person ifanc

23.29 Mae adran 2B yn cynnwys yr is-adrannau canlynol ar gyfer pob elfen o DDdY y plentyn neu'r person ifanc. Os oes gwahanol elfennau i'r DDdY, **rhaid**[10] darparu gwybodaeth ym mhob un o'r is-adrannau yn adran 2B ar gyfer pob elfen o DDdY.

2B.1) Y deilliant a fwriedir. Y deilliant y bwriedir ei gyflawni yn sgil cyflwyno'r DDdY honno.

23.30 **Dylai'r** deilliannau a fwriedir ganolbwyntio ar alluogi plant a phobl ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, boed yn gyflogaeth neu'n addysg bellach neu uwch, byw'n annibynnol a/neu gyfranogiad cymunedol. Felly, mae'n hanfodol ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc a'r hyn y mae am ei gyflawni. Hefyd, gall CDUau gynnwys deilliannau â ffocws ehangach, fel cydberthnasau cymdeithasol cadarnhaol a chryfder a sefydlogrwydd emosiynol. I rai plant a phobl ifanc, gall deilliant a fwriedir ymwneud â lleihau effaith unrhyw amhariad ar eu dysgu.

[10] Gofyniad a osodir gan y Cod.

23.31 **Dylid** nodi'r holl ddeilliannau a fwriedir yn y CDU mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl mesur a ydynt wedi'u cyflawni'n llwyddiannus ai peidio, a dylent fod yn ymarferol ac yn heriol. Dylid gwneud hyn drwy sicrhau bod y deilliannau'n rhai "CAMPUS" (Credadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol).

23.32 Ceir canllawiau ar sut i ddatblygu deilliannau, ynghyd ag enghreifftiau, yn nogfen Llywodraeth Cymru, *Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion*: *canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru*[11].

23.33 I nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r deilliant neu'r deilliannau a fwriedir, mae'n bosibl y byddai'n fuddiol pennu targedau neu gerrig milltir interim neu dymor byr, a monitro effaith y DDdY ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn gynnwys proses dracio barhaus neu unrhyw asesiad a gynhelir yn rheolaidd yn y lleoliad addysgol. Os oes angen targedau neu gerrig milltir o'r fath, **dylid** cofnodi'r rhain mewn atodiad i'r CDU. Gall unrhyw bryderon a godir o ganlyniad i'r gwaith monitro hwn arwain at adolygiad o'r CDU yn ei gyfanrwydd (gweler Pennod 25).

2B.2) Y DDdY i'w darparu. **(Mae modd apelio i'r Tribiwnlys ynghylch yr elfen hon.)** Disgrifiad o'r DDdY sydd i'w darparu er mwyn cyflawni'r deilliant a fwriedir.

23.34 **Dylai'r** adran hon gynnwys gwybodaeth, pan fo'n berthnasol, am ba mor aml y bydd y DDdY yn cael ei chyflwyno (er enghraifft, a fydd yn cael ei darparu bob dydd, bob wythnos, ar benwythnosau, ar ddiwrnodau ysgol yn unig neu unwaith y tymor, ac ati).

23.35 Gallai'r DDdY a gofnodir gynnwys ystod o weithgareddau neu wahanol fathau o gymorth, gan gynnwys:

- gweithiwr proffesiynol yn darparu strategaeth neu hyfforddiant a fydd yn cael ei roi ar waith gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc o ddydd i ddydd;
- arweiniad neu gymorth a ddarperir gan y lleoliad addysgol neu eraill ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

23.36 Gall y DDdY sy'n diwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc orau fod yn wahanol yn dibynnu ar y math o sefydliad y mae'n ei fynychu. Er enghraifft, gall darpariaeth ysgol arbennig fod yn wahanol i ddarpariaeth ysgol brif ffrwd gan fod ysgol arbennig yn cael ei threfnu'n wahanol.

23.37 Bydd yr wybodaeth a gofnodir am y DDdY yn fwy defnyddiol os yw'n cael ei chyflwyno mewn ffordd glir. Dylai'r wybodaeth fod yn fanwl, yn benodol ac yn fesuradwy. Gallai'r eglurder hwn ddeillio o ddisgrifio'r tasgau neu'r camau penodol a fydd yn cael eu cyflawni; gallai hefyd fanylu ar yr hyfforddiant

[11] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/pecyn-cymorth-adolygiadau-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion.pdf.

neu’r cymwysterau y bydd eu hangen ar unrhyw aelodau staff. Ni fydd datgan yn unig y bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn bodloni’r angen i fod yn eglur; mae’n bwysig disgrifio’r tasgau y bydd unrhyw staff yn eu gwneud neu’n eu hwyluso, yr hyn y byddant yn gyfrifol amdano, ac, os oes angen, y cymwysterau neu’r hyfforddiant y bydd eu hangen arnynt.

23.38 Mae gan y corff sy’n cynnal y CDU ddyletswyddau’n ymwneud â sicrhau’r DDdY a nodir ynddo[12]. Os bydd eraill yn cyflwyno a/neu ariannu’r ddarpariaeth, efallai y bydd angen i’r corff drafod y materion hyn â nhw er mwyn gallu disgrifio’r ddarpariaeth yn ddigon manwl a’i sicrhau. Wedyn, gall manylion y CDU adlewyrchu hyn.

2B.3) A ddylid darparu’r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg? **(Mae modd apelio i’r Tribiwnlys ynghylch yr elfen hon.)**

23.39 Mae’n ddyletswydd ar y corff sy’n llunio neu’n cynnal CDU i ystyried a ddylid darparu DDdY yn Gymraeg ac, os yw’n penderfynu y dylid gwneud hynny, **rhaid**[13] nodi hyn yn y CDU. Wedyn, mae’n ddyletswydd ar y corff sy’n cynnal y CDU i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY yn cael ei darparu yn Gymraeg.

2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn darparu’r DDdY, a’r manylion cyswllt (os yw’n wahanol i’r corff sy’n cynnal y cynllun).

2B.5) Dyddiad dechrau. Dyma’r dyddiad y bydd y DDdY yn dechrau cael ei darparu. Mewn llawer o achosion, hwn fydd y dyddiad y bydd y CDU yn cael ei gwblhau’n derfynol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, yn enwedig wrth gynllunio ar gyfer prosesau pontio, efallai y bydd angen cynllunio ar gyfer DDdY y dyfodol yn dilyn pwynt pontio yn ystod y flwyddyn i ddod. Enghraifft bosibl yw pan fydd plentyn neu berson ifanc yn newid lleoliad addysg, fel symud o ysgol uwchradd i sefydliad addysg bellach. (Gweler y canllawiau ar adran 3C isod a Phennod 27 i gael rhagor o wybodaeth am brosesau pontio.)

2B .6) Dyddiad gorffen neu adolygu. Dyma’r dyddiad y rhoddir y gorau i ddarparu’r DDdY benodol neu’r dyddiad y caiff ei hadolygu (os oes dyddiad gorffen neu ddyddiad adolygu wedi’i bennu). Fodd bynnag, dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y dylid defnyddio dyddiad ‘Gorffen’ os yw’n amlwg na fydd angen y math penodol o DDdY y tu hwnt i’r dyddiad hwnnw nac yn barhaus. Pan nad yw’n amlwg a fydd math penodol o DDdY yn cyflawni’r deilliant a fwriedir, dylid defnyddio dyddiad adolygu.

[12] Gweler Penodau 11 – 17 o’r Cod.
[13] Adrannau 12(6), 14(5), 19(3) a 40(6) o’r Ddeddf. Os bydd un o gyrff y GIG wedi nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy’n debygol o fod o fudd wrth fynd i’r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc, rhaid iddo benderfynu hefyd a ddylid darparu’r driniaeth neu’r gwasanaeth yn Gymraeg ac os yw’n penderfynu y dylid gwneud hynny, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu yn Gymraeg: adran 20(5) o’r Ddeddf.

23.40 Mae dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y DDdY (lle mae un) yn rhan o'r disgrifiad o'r DDdY, er eu bod wedi'u nodi ar wahân yn yr is-adrannau hyn yn adran 2B. (Mae modd apelio i'r Tribiwnlys ynghylch y ddwy elfen hyn (2B.5 a 2B.6)).

2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod

23.41 Os nad oes anghytuno, nac angen arall i esbonio penderfyniad, gall yr adran hon o'r CDU gyfeirio'n unig at y cofnod o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU fel y nodir o dan adran 3A o'r CDU.

23.42 Fodd bynnag, os bu anghytuno ynghylch y DDdY sydd i'w darparu, **dylai'r** adran hon esbonio pam mae rhai penderfyniadau wedi cael eu gwneud. Efallai fod y gweithwyr proffesiynol wedi anghytuno neu fod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wedi anghytuno â'r gweithwyr proffesiynol, neu efallai fod gwahaniaeth barn rhwng rhywrai eraill. Gallai'r adran hon egluro sut y cafodd safbwyntiau gwahanol eu hystyried cyn gwneud penderfyniad penodol.

**Adran 2C: Disgrifio a chyflwyno'r DDdY sydd i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG (Mae modd apelio i'r Tribiwnlys ynghylch yr adran hon, ac eithrio elfennau 2C.1, 2C.4 a 2C.7).**

23.43 Diben yr adran hon yw disgrifio unrhyw DDdY y mae'n **rhaid**[14] i un o gyrff y GIG ei sicrhau, ar ôl cael ei nodi gan y corff hwnnw fel triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd i fynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc. Dim ond mewn achosion lle gwnaed atgyfeiriad i un o gyrff y GIG i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol y mae'r adran hon yn berthnasol.

23.44 Os nad oes atgyfeiriad wedi'i wneud, **dylid** nodi "Dim angen atgyfeiriad" yn yr adran. Os oes atgyfeiriad wedi'i wneud ond nad yw corff perthnasol y GIG wedi nodi unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol, **dylid** nodi "Atgyfeiriad wedi ei wneud. Dim triniaeth na gwasanaeth perthnasol wedi ei nodi." yn yr adran, a sicrhau y cofnodir unrhyw wahaniaeth barn, fel y nodir o dan baragraff 23.42 uchod.

23.45 Os caiff mater ei atgyfeirio i un o gyrff GIG, a bod y corff yn rhoi gwybod i'r corff sy'n llunio neu'n cynnal y CDU bod triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth ddiwallu ADY y person ifanc, **rhaid**[15] i'r corff sy'n llunio neu'n cynnal y CDU ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG ydyw. Hefyd, mae'n **rhaid**[16] i'r corff sy'n llunio neu'n cynnal y CDU bennu yn y CDU y dylai'r DDdY sydd i'w sicrhau gan gorff perthnasol y GIG gael ei darparu yn Gymraeg os yw corff y GIG wedi penderfynu hynny ac wedi rhoi gwybod i'r

[14] Mae adran 20(5) o'r Ddeddf yn cynnwys y gofyniad ar gorff perthnasol y GIG i'w sicrhau.
[15] Mae adran 21(3) o'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas â chynnal CDU; mae'r Cod yn gosod gofyniad mewn perthynas â llunio CDU.
[16] Mae adran 21(4) o'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas â chynnal CDU; mae'r Cod yn gosod gofyniad mewn perthynas â llunio CDU.

corff a wnaeth yr atgyfeiriad (gweler Pennod 21 i gael rhagor o wybodaeth am hyn). Cyn cwblhau'r CDU yn derfynol, **rhaid**[17] i'r corff sy'n gyfrifol am lunio neu gynnal y CDU sicrhau bod corff perthnasol y GIG yn fodlon â'r disgrifiad o unrhyw DDdY sydd i'w sicrhau ganddo.

23.46 Mae adran 2C yn cynnwys yr is-adrannau canlynol ar gyfer yr elfennau o'r DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol. Os oes gwahanol elfennau i'r ddarpariaeth hon, **rhaid**[18] darparu gwybodaeth o dan bob un o'r is-adrannau yn adran 2C ar gyfer pob elfen o'r ddarpariaeth. Dyma'r is-adrannau yn adran 2C:

- 2C.1) Y deilliant a fwriedir;
- 2C.2) Y DDdY i'w darparu;
- 2C.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg;
- 2C.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol);
- 2C.5) Dyddiad dechrau;
- 2C.6) Dyddiad gorffen neu adolygu. Dyma'r dyddiad y rhoddir y gorau i ddarparu'r DDdY neu'r dyddiad y caiff ei hadolygu (os pennir dyddiad gorffen neu ddyddiad adolygu);
- 2C.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod.

23.47 Mae'r canllawiau ar gwblhau adran 2B lawn mor berthnasol wrth gwblhau'r adran hon.

**Adran 2D: Lle mewn ysgol a enwir, sefydliad arall a enwir, neu ddarpariaeth bwyd a llety <u>(Mae modd apelio i'r Tribiwnlys ynghylch yr adran hon.)</u>**

23.48 Dim ond o dan amgylchiadau penodol iawn y **dylid** defnyddio'r adran hon.

23.49 Os mai'r awdurdod lleol yw'r corff sy'n llunio neu'n cynnal CDU, mae gan yr awdurdod lleol swyddogaethau'n ymwneud â lle fydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael addysg neu hyfforddiant ac yn derbyn DDdY. Hwyrach y bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried ble ddylai'r plentyn neu'r person ifanc gael addysg neu hyfforddiant.

23.50 Mae'r Ddeddf yn darparu dwy swyddogaeth wahanol sy'n galluogi lleoliadau o'r fath. Mae adran 2D.1 o'r CDU yn ymwneud â'r swyddogaeth o dan adran 48 o'r Ddeddf, ac mae adrannau 2D.2 a 2D.3 o'r CDU yn ymwneud â'r swyddogaeth o dan adran 14 o'r Ddeddf (neu adran 19 o'r Ddeddf wrth gyflawni'r swyddogaeth hon ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal). Mae'r wybodaeth gyfatebol isod ar gwblhau'r adrannau hynny yn manylu ar y trothwyon neu'r amodau y mae angen cydymffurfio â nhw wrth arfer y swyddogaethau hyn, ac yn rhoi rhagor o fanylion am bob swyddogaeth.

23.51 Dylid nodi nad yw lleoliad mewn ysgol neu sefydliad penodol (er enghraifft, ysgol arbennig) yn dirymu'r gofyniad ar awdurdod lleol i ystyried a chofnodi'r

[17] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[18] Gofyniad a osodir gan y Cod.

deilliannau a fwriedir a'r DDdY gysylltiedig o dan adran 2B o'r CDU, nac i gynnal y CDU yn ei gyfanrwydd.

23.52 Fel wrth arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag unrhyw blentyn neu berson ifanc, wrth ystyried lleoliad, **rhaid**[19] i'r awdurdod lleol roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc; ynghyd â materion eraill sy'n ffurfio rhan o'r ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc. (Gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth.)

23.53 Mewn achosion pan fo unrhyw elfen o'r ddarpariaeth a nodir yn is-adrannau 2D.1 – 2D.3 wedi cael ei hystyried, ond pennwyd nad oedd ei hangen, **dylid** nodi "ddim yn berthnasol" yn yr adran neu'r is-adran honno, ond **dylid** cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hefyd.

- 2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn iddi.

23.54 Bydd angen i awdurdodau lleol gwblhau'r is-adran hon yn y ffurflen safonol i arfer eu pŵer o dan adran 48 o'r Ddeddf.

23.55 Mae'r pŵer yn adran 48 yn darparu y **caiff**[20] awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal CDU ar gyfer plentyn enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol honno. Yna **rhaid**[21] i'r ysgol roi lle i'r plentyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw bŵer i eithrio disgybl o ysgol[22].

23.56 Cyn arfer ei bŵer o dan adran 48, **rhaid**[23] i awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol. Os nad yr awdurdod lleol sy'n arfer y pŵer na'r ysgol sy'n cael ei henwi yw'r awdurdod derbyn[24] ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei henwi, **rhaid**[25] i'r awdurdod lleol, cyn arfer ei bŵer, hefyd ymgynghori â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r ysgol sydd wedi'i henwi wedi ei lleoli ynddi.

23.57 Yn ogystal, **ni chaiff**[26] awdurdod lleol arfer ei bŵer o dan adran 48 oni bai-

(a) bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod lles y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r DDdY a nodir yn ei CDU gael ei gwneud yn yr ysgol a enwir, a
(b) ei bod yn briodol i'r plentyn gael addysg neu hyfforddiant yn yr ysgol.

23.58 Felly, pan gaiff ysgol ei henwi yn yr is-adran hon, **dylai'r** awdurdod lleol amlinellu oddi tano pam mae'n fodlon ei bod yn ofynnol, er lles y plentyn, i'r

[19] Adran 6 o'r Ddeddf.
[20] Adran 48(1) o'r Ddeddf.
[21] Adran 48(2) o'r Ddeddf.
[22] Adran 48(6) o'r Ddeddf.
[23] Adran 48(3)(a) o'r Ddeddf.
[24] Mae i "awdurdod derbyn" yr ystyr a roddir i "admissions authority" gan adran 88 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
[25] Adran 48(3)(b) o'r Ddeddf.
[26] Adran 48(4) o'r Ddeddf.

DDdY a nodir yn ei CDU gael ei gwneud yn yr ysgol honno, a pham mae'n briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol honno.

23.59 Mae'r ystyriaethau canlynol yn debygol o fod yn berthnasol wrth ystyried a ddylid enwi ysgol at y diben hwn (hwyrach y bydd ystyriaethau perthnasol eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau):

(a) a yw nodweddion penodol yr ysgol yn ei gwneud yn arbennig o dda am sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol – gallai hyn gynnwys amrywiaeth o faterion gwahanol, gan gynnwys nodweddion ffisegol yr ysgol;
(b) a oes gan yr ysgol aelodau staff ag arbenigedd neu hyfforddiant arbenigol;
(c) a oes gan yr ysgol yr arbenigedd gofynnol mewn darpariaeth lai cyffredin, fel nam ar y golwg neu'r clyw;
(d) byddai'n afresymol i ysgol fwy lleol ddarparu DDdY y plentyn.

- 2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad penodol arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddo ar gyfer plentyn neu berson ifanc
- 2D.3) Disgrifiad o ddarpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau ar gyfer plentyn neu berson ifanc

23.60 Bydd angen i awdurdodau lleol gwblhau'r is-adran hon wrth gydymffurfio â'u dyletswydd o dan adran 14(6) o'r Ddeddf, neu adran 19(4) mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal.

23.61 Mae adrannau 14(6) a 19(4) yn darparu, os na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn, person ifanc neu blentyn sy'n derbyn gofal am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math y sonnir amdani ym mharagraff 23.62, bod **rhaid**[27] i'r awdurdod lleol gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth honno yn yr is-adran hon a bod **rhaid**[28] iddo sicrhau'r ddarpariaeth honno.

23.62 Dyma'r mathau o ddarpariaeth:

(a) Lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall;
(b) Bwyd a llety[29].

23.63 Os nad ysgol a gynhelir yng Nghymru yw'r ysgol benodol neu'r sefydliad penodol arall (gan gynnwys bwyd a llety), **rhaid**[30] i awdurdod lleol gael caniatâd yr ysgol honno neu'r sefydliad hwnnw cyn cynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth a sicrhau'r ddarpariaeth.

23.64 **Ni chaiff**[31] awdurdod lleol chwaith gynnwys disgrifiad o ddarpariaeth na sicrhau darpariaeth mewn ysgol neu sefydliad arall (gan gynnwys bwyd a

[27] Adran 14(6) o'r Ddeddf; adran 19(4) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
[28] Adran 14(10)(b) o'r Ddeddf; adran 19(7)(b) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
[29] Adran 14(7) o'r Ddeddf; adran 19(5) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
[30] Adran 14(8)(a) o'r Ddeddf; adran 19(6)(a) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
[31] Adran 14(8)(b) o'r Ddeddf; adran 19(6)(b) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

llety) nad yw'n ysgol a gynhelir yng Nghymru pe bai gwneud hynny'n anghydnaws â'r amodau yn adrannau 55, 56(3) a 59 o'r Ddeddf. Ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol (gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal), bydd angen i unrhyw ddarpariaeth o'r fath hefyd ddod o dan yr eithriadau i'r ddyletswydd yn adran 51 o'r Ddeddf i ffafrio addysg mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir. Ceir rhagor o fanylion am y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ffafrio ysgolion prif ffrwd a gynhelir, lleoliadau mewn ysgolion annibynnol, a lleoliadau y tu allan i Gymru a Lloegr, yn **Rhan B** o'r Bennod hon.

23.65 Os bydd awdurdod lleol wedi sicrhau darpariaeth o'r math y sonnir amdani ym mharagraff 23.62, **ni chaiff**[32] yr awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol, lle mae (neu lle bydd) y plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig, i-

(a) llunio a chynnal y CDU,
(b) cynnal y CDU ar ôl i'r awdurdod lleol ei lunio, neu
(c) cynnal y CDU.

23.66 **Dylai** adran 2D o'r CDU gynnwys y rhesymau dros unrhyw leoliad penodol neu'r bwyd a llety, yn enwedig os oedd anghytuno yn ei gylch. Efallai fod y gweithwyr proffesiynol wedi anghytuno neu fod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wedi anghytuno â'r gweithwyr proffesiynol, neu efallai fod gwahaniaeth barn rhwng rhywrai eraill. **Dylai** egluro sut y cafodd safbwyntiau gwahanol eu hystyried cyn gwneud penderfyniad penodol.

23.67 Mae'r ystyriaethau canlynol yn debygol o fod yn berthnasol wrth ystyried a yw lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall yn ofynnol er mwyn diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am DDdY (efallai y bydd ystyriaethau perthnasol eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau):

- a yw'r DDdY sy'n rhesymol ofynnol gan anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn golygu na ellir ei darparu'n llawn mewn unrhyw ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach;
- a yw nodweddion penodol yr ysgol neu'r sefydliad arall yn ei wneud yn arbennig o addas i gyflwyno'r DDdY ofynnol – gallai hyn gynnwys amrywiaeth o faterion, gan gynnwys nodweddion ffisegol yr ysgol neu'r sefydliad;
- a oes gan yr ysgol neu'r sefydliad aelodau staff sydd ag arbenigedd neu hyfforddiant arbenigol;
- a oes gan yr ysgol yr arbenigedd gofynnol mewn darpariaeth lai cyffredin, fel nam ar y golwg neu nam ar y clyw;
- a fyddai'n afresymol i ysgol neu sefydliad arall gyflwyno DDdY y plentyn.

23.68 Mae'r ystyriaethau canlynol yn debygol o fod yn berthnasol wrth ystyried a oes angen bwyd a llety er mwyn diwallu anghenion rhesymol plentyn am DDdY (efallai y bydd ystyriaethau perthnasol eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau):

---

[32] Adran 14(9) o'r Ddeddf (nid oes darpariaeth gyfatebol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, oherwydd mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnal eu CDU mewn unrhyw achos).

- nid oes modd diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY mewn darpariaeth ddydd;
- mae tystiolaeth yn dangos mai dim ond mewn lleoliad preswyl y gellir darparu elfen hanfodol o addysg a hyfforddiant y plentyn neu'r person ifanc (er enghraifft, mae angen rhaglen gyson ar y dysgwr yn ystod ac ar ôl oriau ysgol na ellir ei darparu gan ysgol ddibreswyl ynghyd â chymorth gan asiantaethau eraill).

23.69 **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried holl amgylchiadau perthnasol yr achos penodol, gan gofio y gallai hynny olygu bod rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc breswylio i ffwrdd oddi wrth ei deulu. O ganlyniad, bydd y ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni yn arbennig o bwysig (gweler Pennod 4). Gall hyn gynnwys yr angen i sicrhau bod trefniadau cymorth priodol ar waith, megis rhai sy'n galluogi'r plentyn neu'r person ifanc i aros mewn cysylltiad â'i deulu.

23.70 **Dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen ochr yn ochr â darpariaeth addysg, DDdY a bwyd a llety ar gael o'r dechrau. Gallai'r gwasanaethau hyn gynnwys:

- gofal iechyd;
- gofal personol;
- gofal cymdeithasol;
- trafnidiaeth.

23.71 Bydd gwaith amlasiantaeth a thrawsadrannol yn hynod bwysig yn y maes hwn. Yn benodol, gallai awdurdodau lleol a chyrff y GIG ystyried trefniadau ariannu priodol ar y cyd. **Dylai** awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn defnyddio dull cydgysylltiedig yn fewnol wrth ariannu elfennau addysg a gofal cymdeithasol y lleoliad[33].

23.72 Os bydd lleoliad preswyl mewn ysgol neu sefydliad y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried hefyd pa wybodaeth y gallai fod ei hangen ar ddarparwyr gwasanaethau lleol sy'n gweithredu yn yr ardal arall honno.

23.73 Gweler hefyd yr wybodaeth a ddarperir o dan Ran B o'r bennod hon wrth ystyried lleoliadau.

## *Rhan 3.*

### Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU

[33] Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf yn darparu'r sail ar gyfer gwneud darpariaeth gofal cymdeithasol.

23.74 **Rhaid**[34] i adran 3A o'r CDU gynnwys cofnod cryno o'r trafodaethau mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd i lunio neu ddiwygio'r CDU, unrhyw gyngor neu dystiolaeth y mae'r corff sy'n llunio neu'n cynnal y CDU yn ei ystyried yn berthnasol, a manylion y rhai sydd wedi cyfrannu at lunio neu ddiwygio'r CDU neu sydd wedi darparu gwybodaeth neu dystiolaeth yn ymwneud â'r cynllun.

23.75 Nid oes rhaid i'r cofnod o drafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â llunio neu ddiwygio'r CDU fod yn gofnod gair am air; byddai crynodeb o'r hyn a drafodwyd a chan bwy yn ddigonol.

23.76 Bydd y cyngor neu'r dystiolaeth yn cynnwys adroddiadau ac asesiadau diweddar a gynhaliwyd gan yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y CDU a chan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill, megis adroddiadau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol. Gallai hefyd gynnwys unrhyw ddata sy'n helpu i adnabod ADY, er enghraifft data yn ymwneud â chyrhaeddiad. Gellir cynnwys yr adroddiad(au) llawn mewn atodiad.

23.77 Yn achos CDUau sydd wedi'u llunio ers cryn amser, bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n deillio o waith monitro diweddar ar y DDdY ac o waith olrhain data a thargedau pan fo hyn wedi arwain at ddiwygio'r CDU.

23.78 Os oes gan weithwyr proffesiynol, plant, rhieni plant neu bobl ifanc safbwyntiau gwahanol, **dylid** eu cofnodi. **Dylid** eu cofnodi drwy ddefnyddio termau cyffredinol fel rhieni, athrawon neu'r uwch dîm arwain. **Ni ddylid** defnyddio enwau na theitlau penodol oni bai bod yr unigolyn sy'n mynegi'r safbwynt yn gwneud cais i'r perwyl hwnnw.

23.79 Os yw rhieni wedi cael cyngor gan weithwyr proffesiynol yn uniongyrchol, **dylid** ei gofnodi'n glir a'i ystyried yn briodol, a gellir ei gynnwys mewn atodiad.

### Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol

23.80 **Rhaid**[35] i adran 3B o'r CDU gynnwys crynodeb o'r digwyddiadau allweddol ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc sy'n berthnasol i'w ADY (ac, os oes angen, gellir darparu gwybodaeth ychwanegol neu fanylach mewn atodiad), gan gynnwys yr is-adrannau canlynol:

- 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY angenrheidiol

23.81 **Dylai'r** wybodaeth a ddarperir yn 3B.1 gynnwys yr holl ddigwyddiadau sy'n arwyddocaol ac yn berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person

[34] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[35] Gofyniad a osodir gan y Cod.

ifanc, ac er mwyn cynllunio'r DDdY angenrheidiol a helpu i nodi pryd y dylid cynnal adolygiadau. Dyma enghreifftiau o ddigwyddiadau posibl:

- enw'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol a luniodd y CDU (os yw'n wahanol i'r corff sy'n ei gynnal ar hyn o bryd);
- enw unrhyw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol a fu'n gyfrifol am ei gynnal yn flaenorol (os yw'n wahanol i'r corff sy'n ei gynnal ar hyn o bryd);
- penderfyniadau arwyddocaol a waned yn flaenorol mewn perthynas â CDU y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys achosion pan gynhaliwyd adolygiad ar ôl cael cais gan blentyn, rhiant i blentyn neu berson ifanc, neu pan fo awdurdod lleol wedi ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol, ac y penderfynwyd peidio â diwygio'r CDU;
- atgyfeiriad ar gyfer asesiad/archwiliad gan weithiwr proffesiynol;
- unrhyw asesiad ynghyd â chanlyniadau a/neu gyngor;
- prawf neu arsylwi gan weithiwr proffesiynol a/neu asiantaeth neu gynghorydd allanol;
- diagnosis o gyflwr;
- salwch;
- dechrau defnyddio cyfarpar neu fewnblaniadau newydd er mwyn helpu i fanteisio ar addysg;
- digwyddiad sydd wedi cael effaith emosiynol neu effaith ar ymddygiad neu gyrhaeddiad.

23.82 Nid oes angen cofnodi'r digwyddiadau'n fanwl, ond **dylid** nodi'r wybodaeth ganlynol—

- syniad o'r hyn a ddigwyddodd neu natur y digwyddiad,
- y sefydliad/gwasanaeth/unigolyn sy'n gyfrifol am y digwyddiad, fel diagnosis, sgrinio neu brawf, lle bo hynny'n briodol, a
- dyddiad y digwyddiad.

23.83 **Dylid** hefyd gynnwys digwyddiadau cyn datblygu'r CDU cyntaf os ydynt yn ymwneud ag ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r DDdY ofynnol.

23.84 Yn ogystal, **dylid** cynnwys digwyddiadau y disgwylir iddynt ddigwydd yn y flwyddyn nesaf ac a allai lywio pryd y dylid cynnal yr adolygiad nesaf. **Dylai'r** wybodaeth gynnwys yr hyn a ddisgwylir, a pham y gallai fod angen adolygu'r CDU o ganlyniad.

- 3B.2) Lleoliadau addysgol neu ofal plant blaenorol a fynychwyd (a'r dyddiadau). Dylai hyn gofnodi lleoliadau addysg, gan gynnwys lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir neu leoliadau gofal plant y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'u mynychu ers i'w ADY gael eu hadnabod gyntaf.

**Adran 3C: Pontio**

23.85 Nod cynllunio ar gyfer pontio yw paratoi'r plentyn neu'r person ifanc ar gyfer newid arwyddocaol yn ei daith addysgol. Yn adran 3C o'r CDU, gellir disgrifio unrhyw wybodaeth neu drefniadau y gellid eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol ar gyfer y broses gynllunio honno. Ceir gwybodaeth am y gwahanol fathau o bontio, pryd y gallent ddigwydd a sut i gynllunio ar gyfer prosesau pontio a'u cefnogi ym Mhennod 27. **Dylid** darllen y bennod honno wrth gwblhau'r adran hon o'r CDU.

23.86 Gellir defnyddio'r adran hon i gofnodi'r canlynol:

- unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol wrth i'r plentyn neu berson ifanc bontio i'r cyfnod nesaf ac a fyddai'n ddefnyddiol i'r rheini sy'n gysylltiedig â darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn neu'r person ifanc,
- unrhyw drefniadau a ystyrir yn ddymunol ar gyfer hwyluso'r broses bontio i'r plentyn neu'r person ifanc,
- cymorth arall nad yw'n DDdY ar gyfer proses bontio i ddod,
- unrhyw beth a allai effeithio ar unrhyw elfen o'r DDdY a nodwyd yn adran 2B o'r CDU yn dilyn proses bontio yn y flwyddyn i ddod – gall hyn gynnwys awgrymiadau ar faterion y gallai fod angen eu hystyried neu eu hailystyried yn dilyn proses bontio, oherwydd na fydd yr effeithiau'n hysbys adeg llunio neu adolygu'r CDU o bosibl, ac
- unrhyw DDdY sydd eisoes wedi'i nodi o bosibl ond nad yw'n ofynnol tan y flwyddyn ganlynol (ar ôl adolygiad) neu'n hwyrach, ac felly nad yw'n cael ei chyfrif yn DDdY ar gyfer y fersiwn gyfredol o'r CDU (ac felly sydd heb ei chofnodi yn adran 2B), ond y byddai'n ddefnyddiol ei nodi ar gyfer gwaith cynllunio'r dyfodol.

23.87 Trwy gynnwys gwybodaeth yn yr adran hon, gellir helpu corff sy'n dod yn gyfrifol am gynnal y CDU, ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc symud i leoliad newydd, i arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, er enghraifft, i adolygu'r CDU. Gallai hefyd helpu ysgol neu sefydliad addysg bellach i gynllunio ymlaen pan fydd yn ofynnol iddynt helpu awdurdod lleol i sicrhau darpariaeth mewn CDU ar gyfer cynlluniau a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, os gellir penderfynu ar DDdY ar gyfer y flwyddyn i ddod, hyd yn oed os bydd yn parhau ar ôl proses bontio, **rhaid**[36] ei chynnwys yn adran 2B o'r CDU yn hytrach na'r adran hon.

23.88 Os cynlluniwyd unrhyw wybodaeth neu drefniadau i helpu plentyn neu berson ifanc i bontio i'r cyfnod nesaf, **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am lunio'r CDU eu nodi yn yr adran hon. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- y cam(au) pontio a ddisgwylir;
- unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu'r trefniadau pontio;
- y camau y cytunwyd y byddai'r holl weithwyr proffesiynol a/neu'r asiantaethau sy'n cefnogi'r cam(au) pontio yn eu cymryd;
- yr amcanion a'r deilliannau y disgwylir i'r pontio eu cefnogi.

[36] Adran 10 o'r Ddeddf: dyma'r DDdY y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani.

23.89 Ni ellir apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adran hon.

**Adran 3D: Trefniadau teithio**

23.90 Pan fo hynny'n berthnasol, **dylai'r** rhai sy'n llunio neu'n adolygu CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc gofnodi yn y CDU unrhyw drefniadau i'r plentyn neu'r person ifanc deithio rhwng ei gartref a'r sefydliad addysg. Gallai hyn fod yn berthnasol mewn rhai achosion, er enghraifft, os yw'n llywio'r broses o gyflwyno'r DDdY neu os yw lleoliad y plentyn neu'r person ifanc yn ddibynnol ar drefniadau teithio penodol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion ni fydd cofnodi trefniadau teithio mewn CDU yn rhoi unrhyw fudd ychwanegol.

23.91 Gwneir darpariaeth ar gyfer trefniadau teithio i ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac mae canllawiau'n ymwneud â'r ddarpariaeth hon wedi'u cyhoeddi o dan adran 15 o'r Mesur[37].

23.92 Os yw awdurdod lleol yn llunio neu'n adolygu CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc ac yn ystyried lle y dylid ei addysgu, **dylid** ystyried y trefniadau teithio er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc gyrraedd unrhyw ysgol arfaethedig neu sefydliad arall, pan fo hynny'n berthnasol. Os yw'r cwestiwn yn codi a fydd awdurdod lleol yn gwneud trefniadau teithio o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc gyrraedd lleoliad addysg neu hyfforddiant, **dylai'r** awdurdod lleol sy'n llunio neu'n adolygu'r CDU godi'r mater gyda'r swyddogion trafnidiaeth perthnasol o'r awdurdod lleol dan sylw a'u gwahodd i drafod yr opsiynau sydd ar gael.

23.93 Yn rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer pontio, **dylai** ysgol neu awdurdod lleol, pan fo'n berthnasol, ystyried y trefniadau teithio i'r plentyn neu'r person ifanc gyrraedd yr ysgol neu'r sefydliad arall y mae'r plentyn neu'r person ifanc i'w fynychu.

23.94 Os yw awdurdod lleol yn gwneud neu'n mynd i wneud trefniadau teithio o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ar gyfer plentyn neu berson ifanc, **rhaid**[38] i awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach sy'n llunio neu'n adolygu CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc hwnnw ystyried cofnodi yn y CDU y trefniadau teithio a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan yr awdurdod lleol. Gall cofnod o'r fath fod yn berthnasol mewn achosion eithriadol, er enghraifft, os bydd gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion teithio penodol neu os bydd angen cydgysylltu'n ofalus y trefniadau ar gyfer teithio ac ar gyfer cyflwyno'r DDdY.

[37] Adeg cyhoeddi'r Cod hwn, mae'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr ar gael yn: https://llyw.cymru/teithio-gan-ddysgwyr-darpariaeth-statudol-chanllawiau-gweithredol.
[38] Gofyniad a osodir gan y Cod.

23.95 Os yw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn penderfynu cofnodi trefniadau teithio mewn CDU, **rhaid**[39] iddo eu cofnodi yn adran 3D.

23.96 Ni ellir apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adran hon.

## RHAN B

### *Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir*

23.97 **Rhaid**[40] i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlentyn o oedran ysgol gorfodol a ddylai dderbyn addysg mewn ysgol, sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir (hynny yw, ysgol a gynhelir nad yw'n ysgol arbennig nac yn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)). Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor mai addysg brif ffrwd fydd er budd pennaf y plentyn yn y rhan fwyaf o achosion. I'r graddau y maent yn gymwys i blant o oedran ysgol gorfodol a ddylai gael eu haddysgu mewn ysgol, mae'r swyddogaethau a amlinellir o dan adran 2D uchod hefyd, felly, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon.

23.98 Ceir tri eithriad i'r ddyletswydd hon[41]:

(a) bod addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;
(b) bod addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir yn briodol er budd pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;
(c) bod rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir.

23.99 Mae hyn yn golygu **na chaiff**[42] awdurdod lleol enwi ysgol arbennig a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion neu sefydliad arall (megis ysgol annibynnol neu fwyd a llety) yn adran 2D o'r CDU (at ddibenion derbyn), oni bai bod un o'r eithriadau hyn yn gymwys.

23.100 Dim ond os nad oes unrhyw gamau rhesymol y gallai ei gymryd i atal neu ddileu'r anghydnawsedd y gallai awdurdod lleol ddibynnu ar yr eithriad cyntaf y cyfeirir ato uchod[43]. Er enghraifft, os yw ymddygiad y plentyn yn bygwth diogelwch a/neu'n amharu ar ddysgu dysgwyr eraill yn gyson neu'n sylweddol; ac y byddai costau darparu unrhyw fesurau diogelwch i fynd i'r

[39] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[40] Adran 51 o'r Ddeddf.
[41] Adran 51(2) o'r Ddeddf.
[42] Adran 51 o'r Ddeddf.
[43] Adran 51(3) o'r Ddeddf.

afael â'r risgiau hynny yn anghymesur, neu na fyddai mesurau diogelwch yn mynd i'r afael yn foddhaol â'r risgiau.

23.101 Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gam rhesymol i atal yr anghydnawsedd yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos unigol, ond dyma rai o'r ffactorau a allai gael eu hystyried:

- i ba raddau y byddai'r cam yn effeithiol;
- i ba raddau y mae'n ymarferol i'r awdurdod lleol gymryd y cam;
- i ba raddau y mae camau eisoes wedi'u cymryd mewn perthynas â phlentyn penodol, a pha mor effeithiol oedd y camau hynny;
- y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o safbwynt adnoddau eraill sy'n deillio o gymryd y cam, yn benodol a fyddai'r cam yn arwain at symud adnoddau yn anghymesur tuag at ddiwallu anghenion un dysgwr, gyda'r posibilrwydd o amharu ar addysg plant eraill;
- graddau unrhyw amhariad a fyddai'n deillio o gymryd y cam;
- i ba raddau y mae'r cam yn gydnaws ag anghenion y plentyn.

23.102 Nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir yn gymwys os yw'r rhiant yn dymuno i'w blentyn gael ei addysg yn rhywle heblaw ysgol prif ffrwd a gynhelir. Os felly, nid oes gofyniad o reidrwydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu yn rhywle heblaw ysgol prif ffrwd a gynhelir[44]. Fodd bynnag, **rhaid**[45] i'r awdurdod lleol roi sylw i'r dymuniadau hynny, a bydd angen iddo ystyried amgylchiadau'r achos, a chydymffurfio â'i ddyletswyddau addysg[46].

23.103 Nid ar chwarae bach y dylid gwneud penderfyniad i beidio ag addysgu plentyn mewn lleoliad prif ffrwd, yn enwedig os mai dyna yw dewis cyntaf y rhiant. **Rhaid**[47] i'r awdurdod lleol roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a rhieni'r plentyn. Bydd angen i'r awdurdod lleol hefyd ystyried ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys gallu'r ysgol brif ffrwd a gynhelir, neu unrhyw leoliad amgen posibl, i gynnig DDdY briodol. Bydd angen ystyried y safbwyntiau a'r ffactorau hyn ynghyd â barn seicolegwyr addysg a gweithwyr proffesiynol arbenigol eraill er mwyn canfod a yw un o'r eithriadau'n berthnasol. Mae'n bwysig bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar sail amgylchiadau achosion unigol.

23.104 Nid yw'r ddyletswydd i ffafrio addysg mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn atal plant rhag cael eu haddysgu mewn ysgol annibynnol, neu mewn ysgol a gymeradwyir o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 (hynny yw, ysgol arbennig nas cynhelir), os nad yr awdurdod lleol sy'n gorfod talu'r gost[48].

[44] Adran 51(4) o'r Ddeddf.
[45] Adran 6 o'r Ddeddf.
[46] Yn benodol, adran 9 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg, roi sylw i'r egwyddor gyffredinol bod disgyblion i gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni, cyn belled ag y bo hynny'n gydnaws â darparu cyfarwyddyd a hyfforddiant effeithlon ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.
[47] Adran 6 o'r Ddeddf.
[48] Adran 51(5) o'r Ddeddf.

## _Lleoliadau mewn ysgolion annibynnol neu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol_

23.105 Er mwyn i awdurdod lleol ddisgrifio ysgol annibynnol yng Nghymru yn adran 2D.2 neu 2D.3 (neu'r ddau) o CDU a sicrhau darpariaeth yn yr ysgol honno, **rhaid**[49] bodloni'r amodau canlynol-

(a) bod yr ysgol wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru[50], a
(b) bod yr awdurdod lleol yn fodlon y gall yr ysgol gyflwyno'r DDdY a nodir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc.

23.106 **Rhaid**[51] bodloni amodau tebyg wrth ddisgrifio a sicrhau darpariaeth mewn sefydliadau addysg annibynnol yn Lloegr, sef—

(a) bod y sefydliad wedi'i gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysg annibynnol yn Lloegr[52]; a
(b) bod yr awdurdod lleol yn fodlon y gall y sefydliad gyflwyno'r DDdY a nodir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc.

23.107 Yr amod ar gyfer disgrifio a sicrhau darpariaeth ar gyfer person ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yw bod yn **rhaid**[53] bod y sefydliad wedi'i gynnwys yn y rhestr o sefydliadau o'r fath a sefydlwyd, a gynhelir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru[54]. Gweler Pennod 17 hefyd wrth ystyried lleoliad ar gyfer person ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

23.108 Os yw plentyn neu riant yn ffafrio lleoliad mewn ysgol annibynnol ond bod modd diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY mewn lleoliad addysg a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ariannu lle'r dysgwr yn yr ysgol annibynnol[55]. Fodd bynnag, mewn sefyllfa o'r fath, **dylai'r** awdurdod lleol egluro i'r rhiant a'r plentyn sut y gellir diwallu anghenion y dysgwr heb osod y plentyn mewn ysgol annibynnol.

---

[49] Adran 55(1) o'r Ddeddf. Hefyd, ni allai awdurdod lleol ddisgrifio ysgol annibynnol oni bai bod y ddyletswydd i ffafrio addysg mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol ddim yn gymwys, a bod y trothwyon a'r gofynion ar gyfer lleoliadau o dan adran 14 (neu adran 19 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) o'r Ddeddf wedi'u bodloni – gweler uchod.
[50] O dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002.
[51] Adran 55(2) o'r Ddeddf. Hefyd, ni allai awdurdod lleol ddisgrifio ysgol annibynnol oni bai bod y ddyletswydd i ffafrio addysg mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol ddim yn gymwys, a bod y trothwyon a'r gofynion ar gyfer lleoliadau o dan adran 14 (neu adran 19 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) o'r Ddeddf wedi'u bodloni – gweler uchod.
[52] Cedwir o dan adran 95 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008. Yn y cyd-destun hwn, mae i "sefydliad addysgol annibynnol" yr ystyr a roddir i "independent educational institution" gan Bennod 1 o Ran 4 o'r Ddeddf honno.
[53] Adran 56(3) o'r Ddeddf. Mae'r amod yn adran 56(3) hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau rhagnodedig y gellid eu gwneud; a bodloni'r trothwyon a'r gofynion ar gyfer lleoliadau yn adran 14 o'r Ddeddf – gweler uchod.
[54] Adrannau 56(1) a 56(2) o'r Ddeddf.
[55] Adran 9 o Ddeddf Addysg 1996.

23.109 Os yw awdurdod lleol yn ystyried a ddylai osod y plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, dylai ystyried y canlynol:

- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod y DDdY sy'n ofynnol i ddiwallu ADY y plentyn ar gael yn yr ysgol annibynnol honno neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol hwnnw yn unig;
- a oes gan y plentyn anghenion meddygol a/neu anghenion gofal cymdeithasol na ellir eu diwallu gan ddarparwyr lleol mewn lleoliad addysg prif ffrwd neu sefydliad addysg bellach, neu ar y cyd â nhw, ac a fyddai'n atal y plentyn neu'r person ifanc rhag derbyn addysg neu hyfforddiant addas i ddiwallu ei anghenion penodol;
- a fyddai modd sicrhau darpariaeth i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc mewn ysgol annibynnol neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol arall, a fyddai lle yn y lleoliad hwnnw'n gydnaws â darparu addysg a hyfforddiant effeithlon, ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.[56]

23.110 Rydym yn disgwyl y bydd ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gyflwyno'r DDdY sydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd debyg i ysgolion a gynhelir. Mae'n bosibl bod gan ysgolion annibynnol eu polisi ADY eu hunain ac, os felly, efallai y bydd awdurdodau lleol am ei ystyried wrth ystyried lleoli dysgwr yn yr ysgol.

## *DDdY y tu allan i Gymru a Lloegr*

23.111 Mewn achosion prin iawn, gall fod yn briodol i blentyn neu berson ifanc sydd angen DDdY gael lle mewn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr. **Ni chaiff**[57] awdurdod lleol ddisgrifio lleoliad y tu allan i Gymru a Lloegr yn adran 2D.2 neu 2D.3 (neu'r ddau) o CDU a sicrhau'r ddarpariaeth honno oni bai bod y sefydliad wedi ei drefnu i wneud y DDdY a ddisgrifir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc.

## *DDdY ar gyfer plentyn mewn mannau heblaw yn yr ysgol*

23.112 **Caiff**[58] awdurdod lleol drefnu i'r DDdY, neu unrhyw ran o'r DDdY, a ddisgrifir yn CDU plentyn gael ei chyflwyno mewn rhyw fodd heblaw mewn ysgol, ond

[56] Gweler adran 9 o Ddeddf Addysg 1996.
[57] Adran 59 o'r Ddeddf. Hefyd, ni allai awdurdod lleol ddisgrifio lleoliad o'r fath oni bai bod y ddyletswydd i ffafrio addysg mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol ddim yn gymwys, a bod y trothwyon a'r gofynion ar gyfer lleoliadau o dan adran 14 (neu adran 19 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) o'r Ddeddf wedi'u bodloni – gweler uchod.
[58] Adran 53(1) o'r Ddeddf.

**ni chaiff**[59] wneud hynny oni bai ei fod yn fodlon y byddai'n amhriodol i'r DDdY gael ei gwneud mewn ysgol.

## _Ystyriaethau eraill wrth lunio CDU_

23.113 Os yw plentyn neu berson ifanc ag ADY yn debygol o ddechrau'n fuan ar gwrs sy'n arwain at asesiadau a chymwysterau, neu os yw eisoes yn dilyn cwrs o'r fath, **dylid** ystyried pa drefniadau mynediad y dylid gwneud cais amdanynt yn sgil y DDdY neu'r ADY wrth fynd ati i osod yr amcanion a phennu'r DDdY. Trefniadau mynediad yw'r rhai y gwneir cais amdanynt (i'r corff dyfarnu) cyn asesiad neu arholiad, ar ddechrau'r cwrs yn ddelfrydol, gan y gallant fod yn berthnasol i'r cwrs cyfan. Gellid cynnwys hyn mewn atodiad i'r CDU.

23.114 Fel rhan o'r drafodaeth ar bennu DDdY, **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am lunio neu gynnal y CDU ystyried unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel cynnal a chadw ac yswirio unrhyw gyfarpar arbenigol a phwy sy'n gyfrifol am y materion hyn.

[59] Adran 53(2) o'r Ddeddf.

# Pennod 24: Llunio a chynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, a chynnwys yr CDU

## *Cyflwyniad*

24.1 Dylid defnyddio'r bennod hon wrth lunio neu gynnal[1] Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal sydd ag ADY.

24.2 Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n berthnasol i gwblhau CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal sydd ag ADY i'w gweld ym Mhennod 23 a dylai'r rhai sy'n cwblhau CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gyfeirio at y bennod honno hefyd. Mae Pennod 23 yn rhoi gwybodaeth fanwl, canllawiau a gofynion mewn perthynas â llunio a chynnal CDU ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, ynghyd â rhagor o fanylion am rai materion, yn benodol y ddyletswydd i ffafrio ysgolion prif ffrwd a gynhelir, lleoliadau mewn ysgolion annibynnol, a lleoliadau ac ystyriaethau eraill. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau bychain yn y CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o gymharu â'r CDU ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal a phobl ifanc. Diben y bennod hon yw tynnu sylw at y gwahaniaethau hynny.

24.3 Yn ogystal â Phennod 23, dylid darllen y bennod hon ar y cyd â Phennod 14 (Dyletswyddau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal), a'r canllawiau perthnasol yng Nghod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## *Llunio CDU*

24.4 Mae'n bwysig bod pob CDU yn cynnwys elfennau allweddol penodol ac yn cadw at yr un strwythur sylfaenol. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch cyffredinol o ran sut mae dysgwyr yn cael eu trin, a bydd yn sylfaen i gydlyniant y system ADY yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â sicrhau bod CDUau yn gludadwy. Am y rhesymau hyn, **rhaid**[2] i awdurdod lleol sy'n gyfrifol am lunio neu gynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad B ar gyfer y CDU. **Caiff** yr awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal y CDU gynnwys rhagor o wybodaeth fel atodiadau, pe bai'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae cyfeiriadau yn y bennod hon at y CDU yn gyfeiriadau at y ffurflen safonol yn Atodiad B. Wrth ddefnyddio Pennod 23 i lenwi Atodiad B, pan fo angen yn y cyd-destun, dylid darllen cyfeiriadau yn y bennod honno at y CDU neu Atodiad A fel cyfeiriadau at y ffurflen safonol yn Atodiad B.

24.5 Er bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad B wrth lunio neu gynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, mae'r ffurflen

[1] Gweler paragraff 23.3 o Bennod 23 am ragor o wybodaeth am y defnydd o'r termau hyn.
[2] Gofyniad a osodir gan y Cod.

yn caniatáu hyblygrwydd o ran hyd ac arddull. Er enghraifft, mae CDU plentyn sydd ag anghenion llai difrifol neu gymhleth yn debygol o fod yn symlach (ac felly'n cynnwys llai o wybodaeth) na CDU plentyn sydd ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth, neu anghenion llai cyffredin. Mae plentyn sydd ag anghenion difrifol neu gymhleth neu anghenion llai cyffredin yn debygol o fod angen mewnbwn a chyngor arbenigol, ac mae ei CDU yn debygol o gynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth eang o asiantaethau a nodi amrywiaeth lawer ehangach o ymyriadau.

24.6 Yn yr un modd, ar yr amod nad yw penawdau a strwythur sylfaenol y ffurflen safonol yn cael eu newid (byddai newid o'r fath yn torri'r gofyniad), **caiff** edrychiad y ffurflen safonol ei addasu yn ôl dewisiadau lleol (er enghraifft, drwy gynnwys logo'r awdurdod lleol) neu ddewisiadau'r plentyn (drwy ddefnyddio ffont mwy o faint neu ffont gwahanol, defnyddio delweddau yn ogystal â thestun, osgoi defnyddio lliwiau penodol ac ati), a gellir addasu'r modd y caiff yr wybodaeth ei mewnosod i'r adrannau a'r is-adrannau hynny hefyd.

24.7 Serch hynny, **dylai'r** wybodaeth a gynhwysir yn y CDU:

(a) cael ei chreu drwy gynnwys, pan fo'n briodol, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cydweithio i adnabod ADY y plentyn a'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny;
(b) cael ei chreu drwy gydweithredu â'r plentyn a rhiant y plentyn;
(c) cael ei datblygu ar sail hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n adlewyrchu anghenion y plentyn;
(d) cael ei hysgrifennu mewn arddull sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cynllun y plentyn ydyw, a'i fod yn llawer mwy na rhan o broses weinyddol yn unig. Dylai'r arddull, a'r iaith os yw'n bosibl, adlewyrchu oedran y plentyn, gan wahaniaethu'n glir rhwng yr hyn y mae'r plentyn wedi'i ddweud a'r hyn a ddywedwyd gan eraill;
(e) cael ei hysgrifennu mewn iaith glir (boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg neu'r ddwy), gan osgoi defnyddio jargon ac esbonio perthnasedd unrhyw derminoleg dechnegol y mae angen ei chynnwys, â'r nod y bydd pawb sy'n debygol o ddarllen y CDU yn gallu ei ddeall, gan gynnwys y plentyn, pryd bynnag y bo modd;
(f) cael ei chadw dan ystyriaeth er mwyn penderfynu a ddylid cynnal adolygiad yn gynharach na'r disgwyl (gweler Pennod 25 ar adolygiadau).

24.8 **Rhaid**[3] ymgorffori CDU plentyn sy'n derbyn gofal yng nghynllun addysg personol y plentyn[4]. Bydd hyn yn hwyluso dull gweithio cyfannol ac yn golygu bod modd i DDdY y plentyn sy'n derbyn gofal a'r ddarpariaeth addysgol ehangach a wneir ar ei gyfer, ategu ei gilydd. Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, **caiff**[5] y CDU gael ei lunio, ei adolygu neu'i ddiwygio ar yr un pryd ag yr eir ati i lunio, adolygu neu ddiwygio dogfen neu gynllun arall sy'n

[3] Adran 83(2C) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2018.
[4] Yn ofynnol o dan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.
[5] Adran 25 o'r Ddeddf.

ymwneud â'r plentyn (er enghraifft, y cynllun addysgu personol). (Gweler Pennod 25 am ragor o wybodaeth am adolygu neu ddiwygio CDU ynghyd â dogfen neu gynllun arall; a Phennod 22 am gyfarfodydd ynghylch ADY ac CDUau, sy'n cynnwys gwybodaeth am gydgysylltu cyfarfodydd ar gyfer plant sydd â mwy nag un cynllun. I gael canllawiau ar gynlluniau addysg personol, gweler Cod Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya).)

## *Cynnwys y CDU*

24.9 **Rhaid**[6] i awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal lenwi pob adran o'r ffurflen safonol yn Atodiad B, oni bai nad yw'r adran honno'n berthnasol i'r plentyn dan sylw, ac os felly dylid ei marcio felly. Er enghraifft, gellid rhoi "ddim yn berthnasol" yn adran 2D mewn achosion lle nad yw'r plentyn wedi'i leoli mewn ysgol a enwir neu sefydliad arall a enwir, neu lle na ddarperir bwyd a llety.

24.10 Y gwahaniaeth allweddol rhwng CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai ar gyfer plant neu bobl ifanc eraill yw nad yw'r CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys Rhan 1. Y rheswm am hyn yw ei bod yn ofynnol ymgorffori'r CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yng nghynllun addysg personol y plentyn (gweler paragraff 24.8 uchod) a disgwylir i'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Ran 1 gael ei chynnwys mewn man arall yng nghynllun addysg personol y plentyn. Felly, caiff Rhan 1 ei hepgor o'r ffurflen safonol yn Atodiad B. Er hwylustod wrth ddefnyddio'r wybodaeth, y canllawiau a'r gofynion ym Mhennod 23 i gwblhau CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, mae rhifau a phenawdau'r adrannau a'r is-adrannau sy'n weddill yn Atodiad B yn cyfateb i'r rhai yn Atodiad A, sef 2A hyd 3D.

24.11 Mae rhai elfennau o'r CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y gellir apelio i'r Tribiwnlys yn eu cylch. Nodir elfennau cyfatebol y ffurflen safonol yn Atodiad B mewn print coch a thrwm ac wedi'u tanlinellu. Wrth ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad B, caniateir newid sut y dangosir yr elfennau hyn, ond **dylai'r** adrannau hyn gael eu marcio mewn rhyw ffordd er mwyn ei gwneud yn glir i'r plentyn a'i riant pa adrannau y mae hawl apelio yn eu cylch. Er hwylustod, rhestrir yr elfennau perthnasol isod.

24.12 Yr elfennau yw:

(a) 2A
(b) 2B.2
(c) 2B.3
(d) 2B.5
(e) 2B.6
(f) 2C.2
(g) 2C.3
(h) 2C.5

[6] Gofyniad a osodir gan y Cod

(i) 2C.6
(j) 2D

# Pennod 25: Adolygu a diwygio CDUau

## *Cyflwyniad*

25.1 I sicrhau bod y CDU yn parhau i adlewyrchu'n gywir anghenion y plentyn neu'r person ifanc a manylion y ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol adolygu CDUau o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'n caniatáu eu diwygio yng ngoleuni pob adolygiad.

25.2 I gyd-fynd â'r gofyniad sylfaenol hwn i adolygu CDU, rhoddir pwerau sy'n caniatáu i CDUau gael eu hadolygu ar unrhyw adeg a gofynion pellach sy'n ymwneud â cheisiadau am adolygiad gan blentyn, rhiant y plentyn, neu berson ifanc, neu gan un o gyrff y GIG. Mae hefyd yn ofynnol adolygu CDU ar gyfer person sy'n cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth: trafodir hyn ym Mhennod 19.

25.3 **Dylai** effeithiolrwydd CDU gael ei fonitro'n barhaus gan y corff sy'n gyfrifol am ei gynnal a **dylai** gynnal adolygiadau mor aml ag sy'n ofynnol gan yr amgylchiadau.

25.4 Mae'n bwysig cofio bod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac y gall eu hanghenion newid dros amser. Drwy gylch parhaus o gynllunio, gweithredu ac adolygu, gellir nodi a darparu cymorth neu arbenigedd gwahanol yn ôl yr angen. Dylid cynyddu, lleihau neu newid amrediad ac arddulliau'r cymorth dros amser, felly, yn ôl anghenion a chynnydd y plentyn neu'r person ifanc.

## *Adolygu CDU*

25.5 Mae'r adran hon yn nodi canllawiau ar gyfer y broses a'r gofynion o ran amserlenni ar gyfer y tair sefyllfa wahanol hyn pan ellir cynnal adolygiad o CDU:[1]

(a) adolygiadau a ysgogir gan ysgol, sefydliad addysg bellach ac awdurdod lleol;
(b) ceisiadau am adolygiadau gan blant, eu rhieni a phobl ifanc; a
(c) cheisiadau am adolygiadau gan gyrff y GIG.

[1] Mae'n ofynnol cynnal adolygiad ar ôl rhyddhau person a fu'n cael ei gadw'n gaeth hefyd. Trafodir y mater hwn ym Mhennod19.

**Adolygiadau a ysgogir gan ysgol, sefydliad addysg bellach ac awdurdod lleol (gan gynnwys adolygiadau blynyddol gorfodol)**

25.6 **Caiff**[2] ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal CDU ei adolygu ar unrhyw adeg, ond **rhaid**[3] iddo wneud hynny cyn diwedd pob "cyfnod adolygu". **Caiff**[4] yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU ddiwygio'r CDU yn dilyn yr adolygiad.

25.7 Yn y bôn, cyfnod o flwyddyn ers i'r CDU naill ai gael ei lunio neu ei ddiwygio, neu pan wnaed penderfyniad i beidio â'i ddiwygio yw cyfnod adolygu. At y dibenion hyn, y dyddiad pwysig yw'r dyddiad y cafodd y CDU, y CDU diwygiedig neu'r hysbysiad o benderfyniad i beidio â'i adolygu ei roi gyntaf i'r plentyn, rhiant y plentyn, y swyddog adolygu annibynnol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal neu'r person ifanc. Nid effeithir ar gyfnodau adolygu os trosglwyddwyd y ddyletswydd i gynnal CDU ers y dyddiad hwnnw, nac os bydd y sail ar gyfer cynnal CDU gan awdurdod lleol yn newid wedi i blentyn neu berson ifanc ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu beidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal.[5]

25.8 Mae union fanylion cyfnodau adolygu fel a ganlyn[6];

(a) y cyfnod adolygu cyntaf yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y dyddiad y rhoddir copi o'r CDU gyntaf[7];
(b) pob cyfnod adolygu dilynol yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau gyda —
    (i) y dyddiad yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol pan roddwyd copi o'r CDU diwygiedig gyntaf[8],
    (ii) os na chafodd y CDU ei ddiwygio yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol—
        (1) y dyddiad yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol hwnnw pan roddwyd yr hysbysiad gyntaf am benderfyniad na ddylid diwygio'r CDU[9], neu

[2] Adrannau 23(9) a 24(8) o'r Ddeddf.
[3] Adrannau 23(1) a 24(1) o'r Ddeddf.
[4] Adrannau 23(9) a 24(8) o'r Ddeddf.
[5] Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf; a rheoliad 16 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021.
[6] Adrannau 23(2) - (5) a 24(2) - (4) o'r Ddeddf.
[7] Mae adran 22 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod copi o'r cynllun yn cael ei roi i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol.
[8] Mae adran 23(11) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n diwygio CDU (gan gynnwys yn achos awdurdod lleol, lle y mae'n diwygio CDU a gynhelir gan ysgol y mae wedi ei ailystyried o dan adran 27) roi copi o'r cynllun diwygiedig i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc. Mae adran 24(10) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n diwygio CDU ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano, roi copi o'r CDU diwygiedig i'r plentyn, ei riant a'r swyddog adolygu annibynnol.
[9] Dyma'r hysbysiad o dan adran 23(10) neu adran 24(9) o'r Ddeddf. Mae'r adrannau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, lle y mae'n penderfynu peidio â diwygio cynllun yn dilyn adolygiad, roi gwybod am y penderfyniad hwn a'r rhesymau drosto i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc ac os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y swyddog adolygu annibynnol.

(2) y dyddiad yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol hwnnw pan roddwyd hysbysiad gyntaf o benderfyniad na ddylid diwygio'r CDU, ar ôl i awdurdod lleol ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol,[10] neu

(iii) pan na fydd copi o CDU diwygiedig nac un o'r hysbysiadau hynny (h.y. y rheini ym mharagraff (ii)) wedi'u rhoi yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol, y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod adolygu blaenorol hwnnw.

25.9 Pan fydd copi o CDU diwygiedig neu hysbysiad nad yw'r CDU i'w adolygu yn cael ei roi'n hwyr, hynny yw, ar ôl diwedd y cyfnod adolygu y mae'n ymwneud ag ef, yna dylid anwybyddu'r ffaith fod copi o'r CDU neu'r hysbysiad wedi'i roi[11]. Yr effaith yw (yn unol â pharagraff (iii)) bod y cyfnod adolygu newydd yn dechrau yn union ar ôl diwedd y cyfnod adolygu blaenorol, ac nad yw'r ffaith y rhoddwyd copi o'r CDU neu hysbysiad yn hwyr yn y cyfnod adolygu newydd hwnnw yn sbarduno dechrau'r cyfnod adolygu nesaf a'i fod yn cael ei anwybyddu at ddibenion cyfrifo'r cyfnod adolygu canlynol.

25.10 Mae'r cyfeiriadau uchod at yr hysbysiadau neu'r copïau o CDUau a roddir *gyntaf* wedi'u nodi i ddarparu ar gyfer sefyllfa pan gaiff y cynllun ei roi i fwy nag un person (h.y. plentyn a'i riant ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol), a hynny ar wahanol ddyddiad. Y dyddiad pan roddir y cyntaf sy'n cyfrif, felly[12].

25.11 Caiff y ddyletswydd ar ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU i'w adolygu cyn diwedd y cyfnod adolygu ei thrin fel un a fodlonwyd mewn achosion lle mae'r CDU yn cael ei adolygu neu ei ddiwygio gan gorff arall. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r corff sy'n cynnal y CDU ei adolygu wedyn cyn diwedd y cyfnod adolygu presennol a bydd cyfnod adolygu newydd yn dechrau. Yr achosion hynny yw:[13]

(a) pan gaiff y CDU ei ailystyried gan awdurdod lleol (dim ond yn achos CDU a gynhelir gan ysgol y byddai hyn yn digwydd)[14];
(b) pan fo'r Tribiwnlys yn gorchymyn awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach i ddiwygio'r CDU;
(c) yn achos CDU a gynhelir gan ysgol, pan fo'r Tribiwnlys yn gorchymyn i awdurdod lleol adolygu'r CDU.

25.12 Gellir dangos hyn gydag enghraifft. Os bydd ysgol yn llunio CDU ac yn rhoi copi ohono ar 5 Ionawr, bydd yr ysgol o dan ddyletswydd i'w adolygu cyn

[10] Dyma'r hybysiad o dan adran 27(4) o'r Ddeddf. Mae adran 27(4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sydd wedi ailystyried cynllun a gynhelir gan ysgol, roi hysbysiad o'i benderfyniad (a'r rhesymau drosto) na ddylid diwygio'r cynllun i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc.
[11] Adrannau 23(3) a 24(3) o'r Ddeddf.
[12] Adrannau 23(5) a 24(3) o'r Ddeddf.
[13] Adrannau 23(6) a 24(5) o'r Ddeddf.
[14] O dan adran 27 o'r Ddeddf.

diwedd 4 Ionawr y flwyddyn nesaf. Os bydd y disgybl, yn y cyfamser, yn gwneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y CDU, a bod yr awdurdod lleol naill ai'n rhoi copi o CDU diwygiedig neu hysbysiad o'i benderfyniad na ddylid ei ddiwygio ar 5 Ebrill, bydd y cyfnod adolygu nesaf yn dechrau ar y 5 Ebrill hwnnw ac yn dod i ben y 4 Ebrill canlynol. Yn unol â hynny, ni fydd yr ysgol dan ddyletswydd, bellach, i adolygu'r CDU yn ystod y cyfnod adolygu cyntaf (h.y. erbyn diwedd y 4 Ionawr canlynol, gan fod y ffaith bod yr awdurdod lleol wedi'i ailystyried yn golygu bod y ddyletswydd i adolygu wedi'i chyflawni). Yn hytrach rhaid iddi ei adolygu erbyn diwedd y 4 Ebrill canlynol (a chymryd nad yw'n cael ei ailystyried ymhellach yn y cyfamser gan yr awdurdod lleol na bod Tribiwnlys yn gorchymyn ei ddiwygio nac yn gorchymyn bod yr awdurdod lleol yn ei adolygu). Os bydd yr ysgol wedyn yn cynnal adolygiad rhwng misoedd Ionawr a Mawrth, gan roi copi o'r CDU diwygiedig ar 10 Mawrth, yna daw'r cyfnod adolygu nesaf i ben ar ddiwedd y 9 Mawrth canlynol.

25.13 **Rhaid**[15] rhoi copi o'r CDU diwygiedig (ar gyfer achosion pan benderfynir ei ddiwygio) neu hysbysiad o gasgliad arall i'r adolygiad (e.e. na ddylid diwygio'r CDU – gweler isod) cyn diwedd y cyfnod adolygu.

25.14 Mae ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU yn parhau i fod angen ystyried pryd yn ystod y cyfnod adolygu i ddechrau'r adolygiad. Wrth wneud hynny, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol ystyried y materion canlynol:

(a) y deilliannau arfaethedig a nodir yn y CDU a'r dyddiad targed ar gyfer eu cyflawni, neu gerrig milltir tuag at eu cyflawni;
(b) yr amserlenni ar gyfer cyflwyno unrhyw weithgareddau neu ddarpariaeth yn y CDU;
(c) newidiadau sylweddol a ragwelir sy'n debygol o effeithio ar ADY neu DDdY y plentyn neu'r person ifanc - er enghraifft, os yw'r plentyn neu'r person ifanc ar fin symud ymlaen i gam newydd yn ei addysg, yn enwedig os gallai fod angen gwneud penderfyniad cynnar er mwyn gallu sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am DDdY (gweler Pennod 27 i gael gwybod rhagor am gynllunio trefniadau pontio);
(d) digwyddiadau sy'n digwydd yn ystod y cyfnod adolygu (er enghraifft, dirywiad yn iechyd y plentyn neu'r person ifanc) neu faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n golygu ei bod yn debygol y gallai ADY y plentyn neu'r person ifanc fod wedi newid neu y gallai'r DDdY sydd ei hangen arno fod yn wahanol i'r hyn a nodir yn ei CDU;
(e) a oes asesiadau neu brofion arfaethedig y byddai eu canlyniadau'n effeithio ar y deilliannau arfaethedig, y gweithgaredd a gynllunnir neu'r ddarpariaeth;

[15] Gofyniad a osodir gan y Cod mewn perthynas â'r amserlen. Adrannau 23(10)-(11), 24(9)-(10) a 31(8) o'r Ddeddf yw'r gofynion i roi CDU diwygiedig neu hysbysiad o benderfyniad arall. I osgoi amheuaeth, nid yw'r canllawiau ym Mhennod 1 ynghylch y gofynion o ran amserlen yn gymwys wrth gyfrifo'r cyfnod adolygu, na'r gofyniad hwn.

(f) oedran a chyfradd ddatblygu debygol y plentyn neu'r person ifanc – er enghraifft, ar gyfer plant bach iawn, gellid pennu uchafswm o dri i chwe mis er mwyn sicrhau bod y DDdY yn parhau i fod yn briodol;
(g) pan fo cynllun neu ddogfen arall sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc i'w lunio, ei adolygu neu ei ddiwygio, a fyddai'n fuddiol adolygu'r CDU ar yr un pryd neu wedi hynny[16];
(h) yng ngoleuni cymhlethdod yr achos a ffactorau eraill, hyd tebygol adolygiad, gyda'r bwriad o sicrhau y gellir ei gwblhau erbyn diwedd y cyfnod adolygu.

25.15 Er mwyn gallu gwneud unrhyw baratoadau angenrheidiol i gyfrannu at adolygiad, **dylai** awdurdodau lleol sy'n cynnal CDUau drafod gydag unrhyw leoliad addysg a fynychir gan blentyn neu berson ifanc cyn i'r adolygiad gael ei gynnal. Gallai hyn gynnwys darparu rhestr o'r holl blant a'r bobl ifanc â CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, y bwriedir adolygu eu CDU, i benaethiaid unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach a fynychir ganddynt, cyn dechrau pob tymor.

25.16 **Dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU ymgysylltu'n rheolaidd â'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc er mwyn trafod cynnydd, a dylai hyn yn ei dro gynorthwyo i lywio amseriad yr adolygiad a chyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc (gweler Pennod 4). Os yw'r CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, **dylai'r** awdurdod ystyried sut i gynnwys unrhyw sefydliad a fynychir gan y plentyn neu'r person ifanc wrth ystyried cynnydd ac ymgysylltu â'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc. **Dylai'r** broses o ymgysylltu â'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc gynnwys:

(a) darparu gwybodaeth glir a hygyrch iddynt ynglŷn â chynnydd y plentyn neu'r person ifanc a sut y gallai DDdY fod yn cyfrannu at hyn neu beidio;
(b) darparu cyfleoedd i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc drafod ei farn am y dulliau a'r strategaethau a ddefnyddir;
(c) darparu cyfleoedd i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc drafod pryd mae'n meddwl y gallai adolygiad o CDU fod yn fuddiol a pham.

25.17 Mae'r trafodaethau hyn yn cyfrannu at fonitro parhaus a gellir defnyddio'r dystiolaeth a gesglir ohonynt i lywio'r adolygiad ei hun, yn ogystal â'i amseriad. Hefyd, gallant helpu i ddatblygu hyder yn y DDdY a chryfhau ei heffaith drwy gynyddu cyfraniad y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc at y dulliau a'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio. Hefyd, gall y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ddarparu gwybodaeth hanfodol am effaith DDdY y tu allan i'r lleoliad addysg ac am unrhyw newidiadau i ADY y plentyn neu'r person ifanc. Bydd y ddeialog reolaidd hon yn elfen bwysig o'r broses o benderfynu pryd y gallai adolygiad fod yn briodol.

[16] I gael rhagor o wybodaeth am gynnal adolygiadau ar yr un pryd â dogfennau neu gynlluniau eraill, gweler yr adran ymhellach ymlaen yn y Bennod hon, ynghyd â Phennod 22 ar gyfarfodydd.

25.18 Efallai y bydd ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol am ystyried yr effaith ar adnoddau staff ac effeithiau eraill wrth gynllunio adolygiadau, ac efallai y byddant yn awyddus i'w trefnu fel nad ydynt yn digwydd ar yr un pryd neu'n agos at ei gilydd, ar yr amod nad yw hynny'n cyfaddawdu effeithiolrwydd tebygol pob adolygiad unigol.

25.19 **Caniateir**[17] newid dyddiad adolygiad arfaethedig i ddyddiad cynharach neu ddiweddarach (cyn belled â bod y dyddiad diweddarach yn caniatáu i'r adolygiad gael ei gynnal oddi mewn i'r cyfnod adolygu).

25.20 Yn aml, bydd adolygiad cynharach yn briodol os yw'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol neu os oes gwybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg. Hefyd, gall adolygiad cynharach fod yn briodol os yw deilliant arfaethedig wedi'i gyflawni, neu os yw'n dod i'r amlwg na fydd deilliant arfaethedig yn cael ei gyflawni, neu os na chredir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, ac felly nad oes angen CDU arno. Bydd yn hanfodol olrhain a monitro cynnydd dysgwr yn gyson er mwyn nodi newidiadau sydyn. Gall fod yn briodol newid dyddiad adolygiad i ddyddiad diweddarach, er enghraifft os credir bod angen amser ychwanegol i ystyried effaith ymyriad penodol, wrth aros am ganlyniadau prawf neu archwiliad meddygol sy'n berthnasol i'r adolygiad, neu os yw plentyn neu berson ifanc yn rhy sâl ar y pryd i gyfrannu at yr adolygiad.

### Ceisiadau am adolygiadau gan blant, eu rhieni a phobl ifanc

25.21 Os bydd y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cais i'r ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU adolygu CDU, **rhaid**[18] iddo gynnal adolygiad oni bai ei fod o'r farn bod adolygiad yn ddiangen.

25.22 Os bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn cynnal adolygiad yn dilyn cais o'r fath, **rhaid**[19] iddo gwblhau'r adolygiad (gan gynnwys, fel y gallai ddigwydd, rhoi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad o gasgliad arall o'r adolygiad – gweler paragraffau 25.41 – 25.43) yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler y paragraff dilynol). Nid oes angen i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad cyn diwedd y cyfnod perthnasol hwnnw os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.[20]

25.23 At ddiben paragraffau 25.22 a 25.28 y cyfnod perthnasol yw-

(a) yn achos ysgol, 35 diwrnod ysgol,
(b) yn achos sefydliad addysg bellach, 35 diwrnod yn ystod y tymor, neu

[17] Adrannau 23(9) a 24(8) o'r Ddeddf
[18] Adrannau 23(8) a 24(7) o'r Ddeddf.
[19] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[20] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o wybodaeth am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.

(c) yn achos awdurdod lleol, 7 wythnos,

i'r dyddiad y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol (pa un bynnag sy'n berthnasol) yn cael y cais am adolygiad.

25.24 Os bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn penderfynu bod adolygiad yn ddiangen, **dylai** hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant ac os yw'r awdurdod lleol yn gofalu am y plentyn, y swyddog adolygu annibynnol, am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto.

25.25 Os rhoddir hysbysiad nad oes angen adolygiad, **dylid** rhoi'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 25.47 i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc gyda'r hysbysiad.

25.26 Bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen adolygiad yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Ymhlith y ffactorau sy'n debygol o fod yn berthnasol mae faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r cynllun gael ei lunio neu ei adolygu, a yw'r amgylchiadau wedi newid mewn ffordd a allai effeithio ar y cynllun, neu a oes tystiolaeth neu wybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg a allai effeithio ar y cynllun.

## Ceisiadau am adolygiadau gan gyrff y GIG

25.27 **Rhaid**[21] i ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol adolygu CDU y mae'n ei gynnal os yw'r cynllun yn cynnwys DDdY y mae'n ofynnol i un o gyrff GIG ei sicrhau a bod corff y GIG yn gwneud cais iddo adolygu'r CDU[22]. Os bydd un o gyrff y GIG yn gofyn am adolygiad, **dylai** nodi'r rhesymau dros wneud hynny.

25.28 Os bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn cynnal adolygiad yn dilyn cais o'r fath, **rhaid**[23] iddo gwblhau'r adolygiad, (gan gynnwys, fel y gallai ddigwydd, rhoi copi o'r CDU diwygiedig neu hysbysiad o gasgliad arall i'r adolygiad – (gweler paragraffau 25.41 – 25.43) yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod perthnasol (gweler paragraff 25.23). Nid oes angen i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad cyn diwedd y cyfnod perthnasol hwnnw os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.[24]

[21] Adrannau 23(7) a 24(6) o'r Ddeddf.
[22] I gael rhagor o wybodaeth am gynnal adolygiad ar gyfer CDU sy'n cynnwys DDdY y mae'n ofynnol i un o gyrff y GIG ei sicrhau gweler paragraff 25.32.
[23] Gofyniad (sy'n ddarostyngedig i'r eithriad penodedig) a osodir gan y Cod.
[24] Gweler Pennod 1 i gael rhagor o wybodaeth am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod.

## *Cynnal adolygiadau*

25.29 Diben adolygiad yw ystyried:

(a) cynnydd y plentyn neu'r person ifanc tuag at gyflawni'r deilliannau arfaethedig;
(b) a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY o hyd ac, os felly, a yw ei anghenion wedi newid ac os felly, beth yw'r anghenion hynny bellach;
(c) a yw'r deilliannau arfaethedig yn addas o hyd, a phenderfynu ar ddeilliannau newydd neu ddiwygiedig, os yw hynny'n briodol
(d) a yw'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (sef lle mewn sefydliad penodol; bwyd a llety) i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn neu berson ifanc am DDdY yn dal yn briodol ac a oes angen DDdY ychwanegol neu wahanol;
(e) a yw'n bosibl y bydd angen i'r plentyn neu'r person ifanc gael y DDdY mewn ysgol benodol neu sefydliad arall ac a allai fod angen bwyd a llety;
(f) ystyried unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant y plentyn neu'r person ifanc sy'n effeithio ar y CDU (er enghraifft y cyfnod pontio sydd ar ddod, neu yn achos person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, a oes angen cynnal y CDU i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc i gael addysg neu hyfforddiant (gweler Pennod 17)).

25.30 Mae'r ysgol a gynhelir, yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach sy'n cynnal adolygiad ac unrhyw berson perthnasol arall sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â'r adolygiad (er enghraifft, un o gyrff y GIG sy'n gofyn am newid i'r disgrifiad o'r DDdY) yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc (gweler Pennod 4)[25].

25.31 **Dylai** adolygiadau gynnwys cyfarfod (gweler Pennod 22 ar gyfarfodydd, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cynnal i adolygu CDU).

25.32 Pan fo DDdY yn cael ei nodi mewn CDU fel darpariaeth y mae'n rhaid i gorff y GIG ei sicrhau, **ni chaniateir**[26] ei dileu na'i newid, oni wneir hynny drwy adolygiad a bod corff y GIG wedi gofyn am y newid neu wedi cytuno iddo. At hynny, pan adolygir CDU, os bydd corff y GIG yn gwneud cais i'r disgrifiad o'r DDdY y mae'n ofynnol iddo ei sicrhau gael ei dynnu oddi yno neu ei newid, **rhaid**[27] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais hwnnw.

25.33 Yn ystod yr adolygiad, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol ystyried yr amserlen debygol ar gyfer yr adolygiad nesaf. Gall cynnwys CDU (megis y cyfnod ar gyfer cyflawni canlyniadau, neu'r cyfnod ar gyfer darparu unrhyw DDdY benodol) ddylanwadu ar amseriad adolygiad dilynol. **Dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, yn dilyn trafodaethau gyda'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc

[25] Adran 6 o'r Ddeddf.
[26] Adran 21(6) o'r Ddeddf.
[27] Adran 21(7) o'r Ddeddf.

ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r adolygiad, a chan ystyried y ffactorau a restrir ym mharagraff 25.14, benderfynu ar ddyddiad adolygu arfaethedig. Dylid nodi'r dyddiad hwn yn adran 1B y CDU (gweler Pennod 23). Nid yw'r dyddiad hwn yn rhwymo, ond mae'n amcan o'r amser tebygol pan fydd yn briodol cynnal yr adolygiad nesaf. Serch hynny, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol barhau i fonitro'n barhaus pa mor effeithiol yw'r CDU. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen iddo ddechrau'r adolygiad nesaf yn gynharach neu (ar yr amod na fyddai ar ôl diwedd y cyfnod adolygu) yn hwyrach na'r dyddiad arfaethedig.

25.34 Wrth adolygu'r CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, **rhaid**[28] i'r awdurdod lleol wneud unrhyw benderfyniad ynghylch a oes dal i fod angen ei gynnal i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant yn unol â'r rheoliadau. Mae Pennod 17 yn ymdrin â phryd y bydd angen i awdurdod lleol barhau i gynnal CDU ar gyfer person ifanc. Mae Pennod 29 yn ymdrin â'r broses ar gyfer peidio â chynnal CDU.

**Cynnal adolygiadau ar yr un pryd â dogfennau neu gynlluniau eraill**

25.35 **Caiff**[29] ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol adolygu CDU ar yr un pryd ag y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. **Caiff**[30] yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gynnwys y ddogfen arall honno yn y CDU, a **chaniateir**[31] cynnwys y CDU yn y ddogfen arall honno.

25.36 Pan fo dogfen neu gynllun arall gan y plentyn neu'r person ifanc felly, gallai'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU geisio cydlynu'r gwaith o adolygu'r CDU â'r gwaith o lunio neu adolygu'r ddogfen arall os yw hynny'n briodol (p'un a yw'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y ddogfen arall ai peidio). Os felly, gallai hefyd fod yn briodol neu'n fuddiol cydlynu unrhyw gyfarfodydd y gall fod eu hangen. Mae Pennod 22 yn rhoi rhagor o arweiniad am gydlynu cyfarfodydd at y dibenion hyn.

25.37 Os yw adolygiadau neu brosesau tebyg yn cael eu cynnal ar yr un pryd, rhaid iddynt ddilyn gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol. Er gwaethaf manteision posibl cynnal adolygiadau o wahanol gynlluniau ar yr un pryd, **ni ddylid** gohirio adolygiad o CDUau os bydd hynny'n niweidiol i'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn hwyluso cydadolygu ac **ni cheir**[32] ei ohirio os bydd

[28] Adran 31(6)(b) o'r Ddeddf.
[29] Adran 25 o'r Ddeddf. Yn ogystal ag adolygu CDU, **caiff** yr ysgol, y sefydliad addysg bellach, neu'r awdurdod lleol hefyd lunio neu ddiwygio'r CDU yr un pryd ag y bydd ef neu gorff arall yn gwneud pethau o'r fath mewn perthynas â dogfen arall.
[30] Adran 25 o'r Ddeddf.
[31] Adran 25 o'r Ddeddf.
[32] Gan fod rhaid cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol (er enghraifft, o dan adran 23(1) o'r Ddeddf i adolygu CDU cyn diwedd y cyfnod adolygu), os yw'n gymwys.

hynny'n torri'r gofynion cyfreithiol. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen adolygu'r cynlluniau ar wahanol adegau i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd orau neu i fodloni gofynion cyfreithiol.

25.38 Os bydd awdurdod lleol yn adolygu CDU plentyn sy'n derbyn gofal ganddo, caiff y CDU ei ymgorffori yng nghynllun addysg personol y plentyn, sydd ynddo'i hun yn rhan o gynllun gofal a chymorth y plentyn. Yn aml felly, bydd yn briodol adolygu'r CDU yn rhan o'r adolygiad ehangach o achos y plentyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gallai hyn fod yn briodol hefyd pan fo gan blentyn neu berson ifanc nad yw'n derbyn gofal gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno. Mewn achosion pan fo awdurdod lleol yn gyfrifol am gynllun gofal a chymorth (neu am gynllun cymorth) y plentyn neu'r person ifanc ac am y CDU, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried a ddylid cynnal adolygiad y CDU ar yr un pryd ag adolygiad mewn perthynas â'r cynllun arall.

25.39 Trwy adolygu cynlluniau ar yr un pryd, gellir hwyluso dull mwy holistaidd o gynllunio gofal a chymorth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc; gan ganiatáu ar gyfer ystyried sut y bwriedir diwallu ADY ochr yn ochr â materion perthnasol eraill, megis cefnogaeth addysgol ehangach neu benderfyniadau ynghylch lleoliadau. Gallai hefyd gyfrannu at y drafodaeth ynghylch pa gymorth a DDdY sydd fwyaf addas i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

25.40 Ar adegau eraill, fe allai fod yn fwy priodol, neu hyd yn oed yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion y system ADY, i'r CDU gael ei adolygu ar wahân i unrhyw adolygiad arall. Os cynhelir adolygiadau ar wahân, mae'n bosibl y bydd canlyniad adolygiad o dan un Ddeddf yn arwain at oblygiadau i ddyletswyddau awdurdod lleol (neu berson arall) o dan y Ddeddf arall. Er enghraifft, fe allai adolygiad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddatgelu bod angen adolygu CDU yr unigolyn o dan y system ADY.

## _Casgliadau adolygiad_

25.41 Os mai casgliad yr adolygiad yw y dylid diwygio'r CDU, **rhaid**[33] i'r corff sy'n cynnal y cynllun roi copi o'r CDU diwygiedig i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc ac os yw'r awdurdod lleol yn gofalu am y plentyn, y swyddog adolygu annibynnol.

25.42 Os daw'r adolygiad i'r casgliad na ddylid diwygio'r CDU, **rhaid**[34] i'r corff sy'n cynnal y cynllun hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y swyddog adolygu annibynnol, ynghylch y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

[33] Adrannau 23(11) a 24(10) o'r Ddeddf.
[34] Adrannau 23(10) a 24(9) o'r Ddeddf.

25.43 Os daw'r adolygiad i'r casgliad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach neu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc bellach, bydd y darpariaethau penodol ar beidio â chynnal CDU yn berthnasol. Gweler Pennod 29 i gael y manylion am hyn.[35] Mae'r rhain yn cynnwys hysbysu'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, ei swyddog adolygu annibynnol, am y penderfyniad hwn.

25.44 Mae'r gofynion o ran yr amserlen ar gyfer gwneud y pethau hyn (sef, rhoi copi o CDU diwygiedig neu hysbysiad o un o'r penderfyniadau hyn) wedi'u nodi uchod.

25.45 Os bydd ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yn adolygu'r CDU, gall ddod i'r amlwg bod angen i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU oherwydd natur anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Naill ai yn ystod neu ar ôl yr adolygiad, **caiff**[36] yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ofyn i'r awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb am y CDU. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod y mae'n parhau i gynnal y CDU, mae'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn dal yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i'w adolygu naill ai (fel y gallai fod yn wir) cyn diwedd y cyfnod adolygu neu o fewn yr amserlen ar gyfer cwblhau adolygiad yn dilyn cais o'r fath. Mae Pennod 26 yn ymdrin â cheisiadau i awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb am CDU.

25.46 Yn dilyn adolygiad, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol ystyried hefyd a ddylid rhoi'r CDU (p'un a yw wedi'i ddiwygio ai peidio), neu rannau ohono, i unrhyw un arall (gweler Pennod 1 am ragor o wybodaeth am ddiogelu data).

25.47 Yn dilyn adolygiad, pan fydd ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn hysbysu plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc ynghylch ei benderfyniad i beidio â diwygio CDU neu'n rhoi copi o CDU diwygiedig i blentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc, **rhaid**[37] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol roi'r canlynol hefyd:

(a) y dyddiad arfaethedig ar gyfer dechrau'r adolygiad nesaf;
(b) manylion cyswllt yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, pa un bynnag sy'n berthnasol;
(c) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[38];
(d) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[39] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[40]

[35] Ceir gofynion penodol sy'n ymwneud â pheidio â chynnal CDU am y rhesymau hyn yn adrannau 31 – 33 o'r Ddeddf.
[36] Adran 28 o'r Ddeddf.
[37] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[38] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[39] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[40] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

(e) yn achos CDU a gynhelir gan ysgol, gwybodaeth am hawliau i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y CDU a chymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal[41], a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol;
(f) os bydd y plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yn hytrach na'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (e), gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol ailystyried y CDU[42] a manylion cyswllt yr awdurdod lleol hwnnw;
(g) yn achos CDU a gynhelir gan sefydliad addysg bellach, gwybodaeth am yr hawl i wneud cais bod yr awdurdod lleol cyfrifol yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am ei gynnal[43] a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol (nid yw hyn yn ofynnol os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr gan nad oes awdurdod lleol cyfrifol at ddibenion yr hawl honno);
(h) yn achos CDU a gynhelir gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynghylch agweddau penodol ar y CDU.[44]

25.48 At dibenion hyn, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn ac nid yr un y mae'r plentyn yn ei ardal (os yw hwnnw'n awdurdod lleol gwahanol).

[41] O dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 26.
[42] O dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf.
[43] O dan adran 28 o'r Ddeddf.
[44] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Ceir cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys ynghylch y penderfyniad – gweler Pennod 33.

# Pennod 26: Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol a chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDUau

## *Cyflwyniad*

26.1 Os yw plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc yn anfodlon â phenderfyniad ysgol a gynhelir ynghylch a oes ADY gan y plentyn neu'r person ifanc (sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol) neu os ydynt yn anfodlon â CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol o'r fath, byddai disgwyl i'r anfodlonrwydd hwn gael ei ddatrys yn uniongyrchol gyda'r ysgol fel arfer neu drwy ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer anghytundebau. Fel arall, neu'n ychwanegol lle nad yw'r anghytundeb wedi'i ddatrys, **caiff**[1] plant, eu rhieni, a phobl ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried penderfyniad yr ysgol. Er nad oes hawl i apelio i'r Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY a wneir gan ysgol, gellir apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol wrth ailystyried penderfyniad ysgol ar ADY neu CDU y mae'r ysgol yn ei gynnal. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol gydag ychydig o addasiadau lle mae'r disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

26.2 Ar gais ysgol, sefydliad addysg bellach, plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc, neu wrth ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol, gall awdurdod lleol benderfynu cymryd cyfrifoldeb oddi ar yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach am gynnal CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Gellir apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb. Dim ond os yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru y byddai modd gwneud hyn.

26.3 Gall penderfyniad gan ysgol nad oes gan ddisgybl ADY mwyach (a allai arwain at beidio â chynnal y CDU) gael ei gyfeirio hefyd i'r awdurdod lleol i'w ailystyried, a gellir apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol os mai'r penderfyniad hwnnw yw y dylid peidio â chynnal y CDU. Trafodir y mater hwn ym Mhennod 29.

## *Ailystyriaeth gan yr awdurdod lleol o benderfyniad ysgol a gynhelir am ADY*

26.4 Os yw ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi gwneud penderfyniad[2] ynghylch a oes gan un o'i ddisgyblion cofrestredig ADY, neu os yw wedi gwrthod gwneud penderfyniad o'r fath, **caiff**[3] y disgybl (plentyn neu berson ifanc) neu, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ailystyried y mater. Yn achos plentyn neu berson ifanc sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, gellir gwneud cais i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol ailystyried y mater.

[1] Adrannau 26(1), 27(1) ac 87(2)(a) o'r Ddeddf
[2] Mae hwn yn benderfyniad o dan adran 11(1) o'r Ddeddf.
[3] Adran 26(1) a 87(2)(a) o'r Ddeddf

26.5 Mae hyn yn darparu ffordd i blant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniad yr ysgol neu fethiant yr ysgol i wneud penderfyniad.

26.6 Os bydd awdurdod lleol yn derbyn cais o'r fath, **rhaid**[4] iddo benderfynu p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY oni bai bod yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) bod yr awdurdod lleol eisoes wedi ailystyried y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(b) bod y cais yn ymwneud â phlentyn sydd wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol[5] (ac eithrio pan fo'r plentyn hwnnw o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr);
(c) bod y cais yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc sydd wedi dod yn destun gorchymyn cadw.[6]

26.7 Pan wneir cais o'r fath am ailystyriaeth, **rhaid**[7] i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol a gwahodd yr ysgol i roi ei sylwadau cyn gwneud penderfyniad.

26.8 Gweler Penodau 12 a 15 am ganllawiau a gofynion mewn perthynas ag awdurdod lleol yn penderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ADY. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau o'r fath yn dilyn cais am ailystyriaeth o benderfyniad yr ysgol neu wrthodiad yr ysgol i wneud penderfyniad o'r fath. Dylid darllen yr adran hon o'r bennod hon ar y cyd â rhannau perthnasol y penodau hynny, gan fod y gofynion perthnasol yn y penodau hynny yr un mor gymwys mewn penderfyniadau ailystyried. Fel y nodwyd yn y penodau hynny, mewn achosion ailystyried, y cyfnod perthnasol yn y gofynion amserlenni ar gyfer hysbysu am benderfyniad nad oes gan y disgybl ADY neu i roi copi o CDU (waeth a yw wedi ei baratoi gan yr awdurdod lleol ei hun neu'r ysgol yn dilyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol i wneud hynny), yw 7 wythnos o'r dyddiad y derbynia'r awdurdod lleol gais i ailystyried.[8]

26.9 Os nad yw awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad oherwydd yr eithriad ym mharagraff 26.6(a) (mae wedi ailystyried y mater eisoes ac mae'n fodlon nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwnnw), **dylai** hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am hyn; a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY (gan gynnwys hawliau apelio) os nad yw wedi gwneud hynny'n flaenorol neu'n ddiweddar.

---

[4] Adrannau 26(2), 29, 44 ac 87(2) o'r Ddeddf ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.
[5] Gweler Pennod 14 am ddyletswyddau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.
[6] Gweler Pennod 19 am wybodaeth am blant a phobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw.
[7] Adran 26(3) o'r Ddeddf.
[8] Gweler y penodau hynny am fanylion y gofynion amserlen, yn cynnwys yr eithriad. Gweler Pennod 1 am fwy o wybodaeth am sut y dylid dehongli gofynion amserlen.

26.10 Ar ôl i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad, bydd y penderfyniad hwnnw'n disodli penderfyniad yr ysgol a bydd modd apelio i'r Tribiwnlys yn ei gylch.[9] Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei drin fel penderfyniad a wnaed o dan adran 13(1) o'r Ddeddf. Hynny yw, penderfyniad gan yr awdurdod lleol o dan yr adran honno bod gan ddisgybl, neu nad oes gan ddisgybl, ADY.[10] Gweler Penodau 12 a 15 am ganlyniadau'r penderfyniad.

## *Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o CDU ysgol a gynhelir*

26.11 Os yw ysgol yn cynnal CDU ar gyfer disgybl, **caiff**[11] y disgybl (plentyn neu berson ifanc) neu, yn achos plentyn, rhiant y plentyn wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol, neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol yn achos disgybl sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, ailystyried y CDU gyda golwg ar ei ddiwygio. **Rhaid**[12] i'r awdurdod lleol fynd ati wedyn i ailystyried y CDU a phenderfynu p'un a ddylid ei ddiwygio ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) bod yr awdurdod lleol eisoes wedi ailystyried y CDU ac yn fodlon nad yw anghenion y disgybl wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(b) bod y cais yn ymwneud â phlentyn sydd wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol[13] (ac eithrio pan fo'r plentyn hwnnw o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr);
(c) bod y disgybl wedi dod yn destun gorchymyn cadw.[14]

26.12 Mae hyn yn rhoi modd i blant, eu rhieni a phobl ifanc herio cynnwys CDU a gynhelir gan yr ysgol.

26.13 Pan wneir cais o'r fath, **rhaid**[15] i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol a gwahodd yr ysgol i roi ei sylwadau cyn i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylid diwygio'r CDU.

26.14 **Rhaid**[16] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylai'r DDdY gael ei darparu i'r disgybl yn Gymraeg ac os yw'n penderfynu y dylid darparu math benodol o DDdY yn Gymraeg, **rhaid**[17] i'r corff nodi yn y cynllun y dylai gael ei darparu yn Gymraeg (oni bai bod y cynllun yn darparu ar gyfer hyn eisoes).

---

[9] Adrannau 26(5) a 70 o'r Ddeddf.
[10] Adran 26(4) o'r Ddeddf.
[11] Adrannau 27(1) a 87(2) o'r Ddeddf
[12] Adrannau 27(2), 29, 44 ac 87(2) o'r Ddeddf ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.
[13] Os yw plentyn â CDU yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, mae gan yr awdurdod lleol hwnnw ddyletswydd i gynnal y CDU: adran 35(9)-(10) o'r Ddeddf a gweler Penodau 14 a 28.
[14] Gweler Pennod 19 am wybodaeth am blant a phobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw.
[15] Adran 27(3) o'r Ddeddf.
[16] Adran 14(5) o'r Ddeddf.
[17] Adran 14(5) o'r Ddeddf.

26.15 Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â CDU. Gweler Pennod 2 am wybodaeth am ystyr ADY a DDdY; Pennod 20 am wybodaeth am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen; Pennod 23 am wybodaeth am baratoi CDU a'i gynnwys (sy'n berthnasol i adolygu CDU hefyd); a Phennod 22 am ragor o wybodaeth am gyfarfodydd i adolygu neu ddiwygio CDUau.

26.16 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â diwygio'r CDU, **rhaid**[18] iddo hysbysu'r disgybl, ac os yw'r disgybl yn blentyn, ei riant, am y penderfyniad a'r rhesymau drosto a rhoi copi o'r hysbysiad hwnnw i'r ysgol.

26.17 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod angen diwygio'r CDU, **rhaid**[19] i'r awdurdod lleol lunio CDU diwygiedig a naill ai:
(a) cyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal, neu,
(b) gymryd drosodd y cyfrifoldeb am ei gynnal (gweler isod am fwy am awdurdod lleol yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU).

26.18 Gweler paragraffau 12.85 i 12.89 a 15.90 i 15.94 am fwy o wybodaeth (yn cynnwys cyfyngiadau) am awdurdod lleol yn cyfarwyddo ysgol a gynhelir i gynnal CDU y mae wedi ei ddiwygio.

26.19 Os yw'r awdurdod lleol yn diwygio'r CDU, **rhaid**[20] iddo roi copi o'r cynllun diwygiedig i'r disgybl, ac os yw'r disgybl yn blentyn, ei riant, a'r ysgol.

26.20 **Rhaid**[21] i'r awdurdod lleol ailystyried y CDU, gwneud ei benderfyniad a rhoi naill ai'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff 26.16 (os yw'n penderfynu peidio â diwygio'r CDU) neu gopi o'r CDU diwygiedig (os yw'n penderfynu diwygio'r CDU) yn brydlon ac yn sicr cyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos ar ôl derbyn y cais i ailystyried. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y pethau hynny cyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.[22]

26.21 Pan fydd awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad o'i benderfyniad i beidio â diwygio CDU, neu gopi o'r CDU diwygiedig, i'r disgybl ac, os yw'r disgybl yn blentyn, i riant y disgybl, **rhaid**[23] iddo hefyd roi'r canlynol:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[24];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys

[18] Adran 27(4) a (5) o'r Ddeddf.
[19] Adrannau 27(6) a 28(6) o'r Ddeddf.
[20] Adrannau 23(11) a 27(7) o'r Ddeddf.
[21] Gofyniad (sy'n amodol ar yr eithriad a nodir) a osodir gan y Cod.
[22] Gweler Pennod 1 am fwy o wybodaeth am sut y dylid dehongli amserlenni yn y Cod.
[23] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[24] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

anghytundebau[25] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[26]
(d) gwybodaeth am yr hawliau i apelio i'r Tribiwnlys ynghylch agweddau penodol ar y CDU.[27]

## _Awdurdod lleol yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach_

26.22 **Caiff**[28] ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach, plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU sydd eisoes yn cael ei gynnal ar ei gyfer gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach. Ni ellir gwneud cais o'r fath os yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.[29]

26.23 Gallai ysgol neu sefydliad addysg bellach wneud cais i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU os yw'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn credu, er enghraifft, na fyddai'n rhesymol bellach iddynt sicrhau'r DDdY i ddiwallu ADY plentyn neu berson ifanc.

26.24 Gallai plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU os nad ydynt yn credu bod yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn gallu diwallu eu hanghenion yn llawn, neu os ydynt yn credu bod angen rhagor o DDdY arnynt, neu ddarpariaeth amgen, na all yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ei darparu (ac felly mae'r cais yn debygol o gynnwys cais i'r awdurdod lleol ailystyried y CDU).

26.25 Os yw ysgol neu sefydliad addysg bellach wedi gofyn i'r awdurdod lleol gymryd y cyfrifoldeb am y CDU, **dylai** anfon copi o'r CDU i'r awdurdod lleol ar unwaith, (ar yr amod bod gwneud hynny, a sut mae'n gwneud hynny, yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data), er mwyn iddo allu ystyried y cais. Beth bynnag, os nad oes copi o'r CDU gan yr awdurdod lleol, **caiff**[30] ofyn amdano gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ynghyd ag unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y gallai fod arno ei angen i ystyried y cais (gweler Pennod 21 sy'n ymdrin â'r ddyletswydd ar bersonau perthnasol i gydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu gymorth arall).

26.26 Yn dilyn cais o'r fath, **rhaid**[31] i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros CDU plentyn neu berson ifanc, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

---

[25] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[26] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[27] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[28] Adran 28(1) o'r Ddeddf
[29] O dan adran 28(1) o'r Ddeddf, dim ond i'r awdurdod lleol cyfrifol y gellir gwneud cais ac ni chaiff hyn ei addasu gan adran 87.
[30] O dan adran 65 o'r Ddeddf.
[31] Adrannau 28(3), 29, a 44(1) o'r Ddeddf ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.

(a) bod yr awdurdod lleol eisoes wedi gwneud penderfyniad o'r fath mewn perthynas â CDU y plentyn neu'r person ifanc ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad blaenorol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
(b) bod y cais yn ymwneud â phlentyn sydd wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol[32];
(c) bod y plentyn neu'r person ifanc wedi dod yn destun gorchymyn cadw.[33]

26.27 Cyn gwneud y penderfyniad, **rhaid**[34] i'r awdurdod lleol:

(a) hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, am y cais a gwahodd sylwadau (os mai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sydd wedi gwneud y cais);
(b) hysbysu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach am y cais a gwahodd sylwadau (os mai'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc sydd wedi gwneud y cais).

26.28 Yn ogystal, **caiff**[35] awdurdod lleol benderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU a gynhelir gan ysgol os, wrth ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol, yw'n penderfynu y dylai CDU gael ei ddiwygio.

26.29 Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu ar y mater yn dilyn cais, neu'n penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb wrth ailystyried a diwygio cynllun a gynhelir gan ysgol, **rhaid**[36] i'r awdurdod hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, neu yn achos plentyn, rhiant y plentyn ac (yn unol â'r achos) yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach am y penderfyniad a'r rhesymau drosto. Pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu ar y mater yn dilyn cais i gymryd drosodd y cyfrifoldeb,[37] **dylai'r** hysbysiad i'r plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, rhiant y plentyn, roi'r canlynol hefyd:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[38];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[39] a'i wasanaethau eirioli annibynnol;[40]

[32] Os yw plentyn â CDU yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, mae gan yr awdurdod lleol hwnnw ddyletswydd i gynnal y CDU: adran 35(9)-(10) o'r Ddeddf a gweler Penodau 14 a 28.
[33] Gweler Pennod 19 am wybodaeth am blant a phobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw.
[34] Adran 28(4) a (5).
[35] Adran 28(6) o'r Ddeddf
[36] Adran 28(7) o'r Ddeddf.
[37] Gweler uchod am y gofyniad i roi gwybodaeth debyg lle mae'r penderfyniad i gymryd drosodd cyfrifoldeb yn deillio o ailystyriaeth o'r CDU.
[38] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[39] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[40] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

(d) os penderfynwyd peidio â chymryd cyfrifoldeb dros y cynllun, gwybodaeth am yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r Tribiwnlys.[41]

26.30 **Dylai'r** awdurdod lleol weithredu'n brydlon i benderfynu a ddylai gymryd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU a rhoi'r hysbysiad o'i benderfyniad. Yn sicr, **dylai** wneud hyn cyn diwedd y cyfnod o 7 wythnos ar ôl derbyn y cais i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU oni bai nad yw'n gallu gwneud hynny cyn diwedd y cyfnod hwnnw oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.[42]

26.31 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU, o'r dyddiad pan roddir yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff 26.27, nid yw'n ofynnol bellach i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ei gynnal, a **rhaid**[43] i'r awdurdod lleol ei gynnal. Mae Penodau 12, 15 ac 16 yn ymdrin â dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar gyfer disgybl cofrestredig mwn ysgol a gynhelir a myfyriwr wedi ei gofrestru mewn sefydliad addysg bellach.

26.32 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb, **dylai'r** ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ystyried pa wybodaeth bellach, os o gwbl, i'w rhoi i'r awdurdod lleol sy'n angenrheidiol iddo allu arfer ei swyddogaethau o dan y system ADY, yn cynnwys y ddyletswydd i gynnal y CDU. Bydd angen i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth ddarparu (yn cynnwys sut mae'n darparu) unrhyw wybodaeth i'r awdurdod lleol.

[41] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[42] Nid yw'r diwrnod y daw'r cais i law yn cyfrif tuag at y cyfnod o 7 wythnos ac os nad yw diwrnod olaf y cyfnod hwnnw'n ddiwrnod Gwaith, dylid ei ymestyn i'r diwrnod gwaith nesaf. Mae'r canllawiau am ofynion amserlen a osodir gan y Cod ym Mhennod 1 yn berthnasol i'r canllawiau statudol hyn hefyd.
[43] Adran 28(8) o'r Ddeddf.

# Pennod 27: Cynllunio ar gyfer proses bontio a'i chefnogi

## *Cyflwyniad*

27.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar brosesau pontio pan fo plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn mynd i mewn i leoliadau addysgol, yn symud rhwng un lleoliad addysgol a'r llall, ac yn gadael lleoliadau addysgol. Mae'r bennod yn nodi egwyddorion cyffredinol ac arferion da wrth gynllunio ar gyfer pontio ac yn rhoi sylw i'r cymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar rai dysgwyr ag ADY i oresgyn problemau cyffredin sy'n gysylltiedig â'r broses bontio. Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn profi'r broses bontio mewn gwahanol ffyrdd, ac mae angen i unrhyw gynlluniau ar gyfer cymorth ychwanegol gael eu datblygu o gwmpas anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc.

27.2 Dylid darllen y bennod ar y cyd â'r canllawiau yn y penodau canlynol:

- Pennod 22 ar gynnal cyfarfodydd CDU;
- Pennod 23 ar gynnwys CDU sy'n cynnwys adran benodol ar brosesau pontio;
- Pennod 25 ar adolygu a diwygio CDU;
- Pennod 14 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

27.3 Mae canllawiau ar gael ar brosesau pontio o fewn gwasanaethau eraill sy'n berthnasol i rai dysgwyr ag ADY, a gallai'r rhain helpu i lywio dull mwy cyfannol o gynllunio ar gyfer pontio. Mae'r rhain yn cynnwys yr isod:

- mae gwybodaeth am y broses o bontio o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion i'w gweld mewn canllawiau a ddatblygwyd fel rhan o'r Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc[1];
- mae gwybodaeth am bontio o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion i'w gweld yng nghanllawiau NICE[2];
- mae gwybodaeth am gefnogi'r broses bontio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol i'w gweld mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru[3].

---

[1] Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc - Good transition guidance. A seamless transition from child and adolescent to adult mental health services. Ar gael yn: http://www.goodpractice.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=185&mid=326&fileid=751

[2] NICE (2016) Transition from Children's to Adults' Services for Young People using Health or Social Care Services. NICE guideline: full version. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng43/evidence/full-guideline-pdf-2360240173

[3] Llywodraeth Cymru (2017) Gwneud Gwahaniaeth: canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/gwneud-gwahaniaeth-canllaw-i-r-person-dynodedig-ar-gyfer-plant-sy-n-derbyn-gofal-mewn-ysgolion.pdf

## *Nodau cynlluniau pontio*

27.4 Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn mynd drwy ambell broses bontio yn ystod ei addysg a'i hyfforddiant. Gall cynllunio ymlaen llaw helpu i sicrhau proses hwylus sy'n bwysig i bob plentyn a pherson ifanc o ran ei lesiant a'i ganlyniadau addysgol a chymdeithasol. Mae cysylltiad rhwng prosesau pontio gwael a deilliannau llai llwyddiannus, er enghraifft gall prosesau pontio llai llwyddiannus rhwng y cartref a'r ysgol arwain at lefelau presenoldeb gwael ac ymddieithrio; ac mae prosesau pontio llai llwyddiannus rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn gysylltiedig â lleihad mewn hunan-barch a dirywiad mewn cynnydd academaidd, yn ogystal â lefelau uwch o orbryder ac iselder.

27.5 Gall prosesau pontio fod yn fwy heriol i blant a phobl ifanc ag ADY na'u cyfoedion, ac o ganlyniad, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i sicrhau nad yw'r broses bontio'n cael effaith andwyol ar eu haddysg neu eu hyfforddiant, gan gynnwys eu DDdY.

27.6 Mae cynlluniau pontio fel arfer yn fwyaf effeithiol pan fabwysiedir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ganiatáu i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc leisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'i broses bontio nesaf. Trwy drafod y newidiadau tebygol i addysg neu hyfforddiant y plentyn neu'r person ifanc, gellir helpu i baratoi'r dysgwr ar gyfer y pontio a thynnu sylw at ba gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen. Bydd rhai cyfarfodydd sy'n trafod cynlluniau pontio yn elwa ar gynnwys partneriaid eraill a all helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall sut bydd y broses bontio'n gweithio'n ymarferol a pha gymorth ychwanegol sydd ar gael iddo. Gellir cofnodi unrhyw gymorth ychwanegol a nodwyd ar gyfer pontio yn CDU y plentyn neu'r person ifanc fel bod modd cymryd camau ar yr adeg berthnasol.

27.7 Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer llunio ac adolygu CDU. Felly, gall cyfuno cynlluniau pontio gydag adolygiadau CDU fod yn ffordd effeithlon ac effeithiol o ddefnyddio adnoddau i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc wrth iddo nesáu at gyfnod pontio.

27.8 Nod cynlluniau pontio yw paratoi'r plentyn neu'r person ifanc ar gyfer newid sylweddol yn ei daith addysgol. Trwy nodi'r newidiadau rhwng lleoliadau, gellir helpu i ystyried pa drefniadau y gallai fod eu hangen i sicrhau bod y broses bontio'n llwyddiannus. Gall cynlluniau pontio da leddfu'r pryder a achosir gan amgylcheddau anghyfarwydd a helpu i bontio unrhyw fylchau rhwng lleoliadau o ran y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

## *Gwahanol fathau o bontio*

27.9 Mae pwyntiau pontio mewn addysg yn cynnwys symud i leoliadau cyn-ysgol; ysgol gynradd; ysgol uwchradd; addysg ôl-16; a lleoliadau addysg arbennig a phrif ffrwd, yn ogystal â symud rhyngddynt ac allan ohonynt.

27.10 Byddai cynllunio ychwanegol yn fuddiol ar gyfer pontio i mewn ac allan o gyfnodau addysg penodol hefyd. Gall hyn gynnwys plant a phobl ifanc sy'n paratoi i bontio rhwng cyfnodau allweddol, neu o addysg a hyfforddiant i fyw'n annibynnol.

27.11 Gall rhai plant a phobl ifanc brofi pwyntiau pontio eraill, megis pontio i leoliad addysg ar ôl cael eu cadw mewn llety ieuenctid perthnasol neu mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; o leoliad addysg i lety ieuenctid perthnasol neu ysbyty; neu rhwng llety ieuenctid perthnasol neu ysbytai.

27.12 Mewn rhai achosion, bydd pontio i leoliad newydd hefyd yn golygu pontio CDU i berson (ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol) arall. Er enghraifft, gallai dysgwr bontio o ysgol a gynhelir i sefydliad addysg bellach, neu symud o ardal un awdurdod lleol i un arall. Mewn achosion o'r fath, gall y cyfrifoldeb dros gynnal ei CDU drosglwyddo ar yr un pryd ag y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn symud. (Gweler Pennod 28 i gael gwybod rhagor am drosglwyddo cyfrifoldeb am CDU).

## *Arferion da*

27.13 Gall cynnwys y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc mewn cyfarfodydd i drafod y broses bontio fod yn ffordd effeithiol o ystyried ei farn a chynllunio o amgylch ei anghenion. Hefyd, mae ymchwil[4] wedi dangos bod defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio’r broses bontio yn helpu i wella profiad plant, eu teuluoedd a phobl ifanc drwy leihau dyblygu megis darparu gwybodaeth i nifer o wasanaethau, neu fynychu nifer o adolygiadau. Yn ogystal, gall cael un person i gydlynu'r gwaith o gynllunio proses bontio, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd amlasiantaethol neu rannu gwybodaeth ar draws sefydliadau yn ôl yr angen, leddfu'r baich ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

27.14 Trwy gynllunio prosesau pontio yn gynnar ac mewn modd cydgysylltiedig, gellir cynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY i gael profiad pontio cadarnhaol. Mae'n arfer da gweld cynlluniau pontio fel proses barhaus yn hytrach nag yn un digwyddiad, a theilwra’r broses honno yn ôl anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc.

27.15 Drwy nodi unrhyw beth a allai darfu ar addysg neu hyfforddiant y plentyn neu'r person ifanc, gall cynlluniau pontio da helpu i sicrhau parhad drwy gydol y cyfnod pontio.

27.16 Gall y CDU chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynllunio cyfnodau pontio ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, a’u cefnogi drwyddynt. Er y gall trafodaethau ar brosesau pontio hysbys fel rhan o adolygiad o CDU arwain

[4] Gellir dod o hyd i ymchwil i gostau a manteision gweithwyr allweddol pontio i gefnogi pobl ifanc sy'n pontio i fyd oedolion yn: https://llyw.cymru/costau-manteision-gweithio-trosglwyddo-allweddol-dadansoddiad-o-bum-prosiect-peilot.

at ddiwygio'r DDdY a bennir yn y CDU neu at ddisgrifio lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall, **dylai** cymorth ychwanegol (nad yw'n DDdY) i helpu proses bontio esmwyth gael ei gofnodi ar wahân yn adran 3C o'r CDU (gweler Pennod 23 am gynnwys CDU a Phennod 24 am gynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal). Felly, gall adolygiadau CDU helpu i lywio cynlluniau pontio.

27.17 Er bod y bennod hon yn trafod rhai pwyntiau pontio allweddol ar lwybr addysg plentyn neu berson ifanc, mae'n bwysig ystyried cynlluniau pontio mewn ffordd gyfannol fel rhan o ddatblygiad naturiol plentyn a pherson ifanc. Bydd rhai cyfarfodydd i gynllunio proses bontio yn elwa ar ddull amlasiantaethol sy'n ystyried gwasanaethau perthnasol eraill i unigolion, megis iechyd, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, tai neu wasanaethau cymorth eraill. Gall dull amlasiantaethol helpu i ddarparu pecyn cymorth integredig ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

## *Cynllunio ar gyfer pontio*

27.18 Efallai y bydd angen dulliau gweithredu gwahanol ar wahanol bwyntiau pontio, gan ddibynnu ar ffactorau fel anghenion penodol y plentyn neu'r person ifanc neu natur y lleoliad newydd y mae'n pontio iddo. Felly, efallai y bydd angen ystyried yr amgylchiadau unigol er mwyn ystyried faint o flaen llaw y dylai gwaith cynllunio'r broses bontio ddechrau ar gyfer pob lleoliad newydd.

27.19 Mae pryd y dylid trefnu trafodaeth ar gynlluniau pontio yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis lefel y cymorth sydd ei angen ar y plentyn neu'r person ifanc, neu arwyddocâd y pontio i'r unigolyn. Mewn rhai achosion, gallai'r adolygiad terfynol o'r CDU cyn proses bontio ddisgwyliedig fod yn ddigon i roi rhai trefniadau cefnogi ychwanegol ar waith ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

27.20 Disgwylir y byddai'r gwaith cynllunio ar gyfer proses bontio hysbys yn digwydd yr un pryd ag adolygu CDU fel arfer. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod cynlluniau pontio yn dod yn broses reolaidd y mae plant a phobl ifanc yn dod yn gyfarwydd â hi ac yn teimlo'n gyfforddus yn trafod sut y gallai pontio effeithio arnynt.

27.21 Os bydd y broses bontio'n digwydd cyn yr adolygiad CDU nesaf, efallai y byddai'n briodol symud yr adolygiad CDU yn ei flaen er mwyn gallu rhoi unrhyw gymorth ychwanegol ar waith cyn y broses bontio.

27.22 Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae adolygiad CDU sy'n digwydd yn fuan ar ôl pontio i leoliad newydd yn rhoi cyfle i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc drafod ei brofiad a thrafod a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'w CDU yn sgil hynny. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd person ifanc ag ADY wedi dechrau mewn sefydliad addysg bellach yn ddiweddar.

27.23 Nid yw’r gwaith o gynllunio proses bontio wedi'i gyfyngu i adolygiadau CDU, a gall cynllunio ehangach ddigwydd y tu allan i adolygiad ffurfiol. Gallai hyn fod o gymorth wrth drafod a nodi cymorth ehangach i alluogi'r dysgwr i bontio'n effeithiol. Os daw'n amlwg, yn ystod trafodaeth ar gynllunio proses bontio y tu allan i adolygiad CDU, fod angen diwygio'r CDU, efallai y bydd angen adolygu'r CDU gan nad oes modd diwygio'r disgrifiad o DDdY heb adolygiad. Gweler Pennod 25 am wybodaeth am adolygu a diwygio CDUau.

27.24 Fodd bynnag, bydd yn cymryd llawer mwy o amser i gynllunio rhai pwyntiau pontio nag eraill. Mewn rhai achosion, er enghraifft wrth symud i addysg bellach neu fyw'n annibynnol, gallai fod angen i broses gynllunio lwyddiannus ddechrau o leiaf ddwy flynedd cyn y broses bontio. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall cefnogaeth cynghorwyr gyrfaoedd fod yn arbennig o werthfawr i'r plentyn neu'r person ifanc sy'n pontio.

27.25 Gall rhai prosesau pontio fod yn annisgwyl. Oherwydd hynny, ni fydd modd cynllunio ar gyfer proses bontio benodol ym mhob achos. Fodd bynnag, **caniateir**[5] adolygu CDU ar unrhyw adeg, ac mewn achosion pan fo proses bontio yn annisgwyl, gallai fod yn briodol adolygu CDU i ystyried a yw'r DDdY yn parhau i fod yn briodol yn y lleoliad newydd.

27.26 Mae cynllunio ar gyfer pontio yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am y lleoliad newydd. Mae hefyd yn gyfle i rieni ymwneud â gweithwyr proffesiynol a thrafod y ffordd orau o gefnogi eu plentyn er mwyn sicrhau proses ddidrafferth wrth bontio i'r lleoliad addysg a gofalu bod y plentyn yn cael cymorth i gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r feithrinfa neu'r ysgol.

## Pwy sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio proses bontio?

27.27 Os yw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn bwriadu cynllunio ar gyfer proses bontio sydd ar ddod wrth lunio neu adolygu CDU, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gynnwys yr holl asiantaethau a’r gweithwyr proffesiynol hynny y maent o'r farn eu bod yn angenrheidiol ar gyfer cynllunio proses bontio yn effeithiol. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol wrth gynllunio ar gyfer pontio i leoliad newydd. Yn arbennig, trwy gynnwys gweithwyr proffesiynol o'r lleoliad newydd (os yw'n hysbys), gellir cynnig cyngor arbenigol ar y lleoliad newydd, yn cynnwys y DDdY y gallai'r plentyn neu'r person ifanc fod ei hangen yn y lleoliad newydd a threfniadau i helpu i sicrhau proses bontio esmwyth. Mae Pennod 22 (Cyfarfodydd am ADY a CDUau) yn trafod paratoi ar gyfer cyfarfodydd, a chynnwys gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill ynddynt, gan gynnwys lle mae ffocws ar bontio (gweler yn benodol y canllawiau ym mharagraff 22.31).

[5] Adrannau 23(9) a 24(8) o'r Ddeddf.

### Cofnodi trefniadau pontio

27.28 Mae adran 3C o'r CDU yn caniatáu i drefniadau ar gyfer pontio gael eu cofnodi, gweler Pennod 23 ar gynnwys CDU, Pennod 24 ar gynnwys CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac Atodiad A ar gyfer templed y CDU.

## *Cefnogi'r broses bontio*

27.29 Mae'r adran hon yn trafod cefnogi plant a phobl ifanc sy'n pontio i leoliadau addysg, rhwng un lleoliad a'r llall, ac allan o leoliadau. Mae llawer o'r canllawiau a'r egwyddorion sylfaenol yn berthnasol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc drwy unrhyw broses bontio, ond mae rhai agweddau'n ymwneud mwy â phwyntiau pontio penodol.

### Pontio i leoliad addysg cyntaf dysgwr

27.30 Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r plentyn yn pontio i'w leoliad addysg cyntaf o'i gartref. I lawer o blant ag ADY, byddai trefniadau cyffredinol y lleoliad i gefnogi plant sy'n pontio i leoliad addysg am y tro cyntaf yn ddigonol i leihau unrhyw bryderon a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â dechrau addysg. Fodd bynnag, gallai fod angen amser a chymorth ychwanegol ar rai plant ag ADY wrth bontio i leoliad addysg am y tro cyntaf. Hefyd, mewn rhai achosion, gall y dysgwr fod yn blentyn hŷn neu'n berson ifanc. Dylai'r dull a gymerir i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r broses bontio gyntaf hon ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, lefel yr angen a'r math o leoliad yn ogystal ag ystyried ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau.

27.31 Er enghraifft, wrth gefnogi plentyn sy'n mynd i leoliad addysg am y tro cyntaf, efallai y byddai'n ddefnyddiol trefnu i'r plentyn a'i riant ymweld â'r lleoliad i roi cyfle i ystyried, ochr yn ochr â staff addysgu, sut y gall y plentyn ymateb i'r lleoliad: i deganau a gweithgareddau; beth fyddai'n ei fwynhau efallai; beth allai fod yn anodd iddo; ac a allai fod angen gwneud addasiadau rhesymol. Byddai hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r plentyn gael profiad o'r ystafell ddosbarth, cwrdd â'r athro a staff eraill ac ymgyfarwyddo â'r amgylchedd newydd.

27.32 Gall cael rhywun o'r lleoliad, fel athro neu CADY, i ymweld â chartref y plentyn fod yn gyfle i'r rhiant rannu gwybodaeth mewn amgylchedd lle mae ef neu hi a'r plentyn yn teimlo'n gyfforddus. O safbwynt y lleoliad, mae ymweld â'r cartref yn gyfle i:

- weld y plentyn yn chwarae yn ei gartref ei hun;
- dysgu oddi wrth sgiliau neu dechnegau'r rhieni i gefnogi eu plentyn;
- cael syniad o ddymuniadau, safbwyntiau a theimladau'r plentyn a'i rieni;
- cael darlun llawnach o ble mae'r plentyn arni o ran ei ddysgu a'i ddatblygiad;
- cael syniad o sut y gallai fod angen i'r lleoliad addasu'r trefniadau i gyfateb ag agweddau ar y cartref.

27.33 Gall ffotograffau helpu i greu amgylchedd cyfarwydd a sbarduno trafodaethau gyda'r plentyn. Gallai'r ffotograffau, sy'n cael eu cadw yn y lleoliad addysg, fod o deulu'r plentyn, ei anifeiliaid anwes, neu unrhyw beth arall sy'n helpu i dawelu a chysuro'r plentyn.

27.34 Os oes gan rieni bryderon am allu'r lleoliad i ddarparu amgylchedd dysgu addas i'w plentyn, gallai trafod gyda'r rhiant sut y gall y lleoliad ddiwallu anghenion y plentyn fod yn ddefnyddiol i leddfu pryderon rhieni. Gall hefyd helpu'r lleoliad i ddeall yn well unrhyw addasiadau a allai ei gwneud yn haws cynnwys y plentyn yn yr ystod lawn o weithgareddau'r ysgol.

**Pontio i'r ysgol uwchradd**

27.35 Ar gyfer plant sy'n pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gall materion penodol gynnwys:

- teithio'n annibynnol i'r ysgol;
- ymgyfarwyddo â'r amserlen ac â'r llyfrau a'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer dosbarthiadau penodol;
- dod o hyd i'w ffordd o amgylch yr ysgol;
- cario cyfarpar o gwmpas drwy'r dydd a pheidio â'i golli;
- dysgu enwau athrawon a deall eu disgwyliadau a'u harddulliau addysgu;
- dod yn gyfarwydd â meysydd pwnc newydd;
- trefnu gwaith yn annibynnol a rheoli eu hamserlen eu hunain;
- llai o oruchwyliaeth amser egwyl ac amser cinio;
- deall rheolau'r ysgol;
- cwrdd â phlant nad ydynt yn deall eu ADY o bosibl;
- ymdopi â gweithgareddau fel newid i mewn ac allan o'u gwisg ymarfer corff.

27.36 Trwy drafod y materion hyn gyda CADY neu athro, gellir helpu i lywio pa gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen i sicrhau pontio effeithiol. Gallai hyn gynnwys:

- cyfleoedd i'r plentyn a'i riant gwrdd â phobl allweddol yn y broses bontio;
- cyfleoedd i'r plentyn a'i riant ymweld â'r ysgol sawl gwaith cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol - i gwrdd â'r staff ac ymgyfarwyddo â chynllun yr ysgol;
- creu llyfr o ffotograffau a gwybodaeth i helpu i ymbaratoi ar gyfer symud. Gallai hyn gynnwys lluniau o'r staff addysgu ac adeiladau'r ysgol, map o gynllun yr ysgol a'r amserlen;
- trefnu cyfnod graddol o ddechrau yn yr ysgol newydd;
- sefydlu system gyfeillio.

27.37 Gallai ysgolion hefyd fod am ystyried trefnu gweithdai pontio penodol i blant ag ADY. Gallai hyn helpu plant i ymarfer gweithgareddau sy'n anghyfarwydd iddynt, er enghraifft dewis a thalu am ginio, darllen amserlen a mynd o un

dosbarth i un arall; ac ymarfer defnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol o fewn y lleoliad newydd. Mae gweithdai pontio hefyd yn gyfle i'r lleoliad asesu sut mae trefniadau i blant ag ADY yn gweithio'n ymarferol.

**Pontio o fewn lleoliadau**

27.38 Bydd plant a phobl ifanc yn pontio nifer o weithiau o fewn lleoliadau addysg hefyd. Er enghraifft, symud i fyny i'r flwyddyn ysgol nesaf – er enghraifft symud o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 1; neu symud i gyfnod addysg newydd - er enghraifft, symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.

27.39 Wrth gynllunio proses bontio o fewn lleoliad, gellid ystyried newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pontio, ac unrhyw effaith y gallai'r rhain ei chael ar y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys newidiadau i:

- y cwricwlwm;
- amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol;
- amseroedd egwyl;
- adeiladau a chyfleusterau - er enghraifft, ystafelloedd dosbarth, toiledau, yr ardal fwyta a'r iard chwarae;
- bod gyda disgyblion neu fyfyrwyr hŷn.

27.40 Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus â'r newidiadau hyn mewn lleoliadau, gallai fod yn ddefnyddiol i rai plant a phobl ifanc dreulio amser ychwanegol yn eu hystafell ddosbarth newydd neu ymweld â'r ystafell ddosbarth newydd gyda'u hathro neu weithiwr cymorth presennol. Gallant hefyd ddefnyddio'r amser hwn i dynnu ffotograffau o'r ystafell ddosbarth newydd i'w defnyddio gartref i'w helpu i ymgyfarwyddo a theimlo'n fwy hyderus.

**Cyngor gyrfaoedd**

27.41 Er mwyn helpu plant i wneud penderfyniadau am eu cyrchfan ar ôl addysg orfodol, mae'n bwysig eu bod nhw a'u rhieni yn cael gwybodaeth i'w galluogi i ddeall ac ystyried sut y bydd y cymorth a gânt yn yr ysgol yn newid wrth iddynt symud i leoliadau gwahanol, a pha gymorth sy’n debygol o fod ei angen arnynt er mwyn cyflawni eu huchelgais.

27.42 I'r rhan fwyaf o blant neu bobl ifanc ag ADY, byddai’r cyngor gyrfaoedd a gânt fel rhan o'u haddysg brif ffrwd yn diwallu eu hanghenion. Dylai'r dysgwyr hynny sydd ag ADY ac sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant eisoes fod wedi'u nodi'n grŵp blaenoriaeth sydd ag angen gwasanaethau ychwanegol. Efallai y bydd angen cymorth cynghorwyr gyrfaoedd wrth gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny ag ADY a fyddai'n elwa ar wasanaethau ychwanegol.

27.43 Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i blant a phobl ifanc ynghylch dewisiadau gyrfa gwahanol, yn ogystal â rhannu dyddiadau digwyddiadau agored, er enghraifft yn y sefydliad addysg bellach

lleol. Gallant roi gwybodaeth hefyd am wahanol gyrsiau a chynnig her ac arweiniad i helpu unigolyn i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael, er enghraifft parhau ym myd addysg, gyrfaoedd gwahanol a hyfforddiant galwedigaethol, yn ogystal â gwybodaeth am hawliau cyflogaeth i bobl anabl.

27.44 Ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 9, 10 neu 11, efallai y bydd yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal adolygiad o'u CDU sydd i ystyried pontio o addysg orfodol yn dymuno cynnwys cynghorydd gyrfaoedd yn yr adolygiad, er mwyn trafod opsiynau gyrfa.

## Pontio i addysg bellach

27.45 Efallai y bydd dulliau tebyg i brosesau pontio eraill yn ofynnol wrth ddarparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc ag ADY sy'n symud i addysg bellach. Gall cyfleoedd i ymgyfarwyddo â lleoliad newydd, cwrdd â staff addysgu neu gymryd rhan mewn sesiynau blasu helpu i baratoi pobl ifanc wrth iddynt bontio i sefydliad addysg bellach.

27.46 Mewn rhai amgylchiadau, o bosibl, ni fydd sefydliad addysg bellach wedi bod yn rhan o'r broses bontio cyn i berson ifanc gofrestru. **Dylai** sefydliad addysg bellach roi cyfle i bobl ifanc sôn, pan fyddant yn cofrestru yn y sefydliad addysg bellach, am unrhyw ADY sydd ganddynt a dweud a oes ganddynt CDU neu a ydynt wedi bod ag CDU. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r person ifanc a'r sefydliad addysg bellach drafod ei anghenion a'r cymorth y gallai fod ei angen ac i drafod unrhyw faterion yn ymwneud â chydsyniad y person ifanc.[6] Os nad oes gan y person ifanc CDU, gall fod dyletswydd ar y sefydliad addysg bellach i benderfynu ar ADY.[7] Os oes gan y person ifanc CDU, mae'n bwysig bod y sefydliad addysg bellach yn gwybod hyn: efallai y bydd gofyn i'r sefydliad addysg bellach ei gynnal;[8] neu os yw'n cael ei gynnal gan awdurdod lleol, mae dyletswydd ar y sefydliad addysg bellach i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY.[9] Os yw'n ofynnol i'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU, mae'n gyfle i'r sefydliad addysg bellach ystyried a oes angen adolygiad.

27.47 Bydd cyfarfod adolygu mewn perthynas ag CDU a gynhelir gan awdurdod lleol, lle y trafodir cynlluniau i berson ifanc bontio i sefydliad addysg bellach gyda chynrychiolwyr o'r sefydliad addysg bellach, yn rhoi cyfle da i drafod hefyd pa gorff ddylai fod yn gyfrifol am gynnal y CDU ar ôl i'r person ifanc gofrestru yn y sefydliad addysg bellach. Dylai hyn gefnogi proses bontio lyfn ar gyfer y person ifanc, a dylai sicrhau bod ei CDU yn cael ei drosglwyddo'n brydlon. Gweler Pennod 28 i gael gwybodaeth am awdurdod lleol yn trosglwyddo cyfrifoldeb am CDU i sefydliad addysg bellach.

[6] Gweler Pennod 4.
[7] O dan adran 11 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 16.
[8] Adran 35(4) - (6) o'r Ddeddf. Gweler Pennod 28.
[9] Adran 47(4) - (5) o'r Ddeddf. Gweler Pennod 16.

## Pontio o addysg

27.48 Pan fydd person ifanc ag ADY yn gadael addysg neu hyfforddiant ac yn paratoi ar gyfer bod yn oedolyn, gall cynlluniau pontio helpu gyda'r heriau emosiynol ac ymarferol sydd o'i flaen. Trafodaeth bwysig yn rhan o'i gynllun pontio terfynol yw'r hyn fydd yn digwydd pan fydd ei CDU yn dod i ben, a pha gymorth sydd ar gael iddo yng ngham nesaf ei fywyd. Gall cyngor am y cymorth a ddarperir gan asiantaethau eraill helpu pobl ifanc wrth iddynt adael addysg. Gyda'r cymorth cywir, gall y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY wireddu eu potensial a byw bywydau annibynnol a bodlon.

# Pennod 28: Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU

## *Cyflwyniad*

28.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â:

i. sefyllfaoedd lle mae'r cyfrifoldeb dros gynnal CDU yn trosglwyddo'n awtomatig o un corff i un arall;
ii. sut y gellir trosglwyddo cyfrifoldeb o awdurdod lleol i sefydliad addysg bellach mewn achosion priodol;
iii. canlyniadau trosglwyddiadau o'r fath;
iv. sefyllfaoedd lle mae gan gorff ddyletswydd i baratoi CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a oedd ag un yn ddiweddar ond bod y cyfrifoldeb amdano heb ei drosglwyddo.

28.2 Mae'r cyfrifoldeb am CDU yn cael ei drosglwyddo mewn rhai sefyllfaoedd eraill, ac ymdrinnir â'r rhain mewn rhannau eraill o'r Cod fel a ganlyn:

- trosglwyddo cyfrifoldeb o awdurdod lleol i ysgol a gynhelir ar ôl i awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal – gweler Penodau 12 a 15;
- penderfyniad awdurdod lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynllun a gynhelir gan ysgol neu sefydliad addysg bellach, yn dilyn cais iddo ystyried gwneud hynny, wrth ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol, neu yn dilyn gorchymyn gan y Tribiwnlys – gweler Penodau 26 a 33;
- mewn rhai sefyllfaoedd cadw, gan gynnwys cadw dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 – gweler Pennod 19.

## *Trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU*

28.3 Mae'r CDU yn ddogfen sy'n datblygu dros amser a bwriedir iddo aros gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn ystod y cyfnodau amrywiol o'i addysg os yw'n dal i fod ag ADY ac, yn achos person ifanc, os yw'n cydsynio bod y CDU yn parhau i gael ei gynnal a bod angen cynnal CDU ar ei gyfer o hyd. I sicrhau bod y CDU yn symud gyda'r plentyn neu'r person ifanc fel arfer wrth iddo symud rhwng cyfnodau addysgol ac i sicrhau parhad mewn sefyllfaoedd eraill, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU yn yr achosion canlynol:

i. symud yn ystod y flwyddyn rhwng ysgolion a gynhelir;
ii. symud i ysgol a gynhelir ar ddechrau blwyddyn academaidd, ar ôl bod mewn un arall yn y flwyddyn flaenorol;
iii. symud i sefydliad addysg bellach ar ddechrau blwyddyn academaidd, ar ôl bod mewn ysgol a gynhelir y flwyddyn flaenorol;
iv. plentyn neu berson ifanc yn cael ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad;
v. symud o ardal un awdurdod lleol i un arall;
vi. plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal;
vii. plentyn neu berson ifanc yn peidio â bod yn un sy'n derbyn gofal;

viii. o awdurdod lleol i sefydliad addysg bellach drwy gytundeb neu yn dilyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru.

28.4 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r union amgylchiadau ar gyfer pob un o'r achosion hyn sy'n arwain at drosglwyddo cyfrifoldeb dros gynnal CDU. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae trosglwyddo yn golygu bod un corff (ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol) yn peidio â bod yn gyfrifol am gynnal y CDU a bod ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol arall yn dod yn gyfrifol am wneud hynny yn lle. Fodd bynnag, pan fydd plentyn yn dechrau derbyn gofal neu'n peidio â derbyn gofal, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall yr un awdurdod lleol barhau i fod yn gyfrifol am gynnal y CDU.

**Symud rhwng ysgolion a gynhelir yn ystod y flwyddyn**

28.5 Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, **rhaid**[1] i'r ysgol honno gynnal CDU y plentyn neu'r person ifanc:

(a) os oedd ysgol a gynhelir arall yn cynnal y CDU yn union cyn cofrestru yn yr ysgol, a

(b) os nad oes bwriad i addysg neu hyfforddiant barhau i gael ei ddarparu i'r plentyn neu'r person ifanc yn yr ysgol arall honno (lle mae bwriad o'r fath, mae'n achos cofrestriad deuol, sy'n cael sylw ym mharagraff 28.11).

28.6 Bwriedir i hyn gwmpasu achos plentyn neu berson ifanc sy'n symud rhwng ysgolion a gynhelir yn ystod blwyddyn academaidd pan nad oes bwlch yng nghofrestriad y plentyn neu'r person ifanc.

**Symud i ysgol a gynhelir ar ddechrau blwyddyn academaidd, ar ôl bod mewn ysgol a gynhelir yn y flwyddyn flaenorol**

28.7 Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir cyn diwedd mis Medi mewn blwyddyn academaidd, **rhaid**[2] i'r ysgol honno gynnal CDU y plentyn neu'r person ifanc:

(a) os oedd y plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arall a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, a

(b) os oedd yr ysgol arall honno yn cynnal y CDU ar ddiwrnod olaf yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc yn yr ysgol honno.

28.8 Bwriedir i hyn gwmpasu achos plentyn neu berson ifanc sy'n symud i ysgol a gynhelir newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

---

[1] Adran 35(1) a (3) o'r Ddeddf.
[2] Adran 35(2) a (3) o'r Ddeddf.

**Trosglwyddo o ysgol i sefydliad addysg bellach ar ddechrau blwyddyn academaidd**

28.9 Os yw person ifanc yn cofrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach cyn diwedd mis Medi mewn blwyddyn academaidd[3], **rhaid**[4] i'r sefydliad addysg bellach gynnal CDU y person ifanc:

(a) os oedd y person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol; a
(b) os oedd yr ysgol honno'n cynnal CDU ar gyfer y person ifanc ar ddiwrnod olaf yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarparwyd iddo yn yr ysgol.

28.10 Bwriedir i hyn gwmpasu achos person ifanc sy'n symud o ysgol a gynhelir i sefydliad addysg bellach ar ddechrau blwyddyn academaidd.

**Trosglwyddo CDU pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad**

28.11 Os yw-

(a) ysgol neu sefydliad addysg bellach yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc, a
(b) y plentyn neu'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad,

**rhaid**[5] i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc gynnal y CDU. **Rhaid**[6] iddo wneud hynny o'r diwrnod y mae'n cael ei hysbysu gan ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach o gofrestriad deuol y plentyn neu'r person ifanc a'i CDU, neu o'r diwrnod y mae'n dod yn ymwybodol o'r amgylchiadau hynny fel arall. Os yw'n ymwybodol o'r amgylchiadau hynny, **rhaid**[7] i unrhyw ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (hynny yw, os yw yng Nghymru) lle mae'r plentyn neu'r person ifanc â chofrestriad deuol yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr cofrestredig (p'un a oedd yn cynnal y CDU ai peidio), hysbysu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc o'r amgylchiadau hynny.

28.12 Nid yw hyn yn gymwys os nad oes awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc. Byddai hynny'n wir pe bai'r plentyn neu'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr[8]. Mewn achos o'r fath, **rhaid**[9] i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach (hynny yw, yr un yng Nghymru) sy'n cynnal y

[3] Ar gyfer y trosglwyddiadau hyn, ystyr "blwyddyn academaidd" yw unrhyw gyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf: adran 35(5) o'r Ddeddf.
[4] Adran 35(4) a (6) o'r Ddeddf.
[5] Adran 30(4) a (5) o'r Ddeddf.
[6] Adran 30(5) o'r Ddeddf.
[7] Adran 30(6) o'r Ddeddf.
[8] Adran 30(3)(d) o'r Ddeddf.
[9] O dan adran 12 o'r Ddeddf oni bai bod neu hyd nes bod y ddyletswydd i'w gynnal yn peidio (gweler Pennod 29).

CDU barhau i'w gynnal, hyd yn oed os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gofrestru neu ei gofrestru mewn ysgol neu sefydliad arall.

**Symud o ardal un awdurdod lleol i un arall**

28.13 Pan fo plentyn (ac eithrio plentyn sy'n derbyn gofal) neu berson ifanc yn dod yn gyfrifoldeb i awdurdod lleol, **rhaid**[10] i'r awdurdod lleol hwnnw gynnal CDU y plentyn neu'r person ifanc os oedd awdurdod lleol arall yn cynnal y CDU yn union cyn i'r plentyn neu'r person ifanc ddod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol newydd.

28.14 Mae hyn yn cwmpasu sefyllfa plentyn (nad yw'n derbyn gofal) neu berson ifanc â CDU a gynhelir gan ei awdurdod lleol, sy'n symud ei breswylfa o ardal yr awdurdod lleol hwnnw i ardal awdurdod lleol arall (gweler Pennod 1 am ystyr cyfrifoldeb awdurdod lleol dros blentyn neu berson ifanc).

**Trosglwyddo pan fydd plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal**

28.15 Os:

(a) yw plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, a
(b) oedd CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn yn union cyn i'r plentyn ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal,

**rhaid**[11] i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn gynnal y CDU.

28.16 Os oedd y CDU yn cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn cyn i'r plentyn ddechrau derbyn gofal, nid oes unrhyw newid yn y corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU. Mae'r awdurdod lleol hwnnw'n parhau i fod yn gyfrifol amdano, ond ar sail wahanol: mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i gynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn gymwys (gweler Pennod 14 am ragor o wybodaeth).

**Trosglwyddo pan fydd plentyn yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal**

28.17 Os:

(a) yw plentyn neu berson ifanc yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal,
(b) yw awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, ac
(c) oedd yr awdurdod lleol a oedd yn gofalu am y plentyn neu berson ifanc yn cynnal CDU ar ei gyfer yn union cyn iddo beidio â derbyn gofal,

**rhaid**[12] i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc gynnal y CDU.

[10] Adran 35(7) ac (8) o'r Ddeddf.
[11] Adran 35(9) a (10) o'r Ddeddf.
[12] Adran 35(11) hyd (13) o'r Ddeddf.

28.18 Mae hyn yn cynnwys y sefyllfa pan fo'r plentyn yn peidio â derbyn gofal oherwydd ei fod yn dod yn berson ifanc (pan fydd yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol) hyd yn oed os yw'r person yn parhau i dderbyn gofal at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc pan fydd yn peidio â derbyn gofal yw'r awdurdod lleol a oedd hefyd yn gofalu am y plentyn, nid yw'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo rhwng awdurdodau lleol. Dim ond y sail ar gyfer cynnal y CDU sy'n newid: ni fydd darpariaethau penodol y Ddeddf a'r Cod ar gynnal CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gymwys mwyach ac yn hytrach mae darpariaethau sy'n berthnasol i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc (yn ôl yr achos) yn gymwys.

28.19 Mewn achosion eraill, os yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc yn wahanol i'r un a oedd yn gofalu am y plentyn, mae'r cyfrifoldeb am gynnal y CDU yn trosglwyddo rhwng awdurdodau lleol ac mae'r sail ar gyfer ei gynnal yn newid hefyd (mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn gymwys yn hytrach na'r rhai sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal). Enghraifft o hyn fyddai pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei leoli ar sail hirdymor mewn ardal awdurdod lleol arall a'i fod, ar ôl dod yn berson ifanc, yn aros yn y lleoliad hwnnw ac yn derbyn gofal at ddibenion gwasanaethau cymdeithasol.

28.20 Os yw awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal CDU pan fydd plentyn neu berson ifanc yn peidio â derbyn gofal, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu wedi cofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried ai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach (yn ôl yr achos) ar y naill law, ynteu'r awdurdod lleol ei hun sydd yn y sefyllfa orau i gynnal y cynllun.

### Trosglwyddo o awdurdod lleol i sefydliad addysg bellach

28.21 Mae amrywiaeth o amgylchiadau lle y gallai awdurdod lleol fod yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc sydd wedi cofrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach ond y byddai'n fwy priodol i'r sefydliad addysg bellach ei gynnal. Gallai enghreifftiau gynnwys pan fo plentyn yn peidio â derbyn gofal pan fydd yn dod yn berson ifanc neu pan fydd person ifanc yn cael ei ryddhau ar ôl cyfnod mewn llety cadw ieuenctid perthnasol neu pan na fydd person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad mwyach. Ym mhob un o'r achosion hyn, awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn awtomatig am gynnal cynllun y person ifanc, waeth beth fo lefel yr anghenion. Fodd bynnag, mewn rhai o'r achosion hyn, gallai fod yn fwy priodol i'r sefydliad addysg bellach lle mae'r person ifanc wedi'i gofrestru gynnal y CDU.

28.22 Mae'r adran hon yn ymdrin â sut y gall cyfrifoldeb am CDU person ifanc gael ei drosglwyddo o awdurdod lleol i'r sefydliad addysg bellach lle mae'r person ifanc wedi cofrestru fel myfyriwr. (Gweler Pennod 16 am ragor o wybodaeth am ddyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach.)

28.23 Os yw awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc sy'n fyfyriwr wedi cofrestru mewn sefydliad addysg bellach, neu sy'n dod yn fyfyriwr o'r fath, **caiff**[13] yr awdurdod lleol wneud cais i'r sefydliad addysg bellach ddod yn gyfrifol am gynnal y CDU. **Dylai** ceisiadau o'r fath gael eu gwneud dim ond pan fo'r awdurdod lleol yn credu y byddai'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach sicrhau'r DDdY a nodir yn y CDU a **rhaid**[14] i'r awdurdod lleol ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r person ifanc. **Rhaid**[15] gwneud y cais yn ysgrifenedig a chyflwyno copi o'r CDU gydag ef oni bai bod gan y sefydliad addysg bellach gopi eisoes. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y sefydliad addysg bellach yn gyfarwydd â CDU y person ifanc, hyd yn oed os mai dim ond newydd gofrestru y mae'r person ifanc, gan ei fod yn debygol o fod wedi cael gwahoddiad i fod yn rhan o adolygiad CDU y person ifanc yn ystod ei flwyddyn olaf o addysg orfodol (gweler Pennod 27 am wybodaeth am gynllunio ar gyfer proses bontio a'i chefnogi). Yn rhan o adolygiad o'r fath, mae hyd yn oed yn bosibl bod y sefydliad addysg bellach, yr awdurdod lleol a'r person ifanc wedi trafod pwy ddylai, mewn egwyddor, gynnal y CDU ar ôl i'r person ifanc gofrestru. Felly, efallai y bydd y sefydliad addysg bellach yn gallu ymateb yn gyflym iawn i'r cais. Os oes anghytuno ynghylch pa un ohonynt ddylai gynnal y CDU, **dylai'r** sefydliad addysg bellach a'r awdurdod lleol gydweithio â'r bwriad o ddatrys y mater cyn gynted â phosibl.

28.24 Os yw sefydliad addysg bellach yn cytuno i'r cais, **rhaid**[16] iddo hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig o'i gytundeb ac mae'n dod yn gyfrifol am gynnal y CDU ar:

(a) y dyddiad y cytunwyd arno gan y sefydliad addysg bellach a'r awdurdod lleol ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb;

(b) fel arall, y dyddiad y daw'r cytundeb ysgrifenedig i'r cais i law'r awdurdod lleol.[17]

28.25 Os bydd y sefydliad addysg bellach yn methu â chytuno i'r cais cyn diwedd y cyfnod o 20 diwrnod yn ystod y tymor (mae'r cyfnod hwnnw'n dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r cais ddod i law'r sefydliad addysg bellach), **caiff**[18] yr awdurdod lleol gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru, o fewn y pedair wythnos ddilynol.[19] **Rhaid**[20] i'r awdurdod lleol atgyfeirio'r cais yn ysgrifenedig yn ogystal â rhoi copi ar yr un pryd i Weinidogion Cymru o'r adrannau hynny o'r CDU sy'n cynnwys y disgrifiad o'r ADY a'r disgrifiad o'r

[13] Adran 36(1) a (2) o'r Ddeddf.
[14] Adran 6 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 4.
[15] Rheoliad 13 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[16] Rheoliad 12 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[17] Rheoliad 12 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Mae'r ddyletswydd i'w gynnal yn adran 12(4) o'r Ddeddf.
[18] Adran 36(3) o'r Ddeddf a Rheoliad 14 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[19] Os nad yw diwrnod olaf y cyfnod o 4 wythnos yn ddiwrnod gwaith, caiff y cyfnod ei ymestyn i'r diwrnod gwaith nesaf (rheoliad 2(4) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021). Ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.
[20] Rheoliad 14 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

DDdY, ynghyd â chopi o unrhyw wybodaeth arall yn y CDU y mae'r awdurdod lleol yn ei hystyried yn angenrheidiol er mwyn penderfynu ar y mater.

28.26 Os bydd awdurdod lleol wedi atgyfeirio cais atynt, **rhaid**[21] i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylai'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU. Cyn penderfynu, **rhaid**[22] i Weinidogion Cymru hysbysu'r person ifanc a'r corff llywodraethu am yr atgyfeiriad a'u gwahodd i roi sylwadau.

28.27 Pan fyddant wedi penderfynu, **rhaid**[23] i Weinidogion Cymru hysbysu'r person ifanc, yr awdurdod lleol a'r sefydliad addysg bellach am y penderfyniad (ynghylch a ddylai'r sefydliad addysg bellach gynnal yr CDU) a'r rhesymau drosto.

28.28 Os yw Gweinidogion Cymru'n penderfynu y dylai'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU, **rhaid**[24] i'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU:

(a) o'r dyddiad a all fod wedi'i nodi yn yr hysbysiad o'r penderfyniad;

(b) fel arall, o'r dyddiad y mae'r hysbysiad yn dod i law'r sefydliad addysg bellach.

## *Canlyniadau trosglwyddo*

28.29 Os yw cyfrifoldeb dros gynnal CDU yn cael ei drosglwyddo o un corff ("yr hen gorff") i gorff arall ("y corff newydd") o dan unrhyw rai o'r amgylchiadau a nodir uchod, **rhaid**[25] i'r hen gorff roi copi o'r CDU i'r corff newydd ar ôl dod yn ymwybodol o'r amgylchiadau sy'n arwain at y trosglwyddiad. Hefyd, os yw awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol am gynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal a'r CDU gynt yn cael ei gynnal gan gorff arall, **rhaid**[26] iddo roi copi o'r cynllun i swyddog adolygu annibynnol y plentyn.

28.30 **Rhaid**[27] i'r corff newydd hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, ei fod wedi dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun.

28.31 Cyn gynted ag y bydd y corff newydd yn gyfrifol am gynnal y CDU, mae'n ofynnol iddo ei gynnal yn union fel pe bai'n ei gynnal ar ôl ei lunio ei hun. Mae dyletswyddau a phwerau sy'n gysylltiedig â chynnal CDU o dan yr amgylchiadau penodol yn gymwys ac mae canllawiau yn y Cod ar faterion o'r fath yn berthnasol hefyd. Er enghraifft, mae'n ofynnol i'r corff newydd sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y CDU ac adolygu'r CDU cyn diwedd y cyfnod

[21] Adran 36(4) o'r Ddeddf.
[22] Rheoliad 14 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[23] Rheoliad 14 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[24] Rheoliad 14 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac mae'r dyletswydd i'w gynnal yn adran 12(4) o'r Ddeddf.
[25] Rheoliad 15 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[26] Adran 22(3) o'r Ddeddf.
[27] Adran 22(2) o'r Ddeddf.

adolygu[28], yn union fel y byddai wedi bod yn ofynnol i'r hen gorff ei adolygu cyn diwedd y cyfnod hwnnw pe na bai'r cyfrifoldeb dros wneud hynny wedi trosglwyddo. Yn yr un modd, ni chaiff y corff newydd ond peidio â chynnal y CDU yn unol â'r rheolau ar beidio â chynnal CDU.[29]

28.32 Bydd y rhan fwyaf o achosion o drosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU yn digwydd fel rhan o brosesau pontio arferol plentyn neu berson ifanc rhwng cyfnodau addysg (gweler Pennod 27 am ganllawiau ar ymdrin â phrosesau pontio). Os felly, yn yr adolygiad diwethaf cyn y pontio, dylid bod wedi ystyried pa DDdY fyddai ei hangen yn y flwyddyn i ddod, yn cynnwys ar ôl y broses bontio, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y CDU. Mewn achosion trosglwyddo eraill, efallai na ragwelwyd yr amgylchiadau wrth wraidd y trosglwyddiad yn yr adolygiad diwethaf ac efallai y bydd angen adolygiad ar unwaith yn sgil yr amgylchiadau hynny, er enghraifft, os yw'r plentyn wedi symud tŷ ac o ganlyniad, na all fynychu ysgol neu sefydliad arall a enwir yn y CDU mwyach. Yn yr holl achosion trosglwyddo sy'n cael sylw yn y bennod hon, **dylai'r** corff newydd ystyried a ddylid cynnal adolygiad cynnar o'r CDU pan fydd wedi dod yn gyfrifol am ei gynnal, er mwyn sicrhau bod ei gynnwys, yn enwedig y DDdY, yn briodol yng nghyd-destun amgylchiadau newydd y plentyn neu'r person ifanc (hyd yn oed os oedd yn gysylltiedig â'r cynlluniau pontio). Os yw'r cyfnod adolygu perthnasol i fod i ddod i ben cyn bo hir, bydd yn rhaid i'r corff newydd adolygu'r CDU beth bynnag gan ei fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i adolygu'r CDU cyn diwedd y cyfnod adolygu (gweler Pennod 25 am adolygu CDUau).

## *Dyletswydd i sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall*

28.33 Os:

(a) oes dyletswydd ar yr awdurdod lleol sy'n dod yn gyfrifol am y CDU, yn rhinwedd trosglwyddo CDU o un awdurdod lleol i un arall, i sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad penodol arall a ddisgrifir yn y cynllun er mwyn diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am DDdY[30]; a
(b) nad yw'n ymarferol mwyach i blentyn neu berson ifanc fynychu'r ysgol neu sefydliad arall yn sgil yr amgylchiadau sydd wedi arwain at y trosglwyddiad;

nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau lle yn yr ysgol neu'r sefydliad yn gymwys hyd nes ei bod yn bosibl diwygio'r cynllun, ac eithrio pan fo'r awdurdod lleol yn trefnu bwyd a llety fel y disgrifir yn y paragraff nesaf.[31]

[28] Gweler Pennod 25 am wybodaeth am adolygiadau a chyfnodau adolygu, gan gynnwys ar ôl trosglwyddo.
[29] Gweler Pennod 29.
[30] Yn unol ag adran 14(6) neu 19(4) o'r Ddeddf – gweler Pennod 23 am ragor o fanylion am hyn.
[31] Rheoliad 17 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

28.34 Hyd nes ei bod yn bosibl diwygio'r CDU, **caiff**[32] yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU drefnu bwyd a llety er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc allu parhau i fynychu'r ysgol neu'r sefydliad a enwir yn y CDU. Os trefnir bwyd a llety ar y sail hon, **ni chaiff**[33] yr awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am y ddarpariaeth honno.

## *Achosion lle nad yw'r ddyletswydd i gynnal CDU yn cael ei throsglwyddo, ond bod gan blentyn neu berson ifanc CDU blaenorol*

28.35 Weithiau, gall fod achosion pan fo'r ddyletswydd i gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn peidio â bod yn gymwys heb iddi gael ei throsglwyddo i gorff arall, ond bod corff yn fuan wedi hynny yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Gallai hyn ddigwydd mewn nifer o amgylchiadau, er enghraifft, pan fydd plentyn neu berson ifanc yn symud o un lleoliad addysgol i un arall yn dilyn bwlch yn ei addysg ac nad yw'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn cael ei throsglwyddo. Gallai hefyd ddigwydd os yw person ifanc mewn addysg bellach yn gwrthwynebu bod y CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, ond ei fod yn newid ei feddwl yn ddiweddarach. Yn ogystal, gall ddigwydd pan fydd person sydd â CDU wedi treulio cyfnod byr yn y carchar ac yn dychwelyd i'r sefydliad addysg bellach a fynychwyd ganddo'n flaenorol ar ôl cael ei ryddhau. Mewn achosion o'r fath, gallai ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol fod â dyletswydd i benderfynu a oes gan y person ADY ac, os felly, dyletswydd i lunio a chynnal CDU. Mae'n bosibl bod yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol hwnnw wedi cynnal y CDU yn y gorffennol, neu gallai fod wedi'i gynnal gan ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol arall.

28.36 Os yw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn gwybod bod CDU gan y plentyn neu'r person ifanc yn ddiweddar, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gymryd y CDU hwnnw (ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig arall) i ystyriaeth os yw ar gael. Oni bai bod amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol, dylai darparu'r CDU blaenorol olygu bod modd gwneud penderfyniadau a llunio CDU newydd yn gyflymach. Yn yr un modd, os bydd plentyn neu berson ifanc yn symud o Loegr i Gymru ar ôl bod â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal tra'n byw yn Lloegr, gall darpariaethau'r Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal helpu i lywio'r gwaith o lunio unrhyw CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. O dan yr amgylchiadau hyn ac unrhyw rai eraill lle mae plentyn neu berson ifanc wedi bod â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn ddiweddar, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol ystyried y Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal hwnnw (ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig arall), os yw ar gael, wrth benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac wrth lunio unrhyw CDU.

[32] Rheoliad 17 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[33] Adran 49 o'r Ddeddf.

# Pennod 29: Peidio â chynnal CDU

## *Cyflwyniad*

29.1. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r amgylchiadau amrywiol pan fydd y dyletswyddau i gynnal CDU yn peidio. Yn rhai o'r amgylchiadau hyn, bydd y dyletswyddau yn peidio yn sgil newid mewn amgylchiadau, e.e. os na fydd plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol bellach. Yn yr achosion hyn, efallai mai corff arall fydd wedyn â'r ddyletswydd o gynnal y CDU - gweler Pennod 28 ar drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU. Mewn achosion eraill, bydd y ddyletswydd i gynnal CDU yn peidio yn dilyn penderfyniad nad oes gan y person ADY bellach, neu (dim ond lle bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc) nad oes angen ei gynnal bellach.

29.2. Mae'r bennod hon hefyd yn nodi'r camau i'w cymryd cyn ac ar ôl penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, neu nad oes angen bellach cynnal CDU ar gyfer person ifanc, a'r ffyrdd y gellir herio penderfyniadau o'r fath.

## *Pan fydd dyletswydd ysgol i gynnal CDU yn peidio*

29.3. Yn achos CDU a gynhelir gan ysgol, bydd dyletswydd yr ysgol i gynnal CDU plentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol[1] yn peidio yn yr amgylchiadau canlynol:

(a) os bydd yr ysgol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach, ac os na chaiff y penderfyniad hwnnw ei herio'n llwyddiannus[2] (gweler isod i gael rhagor o fanylion);
(b) os yw'r disgybl yn berson ifanc nad yw bellach yn cydsynio y dylid cynnal y CDU, neu yn achos plentyn sy'n tyfu'n berson ifanc, os nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r CDU gael ei gynnal[3] (gweler Pennod 4 i gael rhagor o fanylion am gydsyniad person ifanc);
(c) os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol[4]. Mewn achosion felly, efallai y bydd y ddyletswydd i gynnal cynllun yn trosglwyddo i gorff arall, yn dibynnu ar yr amgylchiadau (gweler Pennod 28 am drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU);
(d) os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gofrestru mewn dau leoliad a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y disgybl. Mewn achosion felly, mae'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol[5] (gweler Pennod 28);

---

[1] Mae'r ddyletswydd i'w chynnal o dan adran 12 o'r Ddeddf.
[2] Adrannau 31(5), 32 a 33 o'r Ddeddf.
[3] Adran 12(2)(b) o'r Ddeddf.
[4] Adran 31(1)(a) o'r Ddeddf.
[5] Adran 30(3) a (4) o'r Ddeddf.

(e) os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd y cyfrifoldeb dros y CDU[6] (gweler Pennod 26 i gael gwybod rhagor am awdurdodau lleol sy'n cymryd y cyfrifoldeb dros gynnal CDU);
(f) os yw'r disgybl yn blentyn sy'n dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru[7]. Mewn achosion felly, mae'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod sy'n gofalu am y plentyn[8] (gweler Pennod 28 ac 14 am y dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal ganddynt);
(g) os yw awdurdod lleol yn Lloegr yn dechrau cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.[9] Dim ond os yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr y byddai hyn yn digwydd;
(h) os daw'r plentyn neu'r person ifanc yn destun gorchymyn cadw (gweler Pennod 19 am blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchmynion cadw)[10].

## *Pan fydd dyletswydd sefydliad addysg bellach i gynnal CDU yn peidio*

29.4. Yn achos CDU a gynhelir gan sefydliad addysg bellach ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr yn y sefydliad addysg bellach, bydd dyletswydd y sefydliad addysg bellach i gynnal y CDU[11] yn peidio yn yr amgylchiadau canlynol:

(a) os bydd y sefydliad addysg bellach yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY bellach, ac os na chaiff y penderfyniad hwnnw ei herio'n llwyddiannus[12] (gweler isod i gael rhagor o fanylion);
(b) os nad yw'r person ifanc, bellach, yn cydsynio y dylid cynnal y CDU[13] (gweler Pennod 4 i gael rhagor o fanylion am gydsyniad person ifanc);
(c) os bydd y person ifanc yn peidio â bod yn fyfyriwr ymrestredig yn y sefydliad addysg[14];
(d) os bydd y person ifanc yn cael ei gofrestru mewn dau leoliad a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y person ifanc. Mewn achosion felly, mae'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol (gweler Pennod 28 am drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU);[15]
(e) os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd y cyfrifoldeb dros y CDU[16] (gweler Pennod 26 i gael gwybod rhagor am awdurdodau lleol sy'n cymryd y cyfrifoldeb dros gynnal CDU);

[6] Adran 28(8) o'r Ddeddf.
[7] Adran 31(1)(b) o'r Ddeddf.
[8] Adran 35(9) a (10) o'r Ddeddf.
[9] Adran 12(2)(d) o'r Ddeddf.
[10] Adran 44 o'r Ddeddf.
[11] Mae'r ddyletswydd i'w gynnal o dan adran 12 o'r Ddeddf.
[12] Adrannau 31(5) a 33(4) o'r Ddeddf.
[13] Adran 12(2)(b) o'r Ddeddf.
[14] Adran 31(2) o'r Ddeddf.
[15] Adran 30(3) a (4) o'r Ddeddf.
[16] Adran 28(8) o'r Ddeddf.

(f) os yw awdurdod lleol yn Lloegr yn dechrau cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.[17] Dim ond os yw'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr y byddai hyn yn digwydd;
(g) os daw'r person ifanc yn destun gorchymyn cadw[18] (gweler Pennod 19 am blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchmynion cadw).
(h) os yw'r person ifanc yn cyrraedd 25 oed[19], gan y bydd y ddyletswydd i gynnal y CDU yn peidio ar ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person yn cyrraedd yr oedran hwnnw[20].

## *Pan fydd dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio*

29.5. Yn achos CDU a gynhelir gan awdurdod lleol ar gyfer plentyn neu berson ifanc, bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal y CDU[21] yn peidio yn yr amgylchiadau canlynol:

(a) os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach, ac os na chaiff y penderfyniad hwnnw ei herio'n llwyddiannus[22] (gweler isod i gael rhagor o fanylion);
(b) yn achos person ifanc, os nad yw'n cydsynio bellach y dylid cynnal y CDU, neu, yn achos plentyn sy'n tyfu'n berson ifanc, os nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r CDU gael ei gynnal[23] (gweler Pennod 4 i gael rhagor o fanylion am gydsyniad person ifanc);
(c) os yw'r awdurdod lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am y plentyn (ar yr amod nad yw'r plentyn yn derbyn gofal) neu'r person ifanc[24] - hynny yw, os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal yr awdurdod lleol bellach.[25] Byddai hyn yn berthnasol, er enghraifft, os yw plentyn yn symud i fyw o fewn ardal awdurdod lleol arall, ac felly byddai'r awdurdod lleol arall hwnnw yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y plentyn. Os bydd awdurdod lleol arall yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y plentyn neu'r person ifanc, bydd y ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol arall hwnnw[26] (gweler Pennod 28 am drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU);
(d) yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, os yw'r person yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (am ba reswm bynnag, gan gynnwys am fod y plentyn yn berson ifanc bellach) ac os nad yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y person (h.y. nid yw'r plentyn o fewn ei

[17] Adran 12(2)(d) o'r Ddeddf.
[18] Adran 44 o'r Ddeddf.
[19] Adran 34(1) o'r Ddeddf.
[20] Mae adran 34(2)(a) yn diffinio blwyddyn academaidd mewn perthynas â pherson ifanc sy'n mynychu sefydliad addysg bellach, fel cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf.
[21] Mae dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal o dan adran 14 o'r Ddeddf neu, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, o dan adran 19 o'r Ddeddf.
[22] Adrannau 31(6)(a) a 33(4) o'r Ddeddf.
[23] Adran 14(3) o'r Ddeddf.
[24] Adran 31(3)(a) o'r Ddeddf.
[25] Adran 99(4) o'r Ddeddf. Caiff y materion hyn eu hegluro ymhellach ym Mhennod 1.
[26] Adran 35(7) a (8) o'r Ddeddf.

ardal).[27] Os bydd awdurdod lleol arall yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, bydd y ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol hwnnw (gweler Pennod 14 am blant sy'n derbyn gofal a Phennod 28 am drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal CDU);

(e) yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, os yw'r plentyn yn peidio â bod o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru[28], er enghraifft, pe bai'r plentyn yn cael ei osod gyda rhieni maeth yn Lloegr;

(f) yn achos plentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, os yw'r awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol gynnal y cynllun[29] (gweler Penodau 12 a 15 am wybodaeth am gyfarwyddo ysgolion a gynhelir yn y modd hwn)

(g) yn achos person ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, os yw'r sefydliad addysg bellach yn cytuno i gais gan yr awdurdod lleol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y CDU neu fod Gweinidogion Cymru wedi pennu y dylai'r sefydliad addysg bellach gynnal y cynllun[30] (gweler Pennod 28);

(h) os daw'r plentyn neu'r person ifanc yn destun gorchymyn cadw[31] (gweler Pennod 19 ar blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchmynion cadw);

(i) yn achos person ifanc, pan fydd yn cyrraedd 25 oed[32], gan fod y ddyletswydd i gynnal y CDU yn peidio ar ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person yn cyrraedd yr oedran hwnnw[33];

(j) yn achos person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen cynnal y CDU bellach i ddiwallu anghenion addysg neu hyfforddiant rhesymol y person ifanc ac nad yw'r penderfyniad hwnnw wedi cael ei herio'n llwyddiannus.[34] (gweler isod i gael gwybod rhagor).

29.6. Mewn achosion eraill sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, gallai dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar sail benodol beidio, ond gallai fod dyletswydd arno i'w gynnal ar sail arall. Mae hyn o dan yr amgylchiadau canlynol:

---

[27] Adrannau 31(4)(a) (y mae'r ddyletswydd i gynnal y cynllun o dan adran 19 yn dod i ben oddi tani) a 35(11) - (12) (y mae'r ddyletswydd i gynnal y cynllun yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol cyfrifol os oes un o ganlyniad iddi).

[28] Adran 31(4)(b) o'r Ddeddf.

[29] Adrannau 12(3) a 14(4) o'r Ddeddf.

[30] Adran 12(4) o'r Ddeddf.

[31] Adran 44(1) a (2)(d) o'r Ddeddf, adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 ac mewn perthynas â phlant a oedd yn derbyn gofal yn union cyn dod yn berson a gedwir yn gaeth, adran 15(1)(b) o'r Ddeddf.

[32] Adran 34(1) o'r Ddeddf.

[33] Mae adran 34(2) yn diffinio blwyddyn academaidd at y dibenion hyn fel:

- mewn perthynas â pherson ifanc sy'n mynychu sefydliad addysg bellach, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf, a
- o ran unrhyw berson ifanc arall, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae cwrs addysg neu hyfforddiant y person ifanc yn dod i ben neu'r diwrnod cyn y bydd y person ifanc yn troi'n 26 oed (pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf).

[34] Adrannau 31(6)(b) a 33(4) o'r Ddeddf.

(a) os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn[35] a bod y plentyn yn dechrau derbyn gofal gan yr awdurdod lleol hwnnw. Os felly, **rhaid**[36] i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y cynllun, ond ar y sail bod y plentyn yn derbyn gofal;[37]
(b) os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano[38] a bod y person yn peidio â derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf (am ba reswm bynnag, efallai am fod y plentyn yn berson ifanc bellach) a bod yr awdurdod lleol yn gyfrifol am y person. Yn yr achos hwn, **rhaid**[39] i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y cynllun, ond nid ar y sail bod y person yn derbyn gofal.[40] Os yw'n fwy priodol i'r ysgol a gynhelir neu'r sefydliad addysg bellach a fynychir gan y person ifanc gynnal y cynllun yn hytrach na'r awdurdod lleol, gallai'r awdurdod lleol cyfrifol gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU neu ofyn i'r sefydliad addysg bellach ddod yn gyfrifol amdano (gweler Penodau 12, 14, 15 a 28).

## *Penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach*

29.7. Mae anghenion ac amgylchiadau plentyn neu berson ifanc yn debygol o newid dros amser. Gallant newid i'r graddau bod person yr arferai fod ganddo ADY yn cyrraedd cyfnod pan nad oes ganddo ADY. Gall hyn ddigwydd oherwydd newid yn yr amgylchiadau a achosodd yr ADY efallai, neu am reswm arall. Mae p'un a oes gan berson ADY ar unrhyw adeg yn dibynnu bob amser ar b'un a yw'r diffiniad o ADY yn adran 2 a'r diffiniad o DDdY yn adran 3 o'r Ddeddf yn wir ar y pryd, ni waeth a oes CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y person ai peidio. Ni ragdybir y bydd plentyn neu berson ifanc â CDU yn parhau i fod ag angen cynllun o'r fath hyd ddiwedd ei gyfnod addysg neu hyfforddiant (er bod natur anhawster dysgu neu anabledd rhai yn golygu bod hyn yn debygol iawn). Os nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, nid oes angen cynnal CDU, ac mae'r Ddeddf yn amlinellu'r broses ar gyfer peidio â'i gynnal.

29.8. Dim ond o ganlyniad i gasgliad adolygiad o'r CDU y **dylai** ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol benderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach (gweler Pennod 25 i gael gwybod am adolygiadau). Ceir canllawiau ar y diffiniad o ADY ac adnabod plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY ym Mhenodau 2 a 20.

[35] O dan adran 14 o'r Ddeddf.
[36] Mae adran 35(9) a (10) o'r Ddeddf a'r ddyletswydd i'w gynnal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal o dan adran 19.
[37] Yn yr achos annhebygol bod yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yn wahanol i'r un a oedd yn cynnal CDU ar gyfer y plentyn cyn i'r plentyn ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n gofalu sydd â'r ddyletswydd i gynnal y CDU o dan adran 19 o'r Ddeddf a byddai dyletswydd yr awdurdod lleol arall o dan adran 14 yn dod i ben: adran 35(9) - (10).
[38] O dan adran 19 o'r Ddeddf.
[39] Adran 35(11) i (13) o'r Ddeddf.
[40] Hynny yw, nid o dan adran 19, ond o dan adran 14 o'r Ddeddf.

29.9. Cyn y gall ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol benderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY mwyach, **rhaid**[41] iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, swyddog adolygu annibynnol y plentyn, ei fod yn bwriadu gwneud penderfyniad o'r fath. **Dylai'r** corff wedyn ganiatáu digon o amser i'r bobl hynny ystyried y mater a rhoi eu barn arno (mae dyletswydd[42] ar y corff i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc). **Dylai** hyn ddigwydd drwy'r broses adolygu arferol.

## *Hysbysu am benderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach*

29.10. Os yw'r ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY mwyach, **rhaid**[43] iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, yn achos plentyn, rhiant y plentyn ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, am y penderfyniad, a'r rhesymau drosto. Yn achos ysgol, **rhaid**[44] i'r ysgol hefyd hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn, rhiant y plentyn o'i hawl i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.[45]

29.11. Yn ychwanegol, **rhaid**[46] i'r hysbysiad i'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol (fel y bo'n briodol);
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY.[47];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[48] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[49];
(d) yn achos penderfyniadau sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol, gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[50]

29.12. At y dibenion hyn, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn ac nid yr un y mae'r plentyn yn ei ardal (os yw'n awdurdod lleol gwahanol).

[41] Adran 31(7) o'r Ddeddf.
[42] O dan adran 6 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 4.
[43] Adran 31(8) o'r Ddeddf.
[44] Adran 31(9) o'r Ddeddf.
[45] Dyma'r hawl o dan adran 32 o'r Ddeddf.
[46] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[47] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[48] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[49] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[50] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.

29.13. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc, a allai fod yn bryderus bod y CDU yn peidio, **dylai'r** hysbysiad hefyd ddarparu gwybodaeth, fel y bo'n briodol, am unrhyw gymorth parhaus sydd ar gael i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc (nad ydynt yn rhai ADY). Yn achos penderfyniadau a wneir gan ysgol neu sefydliad addysg bellach, gallai hyn gynnwys cymorth parhaus y bydd yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn ei ddarparu drwy ddefnyddio strategaethau addysgu gwahaniaethol neu debyg.

## *Pan fydd awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol i beidio â chynnal CDU*

29.14. Os bydd plentyn, ei riant neu berson ifanc yn anfodlon â phenderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan y disgybl ADY bellach, disgwylir i'r anfodlonrwydd hwn gael ei ddatrys yn uniongyrchol gyda'r ysgol fel rheol, neu drwy ddilyn trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer datrys anghytundebau.[51]

29.15. Fel arall, neu yn ychwanegol at hynny, gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol[52] ailystyried penderfyniad yr ysgol[53]. Mae hyn yn darparu ffordd i blant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniad yr ysgol.

29.16. Mae gan blentyn, ei riant neu berson ifanc 4 wythnos[54] i ofyn i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried penderfyniad yr ysgol a gynhelir. Mae'r 4 wythnos yn dechrau adeg rhoi'r hysbysiad o benderfyniad yr ysgol.[55] Pan wneir cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, **rhaid**[56] i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai'r ysgol roi'r gorau i gynnal y CDU a **rhaid**[57] iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, yn achos plentyn, rhiant y plentyn ac (ym mhob achos) yr ysgol am y penderfyniad a'r rhesymau drosto. **Rhaid**[58] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon.

29.17. Cyn i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad, **rhaid**[59] iddo roi gwybod i'r ysgol am y cais a gwahodd yr ysgol i roi ei sylwadau. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael, a chael

---

[51] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[52] At ddibenion ceisiadau o'r fath, yr awdurdod lleol cyfrifol yn achos disgybl yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (adran 87(2)(a) o'r Ddeddf). Ym mhob achos arall, mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ddisgybl os yw yn ardal yr awdurdod lleol (adran 99(4) o'r Ddeddf).
[53] Adran 32 o'r Ddeddf.
[54] Rheoliad 12 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[55] Yn yr un modd â chyfnodau eraill (gweler Pennod 1), nid yw'r diwrnod pan roddir yr hysbysiad yn cyfrif tuag at y 4 wythnos (mae'r 4 wythnos yn dechrau y diwrnod nesaf) ac os nad yw diwrnod olaf y cyfnod o 4 wythnos yn ddiwrnod gwaith, estynnir y cyfnod i gynnwys y diwrnod gwaith nesaf: rheoliadau 2(4) ac 12(1) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021. Pan fo hysbysiadau'n cael eu rhoi ar ddiwrnodau gwahanol, mae'r cyfnod o 4 wythnos yn rhedeg o'r diwrnod hwyraf o'r diwrnodau y rhoddwyd hysbysiad arnynt: rheoliad 12 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[56] Adran 32(2) o'r Ddeddf.
[57] Adran 32(3) o'r Ddeddf.
[58] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[59] Gofyniad a osodir gan y Cod.

gafael ar ragor o wybodaeth, fel y bo'n briodol, er mwyn gwneud y penderfyniad. Mae dyletswydd[60] yr awdurdod lleol i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc yn gymwys.

29.18. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y dylid cynnal y CDU, **rhaid**[61] i'r ysgol barhau i'w gynnal. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu na ddylid cynnal y CDU, **rhaid**[62] i'r ysgol beidio â chynnal y CDU, ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad ar beidio â chynnal cynllun a nodwyd isod.

29.19. Cyn gynted ag y bydd yr awdurdod lleol penderfynu, bydd y penderfyniad hwnnw'n disodli penderfyniad yr ysgol a bydd modd apelio i'r Tribiwnlys yn ei gylch.[63]

29.20. Os mai'r penderfyniad yw y dylai'r ysgol beidio â chynnal y CDU, **rhaid**[64] i'r hysbysiad am y penderfyniad hwnnw (y cyfeirir ato ym mharagraff 20.16) hefyd roi:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[65];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[66] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[67];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad.[68]

## *Penderfynu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc bellach*

29.21. Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, **caiff**[69] yr awdurdod lleol beidio â chynnal y CDU os bydd yn penderfynu nad oes angen cynnal y CDU, bellach, i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant rhesymol y person ifanc.

29.22. Dim ond yn sgil casgliad adolygiad y **dylid** penderfynu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc bellach (gweler Pennod 16 am

[60] O dan adran 6 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 4.
[61] Adran 32(4) o'r Ddeddf.
[62] Adran 32(5) o'r Ddeddf.
[63] Adran 70 o'r Ddeddf. Mae Pennod 33 yn ymdrin ag apeliadau.
[64] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[65] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[66] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[67] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[68] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 33.
[69] Adran 31(6)(b).

adolygiadau). **Rhaid**[70] i'r awdurdod lleol benderfynu yn unol â'r rheoliadau[71]. Gweler Pennod 17 am ganllawiau ychwanegol am y rheoliadau hyn gan gynnwys pryd mae angen parhau i gynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach.

29.23. Cyn y gall awdurdod lleol wneud penderfyniad nad yw bellach yn angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer person ifanc, **rhaid**[72] iddo hysbysu'r person ifanc ei fod yn bwriadu gwneud penderfyniad o'r fath. Yna, **dylai'r** awdurdod ganiatáu digon o amser i'r person ifanc ystyried y mater a rhoi ei farn arno (mae dyletswydd[73] yr awdurdod i gynnwys a chefnogi pobl ifanc yn berthnasol a dylai bod y person ifanc eisoes wedi bod yn rhan o'r broses lle'r oedd yr awdurdod lleol yn ystyried a oes angen parhau i gynnal y CDU). **Dylai** hyn ddigwydd drwy'r broses adolygu arferol.

## *Hysbysiad o benderfyniad nad yw CDU yn angenrheidiol mwyach i berson ifanc*

29.24. Os yw'r awdurdod lleol wedi mynd ymlaen i benderfynu nad oes angen cynnal CDU mwyach ar gyfer y person ifanc, **rhaid**[74] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad, a'r rhesymau drosto.

29.25. Yn ogystal, **rhaid**[75] i'r hysbysiad i'r person ifanc roi:

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddod o hyd i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[76];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[77], a'i wasanaethau eirioli annibynnol[78];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad[79].

## *Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynlluniau er mwyn ei gwneud yn bosibl ailystyried a/neu apelio*

29.26. Yn dilyn penderfyniad gan ysgol nad oes gan ddisgybl ADY bellach, **ni chaiff**[80] yr ysgol beidio â chynnal y CDU oni bai-

---

[70] Adran 31(6)(b) o'r Ddeddf.
[71] Gweler rheoliadau 6 i 9 o Atodlen 1 i Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[72] Adran 31(7) o'r Ddeddf.
[73] O dan adran 6 o'r Ddeddf. Gweler Pennod 4.
[74] Adran 31(8) o'r Ddeddf.
[75] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[76] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[77] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[78] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[79] O dan adran 70 o'r Ddeddf. Mae modd apelio'r penderfyniad i'r Tribiwnlys – gweler Pennod 33.
[80] Adran 33(1) - (3) o'r Ddeddf.

(a) bod y cyfnod o 4 wythnos ar gyfer gwneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y mater wedi dod i ben ac na wnaed cais o'r fath, neu
(b) os yw'r awdurdod lleol wedi ailystyried y mater ac wedi penderfynu y dylid peidio â chynnal y cynllun -

i. bod y cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys[81] wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno, neu
ii. bod apêl wedi'i chyflwyno yn ystod y cyfnod hwnnw a bod y mater wedi'i setlo'n llawn.

29.27. Yn achos CDU a gynhelir naill ai gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, yn dilyn penderfyniad nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach neu benderfyniad gan awdurdod lleol nad oes angen bellach cynnal y cynllun, **ni chaiff**[82] y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol beidio â chynnal y CDU hyd nes y bydd un o'r ddau opsiwn canlynol wedi digwydd, pa un bynnag fydd yn cymryd hiraf-

(a) bod y cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys[83] wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno, neu
(b) os cyflwynir apêl yn ystod y cyfnod hwnnw, pan mae'r mater wedi'i setlo'n llawn.

[81] Darperir ar ei gyfer o dan Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021; a gweler Pennod 33.
[82] Adran 33(4) o'r Ddeddf.
[83] Darperir ar ei gyfer o dan Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021; a gweler Pennod 33.

# Pennod 30: Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd

## *Cyflwyniad*

30.1 Mae'r bennod hon yn egluro sut y gall plentyn nad oes ganddo alluedd, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf, ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am rôl cyfaill achos, a sut y caiff ei benodi a'i ddiswyddo gan y Tribiwnlys.

30.2 Ni waeth a oes gan blentyn alluedd ai peidio, mae'n dal i allu gwneud cyfraniad sylweddol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am ei ADY a **rhaid**[1] iddo gael gwybodaeth a chymorth i'w alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny (gweler Pennod 4). Os nad oes gan blentyn alluedd, mae'r ddyletswydd[2] gyffredinol ar y rheini sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw i'r canlynol yn berthnasol o hyd:

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn;
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau; a
- phwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i'r plentyn er mwyn ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

30.3 Ar gyfer plant yn y system ADY, mae galluedd yn ymwneud yn benodol â'u gallu i ddeall materion yn ymwneud â'r system ADY (gweler paragraff 30.5).

30.4 I sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u parchu, a'u galluogi i arfer eu hawliau o dan y system ADY, **caiff**[3] plant nad oes ganddynt alluedd ddefnyddio cyfaill achos i'w cynrychioli a'u cynorthwyo a gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae cyfeillion achos yn arbennig o bwysig pan fydd ar blentyn nad oes ganddo alluedd angen cyflwyno apêl yn ei enw ei hun, er enghraifft pan nad oes ganddo riant sy'n fodlon neu'n gallu mynd ati ar ran y plentyn i ddatrys anghydfod neu gyflwyno achos i'r Tribiwnlys.

## *Plant nad oes ganddynt alluedd*

30.5 Mae'r Ddeddf yn nodi bod plentyn nad oes ganddo'r galluedd i ddeall y canlynol[4]:

- gwybodaeth neu ddogfennau y mae'n rhaid eu rhoi iddo mewn perthynas â'i ADY; neu
- yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau a roddir iddo o dan y system ADY;

[1] Adran 6 o'r Ddeddf.
[2] Adran 6 o'r Ddeddf.
[3] Adran 85 o'r Ddeddf.
[4] Adran 84 o'r Ddeddf.

yn blentyn nad oes ganddo alluedd at ddibenion y Ddeddf. Mewn rhai achosion, oedran y plentyn fydd y rheswm nad oes ganddo alluedd. Mewn achosion eraill, efallai mai ADY y plentyn fydd y rheswm. Gall gallu plentyn i ddeall newid dros amser.

30.6 Os bydd awdurdod lleol, corff llywodraethu ysgol neu un o gyrff y GIG yn ystyried nad oes gan blentyn alluedd, nid yw'r dyletswyddau neu'r amodau penodol canlynol yn gymwys[5]:

- y ddyletswydd i hysbysu plentyn neu i roi gwybod i blentyn[6] (gweler Pennod 1);
- y ddyletswydd i roi copi o gynllun neu gynllun diwygiedig i blentyn[7] (gweler Pennod 25);
- y ddyletswydd i roi gwybod i blentyn bod corff yn bwriadu atgyfeirio mater i un o gyrff y GIG, a rhoi cyfle i'r plentyn drafod a ddylai'r atgyfeiriad gael ei wneud[8] (gweler Pennod 21);
- y ddyletswydd i adolygu cynllun yn dilyn cais gan blentyn[9] (gweler Pennod 25);
- y ddyletswydd i ailystyried yn dilyn cais gan blentyn[10] (gweler Pennod 26);
- y ddyletswydd i benderfynu a ddylai awdurdod lleol gymryd drosodd gynllun a gynhelir gan gorff llywodraethu yn dilyn cais gan blentyn[11] (Gweler Pennod 26).

30.7 Bydd rhieni plentyn yn parhau i fod â'r hawliau hyn pan na fydd gan y plentyn alluedd.

### Asesu galluedd plant

30.8 Mae asesu galluedd plant yn ymwneud â gallu'r plentyn i ddeall materion sy'n gysylltiedig â'i ADY, fel y'i nodir ym mharagraff 30.5. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr athrawon yn yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu yn gwybod a oes ganddo alluedd ai peidio am eu bod yn gweithio gyda'r plentyn yn ddyddiol. Gall cyrff y GIG ac awdurdodau lleol hefyd asesu galluedd plentyn.[12]

30.9 Os yw plentyn neu riant y plentyn yn anghytuno â phenderfyniad nad oes gan y plentyn alluedd, gellir ei herio fel a ganlyn:

[5] Y dyletswyddau a'r amodau hyn yw'r rhai a restrir yn adran 84(1) o'r Ddeddf.
[6] O dan adrannau 11(4), 13(3), 18(3), 22(2), 23(10), 24(9), 27(4), 28(4), 28(7), 31(7), 31(8), 31(9), 32(3), 40(4) neu 42(6) o'r Ddeddf. Mae'r holl gyfeiriadau hyn yn cwmpasu'r dyletswyddau yn y Ddeddf i hysbysu neu roi gwybod i blentyn.
[7] O dan adrannau 22(1), 23(11), 24(10) neu 40(5) o'r Ddeddf.
[8] Fel y mae'r amodau yn gymwys i blentyn o dan baragraffau (a) a (b) o adran 20(3) o'r Ddeddf.
[9] O dan adran 23(8) neu 24(7).
[10] O dan adran 26(1), 27(1) neu 32(1)(b). Mae'r rhain yn ymwneud â'r dyletswyddau i ailystyried a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, ailystyried CDU a phenderfynu a ddylid ei ddiwygio ai peidio ac ailystyried y penderfyniad i beidio â chynnal CDU.
[11] O dan adran 28(1) o'r Ddeddf.
[12] Mae asesu galluedd plentyn yn wahanol i'r asesiad mwy ffurfiol a gynhelir ar gyfer pobl ifanc neu rieni plant a allai fod heb alluedd (gweler Pennod 31).

- Gall plentyn neu ei riant atgyfeirio penderfyniad bod gan, neu nad oes gan blentyn alluedd, i'w ailystyried gan yr awdurdod lleol. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn alluedd, gall y plentyn arfer yr hawliau penodol a roddwyd iddo[13];
- Gall plentyn neu riant plentyn wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad[14] bod gan, neu nad oes gan blentyn alluedd[15] (gweler paragraff 30.12). Os yw'r Tribiwnlys yn datgan bod gan y plentyn alluedd, gall y plentyn arfer yr hawliau penodol a roddwyd iddo;
- Pan nad oes gan blentyn alluedd, caiff y Tribiwnlys drwy orchymyn benodi person i fod yn gyfaill achos. Pan fydd cyfaill achos wedi'i benodi, mae'r hawliau a roddwyd i'r plentyn i gael eu harfer gan y cyfaill achos ar ran y plentyn.

30.10 Dim ond i blant nad oes ganddynt alluedd y mae cyfeillion achos ar gael. Os penderfynir bod gan blentyn alluedd, bydd cymorth arall ar gael iddo[16], er enghraifft bydd modd iddo ddefnyddio eiriolwyr annibynnol (gweler Pennod 32).

30.11 Yn ogystal ag ymateb i gais, caiff y Tribiwnlys hefyd benderfynu ynghylch galluedd plentyn ar ei ysgogiad ei hun. Er enghraifft, os yw plentyn yn cyflwyno apêl ei hun heb gyfaill achos, gall y Tribiwnlys asesu galluedd y plentyn. Os yw'r Tribiwnlys o'r farn nad yw'r plentyn yn deall yr hyn y mae'n ei olygu i arfer ei hawliau, bydd yn atal yr achos hyd nes bod cyfaill achos wedi'i benodi.

30.12 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd tystiolaeth gan athro'r plentyn neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill sy'n adnabod y plentyn yn ddigon i'r Tribiwnlys wneud ei asesiad ar alluedd y plentyn. Gallai'r dystiolaeth hon fod yn ddatganiad sy'n rhoi barn wybodus am lefel galluedd y plentyn. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau efallai y bydd ar y Tribiwnlys angen tystiolaeth arbenigol i gefnogi ei benderfyniad.

## _Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd_

30.13 Mae'r Ddeddf yn nodi y gall plentyn nad oes ganddo alluedd gael rhywun i'w gefnogi, sef "cyfaill achos". Caiff cyfaill achos:

- gynrychioli a chefnogi'r plentyn; a
- gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn.

30.14 **Rhaid**[17] i gyfeillion achos:

[13] Adran 84(5) a (6) o'r Ddeddf.
[14] I gael gwybodaeth am sut i wneud cais i'r Tribiwnlys am Ddatganiad, gweler Pennod 33, paragraffau 33.8 hyd 33.10.
[15] Adran 70(3) o'r Ddeddf.
[16] Adrannau 6 a 69 o'r Ddeddf.
[17] Adran 85(6) o'r Ddeddf.

(a) weithredu mewn ffordd deg a chymwys;
(b) peidio â bod â buddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn;
(c) sicrhau bod yr holl gamau a phenderfyniadau a wneir gan y cyfaill achos er lles y plentyn; a
(d) ystyried barn y plentyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

**Diben a swyddogaethau cyfaill achos**

30.15 Mae gan blant, a rhieni, hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys. Mae cyfeillion achos yn caniatáu i blant nad oes ganddynt alluedd ac sy'n dymuno cyflwyno eu hachos eu hunain, gael cynrychiolaeth a llais, er enghraifft, os nad yw eu rhieni'n gallu cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys neu fynd ati i ddatrys anghydfod. Pan fo angen, gall plentyn ddefnyddio cyfeillion achos yn gynharach yn y broses cyn gweithdrefn fwy ffurfiol ar gyfer datrys anghydfod neu apêl.

30.16 Mae cyfeillion achos yn wahanol i eiriolwyr annibynnol am eu bod yn arfer hawliau'r plentyn ar ei ran o dan ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf[18]; tra bod eiriolwyr annibynnol yn cynnig cyngor a chymorth a chynrychiolaeth[19]. Mae cyfeillion achos yn gwrando ar y plentyn ac yn gweithio gydag ef i sicrhau bod ei lais yn cael ei gynrychioli bob amser mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno.

30.17 Fel arfer, bydd rhiant neu warcheidwad gyda'r plentyn pan fydd yn trafod ei ADY gydag athro neu gydlynydd ADY, neu pan fydd yn mynd i gyfarfod ynghylch CDU. Fodd bynnag, os penodwyd cyfaill achos, gall y cyfaill achos hefyd fynd i'r cyfarfodydd hyn i'w gefnogi a'i gynrychioli a gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'i ADY.

30.18 Os yw'r plentyn yn anghytuno ynghylch rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i ADY, gall cyfaill achos ddefnyddio'r trefniadau a wnaed gan yr awdurdodau lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[20]. Wrth wneud y trefniadau hyn, bydd angen i'r awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gallai cyfeillion achos gael eu defnyddio a sicrhau bod unrhyw drefniadau a gweithdrefnau hefyd yn cynnwys y cyfaill achos, pan fo'n briodol. Gall defnyddio cyfeillion achos o'r cychwyn cyntaf fod yn ddefnyddiol er mwyn datrys materion yn gynnar, gan osgoi llwybr mwy ffurfiol a beichus i'r Tribiwnlys. Gweler Pennod 32 am ragor o wybodaeth ynghylch osgoi a datrys anghytundebau.

30.19 Os bydd anghytundeb yn cyrraedd y Tribiwnlys, gall cyfeillion achos gefnogi'r plentyn drwy broses yr apêl ac yn ystod y gwrandawiad ei hun. Er nad oes angen i'r plentyn gael cydsyniad ei riant i gyflwyno apêl yn ei enw ei hun, os nad oes gan y plentyn alluedd, **rhaid**[21] iddo gael cyfaill achos er mwyn parhau ag apêl a wnaed i'r Tribiwnlys.

[18] Adran 85(4) o'r Ddeddf.
[19] Adran 69(2) o'r Ddeddf.
[20] Adran 68 o'r Ddeddf.
[21] Rheoliad 62 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.

30.20 Os defnyddir cyfaill achos pan fydd plentyn yn cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys, **rhaid**[22] i ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon yr holl wybodaeth a dogfennau perthnasol yn ymwneud â'r achos at y cyfaill achos yn hytrach nag at y plentyn. Gweler Pennod 33 i gael gwybod rhagor am apeliadau.

30.21 Efallai y bydd ar gyfeillion achos sy'n gweithredu ar ran plant angen cymorth gan rywun sydd â dealltwriaeth fanwl o'r system ADY. Mae gwasanaethau eirioli annibynnol hefyd ar gael i gyfaill achos plentyn. **Rhaid**[23] i awdurdod lleol gyfeirio cyfaill achos at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol os yw'r cyfaill achos wedi gofyn am y gwasanaeth hwn.

**Penodi a diswyddo cyfaill achos gan y Tribiwnlys**

30.22 Ni ellir ond penodi neu ddiswyddo cyfeillion achos drwy orchymyn gan y Tribiwnlys. Caiff y Tribiwnlys benodi cyfaill achos ar ei ysgogiad ei hun, neu yn dilyn cais gan rywun arall[24].

30.23 Wrth benodi cyfaill achos, bydd y Tribiwnlys yn penderfynu ar ei gymhwystra drwy asesu ffurflen gais sy'n cynnwys datganiad o addasrwydd a gwblhawyd gan y sawl sy'n gwneud cais i fod yn gyfaill achos. Diben y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r ffurflen gais yw galluogi'r Tribiwnlys i asesu a fydd y sawl sy'n gwneud cais yn gyfaill achos addas i'r plentyn. Lluniwyd y ffurflen gan y Tribiwnlys ac mae ar gael ar ei wefan neu drwy wneud cais am gopi yn ysgrifenedig.

30.24 Gellir gwneud cais i'r Tribiwnlys ar unrhyw adeg pan fo angen cyfaill achos ar blentyn i'w helpu i ymgysylltu â'r system ADY. Nid oes rhaid aros nes cymryd rhan yn y trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundebau, neu hyd nes bod apêl wedi'i hanfon i'r Tribiwnlys.

30.25 **Rhaid**[25] i'r cais adlewyrchu'r meini prawf cymhwystra sy'n seiliedig ar bedwar amod y mae'n **rhaid**[26] i gyfeillion achos eu dilyn (gweler paragraff 30.14).

30.26 Fel arfer, bydd cyfaill achos yn berthynas neu'n gyfaill agos i deulu'r plentyn hy rhiant, llys-riant, brawd, llysfrawd, chwaer, llyschwaer, hanner brawd, hanner chwaer, mam-gu neu dad-cu/nain neu daid, ewythr, modryb, nai neu nith. Fodd bynnag, gall fod yn unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ac nad yw ar restr waharddedig y plentyn. Yn ogystal, **rhaid**[27] atodi gwiriad manwl y DBS a gwybodaeth yn ymwneud â'r rhestr waharddedig gyda'r ffurflen datgan addasrwydd, oni bai bod y sawl sy'n gwneud cais i fod yn gyfaill achos yn berthynas agos.[28]

[22] Rheoliad 62(4) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[23] Adran 69(1)(c) o'r Ddeddf.
[24] Adran 85(2) o'r Ddeddf.
[25] Adran 85(6) o'r Ddeddf.
[26] Adran 85(6) o'r Ddeddf.
[27] Rheoliad 61(4) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[28] Rheoliad 61(5) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.

30.27 **Rhaid**[29] i'r cais hefyd gynnwys, ymysg materion eraill, fanylion cyswllt y sawl sy'n dymuno bod yn gyfaill achos, a **rhaid**[30] cynnwys barn y plentyn a'i riant am y person sy'n gwneud cais i weithredu fel cyfaill achos, neu eglurhad o'r rhesymau pam nad yw wedi cael barn y rhiant.

30.28 **Rhaid**[31] i'r cais gael ei lofnodi gan y sawl sy'n ymgeisio i fod yn gyfaill achos i'r plentyn.

30.29 Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, **rhaid**[32] i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gofnodi ar gofrestr y Tribiwnlys fanylion y dystysgrif datgeliad manylach. Yn ogystal, **rhaid**[33] i'r Ysgrifennydd sicrhau bod pob parti wedi cael gwybod bod gan y plentyn gyfaill achos.

30.30 Wrth benodi cyfaill achos ar ei ysgogiad ei hun, gall y Tribiwnlys holi a oes gan y plentyn rywun i weithredu fel cyfaill achos iddo, ac wedyn aros am ei gais. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y plentyn yn dewis aelod agos o'r teulu neu oedolyn arall y mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i fod yn gyfaill achos.

30.31 Gall fod amgylchiadau pan fo angen cyfaill achos ar blentyn ond nad yw'n adnabod neb i ofyn iddo fod yn gyfaill achos. Yn y sefyllfa hon, gall eiriolwr annibynnol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol wneud cais i fod yn gyfaill achos i'r plentyn.

30.32 Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu nad oes galluedd gan blentyn sy'n cyflwyno apêl yn ei enw ei hun heb gyfaill achos, bydd yn atal yr achos hyd nes bod cyfaill achos gan y plentyn[34].

30.33 Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu ar ei ysgogiad ei hun bod angen penodi cyfaill achos ar gyfer plentyn, bydd yn ofynnol i'r cyfaill achos arfaethedig lenwi'r ffurflen gais berthnasol. Bydd hyn yn galluogi'r Tribiwnlys i asesu addasrwydd yr unigolyn.

30.34 **Caiff**[35] y Tribiwnlys ddiswyddo cyfaill achos naill ai ar ei ysgogiad ei hun neu drwy gais gan rywun arall a'r cais hwnnw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth.

30.35 Os caiff cyfaill achos ei ddiswyddo, **rhaid**[36] i ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r holl bartïon dan sylw am hyn a hysbysu'r cyfaill achos nad yw bellach yn gallu gweithredu fel cyfaill achos y plentyn.

[29] Rheoliad 61(2) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[30] Rheoliad 61(3) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[31] Rheoliad 61(8) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[32] Rheoliad 61(6) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[33] Rheoliad 61(2) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[34] Rheoliad 62(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.
[35] Adran 85(2)(b) o'r Ddeddf.
[36] Rheoliad 63(4) a (5) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru.

# Pennod 31: Cynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol

## _Cyflwyniad_

31.1 Mae'r bennod hon yn berthnasol i bobl ifanc nad oes ganddynt alluedd ar yr adeg berthnasol, a hefyd i rieni plentyn pan nad oes gan riant[1] alluedd ar yr adeg berthnasol. Os nad oes ganddynt alluedd, gall pobl ifanc a rhieni ddefnyddio cynrychiolydd i weithredu ar eu rhan wrth arfer eu hawliau o dan y Ddeddf. Mae'r bennod hon hefyd yn egluro pwy all fod yn gynrychiolydd i'r rhiant neu'r person ifanc hwnnw.

31.2 Mae'r diffiniad ar gyfer pobl ifanc a rhieni nad oes ganddynt alluedd yn y Ddeddf[2] yn dilyn yr un ystyr â 'lacking capacity' yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005[3]. Mae'n golygu person nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad penodol neu i wneud rhywbeth penodol drosto'i hun ar yr adeg y mae angen penderfynu neu weithredu.

31.3 Ni waeth a oes gan berson ifanc, neu riant plentyn, alluedd ai peidio, mae'n dal i allu gwneud cyfraniad sylweddol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am ei ADY neu ADY ei blentyn. Mae'r ddyletswydd gyffredinol[4] i roi sylw i'r canlynol yn dal i fod yn gymwys:

- ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau,
- pwysigrwydd sicrhau ei fod yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau; a
- phwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol iddo fel y gall gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

31.4 Mae'r rheoliadau yn Rhan 4 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021[5] ('y Rheoliadau Galluedd'), a wnaed o dan adran 83 o'r Ddeddf, yn darparu bod cyfeiriadau penodol at riant plentyn nad oes ganddo alluedd yn cael eu darllen fel cyfeiriadau at gynrychiolydd y rhiant. Mae'r Rheoliadau Galluedd hefyd yn nodi y dylid darllen cyfeiriadau at berson ifanc nad oes ganddo alluedd fel cyfeiriadau at gynrychiolydd y person ifanc, neu at riant y person ifanc. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn nodi pwy all weithredu fel cynrychiolydd yng nghyd-destun y Ddeddf.

[1] Yn y bennod hon, mae cyfeiriadau at "rieni" yn cyfeirio at riant plentyn, pan nad oes gan y rhiant hwnnw alluedd.
[2] Adran 83 o'r Ddeddf.
[3] Adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
[4] O dan adran 6 o'r Ddeddf.
[5] Gweler rheoliadau 34 i 42 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

## *Asesu galluedd meddyliol person ifanc neu riant*

31.5 Fel arfer, bydd person ifanc neu riant nad oes ganddo alluedd eisoes wedi'i adnabod felly, er enghraifft gan y GIG neu weithwyr addysg proffesiynol yn achos person ifanc.[6]

31.6 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'i Chod Ymarfer yn nodi'r gyfraith ac yn rhoi canllawiau ar sut i asesu a oes gan rywun y galluedd i wneud penderfyniad, gan gynnwys pryd y dylai gweithwyr proffesiynol gymryd rhan yn yr asesiad.[7]

31.7 Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gosod pum egwyddor allweddol[8]:

- Rhaid tybio fod gan berson alluedd oni phrofir nad oes ganddo alluedd.
- Ni cheir trin person fel rhywun nad oes ganddo alluedd i wneud ei benderfyniad ei hun oni bai bod pob cam ymarferol i roi cymorth i berson wneud hynny wedi ei gymryd heb lwyddiant.
- Ni ddylid trin person fel rhywun nad oes ganddo alluedd i wneud penderfyniad dim ond oherwydd iddo wneud penderfyniad annoeth.
- Rhaid i weithred neu benderfyniad a wneir dros neu ar ran rhywun nad oes ganddo alluedd fod er ei fudd pennaf.
- Cyn i weithred neu benderfyniad gael ei wneud, rhaid ystyried a oes ffordd arall o gyflawni'r un diben sy'n cyfyngu llai ar hawliau'r person a'i ryddid i weithredu.

## *Cynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc a rhieni nad oes ganddynt alluedd*

31.8 Mae'r Rheoliadau Galluedd yn nodi y dylid darllen cyfeiriadau penodol yn y Ddeddf at riant y plentyn fel cyfeiriadau at gynrychiolydd y rhiant pan nad oes gan y rhiant alluedd.[9] Maent hefyd yn nodi y dylid darllen cyfeiriadau at berson ifanc nad oes ganddo alluedd fel cyfeiriadau at gynrychiolydd y person ifanc, neu riant y person ifanc[10]. Er enghraifft, gall cynrychiolydd wneud y canlynol ar ran person ifanc neu riant nad oes ganddo alluedd:

- gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu berson ifanc ailystyried penderfyniadau a wnaed ynghylch a oes gan y plentyn neu berson ifanc ADY[11]

---

[6] Ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd, gweler Pennod 30 ar gyfeillion achos.
[7] Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol mewn grym o bryd i'w gilydd. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/497459/Deddf-gallu-meddyliol-cod-ymarfer.pdf.
[8] Adran 1 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
[9] Rheoliad 35 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[10] Rheoliad 37 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[11] Rheoliad 35(1)(h) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac adran 26 o'r Ddeddf.

- bwrw ymlaen ag apêl i'r Tribiwnlys Addysg[12];
- cael gwybodaeth, dogfennau a hysbysiadau o benderfyniadau, gan gynnwys copi o CDU[13];
- cymryd rhan yn y trefniadau a wneir gan awdurdod lleol i osgoi a datrys anghytundebau[14];
- gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol. Pan fo cais o'r fath wedi ei wneud, mae'n **rhaid**[15] i'r awdurdod lleol gyfeirio cynrychiolydd person ifanc at wasanaeth eirioli annibynnol[16].

## *Pwy gaiff fod yn gynrychiolydd at bwrpas y Rheoliadau Galluedd*

31.9 Pan nad oes gan berson ifanc neu riant alluedd, mae'r Rheoliadau Galluedd yn nodi bod cyfeiriadau at riant neu berson ifanc yn cael eu darllen fel cyfeiriadau at ei gynrychiolydd. Mae cynrychiolwyr at bwrpas y rheoliadau hynny'n golygu un o'r canlynol[17]:

(a) **dirprwy**[18], a benodwyd gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniad ar ran y rhiant neu'r person ifanc. Mae dirprwyon yn rhwym wrth delerau'r gorchymyn penodi, a gyhoeddir gan y Llys Gwarchod;
(b) **derbynnydd atwrneiaeth arhosol**[19] (LPA), a benodwyd gan y rhiant neu'r person ifanc i wneud penderfyniadau ar ran y rhiant neu'r person ifanc, gan gynnwys rhoi'r awdurdod iddo wneud penderfyniadau mewn amgylchiadau lle nad oes gan y person alluedd mwyach;
(c) **twrnai sydd ag atwrneiaeth barhaus**[20] (EPA); neu
(d) **rhiant y person ifanc**[21], pan nad oes gan y person ifanc gynrychiolydd a restrir yn (a), (b) neu (c) uchod.

---

[12] Rheoliad 41 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac adrannau 70 a 72 o'r Ddeddf.
[13] Gweler er enghraifft rheoliadau 35(1)(a)3 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[14] Rheoliad 39 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac adran 68 o'r Ddeddf.
[15] Rheoliad 40 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac adran 69 o'r Ddeddf.
[16] Gweler Pennod 32 i gael gwybodaeth am wasanaethau eirioli annibynnol. Mae Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol hefyd ar gael i bobl ifanc nad oes ganddynt alluedd. Gweler Pennod 10 o God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol i gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth hwn.
[17] Gweler y diffiniad o 'cynrychiolydd' yn rheoliad 34 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[18] Paragraff (a) o'r diffiniad o 'cynrychiolydd' yn rheoliad 34 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac adran 16(2)(b) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. (Caiff rhieni wneud cais i'r Llys Gwarchod i fod yn ddirprwyon).
[19] Paragraff (b) o'r diffiniad o 'cynrychiolydd' yn rheoliad 34 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac adran 9 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
[20] Paragraff (c) o'r diffiniad o 'cynrychiolydd' yn rheoliad [34(c)] o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ac Atodlen 4 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
[21] Rheoliad 34(d) o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

## *Amddifadu o ryddid*

31.10 Bydd angen i unrhyw leoliad addysg a allai fod â'r potensial i amddifadu o ryddid gael ei ystyried yn unol â'r gyfraith achos berthnasol a Deddf Galluedd Meddyliol 2005[22]. Ni fydd rhieni plant 16 ac 17 oed yn gallu cydsynio i faterion a fyddai fel arall yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, yn unol ag achos *D (A Child)*[23].

---

[22] Nes i'r newidiadau a wneir gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 ddod i rym, mae'r trefniadau diogelu presennol wrth amddifadu o ryddid yn gymwys i rai 18 oed a hŷn. Yn achos pobl ifanc 16 a 17 oed, bydd angen gwneud ceisiadau i'r Llys Gwarchod i gael awdurdodi lleoliadau perthnasol. Pan ddaw'r newidiadau i Ddeddf 2019 i rym, bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gymwys i bobl ifanc 16 oed a hŷn. Mae'n ofynnol i ymarferwyr gyfeirio at Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'i Chod Ymarfer perthnasol.

[23] [2019] UKSC 42, a oedd yn darparu na allai rhiant roi cydsyniad i amddifadu person ifanc 16 a 17 oed o'i ryddid, ac felly nid oedd cytundeb y fam yn gyfystyr â chydsyniad dilys gan fodloni ail elfen prawf Storck. Gweler *Cheshire West and Chester Council v P and another* [2014] UKSC 19, lle y disgrifiodd y Goruchaf Lys dair elfen amddifadu o ryddid, yn deillio o'r prawf 'Storck':

a. 'the objective component of confinement in a particular restricted place for a not negligible length of time'
b. 'the subjective component of lack of valid consent'
c. 'the attribution of responsibility to the state'.

# Pennod 32: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol

## *Cyflwyniad*

32.1 O dro i dro, gall anghytundebau godi ynglŷn ag ADY neu DDdY. Hyd y gellir, **dylid** eu hosgoi neu eu datrys cyn gynted â phosibl.

32.2 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canllawiau a gofynion yn ymwneud â dyletswyddau awdurdodau lleol i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau ac ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau*

32.3 **Rhaid**[1] i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng:

(a) cyrff addysg (ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol) a
(b) plant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt, neu yn achos plant o'r fath, eu rhieni

ynghylch arfer swyddogaethau'r corff addysg o dan ran 2 o'r Ddeddf.

32.4 Hefyd, **rhaid**[2] i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng:

(a) perchnogion 'sefydliadau perthnasol' a
(b) plant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt ac sydd ag ADY ac, yn achos plant o'r fath, eu rhieni

ynghylch y DDdY a wneir ar gyfer plant neu bobl ifanc.

32.5 At ddibenion paragraff 32.4, ystyr 'sefydliadau perthnasol'[3] yw:

(a) ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
(b) sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
(c) sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ar y rhestr a gynhelir o dan adran 56 o'r Ddeddf;
(d) ysgol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr;
(e) ysgol arbennig nas cynhelir;

---

[1] Adran 68(1) o'r Ddeddf.
[2] Adran 68(2) o'r Ddeddf.
[3] Adran 68(7) o'r Ddeddf.

(f) Academi.

32.6 At ddibenion y dyletswyddau ym mharagraffau 32.3 a 32.4, yr awdurdod lleol cyfrifol yw:

- yn achos plentyn neu berson ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, yr awdurdod sy'n cynnal yr ysgol yng Nghymru neu y mae'r sefydliad addysg bellach wedi'i leoli yn ei ardal[4];
- yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn[5];
- yn achos person a gedwir yn gaeth, awdurdod cartref y plentyn;[6]
- yn achos pob plentyn a pherson ifanc arall, ardal yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc.

32.7 Os nad oes gan riant plentyn neu berson ifanc alluedd ar yr adeg berthnasol, **rhaid**[7] i drefniadau a wneir gan awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ddarparu ar gyfer cynrychiolydd i gymryd rhan yn y trefniadau ar ran y person.

32.8 **Rhaid**[8] i awdurdodau lleol hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Un dull, er enghraifft, yw trwy sicrhau bod plant, eu rhieni, a phobl ifanc yn cael manylion y trefniadau wrth gael hysbysiad o benderfyniad gan yr awdurdod lleol. Rhaid i Awdurdodau Lleol gymryd camau rhesymol i roi gwybod i blant, eu rhieni a phobl ifanc na fydd ymrwymo i drefniadau datrys anghytundebau yn effeithio ar unrhyw hawliau sydd ganddynt i apelio i'r Tribiwnlys.[9] Mae Penodau 11 i 17, 19, 25, 26 a 29 yn cyflwyno'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth am y trefniadau pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, pan fydd CDU wedi'i lunio neu ei ddiwygio, neu pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i roi'r gorau i gynnal CDU. Dylid hefyd hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau yn fwy cyffredinol ar gyfleoedd cynharach, er enghraifft mewn cyfarfodydd cynnar i drafod ADY plentyn neu berson ifanc.

32.9 At hynny, **rhaid**[10] i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth am eu trefniadau ar gael ar eu gwefannau. Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, **dylid** sicrhau ei bod mewn fformat addas er mwyn helpu plant, eu rhieni, a phobl ifanc i ddeall y trefniadau, er enghraifft, trwy ddefnyddio iaith syml. **Dylai'r** wybodaeth gynnwys sut i ddefnyddio'r trefniadau hyn, er enghraifft trwy ddarparu man cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.

[4] Adran 87(4) o'r Ddeddf.
[5] Adran 68(8) o'r Ddeddf.
[6] Adran 68(8) o'r Ddeddf (a ddiwygiwyd gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).
[7] Rheoliad 39 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.
[8] Adran 68(4) o'r Ddeddf.
[9] Adran 68(5) o Ddeddf 2018.
[10] Gofyniad a osodir gan y Cod.

32.10 **Rhaid**[11] i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ar gael yn ddi-dâl yn y man darparu.

32.11 **Rhaid**[12] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am y trefniadau yn deall y system ADY yn fanwl. I sicrhau hyn, **dylai'r** awdurdod lleol sicrhau y darperir hyfforddiant a chyfleoedd datblygu priodol, a bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru er mwyn gwella safonau.

32.12 **Rhaid**[13] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn yn ddiduedd o ran canlyniad unrhyw anghytundebau posibl.

32.13 **Rhaid**[14] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc, a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu eu dewisiadau ac anghenion cyfathrebu (gweler Pennod 4 ar gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc).

32.14 Bydd rhai plant eisiau dilyn y trefniadau hyn gyda'u rhieni, neu gyda chyfaill achos os yn berthnasol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai plant, yn enwedig plant hŷn, eisiau cael dilyn y trefniadau yn annibynnol ar eu rhieni. **Rhaid**[15] i awdurdodau lleol hwyluso hyn.

32.15 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau yn briodol ac o ansawdd addas. Wrth gyflwyno'r trefniadau hyn, **rhaid**[16] i'r awdurdod lleol:

(a) ysgwyddo cyfrifoldeb am safon gyffredinol y trefniadau, gan gynnwys creu cynllun datblygu â thargedau clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd;
(b) sicrhau bod strwythurau rheoli priodol ar waith ar gyfer y trefniadau, gan gynnwys goruchwylio, monitro'n rheolaidd ac adolygu'r trefniadau;
(c) sicrhau bod adnoddau a staff digonol ar gael i ddiwallu anghenion plant, eu rhieni a phobl ifanc yn eu hardal (caiff hyn gynnwys gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau arbenigol neu sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gallu rhoi cymorth a chyngor ar faterion penodol);
(d) sicrhau bod y trefniadau'n cael eu hysbysebu'n dda (er enghraifft, trwy daflenni, posteri, gwefannau, canolfannau cyswllt wyneb yn wyneb, a llinellau cymorth) ar gyfer plant, eu rhieni, a phobl ifanc;
(e) mynd ati i ofyn am adborth ar y trefniadau gan y bobl sy'n eu defnyddio er mwyn llywio datblygiad a gwelliant parhaus y trefniadau; a
(f) bod â chynlluniau cyllido a chyllidebu clir ar gyfer y trefniadau.

---

[11] Adran 49 o'r Ddeddf.
[12] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[13] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[14] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[15] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[16] Gofyniad a osodir gan y Cod.

## Trefniadau i osgoi anghytundebau

32.16 Bwriad y broses gynhwysol o ddatblygu CDU a'r ddyletswydd[17] i ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc (gweler Pennod 4), yw helpu i oresgyn pryderon yn gynnar yn y broses a rhwystro anghytundebau rhag digwydd. Dylai ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ganolbwyntio ar roi cyfle i blant, eu rhieni, a phobl ifanc fynegi pryderon neu ofyn cwestiynau yn ystod pob cam o'r broses, gan ganiatáu ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau a'u datrys yn ddi-oed.

32.17 Trwy gyflwyno trefniadau i osgoi anghytundebau gellir helpu i ddatblygu a chynnal cysylltiadau da rhwng pawb sy'n cyfrannu at y broses o gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Dylai hyn helpu i feithrin dealltwriaeth bod y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r broses, gyda phawb yn cydweithio i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.

32.18 **Dylai'r** trefniadau i osgoi anghytundebau ddarparu'r canlynol:

- cyngor ar hawliau plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc y mae arno angen cymorth;
- cymorth i ddeall anawsterau a chynllunio ffordd ymlaen gyda phawb arall sy'n rhan o'r broses;
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb i benderfynu'r camau nesaf;
- cymorth i fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd yn ôl y gofyn;
- cymorth parhaus os yw'n anodd datrys problemau.

32.19 **Dylai'r** trefniadau geisio datblygu ymddiriedaeth rhwng partïon ac osgoi anghytundebau trwy:

- gynorthwyo'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a gweithwyr proffesiynol, fel sy'n briodol, i gael yr un wybodaeth o'r un ffynhonnell y gellir ymddiried ynddi;
- sicrhau plant, eu rhieni, a phobl ifanc y bydd trafodaethau a phenderfyniadau'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc ac y byddant yn derbyn cymorth ar lefel briodol;
- gwella cyfathrebu a datblygu ymddiriedaeth rhwng partïon i greu amgylchedd lle mae'r plentyn, ei riant a'r person ifanc yn cael eu trin fel partneriaid yn y broses, a bod modd mynd i'r afael â phryderon trwy siarad yn agored ac yn adeiladol;
- sicrhau partïon bod y rhai sy'n ymwneud â'r broses o osgoi anghytundebau yn ddiduedd;
- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu hesbonio mewn ffordd sy'n eglur i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;
- egluro'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, ac annog y plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc i ofyn cwestiynau am y penderfyniadau, a'u cyfeirio at wasanaethau eirioli annibynnol yn ôl yr angen;

[17] Adran 6 o'r Ddeddf.

- darparu cyfle cynnar i drafod penderfyniadau, sy'n allweddol i osgoi anghytundebau, a sicrhau bod problemau'n cael eu cyflwyno a'u datrys yn ddi-oed;
- helpu i archwilio'r CDU er mwyn deall sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud ac ystyried a oes unrhyw dystiolaeth na roddwyd sylwi iddi.

32.20 Gall eiriolwyr annibynnol, a chyfeillion achos neu gynrychiolwyr os ydynt wedi'u penodi, chwarae rhan allweddol yn y broses o sicrhau bod trefniadau ar gyfer osgoi anghytundebau yn gweithredu'n effeithiol. Gweler paragraffau 32.53 – 32.65 i gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau eirioli annibynnol. Mae Pennod 30 yn rhoi arweiniad ar gyfeillion achos. Gweler Pennod 31 mewn cysylltiad â chynrychiolwyr ar gyfer rhai nad oes ganddynt alluedd.

**Trefniadau i ddatrys anghytundebau**

32.21 Os nad oedd modd atal anghytundebau rhag codi, **dylai'r** anghytundebau gael eu datrys mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl. Mae datrys anghytundebau yn gynnar yn fanteisiol iawn i'r plentyn neu'r person ifanc, gan osgoi straen diangen ar gyfer unigolion a'u teuluoedd, er enghraifft os oes angen datrys problem yn y Tribiwnlys yn y pen draw. Mae'r trefniadau i ddatrys anghytundebau yn gallu helpu i ddatrys problemau cyn iddynt waethygu, a rhoi cyfle i adfer neu wella'r berthynas rhwng y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol.

32.22 **Rhaid**[18] i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau (trefniadau datrys anghytundebau) rhwng ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach, awdurdod lleol a pherchennog sefydliad perthnasol, a phlentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc. **Rhaid**[19] i'r trefniadau hyn ymwneud â dulliau ysgolion/sefydliadau addysg bellach/awdurdodau lleol o gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, a'u dulliau o lunio a darparu DDdY, gan gynnwys mewn achosion honedig lle nad yw DDdY yn cael ei darparu mewn ffordd addas neu i safon addas.

32.23 Yn y lle cyntaf, **dylid** cynorthwyo'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i fynegi pryderon ar y lefel leol fwyaf addas. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn digwydd yn y lleoliad addysg a fynychir gan y plentyn neu'r person ifanc, e.e. lleoliad cyn ysgol, ysgol neu sefydliad addysg bellach.

32.24 Dylai awdurdodau lleol ystyried sut mae eu trefniadau'n gallu cynnwys neu ategu'r gweithdrefnau cwyno sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach er mwyn sicrhau bod modd datrys anghytundebau mor fuan â phosibl ar y lefel fwyaf lleol posibl.

32.25 Os yw ysgol a gynhelir wedi gwneud penderfyniad bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu ei bod wedi gwrthod gwneud penderfyniad, mae'r

[18] Adran 68(1) a (2) o'r Ddeddf.
[19] Gofyniad a osodir gan y Cod.

plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn cael cyfle i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.[20] Os bydd ysgol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a bod y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn ystyried nad yw'r CDU yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gellir gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried a diwygio'r cynllun.[21]

32.26 Dylai trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau ymdrin ag unrhyw gwestiynau gan y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc. Dylid egluro bod y trefniadau'n anffurfiol ac yn hygyrch, ac mai eu nod yw darparu proses syml i ddod â'r ddwy ochr ynghyd er mwyn egluro'r problemau a'u datrys.

32.27 Yn gyffredinol, bydd trefniadau llwyddiannus ar gyfer datrys anghytundebau yn lleihau'r angen i fynd ag anghydfod i'r Tribiwnlys, gan ddatrys unrhyw anghytundebau'n gyflymach, arbed amser ac arian sylweddol i'r partïon perthnasol, ac amharu cyn lleied â phosibl ar addysg y plentyn neu'r person ifanc.

32.28 Amcanion datrys anghytundeb yw:

- helpu i ddod â'r partïon perthnasol ynghyd;
- cefnogi anghenion y plentyn a'r person ifanc;
- helpu i sicrhau bod anghytundebau'n cael eu datrys yn gynnar ac yn anffurfiol trwy drafod a chytuno;
- trafod yr holl ddewisiadau posibl.

32.29 Mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn y broses, gan gynnwys y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, deimlo'n hyderus y bydd pobl yn gwrando ar eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Nid rhoi bai yw diben datrys anghytundeb. Nod y broses yw datrys anghytundebau trwy sicrhau ateb pan fo gwahaniaeth barn, er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

32.30 Os yw plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn penderfynu defnyddio'r trefniadau datrys anghytundeb, **dylai'r** partïon drefnu i gyfarfod[22] ar amser sy'n addas i bawb, a **dylid** cynnal sianel gyfathrebu agored ac ymateb yn gyflym i unrhyw geisiadau. **Dylid** trefnu hyn mor fuan â phosibl er mwyn gallu datrys y mater yn gyflym. **Rhaid**[23] cefnogi'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i fynegi eu safbwyntiau.

32.31 Er enghraifft, dylai defnydd da o drefniadau datrys anghytundebau wneud y canlynol:

- lleihau'r meysydd y ceir anghytuno yn eu cylch mewn un rhan neu fwy o anghydfod;

[20] Adran 26 o'r Ddeddf.
[21] Adran 27 o'r Ddeddf.
[22] Gweler Pennod 22 i gael gwybodaeth am gyfarfodydd am ADY a CDUau..
[23] O dan adran 6 o'r Ddeddf.

- nodi gwahaniaethau ond cynnal neu greu perthynas waith dda rhwng y partïon;
- datgloi'r broses o ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu gynorthwyo partïon i gytuno ar ffeithiau allweddol;
- egluro'r cwestiynau allweddol y mae angen eu hateb er mwyn datrys yr anghydfod; a
- cheisio dod i gytundeb ar bwyntiau penodol.

32.32 Mae'r trefniadau'n gallu cynnwys elfennau fel sgyrsiau cyn y cyfarfod gyda dwy ochr yr anghytundeb, lleoliad niwtral ar sail amserlen y cytunir arni (mae'n bosibl y bydd angen cynnal mwy nag un cyfarfod) a datganiad 'cytundebau a sicrhawyd' a/neu ddatganiad 'cytundeb i anghytuno' yn dilyn y broses.

**Annibyniaeth personau sy'n helpu i ddatrys anghytundebau**

32.33 Yn rhan o'r trefniadau datrys anghytundebau, **rhaid**[24] i'r awdurdod lleol gynnwys darpariaeth i bartïon mewn anghytundeb allu cael cymorth i ddatrys yr anghytundeb oddi wrth bersonau sy'n annibynnol ar y partïon.

32.34 Bydd angen profiad, gwybodaeth a chymwysterau amrywiol ar berson/personau annibynnol sy'n helpu i ddatrys anghytundebau, gan gynnwys er enghraifft:

- hyfforddiant a phrofiad ym maes datrys anghytundebau, e.e. eirioli;
- sgiliau cwnsela a negodi;
- y gallu i sefydlu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol;
- gwybodaeth am ddeddfwriaeth ADY, rheoliadau cysylltiedig, y Cod hwn a materion addysgol perthnasol eraill; ac
- y gallu i weithredu mewn ffordd gyfrinachol a diduedd.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

32.35 Ni ddylai'r person fod ag unrhyw ddiddordeb personol yn y canlyniad. Mae'r person annibynnol yn gallu helpu partïon i drafod yr anghytundeb a cheisio canfod ateb sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

## *Cyfraniad cyrff iechyd at drefniadau osgoi a datrys anghytundebau*

32.36 Tra bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ymgysylltu â threfniadau osgoi anghytundebau neu drefniadau datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried a fyddai'n fanteisiol cynnwys corff perthnasol y GIG yn y trefniadau hyn. Gall sefyllfa o'r fath godi os yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn mynegi pryderon am iechyd, neu DDdY y mae'r corff iechyd yn gyfrifol amdani.

[24] Adran 68(3) o'r Ddeddf.

32.37 Os yw awdurdod lleol yn credu y byddai'n fanteisiol cynnwys un o gyrff y GIG mewn trefniadau osgoi a datrys anghytundebau, dylai gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) i ofyn am ei gyngor. **Dylai** hyn fod yn rhan o waith y SACDA (gweler Pennod 9).

32.38 Dylai'r SACDA ystyried a fyddai cyfraniad cyrff y GIG at y trefniadau yn gallu helpu i ddatrys anghytundebau, ac os felly a ddylent gymryd rhan yn y trefniadau.

32.39 Yn ogystal â defnyddio trefniadau osgoi a datrys anghytundebau awdurdodau lleol, os oes pryder ynglŷn â chyfraniad ym maes iechyd neu ddarpariaeth cyrff y GIG, **dylid** annog y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i drafod eu pryder â'r darparwr iechyd.

32.40 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefniadau ar gyfer rheoli pryderon a chwynion yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru: *Gweithio i Wella.*[25] Mae Gweithio i Wella yn seiliedig ar ddull integredig, gan ddwyn ynghyd y broses o reoli cwynion, digwyddiadau a hawliadau ar sail yr egwyddor 'ymchwiliwch unwaith, ymchwiliwch yn fanwl'.

32.41 Os yw'r awdurdod lleol yn dod i ddeall bod y pryder, yr anghytundeb neu'r gŵyn yn ymwneud â'r maes iechyd, boed yn asesiad, yn driniaeth neu'n wasanaeth a ddarparwyd gan y GIG, neu unrhyw bryder arall, **dylai'r** awdurdod lleol atgyfeirio'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc at Gweithio i Wella.

32.42 Mewn amgylchiadau penodol, gellir mynd ati i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau a'r broses Gweithio i Wella. **Dylai'r** awdurdod lleol a'r SACDA weithio gyda'i gilydd i wneud trefniadau i geisio datrys y mater. Os oes angen gwasanaeth eirioli neu gymorth ar gyfer y plentyn, y person ifanc neu aelod o'r teulu, mae'n aml yn fwy effeithiol pan fydd un unigolyn yn gyfrifol am hynny.

## Cydberthynas â'r Tribiwnlys

32.43 Nid yw penderfyniad i ddefnyddio trefniadau datrys anghytundebau, neu i beidio â'u defnyddio, yn effeithio ar hawliau i apelio i'r Tribiwnlys. Ni chaiff y Tribiwnlys ddod i unrhyw gasgliad os nad yw plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc wedi defnyddio'r trefniadau datrys anghytundebau cyn cyflwyno apêl. Os bydd plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn penderfynu defnyddio trefniadau datrys anghytundebau cyn diwedd cyfnod y cyfyngiad ar gyfer gwneud apêl, estynnir y cyfyngiad amser ar gyfer gwneud apêl gan 8 wythnos i geisio datrys unrhyw anghytundeb.[26] Ar unrhyw adeg ar ôl cychwyn apêl (gan gynnwys yn ystod y camau cynnar iawn), **caiff**[27] unrhyw

[25] Gellir dod o hyd i wybodaeth am Gweithio i Wella yn:
http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella
[26] Rheoliad 10 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[27] Rheoliad 8(2) o Rheoliadau Tribiwnlys Addysg 2021.

barti sy'n rhan o'r achos wneud cais am ei atal er mwyn ystyried dull arall o ddatrys yr anghydfod.

32.44 Mae cyfarfodydd datrys anghytundebau yn gyfrinachol ac nid ydynt yn ymrwymo proses y Tribiwnlys. Gall y Tribiwnlys drafod materion tebyg i'r hyn a drafodwyd trwy'r trefniant datrys anghytundeb, ond bydd yn dod i ganfyddiadau a chasgliadau annibynnol. Gall cytundeb rhannol sy'n deillio o ddefnyddio trefniadau o'r fath helpu i ganolbwyntio ar y meysydd anghytundeb sy'n weddill mewn unrhyw apêl ddilynol i'r Tribiwnlys.

## *Dulliau eraill o herio*

32.45 Yn ogystal ag apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru, gall dysgwyr a'u teuluoedd ddefnyddio sawl dull arall o herio corff cyhoeddus os ydynt yn teimlo bod y corff wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus, gan gynnwys y dyletswyddau o dan y Ddeddf.[28]

32.46 Gallai'r rhain gynnwys defnyddio gweithdrefn gwyno ysgol, sefydliadau addysg bellach neu awdurdod lleol.

32.47 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[29] yn gallu ystyried cwynion gweithdrefnol am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff y GIG.

32.48 Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru wasanaeth ymchwiliadau a chyngor am ddim a all ddarparu cymorth gyda chwynion a materion sy'n ymwneud â'r system ADY[30].

32.49 Gall Comisiynydd y Gymraeg ystyried cwynion am sefydliadau yng Nghymru nad ydynt yn glynu at y safonau priodol mewn perthynas â'r Gymraeg[31].

32.50 Mewn rhai amgylchiadau, gellir gwneud cais i'r Llys Gweinyddol am adolygiad barnwrol yn ymwneud â chyfreithlondeb penderfyniad neu weithred corff cyhoeddus, gan gynnwys y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad. Mae cyfyngiadau amser llym ar waith ar gyfer cymryd camau o'r fath. Caiff y Llys Gweinyddol[32], er enghraifft, ystyried y modd y mae penderfyniadau awdurdodau lleol wedi cael eu gwneud.

32.51 Gall awdurdodau lleol hefyd ystyried ymyrryd yn achos ysgolion sy'n peri pryder yn eu hardal wrth arfer eu pwerau o dan Ddeddf Safonau a

[28] Gweler Pennod 33 i gael gwybodaeth am seiliau apêl.
[29] https://www.ombwdsmon.cymru/.
[30] https://www.complantcymru.org.uk/amdanon-ni/ymchwiliadau-a-chyngor/.
[31] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Fy%20hawliau/Pages/Cyflwyno-cwyn-.aspx.
[32] Y Llys Gweinyddol: https://www.judiciary.gov.uk/you-and-the-judiciary/going-to-court/high-court/queens-bench-division/courts-of-the-queens-bench-division/administrative-court/.

Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rhaid i ysgolion hefyd ddilyn Canllawiau Safonau Ysgolion.[33]

32.52 Hefyd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud cyfarwyddyd mewn cysylltiad â sefydliadau addysg bellach, er enghraifft os nad ydynt wedi cyflawni eu dyletswyddau neu wedi gweithredu'n afresymol[34].

## *Gwasanaethau eirioli annibynnol*

32.53 **Rhaid**[35] i awdurdodau lleol:

(a) gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;
(b) atgyfeirio at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol; ac
(c) atgyfeirio at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol unrhyw berson sy'n gyfaill achos[36] i blentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol.

32.54 At ddibenion y dyletswyddau ym mharagraff 32.53 a 32.59, yr awdurdod lleol cyfrifol yw:

- yn achos plentyn neu berson ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, yr awdurdod sy'n cynnal yr ysgol yng Nghymru neu y mae'r sefydliad addysg bellach wedi'i leoli yn ei ardal[37];
- yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn[38];
- yn achos person a gedwir yn gaeth, awdurdod cartref y person;[39]
- yn achos pob plentyn a pherson ifanc arall, ardal yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc.

32.55 Mae gwasanaethau eirioli annibynnol yn darparu cyngor a chymorth arbenigol, trwy gynrychiolaeth neu fel arall, i blentyn neu berson ifanc, gan gynnwys cyfaill achos plentyn, pan fo'r plentyn neu'r person ifanc:

---

[33] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ysgolion-sy%27n-peri-pryder-canllawiau-statudol-i-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol.pdf. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r dull y caiff Gweinidogion Cymru ei fabwysiadu wrth arfer eu swyddogaethau ymyrryd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
[34] O dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.
[35] Adran 69 o'r Ddeddf.
[36] Rhoddir rhagor o wybodaeth am gyfeillion achos ym Mhennod 30.
[37] Adran 87(4) o'r Ddeddf.
[38] Adran 68(8) o'r Ddeddf.
[39] Adran 68(8) o'r Ddeddf (a ddiwygiwyd gan Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021).

- yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, apêl i'r Tribiwnlys;
- yn ystyried a yw am apelio i'r Tribiwnlys ai peidio; neu
- yn cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundeb.

32.56 Os nad oes gan berson ifanc y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano alluedd ar yr adeg berthnasol, ac os bydd cynrychiolydd yn gwneud cais am wasanaethau eirioli annibynnol ar ran y person ifanc, **rhaid**[40] i'r awdurdod lleol atgyfeirio'r cynrychiolydd at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol.

32.57 Mae gwasanaethau eirioli'n gallu cynorthwyo'r plentyn a'r person ifanc i fynegi a chyflwyno ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau. Gall eirioli:

- gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i fynegi ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau a sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei glywed;
- siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gallu mynegi ei safbwyntiau, ei ddymuniadau neu ei deimladau, neu os nad yw ond yn gallu mynegi ei safbwyntiau, ei ddymuniadau neu ei deimladau yn rhannol;
- gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth;
- cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall ei anghenion, deall y prosesau perthnasol, deall ei hawliau, cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a deall goblygiadau unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud;
- darparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc, ei helpu i ddeall ei ddewisiadau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, a'i gynorthwyo i herio'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach os yw'n teimlo nad yw ei anghenion yn cael eu diwallu;
- cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i geisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon sydd wedi'u nodi gan y plentyn neu'r person ifanc, helpu'r plentyn neu'r person ifanc i egluro ei gŵyn a'i helpu i ddeall y canlyniadau y mae'n ceisio eu sicrhau;
- darparu cymorth i blant a phobl ifanc o ganlyniad i unrhyw heriau emosiynol sy'n deillio o'r broses, fel mynegi barn wahanol i farn eu rhieni.

32.58 Mae'n bosibl y bydd gwasanaethau cynghori neu eirioli eraill ar gael i gefnogi plentyn neu berson ifanc yn fwy cyffredinol, er enghraifft i'w gynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ei DDdY. Gall eiriolwyr anffurfiol neu wasanaethau eirioli a ddarperir gan drydydd parti fod yn ddefnyddiol mewn cyfarfod adolygu CDU neu wrth gynllunio ar gyfer cyfnod pontio (gweler Pennod 27 i gael gwybodaeth am gynllunio ar gyfer pontio a chefnogi'r broses).

[40] Rheoliad 40 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.

32.59 **Rhaid**[41] i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaethau eirioli annibynnol yn hysbys i:

(a) plant a phobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;
(b) rhieni plant y mae'n gyfrifol amdanynt;
(c) penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ganddo; a
(d) personau eraill sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod lleol, e.e. cyfeillion achos, cynrychiolwyr, Byrddau Iechyd, lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar, sefydliadau addysg bellach ac ati.

32.60 Hefyd, **rhaid**[42] i'r awdurdod lleol hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau eirioli annibynnol, er enghraifft trwy sicrhau bod plant, eu rhieni, a phobl ifanc yn cael manylion y trefniadau pan fyddant yn cael hysbysiad o benderfyniad gan yr awdurdod lleol. Mae Penodau 11 i 17, 19, 25, 26 a 29 yn cyflwyno'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth am y trefniadau pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, pan fydd CDU wedi'i lunio neu ei ddiwygio, neu pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i roi'r gorau i gynnal CDU. Bydd cyfleoedd tebyg eraill i ddarparu gwybodaeth yn codi hefyd.

32.61 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn briodol ac o ansawdd addas. Wrth roi'r trefniadau hyn ar waith, **rhaid**[43] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaeth eirioli:

(a) yn cael ei hysbysebu'n dda (er enghraifft, trwy daflenni, posteri, gwefannau, canolfannau cyswllt wyneb yn wyneb a llinellau ffôn cymorth) a'i fod ar gael yn hwylus;
(b) yn cynnwys gweithdrefn gwyno glir a hawdd ei defnyddio, yn monitro boddhad defnyddwyr y gwasanaeth ac yn defnyddio adborth i lywio gwelliannau;
(c) yn ymatebol ac yn darparu cymorth a chyngor yn gyflym i bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth;
(d) yn meddu ar gynlluniau cyllido a chyllidebu clir ac adnoddau digonol, yn cael ei reoli'n dda ac yn darparu gwerth am arian.

32.62 **Rhaid**[44] i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei wasanaeth eirioli yn cael ei ddarparu yn ddi-dâl yn y man darparu.

32.63 **Rhaid**[45] i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob eiriolwr:

(a) yn deall y system ADY gan gynnwys y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gweithdrefnau'r Tribiwnlys;
(b) wedi cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ym maes cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ac unigolion ag anawsterau cyfathrebu, gan barhau i

[41] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[42] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[43] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[44] Adran 49 o'r Ddeddf.
[45] Gofyniad a osodir gan y Cod.

dderbyn hyfforddiant a datblygiad priodol er mwyn cyflawni ei rôl yn effeithiol a gwella safonau;
(c) yn meddu ar wybodaeth berthnasol am ADY y plentyn neu'r person ifanc;
(d) yn cadw cofnodion cyfrinachol;
(e) ddim wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant[46] (yn achos eiriolwyr plant) neu gydag oedolion (yn achos eiriolwyr pobl ifanc y credir eu bod yn "wynebu risg"[47]). Os nad oes gan y darparwyr eiriolaeth y wybodaeth hon, **rhaid**[48] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y darparwyr yn gwneud cais am ddatgeliad manylach a gwiriad o restr y rhai sydd wedi'u gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn symud ymlaen.

32.64 Er bod plant a phobl ifanc yn gallu dewis gofyn am eiriolaeth, **rhaid**[49] i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i fynd ati i gynnig cyfle i ddefnyddio eiriolwr os oes angen. Os yw'r cynnig yn cael ei wrthod yn y lle cyntaf, **dylid** mynd ati i'w gynnig yn rheolaidd neu yn ôl y gofyn, gan gynnwys mewn cyfarfod adolygu CDU. **Dylai** staff fod â sgiliau priodol i adnabod plant a phobl ifanc a fyddai'n elwa ar wasanaeth eiriolwr.

32.65 **Dylai'r** awdurdod lleol, yr ysgol a'r sefydliad addysg bellach roi camau rhesymol ar waith i gynorthwyo'r eiriolwr i wneud ei waith, er enghraifft, pan fo'n briodol, hysbysu asiantaethau eraill bod eiriolwr yn cynorthwyo plentyn neu berson ifanc, a darparu gwybodaeth berthnasol os yn briodol. **Dylai** personau perthnasol gydnabod rôl yr eiriolwr wrth gynorthwyo neu gynrychioli'r plentyn neu'r person ifanc.

### Annibyniaeth gwasanaethau eirioli

32.66 Mae annibyniaeth yr eiriolwr yn hanfodol er mwyn ei alluogi i weithredu ar ran yr unigolyn yn effeithiol.

32.67 **Rhaid**[50] i'r awdurdod lleol roi sylw i'r egwyddor bod rhaid i unrhyw wasanaethau eirioli a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY fod yn annibynnol ar unrhyw berson sydd:
(a) yn destun apêl i'r Tribiwnlys; neu
(b) yn ymwneud ag ymchwilio i apêl o'r fath neu ddyfarnu arni.

32.68 Mae ymarfer presennol yng Nghymru yn seiliedig ar sicrhau annibyniaeth trwy gomisiynu gwasanaethau eirioli gan ddarparwr allanol. Er mwyn sicrhau annibyniaeth eiriolaeth, **dylai** gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth gael eu cyllido a'u rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn annibynnol ar y sefydliad comisiynu. **Dylai** comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau sicrhau bod unrhyw faterion yn ymwneud â her a gwrthdaro yn dryloyw ac yn gadarn, a bod y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y comisiynydd a darparwr y gwasanaeth yn eu nodi ac yn mynd i'r afael â nhw.

---

[46] https://www.gov.uk/guidance/basic-dbs-checks-guidance.
[47] O dan adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
[48] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[49] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[50] Adran 69(3) o'r Ddeddf.

## Eiriolaeth a ddarperir o dan ddeddfwriaeth arall

32.69 Mewn rhai amgylchiadau, mae’n bosibl y bydd awdurdod lleol eisoes yn darparu gwasanaethau eirioli i blentyn neu berson ifanc ag ADY. Mewn amgylchiadau o’r fath, **dylai’r** awdurdod lleol ystyried defnyddio’r un eiriolwr i ymgymryd â’r ddwy swyddogaeth eirioli. Gallai hyn ddarparu’r cyfleoedd gorau i sicrhau cysondeb o ran anghenion eiriolaeth unigolion, a lleihau’r angen i’r unigolyn ailadrodd ei brofiadau a’i ganlyniadau dymunol wrth eiriolwyr gwahanol. Pryd bynnag y bo modd, **dylai’r** partïon geisio cytuno ar un eiriolwr i gynorthwyo’r unigolyn.

32.70 Er enghraifft, mae’n bosibl bod ADY hefyd gan blentyn sy’n derbyn gofal, ac felly byddai ganddo hawl i eiriolwr o dan y system ADY ac o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy’n rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal neu blentyn mewn angen. Mewn sefyllfa o’r fath, **dylai’r** awdurdod lleol sicrhau bod yr eiriolwr yn gymwys i ddarparu gwasanaeth eirioli, a’i fod yn deall y ddwy system sy’n destun ei eiriolaeth.

## Eiriolwyr annibynnol yn gweithredu fel cyfeillion achos

32.71 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd plentyn yn dewis aelod agos o’r teulu neu oedolyn y mae’n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i fod yn gyfaill achos. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae’n bosibl bod angen cyfaill achos ar blentyn, ond nad yw’n adnabod neb priodol i weithredu fel cyfaill achos.

32.72 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff eiriolwyr annibynnol eu hatal rhag gwneud cais i’r Tribiwnlys am fod yn gyfaill achos plentyn[51]. Gall hyn ddigwydd os oes angen cyfaill achos ar blentyn ond nad yw’n gallu gofyn i aelod o’r teulu neu oedolyn agos y mae’n ymddiried ynddo i fod yn gyfaill achos.

[51] Gweler rheoliadau 60-62 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.

# Pennod 33: Apeliadau a cheisiadau i Dribiwnlys Addysg Cymru

## *Cyflwyniad*

33.1 Mae’r Tribiwnlys Addysg yn annibynnol ar lywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach; ac mae ei benderfyniadau yn rhwymo mewn cyfraith. Mae’r Tribiwnlys yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau a cheisiadau sy’n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY neu a allai fod ag ADY. Yn benodol, mae’n gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau ynghylch penderfyniadau sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yng Nghymru.[1]

33.2 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru, a wnaed o dan y Ddeddf[2], yn amlinellu’r gweithdrefnau sydd i’w dilyn mewn achosion gerbron y Tribiwnlys gan gynnwys y broses o gychwyn apêl.

33.3 Mae’r Tribiwnlys Addysg yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar ei wefan ynghylch y broses apelio a’r gweithdrefnau i’w dilyn.

33.4 Ceir dulliau eraill y gall plant, eu rhieni a phobl ifanc eu defnyddio i herio corff cyhoeddus os ydynt yn teimlo nad yw’r corff wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus, gan gynnwys y dyletswyddau hynny o dan y Ddeddf. Er enghraifft, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng partïon yn y gobaith o osgoi’r angen i fynd ag achosion gerbron y Tribiwnlys.[3]

## *Materion y gellir eu hapelio*

33.5 Caiff[4] plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc apelio i’r Tribiwnlys ynghylch:

- penderfyniad gan sefydliad addysg bellach[5] neu awdurdod lleol[6] ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY;
- yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol[7] ynghylch a oes angen llunio a chynnal CDU;
- disgrifiad o ADY y person mewn CDU;
- y DDdY mewn CDU, neu’r ffaith bod DDdY wedi’i hepgor o CDU, yn cynnwys a yw cynllun yn nodi y dylid darparu’r DDdY yn Gymraeg;

[1] Mae’r Tribiwnlys Addysg hefyd yn gwrando ar hawliadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd; fodd bynnag, mae’r Cod hwn yn canolbwyntio’n llwyr ar Apeliadau sy’n ymwneud ag ADY.
[2] Gwnaed o dan y Ddeddf yn adrannau 74(1), 75(1), 75(2), 75(4), 76(3), 77, 91(6) a 92(2).
[3] Gweler er enghraifft, gweler Pennod 32, paragraffau 32.50 – 32.60.
[4] Adran 70 o’r Ddeddf.
[5] Adran 11 o’r Ddeddf.
[6] Adrannau 13, 18 a 26 o’r Ddeddf.
[7] Adran 14(1)(c)(ii) o’r Ddeddf.

- y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn CDU gan awdurdod lleol o dan adrannau 14(6) neu 19(4) neu'r ffaith nad yw darpariaeth o dan yr adrannau hynny mewn cynllun[8];
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben derbyn plentyn mewn sefydliad a enwir[9], neu os na enwir ysgol mewn CDU at ddiben derbyn;
- penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio ag adolygu CDU pan ofynnwyd i'r awdurdod lleol gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc ailystyried CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir[10];
- penderfyniad gan awdurdod lleol i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU, a gynhelir gan ysgol, pan ofynnwyd iddo wneud hynny gan blentyn neu ei riant, gan berson ifanc neu gan gorff llywodraethu'r ysgol honno[11];
- penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU[12]; ac
- os gwrthodir penderfynu ar fater ar y sail nad oes newid sylweddol mewn anghenion neu nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad[13].

33.6 **Caiff**[14] person sy'n cael ei gadw'n gaeth, neu riant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn, apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y materion canlynol:

- penderfyniad yr awdurdod cartref ynghylch a oes ADY gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth;
- penderfyniad yr awdurdod cartref ynghylch a fydd angen cynnal CDU ar gyfer person a gedwir yn gaeth pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw;
- disgrifiad o ADY y person mewn CDU;
- y DDdY mewn CDU, neu'r ffaith bod DDdY wedi'i hepgor o'r cynllun, yn cynnwys a yw'r cynllun yn nodi y dylai'r DDdY fod yn Gymraeg (a dyma fydd y DDdY a fydd yn berthnasol pan ryddheir y person o leoliad cadw);
- y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn CDU o dan adran 40(7) o'r Ddeddf, neu'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth o dan yr adran honno yn y cynllun;
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddibenion sicrhau lle yn yr ysgol (sef derbyn lle pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw);
- os na enwir ysgol mewn CDU ar y diben hwnnw; ac
- os gwrthodir penderfynu a oes gan berson a gedwir yn gaeth ADY ar y sail bod ei awdurdod cartref wedi gwneud penderfyniad o'r fath yn y gorffennol, nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol naill ai ar y penderfyniad hwnnw neu ar benderfyniad a fydd angen cynllun pan gaiff ei ryddhau.

[8] Mae hyn yn ymwneud â phan na ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc oni bai fod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau bwyd a llety neu le mewn ysgol benodol neu sefydliad arall.
[9] Adran 48 o'r Ddeddf.
[10] Adran 27 o'r Ddeddf.
[11] Adran 28 o'r Ddeddf.
[12] Adrannau 31(5) a 31(6) o'r Ddeddf.
[13] Pan fo adrannau 11(3)(b), 13(2)(b), 18(2)(b) neu 29(2)(a) yn gymwys.
[14] Adran 72 o'r Ddeddf.

## *Ceisiadau am ddatganiad ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd*

33.7 **Caiff**[15] plentyn neu riant plentyn wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad fod gan y plentyn neu nad oes gan y plentyn y galluedd i ddeall:

- gwybodaeth neu ddogfennau y mae'n ofynnol eu cyflwyno i blentyn o dan Ran 2 o'r Ddeddf; neu
- yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau a roddir i blentyn gan Ran 2.

33.8 **Rhaid**[16] i blentyn neu riant plentyn sy'n ceisio datganiad gan y Tribiwnlys gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys. Bydd y Tribiwnlys Addysg yn darparu'r Ffurflenni Cais perthnasol i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt.

## *Y penderfyniadau y gall y Tribiwnlys eu gwneud*

33.9 Ar apêl, **caiff**[17] y Tribiwnlys:

- wrthod yr apêl;
- gorchymyn bod gan berson, neu nad oes gan berson, ADY o fath a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol lunio CDU;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ddiwygio CDU fel a bennir mewn gorchymyn;
- gorchymyn i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol barhau i gynnal CDU (â diwygiadau neu heb ddiwygiadau);
- gorchymyn i awdurdod lleol ysgwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu i awdurdod lleol adolygu CDU; ac
- ailgyfeirio'r achos i sefydliad addysg bellach neu i awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater ystyried o'r newydd a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd unrhyw gamau gwahanol o roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys.

33.10 O ran apeliadau mewn perthynas â phersonau a gedwir yn gaeth, **caiff**[18] y Tribiwnlys:

- wrthod yr apêl;
- gorchymyn bod gan y person, neu nad oes gan y person, ADY o fath a nodir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i'r awdurdod cartref lunio CDU;
- gorchymyn i'r awdurdod cartref ddiwygio CDU fel a bennir yn y gorchymyn;

[15] Adran 70(3) o'r Ddeddf.
[16] Rheoliad 59(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[17] Adrannau 71 a 73 o'r Ddeddf.
[18] Adran 73 o'r Ddeddf.

- ailgyfeirio'r achos i'r awdurdod cartref sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gwahanol, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys.

## *Apeliadau gan blant*

33.11 Caiff plant ddod â'u hapeliadau eu hunain i'r Tribiwnlys os oes ganddynt ddigon o alluedd (neu ddealltwriaeth) i wneud hynny. Pan fo angen, caiff y Tribiwnlys wneud penderfyniadau am allu plentyn i ddeall materion sy'n ymwneud â'r system ADY.

33.12 Caiff plant nad oes ganddynt alluedd dal ddod ag apêl i'r Tribiwnlys yn eu henw eu hunain, gyda chyfaill achos i'w cynrychioli a'u cefnogi ac i wneud penderfyniadau ar eu rhan os nad oes ganddynt riant sy'n fodlon neu'n alluog i ddod ag apêl i'r Tribiwnlys ar ran y plentyn.[19]

## *Amserlenni sy'n ymwneud â'r broses apeliadau a chydymffurfio â gorchmynion*

33.13 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru yn nodi'r amserlenni ar gyfer apeliadau a'r broses apelio y mae'n rhaid i'r apelyddion, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG gydymffurfio â hi fel sy'n briodol. Ar unrhyw adeg yn ystod achosion Tribiwnlys, **caiff**[20] unrhyw barti mewn achos wneud cais i atal yr achos er mwyn ystyried setliad neu ffordd arall o ddatrys yr anghydfod. Byddai saib i'r holl achos, gan gynnwys yr amserlenni, os cymeradwyir yr atal, a byddai'r achos yn ailgychwyn ar ddiwedd cyfnod yr atal fel y'i pennir gan y Tribiwnlys.

33.14 **Caiff**[21] apelydd, awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach perthnasol wneud cais i'r Tribiwnlys am estyniad i amserlen. **Caiff**[22] y Tribiwnlys ymestyn amserlen yn unol â'i ddisgresiwn os yw'n barnu ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny.

## *Cyfnod y cais am apêl a'r datganiad achos*

33.15 **Rhaid**[23] i'r cais am apêl a'r datganiad achos ategol (tystiolaeth) ddod i law'r Tribiwnlys ar bapur ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod 8 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad pan roddwyd yr hysbysiad[24] am

[19] Pennod 30, Cyfeillion Achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd.
[20] Rheoliad (6)(2) o'r Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[21] Rheoliad 65(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[22] Rheoliad 65(2) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[23] Rheoliad 10(1) a 17(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[24] Rheoliad 10(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.

benderfyniad yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach. Nid oes rhaid cyflwyno'r cais am apêl a'r datganiad achos gyda'i gilydd. Os yw plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn penderfynu defnyddio trefniadau datrys anghytundebau (gweler Pennod 32), estynnir y cyfnod 8 wythnos gan 8 wythnos arall.[25]

33.16 Ar ôl iddynt ddod i law, **rhaid**[26] i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon y cais am apêl ac unrhyw ddogfennau ategol at y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys y datganiad achos llawn os daw i law ar yr un pryd.

33.17 Cyfnod y datganiad achos ar gyfer llywodraeth leol neu gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach mewn apêl yw—

(a) 4 wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad yr ystyrir bod yr hysbysiad sy'n ategu datganiad achos yr apelydd wedi ei gael yn unol â rheoliad 75(11), a

(b) yn cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd i dan reoliad 65[27].

## *Amserlenni sy'n ymwneud â chydymffurfio â gorchymyn*

33.18 Os bydd y Tribiwnlys yn gwneud gorchymyn yn dilyn gwrandawiad, rhaid i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach dan sylw gydymffurfio â'r gorchymyn hwnnw a darparu copïau o ddogfennau perthnasol (e.e. CDU diwygiedig) i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc o fewn yr amserlen a nodir yn Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru[28].

33.19 Dim ond yn ôl disgresiwn y Tribiwnlys yn dilyn cais gan apelydd, awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach y **caniateir**[29] ymestyn amserlenni a nodir gan y Tribiwnlys.

## *Cyrff y GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys*

33.20 Mewn perthynas ag apêl a wneir o dan Ran 2 o'r Ddeddf, **caiff**[30] y Tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i un o gyrff y GIG ddarparu tystiolaeth am arfer swyddogaethau'r corff a gwneud argymhellion i un o gyrff y GIG am arfer swyddogaethau'r corff.

33.21 Os bydd y Tribiwnlys yn gwneud argymhelliad i un o gyrff y GIG, **rhaid**[31] i'r corff hwnnw adrodd i'r Tribiwnlys, cyn pen 6 wythnos i'r dyddiad y gwnaed yr argymhelliad. **Rhaid**[32] i'r adroddiad ddatgan:

[25] Rheoliad 10 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[26] Rheoliad 13(2)(a) ac (c) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[27] Rheoliad 17(4) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[28] Rheoliad 58 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[29] Rheoliad 65 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[30] Adran 76(1)(a) o'r Ddeddf.
[31] Rheoliad 64(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[32] Adran 76(4) o'r Ddeddf.

(a) y cam gweithredu a gymerodd corff y GIG neu y mae'n bwriadu ei gymryd i ymateb i argymhelliad y Tribiwnlys; neu
(b) pam nad yw'r corff wedi cymryd unrhyw gam gweithredu a pham nad yw'n bwriadu gwneud hynny mewn ymateb i'r argymhelliad.

## _Adolygu penderfyniadau'r Tribiwnlys ac apeliadau yn eu herbyn_

33.22 **Caiff**[33] unrhyw barti yn yr achos wneud cais i Ysgrifennydd y Tribiwnlys am adolygu penderfyniad gan banel y Tribiwnlys ar y sail:

(a) bod y penderfyniad anghywir wedi'i wneud o ganlyniad i wall perthnasol ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys;
(b) bod parti a oedd â hawl i gael gwrandawiad yn yr achos wedi methu ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, a bod ganddo reswm da a digonol am beidio ag ymddangos;
(c) bod gwall amlwg a pherthnasol yn y penderfyniad; neu
(d) bod hynny'n ofynnol er mwyn sicrhau cyfiawnder.

33.23 **Rhaid**[34] i unrhyw gais i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gael ei wneud yn ysgrifenedig gan ddatgan sail yr apêl a rhaid i'r cais hwn ddod i law'r Tribiwnlys heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl i'r Penderfyniad gael ei anfon at y partïon.

33.24 **Caiff**[35] Llywydd neu Gadeirydd panel y Tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad adolygu penderfyniad a'i osod o'r neilltu neu ei amrywio fel y bo'n briodol, neu wrthod cais am adolygu penderfyniad os ydynt o'r farn nad yw'n rhesymol disgwyl iddo lwyddo. **Rhaid**[36] i'r partïon dan sylw gael cyfle i gael gwrandawiad cyn y ceir penderfynu ynghylch adolygiad o benderfyniad.

## _Apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys_

33.25 **Caiff**[37] parti mewn unrhyw achos gerbron y Tribiwnlys apelio i'r Uwch Dribiwnlys ynghylch unrhyw bwynt o'r gyfraith sy'n codi o benderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys. Felly, os yw plentyn, rhiant i blentyn neu berson ifanc neu'r ymatebydd yn ystyried bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir yn ôl y gyfraith, cânt apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys. Ni fydd yr Uwch Dribiwnlys yn ystyried rhinweddau'r achos, nac yn gwrando ar unrhyw anghytundebau sy'n codi o'r achos, ac eithrio pwyntiau'r gyfraith.

[33] Rheoliad 53(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[34] Rheoliad 53(2) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[35] Rheoliadau 53(3) a (4) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[36] Rheoliad 53(7) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021.
[37] Adran 81 o'r Ddeddf.

# Atodiad A: Cynllun Datblygu Unigol (CDU): Ffurflen safonol

## *Rhan 1.*

| **Adran 1A: Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol am y plentyn neu'r person ifanc[1] a manylion cyswllt** | |
|---|---|
| 1A.1) Enw llawn: | |
| 1A.2) Enw a ffefrir: | |
| 1A.3) Dyddiad geni: | |
| 1A.4) Rhywedd a rhagenwau a ffefrir: | |
| 1A.5) Lleoliad(au) addysgol presennol: | |
| 1A.6) Cyfeiriad cartref a rhif ffôn: | |
| 1A.7) Enwau'r rhieni[2]: | |
| 1A.8) Cyfeiriad e-bost (dim ond os yw'r plentyn/rhiant/person ifanc yn fodlon derbyn hysbysiadau a dogfennau'n electronig): | |
| 1A.9) Rhif(au) ffôn rhieni (os yw'n wahanol, a dim ond os yw rhiant/rhieni yn cydsynio i'w manylion gael eu cynnwys)[2]: | |
| 1A.10) Gofynion a dewisiadau cyfathrebu: | |
| 1A.11) Ar gyfer person ifanc, manylion ei gydsyniad i CDU gael ei lunio/ei gynnal: | |
| 1A.12) Materion galluedd: | |

| **Adran 1B: Cyfrifoldeb am y CDU** | |
|---|---|
| 1B.1) Y sefydliad sy'n gyfrifol am gynnal y CDU: | |
| 1B.2) Y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r CDU: | |
| 1B.3) Y dyddiad adolygu arfaethedig: | |

[1] *Mae person ifanc yn berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond o dan 25 oed*
[2] *Ni ddylid ond nodi'r manylion hyn ar gyfer pobl ifanc os ydynt wedi cydsynio i hyn ac os ydynt yn cytuno y gellir rhannu gwybodaeth â'u rhieni*

| **Adran 1C: Proffil (Amdanaf i)** |
|---|
| |

# *Rhan 2.*

Mae Rhan 2 yn cynnwys yr elfennau hynny o'r CDU y gellir apelio i'r Tribiwnlys yn eu cylch.
Mae'r elfennau hyn wedi'u marcio mewn **print coch a thrwm ac wedi'u tanlinellu**.

| **Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc** |
|---|
| |

| **Adran 2B: Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y plentyn neu'r person ifanc** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yw'n wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| **Adran 2C: Disgrifio a chyflwyno'r DDdY sydd i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2C.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2C.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| |
|---|
| **Adran 2D: Lle mewn ysgol/ sefydliad a enwir neu ddarpariaeth bwyd/ llety** |
| **2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn iddi.** |
| |
| **2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad penodol arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddo** |
| |
| **2D.3) Darpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau** |
| |

## *Rhan 3.*

| **Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU** |
|---|
| *Os yw gwybodaeth wedi'i chynnwys fel atodiad i'r CDU, rhestrwch hi yma.* |

| **Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol** |
|---|
| 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY angenrheidiol: |
| |
| 3B.2) Lleoliadau addysgol blaenorol a fynychwyd gan y plentyn (a'r dyddiadau): |
| |

| **Adran 3C:  Pontio** |
| --- |
| |

| **Adran 3D: Trefniadau teithio** |
| --- |
| |

# Atodiad B: Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal: Ffurflen safonol

Mae elfennau CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal y gellir apelio i'r Tribiwnlys yn eu cylch mewn **print trwm a choch ac wedi'u tanlinellu**.

## *Rhan 2.*

| **Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc** |
|---|
| |

| **Adran 2B: Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y plentyn neu'r person ifanc** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yw'n wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yw'n wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yw'n wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| **Adran 2C: Y DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2C.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2C.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| **Adran 2D: Lle mewn ysgol/sefydliad a enwir neu ddarpariaeth bwyd/llety** |
| --- |
| **2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn iddi.** |
| |
| **2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad penodol arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddo** |
| |
| **2D.3) Darpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau** |
| |

## *Rhan 3.*

| **Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU** |
|---|
| *Os yw gwybodaeth wedi'i chynnwys fel atodiad i'r CDU, rhestrwch hi yma.* |

| **Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol** |
|---|
| 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY angenrheidiol: |
| |
| 3B.2) Lleoliadau addysgol blaenorol a fynychwyd gan y plentyn (a'r dyddiadau): |
| |

| **Adran 3C: Pontio** |
|---|
| |

| **Adran 3D: Trefniadau teithio** |
|---|
| |

# Atodiad C: Y DDdY i'w sicrhau gan gorff perthnasol y GIG: Ffurflen nad yw'n orfodol

| **Gwybodaeth sylfaenol am y plentyn neu'r person ifanc** | |
|---|---|
| Enw llawn: | |
| Dyddiad geni: | |
| Cyfeiriad cartref a rhif ffôn: | |
| Rhif(au) ffôn y rhieni[1] (os yn wahanol): | |
| Lleoliad addysg presennol (os yn berthnasol): | |
| Iaith/ieithoedd a siaredir gartref: | |

| **Manylion yr achos sy'n cael ei atgyfeirio** | |
|---|---|
| Dyddiad atgyfeirio: | |
| Dyddiad anfon y manylion iechyd: | |
| Manylion cyswllt y corff sy’n atgyfeirio: | |

[1] Mae "rhieni" yn cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhieni.

<table>
<tr><th colspan="5">Manylion y DDdY i'w sicrhau gan gorff perthnasol y GIG</th></tr>
<tr><td>Y canlyniad a fwriedir, gan gynnwys yn y tymor byr / y tymor canolig (y flwyddyn academaidd) a'r tymor hir (trosglwyddo):</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno:</td><td>I'w chyflwyno yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith?</td><td>Angen adolygiad cynharach?</td><td>Dyddiad dechrau a gorffen / dyddiad adolygu:</td><td>Manylion cyswllt y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol:</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod:</td><td colspan="4"></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y canlyniad a fwriedir, gan gynnwys yn y tymor byr / y tymor canolig (y flwyddyn academaidd) a'r tymor hir (trosglwyddo): | | | | |
| Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno: | I'w chyflwyno yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith? | Angen adolygiad cynharach? | Dyddiad dechrau a gorffen / dyddiad adolygu: | Manylion cyswllt y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol: |
| | | | | |
| Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod: | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y canlyniad a fwriedir, gan gynnwys yn y tymor byr / y tymor canolig (y flwyddyn academaidd) a'r tymor hir (trosglwyddo): | | | | |
| Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno: | I'w chyflwyno yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith? | Angen adolygiad cynharach? | Dyddiad dechrau a gorffen / dyddiad adolygu: | Manylion cyswllt y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol: |
| | | | | |
| Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod: | | | | |